# HANES BEIRNIADAETH GYMRAEG DDIWEDDAR

[O Iolo Morganwg hyd Alan Llwyd]

R.M. JONES

2012

CYNNWYS


1. **Iolo Morganwg 3**
2. **Lewis Edwards 26**
3. **J. Morris-Jones 119**
4. **Saunders Lewis 130**
5. **Thomas Parry 200**
6. **Hugh Bevan 252**
7. **Alan Llwyd 277**

**IOLO MORGANWG**


1. **Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain 7**
2. **Mesurau 14**
3. **Archwilio Testun y Gyfrinach 16**

# IOLO MORGANWG

Ym meirniadaeth lenyddol Iolo Morganwg, fe ellir synhwyro o bell aroglau'r ugeinfed ganrif. Ar wahân i'w gampau dychmyglon a thwyllodrus mewn dull Ôl-fodernaidd, fe all y sawl sy'n gyfarwydd â symudiadau deallol beirniadaeth yn ystod y canrifoedd diwethaf adnabod yn ei waith sŵn go newydd. Ac i'r sawl sydd am olrhain datblygiadau beirniadaeth lenyddol Gymraeg, rhan o'i dasg yw hunaniaethu ac adnabod unigrywiaeth syniadaeth ddifrif a chanolog Iolo. Beth oedd craidd ei wreiddioldeb callaf ym mhob sobrwydd? Beth a'i gwnâi ef yn feirniad i'w ystyried?

Caniatäer stori.

* * *

Bythefnos cyn diwedd Rhyfel Byd II, cefais fy nal gan yr Almaenwyr, a'm dodi mewn un o garcharau lleiaf Canolbarth yr Almaen, STALAG DEIT 07. Nid oedd ond pymtheg o ddynion yno o'm blaen, y rhan fwyaf fel fi o'r awyrlu, a'n pennau'n dal yn yr awyr o hyd. Byw ar ben ein gilydd yr oeddem ni. Ac fel newyddian, bûm yn encilgar, a chadw'n dawel. Ond buan y gwelais fod arweinydd y criw, gŵr o'r enw Joc o Dum-barton, wedi hen awgrymu y gallent sefydlu trefn, i bawb yn ei dro adrodd jôc er mwyn difyrru pawb arall. Ymhell cyn imi gyrraedd yno, dihysbyddwyd y gronfa jociau oll, a'u hailadrodd hyd syrffed, a'u degfedadrodd. Erbyn hynny, *rhifwyd* y jociau, a throes y drefn o'r herwydd yn gyfundrefn. Yr hyn a glywn felly y noson gyntaf, a'r ail, oedd: '216' – bloeddio chwerthin; '74' – ubain chwerthin; ac yn y blaen. Y drydedd noson, penderfynais ymuno yn y rhialtwch, a sibrydais yn swil '50'.

Dim sŵn. Marwol oedd y derbyniad. Swiliwn yn grin i mewn i'r matras, a llechian yn is yn ei blygion. Dywedodd rhyw gymwynaswr caredig: '8⅓', ac ailgydiwyd yn y chwerthin tost. Ac ar ôl i'r nos ddisgyn yn gynnar, gofynnais yn sibrydol wrth fy nghydymaith ar y chwith, beth oedd o'i le ar '50'. 'Dim byd,' meddai hwnnw, 'ond y ffordd yr oeddet ti'n ei dweud hi.'

* * *

Pa ffordd, felly, y dywedwn y jôc 'Iolo Morganwg'? Mae'r cywair yn sylfaenol.

Dangosodd Griffith John Williams fod y ffordd y dywedwyd yr enw hwnnw gan Syr John Morris-Jones – gan boeri a ffrwtian a fflangellu – braidd yn bell ohoni, a bod ffordd amgen.

Tybiai Griffith John ar ôl ei ddifrif resymu cynnar, – fod Iolo'n haeddu yn hytrach ei gyfrif yn anad dim yn hunan-dwyllwr dychmyglon, ond bod ei holl ffugio lliwgar yn beth yr oedd y gŵr ei hun wedi mynd i'w 'gredu'. Ymgollodd yn y gwaith delfrydus o ddelweddu Morgannwg hardd a gwreiddiol a gwâr. Hynny yw, athrylith o ffugiwr oedd Iolo, a'i twyllodd ei hun i raddau.

Nid yw'n anodd gwybod *ble* i ddechrau wrth drafod ei waith. Ond anodd gwybod *sut* i ddechrau, neu hyd yn oed a ddylid dechrau o gwbl. Ceisio olrhain rhai pwyntiau arwyddocaol yn

Hanes Beirniadaeth Lenyddol Ddiweddar Cymru yr ydys yn y gyfrol hon. A cheisiaf sôn yn y fan hon am 'gyfrinach gyfundrefnol' Iolo, a hynny am resymau a ddaw'n gliriach wrth symud ymlaen. Gwyddys yn burion, sut bynnag, am ei gyfrinach arall: ei fod rywfodd yn 'credu' yr anghredadwy.

Yn y gyfrol *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain,* nid yw'r cyfansoddwr yn credu o gwbl am y gyfrol honno (neu nid yw am i ni gredu) fod yr hyn a gyflwyna – gyda sobrwydd ymddangosiadol – yn amseryddol 'ddiweddar' o safbwynt cyfansoddi. Llenyddiaeth 'hen' yw i fod a ddadansoddir ganddo yn gyfan gwbl ffug. Ei eiddo ef yw'r feirniadaeth fwyaf anfeirniadol a sgrifennwyd erioed ar ryw olwg. Ac yn sicr, nid yw'n ufuddhau i unrhyw griteria hanesyddol a sefydlwyd yn y gorllewin. Yn wir mae'r Gymru, sydd gan yr awdur, yn wlad hollol ddychmygol hefyd. Beirniadaeth mewn dychymyg yw. Ond nid oes rheol yn erbyn y fath beth.

Nid yw beirniadaeth sy'n beirniadu darn o feirniadaeth yn llai o feirniadaeth am fod y gwrthrych llenyddol yn ddychmygol. Drwy ddychymyg yr adnabyddir pob llenyddiaeth.

A ellir cyfiawnhau trafod y fath hud llewyn ffyliaid mewn llyfr difrif am Hanes Beirniadaeth? Yn sicr, haws fyddai peidio, canys tasg swrealaidd yw. Ac eto, llenor go bwysig oedd Iolo yn hanes Cymru. Ysgrifennai feirniadaeth yn ôl criteria creadigol.

Beth a ddwedai'r gweddill o'r cwmni sydd yn ein hastudiaeth o hanes beirniadaeth ddiweddar o gyfrif hwn yn gyd-feirniad iddynt? Yn arbennig tri pharchus o blith y rhai sy'n ei ddilyn – Lewis Edwards, John Morris-Jones, a Thomas Parry? Beth bynnag a ddywedent, un argyhoeddiad sydd gennyf i yw, lwyddo neu beidio, yr ydys dan orfodaeth i geisio darbwyllo'r darllenydd fod hwn yn un o'n beirniaid i'w gymryd o ddifrif. Tad beirniadaeth fodern y Gymraeg oedd, mewn gwirionedd. Datblygwyd barn negyddol amdano, mae'n wir. Mae arnaf ofn y byddaf innau'n dweud yr enw 'beirniad' mewn ffordd wahanol i'r ddau J. Morris-Jones a G.J. Williams, a chyda gogwydd cyfnewidus am Iolo nas arddelent hwy. Yr wyf erbyn hyn yn credu o ddifri y gall nad oedd ef ei hun o ddifri o gwbl, ar ddechrau'i yrfa feirniadol, pan fyddai ar ei ben ei hun. Gartref yng nghanol aroglau opiwm ei fwthyn yn Nhrefflemin neu yng nghanol ei waith corfforol ym mynwent Llanilltud Fawr, byddai'n torri i chwerthin yn ei ddyblau yn fynych, rwyf yn bur siŵr. Rhialtwch ymhlith y beddau. Ond gwyddai mai tynnu coes yr oedd: yr oedd yn rhy ddeallus ac yn rhy hwyliog ei anianawd i gyfaddef llai. (gw. SB 367-358, 375-377). Comedi oedd ei fframwaith; rhaid nad oedd wedi methu â sylweddoli'r jôc bob cam. Tynnu coes oedd ei feddylfryd creadigol. Prin bob amser mewn llenyddiaeth yw'r ddawn gomedïol. Yn y Gymraeg, yr oedd y ddawn gan Ddafydd, a Gwerful Mechain: yr oedd hi gan rai o'r ymrysonwyr Cymraeg, yr Hen Benillion ac O! Lewis Morris. Ond tueddwn i'w cymryd hwy o ddifrif fel digrifwyr difrif braidd. Difrifwr o fath arall a'i cymerai'i hun braidd o ddigrif oedd Iolo.

Deuthum fwyfwy i gasgliad yn ddiweddar mai chwarae jôc a wnâi Iolo yntau yn yr encilion

ar y dechrau, gan chwerthin rhyngddo ac ef ei hun. Ni ddisgwyliai i bobl ddeall y jôc. Dyna'r rheswm y caed parodïo allweddol gan y beirniad hydeiml hwn, – mewn amwysedd weithiau, – mewn llythyr o'r bedd dro arall (gw. SB eto), – a'r blas diamau am gael y trechaf yn y diwedd ar bobl y parlwr drwy'r amser. Ni allai lai. Testun diddanwch oedd y traddodiad Cymraeg iddo. Caed sylfaen ystyfnig i'w sbort. Yn ôl Brun Snell, Aristophanes oedd tad Beirniadaeth Lenyddol Ewrob, nid Aristoteles. Ie, Aristophanes a'i ymosodiad ar Ewripedes a'r Sefydliad llenyddol. Ffurf anodd iawn yw Comedi, oherwydd ei bod yn dibynnu'n rhy ffyddlon ar ffasiwn cymdeithas a thopicaliaeth ar y pryd o ran dychan ac ieithwedd. Ac felly, anodd fu hi yn achos Iolo ymhlith deallusion – braidd yn arwynebol. I'r crwt ifanc hwnnw, chwarae jôc ar y Sefydliad Dysg annysgedig yr oedd ef ar y dechrau. Dyna'i wir feirniadaeth lenyddol ef. Ef a'i wybodaeth wedi'i chasglu drwy chwys a dwlu. Gallai dynnu coes orddifrif y 'deudneudwyr' yn y maes hwn, doedd dim dau. Ond nid oedd hiwmor o raid bob amser yn fater digrif yn unig. Yn hytrach, fe haerwn i fod hiwmor bob amser yn traethu barn, hyd yn oed Barn. Yn sicr, mae parodi bob amser yn feirniadaeth lenyddol. Comedi oedd beirniadaeth i Iolo. Ac mewn parodi y pwysodd ef y traddodiad llenyddol Cymraeg. Yn hyn o swrealaeth ac o danseilio, yr wyf am ddechrau'i bwyso.

Dyna pam yr wyf am ddechrau mewn twll deuol. O'r golwg, ar y llawr y tu ôl i'w gadair gynt, byddai'i feddwl efallai'n chwarae tric ar Iolo, yn parodïo, yn cael yr hwyl ryfeddaf. Ond gerbron y byd, wedi gollwng yr ysgyfarnog o'i ymennydd yn rhydd, roedd ganddo waith amgenach i'w wneud. Sef dweud y gwir am fywyd fel pob artist gan gollwng ei ddychymyg dros y perthi.

Wrth drafod gynt Hanes Beirniadaeth Gymraeg yn yr Oesoedd Canol (*Meddwl y Gynghanedd* 281-283), fe geisiais ddadlau, yn ystod ei chyfnod arloesol a chyfoethocaf, ac yn ei man cryfaf a mwyaf myfyriol, fod beirniadaeth wedi dechrau o ddifri gydag Einion Offeiriad mewn Noson Lawen. Wrth ddyfynnu 'enghreifftiau' ganddo'i hun, dôi Einion yn Iolo. Felly y bu hi hefyd, drachefn, ar ryw olwg, yn hanes Beirniadaeth Ddiweddar gyda chyfraniad Iolo. Yr oedd ef wedi cenhedlu'r hiwmor yn y lle cyntaf mewn gradd o ddifrifwch, mae'n wir. A dyna'r dull a gymerwn innau bellach wrth geisio dweud yr enw 'Iolo Morganwg' ar ddechrau'r gwaith hwn o olrhain Hanes Beirniadaeth Gymraeg Ddiweddar. Ef oedd Tad yr hwyl a'r heli hallt. Bu pob jôc yn feirniadaeth ganddo, er nad oedd pob beirniadaeth yn jôc i eraill. Felly, barn o fath oedd ei fywyd.

* * *

Rhy foesegol farnedigaethol (*judgemental*) yw'r term 'twyllwr' i fod yn bennaf disgrifiad o'i gymeriad. Cael hwyl yw cymhelliad cliriaf pob parodïwr. Cwmnïwr da oedd Iolo. Yn llythyr 831 ato, medd Walter Davies (Gwallter Mechain): 'you were, I presume in good spirits and kept the table in a roar by your effusions.' Mae Iolo ei hun yn gorffen llythyr 820 at Evan Williams (16/1/1810): 'I have twenty good reasons, said somebody, for not buying the horse now, the first of

which is, I have no money, and I had twenty good reasons for concluding my letter sooner, the last of which is, and I allow its force, I have no more paper.' Heblaw hwyl parodïo, y mae coegi yn adlewyrchu yr elfen o sbort a gyfeiriai'i anianawd. Meddai llythyr 825 at ei ferch Ann (Nancy) Williams (5/5/1810). 'Your mother is as well and as able to scold as ever.' Ac yn ei lythyr 888 at George Dyer (15/2/1811), tan gyfeirio at atheistiaeth William Godwin, 'I have a great regard for him, and hope that he is well, and as happy as a man of no future prospects can be.' Dyma ddarn o lythyr 1132, ' As for me – wonder of wonders!!! – a tea sot afflicted with the gout! ... If our modern Tegid will not attend, when he may find it convenient, to assist on this occasion, I will satirize him as severely as the ancient Tegid was satirised by the bard of Pwll Gweppre. Now I may suppose, if I please, that this will frighten him to death, and that to escape the severe judgement (for I will not forget or omitt the *rhaff*) he will attend.'

*Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*

Dechreuwn *Hanes Beirnadaeth Gymraeg Ddiweddar* mewn man enigmatig felly; ond hynny sy'n gweddu.

Beth yw ystyr 'Diweddar' yn hyn o daith? holai fy nghyfaill Philip yn ddiymdroi. A bu'n rhaid i mi ateb, o safbwynt confensiynol Hanes Llenyddiaeth, mai '*Rhamantiaeth*' a'r '*Oleuedigaeth*' oedd y ddau symudiad a ddynodai ddechrau'r cyfnod 'diweddar' seciwlar i Gymru, o leiaf yn fy meddwl i. Cafwyd dau hen lwybr (neu 'lwybreiddiad' fel y'u galwai Iolo – ac Euros efallai) a ogwyddodd ar drywydd newydd tua'r ddeunawfed ganrif, – dau Fetanaratif a oedd, yn ddigon penodol i bawb, yn ymdeimlo ag awyrgylch ac arddull ac egwyddorion 'diweddar'. Byth ar ôl hynny arhosodd yr ysgogiadau hyn yn ddatblygol ond yn barhaol yn ein plith.

Yr oedd y cyfuniad deuol hwn ei hun yn enigmatig. Gellid cysylltu'r mudiad '*Ymoleuo*' â Rheswm, â'r mudiad '*Rhamantiaeth'* â Rhyddid; y cyntaf â Rhesymeg a Phositifiaeth a'r ail â Theimladaeth ac Empeiriaeth. Mae yna elfennau felly a oedd yn wrthddywedol yn y paru hwn. Ond cyd-fodolent gyda'i gilydd. Ac yng Nghymru, yn amlwg iawn, cyd-fodolent ar y dechrau mewn un dyn bach. Hwn. Troes ef ei resymeg yn rhamantaidd yn *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain.* Yr oedd hyn hefyd yn rhan o'r hwyl. Gyda honno y dymunaf innau ddechrau'r arolwg bach hwn o Hanes Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg Ddiweddar. Carnifal o ddyn ydoedd. Ymddengys i mi ei fod ef yn dynodi trobwynt go eglur yn hanes trafod llenyddiaeth yn y Gymraeg. Go brin fod neb mor hyddysg ag ef yn iaith, hanes, llawysgrifeg a llenyddiaeth Gymraeg ar y pryd, na neb chwaith wedi sgrifennu cymaint ag ef am y pynciau hyn. Ond wedi enwi Iolo Morganwg (1746-1826) fel paragon doniol mor amryfal, y mae amheuon ar unwaith yn codi. Beirniadaeth? Ysgolheictod? O Ddifrif! Iolo!

Llenor amryddawn a ffrwythlon iawn oedd ef, debyg iawn, os anwastad. Yn sicr, gadawodd

ar ei ôl gyfoeth rhyfeddol o ysgrifeniadau. Ac yn wir, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, cafwyd cynhaeaf eithriadol o bwysig o gyhoeddiadau gloyw yn gysylltiedig ag ef – er mai detholiad (helaeth) yn unig o'i weithiau ef dros gyfnod sylweddol a gafwyd. Gwelem ei Resymoliaeth yn y cannoedd o emynau undodaidd dyneiddiol a luniodd. Cafwyd llawer o lythyrau a adlewyrchai'i radicaliaeth wrthryfelgar boliticaidd. Yn y ddwy wedd hynny, ceid gŵr gweithgar, ond dyngarwr digon confensiynol, 'Bardd Rhyddid' yn pleidio (yn weddol ynysedig yng Nghymru, efallai, ond nid yn unigryw o bell ffordd) rai o'r mudiadau ystrydebol ddiwygiol a darddai o'r ddau chwyldro, yr Americanaidd a'r Ffrengig. Dyma ddwy duedd a ddaeth maes o law yn gysglyd dderbyniol i drwch y boblogaeth gydymffurfiol Gymraeg ddeheuol. Pethau radicalaidd arferol fel gwrth-gaethwasiaeth a gwrth-gyfoethogion. A gwrth-ogleddwyr. Popeth yn gytûn.

Tybiaf, wrth synied am Themateg Iolo Morganwg, hynny yw am y themâu a'r agweddau syniadol a theimladol a brofai, y gellid enwi'n rhesymol ddwy wedd ar ei ysgrifeniadau a luniai o dan ei enw ei hun, – yn bennaf yn ei brydyddiaeth Saesneg, (gan gynnwys ei emynau), a'i lythyrau rhyddiaith. Yn yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen drwy'r ddeunawfed ganrif, yr oedd Protestaniaid a Chatholigion yn gallu ymuno i wrthwynebu rhesymoliaeth y Deistiaid. Hynny yw, gwrthwynebent Reswm a fynnai ragdybied eu bod heb yr un cysylltiad cadarnhaol â datguddiad goruwchnaturiol. Yn y duedd ddeistaidd honno y câi Iolo un safbwyntle. Gallai'r dyn fod mor rhesymol.

Ond yr oedd yna wedd arall ar ei agwedd at grefydd a gwleidyddiaeth. Dyma'r math o gredu a gysylltid yng nghanol yr ugeinfed ganrif â'r ymollwng a geid gan bobl mewn *diwinyddda a gweithredu 'creadigol'*; ac yn arbennig â'r *ysgol a enwid yn 'Ddiwinyddiaeth Ryddhaol' (Liberation Theology).* Mae'n od synied am Iolo yn moesega'n ysbrydol ryddfrydol ar ganol yr ugeinfed ganrif, ond felly y buasai. Ac eto, gellir yn ogystal ei weld yn cydymdeimlo â lleiafrifoedd neu israddolion neu ddioddefwyr anghyfiawnder cymdeithasol o lawer math megis y Duon, yr Americanwyr Lladinaidd, yr Asiaid, y Ffeminyddion, y Cenhedloedd bach, amryfal Ecolegwyr, Heddychwyr, a'r Gweithwyr tlawd. Ond teg cofio'n fwyaf penodol y buasai ganddo ymrwymiad moesegol thematig dwfn yn y ddwy wedd hyn yn ei fywyd heddiw. Dyn o'r ugeinfed ganrif oedd hefyd: alias arall.

Ond mewn ffug y blodeuodd yn arbennig. Nid dyma'r lle, yn drydydd, i amlinellu rhyfeddod ei weithgarwch o fathu a ffugio, na'r hyn a 'gasglodd'. Gwyddom am rym ei greadigrwyddd difrif. Ac yma ac acw, yn ei waith dychmygol, yr ydym yn sylweddoli bellach fod yna gyfoeth heblaw llawer o ddogfennau ganddo sy'n werthfawr i haneswyr dilys ei oes. Ceir llawer o fathiadau dyfeisgar ymhlith y rhain sy'n ddifyr annisgwyl a 'dibynnol' hyd yn oed, ynghyd â phethau nad ŷnt fawr mwy na dyfeisiau llancaidd ecsentrig. Ceir sylwedd ynddynt i adlewyrchu un o gymeriadau mwyaf rhyfeddol a newydd ein gwlad a'n llên. Ond ceir hefyd rai creadigaethau

barddonol sy'n ei godi fel y gellid ei gyfrif yn brif fardd seciwlar Cymraeg y ddeunawfed ganrif. Eto, yn fy marn i, nid dyna'i bennaf gorchest. I'm bryd i, ei gyfrol *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain,* cyfrol a gyhoeddwyd, ar ôl ei farwolaeth, a'i golygu (heb ei golygu'n llawn) gan ei fab Taliesin Williams 1829, hon oedd, o safbwynt gwerthuso, campwaith strwythurol ei yrfa. Ac wrth hawlio hynny mewn cyfrol ar *Hanes Beirniadaeth Gymraeg Ddiweddar,* y mae'n ofynnol imi ystyried pam a sut y gellid defnyddio'r fath radd eithaf. Drwyddi, yr oedd iddo le mawr yn hanes Beirniadaeth, prif feirniad y ddeunawfed ganrif yng Nghymru: fel bardd yr oedd tua'r hanner-canfed o ran camp yn rhestr beirdd Cymru erioed – fawr uwch. Mae'r deall yn gorfodi gwerthuso fel yna.

Rhwng Simwnt Fychan a J. Morris-Jones, y gyfrol hon yw'r llyfr pwysicaf o feirniadaeth lenyddol a gafwyd yn y Gymraeg. Hawdd dweud mai sothach yw'r cwbl, heb ystyried y cam mawr ymlaen a wnaethpwyd. Ffug yw holl ysbryd y gwaith. Cymysglyd yw o lawer iawn o greadigaethau dychmygol; ac ychydig o'r 'gwirionedd' cryno realaidd cronolegol sydd ynddi. Ond... a chyda'r 'ond' hwnnw y mae pob llenor yn dechrau. Ond... gan mai dychymyg yw peth o bob un gwaith hanesyddol 'parchus' ym maes ysgolheictod (dethol dychmyglon o fath yw'r cyfan o'r brig i'r bôn), bydd gofyn inni dderbyn fframwaith priodol i ddarllen a deall ymhle yn y byd y ceir y rhagoriaeth feirniadol yng ngwaith Iolo,... neu frysio o'r tu arall heibio. Ac a oes ganddo Wirionedd o fath dieithr i'w ddweud wrthym? A oes 'gwir' yn ei ddychymyg, dyweder? Beth yw 'ffaith'?

Credaf fod y gyfrol feirniadol hon wedi'i sgrifennu tua 1780-1790, peth ohoni yng ngharchar Caerdydd. (Gobeithio y ceir plac yno ryw ddiwrnod). ***Dyma'r gyfrol gyntaf yn y byd i ddefnyddio dulliau strwythurol neu ffurfiol modern i ddadansoddi neu ddisgrifio barddoniaeth. Felly, Cymru yw cartref cyntaf Ffurfioleg, efallai, yn Theori Lenyddol Ewrob.*** Ni wn am neb ym myd llenyddiaeth ar y blaen iddo a oedd wedi efrydu'n ddychmyglon ddamcaniaethau gweledigaethol y biolegydd Linnaeus, a'u defnyddio'n llenyddol. Tad Strwythureg wyddonol ddiweddar oedd Linnaeus. Ac roedd Iolo wedi meddu ar ddigon o ddeallusrwydd, o grebwyll, ac o wybodaeth mewn llenyddiaeth i gymhwyso'r theori fiolegol i lenyddiaeth.

Y gwir yw bod Iolo, ar gefn gwaith Simwnt Fychan a gramadegwyr arloesol yr Oesoedd Canol, wedi ceisio adeiladu neu arolygu Cyfundrefn o gyfundrefnau newydd. Cyfunodd hen strwythureg gramadegwyr yr Oesoedd Canol â Strwythureg newydd danlli grai Moderniaeth. Nid yw Cymru'n gyfarwydd â mentro theoretig o'r fath. Gwell gennym, wrth bwyso rhywun fel hwn, label confensiynol fel 'rhyddfrydol', a hynny mewn 'gwleidyddiaeth' a 'chrefydd', neu hyd yn oed y 'twyllwr' a'r 'celwyddgi rhamantus'. Ar ryw olwg, yr oedd y syniadaeth honno amdano yn llygad ei lle, eithr yn anwybyddu traddodiad Cymru. Y gwir yw bod Iolo'n fwy o rebel nag a dybiai'r Sefydliad confensiynol: soniai ef am 'a compleat system of versification', hynny yw 'paradigm'.

Meddylier. Creodd fwy o fyd na'i Forgannwg hyd yn oed. Creodd fyd systematig mewn

beirniadaeth. Peth llawer mwy gwreiddiol na'i rigolau gwleidyddol a chrefyddol, poenus o arferol, yn ystrydebol radicalaidd. Mynnai fod yna'r fath beth â dull cwbl arloesol strwythurol ac egwyddorol yn bosibl ym myd Mydryddiaeth. Cafodd olwg ar fframwaith cynhwysfawr cydlynol, a allai ddarparu o bosib ddull o ddadansoddi llenyddiaeth oll mewn dull hollol arloesol. Deallai rai o egwyddorion mawr ac arloesol Cyfundrefneg. Canfu deuluoedd strwythurol o fewn yr adeiladwaith mawreddus hwn, a'r rheini oll mewn math o hierarci. Beth bynnag a feddyliwn am Systemateg Iolo fe'i seiliai – yn y pen draw o leiaf – mewn llenyddiaeth Gymraeg, fel y dylid, mewn systemwaith a geid yn y gwrthrych ei hun, a phresenoldeb naturiol system go iawn yno. Ac enghraifft deg o hynny oedd y triawd, a diddordeb cwbl obsesiynol Iolo mewn Trioedd. Clywn yn y frawddeg ganlynol y gŵr a fyfyriai'n ddiau mewn modd systematig am fywyd: Edward Williams, *Poems, Lyric and Pastoral* (2 Vols. London, 1794) II, t.225: '*Of all the Aphoristical forms, used by the* Bards, *the TRIAD is the most common; it is short and simple; the relations, resemblances and connexions, of its parts to and with each other wherein all are centred, render it the most useful of any.*'

Yr oedd Linnaeus ar gael yn y fan yna (ynghyd ag Acwin, Kant a Hegel!), yn ogystal ag yn yr awyrgylch yn ystod y blynyddoedd y bu Iolo'n llunio'r holl gyfrol feirniadol hon. Yn rhyfedd iawn, yn Abertawe (o bobman), o 1800 hyd 1806, cyhoeddwyd gweithiau Linnaeus, yn saith o gyfrolau. (gw. nodyn yn WHR 22, no. 3, 2005, 490, 'The Urban Experiment of Iolo Morganwg.') I Iolo, bu'i waith yn fwy nag ysgogiad i adeiladu byd systemataidd. Rhoddodd i Iolo ffordd newydd o ymagweddu at Ramadegau Cymraeg yr Oesoedd Canol. Yn y syniad o 'system', ceir ynghudd yr ymwybod o ddelfryd ac o absoliwt; ac yna, dau (neu dri) yn un. Yn y Gymraeg, fe lwyddwyd i ddod o hyd yn natblygiad y Gynghanedd erbyn heddiw i ymdeimlad o sefydlogrwydd hyd yn oed. Mae hyn yn gysylltiedig â'r nod o 'berffeithedd', sydd yn normal ac yn gywir, os yn amhosibl, mewn rhywbeth o'r fath. Ond cysylltu a wna ef ganfodiad yr Oesoedd Canol â'r canfodiad aeddfed o gyfundrefn heddiw. Meddai Iolo yn Llythyr 1090, 'I have added short, but I hope clear, views of the ancient systems of versification: the primitive, the Middle Age systems, the Glamorgan and Carmarthen systems... The supposition, systems or institutes of Gruffudd ap Cynan may do very well for romances... The N. Walian musical system or institutio was probably enough introduced by Gruffudd ap Cynan. It is at any rate of Irish, not of Welsh origin... I have written the skeleton of an essay on this Hibernian system of music.' Y gair 'system' am flynyddoedd a reolai'i ymwybod ef o Gerdd Dafod. Ar hyn o bryd yn ein hanes (efallai bob amser gan mai isymwybodol yw natur 'Tafod', o'i gyferbynnu ag arbrofaeth 'Mynegiant'), anodd gwybod sut y bydd, yn wir a fydd byth mwyach, ddatblygiad amgenach na chwyldroadol i hyn yn y dyfodol. Ond yr oedd awydd Iolo i gael 'system' gystadleuol yn y Canu Rhydd, ac i fod yn negyddol ei feirniadaeth o'r Canu Caeth 'Diweddar' (bondigrybwyll): yr oedd hyn yn adlewyrchu yr un awydd delfrydus hwn.

Gwelid ei syniad am gyfundrefn yn codi'n fynych yn ei lythyrau. Wrth lunio'r hyn a ystyriai yn 'bardic alphabet', awgrymai II 602: 'The three primary letters /|\ (whence all others spring) are those, and those only, that represent the ineffable name of deity, a name that must never be pronounced.' Mynnai wreiddio beirniadaeth mewn diwinyddiaeth. Meddai ef: 'The Welsh term 'bwrw'r goelbren' is properly 'to cast the letter' in English'. Dyma ef yn mynd ati felly i ddyfeisio ffordd hynafol o ddylunio Gwyddor gyntefig ysgrifennu Cymraeg; ond myn ddefnyddio'i feddwl yn systematig drwy wreiddio'n ddoeth mewn safle meddyliol Absoliwt, tarddiad trefn ddeuol a thriol.

Wedyn, mae'n cyferbynnu Cyfundrefn y De o brydyddu â Chyfundrefn y Gogledd:
II 741-2. 'You [Wm O. Pughe] gave me once to understand that Mr Jones was prejudiced against it [*Cyfrin. Beirdd Y.P.*], and that he disapproved of its being introduced in the 'History of the Bards' in preference to the system that has for almost 400 years prevailed in north Wales... When I brought 'Cyfrinach y Beirdd' with me to London in 1791 or '92, I imagined that it would be considered as a valuable acquisition amply supplying the defects of the common system, but so far from this did I find that Sion Ceiriog, several others, even Mr Jones himself [Owain Myfyr], exhibited the clearest marks of their prejudice against it – why, I know not...'
746 [Sonia am fersiwn ffug o *Bardhoniaeth, neu Brydyddiaeth* gan Wiliam Midleton]: '[I]t is in many respects the best that has appeared on the system which h[e] adopted, and contains a deal of useful instruction and observation that [a]pply to any other system very well...at the end, as an appendix, to teach [w]hat the author (Llywelyn Sion or Edward Dafydd, it is not very clear which) [calls] *dosparth Caerfyrddin neu un Dafydd ap Edmwnt* [the Carmarthen system or that of Dafydd ab Edmwnd].'

Gwyddai'n burion beth oedd y syniadaeth gyfoes ar y pryd. Ef oedd y cyntaf yng Nghymru i feddwl am Feirniadaeth fel Gwyddor. A chadwai'r wybodaeth honno yng nghefn ei feddwl:
II 196 'No new writer on the very useful science of rhetorick seems yet born amongst us; a new edition therefore of an old writer would be of use. I cannot help thinking Perry's book a good one, and that it will not shrink from a comparison with Blount, Smit[h], Hobbes, Blackwall, Stirling, Goldsmith, &c. These English authors I have, and think the best of them not superior to Perry...' [Eglvryn Phraethineb; gw. Huw Walters, *Llyfryddiaeth 1735-1850, t.36*]

Yr oedd gan Iolo feddwl systematig. Pwy a fuasai'n synied ar y pryd fod a wnelo *ieithyddiaeth gymharol* â beirniadaeth lenyddol? Ond cymerer dryll o lythyr gan Iolo at Evan Williams (12/5/1819). Sylwer fel yr oedd Iolo yn defnyddio Ieitheg Gymharol yn y fan hon wrth drafod Mydryddiaeth. Ac y mae yn llygad ei le mewn amryw ffyrdd. Ond dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd yng Nghymru – onid yn unlle yng Ngorllewin Ewrob. Ac adlewyrchai hyn ei ddychymyg a'i graffter, a'i barodrwydd i'w mentro hi. Hefyd adlewyrchai wirionedd ynghylch paramedrau

beirniadaeth lenyddol ei hun. Roedd Iolo wedi bod yn ddiau yn pendroni am yr acen mewn mydryddiaeth Gymraeg, pwnc priodol ac angenrheidiol i feirniad o Gymro, gellid meddwl.

Llythyr 1093:

*'The Welsh has fewer iambics than any language known, perhaps. All its words of more than one syllable end trochaically or accented on the penultimate, excepting verbs derived from adjectives, as 'parhâu', 'parhâd', 'parhâd,' 'parhânt', 'parhawn', 'llawenhau', 'llawenhâd', 'llawenhânt', 'llawenhawn'... Verse should always be that the most natural of all others to the language wherein the poet writes. Iambic is the most unnatural of all others to the Welsh language. Hexameter, trochaic verse, &c. are very natural and well adapted to the Welsh euphony, and specimens of each may be seen in the ancient bards...'Ni ommedd yr haul ei wres i'r adyn a boer yn ei wyneb.' (Cattwg);... 'Cariad aur fwriad ar forwyn liw calch, lunieiddfalch lon addfwyn.' (Bach Buddugre);... the specimen of Cattwg in free unhampered verse as it ought to be in epic poem, that of Bach Buddugre in alliterative jingle, proper enough in small poetics.'*

Nid oedd tystiolaeth Iolo am ieithoedd eraill yn y fan yna yn fanwl gywir, fel y tystiai ieithoedd megis Eidaleg a Sbaeneg. Ond yr hyn sy'n ymddangos i mi yn unigryw ynghylch aceniad y Gymraeg, ac sy'n cyfrif am yr odli diacen-acennog (ymhlith pethau eraill) yw bod y goben yn dwyn acen bwys wrth gwrs, ond y sillaf wedyn yn Gymraeg (sydd heb acen bwys ers y Cynfeirdd) yn cadw traw er bod yr acen bwys wedi symud oddi yno. Yr oedd Iolo yn gywir yn ei gymhariaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ble y ceid beirniaid yn meddwl yn fwy dychmyglon am yr iaith Gymraeg ar ei ôl?

Mae gennym bellach fwy o ddefnyddiau ar gyfer astudio meddwl a gwaith Iolo nag odid neb arall yn hanes ein llenyddiaeth yn y cyfnod cynt – diolch i'r gyfres fawrhydig safonol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd dan olygyddiaeth egnïol Geraint H. Jenkins, ac i'r casgliad sylweddol Llanover MSS. NLW. 13061-184 a gatalogwyd yn y Llyfrgell; yn ogystal ag yng ngwaith athrylithgar G.J. Williams IMCY, TLlM, ac IM; yn ogystal eto â chyfrolau diddan Ceri Lewis a Prys Morgan. Erys o hyd yr angen am argraffiad llawn, dadansoddol o'i brif waith beirniadol.

Bu Iolo'n astudio Simwnt Fychan, a chyfrol William Salesbury ar Rethreg a sgrifennwyd ym 1552 ac a seiliwyd ar Petrus Mosellanus, *Tabulae de Schematibus et Tropis,* yn ogystal â chyfrol Siôn Dafydd Rhys a gyhoeddwyd ym 1592. Gwnâi nodiadau ar y rhain oll, nodiadau a oedd yn berthnasol i'w efrydiau ynghyd â sylwadau myfyriol creadigol megis yn Llsgr 13089 E (Llanover C.2) tt. 286-9, 322-7, 361; 13091 E (Llanover C. 4) 327-30; 13093 E (Llanover 6) 189-92; 13094 E (Llanover C. 7) 101, 139-40, 142, 183-4; 13096 B (Llanover C. 9) 85-6, 124-44, 171-94; 13098 D (Llanover C. 11) 11-21; 13100 B (Llanover C. 13) 1-20; 13106 B (Llanover) 80; 13158 A (Llanover

C. 71) 200-201.

Priodol cofio nad y gyfrol *Cyfrinach y Beirdd* felly oedd yr unig feirniadaeth lenyddol a sgrifennodd Iolo. Mae ei gyfrol Saesneg *The History of the Welsh Bards,* – er bod cryn ddychymyg yma eto, a hithau'n crybwyll beirdd na fuont erioed, – yn dal yn bwysig. Y mae'r gwaith hwnnw'n cyfnodi ac yn dosbarthu beirdd, heblaw ei sylwadaeth am eu harddull a'u ffurfiau a'u gwerth. Dynoda ddeallusrwydd ffres Iolo ar y pwnc. Yn hanes beirniadaeth brydyddol, deil hyn yn wir arloesol. A pherthyn i'r un meddwl dosbarthol, dadansoddol â'i brif gyfrol, er yn fwy 'confensiynol' o ran patrwm. Mentr go newydd oedd dosbarthu neu gyfnodi mathau o farddoniaeth yn y dull hwn.

Gwaetha'r modd, nid yw *Cyfrinach Beirdd Y.P.* yn trafod fawr o'r cynganeddion eu hunain, yn arbennig yr hyn a ystyriwn bellach yn 'Dafod'. Y mesurau, y rhan fwyaf ystwyth ac arbrofadwy ac arwynebol (yn ystyr Mynegiant y gair) yn unig, dyna sy'n mwynhau sylw ei ddull dadansoddol. Gymaint o gaffaeliad fuasai hi heddiw pe bai wedi canfod perthynas Tafod/Mynegiant.

Gwelaf fod y cwbl a wnaeth yn fath o freuddwyd, rywsut, yn ffrwydrad o greadigrwydd obsesiynol. Sonia llawer un am ei gymhelliad cenfigennus o Gymry diwylliedig Llundeinig Gwynedd. A dichon fod hynny'n fath o is-gymhelliad ymylog. Ond nid yw'n ddigon o bell bell ffordd. Nes ati, gredaf i, yw'r disgrifiad a wnaeth Prys Morgan o'r peth fel 'mystic...druidic vision.' Mae'r gair 'Cyfrinach' y beirdd yn nheitl ei brif gyfrol yn ei ddelweddu ef ei hun yn tyrchu mewn cyfeiriad 'ysbrydol' a chyfrin, peth a oedd wrth fodd ei anianawd. Nes hefyd yw meddwl amdano'n berson creadigol yn syml, yn mwynhau adeiladu delfryd i Forgannwg, ac yn creu byd. Cymeriad creadigol oedd ef hyd flaenau'i fysedd. Gwelodd ef bethau. Dyma sythwelediad a gweledigaeth.

Mae rhai yn amheus iawn o'r term 'ysgolhaig' i'w ddisgrifio, felly. Yr oedd yn rhy anghyfrifol i apelio at ddant academydd. Ac yn sicr yr oedd J. Morris-Jones, a hyd yn oed G.J. Williams yn gynnar, yn bur hirwep ac yn llythrenolwyr rhonc yn eu hagwedd at ysgolheictod bol-clawdd y Gwyddel trampiol o Gymro cyfeiliorn hwn. Ond daeth G.J. Williams, sut bynnag, fwyfwy i'w barchu a'i fawrygu, hyd yn oed i'w 'gredu'. A hawdd caru'r ddelwedd o Iolo druan ar ddiwedd ei oes, yn ei wendid a'i boenau a'i iselder, fel Guto'r Glyn o annwyl. Crybwyllai J. Morris-Jones yntau enw Linnaeus yn resynus yn *Cerdd Dafod* 376, 377, 378; ac mae ganddo adran yn trafod 'Dosbarth Iolo Morganwg'. Ond perthynai Syr John i gyfnod arall; ac nid oedd ganddo mo'r amynedd na'r llam annibynnol i gyd-deimlo â'r Iolo dychmyglon.

Eto, fel Iolo, rhoddai J. Morris-Jones lawer mwy o bwyslais mewn Cerdd Dafod ar adeiladwaith rhesymegol a pheiriannol mesurau nag a wnawn i. Y mae ei drafodaeth ar Iolo, er gwaethaf yr ymosodiad, yn nodweddiadol ddeallus, ac yn un o'r pethau gorau sydd gennym o hyd ar y beirniad gwyllt. Ond po fwyaf y pensyniaf am hierarci'r weithred lenyddol, ac yr ymholaf sut y mae cyfundrefnau yn cael lle yn y fath beth â llenyddiaeth, mwyaf y byddaf yn tybied fod y lle sydd

i Gyn-fynegiant yn ein meddwl theoretig ac mewn cyfundrefneg iaith a llên cyn bwysiced bob dim â Chyn-dafod. A Chyn-fynegiant oedd y lefel briodol a âi â bryd Iolo. Ond gwell i mi f'esbonio fy hun.

*Mesurau*

Er mwyn disgrifio a diffinio ymgais Iolo Morganwg i ddarganfod strwythur y Mesurau, y mae'n ofynnol imi geisio diffinio'n union beth yw natur ac arwyddocâd **Cyn**-dafod a **Chyn**-Fynegiant. Mae'r naill a'r llall gennyf yn gysyniadau newydd. Ond dyma Dad Beirniadaeth Ddiweddar Gymraeg, Iolo Morganwg, yn mynd ati i gymhwyso casgliadau Tad Systemateg Ryngwladol fodern oll, Linnaeus, o faes Botaneg i faes Mydryddeg. A oedd hyn yn enghraifft o wallgofrwydd ffansi Iolo, neu ynteu a oedd yn ŵr disglair wedi cael gweledigaeth a chanfod egwyddor bwysig, beth bynnag a wnâi â hi? Er mwyn egluro ffiniau'i ddarganfyddiadau celfyddydol croyw, ceisiwn gyferbynnu pedwar cyflwr mewn strwythureg ieithyddol a llenyddol.

Beth yn union yw Cyn-dafod o'i gyferbynnu â Thafod yn gyntaf? Bethais y Term **Cyn**-dafod i gyfleu'r cyflwr meddyliol sy'n *rhagflaenu* **pob** Tafod unigol mewn ieithoedd gwahanol. Cyflwr rhyngwladol cyffredinol yw. Yn fras, gramadeg unigol pob iaith unigol yw ei 'Thafod'. Astudio Tafod yw astudio beth yw priodoleddau a strwythurau unigryw a gwahanol yn y meddwl wrth adeiladu dyweder gyfundrefn y ferf neu gyfundrefn y fannod mewn iaith benodol. Dyma'r gyfundrefneg mewn iaith arbennig unigryw sy'n rheoli ac yn cyflyru'r Mynegiant yn y golwg; ond ynddi'i hun, fframwaith yn y meddwl i amodi a rhoi ar waith y Mynegiant unigol amrywiol yw Tafod. Y mae 'Cyn-dafod', sut bynnag, yn perthyn i gwlwm o ieithoedd, onid i bob iaith yn debyg o ran egwyddor neu deulu. Mae yna gwlwm o gyfundrefnau cynhenid sy'n rhagflaenu pob trefn ieithyddol. Dyma'r cyfundrefnau sydd *o fewn ffenomen* ***'cyfundrefn'*** *ei hun,* fel y cyfryw. Y rhain yw'r cyfundrefnau sy'n 'gwneud cyfundrefn'. Egwyddorion iaith fel bodolaeth yw. Mae'n cynnwys ansawdd megis 'gwahuno', sef yr anghenraid mecanyddol ym mhob iaith i gyfuno'n *un* weithred y symudiad i *Wahanu a Chyferbynnu* ynghyd â'r symudiad i Uno a Chydlynu. *Mae'n cynnwys y drefn o gyfuno Ffurf a Deunydd, neu Adeiladwaith ac Ystyr, nad yw iaith yn bosibl hebddynt.* Y ffurfiant gwahanol ei hun yw'r sylfaen i bob iaith; a dyna yw Cyn-dafod.

Gawn ni fynd drosodd i Fydryddeg, sy'n gyfundrefn o fewn iaith unigol?

Ym maes Mydryddeg, sef sylfaen trafodaeth strwythurol Iolo ar fesurau, y mae *sŵn/tawelwch*, sef cyferbynnu a chyfuno *curiad/diffyg curiad*, yn ymwybod cwbl angenrheidiol fel fframwaith i fydru. Hyn yw Cyn-dafod i ddadansoddiad o fesurau. Dyma, ynghyd â materion fel perthynas *llafariad/cytsain*, sef sŵn rhydd/sŵn caeth, sy'n llunio *corfan*. Dyma'r defnydd crai mewn Cyn-dafod mydryddol ac *y maent yn hanfod i bob mydryddeg Ewropeaidd,* mor hanfodol ag

ailadrodd.

Iolo a fathodd y term 'corfan', a dyry *Geiriadur Prifysgol Cymru* hyn yn enghraifft yn Llr C 4, 86, a'i ddefnydd ef yno fel enghraifft gyntaf o'r gair yn Gymraeg. Dengys hyn beth o'i arbenigrwydd mewn strwythureg, a'i hawl i fod yn 'feirniad'.

Awn ymlaen wedyn i ddiffinio *Cyn-fynegiant* o'i gyferbynnu â Mynegiant. Dyma ben arall y gyfundrefn fydryddol. Strwythur a ddarganfyddir neu a ddatblygir yn *isymwybodol* fu 'Cyn-dafod a Thafod'. Y mae 'Cyn-fynegiant a Mynegiant' yn broses mwy arwynebol o lawer, amlwg, ac ymwybodol. Gellir llunio mesurau, eu hyd a'u trefn berthynol â'i gilydd, yn ymwybodol glandrus. Gellir amrywio patrymau odlog llinellau yn fwriadus afreolaidd. Os bu corfan yn greadigaeth anfwriadus ac yn gynhenid ym modolaeth yr iaith, y mae cyfuno corfan â chorfan i wneud llinell neu bennill yn weithred arall i'r meddwl effro bwriadus. Neu gorfan â chorfan a chorfan. Deuoedd neu drioedd. Dyma arwain at yr *uwch-corfan,* y cyfuniad o fewn y llinell. Fe all uwch-corfan fod yn llinell 'normal'. Ac wedi cael 'llinell', fe allwn symud ymlaen, drwy ychwanegu llinell a llinell yn uned, neu linell a llinell a llinell yn uned tuag at gyfundrefn gyflawn y pennill. Gellir amrywio'n ymwybodol eu cyd-drefnu odlog o ran safle meddyliol, wrth gwrs. Gellir adeiladu dosbarthiad yn fwriadus. A dyna ni felly, gydag Iolo, wedi cyrraedd Mesurau Morgannwg a *Chyfrinach Beirdd Y.P.*

Fe all y meddwl effro ddyfeisio'r rhain oll. Ond sut? Beth yw'r fethodoleg?

Er mwyn ei lawnsio'i hun i fethodoleg newydd o drafod perseinedd prydyddiaeth, yr oedd yn rhaid i Iolo wneud mwy na ffidlan gyda seiniau i ddadansoddi-lunio'r hyn a dybiai oedd 'cynghanedd' unigol newydd. Yr oedd yn rhaid iddo feddwl theori gyflawn. A chan ei fod yn syllu ar y maes o gyfeiriad ffres, bu'n rhaid i Iolo fathu termau atebol: defodau=metrical principles; breiniau=regulations; cyfochri=double rhyme; ansawdd=mesur=pennill ('pedair ansawdd ar hugain Cadair Morganwg'), ond mewn man arall ceir 'ansawdd angen= nod neillduolder', ac eraill megis 'rheithiadur', 'rhywiau Cerdd Dafod'=genres, a 'colofn' (*'Colofn Prydain, sef felly y gelwir y Gyhydedd Gyrch'*), a.y.b.. Doeth yw bathu termau mewn maes arbrofol, er mwyn diffinio newydd-deb golwg. Pensynnu yr oedd ef mewn arddull a dull nad oedd neb wedi'i feddwl erioed o'r blaen. Meddwl yr oedd ef tuag at Gyn-fynegiant yn holl adeiladwaith hierarci'r weithred fydryddol. A rhag cymysgu'i gasgliadau ef â'r math o ddull a fu'n sefydledig gan Simwnt Fychan, bu'n rhaid iddo ymbellhau ychydig. Felly'r termau. [Cawn ddychwelyd i 'ansawdd' eto.]

Dosbarthiad sydd ganddo, ar flaen ei feddwl, categoreiddio ac is-ddadansoddi. Ac ni rydd ysywaeth ddigon o amser i drafod yr egwyddorion hyn, pethau a feddyliodd ond yna yn ôl y traddodiad chwim a sythweliadol sydd mewn cyfundrefneg, a'u gwthiodd yn gyffredinol i'r cefndir, er mwyn blaensyllu ar y grìd neu'r fframwaith terfynol ger ei fron **mewn Mynegiant**. Yr oedd ar frys, neu am fod yn gryno fel Gramadegau'r Penceirddiaid. Yr oesoedd canol oedd eisoes yn y

patrwm i'w barodi. Nid sôn yr wyf am iawnder Iolo, ond am ddarganfod dull o feddwl.

Y ddadl newydd sydd gennyf i yw bod yna lefel o gyfundrefneg yn y meddwl, sydd wrth gefn yn union i Fynegiant, heb fod mor ddwfn gyffredinol â Thafod. Fe all bardd (neu feirniad) lunio *systemau*'n fwriadus, fel ar ryw lefel y gwna llywodraethau gyda'r system drafnidiaeth, iechyd, addysg ac yn y blaen – ac yn wir fel y gwna Swyddfa neu Ysgol neu Ysbyty unigol, yn ymwybodol. Cynllun 'haniaethol' lleol neu genedlaethol a gorfforir yn ymwybodol mewn arferion a weithredir yn ymarferol. *Y cynllun ymwybodol hwn yw'r Cyn-fynegiant.* Ac fe ganfyddir Cyn-fynegiant ar waith yn y Mesurau. Dichon, pe bai Iolo wedi ymroi, gyda'i gefndir a'i dalentau, i drafod y cynganeddion yn ddyfnach, y byddai wedi cael gafael ar Sain, Croes, Traws, Llusg, yn bedwarawd, ac wedi goleuo'r ffordd i Gerdd Dafod J. Morris-Jones. Byddai wedi archwilio'n lletach hanfodion cyfundrefnau. Mae yna gyfundrefnu mewn Tafod, a chyfundrefnu mewn Mynegiant.

Ar ryw olwg, methiant a chamgymeriad oedd dosbarthiad Iolo o'r mesurau o ran trefn ddosbarthus, oherwydd iddo fethu â sylweddoli natur perthynas Tafod a Mynegiant. Ond wrth gwrs, camre breision a ddaeth i'r ddwy wedd hynny yn eu tro mewn maes sy'n dal yn wyryfol i feirniaid heddiw. Fel yr hiraethwn o hyd am astudiaeth lawn o *Cyfrinach y Beirdd!*

*Archwilio Testun y Gyfrinach*

Mae gan y testun a ddefnyddiaf i, cyhoeddedig gan H. Humphreys yng Nghaernarfon, dudalen teitl heb ddyddiad. Cafwyd dau argraffiad, ond ni nodwyd hynny. Y prif wahaniaeth rhyngddynt yw bod rhif y tudalennau yn wahanol yn yr ail argraffiad, sef yr un a ddefnyddiaf i (yn ôl a dybiaf). Cynnyrch 1780-1790 yw, ac yr oedd mewn llawysgrif ym 1791 (*Llenor* III 94, 165; sonnir yn *Llenor* III 169 am lawysgrif Llanover E 15). Rhydd GPC c. 1780-8 yn flynyddoedd cyfansoddi. Tebyg fod yr argraffu neu'r cysodi wedi ymledu dros gyfnod go hir, 1821-1823, a gorffen ym 1829 (oherwydd prinder llythrennau argraff, meddir) heb gynnwys ambell beth, megis y clo. Sonia IMCY 202-203 am geisiadau llawysgrifol i ddarparu diwedd i'r gyfrol hon, megis Llanover C 72, td. 349-50 (cf. Llanover C 41, td. 53 sy'n amrywiad). Ond helbulus fu'r cyhoeddi.

Dyma'r teitl:

CYFRINACH

**BEIRDD YNYS PRYDAIN**

YS EF

LLWYBREIDDIAETH AC ATHRAWIAETH

AR

Y Farddoniaeth Gymraeg a'i Pherthynasau

Yn ôl Trefn a Dosparth y Prif Feirdd Gynt

*Ar y Gelfyddyd wrth Gerdd Dafod*

Dilynir y teitl hwn gan y Cynnwys, ar yr un tudalen blaen. Dyma hwnnw:


1.Yr Iaith Gymraeg
2.Perthynasau Cerdd – Dychymyg a Chrebwyll
3. .... Amcan a dyben
4 .... Ansawdd cyflawn Fyfyrdod
5 .... Trefn o Barth Ymddwyn
6 .... Cyfiawn Ddyfalu
7 .... Amlder Deunydd a Dychymyg
8 .... Parth Bann, ag Awdl a Phennill, a Chy-nghanedd, ag Accen.
9 .... Parth Gwirionedd.
10. .... RHYWIAU CERDD, herwydd Sylfon a Chrebwyll, ag Achos ag Ystyr.
11. TRIOEDD CERDD
12. RHEITHIADAU CERDD, yn v. Rheithiad a Chymwylliadau arnynt
13. RHEITHIADAU Y MESURAU, yn XXIV Rheithiad a xv. o Golofnau Addawol
14. DOSPARTH SIMWNT FYCHAN
15. CORFANNAU CERDD DAFOD – yn ôl Dosparth Morganwg
16. CYNNWYSDREM Y CYNGHANEDDION
17. BEIAU AC ANAFAU CERDD
18. EISTEDDFOD FAWR CAERFYRDDIN


Y peth cyntaf i sylwi arno ynglŷn â'r 'Cynnwys' hwn yw ei fod yn anorffen neu'n fylchog oherwydd peidio â sôn am ambell damaid nawf a biciodd i mewn i'r gyfrol cyn y diwedd. Dechreua'r tudalennau ar yr iaith Gymraeg (t.14) a cheir 12 adran hyd at 'Rheithiadau Cerdd' (t. 33). Yna ceir adran 13 ar dud. 88 sy'n para hyd at 89, lle y ceir 'Rheithiadau Cerdd' (t. 90); a dyna'r adran bwysicaf, asgwrn cefn y gyfrol. Wedyn, daw Dosparth Simwnt Fychan sy'n wybyddus i bawb; ynghyd ag awdl enghreifftiol, a golwg ymddangosiadol gonfensiynol o'r cynganeddion a'r beiau (ond y cwbl â stamp Iolo arnynt) ynghyd â chrynodeb o adran nid anarferol iawn ar 'pa ffurf y dylir moli pob peth.'

Wedyn, ar dud. 110 y mae'n dychwelyd, yn ôl blerwch yr olygyddiaeth, at 'Ddosparth Morganwg, lle a'i gadewyd ar ei sawf, tu dalen 89.'

Dilynir hyn gan 'Awdl i Wyryf Fair Wen o Ben Rhys' a gant Wilym Tew Bencerdd ag Athraw Cadeiriog, mewn Eisteddfod dan nawdd Owain Glynn Dwr,' ac 'Awdl a gant Lewys Morganwg.' Wedyn t. 117, ceir pedwar mesur at hugain Eisteddfod Caerfyrddin gan Ddafydd ap Edmwnt. Ar dud 121-122 ceir 'Cynnwys ar y Cynganeddion,' sy'n ddadlennol annisgwyl. Tamaid o nodyn ar y 'Cynghaneddau ewinol' (122-123), sef un o'r had-feysydd angenrheidiol i ddeall natur cynghanedd ei hun.

Ymdeimlwn ag ymddatodiad bellach yn y cynllunio, a bod tameitiach o ddrylliau wedi'u copïo a'u cynnwys, heb ddatblygiad na threfn thematig.

Tyn ef y drafodaeth i ben gydag adran (t 123): 'Traether bellach am feiau ag anafau Cerdd Dafod' – pwnc sydd bob amser yn ganolog o ran pwysigrwydd a diddordeb wrth ddiffinio ffurfiant Cerdd Dafod.

Yna'r Clo gan J.B., sef John Bradford (honedig).

Bwrw golwg y buom yn y fan yna ar natur y Cynnwys (a'i feirniadaeth) a osodir yn ysgerbwd ar dudalen blaen y llyfr. O dan y rhestr yna, nodir ychydig o fanylion gan y golygydd:

A ARGRAFFWYD DAN OLYGIAD

*"BARDD WRTH FRAINT A DEFOD BEIRDD YNYS PRYDAIN,"*

***Y DIWEDDAR IOLO MORGANWG***

'The style and language of CYFRINACH Y BEIRDD are lucid and elegant; and it displays a critical acumen highly creditable to the bards.' – Cambro-Briton, Feb. 1821

CAERNARFON

CYHOEDDEDIG AC ARGRAFFEDIG GAN H. HUMPHREYS, PATERNOSTER BUILDINGS, CASTLE SQUARE

Rhaid yn awr geisio nodi arwyddocâd y gyfrol ryfedd hon. Ar ryw olwg, parodi yw o gyfrol Simwnt Fychan. Yr hyn a honnir yn sylfaenol yw bod yna gyfundrefn o ganu ym Morgannwg, yn gyfredol gyda'r cyfundrefnwaith a gysylltir â Dafydd ab Edmwnt a Simwnt Fychan. Yr oedd hynny wedi bod yn awdurdodol, ac y mae hyn bellach wedi ailfeddwl y cwbl, ond yr un mor awdurdodol; eithr yn ymwneud â chanu rhydd helaeth a chyfoethog Morgannwg ddychmygedig, ddyfnach ei gwreiddiau na'r cynganeddion. Megis mewn Cerdd Dafod ogleddol, yr oedd gan ganu Morgannwg feirniadaeth lenyddol iddi'i hun, neu ddisgrifiad cyfundrefnol traddodiadol a oedd mor ffurfiol ddadansoddol bob dim ag eiddo'r 'deudneudwyr', sef ein cyfeillion yng Ngwynedd. Yr oedd y dadansoddiad hwn yn dechnegol oleuedig ac yn defnyddio termau o'i eiddo'i hun, a'r cwbl wedi'i ddatblygu yn y bröydd hyn mewn modd gwreiddiol.

Ceir Rhagddarweiniad i'r llyfr gan y 'golygydd' sef Taliesin ab Iolo Morganwg, Merthyr Tudfil, Gor. 9, 1828. Cynhwysir, yn Rhagddarweiniad y mab, sawl dernyn tra diddorol gan Iolo'i hun ar gyfer Rhagymadrodd nas ysgrifennodd yn gyflawn. Egyr y gyfrol a gwaith beirniadol Iolo gydag *imprimatur* a chymeradwyaeth 13 o feirdd Morgannwg, 10 ohonynt yn ddychmyglon. Wedyn, ceir Annerch gan Edward Dafydd, yr enw a fabwysiadodd Iolo, persona go iawn gynt, y tadogwyd yr holl waith o gopïo arno ef yn ddychmygol ('mi roddais ar gasgl yr hynn a welir ymma'n fy Llyfr maeth, cannys felly y galwaf ef, am nad yw o'm cenhedlaeth fy hun'). Yr oedd hwnnw'i hun yn tadogi awduraeth y dosbarthiad – ond nid yr holl enghreifftiau prydyddol – ar

Lewelyn Siôn 1601 – ysgolhaig o gopïwr go iawn yntau, er bod y gwaith hwn a dadogir arno'n ddychmyglon. Dyma gasglwr pwysig i'n llenyddiaeth, y deuthum innau ar draws ei lwybr pan oeddwn yn fyfyriwr, am ei fod wedi cadw fersiwn unigryw ar ramant Owain a Luned.

Carwn ddyfynnu dechreuad y 'Traethawd'. Un o'r tasgau lleiaf dymunol yn y fan hon yw wynebu'r pentwr o dermau technegol a ddefnyddiai Iolo:

*Llymma Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain, sef llwybreiddiad addysg ag Athrawiaeth ar Ansawdd a phriodolder Barddoniaeth, a rhywiau, herwydd Ansodd o Fraint ag Angen, ar y mesurau Cerdd Dafod, herwydd Trefn ag Awdurdod yr Hen Feirdd Cyssefiniaid: a honn yw'r ffordd iawn i wybod a deall Rhyw, ag Anian, a Defnydd, Barddoniaeth Gymraeg yn ol a fu gynt yn amser* ***y Prif Feirdd****...*

Tybiaf fod y term 'llwybreiddiad' (a adleisia air ar y tudalen-deitl) yn cyfeirio at gwrs hyfforddiant y beirdd. **Ansawdd** yw **'mesur'** neu **'bennill'**, sef prif ystyriaeth Iolo, ac yn ôl Iolo, y mater mwyaf arwyddocaol mewn ffurf farddonol, sef cynllun yr hyn a alwn bellach yn Gyn-fynegiant. Felly sonnir ganddo am 'bedair ansawdd ar hugain Cadair Morganwg.' Sylwer fel y mae'n benyweiddio cenedl 'ansawdd' megis y gwna gyda 'dosbarth'. Dichon er mwyn pwysleisio'u gwyriad mewn ystyru.

Yn y frawddeg gyntaf hon, crybwylla dermau eraill sy'n bwysig iddo yn y gwaith o ddadansoddi neu gategoreiddio. **Rhywiau** Cerdd Dafod: adran 10: dyma fwrw golwg ar ddosbarthiad tra phwysig mewn theori lenyddol, sef **genres** neu *lenddulliau.* Dyma gam arwyddocaol mewn cyfundrefnu, ac fe'u nodir yn drefnus ac yn ymwybodol gan Iolo.

Gair arall o bwys mewn dadansoddiad, i Iolo, yw 'angen'. Fe'i cyplysir yma â'r gair **braint**. Sonia mewn man arall am 'ansawdd angen' fel 'nod neillduolder' mesur. Hynny yw, wrth chwilio'r hyn sy'n diffinio pwynt adnabod beirniadol, yr her yw adnabod union nodwedd y pwynt arwyddocaol cyfundrefnol yn ei swydd, lleoli cymeriad y broblem. Ynysu'r cwestiwn.

Rhan o brif waith ei gyfrol hon o ramadeg barddol yw ymdrin yn benodol â'r hyn a alwn bellach yn 'ganu rhydd'. Tybiai Iolo – yn gywir, gredaf i – mai prydyddiaeth ddigynghanedd a gafwyd yn y gwraidd, canu a sefydlwyd ar ffurfiant y corfan, uwchcorfan, a'r llinell unodl. Gwenwynwyd y ffrwd gan ffurfiau newydd – 'gwelliant' tybiedig gan 'Ddafydd ap Edmwnt yng Ngorsedd Caerfyrddin', a 'Dosparth newydd ar Gerdd'. Rhaid cyfaddef fod Gramadegau'r Penceirddiad pan sonient am yr 'hen' drefn yn meddwl am 'ganu rhydd', a'r gynghanedd yn drefn 'newydd'.

Felly, pan fydd Iolo'n cwcian ei ddadansoddiad o'r mesurau, y mae'n ceisio mynd yn ôl i wraidd. Mae'n dyfeisio dosbarthiad elfennaidd neu'n darganfod trefn, gan ddefnyddio hen derm, yn ôl pob golwg, ond gydag arwyddocâd newydd. Sef 'gorchan'. Gŵyr pawb sy'n gyfarwydd â'r

Cynfeirdd am fodolaeth Gorchfan Tudfwlch a Gorchan Adebon, ac yn y blaen. Yn y fan yna, cân hir yw, cantigl neilltuol. I Iolo, sut bynnag, mae'n dynodi un o'r naw prif fesur. Hynny yw, mesurau yw gorchanau sy'n darparu penillion unodl naw teulu. Ceir tri grŵp hanesyddol yn eu plith, fe ymddengys: (1) *Bann goch, Huppynt,* a *Thriban Milwr,* dyna'r mesurau awdurdodol, y rhai a oedd yn rhagflaenu Taliesin ac Aneirin. Sylwer ar y gair 'Triban' am fod hwn yn air cyfarwydd ar lafar Morgannwg. (2) Wedyn, yng nghyfnod Taliesin, Aneirin, a Myrddin, cafwyd y ddau *Doddaid, Englyn,* a mesur o *Broest, Triban* cyrch, *Llostodl, Clogyrnach,* a *Chyngog.* Sylwer eto ar y 'term 'Triban'. (3) Yna, dyfeisiwyd y 14 arall, 'yn tyfu bob un o neillduol ag amrafael Ansawdd.' Galwai pob un o'r rhain yn golofnau, am fod iddynt nodweddion dosbarthol cyffredinol.

Ond os dyna'r drefn hanesyddol dybiedig, gwahanol yw'r drefn gyfundrefnol.

Camwn ymlaen i dud. 33: 'Llyma Reithiadur Cerdd'. Dosbarth o Reithiadau yw Rheithiadur, megis y bathwyd 'Gwyddoniadur' a 'Bywgraffiadur'. Ymddengys i mi fod Rheithiad yn golygu cyfundrefn o Gyf*raith.* Ac y mae hyn yn gysyniad canolog – yn adlewyrchu 'rhaid' a 'deddf', peth priodol i gyfundrefnwr feddwl amdano. Mae'r colofnau uchod, yn tarddu o'r Naw Cyhydedd. Dyma'r nodweddu cyntaf o'u mewn, yn ôl 'y rhif o Sillau a roddai mewn Bann, neu Fraich o Bennill, er gwneuthur ei hyd, a hynn a fydd o bedair Sill i ddeuddeg o'r cyssefin Gyhydeddau.' Sylwer ar y defnydd o'r geiriau 'Bann, neu Fraich o Bennill'; a chofiwn yn burion am y mesur anrhydeddus heddiw, Y Gyhydedd Nawban, nas crybwyllir gan Iolo.

**Ceir naw Cyhydedd. Dyma'r nodwedd systemig gyntaf mewn Cyn-fynegiant. Ymddangosai i Iolo yn nodwedd gysefin noeth ac elfennaidd. Ac yn bendifaddau yr oedd yna gyfnod yn hanes mydryddiaeth Gymraeg – y mae'r Gyhydedd Nawban o hyd yn adlewyrchu'r cyfnod hwnnw – pryd y cyfrifid y ban neu'r sillaf yn wedd benderfyniadol mewn mydr. Yn fy marn i, gweithid yn gyntaf (go iawn) fesul curiad (sef yn ôl corfan) cyntefig iawn, ac yna yn ôl uwchcorfan, gan gyfuno corfannau, mewn llinellau, yna mewn cyfuno dwy linell yn fydryddol ailadroddol neu gyferbyniol mewn penillion. I mi, dyna'r casgliad i dystiolaeth y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd. Gwthiai'r corfannu acennog tuag at gorfannu acennog/sillafog. Ond nid dyna farn Iolo, er iddo ddweud (31) 'Tri amrywiaeth Bann; amrywiaeth Cyhydedd, amrywiaeth Cynghanedd, ag amrywiaeth Accen'. (32) 'Tri phriodoldeb Mesur: hyd y Bann, dull y Pennill, a phwys yr Acen.'**

Dyma'r grŵp cyntaf yn y mesurau o ran ffurf gyfundrefnol: gelwir hwy'n golofnau, yn hanfod crai neu gysefin ar gyfer llinellau: defnyddir y gair 'Colofn' hefyd ganddo ar dud. 31 fel hyn: 'Tair Colofn Synwyr: eglurdeb, llawnder, a chyfiawnder.'

**(33)** **'Yn gyntaf, y Gyhydedd Ferr, yn bedeirsill.**
**Yn ail, y Gyhydedd Gaeth, yn bumsill.**

**Yn drydedd, y Gyhydedd Drosgl, yn chwesill.**

**Yn bedwaredd, y Gyhydedd Lefn, yn seithsill.**

**Yn bummed, y Gyhydedd Wastad, yn wythsill.**

**Yn chweched, y Gyhydedd Draws, yn nawsill.**

**Y seithfed, y Gyhydedd Wenn, yn ddegsill.**

**Yn wythfed, y Gyhydedd Laes, yn unsillarddeg.**

**Yn nawfed, y Gyhydedd Hir, yn ddeuddegsill.'**

Sylwer ar yr amlwg, fod teitlau'r rhain oll yn dechrau â'r gair 'Cyhydedd', ac felly, yn ôl pob tebyg, yn perthyn i'w gilydd yn gyfundrefnol, yn wahanol i'r grŵp nesaf.

Yr wyf wedi trafod ym *Meddwl y Gynghanedd* yr hyn a welaf o'i le ar ddadansoddiad mesurau J. Morris Jones yn ei gyfrol *Cerdd Dafod.* Credaf yn benodol ei fod yn cyfeiliorni o ran cyhydedd ac o ran y dosbarthiad acennog (a'i 'hanner llinellau'), ac yn ei sylweddoliad o adeiladwaith penillion. Ond y mae ysgolheictod Cymraeg yn dra dyledus iddo am ei olrheiniad o bwysigrwydd yr acen, am ei sylweddoliad o batrymwaith y sillafau diacen ac o'r rhagacen. Ac wrth gwrs, am ei waith meistraidd ar ddosbarthiad y cynganeddion eu hunain. Methu a wnaeth gyda chysyniad creiddiol yr Uwch-corfan. Ond fel Iolo, carai Gyfundrefneg.

*Rheithiad II*

Wedi cyhydeddu naw mesur, y mae Iolo'n lympio'r pymtheg mesur arall i gyd gyda'i gilydd, yn 'adlawiaid.' Hynny yw, allan o'r naw mesur cyhydeddol, a gyflwyna'n gyntaf ac a eilw ef yn 'gyssefiniaid golofnau,' y tyf y Gogolofnau neu fesurau ailadroddol neu darddiadol. Fe'u gelwir gan 'rai' yn adlawiaid golofnau. Dyma ni'n eu gweld yr un fath â rhai a grybwyllwyd uchod mewn tri dosbarth hanesyddol, ond yn ôl trefn olynol wahanol. Mae'r rhain y dwyn enwau mwy 'dilys' neu fwy 'traddodiadol' na'r cyhydeddau, ond methaf â gweld dim ystyr yn nherminoleg eu trefn olynol:

**Yn gyntaf, Bann Cyrch neu Gyhydedd Gyrch.**

**Yn ail, Toddaid, o ddeuryw, ys ef Hir a Byrr.**

**Yn drydedd, Triban Milwr, ar a fynner o'r Naw Cyhydedd.**

**Yn bedwaredd, Triban Cyrch, neu Driban Morganwg.**

**Yn bummed, Englyn, o rywiau amrafaelion.**

**Yn chweched, Proest Cyfnewidiog, ar y gyhydedd a fynner.**

**Yn seithfed, Proest Cadwynodl.**

**Yn wythfed, Huppynt, neu Lostodyn, neu'r Golofn Fraith.**

**Yn nawfed, Cadwyngyrch. *Hir a Byrr* yn Llyfr Einion Offeiriad.**

**Yn ddegfed, Clogyrnach.**

**Yn unfedarddeg, Cynghog.**

**Yn ddeuddegfed, Llamgyrch, neu Awdl Ddwybig.**

**Yn drydydd ar ddeg, Traethodyn.**

**Yn bedwaredd ar ddeg, Cywydd.**

**Yn bymthegfed, Dyri, neu Garol.**

Mae'r colofnau yn gweithio yn ôl llinellau, a'r Gogolofnau yn gweithio yn ôl penillion. Dyma raniad craff, a'r ail yn ôl Iolo yn tarddu o'r cyntaf. Rhaniad sylfaenol sydd wrth ddosbarthu a dadansoddi'r Mesurau swyddogol Cymraeg yn rhaniad arall hanfodol.

Ni raid ymdroi gyda'r camddeall geiriol yn y rhestr uchod, megis Cynghog (sy'n golygu cadwyn o englynion) neu *lostodyn* (lle y mae *llost* yn tarddu o'r elfen sy'n rhoi llostlydan, llosgwrn, ac yn golygu *cynffon*). Rhestr sydd yma, nid cwlwm cyfundrefnol.

*Rheithiad III*

Rhydd ef ar ôl y rhain drafodaeth unigol ddisgrifiol o bob un, ynghyd ag enghreifftiau, llawer iawn ohonynt yn gyfansoddiadau ganddo ef (o dan ffugenwau hen) ac amryw o'r rheini'n berlau bach. Y cwbl yn gymysg â phwyntiau beirniadol difyr yn greadigol.

Ymhlith y penillion a lunia yn y fan hon, ac mewn adrannau diweddarach, y mae nifer sy'n 'arbrofion' gan Iolo, megis:

36 Cyfochrawdd Proest ag Unodl:

Llyfr yw'm sain i'm cain amcanion
Hardd y Bannau'n aur ddibenion;
Geiriau'r heniaith gywair union.

Lle y mae'r goben yn proestio bob tro. **Cynnig amlwg gan Gyn-fynegiant yw.**

37 Cynghanedd gadwynog a fydd pann fo'r groes ar unodl yn ymgadwyno y naill yn y llall, ys ef y gair o flaen gair yr orphwysfa yn unodli a'r gair o flaen y gair diwedd, ys ef y brifodl; heb fod y geiriau unodl yn rhoi dim yn y byd yn eu cydseiniaid, o'r cyntaf i'r olaf tuag at wneuthur y croes gynghaneddu rhwng gair yr orphwysfa a'r gair diwedd, yr hwn yw gair y brifodl; a'r geiriau unodl ... a.y.b.

Twyll dyn yw awen pwyll diawl – Gwynfyd nef i'n bywyd ni
Yw ir ddawn gwir ddaioni

38 Rwy'n dwyn cur AM ANNA
Mwyned oedd gair ei MIN DA

38 Tawddgyrch Cadwynog ... ar ganol yr ail fraich yn croesgynghaneddu...

39 Teg fore'm mis Ebrill yn ebrwydd y codais,

I'r coedydd ar ofronn tir hyfryd ymdeithiais

39 croes cydseiniog yn driphlyg ymgainc...

Gair clod, a gwir clywch dros y byd i'r gwr clau...

Beunydd dann boenau, pob awr yn benyd

O hyn tan ddiwedd cyfrol Iolo, ceir casgliad praff o benillion enghreifftiol, hyd yn oed telynegion, ymhlith y tlysaf a luniwyd yng Nghymru'r Ddeunawfed Ganrif. Ond sôn yr ŷm am weledigaeth o Gyfundrefn o gyfundrefnau rhydd i Gymru a fyddai'n adlais, fel pe bai, o'r Gyfundrefn o gyfundrefnau yng Ngherdd Dafod a dyfodd yn isymwybodol megis iaith, neu gyd-dyfiant â'r iaith. Cyfansoddiad mwy crwn oedd gan Iolo na'r cyffredin, ond byd o Gerdd Fynegiant.

Yma ac acw, ceir nodiadau cwta eraill neu atodol i'w weledigaeth, megis ei wrthodiad o'r 'mesur penrhydd': ar dud. 36 'Nis dylid canu Cerdd Gymraeg yn ddiodl, fal y mae arfer rhai Gwledydd ac Ieithoedd'; 43. Wrth drafod gorchan, ' nid oes ond un *brif angen* ernynt; sef yw hynny Cyhydedd ar Unodl;' 43 'Harddwch ar bennill gorchan y bernir diweddu'r pennill yn gywyddawdl y ddeufann diweddaf.'

Ychydig o fudd a gefais i erioed o ddarllen *La Métrique Galloise I* gan Loth. Ni ddeallai ef bwysigrwydd yr acen, a llyncodd yn ddihalen *Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain.* Ond yr oedd yn ddyn gwybodus a chraff, ac efallai fod y ffaith iddo ddod yn gydymdeimladwy at Iolo (mewn anwybodaeth) wedi caniatáu iddo, yn well na Syr John weithiau, wneud rhai gosodiadau am fyd a gwelediad Iolo sy'n dal yn fuddiol: 137-39, 141, 146-153.

Llawer mwy o fudd a geir gan negydd John Morris-Jones yn gweithio mewn cynefin ysgolheigaidd gwahanol wrth gwrs. Ei drafodaeth ef 'Dosbarth Iolo Morganwg' yn C*erdd Dafod* 372-379 a ddeil yn bennaf astudiaeth ar *Gyfrinach y Beirdd* Iolo hyd heddiw. Yn y fan yna y mae Syr John yn dadlau mai 'system' yw 'ansawdd' Iolo. Ond yr oedd Linnaeus wedi cynnig fod 24 Dosbarth yn cynnwys pob 'genus' a 'species' a fu'n hysbys erioed. (Cofiai Iolo am 24 o farchogion Arthur, a 24 o fesurau Cerdd Dafod.) Ac yn ôl Syr John (*Enc. Brit.* Arg. 11 eg) wrth geisio condemnio *systemateg* fel ymgais 'artiffisial': 'It is an artificial method, because it takes into account only a few marked characters in plants, and does not propose to unite them by natural affinities.' Ond dyna'r union bwynt, yr union gymeriad sydd gan Systemateg sy'n adnabod 'nod neillduolder'. Yr oedd gweledigaeth greiddiol Linnaeus yn ei lle; ond y moddion i weithio allan y canlyniadau yn ddiffygiol. Felly Iolo. Gwelsant fwy na fforest o undod gwyrdd: sylwyd bod undod rhwng ambell blanhigyn a'i gilydd, a bod yna deuluoedd. Adnabod y nodwedd arwyddocaol oedd camp Cyfundrefneg bob amser: sylwi beth yn union oedd y 'marked characteristics' a dosbarthu yn ôl y rheini. Dyma yn y bôn fethodoleg Syr John yntau a phob gwyddonydd go iawn. Ond methiant Syr

John mewn gwirionedd i adnabod *nod neillduolder* a natur systemateg Gymreig oedd yr union beth a danseiliodd ei holl ddadansoddiad ei hun o'r Mesurau, fel dadansoddiad Iolo o'r Gynghanedd.

Ac eto, gallwn gytuno â chalon sylwadaeth Syr John ac Iolo. A'r un pryd gallwn ymfalchïo yn rhesymeg a sythwelediad Iolo, yn ei egni meddyliol, a'i fentr i fod yn wahanol drwy gymryd Linnaeus yn ysbrydiaeth yng nghanol cyffredinedd a diffyg anturiaeth meddwl ei wlad. Gallwn ymfalchïo yn ei wybodaeth enfawr o lenyddiaeth Gymraeg mewn amgylchiadau eithriadol o anodd, heb ofni camgymeriadau a gwawd. Yr hyn a edmygwn hefyd yw creadigrwydd ac undod yr holl brosiect a'r cariad angerddol a brofai hefyd at ddiwylliant ei genedl. Rhwng popeth yr oedd yn greadur go ddifyr a go addas i'w gael yn Dad i Feirniadaeth Ddiweddar. Bathwr y termau 'cyfundrefn', 'ieitheg', a 'llenyddiaeth', y triawd a fu'n ysgogiad i sylw Beirniadaeth Gyfansawdd.

Iolo unigryw oedd y llais a alwai Feirniadaeth Fodern i fod. Pwy'n well? Pwy'n fwy diddorol? A pham lai? A oes neb a feiddiai basio'r ddeddf na ddylai beirniadaeth fod yn sylfaenol yn sbort? Pwy a fynnodd yr hawl i lenyddiaeth olygu difrifoldeb bob munud? Iolo a gadwodd, ac a besgodd ar gywair y jôc mewn Beirniadaeth Lenyddol. Ein Haristophanes ni, yng nghanol diogi meddwl Cymru. I fardd (megis i ddarllenydd) y mae bod yn feirniad yn orfodol. Ond y mae'n ddiddorol sylweddoli weithiau ai estyniad i'r bardd yw'r beirniad, ynteu ai estyniad i'r beirniad yw'r bardd. Nid yw'n eglur wrth gwrs yn achos Iolo p'un yw p'un. Yn sicr, y mae'r detholiad nodedig *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg* a olygwyd gan Patrick Donovan, 1980 yn estyniad i'r ddelwedd thematig o Forgannwg idylig a oedd yn sylfaen i'r hanes llenyddol a ddyfeisiodd Iolo'r beirniad. Cwlwm dychmygol yw hefyd sy'n ymateb gan y bardd i'r ddelwedd hollol obsesiynol a barodïodd ef yn ei holl fywyd.

Ceir digon o arddeliad artistig ym marddoniaeth y gyfrol honno, ac ynghyd â dyrnaid o'i gywyddau, gymaint fel y mentraf dybied mai ef oedd bardd a beirniad seciwlar Cymraeg gorau'r ddeunawfed ganrif. Ychwanegwn innau'r ddwy gerdd rydd 'Dychweliad Haf' ['Mae'r holl dymhestloedd wedi ffoi...' *Cymru* XX, 1901, 256] a 'Bore o Wanwyn' ['Mae'r bore'n deg, mae'r hin yn fwyn...' *Cymru* VI, 1892, 156] at y grŵp hwn o'i oreuon. Dyma megis ymgais i gyflwyno delwedd o syberwyd cyfoethog dolydd y fro, *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg, 1,* delfryd buchedd yr amaethwr (20 a 54), mwynder y gymdeithas ym mwynder natur (22), y darlun o'r gwynfyd gwledig gwerinol (94), a'r caru mawr Ioloaidd (24, 41, 44, 78). Mae'r gyfrol yn cyrraedd uchafwynt hoffus mewn tair cerdd – 'Ymddiddan rhwng Mab a Merch' (*Traethodydd,* 1982, 38) sef rhif 60, a 'Chân' sef rhif 55 dan enw Ieuan Tir, a'r enwocaf efallai 'Cerdd' ('A minnau'n hwyr myfyrian'...) rhif 35. Ond ceir nifer barchus o fân uchafbwyntiau 55, 84, 90. Gwelai natur 'llenddull' yn well na neb.

Dyma symud o Gyn-fynegiant i Fynegiant thematig go iawn yn yr un gyfrol. Dyma'r rhediad ailadroddol o orfoledd a brofodd Iolo wrth gyrraedd yn ôl ym Morgannwg, wedi iddo fod am

flynyddau lawer yn Lloegr. Mae'n cyrraedd uchafbwynt yn y rhediad o chwe phennill ar ddiwedd Cerdd 1 lle y rhedir yr ymdeimlad o ailafael yn 'Caf'. Ac yna'r cwlwm o 'Rhoed' gan Dduw yn wefreiddiol. Tlws iawn yw Cerdd 3, 'Cwyn Merch ar ôl ei Chariad' ar ffurf yr hen Benillion (cf 47). Ar ryw olwg y mae'r bardd yn poblogi'r hanesydd beirniadol ynddo'i hun. Fel bardd dychmygol, gan chwarae rhan Dafydd o'r Nant, neu Hopcin Twm Philip, Huw Llwyd a'r lleill, y mae'r prydydd colledig Iolo Morganwg yn cerdded yn brudd gan 'fyfyrian' drwy'r dolydd a greodd yn Hanes i'r Fro boblogedig dra llenyddol hon na allai fyw hebddi. Dyma enwi'n gryno'r telynegion ceinaf a ffurfiai gyfraniad Iolo i farddoniaeth seciwlar ei gyfnod ac a anadlodd einioes i fyd rhithiol hyfryd. Y fath barodi! Y fath Wirionedd! Y fath fardd hefyd yn plethu drwy'i feirniadrwydd!

[*Manylir rhagor ar y cysyniadau Cyn-Dafod/Cyn-Fynegiant ymhellach ymlaen yn yr Adrannau ar J. Morris-Jones, Thomas Parry, ac Alan Llwyd yn y gyfrol hon, yn ogystal â thrafod cyfraniadau unigol ac amrywiol y beirniaid hynny i Gyfundrefneg Gynganeddol.*]

## LEWIS EDWARDS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagoriaethau Fel Beirniad | 27 |
| 2. | Coleridge | 34 |
| 3. | Parhad i'r Oleuedigaeth | 42 |
| 4. | Y Rhamantus Lewis Edwards | 51 |
| 5. | Beirniadaeth Lenyddol y Beibl | 59 |
| 6. | Kant | 77 |
| 7. | Hegel a Chyfundrefneg | 93 |
| 8. | Dyn y Sefydliad | 104 |
| 9. | Golygydd y Traethodydd | 112 |

## RHAGORIAETHAU LEWIS EDWARDS FEL BEIRNIAD

*Traethodau Llenyddol,* c.1865, Lewis Edwards

Mae statws Lewis Edwards, fel beirniad llenyddol Cymraeg pwysicaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ddiogel. I mi, dyma fu'i gamp fwyaf. Yn hanesyddol, ymhlith y Cymry dethol eraill a ymrôi i feirniadu yn y ganrif honno, megis Caledfryn, Creuddynfab, ac Emrys ap Iwan, ef oedd y deallusaf, y mwyaf diwylliedig a meddylgar; ac yn sicr, y mwyaf dyfal ac uchelgeisiol. Dichon, ym maes Diwinyddiaeth, y câi ef rai a oedd yn gystadleuwyr iddo, megis Thomas Charles ac efallai Thomas Jones ac Owen Thomas; dichon fod Henry Rees yntau'n gystadleuydd fel pregethwr. Ond fel beirniad llenyddol, yr oedd Lewis Edwards ar ei ben ei hun, ac yn fwy treiddgar a phrofiadol na'r un arall.

*Ei gamp*

Theorïwr oedd ef. Er ei fod yn hoffi dadansoddi a phwyso a mesur gweithiau unigol, megis y gwnâi gydag 'Atgyfodiad' Eben Fardd neu 'Faust' Goethe, ei gryfder a'i brif hoffter oedd ymdroi gydag egwyddorion a hanfodion llenyddiaeth. Yn fwy na'r un llenor Cymraeg arall yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (heblaw'i daid yng nghyfraith efallai), yr oedd gan Lewis Edwards wir awch am feddwl uwchben deunydd llenyddiaeth. Yn brofiadol mewn athroniaeth a diwinyddiaeth, yr oedd ganddo hefyd wir ymrwymiad yn harddwch teimladus barddoniaeth a drama. Er prinned ei wybodaeth a'i gydymdeimlad â llenyddiaeth Gymraeg cyn y cyfnod Protestannaidd, a'i brofiad felly'n enbyd fylchog am yr union amser pryd yr oedd llenyddiaeth Gymraeg ar ei godidocaf, yr oedd mor ddysgedig â neb yn ei oes ynghylch ein llenyddiaeth o'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen, ac yn arbennig ym marddoniaeth Gymraeg a Saesneg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Darllenai'n ddwys hefyd waith Shakespeare, Milton a Goethe. Ac yn gefndir i'w waith personol, gellid casglu ei fod, drwy gylchgronau'n bennaf, yn hyddysg ym meirniadaeth lenyddol Saesneg y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

O fewn Cymru ei hun, dyma wlad a oedd yn amddifad o gwmnïaeth ddifrif iddo o safbwynt amgylchfyd beirniadol. Yn wahanol i'r ddeunawfed ganrif a'r ugeinfed ganrif, ni cheid yr un llenor arweiniol unigol na thrawiadol arall chwaith a osodai safon ac a ddatblygai chwaeth. Ond fe'i hamgylchid gan lawer o ddiddordeb mewn darllen a dadlau. Pobl oedd ei gynulleidfa fesul miloedd a efrydai bethau solet ac a ddisgwyliai wrth ddysgedigion fel Lewis Edwards am feithrinfa, er eu bod, oherwydd cyfyngder eu haddysg, yn hynod o amddifad o gefndir hanesyddol.

Fel pob beirniad, tueddai i arbenigo. Dyna sy'n gall fel arfer. Hyd yn oed pan geid beirniad amryddawn ac eang ei orwelion, un a oedd yn wir ymrwymedig mewn amlder o feysydd llenyddol,

bron yn ddieithriad, ceid gan hwnnw ryw ogwydd gan amlaf yn ei gyfanwaith tuag un maes mwy na'i gilydd. Anochel fyddai arbenigo o'r fath. Ac ymgyfyngodd Lewis Edwards yntau oherwydd ei gefndir argyhoeddedig a'i ddiddanwch ymenyddol. Dewisodd ef neu fe'i dewiswyd ef i ymdroi gyda pherthynas y byd ysbrydol a llenyddiaeth. Perthynas diwinyddiaeth a diwylliant oedd ei gartref meddyliol. Dyma wrth gwrs faes – a phroblem – eithaf hynafol. Bu'n destun myfyrdod mor hen â llenyddiaeth a beirniadaeth eu hun, er mor ddieithr braidd heddiw o safbwynt cefndir hyddysg y bo'r mater hwnnw mwyach ymhlith darllenwyr Cymraeg cyfoes, at ei gilydd.

*Ei Allu a'i Swyn Llenyddol*

Yr oedd Lewis Edwards hefyd yn wir lenor, a breuddwydiai am fod yn llenor o ddiwinydd. Tueddwn heddiw i ddisgwyl trymder difrif diffiniol yn ei waith, ac efallai peth symudiad angladdol yn ei frawddegau. Roedd ef ei hun yn cyfaddef ei hoffter o frawddegau amlgymalog. Gwyddys am ei barodrwydd mawr i haniaethu. Ymhyfrydai mewn syniadaeth – ac, oherwydd prinder diriaethu, gallai lusgo ym mryd rhywrai yn symudiadol ddygn ei ddadleuon. Hawdd felly inni gael ein camarwain, oherwydd, – gan mai llenor wrth reddf yn y bôn oedd L.E. (fel y'i galwai'i hun ambell waith), – yr oedd yn llenor dychmyglon ffraeth a oedd o ran potensial yn llenor cartrefol. Roedd ganddo'r gallu hyd yn oed i fod yn ysgafn. Ef oedd llenor mwyaf diwylliedig ei ganrif. Clywch ei lais dilys. Wedi bod wrthi yn trafod ac yn dyfynnu'n helaeth waith Morgan Llwyd yn gwbl arloesol, dyma L.E. yn eistedd yn ôl ac yn edrych yn ddwys garedig arnaf i ac arnat ti, ddarllenydd hoff:

*Traethodau Llenyddol,* t. 150

'*Nid mewn areithfa yr ydym ar hyn o bryd yn traethu darlith drefnus: ond yn ein llyfrgell mewn hen gader freichiau led anrhydeddus: a thybied a wnaethom, ddarllenydd hoff, dy fod dithau yn eistedd gyferbyn â ni; a'n bod yn ymddyddan tipyn, ar draws ac ar hyd, am "Lyfr y Tri Aderyn." Ond ofnwn dy fod yn dechreu blino bellach, er dy fod yn rhy foesgar i gwyno; a dychymygasom unwaith neu ddwy i ni weled cysgodion cwsg yn hofran o flaen dy amrantau. Wele, y mae wedi myned yn hwyr; a'n doethineb ninnau fyddai meddwl am ein gorphwysfäoedd. Ond nis gallwn ganiatâu i ti ymadael heb gyfeirio rhai ymadroddion eto at dy gydwybod; a gobeithiwn y bydd i ti fyfyrio arnynt yn ddifrifol wrth roddi dy ben ar y gobenydd.*'

Pan ddown maes o law i drafod beirniadaeth lenyddol Alan Llwyd, byddwn wyneb yn wyneb â beirniad sy'n gofiannydd hwyliog hefyd, un eithriadol o fedrus, ac un sy'n ei uniaethu'i hun yn gyfrwys â'i wrthrych. Un yw ef sy'n ddramodydd o gofiannydd. Un yw hefyd sydd wedi myfyrio'n ddychmyglon am bosibiliadau cofiant i lenorion, sy'n bobl a fyn fyw i raddau helaeth drwy'u gwaith. A chaf f'atgoffa am hyn wrth ystyried polisi Lewis Edwards ar gyfer y cofiant delfrydol. Mae ef mewn un man yn adolygu *Hanes Bywyd y Parch. John Evans, Llwynffortun,* y math o gyfrol a theitl a roddai ffit i'r dyrnaid o bobl sy'n darllen pethau trwm yn yr unfed ganrif ar

hugain. Ac achubai L.E. y cyfle i grynhoi'i syniad ei hun am y math o gofiant a hoffai ef (*T. Ll.* 310) : '*yr hyn y cwynwn yn benaf o'i herwydd, yw eisieu mwy o John Evans, Llwynffortun – nid mwy o hanes am dano a feddyliwn, ond mwy o hono ef ei hun. Y ffordd oreu i ysgrifenu bywgraffiad, yn ol ein barn ni, yw gadael y person y rhoddir ei hanes, hyd y gellir, i lefaru drosto ei hun.'* Ymguddio y tu ôl i lais ei wrthrych, yn ymddangosiadol, dyna'r union ddull sydd gan Alan Llwyd yntau.

Sylwer ar ddychymyg dynol ei ysgrifennu. Beth bynnag y bo barn gyffredin yr unfed ganrif ar hugain, hon yw fy hoff ysgrif i yn y gyfrol *Traethodau Llenyddol.*

Mae L.E. yn dadlennu'i bersonoliaeth gwrtais a hael ei hun yn y fan hon. Yn wir, yr ydym gydag ef uwchben ei uwd ar ôl noson drom. A pho fwyaf y darllenwn, mwyaf yr hoffwn ef. Mae yna elfen o dynnu coes wrth gwrs; ond y mae ei ryddiaith yn gallu gwenu. Carwn ddyfynnu trydedd enghraifft o'i sgrifennu newyddiadurol a'i ddychymyg arddulliol. Cymerer dechrau'i ysgrif ar 'Cyhoeddiadau Cyfnodol y Cymry'. Mae'n lawnsio i baragraff coeg ar y pwnc pwysfawr hwn fel pe bai'n cael ei herio i beidio â bod yn ŵr syber parchus 'diduedd' cyfarwydd drwy'r amser (*T. Ll.* 505) '*Yn awr am dipyn o ddadleuaeth. Y mae Cymru y dyddiau hyn yn rhy lonydd o ddim rheswm. Y mae meddyliau y bobl wedi myned mor ferfaidd a hen ferddwfr. Gwir fod y "Dysgedydd" yn llafurio yn ffyddlawn a pharhaus i godi rhyw gynnhwrf yn mysg y gwahanol bleidiau crefyddol; ond, fel y mae gwaethaf yr helynt, nid oes neb yn edrych ar hwnw, druan, yn werth hanner mynyd o sylw. Ond yn awr, dyma y "Traethodydd" yn cymeryd y misolion mewn llaw; a gwyddom fod gair o'i eiddo ef yn diasbedain o Gaergybi i Gaerdydd. Tebyg i hyn, ond odid, fydd iaith rhai o'n darllenwyr, pan welant yr enwad sydd uwchben yr erthygl hon. Ond rhaid iddynt ganiatâu i ni hysbysu cyn myned yn mhellach, nad ydym y tro hwn yn bwriadu cyflawni eu dysgwyliad. Pa fodd y bydd pan ddeuwn i sylwi ar fisolion yr oes hon, nis gallwn eto benderfynu.'*

Ond sôn yr oeddem, ddarllenydd hoff, am naturioldeb cartrefol L.E. Ac awgrymu a wnaethom y gallai fod 'yn ysgafn' o bethau'r byd. Nid pawb sy'n cysylltu Lewis Edwards â jôcs, yn arbennig wrth drafod testun megis 'Cyfnewidwyr Hymnau'.

Ond ar ddechrau'r ysgrif honno ganddo, mae'n cyfeirio at un Codwr Canu Americanaidd a oedd am foderneiddio'r geiriau gan Watts, fel y bydd brwdfrydigion yn ein dyddiau ni. Dyma ef yn cydio yn y gwpled:

'Ond boed fy nghalon i mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr ŵyl.'

Awgryma'r Cantwr hwnnw ddiwygio'r llinellau hyn, ac yn eu lle awgryma

'Ond boed fy nghalon i'r pryd hyn,
Fel Dafydd gynt a'i *violin.'*

Yna, ychwanegodd Lewis Edwards yn ei arddull fawreddog drymddysg ei hun, sy'n taro i'r

dim fan yma: 'Teimlai y gweinidog ryw gynhyrfiadau tufewnol cryfion i chwerthin yng ngwyneb y cantwr; ond ymattaliodd. Yna mor fuan ag y mentrodd gael ei hun yn alluog i siarad, dywedodd ei fod ef yn tueddu i feddwl fod yn ddichonadwy gwneuthur y gwelliant hwn drachefn yn fwy diwygiedig; a gofynnodd oni fyddai yn well darllen y geiriau fel hyn:

'Ond ceid fy nghalon, diddle, diddle,
Fel Dafydd bach yn canu'r *fiddle.'*

Ie; Lewis Edwards sy fan yna. Unionwn ein hetiau, a brysiwn yn ôl at y 'gwir L.E.' , fel y gellid ei ddweud. Pe gofynnid pwy oedd tri phrif feirniad llenyddol Cymraeg yn y tair canrif ddiwethaf, – y ddeunawfed, y bedwaredd ar bymtheg, a'r ugeinfed ganrif, – byddai'n rhaid imi ateb yn bendant, Iolo Morganwg yn y ddeunawfed, Lewis Edwards yn y ganrif wedyn, a Saunders Lewis yn yr ugeinfed. A oes yna ddolen gydiol rhwng y fath ffigurau rhyfedd, dwedwch?

Oes, creadur a oedd mor rhyfedd â'r un ohonynt: Samuel Taylor Coleridge.

Gŵyr y rhan fwyaf o lengarwyr Cymru mai'i draethawd hir ar Coleridge oedd gwaith sylweddol cyntaf Saunders Lewis ym maes beirniadaeth lenyddol, er na wn ond am un person byw, a hwnnw yn Aberystwyth, a'i darllenodd. Dichon, wrth gwrs, heb yn wybod i mi, fod yna bump neu chwech ar wasgar hyd yn oed yn Aber. Gobeithio y cawn oll y cyfle cyn bo hir, ar y We o leiaf, i ddarllen y traethawd hwnnw. Cafwyd sylwadau pwysig ar y gwaith gan Caerwyn Williams, Tecwyn Lloyd, a Robin Chapman.

Y mae yna ysgrif feistraidd gan Damian Walford Davies ar y mater hwn o berthynas Iolo a Coleridge, heblaw cyfrol bwysig *Presences that Disturb,* 2002. Bu dylanwad Coleridge yn dra gwahanol ar bob un o'r tri Chymro. Ond priodol cydnabod mai'r farn gyffredinol yn Lloegr, am wn i, yw y gall mai Coleridge o bosib oedd y beirniad llenyddol gorau a gafodd yr iaith Saesneg erioed, er mor Almaenig oedd y dylanwadau arno. Ac felly y tro hwn, o leiaf, bu yna Gymry'n weddol brydlon yn gefnogwyr i'r ceffyl gorau hwn, peth nad yw'n digwydd bob amser. Dychwelwn at hyn yn y bennod nesaf.

Cydnabuwyd pwysigrwydd beirniadaeth Coleridge i lenyddiaeth Gymraeg gan nifer o'n hawdurdodau yn y maes – Huw Llywelyn Williams, Gwenallt, Glyn Tegai Hughes, E.G. Millward, a Hywel Teifi Edwards. Dyna un o'r rhesymau a'm prociodd i ymholi ai Coleridge o bosib oedd y pwysicaf o'r dylanwadau llenyddol ar Lewis Edwards yntau, ac efallai a'i harweiniodd yn ofalus i ddelio â'r brif broblem a'i poenai (yn wir a'i baglai ef weithiau), sef perthynas Duw a diwylliant. Cafodd L.E., fel y gwelwn maes o law, dipyn o anhawster yn y ddyletswydd o gynnal a meithrin yr Oleuedigaeth yn nannedd yr Ymoleuo. Mewn ysgrif ar Coleridge yn y *Traethodydd*, cawsai arweiniad posibl ar y modd i ddatrys, yn ei fryd ei hun, y broblem hon – a hynny drwy 'Reswm Cristnogol' ac 'Athroniaeth Seciwlar'. Camp deg yr Oleuedigaeth (hynny yw, y 'Christian

Enlightenment') fu iddi drwy amlochredd a chydwybodolrwydd Dysg drechu'n effeithiol gyfyngder Seciwlariaeth yr Ego Trosgynnol a geid yn yr Ymoleuo ei hun (hynny yw, y 'Secular Enlightenment'). Ymestynnai'r Oleuedigaeth ('Experiential Christianity') i ddangos na raid oedd i Reswm a'r Arbrofol ildio dysg gerbron rhagfarnau naturiolaidd. Ceid *sensus divinitatis* a gras cyffredinol yn rhagdybiau cysefin a chyfiawn i feirniadaeth Gristnogol. A maen tramgwydd y Seciwlaryn, fel y ceisiwn esbonio, oedd ei fethiant i drafod Gras Cyffredinol yn ei lawnder aeddfed, yn athrawiaeth sylfaenol wrth olrhain perthynas Duw a Llenyddiaeth.

Er hynny, o fewn beirniadaeth, delir o hyd i ragdybio awdurdodaeth rhagdybiau naturiolaidd heb drafodaeth ddigonol, gan fod dogmateg faterolaidd wedi tyfu'n afresymol. Mae'n bwnc sy'n codi ambell ddylyfu gên. Ond dros gryn dipyn o hanes ein gwlad, ym maes beirniadaeth lenyddol er gwaethaf swildod ein beirniaid cyfoes, hyn a fu'n corddi'r dyfroedd. Pe mentrid darlithio ar y pwnc yn y Babell Lên heddiw (heb jôcs) byddid yn debycach na dim o sicrhau cynulleidfa ddethol dros ben o seddau gweili: sef *Perthynas Llenyddiaeth a Diwinyddiaeth.* Dyma, sut bynnag, brif thema beirniadaeth i L.E.. A Coleridge oedd prif feirniad Lloegr a ddarparai gefndir iddo yn y maes. Yn ei gyfrol *Traethodau Llenyddol,* llyfr sy'n casglu 'hufen' ymdriniaethau Lewis Edwards â llenyddiaeth, ceir ysgrif ganddo ar *Aids to Reflection.* Hyn oedd yr union bwnc gan Coleridge a enillodd ganol ei sylw; ac ategid y gyfrol honno mae'n debyg gan *Biographia Literaria* a'i ddarlleniad o *Friend* a *Literary Remains*.

*Beirniadaeth Glawstroffobig*

Fel y gwelir, yr wyf wedi ceisio canolbwyntio ar wedd feirniadol ddisgwyliedig L.E., a gwneud hynny'n gadarnhaol. Gobeithiaf danlinellu eto rai o'i ragoriaethau yn fanylach wrth ymlwybro rhag blaen. Hynny a haeddai, yn ddi-os. Ond ni ellir canfod y rheini mewn unrhyw fath o gyd-destun call heb gydnabod hefyd hyd a lled ei gyfyngiadau. Mynnaf wneud hynny yn ogystal tan gofio'r crynswth o'i gynnyrch, o degwch i unrhyw ymgais i'w weld ef yn gyfan. Clawstroffobia oedd ansawdd ac effaith llawer iawn o feirniadaeth L.E.. Yn gyntaf, yr oedd ei gefndir llenyddol yn ei iaith ei hun yn weddol denau. Yr oedd ymwybod o Gymreictod ac o draddodiad cenedlaethol dwfn bron yn farw. Yn ail, yr oedd ei weledigaeth esthetig, – ei ymateb i synwyrusrwydd a dychymyg ieithwedd – yn brin ac yn drymgysglyd. Yn drydydd, hyd yn oed ym maes theori, sef ei gryfder penodol ef, yr oedd yn wir unochrog, fel pe na allai ymateb i gyfanrwydd gweddau ffurf a chynnwys llenyddol. Ac yn bedwerydd, bydd gofyn inni archwilio'n bur ddiwyd ei fethodoleg feirniadol a deallol wallus, a sylwi'n deg ar y twll yn y mintys. Mi fethodd, fel y cawn weld, yng ngalwad dreiddgar ei gyfnod. Gwaetha'r modd, fel y canfuwyd yn nirywiad rhai o arweinwyr diwinyddol Cymru yn yr ugeinfed ganrif, cafwyd haenen ddylanwadol iawn a arddangosai wendid

gorthrechol i ildio'n rhy barod i ffasiwn ryddfrydol Saesneg. Ni cheid parodrwydd i herio Lluosedd Relatifrwydd, y cymhleth israddol a'r meddwl hac. Ceid diffyg hyder pan wynebid awdurdod y ffydd gan ddiffyg gwirionedd yr ego Trosgynnol. Buwyd yn rhy gysurus, ac yn ofnus ynghylch rhoi bys ar Rym gwan y Sefydliad Rhyddfrydol.

Wrth fwrw golwg yn ôl tuag at y tyllau a gafwyd yn yr arfogaeth, yr oedd angen gwneud diagnosis wrth syllu ar rai o'r delwau nas drylliwyd. Eto, yn achos Lewis Edwards, llwyddodd mewn cymaint o ffyrdd. Cyfrannodd mor ddifyr a goleuedig i'n beirniadaeth; ac eto, myn hydeimledd inni synhwyro'r pydredd yn y pren – a'n harweiniodd at y teneuo yn y rhuddin erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Nid mater bach oedd arwyddocâd yr ysbrydol mewn llenyddiaeth, fel y ceisiodd ei ddangos yn well na neb ar y pryd. Amheuthun oedd mewn cyfnod o drai profiadol goruwchnaturiol ac o golli'r afael Feiblaidd.

Eto, roedd y tŷ diwinyddol ar dân, i'r sawl a graffai. Roedd yn dechrau mynd yn fflamgoch hyd at y to. Rhedwch am eich bywyd. Ymhobman eisoes mae hi fel ffwrnais. Ond ym mryd rhai, ac yn tynnu'r cwbl i'r llawr ar ryw olwg, saif Lewis Edwards, er nad fel pennaeth yr injin dân, ond gan gadw'i ben a thraethu'n dawel hamddenol drwy'r cwbl: 'Clywch. Ystyriwch. Y mae academeidd-dra yn ei gweld hi mewn modd cytbwys. Ydy hyn yn rhesymol? Ar un wedd mae hi ar ben, a phopeth sy'n cynnal y tŷ yn lludw. All neb fyw. Ffowch, ffowch am eich einioes. Ond ar wedd arall, dychymyg yw'r tân. Mae yna bob amser ddwy ochr. Dw i ddim yn gwadu nad yw'r tŷ yn goelcerth. Ond mae yna farn arall, os ych chi'n barchus academaidd ddiduedd. A rhaid dod o hyd i gyfaddawd a chydbwysedd rhwng y ddwy ochr. Fy awgrym i chi, fyfyrwyr, yw aros yn y canol. Onid yw pawb sy'n eu galw eu hunain yn Gristnogion *yn* Gristnogion?'

Fel yna, felly, yr wyf innau'n gweld y sefyllfa *vis-à-vis* y byd academaidd diwinyddol ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda thwf enbyd yn y didueddrwydd bondigrybwyll a chwerthinllyd, a seciwlariaeth. Dyna'r sefyllfa roedd Lewis Edwards (a'r hyn a gynrychiolai ef yn anad neb) yn ei chanol hi er nas gwyddai; ac yn ddiogel allan o'i ddyfnder, oherwydd iddo lacio gafael ar y cydlyniad sydd rhwng Metaffiseg a Rheswm, rhwng Disgrifiad a Beirniadaeth, a rhwng Rhagdyb a Datguddiad.

Onid oedd gwaeth diwinyddion nag ef? Wel, oedd, debyg iawn, bron pawb. Onid oedd cewri gwleidyddol o fath Michael D. Jones yn bur brin eu diwinyddiaeth? Oeddent. Ond dewch i berfedd y broblem: Lewis Edwards, y ddelwedd, a fu'n fwy arwyddocaol na phawb yn y golled o Gristnogaeth gyhyrog erbyn heddiw. Byth ar ei ôl ef, babi clytiau o ddiwinyddiaeth a gafwyd. Ceid sgeptigiaid na allent fod yn sgeptigaidd am sgeptigiaeth. 'Wyddai'r rheini fawr am y fath beth ag arwyddocâd uniongred cryf i ffeithiau diwyro Cristnogaeth. Ein penbleth ni yw ymholi, beth a

ddigwyddasai iddynt? A'r ateb hydeiml yn y canol: colli'r cyhyrau a chochni gwaed. Credaf fod cymhlethrwydd y sefyllfa Gymraeg a'i hanfodion brodorol unigryw yn haeddu archwiliad llai heulog o lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru nag a gafwyd, o ran ei gwendidau a'i chryfderau. Aeth yn raddol yn Sefydliad diberfedd.

Brysiwn yn ôl yn gyson drachefn, gobeithio, i sylwi ar ei gyfraniad tra gwerthfawr i dwf ein beirniadaeth. Gall pwysleisio hynny mewn cyfnod na fentra'n fynych fyfyrio y tu allan i'r dylanwadau amwys ddiwinyddol ar-i-waered, unioni collfarn. Bydd yn rhaid bob amser gofio'i ddiwinyddiaeth thematig wrth glosio at ei feirniadaeth. Gall unplygrwydd honno hybu gwerthfawrogiad effro'r sylwebydd i'w ddilyn yn feirniadol i ganol y cythrwfl ysbrydol. Dyma'i wreiddioldeb i ni yn yr unfed ganrif ar hugain, yn rhyfedd iawn. Ac y mae'r arwyddocâd sydd i'r fath bwnc annaearol ar dwf heddiw gredaf ymhlith y cyhoedd darllengar. Ni chafwyd mewn beirniadaeth lenyddol seciwlar yr anturiaeth a ddylai fod, oherwydd annigonolrwydd ei beirniadaeth ar Ôl-foderniaeth. Diffyg uchelgais y cyfnod diweddar wrth barhau diffyg uchelgais Lewis Edwards sy'n ein rhwystro rhag cadernid yr arweiniad yr ydys yn hiraethu amdano. A chan fod y gwrthryfel ystrydebol yn erbyn y rhuddin Cristnogol mor anwybodus bellach ynghylch y dadleuon uniongred, tybed onid yw'n bryd ymholi a oes anturiaeth yn bosibl o gyfeiriad deallol annisgwyl y traddodiad Beiblaidd? Yn y cyfwng ingol oni ellir mentro wynebu'r drylliad pwysig â chyfanrwydd 'newydd'? Os daw, nid digonol synied mai brwydr ddof sydd o'n blaen. Ac os daw, bydd yn rhaid bod yn barod i syndodau o gyfeiriadau goruwchnaturiol a naturiol a giliodd dros dro o'r golwg.

Felly, oni bydd angen cyfrif ffrâm eang ac uniongred i ddiddordebau L.E., os ydym yn mynd i gydnabod darlun cyfan y gwendidau a'r cryfderau?

## COLERIDGE

*Traethodau Llenyddol*, c. 1865, Lewis Edwards

Yn gam neu'n gymwys, yr wyf am ddechrau'r tro hwn gyda Coleridge, oherwydd fy mod i'n synied bod L.E. y beirniad wedi dysgu gwers bwysig gan hwnnw. Er nad yw'n cyfaddef hynny, mi gredaf i ei fod wedi dysgu ganddo'r gwahaniaeth hanfodol rhwng yr *Ymoleuo* (Secular Enlightenment) a'r *Oleuedigaeth* (Christian Enlightenment). 'Yr Ymoleuo' yn ddiau a arloesodd y llwybr, ac yn y cyfnod cynnar hwnnw a orseddodd Reswm (Leibniz) ac Empiriaeth (Hume), gan arwain at Kant. Gosodai'r rhagdyb yn y canol fod galluoedd dynoliaeth yn fath o Absoliwt. 'Yr Oleuedigaeth' wedyn a'i hatebodd ac a gydnabu'r wedd Gristnogol ar ddeunydd a ffurf, a natur yr Ego syrthiedig a seciwlariasai fywyd. Yn achos yr Oleuedigaeth (Duw yn y canol), arhosai o hyd ddefnydd o reswm (ac o rinweddau eraill y symudiad) o fewn disgyblaeth neu fframwaith neu ragdyb gwrthrychol ynghylch Duw tragwyddol absoliwt, fel y'i ceid gan Bantycelyn, Wesley, Jonathan Edwards, a'r *Gwyddoniadur.* Ideoleg Galfinaidd gyn-oleuedig ac ôl-oleuedig ydoedd, bid siŵr, yn ddigyfnewid gyfnewidiol. Beirniadaeth ar ragdybiau'r Ymoleuo oedd rhan bwysig o ragdybiau'r Oleuedigaeth. Bu parch Calfin at reswm a threfn yn amlwg. Roedd Pantycelyn, Thomas Charles a Lewis Edwards o'r herwydd yn medru cynnal rhai o ddelfrydau dynol a soffistigedig eu cyfnod heb beri i'w ffydd gael ei 'llethu' gan ddimensiwn y Naturiol amddifad. Mewn gwirionedd, eu *forte* oedd cynnwys a chymhwyso'r naturiol o fewn golwg ehangach y goruwchnaturiol. Yr hyn a geid o c.1859 ymlaen fu materoli hyn oll, wrth gwrs. Mewn beirniadaeth, bu J. Morris-Jones yn enghraifft ddisglair o'r Ymoleuo. Ar ei ôl ef, gwelwn Oleuedigaeth ddiwygiedig yn rhoi her a'r prociad i'r deall Cristnogol cyfoes ac i'r Ymoleuo ei hun. Ond cymysgedd oedd.

Bu hyn yn broblem i L.E. ar hyd ei oes. Mewn rhai ffyrdd, bron yn ddiarwybod, yng nghefn ei feddwl, enillodd ef Oleuedigaeth gyfoethog. Mewn ffyrdd eraill, fe gollodd yn y fan yna y ras ei hun (a pheth o'r Gras ei hun). 'Thâl hi ddim inni syllu drwy sbectol rosynnog. Deall yr union ddeuoliaeth hon yw'r allwedd i ddeall cyfwng L.E., a chyfwng ysbrydol Cymru o 1850 ymlaen.

Mae gan L.E. un ysgrif yn *Traethodau Llenyddol* sydd yn union ar feddwl Samuel Taylor Coleridge. Ni chrybwyllodd yno, mae'n wir, namyn un o lyfrau rhyddiaith Coleridge, sef *Aids to Reflection,* heb ddim am y *Biographia* nac am ei farddoniaeth chwaith. Cofier mai'r unig gyfrol o ryddiaith a gyhoeddodd Coleridge yn ystod ei oes oedd y *Biographia Literaria* ei hunan, er bod llwyth wedi dod wedyn. Ac y mae'r gyfrol honno'n gwbl wahanol i'r gyfrol ddiweddarach a drafododd L.E.. Mae hefyd yn fwy tebyg i feirniadaeth lenyddol na'r *Aids.* Ond dull tra gwreiddiol o gyflwyno beirniadaeth a geir gan Coleridge ymhobman. Mae'n debyg mai'r *Biographia* cynnar yn anad dim sy'n peri i lawer o feirniaid Saesneg heddiw gyfrif, yn briodol, mai Coleridge oedd

beirniad llenyddol pwysicaf yr iaith Saesneg. Ond cyfrol ôl-farwolaeth lai beirniadol yw'r un y manylodd L.E. arni.

Teg nodi nad 'llenyddiaeth' (fel y'i deellir yn gyffredin) sydd yn cael y sylw pennaf yn ysgrif L.E.. A'r gwir yw mai teitl yr ysgrif am Coleridge gan L.E. oedd 'Athroniaeth a Diwinyddiaeth Coleridge'. Bid siŵr, yn y gyfrol *Traethodau Llenyddol,* fe geir amryw ysgrifau gan Lewis Edwards sy'n ymwneud yn weddol uniongyrchol â Llenyddiaeth: 'Coll Gwynfa', 'William Salesbury', 'Ysgrifeniadau Morgan Llwyd', 'Barddoniaeth y Cymry', 'Llyfr "Hanes y Ffydd"', 'Cyfnewidwyr Hymnau', 'Goethe', 'Llyfr yr Ymarfer o Dduwioldeb', 'Arnold', 'Homer', 'Llenyddiaeth a Gwyddiant', a 'Shakespeare a'r Cymry'. Oes. Mae yna ddigon yma i gyfrif y Prifathro yn ffigur blaenllaw o belican yn anialwch beirniadaeth lenyddol Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd llenyddiaeth yn bod yn fwy na nodiadau diwinyddol iddo, er bod hynny'n gyfrifoldeb arbennig.

Eto, nid yn rhith beirniad go iawn y dôi L.E. at ei dasg, er mai gan safbwynt Coleridge y câi'r cymorth pennaf. Nid Coleridge oedd L.E.: creadur llawer parchusach oedd y Cymro. Rhestrais rai o'r materion dilys lenyddol y bu ef yn eu 'beirniadu'. Ond ni wnaeth ddim o hynny yn ôl eu gofynion hwy eu hun. Gellid dweud fod ganddo hawl i ddilyn ei lwybr diwinyddol arferol, ac na ddylid ei gollfarnu oherwydd hynny. Mae hynny'n wir. Ond ni lwyddodd i'w ryddhau'i hun rhag y meddwl 'disgwyliedig'. Nid ymestynnai tuag at lenyddiaeth fel llenyddiaeth, na thuag at ddiwylliant ond odid y tu allan i 'grefydda', na thuag at gyfannu'r cwbl chwaith. Ac am na wnâi hynny yn ôl telerau llenyddol yr awduron, collai'r hyn a roddent hwy i'w grefydd. Estynnent anturiaeth iddo, ac ymatebai'n 'bregethwrol'. Am nad ymwrandawai â'r 'cysylltiadau' â'r syn a'r ochrgamu creadigol, fe fethodd â 'gweld' rhai pethau.

Teg cydnabod bod gan L.E. yntau lawer i'w gynnig i lenorion hefyd. Fel Coleridge, syniai L.E. am ruddin crefyddol a difrifoldeb dyrchafol yn treiddio drwy bob llenyddiaeth genedlaethol. Ac yr oeddent yn llygad eu lle.

Ar y pryd, ni chawsai Coleridge ddisgyblion blaenllaw yn Saesneg. Dyna pam y mae'n ymddangos yn od. Olynwyd ef gan rai posibl fel Lamb, Hazlitt, De Quincey, ac Arnold, ond ar lwybrau gwahanol. Er mor ddawnus oedd y pedwar yna, Coleridge oedd yr athrylith. Ond yn Lloegr cymerodd o leiaf ddwy ganrif i'r geiniog gwympo. Mae'n wir mai Coleridge oedd yr un a ragflaenodd un pwyslais yn yr ugeinfed ganrif ar ddadansoddi delweddau (gan G.Wilson Knight ac eraill). Ac yn fwy o lawer, olynwyd ei olwg hefyd ar adeileddeg a theori, tua diwedd yr ugeinfed ganrif, gan theorïwyr amryfal. Sylwais mewn llythyr ganddo at Byron (17 Hydref 1815) ar osodiad a oedd yn gysgod cynamserol o un wedd (sef Tafod) o ddiddordeb cynyddol yn y cyfnod diweddar. Sylwer ar ymadrodd arwyddocaol ganddo am natur beirniadaeth: 'to reduce criticism to a system, by the deduction of causes from principles involved in our faculties.' Meddyliwch: 'system' gan un o

arch-ramantwyr Lloegr. Gwedd arall y bûm innau'n falch o'i gweld ganddo oedd ei argyhoeddiad o'r cysylltiad anochel rhwng Beirniadaeth a Metaffiseg, gyda chydnabyddiaeth deilwng a phriodol o'r lle sydd i'r Absoliwt yn amodwr cyweiriol i ymwybod gweledigaeth pob llenor. Hyn oll a anwybyddwyd i raddau am ganrifoedd, mae arnaf ofn. Yr oedd, yn ddiau, yn rhy 'anodd'.

Syniadaeth bob amser oedd bryd Coleridge (1772 – 1834). A phrin ymhlith beirdd a beirniaid ei gyfnod (neu'n cyfnod ni) fod neb wedi treiddio ymhellach nag ef i gydlyniad beirniadaeth ac athroniaeth. Datganai'n syml ei gasgliad cyffredinol, 'the ultimate end of criticism is much more to establish principles of writing than to furnish rules how to pass judgement on what has been written by others.' Yn hynny o beth, fe'i dilynwyd i raddau gan L.E.. Hunangofiant i'r meddwl a bywyd yr ysbryd oedd dwy gyfrol y *Biographia Literaria* 1817, a math o ateb i Ragair Wordsworth i'r *Lyrical Ballads* (1789, nid arg. 1800). Ond cyfaddefai hefyd, 'Yr wyf wedi defnyddio fy hanes yn rhagymadrodd i ddatgan fy egwyddorion mewn gwleidyddiaeth, crefydd, ac athroniaeth, ac i gymhwyso rheolau, a ddiddwythwyd o egwyddorion athronyddol, i farddoniaeth a beirniadaeth.' Ceir ganddo felly fath o theori esthetig, i raddau mwy haniaethol o lawer nag a geid gan Wordsworth, bardd a fynnai ymwybod â pherthynas barddoniaeth â bywyd cyffredin, gyda chais chwyldroadol i drin iaith briodol barddoniaeth.

Ond beth am ysgrif L.E.?

Mae cynllun *Aids to Reflection* (arg. 1893 a ddarllenais i), sef y gyfrol 'arall' lai adnabyddus o'i ryddiaith, a drafodwyd gan L.E., yn bur nodedig o ran naws ac adeiladwaith. Fe'i trefnwyd yn ôl ffurf 'Aphorisms'. Ni wn sut y mae cyfieithu hyn yn ôl bwriad Coleridge: 'safbwyntebau' fyddai orau, mi dybiaf (nid annhebyg weithiau i rai Wittgenstein), gan fod 'gwirebau' wedi'i chipio i olygu 'gnomes'. [Medd STC: '*Aphorism,* determinate position, from the Greek, *ap,* from; and *horigein,* to bound or limit.']. Ceir gan Coleridge gyfres yn y gyfrol hon o baragraffau byr (a hir) o lenyddiaeth ddoethineb (ddiarhebol weithiau): 32 o rai rhagymadroddol; 40 o rai moesegol; yna llawer o rai crefyddol ac ysbrydol. Pwysleisio a wna yr athrawiaethau efengylaidd a'r rhai cyfriniol drwy gydol y rhain, gan drafod Rheswm o fewn cyd-destun Gostyngeiddrwydd, a Deallusrwydd, a hynny o fewn cyd-destun Delweddau Diwinyddol.

Mae ei wybodaeth o'r cefndir Undodaidd yn caniatáu iddo fod yn bur effro i'r hyn a adwaenom bellach yn ddi-wawd fel yr Ego Trosgynnol ('Every Man his own Redeemer'). Ond i mi, cyfraniad arbennig y gyfrol hon yw'r gwahaniaeth a welir rhwng yr Oleuedigaeth Gristnogol a'r Ymoleuo Seciwlar. Mae Coleridge yn hydeiml iawn i'r gwahaniaeth rhwng yr hen weledigaeth o Reswm Gofod ac Amser y byd materol ar y naill law, a'r rhyfeddod o Ras Rheswm a'r ymwybod o ofod ac amser *mewn cyd-destun goruwchnaturiol tragywydd anochel* ar y llaw arall, heb ymgyfyngu (wrth reswm) i Amser a Lle.

Ond os ceisiwn ystyried beth oedd a wnelo hyn oll â beirniadaeth, ni allaf lai na chasglu mai ceisio datblygu yr oedd Coleridge fframwaith Beiblaidd i themâu bywyd llenyddol. Rhoddai feirniadaeth mewn cyd-destun ysbrydol. Gwnâi ef hyn drwy fyfyrio a chwilio am y diffiniad o blot a deddfau moesol mwyaf sylfaenol y byd ymarferol. Archwiliai'r tyndra sydd yn y Gwirionedd. A dyna ni'n dod yn ôl at deitl y llyfr hwnnw: anelai at brocio myfyrdod dwys. Ac ymhlith pethau eraill, ceisiai ef roi canllawiau – heb ffoi – i wynebu Gwyddor Geiriau. Yn wir, wrth gymharu ei fethodoleg, o archwilio rhagdybiau yn greulon finiog, â'r cau meddwl a geir bellach yng nghysuron ansicrwydd modern ac amheuaeth a ddaeth yn sefydliadol ac yn ystrydebol gyda dyfodiad Ôl-foderniaeth, y mae difrifoldeb Coleridge fel tipyn o awyr ffres. Fe gysyllta L.E. hyn oll â rhagdybiaeth anodd a dadleuol a dychrynus ei fentor, am fod a wnelo *gwerthuso* llenyddiaeth ystyrlon bwysig â'r byd ysbrydol. Yr egwyddori hwnnw yn y bôn o hyd sy'n anrhydeddu ansawdd ac yn manteisio ar lawnder celfyddyd; ac y mae pob llenor o bwys yn meddu ar ddifrifwch o ryw fath megis greddf i'r cyfeiriad hwnnw.

I mi, y mae ei ymdriniaeth feistraidd â'r Trosiad, fel dull (yn nannedd Llythrenolrwydd) o ddod o hyd gyda manylder a hydeimledd i gredo, yn uchafbwynt i'r gyfrol. Wrth drafod y gwahaniaeth rhwng Trosiad (fel amlygiad neu ddelwedd eglurhaol) ac Analog fel uniaethad argyhoeddiadol, ymdeimlwn â'r Rhamantydd teimladus sy'n syllu at drefn Clasuraeth yn ei bwriad dyfnaf. O'i gymharu â Lewis Edwards, gwelaf L.E. fel Clasurydd sobor a syber o ran anianawd yn syllu ar ei oes Ramantaidd ei hun, ac yn hiraethu'n gymedrol ddiantur yn y gwaelod am y 'rhyddid' a'r 'prydferthwch' a garai'n gudd, ond gan esgor yn y diwedd ar 'wreiddioldeb' tawel ond digon unigolyddol *Traethodau Llenyddol.* Genir *pob* llenor o bwys mewn tyndra rhwng yr un a'r amryw, y caeth a'r rhydd. Yr oedd yna gweryl rhwng L.E. ac ef ei hun. A'r un cweryl hwn, yn anad dim, a rydd i Coleridge yntau broblem ei hunaniaeth.

Soniais gynnau fel y dyfnhaodd yr ymwybod o Ego Trosgynnol yng nghyfnod Naturiolaeth ac Empeiriaeth. Hyn a gyfrifai am y 'fi' Ramantaidd, am ddyn sy'n cymryd yn rhagdybiaeth ei synied ei hun ym myd teimladaeth ynghylch rhagdybiau yn neilltuol, am ddynganoli, ac am y gwrthod awdurdod gwrthrychol poblogaidd yn ystod y cefnu ysbrydol yng Nghymru rhwng Lewis Edwards a diwedd yr ugeinfed ganrif. Nid yw hyn yn golygu wrth gwrs beidio â chwilio'r hunan. Gall hynyna i'r Cristion, a ŵyr ei angen, arwain at edifeirwch sylfaenol, ac at fywhau sylweddoliad o Sensus Divinitatis. Nid anwybyddu'r hanes na'i ddifrïo a wnâi Coleridge. Hynny yw, heblaw bod Duw'n dod yn fyw iddo, meddai Coleridge: 'It is a matter of great difficulty, and requires no ordinary skill and address, to fix the attention of men on the world within them to induce them to study the process and superintend the works which they are themselves carrying on in their own minds.' A ddwedai Morgan Llwyd yn amgenach? Neu Gustave Guillaume?

Oherwydd ei wreiddioldeb, yr oedd Coleridge yn enwog am y crwydradau ffrwythlon yn ei synfyfyrdodau, ac L.E. yn enwog am gamre taclus ei esboniadaeth. Ond credaf fod darllen y gyfrol hon gan Coleridge wedi profi'n fath o dröedigaeth ddeallol i L.E.. Caeodd y gyfrol am ben y Cymro. Mae'n sôn amdano'i hun fel hyn wrthi'n dechrau'r gyfrol (yn null Esec. 47: 4,5):

*'Yno, ar y cyntaf, nid oedd y dyfroedd ond at y fferau; ond cynnyddasant yn fuan, nes cyrhaedd at y lwynau; a chyn myned ymhell iawn, teimlem yr elfen risialaidd yn chwareu oddeutu y gwddf, ac ambell dòn arafaidd, fwynaidd, yn ymdòri dros ein pen: ac am nad oeddym y pryd hwnw wedi dysgu nofio yn dda, nid oedd genym ond gwneyd am y làn yn ddiymaros. Nid aiff y tro byth yn anghof; oblegid ni chafodd ein balchder llëenyddol erioed y fath glwyf. Braidd nad oeddym o'r blaen yn meddwl ein bod yn rhywbeth. Nid oeddym yn arfer cael ein cyfrif gan neb, ac a dyweyd y gwir nid oeddym yn cyfrif ein hunain, yn fwy penbylaidd na'r cyffredin o'n cyfoedion. Yr oeddym hefyd wedi darllen Locke, a Reid, a Stewart, a Brown; ac yn tybied ein bod yn dëall pob gair. Ond dyma lyfr bychan dirodres, yr hwn nid oedd yn hòni bod yn ddim mwy na chymhorth i feddwl, wedi ein trechu yn eithaf teg.'*

Efallai mai celfyddyd y 'llenyddiaeth' ynddi oedd yn ddieithr.

Yn yr ysgrif hon, dadlennir pa athroniaeth yng ngwaith Coleridge a gafodd (yn fy marn i) y dylanwad pennaf ar feddwl L.E.: sef yn ôl Pen-draw'r bywyd ysbrydol, yr Undod, a'r Absoliwt. Gwelai L.E. yr undodau a geid ym mhob gwedd, yn faterol ac yn ysbrydol, yn y bydysawd, gan gynnwys rheswm. A dyma hefyd ei genadwri gyfoes i ni.

Fe'i dyfynnaf felly: *'Hwyrach y byddai yn fantais i rai at ddeall y sylwadau uchod pe crynhöid hwynt i dri neu bedwar gosodiad, fel hyn:-*

1. *Y mae gwahanol ranau pob llysieuyn yn cael eu huno gan ryw ddeddf neu egwyddor ragflaenol; neu, mewn geiriau eraill, undod yw achos pob undeb.*
2. *Y mae cyfaddasiad y rhai hyn i gyd i'w gilydd yn rhagdybied rhyw undod sydd yn holl-bresennol. [Hynny yw cydlyniad.]*
3. *Os yw hyn yn wir gyda golwg ar y byd direswm, nid yw yn afresymol ei gredu gyda golwg ar y byd moesol.*
4. *Os oddiwrth ryw undod hollbresennol y deillia pob trefn a daioni yn y byd moesol, nis gall ewyllys dyn ei gau allan.'*

Dyna ganllawiau go gyrhaeddgar, yn sylfaen i strwythurwr. Mae L.E. yn barod, er hynny, i anghytuno â Coleridge ynglŷn â pherthynas rhyddid a chaethiwed – mater o gryn bwys i Ramantwyr. A thry L.E. oddi wrth ryddid Coleridge at Jonathan Edwards er mwyn lleddfu ychydig ar ryddid 'penstiff' ac anhunanfeirniadol braidd y cyntaf. Nid yn unig yr oedd L.E. am fod yn gaethwas i Grist, gyda rhwymau a rhyddid yn cydgyfarfod i gyfansoddi penderfyniad yr ewyllys. Yr

oedd hefyd am ddyrchafu dehongliad Cristnogol o'r Ddeddf. Bydd Rheswm Cristnogol yn arwain mewn ffordd ryfedd felly at Gariad a rheidrwydd Trefn lân. Yn y ddadl hon o'i eiddo'i hun ar dudalennau 46-47 fe glywn gryfder meddwl L.E. – yn canfod pob dim yn y cyd-destun tragywydd, gyda rheswm wedi'i ddarostwng i'r ysbrydol, ac o'r herwydd yn gyfansawdd ac yn haelfrydig gatholig.

Yr egwyddor hon o undod yw'r hyn sy'n nodweddu beirniadaeth lenyddol aeddfed, ac i raddau fywyd L.E. Mae'n rhoi iddo dipyn o gysondeb wrth symud o bwnc i bwnc. Mae'n egwyddor benigamp hefyd, yn arbennig yn wyneb chwalfa ac amhenderfyniadaeth a'r gwahaniaethu diddisgyblaeth a gafwyd yn ddiweddar gan yr Ôl-fodernwyr potensial sydd wrth gwrs bob amser gyda ni. Ond heb gydbwysedd cyfredol yr Amryw yn yr Un, gall ar dro arwain at ddiffyg cydbwysedd yn L.E., y gŵr mwyaf cytbwys ei farn ei hun (gellid ei feddwl) a fu ar wyneb tir Cymru erioed. Ac fel y cawn weld, yr oedd yna lyffetheiriau eraill a allai'i rwystro.

Un o gyfrolau Coleridge a gyhoeddwyd bum mlynedd cyn i Lewis Edwards ddechrau'i olygyddiaeth i'r *Traethodydd,* oedd *Confessions of an Inquiring Spirit* (1840; Adargraffiad: Menston: Scholar Press, 1971). Tynnodd Geraint Lloyd fy sylw at hon yn ei erthygl gytbwys 'Geiriau, Gair a Gwerin: Athrawiaeth yr Ysgrythur yng *Ngeiriadur Ysgrythurol* Thomas Charles.' Dangosir yn y fan honno fel yr oedd Thomas Charles yn llefaru yng nghanol llif uniongred yr Eglwys ac yn dilyn safbwynt Calfin a soniai am Dduw yn 'ar-ddweud' cynnwys yr Ysgrythur. Meddai ef: 'Un o arloeswyr Rhyddfrydiaeth ym Mhrydain oedd y bardd Samuel Taylor Coleridge. Ac yntau'n rhugl ei Almaeneg, cafodd gysylltiad uniongyrchol â diwinyddiaeth ryddfrydol yn ystod ei gyfnodau ar y cyfandir. Crisialodd beth o ffrwyth y myfyrdodau hyn mewn llyfr a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth, sef *Confessions of an Inquiring Spirit.* Coleridge oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r gair "bibliolatry" i'r Saesneg. Roedd yr athrawiaeth o ysbrydoliaeth ym mhob gair, fel y'i harddelwyd gan ddiwinyddiaeth uniongred debyg i Thomas Charles, yn annerbyniol.'

Anodd credu nad oedd L.E. erbyn amser y *Traethodydd* heb ddarllen cyfrol ôl-farw Coleridge. Yr hyn sy'n ddiddorol i mi yn y gyfrol honno yw bod Coleridge yn ildio i'w deimlad a'i gydymdeimlad yn hytrach nag addef bod ei feddwl ef heb y gallu o raid i gwmpasu meddwl Duw. Hynny yw, un o'r pethau sy'n wynebu Cristion yw – a wna herio'r Gair yn syml am na all ddirnad bwriadau Duw ei hun? A all sôn am anghysondeb y Beibl am fod y meddwl absoliwt yn uwch ac yn fwy cymhlethog ac ymestynnol nag y gall dyn ei ddychmygu? Sut y gellid 'deall' holl feddwl y tragwyddol? Er y gellir ei ddeall yn 'ddigonol', ni raid petruso na chywilyddio am na all amgyffred mwy nag un llond gwniadur ohono.

Beth yn union oedd ystyr 'ar-ddweud' (*dictatum*)? Yr oedd yn amlwg fod Ysbryd Duw yn cael ei drosglwyddo yn anffaeledig i ysbryd y geiriau. Nid yn unig, wrth gwrs, i'r un iaith ar y pryd

â'r sawl a ysgrifennai'r geiriau, ond i ddigon o'r un amgyffrediad, o'r un arddull, o'r un cymeriad â'r sawl a'u cofnodai. Ac yn yr un modd, cynhwysai ddigon o botensial i fywhau o fewn yr un cyflwr ieithyddol y sawl a gâi dröedigaeth oherwydd y geiriau. Hynny yw, yr oedd yna elfen ddynol, a hyd yn oed unigolyddol bersonol gan yr awduron eu hunain yn y Beibl. Eithr nid oedd dim o darddiad dynol yn ymyrryd yn y lleiaf modd i gymysgu'r dwyfol. Yr awdur dynol oedd megis drych i Dduw edrych drwyddo. Ac fe'u diogelid hwy hyd eithaf pob sillaf yn yr Ysgrythurau. Eto, nid dyna ddealltwriaeth lawn Coleridge, cyn belled ag y'i deallai ef ei hun. Llithrai ef yn undodaidd neu'n arminaidd tuag at ddyn, yn ôl y duedd adnabyddus.

Ond 'ar-ddweud' o'r math uniongred, a ddisgrifir yma, yn sicr dyna oedd dealltwriaeth Thomas Charles; ac nid oes gennyf reswm i amau nad dyna hefyd oedd dealltwriaeth Lewis Edwards yntau. Tystir yn loyw i hynny yn 'Ysbrydoliaeth yr Ysgrythur' yn *Traethodau Duwinyddol*: 'cyfarwyddyd yr Ysbryd Glân yn cyrhaedd nid yn unig at y meddyliau, ond hefyd at y geiriau.' Yr hyn nas ceir (yn nodweddiadol) gan Lewis Edwards oedd beirniadaeth o Coleridge ar y pen hwn.

Tri gwaith yn benodol gan Coleridge a amlinellai'i agwedd at ddadansoddi Llenyddiaeth Feiblaidd. Yn y cyntaf, *The Stateman's Manual; or the Bible the Best Guide to Political Skill and Foresight,* 1816, mae ef yn ymwrthod â llythrenoliaeth a'r tueddiadau moesegol a geid gan esbonwyr cyfoes iddo ar y Beibl. Dangosai fod angen gosod yr ysgrythurau o fewn amgylchiadau hanesyddol ac yn ôl natur y ffurfiau llenddulliol amrywiol. Pwysig iawn yw ei ymgais i wahaniaethu rhwng Symbol ac Alleg. Yr oedd iaith symbolaidd yn fwy diriaethol, ac yr oedd wedi'i wreiddio ym myd amser. Llai sylweddol a mwy haniaethol yw'r Alleg wrth gyflwyno syniadaeth. Tuedda hynny ar ei gwaethaf i israddio'r darlleniad i lefel chwedlau llai credadwy a gwersi moesegol sych. A thyfodd awch yr Ego Trosgynnol: 'Sut y gellir anghredu'n barchus?'

Mwy dadleuol oedd y dehongliad beirniadol *Confessions of An Inquiring Spirit* (1840) a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth. Sgrifennwyd hyn fel math o sylwebaeth ar ddiarhebion yr Archesgob Robert Leighton, diwinydd Presbyteraidd o'r ail ganrif ar bymtheg, a drafodai dwf ysbrydol personol a'r lle sydd i grefydd mewn bywyd pob dydd. Yma, rhydd fwy o bwyslais ar Symbolaeth: 'A Symbol is a sign included in the Idea, which it represents.' Ac y mae Adda iddo yn ddeuol, wedi'i fwriadu'n hanesyddol ac yn symbolaidd.

Wedyn, cawn *Aids to Reflection*, y gyfrol a fu'n gymaint o ddylanwad ar Lewis Edwards. Gwelai Coleridge Natur fel symbol o'r ysbryd. Ac ymdeimlai â Duw yn y byd naturiol, y math o ddadl a apeliai at drosgynwyr Lloegr Newydd megis Ralph Waldo Emerson a Henry David Thoreau.

Ym mryd efengyleiddwyr llythrennol diweddar, os ydynt heb werthfawrogi trosiadaeth, tueddir i ystyried Coleridge yn rhyddfrydwr ac yn gyfrinydd llac. Ar dro bydd eraill yn synied

amdano fel ceidwadwr Anglicanaidd. Tueddaf innau i synied amdano fel Cristion o ddifri y mae ei syniadau am symbolau a throsiadau'n helpfawr; ac y mae'r bywyd ysbrydol a brofir yn ei waith a'i gyflwyniad i reswm Cristnogol yn ddadleniad gwerthfawr.

Yr hyn a ychwanegwn i yw bod yna sawl Coleridge, fel arfer ar adegau gwahanol. Mae hyn yn wir am bawb ohonom, o leiaf ynglŷn â manylion. Ond yn achos Coleridge, yr oedd yn ymylu ar danseilio sylfeini meddwl ei hun. Gallai fod yn Undodwr ar dro, yn Grynwr, yn Uniongred, ac yn tueddu tuag at 'ysbrydoliaeth rannol' yn ei agwedd at y Beibl. Dwy o'r gweddau mwyaf cyson oedd ei ramantiaeth a'i ostyngeiddrwydd. Pioden deimladol oedd a heliai nodiadau wrth ddarllen, ac yn hyn o dasg bu'n rhy oddrychol, fel Schleiermacher neu fel Hegel. Pioden o fath gwahanol oedd Lewis Edwards yntau: pioden luosaidd ('pluralist') ceidwadol. Hynny yw, credaf ei fod yn gwibio o bwnc i bwnc, gan gyflwyno'r cwbl braidd yn 'gyfartal', am ei fod heb ddigon o awydd i ddethol yn gyfansawdd yn ôl argyhoeddiad, fel gŵr sy'n dadansoddi *heb* werthuso nac wedi crefftwra ei farn bersonol wreiddiol feddylgar ei hun.

PARHAD I'R OLEUEDIGAETH

Symudodd Lewis Edwards theori lenyddol Cymru yn ôl i ganol y byd ysbrydol. Ac y mae'r byd hwnnw'n medru newid llenyddiaeth o ran dyfnder ac ansawdd. Mae'n medru hefyd ei difetha.

Yn negawd olaf y ganrif ddiwethaf, cafwyd cryn ddadlau ynghylch natur anfuddiol neu beidio'r hyn a elwir gan rai theorïwyr yn Ymoleuad, a chan eraill yn Oleuedigaeth. Mae'n briodol, onid yn rheidiol, inni lygadu L.E. o'n safbwynt cyfoes yn y cyd-destun hwnnw, felly. Pe gwybuasai ef am y ddadl gyfoes rhwng y golwg sy'n gwahaniaethu bellach rhwng yr Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) a'r Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*), ni fuasai ef wedi cael yr un anhawster i ymrestru yn yr ail gyda Jonathan Edwards, Coleridge, a Williams Pantycelyn.

Gwelai'n burion fod amddiffyniad nid anghyffredin Hume i sgeptigiaeth ymbarél yn ei wrthddweud ei hun. Bu'n rhaid i Hume, er mwyn meddwl o gwbl, dderbyn bodolaeth ystyr weddol gyson neu sefydlog y gair yn ei unigolyddiaeth. Wrth hawlio bod popeth yn oddrychol, yr oedd yn amlwg ffals, gan fod y fath haeriad ei hun yn gorfod bod yn 'wrthrychol' i raddau helaeth hefyd er mwyn golygu unrhyw beth i rywun arall. Roedd dynion yn rhannu'r symbolaeth sefydlog a fynnai dealltwriaeth wrth raid, yn ogystal â gwneud anghrediniaeth o fath rhesymol yn amhosibl. Bu'n rhaid derbyn Mathemateg a Rheswm gan eu bod yn estyniad cyhoeddus i'r Absoliwt angenrheidiol. Camgymeriad tila'r Ymoleuo oedd rhag-honni nad oedd ond y Naturiol yn bodoli – o raid.

Arweiniodd yr Ymoleuo ymlaen at Foderniaeth anorfod, a hynny ymlaen at Ôl-foderniaeth. Ni fedrai'r Ymoleuo esbonio wrth gwrs sut a pham yr oedd bodolaeth ar gael, a sut yr oedd bywyd pwrpaslon ar gael, na dyluniad deallus ychwaith; sut yr oedd y meddwl wedi codi allan o ddeunydd, a sut y ceid moesoldeb a gwirionedd, a chyfundrefneg ymhobman. Ond dôi Ôl-foderniaeth yn dalog braf i neidio i'r casgliad yn groes hyd yn oed i'r Ymoleuo nad oedd cysondeb rheswm yn bod, ac nad oedd na gwerthoedd na chanon, ac mai relatifrwydd a'r Ego Trosgynnol oedd popeth. Rhag dilyn y llwybr deallol wan onid amhosibl hwnnw, mynnai'r Modernwyr aros yn gysurus geiliogaidd gyda rhagdybiau ynghylch dogma amheuaeth, heb eu holi'n ddigonol, er na fynnent bob amser fradychu moesoldeb fel ffactor ymarferol ac yn wedd ar *sensus divinitatis*.

Symudasai Lewis Edwards gyda'r Oleuedigaeth Gristnogol i fod yn bleidiol iawn i resymeg wrthrychol ac i iaith ddeallol, nid oherwydd bod dynolrwydd yn farnwr eithaf, eithr oherwydd bod y cyneddfau hynny'n tarddu yn y Gwirionedd all-naturiol neu gyn-naturiol Beiblaidd. Ar ryw olwg, L.E. oedd pennaf cynrychiolydd yr Oleuedigaeth yn llenyddiaeth Gymraeg ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn olynydd teilwng i Thomas Charles yn hynny o beth, yn llydan ei ddiddordebau, yn feddylgar, yn parchu'r gwyddorau a'r celfyddydau, ac yn wâr ddi-chwiw.

Gofynnir, felly, pam beio rhywun fel Lewis Edwards i'r radd leiaf am ddirywiad yr

enwadau? Oni ddylid cyhuddo rhapsgaliwns fel Michael D. Jones, David Adams, Miall Edwards, Thomas Rees, John Morgan Jones ac Annibynwyr anwaraidd eraill a fu'n traethu'n ddyn-ganolog, a chan bwyll yn anghyfrifol anwybyddu hanfodion meddyliol Cristnogol, a'r Beibl ei hun? Ochr yn ochr â'r rheina yr oedd Lewis Edwards megis eira gwyn. A chamgymeriad yw gormodieithu drwy dybied rhyw fwriadusrwydd tywyll yn y lluosedd a gripiodd i mewn ar ei ôl ef.

O fewn cyd-destun rhyngwladol, tipyn yn ddynwaredol oedd rhyddfrydiaeth Gymraeg. Onid pobl yr Ymoleuo ar ei wirionaf oedd y bagad Annibynwyr hwn ar y pryd cyn dyddiau Barth? Mentraf awgrymu, gyda dylanwad Barth, fod yr ymwybod o draddodiad Cymraeg a'r posibilrwydd o ailgydio yn hwnnw, ac o ailgynnau diwinyddiaeth o fewn y traddodiad llenyddol, wedi lled-oleuo'r sefydlogrwydd am ysbaid heb aeddfedu'n llawn.

Mi dybiaf, a dichon fy mod i'n anghywir, mai'r hyn sydd, yn annheg, gan wneud Lewis Edwards yn siom, yw'r hyn nas gwnaeth. Yn y bôn, heddiw fel erioed, o'r tu mewn i'r cylch uniongred y ceir unrhyw gilio arwyddocaol bob amser. Ymddygai L.E. fel gŵr uniongred deallol. A gŵr uniongred felly ydoedd i raddau helaeth iawn. Dibynnid arno mewn cyfnod penodol cyfnewidiol. Dyma arwr y traddodiad Calfinaidd ar y pryd, a safai'n gymharol gadarn. Ac felly, gydag amryw o'i gyfoedion a ymddangosai'n ddibynnol gredadwy, bu'n ffyddlon i'r genadwri Feiblaidd oruwchnaturiol. Ond gwnaeth hefyd, yn genadwri ac yn bolisi iddo'i hun, 'ddysg' gonfensiynol o flaen popeth, heb fedru sefyll yn ôl i ganfod canlyniad y fath safbwynt unllygeidiog. Ceisiai'r ffens rhwng yr Ymoleuo a'r Oleuedigaeth; ond ceisiai osod dysg yn gyfartal â datguddiad.

Dymunai ymddangos o flaen ei gyhoedd, ac yn arbennig o flaen enwadau eraill a'r Saeson, fel paragón o ysgolheictod. Gan ei bobl hefyd y ceid y flaenoriaeth hon, a dyma'i israddoldeb Cymreig. Delwedd newydd a fynnid i'r Weinidogaeth ar y pryd. Ac yn sgil y ddelwedd anhunanfeirniadol honno y gwywodd meddwl y pwlpud. Felly, pan welwn heddiw yr enwadau'n tynnu tua'r terfyn, mewn goddrychaeth heb waed maddeuant, heb anffaeledigrwydd Gair Duw, na'r goruwchnaturiol, mewn lladd babanod yn y groth, heb uffern, heb Grëwr hanesyddol, pawb drosto'i hun, ar eu coesau olaf, fe alarwn wrth gwrs am ddarfod traddodiad mawr a glân gynt a gychwynnwyd mewn Cymhelliad a Chyffes fewnol a goruwchnaturiol gan yr Ysbryd Glân, ynghyd â chnewyllyn o fannau'r ffydd (sylfaenol Awstin-Galfinaidd) ynglŷn â pherson hardd y Duw-ddyn Iesu Grist. Bu llawer o'r bobl ryddfrydol wedyn yn bencampwyr annwyl yn y maes moesol. Galarwn efallai am golli dylanwad pwyslais eu dyngarwch moesol gweddilliol, a'r mawr angen amdano mewn 'dyddiau balch digariad'. Galarwn hefyd am siom gynyddol yr hen gynulleidfaoedd.

Digwyddodd dirywiad deallol o'r herwydd. Ac o beidio â deall, crinodd y gwrando. Arweiniodd teneuo'r meddwl uniongred cyhyrog at ymosod ar ddeallolrwydd llenyddiaeth Gymraeg (a fu'n feddyliol ysbrydol am ganrifoedd), a dyrchafwyd cwlt poblogrwydd ac ysgafnder

drwy fawrygu dysg seciwlar ddiymholiad ysgafn. Dyna un paradocs cyfoes. Faint o'n llenorion cyfoes sy'n myfyrio gyda dwyster ar y themâu mwyaf heriol i'r chwalfa gyfoes? Ac onid yw'r golled hon yn tynnu perfedd ysbrydol o'u gwaith? Trychineb fyddai hi i unrhyw lenyddiaeth.

Bu gwrthdaro rhwng Dysg a Christnogaeth, Athen a Jeriwsalem, yn hen hen wrthdrawiad yn yr Eglwys yn gydwladol. Gwrthdaro pwysig fu i feirniadaeth lenyddol. Un o'r rhai cyntaf i'w drafod, a'r un a'i trafodai orau o bawb, yng nghyfnod yr Oleuedigaeth yng Nghymru fu Williams Pantycelyn. Mae'r ddadl braidd yn annealladwy heddiw, ac y mae'r Sefydliad yn synied bod y gwrthdaro wedi'i setlo. Ond mae a wnelo â pherthynas Gras Cyffredinol a Gras Arbennig.

Mor rhwydd y gellir camddeall o fewn cyd-destun y gweiniaid. Mae'n bosib y gall L.E. yn ddifeddwl lithro ym mryd rhywrai i ffrwd Socrates a'i alwad inni ein hadnabod ein hunain uwchlaw pob dim, yn hytrach nag aros yn eglur ddiamwys i adnabod Duw gydag uniongrededd, a cheisio clywed ac ufuddhau i'r Duw hwnnw sydd yn y canol ac yn Greawdwr-Arglwydd. Felly, yn ôl T.Ll. 46, clywn am 'esgyn i wlad yr angenrheidrwydd tragwyddol, y gras *hunan-gynhyrfiol*, a'r priodoliaethau anghyfnewidiol', a hynny'n golygu'n amlwg efallai 'ysgogiad gan yr hunan.' Eto, gallaswn dderbyn 'esgyn' i ganiatáu nad 'gras gan yr hunan neu a ysgogir gan yr hunan dynol' yw o gwbl. Gras yw gan Dduw (sef ffynhonnell pob Gras) a hynny'n cynhyrfu ohono Ef ei hunan. Ni chyfeirir at hunan y dyn yn gweithredu o dan ei stêm ei hun. Hawdd y gellir camddeall mai dyn hunan-ganolog sydd dan sylw, a hwnnw'n gallu pob peth yn burion – megis deall Duw, deall y greadigaeth, a'i ddeall ef ei hun, a hynny dan ei wynt ei hun. Mewn gwirionedd, nid yw dyn ger bron pob un o'r rheina ond megis morgrugyn bach yn edrych i fyny o'i dwll am y tro cyntaf ar bopeth sydd yn y golwg ac yn synied – 'Mi wn i'n burion sut yn hollol y mae pob peth cydlynol o bwys yn cydberthyn hyd dragwyddoldeb.' Dyma ddatganiad eofn. Ond o'i gwmpas ar y pryd, rhagdybiwyd colli'r dimensiwn anweledig gostyngedig i raddau. Rhaid wrth gwrs i bob peth gyd-ymddwyn yn ôl ei ofod a'i ansawdd ei hun, am mai dyna gyfyngiadau'r ymennydd bach. Ond yn nimensiwn y meddwl dynol, os na ffitia'r hyn a lefara Creawdwr Mawr y bydysawd yn llythrennol neu'n drosiadol (neu'r ddau), neu yn null 'iaith plant', (am na all dynoliaeth ymestyn fawr ymhellach) yna rhaid tocio'r fan yma a thraw. Mae gennym yr hyn a alwn yn 'Rheswm'. Proses yw y delir i ddisgwyl am wybod ei tharddiad. Morgrug bach o fewn bydysawd mawr o'r enw Kant a'i ceisiai, neu Hegel, neu Wittgenstein, neu rai o'r un traddodiad dyn-ganolog. A'r hyn a wnâi dyn hunan-ganolog cyffredin oedd cystwyo a chwynnu beth bynnag a glywodd gan Dduw y tu hwnt i'w ddeall. Gras yw gostyngeiddrwydd deallol gerbron perthynas y goruwchnaturiol a'r bydysawd.

Meddai Pantycelyn: os oes anhawster anfeidrol, yna y mae dysg Gristnogol ostyngedig yn barod i dderbyn paradocs, neu drosiad fel canllaw Beiblaidd. Onid e, düwch annealladwy ydyw. Credai Williams yn eithafol mewn ysgolheictod, yn gymaint o leiaf â Lewis Edwards. Ond i'm bryd

i, yr oedd ei ysgolheictod yn fwy creadigol, nid yn unig am ei fod yn fardd, nid yn unig yn y ffordd yr astudiai'n rhagdybiol gydlyniad y Greadigaeth, eithr hefyd yn y modd y cyfunai lenyddiaeth fyw â dysg gynhwysfawr Gristnogol ei dröedigaeth: ac yn y modd nad eisteddai ar y ffens. Yr hyn yr oedd ei angen ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd pencampwr unplyg i'r Oleuedigaeth a ganfyddai ragdybiau plwm y rhyddfrydwyr. Nid disgrifiwr neu amlinellwr go foel o Kant unochrog oedd ei angen, ac yna Hegel ac eraill, eithr un yn gweithio drwy lygaid Cristion cyhyrog ym mhrifffordd y credu Cymreig. Cyd-destun cyfyngedig oedd gan yr Ymoleuwyr wrth golli'r goruwchnaturiol a'r Ysgrythur. Rhy aml y codent ryw air Beiblaidd ar y pryd megis 'Ffydd', neu'n ddiweddarach 'Caritas', neu 'Agape', heb ddiffinio yn y fan a'r lle dipyn o'i gynnwys disgybledig, arwyddocaol, amlochrog – o fewn cenadwri o wrthgyferbyniad patrwm athrawiaethol aeddfed ddigonol a lyncai'r Ymoleuo gyda halen. Hyn a wnaeth Ryddfrydiaeth mor llipa. Mewn cyd-destun a oedd yn amddifad o ddehongliad llawnach Cristnogol o fewn amgylchfyd deunydd yr Ymoleuo, gwanheid y datganiad cyfoes priodol. Yr oedd y peryglon yn amlwg. Ond yn hyn o beth, baglodd L.E. yntau gerbron cyfoesedd wrth fynd yn ddisgrifiol. Cydymffurfiad a ddilynai. Collai fwy na gwreiddioldeb creadigol wrth ymgroesi rhag apologeteg fwy cynhwysfawr.

Gwir y ceisiai L.E. gyflwyno'r Ffydd yn llawnach mewn mannau eraill, yn well yn ei syniadu na'i gyfoeswyr a llawer o'i olynwyr. Ond yr wyf yn ystyried er hynny mai *ysgaru'r ddadl* a wneid, fel y cawn weld. Gadawai fwlch yn arfogaeth y cyfnod. Ac fe'i dilynwyd gan eraill. Daeth yn ffasiwn i ddeallusion ddadgymdeithasu'r Naturiol a'r Goruwchnaturiol oddi wrth ei gilydd. Hynny a ganiatâi 'seciwlariaeth grefyddol' a'r efengyl gymdeithasol ddyn-ganolog.

Rywfodd, mae gennym hawl i ddilyn y pwynt hwnnw gan mai cymathu diwylliant a llenyddiaeth i Gristnogaeth oedd yr union nod a geisiai L.E., yn onest ei fryd ac yn ddidwyll. Eto, fel y cymerai Kant a Hegel ragdybiau'r Ymoleuo'n sylfaen i'w gwaith, a'i estyn yn feirniadol, felly y disgwylid i Lewis Edwards gyhoeddi rhagdybiau i'r Oleuedigaeth. Beth bynnag am gymhariaeth rhwng L.E. a'r athronwyr mawr, nid cymharu yw'r unig waseidd-dra sy'n mynnu'n beirniadaeth ninnau, ond y rhagdybiau yn ei ddull o weithio, ym methodoleg deall. Rhyfel yw nas cafwyd.

Mae'n bwysig i mi yn y fan hon bwysleisio'r peth *nad* wyf yn ei honni. Nid wyf yn gwadu bod gan y dehongliad o'r Efengyl a geir gan L.E. ragoriaethau pendant ar dro, yn wir yn ysbrydoledig felly, ac yn fendithiol. Mae'i ysgrifau megis 'Ymarfer Duwioldeb', 'Offeiriadaeth Crist', 'Trefn Cadwedigaeth o Gariad Duw', 'Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr' ac 'Ymofyniad' yn *Traethodau Duwinyddol* yn cyflwyno rhuddin y Meddwl Canolog yn Nhraddodiad Paul-Awstin-Acwin-Calfin. Yn wir, mewn ysgrif ar ôl ysgrif, teimlwn ein bod yng ngŵydd meddwl praff gwir dduwiol a gyfrannodd yn helaeth ac yn ddwfn i ddefosiwn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fe ddwedwn i, i'r unfed ganrif ar hugain. Nid wyf yn amharod o gwbl i gydnabod ac i fawrygu'i gamp.

Yr wyf hefyd yn hoffi'i ffordd o ddweud pethau. Gall lefaru'n fachog ac yn ddeallus ddychmyglon, e.e. TD 592: 'Yr ydym yn addef y dylai pob dyn wasgaru ei belydrau fel yr haul hyd y gallo, trwy yr eangder diderfyn.' Mae ef ei hun yn ymwybodol iawn o'r *mot juste* (yr union air) ac yn trafod hyn fel math o arwydd dwyfol (TD 554). Ond ceisio'r wyf roi fy mys ar un peth a ddigwyddodd yn yr union le y safai a oedd yn allweddol i'r ymddatodiad a'i dilynodd.

Fe'i cyflwynir inni heddiw – ac fe'i cyflwyna ef ei hun felly – fel arweinydd crefyddol i'w oes. Roedd ganddo ddoniau mawr felly. Ymddiriedwyd ynddo. Safai mewn pwlpud union gred. A derbyniwyd ei feddwl beunydd. Gallwn ei ganmol mwyach, heb chwarae'r ffon ddwybig, ac fe ddylid felly am ei fod ar ganol y Ffydd mewn modd yn aml nas ceid gan y dyngarwyr seciwlaraidd a'r gweithredwyr da ar ei ôl. O'r gorau. Ond daliaf i gredu mai'r twll arwyddocaol mewnol bob amser, yn y pren, yw'r gwendidau ymhlith yr efengyleiddwyr arweiniol eu hunain. O'r braidd fod y lleill yn cyfrif: ystyriaf eu bod hwy'n sefyll yn y fan draw ymhlith y deillion a'r cloffion ysbrydol y mae'n rhaid wylo o'u plegid, ond sydd heb arwyddocâd bellach ymhlith y ffyddloniaid cyhyrog cyfoes.

Sut y gallesid disgwyl deallolrwydd 'ar ôl y digwyddiad' a 'gwreiddioldeb' athronyddol gan Ddiwinydd fel Lewis Edwards? Codwyd y sialens iddo gan Emrys ap Iwan. Yr oedd, er enghraifft, fawr angen i Lewis Edwards wynebu cwestiwn cyfoes a defnyddiol perthynas Duw a Diwylliant, Duw a'r Iaith, Duw a'r Genedl. Yr oedd angen wynebu Dadgymdeithasiad y Goruwchnaturiol. Yr oedd angen herio twf lluosedd. Yr oedd angen dychryn wrth ddyn-ganolrwydd. Pan soniaf am wreiddioldeb Cristnogol nid wyf byth yn meddwl wrth gwrs am syniad newydd sbon sylfaenol, os oes yna'r fath beth. Meddwl yr wyf am ddefnyddio rhodd: cynhysgaeth profiad a dysg y gorffennol ar y pryd er mwyn eu cyfuno mewn ffordd newydd bersonol berthnasol heddiw. Meddwl hefyd am gymhwyso egwyddorion yr Ysgrythur fel y'u canfyddid yn onest yno, felly, i ateb y gwamalu hiraethlon ymhlith yr encilwyr. Ac felly y gallesid datgelu'n ofalus deg y safonau a'r cynghorion a gafwyd dros gyfnod o rai miloedd o flynyddoedd yn ymwneud Duw â'i genedl hyd heddiw.

Codwyd hefyd sialens arall iddo gan Williams Pantycelyn. Yr oedd mawr angen i Lewis Edwards, ac yntau'n gyfarwydd â rhagluniaeth a chynllun Duw a'i drefn greadigol, feddwl o'r newydd yn Feiblaidd am ehangder y Greadigaeth yng nghyd-destun yr Ymoleuo a adwaenai mor dda. Sylwais ar y canllawiau strwythurol yn niwedd yr ysgrif ar Coleridge. Agorwyd cwys hefyd i Goleg L.E. felly gan Bantycelyn. Heb fawr o'r cefndir Prifysgol a gawsai Lewis Edwards mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn yr Alban, yr oedd Pantycelyn wedi dwyn gerbron batrwm o ymateb dychmyglon i'r greadigaeth gron gyfundrefnol yn ôl sgêm gadarn. Ymaflai â themâu llenyddol canolog yn nannedd y gelynion ar y pryd. Ceid rhai materion go 'newydd' gan Bantycelyn, wrth gwrs. Ond gallesid disgwyl i Lewis Edwards gamu ymlaen yn fras o'r fan yna. Nid rhoi

'crynodebau' o weithiau seciwlar athrylithgar tramor yn anfeirniadol amddifad oedd yr angen. Ger ei fron ef yr oedd dynion ifainc disgleiriaf Cymru, hufen meddwl y genedl. Nid amlinelliad o un o gyfrolau Kant a ddisgwylid ganddo yno (heb chwilio'r gwendidau ofnus), na chrynhoi un o gyfrolau Coleridge, eithr rhoi sialens o'i ben a'i bastwn i'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) ar ran yr Oleuedigaeth Gymraeg (*Welsh Christian Enlightenment*). Adeiladu a rhoi blaenoriaeth a phren mesur i'r Oleuedigaeth oedd yr alwad, gyda grym creadigol Beiblaidd, yn wyneb her y cyfnod.

Nid sôn yr wyf, felly, am 'gyfystyru'r datguddiad yn y Gair ag athroniaeth ddynol'. Yr hyn a wnâi Williams oedd dadlennu'r hyn a gaed yn y Beibl, cyn belled ag y gallai'i amgyffred, gan ddefnyddio dychymyg a rheswm Cristnogol orau y gallai, a hynny i wynebu'i oes a'i gyfrifoldeb perthnasol ar ran pawb a efrydai'i waith. Nid dysg ond creadigrwydd heriol a ddisgwylid gan L.E..

Hanesydd Cristnogol fu R. Tudur Jones. Ond yn yr ymylon yn ei gyfnod ar lawer cyfrif, gwnaeth yr union beth gwreiddiol a gollodd Lewis Edwards (gw. ei ddarlithiau ar Kuyper a Saunders Lewis). Er procio gan Emrys ap Iwan, ni fentrodd Lewis Edwards edrych ar berthynas diwylliant a chenedl a Christnogaeth. Ni ddadansoddai her lluosedd yr Ymoleuo. Ni ddychmygodd fod angen Cymru i'w gael mewn dysg wirioneddol ysbrydol. Ni ddisgwylid i odid neb wneud pethau diwylliannol felly yn Saesneg, er bod cryn ganmol gan yr Eglwys yn Lloegr am les ymarferol yr Ymerodraeth. Ac o'r herwydd ni fentrodd Lewis Edwards saernïo Diwinyddiaeth Gymraeg unigryw wreiddiol. Dychymyg anhrefedigaethol oedd ei angen ar y pryd, nid urddas.

*Y ddadl yn erbyn Ôl-foderniaeth*

Eto, y mae llawer o draethu a chasgliadau L.E. yn aros heddiw yn berthnasol. Dro ar ôl tro, y mae ei ddadleuon yn fuddiol o gyfoes yn yr ymrafael sydd ohoni ynghylch Ôl-foderniaeth; i'r fath raddau, yn wir, fel y daw'n fuddiol i'r darllenydd cyfoes droi'n ôl ato o hyd.

Yn *Traethodau Llenyddol*, mae'n agor gyda dwy erthygl 'newyddiadurol' (camgymeriad bob amser). Ond yn y drydedd erthygl, dyma ef yn trafod 'Athroniaeth a Diwinyddiaeth Coleridge'. Ac y mae'n nodweddiadol o graffter Lewis Edwards ei fod yn gweld perthnasoldeb bythwyrdd Undod meddyliol yn yr Ymwybod o Absoliwt.

1. (TLl 36) *'Nid oes unoliaeth yn perthyn i ddim ond ysbryd* [Ymddengys hyn yn agos i Idealaeth Hegelaidd. Ond Ysbryd yw Duw, a'r creu oll ganddo ac ynddo Ef.]... *Y mae y cwbl yn cael eu cynnyrchu gan oleuni y byd tragywyddol, yr hwn sydd yn tywynu trwy feddwl dyn, ac yn gwisgo yr holl grëadigaeth â phrydferthwch ... Y Duw mawr ei hun yw ffynnonell pob goleuni.'*

Gwêl L.E. Reswm gan yr Absoliwt, felly, wedi'i ddyrchafu gan yr ysbryd i fod yn uchaf o'r cyneddfau. Nid rheswm Groeg, ond rheswm y Creawdwr-Arglwydd.

**2.** (TLl 47) *'Y gallu sydd yn gweled egwyddorion pethau, ac yn dwyn dyn i bresenoldeb deddf ei Grëwr yw rheswm ... y mae rheswm yn cario y meddwl i'r canolbwynt ac oddiyno y mae yn gweld y cwbl mewn trefn a chysondeb ...I'r deall dynol, ac hefyd i'r anifel, nid yw cyfnewidiadau yn dangos dim ond olyniad; ond y mae rheswm yn canfod deddf yn rhedeg drwyddynt, yr hon sydd yn achosi pob un o honynt. Fel hyn y mae meddwl dyn yn uno gwrthddrychau mewn gwahanol leoedd, a dygwyddiadau mewn gwahanol amserau, dan un ddeddf, ac yn uno y deddfau hyn drachefn dan ryw ddeddf uwch a mwy cyffredinol, nes o'r diwedd y mae yn uno y cwbl, yn mhob lle a phob oes, yn yr UN anfeidrol, yr "Ydwyf" diddechreu a diddiwedd'.* Gan Coleridge y cafodd ef y golwg craff hwn ar Reswm.

Gwêl L.E. ddeddf a threfn ddwyfol yn allwedd i adeiladu fframwaith i bob gwyddor.

A dyfynna Coleridge (47): *'Rheswm yw cynneddf yr argyhoeddiadau cyffredinol ac anghenrheidiol, ffynnonell a sylwedd gwirioneddau uwchlaw synwyr, y rhai a gynnwysant eu prawf ynddynt eu hunain.'* A sylwer: dyma'r Rheswm Goleuedig, rhagor y Rheswm Ymoleuedig: dyma Ddeddf Gristnogol (Rhuf. 12:2). Hanfod Duw yw â dimensiynau naturiol a goruwchnaturiol.

Nid pawb sy'n sylweddoli fod Coleridge yntau yn nyddiau'i aeddfedrwydd yn Gristion Efengylaidd (a chofio bod 'Efengylaidd' yn cynnwys rhychwant go gymysglyd weithiau, am nad yw pob Cristion o reidrwydd yn 'Efengylaidd' yn ddiwinyddol gant y cant.) Meddai L.E. amdano (TLl 38): *'ar ol chwilio holl ddyfnderoedd gwybodaeth, a chyrhaedd enwogrwydd nid bychan ar feusydd llenyddiaeth, dygwyd ef i gyfrif y cwbl yn golled fel yr ennillai Grist.'*

Soniais yn yr ysgrif o flaen hon fod yna ymwybod o angenrheidrwydd Undod ac Absoliwt yn mynd at graidd y ddadl gyfoes ynghylch Ôl-foderniaeth. Dadleua'r rhai, sy'n gwrthwynebu symudiad Ôl-foderniaeth, fod deall ac iaith yn amddifad heb gyfuniad Gwahanu ag Uno. Gwahuno yw Methodoleg Rheswm. Hyn yw natur cyfundrefn, ac y mae yna gyfundrefn ymhob cell ac atom ac organ, sy'n sylfaen i fywyd a meddwl. Y mae Absoliwt neu ragdyb eithaf yn rhagflaenu pob trafodaeth o'r fath, gan nad oes modd osgoi cymryd safbwynt absoliwt wrth drafod y mater, naill ai Absoliwt gwrthrychol dwyfol neu'r Ego Trosgynnol. Gallesid bwrw'r Ymoleuo ac Ôl-foderniaeth fel ei gilydd yng nghnewyllyn eu talcen.

Mae yna ddau ymadrodd, bron y dywedwn ddau sgrechair (neu slogan), a fathodd T.S.Eliot ac a ddaeth yn fygythiol enwog, ond sy'n awgrymus iawn wrth drafod problem Lewis Edwards, sef (1) '*the objective correlative*' a (2) '*dissociation of sensibility*'. Y mae'r rhain yn ymwneud yn anuniongyrchol neu'n drosiadol (wrth drafod beirdd metaffisegol Lloegr) â'r broblem bennaf sy'n dod i'r golwg wrth drafod beirniadaeth Lewis Edwards. Ond cymhwyswn y ddau ymadrodd yn achos Lewis Edwards gan fathu dau ddisgrifiad cydberthnasol newydd iddo, fel y cawn weld, sef

'*cydberthnasyn credo gwrthrychol*' a '*dadgymdeithasiad y Goruwchnaturiol*'.

Plagiwyd Lewis Edwards y beirniad ar hyd ei oes, ac yn ffasiynol i'w oes, gan un broblem ddwys: sut y gallai beirniad Cristnogol sgrifennu'n 'ddiduedd'? Beth oedd 'bod yn wrthrychol'? Sut y câi yntau, yn ddiwinydd yn ôl ei broffesiwn, sgrifennu beirniadaeth gytbwys, a darddai mewn cariad didwyll at lenyddiaeth ac o gymhelliad diwylliannol 'pur', a hynny drwy gyflawni gwaith ym maes beirniadaeth heb i'w argyhoeddiadau crediniol ymyrryd? Oni fyddai'n dad-academeiddio wrth gymryd ochr, ac eto yntau, o ran dymuniad, am aros o fewn cylch bywydol o broselytio ac o addysgu'r Ffydd Gristnogol? Onid ceisio'r oedd ef fyw dau fywyd?

Mae'r ateb theoretig yn ymddangos yn syml; ond mae'r ymarfer ei hun yn un pur ddyrys. Yn theoretig, cynhwysai llenyddiaeth themâu deunyddiol ym maes crefydd a oedd ar gael ar gyfer pawb. Ond yn ymarferol, yr oedd y sawl a oedd wedi profi realiti'r Goruwchnaturiol yn y byd naturiol yn gwybod hyd flaenau'i fysedd fod y Goruwchnaturiol yn trawsffurfio ac yn cynnwys popeth yn y dimensiwn Naturiol amddifad, a allai fod yn 'ddau berson yn un' heb ddryllio. Roedd hyn yn embaras i'r ysgolhaig 'gwrthrychol' bondigrybwyll. Yr ateb oedd cyd-redeg dau geffyl.

Wrth geisio datrys y broblem hon, mae'r gymhariaeth ag Eliot yn helpfawr, mi gredaf, oherwydd trafod yr oedd Eliot y beirdd metaffisegol a lwyddai i gymathu'r ysbrydol o fewn y corfforol, y synnwyr o fewn y synhwyrau, a'r naturiol o fewn y Goruwchnaturiol, lle'r oedd eraill wedi methu. I raddau, yr oedd L.E. yntau wedi llwyddo i ryw raddau oherwydd cryfder ei brofiad personol, ond wedi diffygio mewn cyfeiriad arall, cyfeiriad a brofai'n dyngedfennol i addysgu diwinyddol Cymreig ac i hynt crefydd yng Nghymru. Ond y mae a wnelo'r ateb, a ddadlennwn, â pharch at hunanlywodraeth pob pwnc o fewn cydlyniad yr undod dynol a'r undod dwyfol.

Ym myfyrdod L.E. gyda'i efrydwyr cyfoes ar Fathemateg, dylsai Parmenides, Kepler, a Galileo fod wedi bod yn gyd-destun i ddeall cyfundrefneg L.E.. Yn ei fyfyrdod gyda'i efrydwyr ar Lenyddiaeth, ni ddylsai gilio i weledigaeth bietistig ac ysgaredig gul fel y gwnaeth gyda Goethe. Diben L.E., gyda llaw, yn ei ysgrif ar *Faust* oedd bod 'yn rhybudd i ambell un o ferched Cymru.' Ni wn faint o ddarllenwyr benywaidd *Y Traethodydd* ar y pryd a gâi hwb i'w rhinweddoldeb yn y stori: llawer, fe ddichon, gan mai ysgrif gelfydd yw gan mwyaf. Ni wn chwaith pa un sydd waethaf ai'r ysgryd o ddiflastod a brawf ambell ddarllenydd cyfoes wrth wybod am y fath gymhelliad, ynteu'r cysur a gâi ambell flaenor ar y pryd. Dibynnai ar faint o awydd am rinweddoldeb a fu ar ôl, a beth yw'r diffiniad a roir i'r fath nwydd prin. Bu L.E. sut bynnag naill ai'n anonest neu'n reddfol gynnil wrth ddisgrifio cynnwys *Faust;* neu'n fwy tebyg, bu crynhoi hunanwrthddywedyd, paradocsau, coegi, a chymysgedd y ddrama athrylithgar honno yn ormod i Edwards fel y buasai'n anochel i'r neb a geisiai ddweud rhywbeth amdani mewn rhyw ugain tudalen. Beth bynnag, mae llawer o'r ysgrif yn loyw deg ac y mae'r asgwrn cefn – sef y dyfyniadau a gyfieithwyd – yn darllen yn wych.

Nid oes dim ymdrech gan L.E. i gyfleu aruthredd anhylaw ac anhygoel dwy ran *Faust.* Nid oes yr un bwriad i awgrymu bod Faust wedi cyrraedd yr uchelderau yn ei farwolaeth, na sut. Ni feiddiai L.E. awgrymu dim o faswedd grotésg y ddrama. Ond lluniodd L.E. ysgrif eithriadol o ddarllenadwy a chryno ddiddorol drwy'r cwbl, ac yn 'fuddiol' fel y dywedai. Ac eto, dysgai fod modd darllen *Faust* mewn modd eithaf clawstroffobig.

Yr oedd yna gyfle cydlynol i ddathlu'r synhwyrau a'r dychymyg. Ond diffygiodd L.E. fel arfer. Gallesid canfod yr Absoliwt tragwyddol yn fwy perthnasol na 'pharchusrwydd'. Ond buwyd yn ddof o geidwadol. Yn ei fyfyrdod am Hegel a Kant, cawd cyfle dihafal i feirniadaeth lem, helaeth, a dylanwadol. Ond unochrog iawn fu. Yn ei fyfyrdod am Wyddoniaeth, gallesid cyflwyno i'w braidd egwyddorion diwyro a chadarn ynghylch rhagdybiaetholdeb a rhesymeg oruwchnaturiol a fuasai wedi trechu'n gyson yr All-wyddoniaeth gibddall a godai, ganrif wedyn, ynghylch mecaneg gwantwm a damweinioldeb. Rhagdybiaetholdeb 'naturiol' yw syndod cyson ein Positifiaid a'n Empeirwyr cyfoes, a dyletswydd ddeallol oedd trafod yr annigonolrwydd hwnnw'n finiocach. Yn ei holl fyfyrdod, fel bob amser, nid drwg o beth fyddai sylwi'n oleuedig ar ei ben ar anwybodaeth ddiderfyn gwyddonwyr ymhongar o flaen Creawdwr aruthr o dragywydd, a'i sylweddau a'i gyfundrefnau, sydd y tu hwnt i dwpdra dynol. Nid dangos gwir barch yw parchusrwydd.

Datodwyd ysywaeth yr hen ddolen gydiol a fu, yn yr eglwys a'r meddwl dynol, rhwng y daearol a'r nefol. Datodiad anysgolheigaidd fu. Tuedd gwyddonwyr gerbron 'damcaniaeth' tebygrwydd y Goruwchnaturiol oedd symleiddio – a dweud celwydd – 'all hyn ddim bod!' Ac ni ddylem adael i barchusrwydd nac i ryddfrydigrwydd ceidwadol dof nac i drefedigaethrwydd ein rhwystro bellach rhag cydnabod bod L.E. yn anad neb wedi methu â bod yn wyliadwrus ynghylch y datblygiad cyrhaeddbell hwnnw.

Y RHAMANTUS
LEWIS EDWARDS

*Traethodau Llenyddol* c. 1865, Lewis Edwards

Yn ei ragymadrodd i'w ddetholiad o farddoniaeth 'Ieuan Glan Geirionydd', mynnai Saunders Lewis mai 'clasurydd' oedd Lewis Edwards. Ac mae yna ryw fath o deimlad felly ynglŷn â'r dyn. Roedd yn geidwadol, roedd yn drefnus ei feddwl, hiraethai am fod yn sefydliadol loyw. Tueddai i feddwl 'yr hyn a feddyliai pawb arall'. Dygai oddi ar bawb, ond (o leiaf) fe'i rhoddai at ei gilydd yn unigryw lle y teimlai'u bod yn greadigol, ac nid yn ôl y ffordd ddisgwyliedig bob amser. Ond i'r cyfeiriad traddodiadol y bu'n pwyso. Ni fynnwn orbwysleisio'r duedd honno, mwy nag yr hoffwn orbwysleisio clasuraeth Saunders ei hun. Does dim llenor rhamantaidd o werth heb fod tipyn o'r clasurydd ynddo, na'r un clasurydd gloyw chwaith heb fod yna beth rhamantydd ynddo. Clasuraeth a Rhamantiaeth, dyna ddwy gaseg y mae'n dda y gellid eu marchogaeth yr un pryd.

Honnai Huw Llywelyn Williams mai ymgais y *Traethodydd* ydoedd i sefydlu 'safon bersonol' mewn 'beirniadaeth'. Ceisiai rhyddfrydiaeth bersonol y bedwaredd ganrif ar bymtheg fwyfwy wreiddio diwinyddiaeth mewn *profiad* crefyddol yn hytrach nag yn natguddiad goruwchnaturiol Duw yn yr Ysgrythur. Cydymdeimlai L.E. yntau â'r ymgais i fod yn fwy 'rhydd' mewn barddoniaeth, ac i gilio ychydig oddi wrth y Gynghanedd. Câi'r Naturiol fwyfwy o flaenoriaeth ganddo (wrth ei ysgaru ychydig oddi wrth y Goruwchnaturiol). Pwysleisiai L.E. y teimlad a'r serchiadau mewn barddoniaeth. Fel y gogwyddai'r Efengyleiddiwr Calfinaidd yn y cyfnod hwnnw yn isymwybodol tuag at Seciwlariaeth, felly y gwyrai anianawd y Clasurydd rhonc tuag at Ramantiaeth. Ac eto, fel y llwyddodd L.E. i aros yn Fethodyn dwys a chywir o ran profiad, yn anfwriadol reddfol y coleddai ryw fath o gydlyniad â ffasiwn y 'rhamantwyr gofalus'.

Ond diau fod a wnelo Samuel Taylor Coleridge â'i gipio i fynwes Rhamantiaeth er ei waethaf; ac nid gŵr gofalus fu hwnnw bob amser.

Soniais o'r blaen am ddylanwad Coleridge ar dri beirniad Cymraeg mwyaf y tair canrif unigol ddiwethaf. Dylanwad oedd heb fod yn ormes. Beirniaid oedd dau o'r tri Chymro a ymddangosai'n 'anghysurus' o wreiddiol, sef Iolo a Saunders, beth bynnag am eu parodrwydd i gydlynu syniadau pobl eraill. Gwelent angen Cymru i beidio â dynwared Lloegr yn yr hanfodion llethol. Defnyddient eu dychymyg yn nannedd imperialaeth ddiwylliannol sefydledig. Eithr cydymffurfio'n waraidd a wnâi'r imperialaeth reddfol a fynnai rhamantiaeth L.E. at ei gilydd. Profai ef awydd i wasanaethu'n solet gan bwyll, heb fentro'n ormodol. Yn wir, parod oedd i fod yn hac er mwyn gwasanaethu anghenion ei wlad, yn ôl fel y'u deallai hwy.

Enigma fu Iolo Morganwg o'i flaen fel Saunders ar ei ôl. Rhapsgaliwns oedd y ddau,

chwyldroadwyr traddodiadus ynghanol ffug radicaliaid eu gwahanol ganrifoedd. Dau faferíc. Ond sefydliad stond oedd L.E. mewn canrif pryd yr oedd corff y genedl yn hiraethu am fod yn rhan o'r Sefydliad.  Gwylier, bob amser, er hynny, rhag bod yn symleiddiol gydag enigma, gan fod pob llenor o bwys yn enigmatig, hyd yn oed L.E..

Waldo am wn i oedd y llenor mwyaf enigmatig a adwaenwn i erioed. Ceisiwyd ei wneud ef yn Sefydliad o eicon, yn cydymffurfio â'r sant-heddychwr dyngarol arferol ar ganol yr ugeinfed ganrif. Ond enigma dwfn oedd ef; a'r peryg oedd ei dderbyn yn deip rhy symleiddiol heb ganfod yr anobeithlu ynghanol y gobeithlu, yr uniongred chwithig ynghanol y rhyddfrydiaeth gyfarwydd, yr ymosodwr ffyrnig ynghanol y caru, y min a'r mwys, y dyrys-ŵr ynghanol y plant, y modernydd arbrofol ynghyd â'r cywyddwr mawl tra cheidwadol. I Waldo, cyfanrwydd dirgel oedd y cydlyniad cywir; ac anghywir fuasai dwyn haearn smwddio a wastatâi'r darlun. Ond haearn smwddio o ddyn oedd L.E.. Ni allai fod yn enigma go iawn onid yn isymwybodol pe ceisiai. A hyd yn oed wrth ymdrin â Coleridge, fe'i trôi ef yn synfyfyriwr di-ehediadau go gyson.

Meddwl mesurol ac awdurdodol ei gyfnod oedd L.E.. Felly hefyd Saunders Lewis mewn modd llai amlwg, un arall o gywion Coleridge. Ond maferíc hefyd oedd Saunders Lewis o'i ben i'w draed, fel Coleridge; ac ni allai neb fod yn llai o faferíc nag L.E.. Un o'r priodoleddau gan y naill a'r llall o'r ddau Gymro, a rôi iddynt awdurdod mawr yn eu canrifoedd, oedd yr undod neu'r cydlyniad mewnol; yr unplygrwydd os dymunir, y gellid ymdeimlo â'i rym ganddynt; yn ymrwymiadau o fathau gwahanol ganddynt, er eu bod wedi trafod  y broblem mewn ffyrdd gwrthwyneb.

Yr hyn a wnâi Saunders Lewis yntau oedd canfod treiddiad ei athrawiaeth drwy gyfanswm ei feddwl: nid dweud a wnâi – 'dyma gwpwrdd i athrawiaeth a diwinyddiaeth, a dyma gwpwrdd i feirniadaeth lenyddol.' Dug y cwbl yn gaethweision i'r canol ysbrydol. Dyma'i undod. Ystyriaf fod Lewis Edwards am wneud yn union yr un peth â Saunders yn hyn o beth: dwyn ei ddysg at allor ei Arglwydd. Ond wrth ystyried yr hyn a wnâi, mewn gwirionedd, yr oedd yna hollt er ei waethaf. Ymdrechai yn ei syberwyd at undod teimlad. Ond yr oedd ei uno yn datod yn gyfrinachol. Cymerer ei ymdriniaeth â Kant. Crynodeb o un  wedd ar waith Kant yw corff ei amlinelliad o *Kritik I*; ond wedyn, y mae L.E. wedi'i ysgaru fel pe bai oddi wrth weddill ei feirniadaeth ddiwinyddol. Yn yr ysgrif honno, ceir  cyferbyniad Cristnogol ar wahân ac yn gryno mewn cornel gan L.E. yn wyneb arwyddocâd anochel Ffydd, – heb edrych drwy lygaid ei Ffydd drwyddi draw ar bopeth. Cyferbyniad cwta a roir o rai o syniadau Kant, heb ddatod y rhagdybiau gan hwnnw bob modfedd o'r ffordd. Felly y gwanhéir perthnasoldeb nerthol yn y rhagdybiau Cristnogol i weithredu'n gynhwysol. Ni chyffesai ba mor bwerus fel offeryn oedd ei Ffydd yn y gwaith o ddadansoddi. Ni fawrygai ragdyb. Ni ddefnyddiasai'r seiliau ysgrythurol yn gytbwys i adeiladu fframwaith deall. Hynny yw, nid edrychai drwy'i lygaid ei hun yn onest unplyg, a hynny oherwydd myth

didueddrwydd. Byddaf yn synied, heblaw peidio â dadansoddi Kant o safbwynt beirniadol, fel y cawn weld, fod yna angen o hyd inni ymgodymu â barn ddiwinyddol L.E. ei hun yn fwy dadansoddol yn hytrach nag yn ddisgrifiol yn unig.

Ar y llaw arall, enfys o ddyn oedd Saunders Lewis. Yn ail bennod ei draethawd gradd (89 tudalen), sef 'Imagery and Poetic Themes of S.T. Coleridge', 1919-20, mae'n ymdrin â lliw a goleuni yng ngwaith Coleridge. Mae S.L. yn ymarfer â'i Glasuraeth newydd-anedig wrth ddatod yn enfysog y synhwyrau a'r teimlad. Yn ei astudiaeth ohono, sonia Dr Robin Chapman am 'y gred y gallai bardd fyw ar waddol a grym delweddau fel arfau artistig heb eu cyffwrdd gan deimlad noeth...' a'r 'Drydanesque conciseness'. Gwelai D.Tecwyn Lloyd, yn y traethawd hwnnw gan Saunders, rag-ymarfer i *Williams Pantycelyn,* 1927 gyda 'gair am Gyfriniaeth'. Eisoes, yr oedd Freud ar *The Interpretation of Dreams* yn mynnu ei le. Hynny yw, ymhoffai'r enfys o feirniad yn egnïon ffansïol Coleridge, a'u cymhwyso'n greadigol i Bantycelyn.

Nid enfys, ond blotyn o inc du oedd Lewis Edwards. Ni lwyddai i ymaflyd yn niwrosis creadigol Coleridge. Gŵr oedd Coleridge a fynnai 'ennill yn diriogaeth i'r awen y rhanbarthau hynny yn y meddwl lle mae atgno, anobaith, unigedd a dychryn yn teyrnasu.' A dyna'n union y diriogaeth a aeth o'r golwg dan y blotyn defodol o inc.

Ond gallwn, mewn cyferbyniad fel hyn (gan chwilio drwyddo am ddiffiniad naws y beirniad), fynd dros ben llestri. Catholigwr ceidwadol ac union oedd Saunders Lewis, wedi'r cwbl, ac efengyleiddiwr oedd Lewis Edwards, ac iawn y dywedai'r Profost Densil Morgan, 'roedd y categorïau a ddefnyddiodd Coleridge – greddf, teimlad, angerdd – yn beryglus ddieithriad yn hynod atyniadol er mwyn dirnad yn well natur y ffydd efengylaidd.' Gwyddai Lewis Edwards yn burion o bell am wylltineb melys Rhamantiaeth. Ond wrth i Alun Llywelyn Williams (*Ysg.Beirn.II,* 115) ddyfynnu un o safonau Lewis Edwards, soniai am 'deimlad o brydferthwch anian', teimlad sydd yn myned i mewn i helynt dynoliaeth, 'yn ei mawredd a'i thrueni, ei llawenydd a'i galar, ei chariad a'i chas, ei daioni a'i drygioni', ac ychwanegai'r sylw: 'Dyma ddatgan yn ddiau y gred ramantaidd am ansawdd ac amcan llenyddiaeth yn ei phurdeb.' Eto, ychydig o hynny a brofid mewn gwirionedd gan L.E..

Yr hyn a ddywedwn i yw bod Lewis Edwards wedi dwyn parch, onid parchedigaeth, i'r byd rhamantaidd. Fe wnaeth Ramantiaeth yn aelod parchus o'r Seiat. Eto, er mai ataliad cyfoes i ddeallusrwydd yr Oleuedigaeth oedd Rhamantiaeth L.E., i raddau mi dybiaf rywsut iddo lwyddo.

Beirdd oedd Iolo, Saunders, a Waldo ill tri. Ond hyderaf na thybir fy mod yn bychanu Lewis Edwards wrth gasglu, ar ôl darllen ei farddoniaeth, a hynny wedi imi obeithio cynnwys peth ohoni untro mewn Blodeugerdd, mai rhyddieithwr rhonc oedd L.E. na werthfawrogai'n synhwyrus ffurf ddiriaethol teyrnas Dduw. Yn hyn o beth, a'i roi ef yng nghyd-destun ein bywyd cyfoes, y

gymhariaeth nas gwneuthum i oedd yr un amlwg ag R.Tudur Jones. Ymaflai Tudur godwm yn ei gyfnod yntau â phroblem Undod Natur a Goruwchnaturiol, yr Unigolyn a Chymdeithas, y daearol a'r nefol. Cafodd ateb yng ngwaith Kuyper a'i ddisgyblion. Llwyddodd. Ond ysywaeth, erbyn cyrraedd cyfnod Tudur, yr oedd hi eisoes yn rhy hwyr i'r rhelyw. Aethai Rhyddfrydiaeth yn ddefod ddiddychymyg. Ysgarwyd y ddeuoliaeth ar hyd a lled yr enwadau, heb barodrwydd i gydnabod natur ragdybiol y broblem. Dal ati heb hunanfeirniadaeth ddigonol oedd y gobaith arwrol gan lawer a geid wedyn, gwaetha'r modd, er gwaethaf yr ymdrech Farthaidd. A gellid mentro'i herio o hyd.

Cynorthwyid dealltwriaeth Tudur gan ei gefndir yng ngwaith Kuyper. Yr oedd gan Kuyper – fel pawb ohonom – lu o wendidau. Ond bu'r adnewyddiad ganddo ef a'i ddilynwyr, Van Til a Dooyeweerd, **o'r ymwybod o Ras Cyffredinol Duw, a'i drefn ddosbarthol o'r Deunyddiau hunan-ddiffiniol wedi'u cynnwys o fewn Sofraniaeth Duw** (mewn cylchoedd naturiol a goruwchnaturiol hollol gynhwysfawr), yn gymorth ysbrydol i'r Prifathro. Llwyddodd ef ym Mala-Bangor ddiwedd yr ugeinfed ganrif i asio'r ddeuoliaeth Goruwchnaturiol/Naturiol mewn lle y methodd L.E. ysywaeth yn y Bala o'i flaen ganrif ynghynt. Diau fod yng ngwaith Duw weledigaeth hefyd a bontiai rhwng y ddwy ochr, Unigolyddiaeth Lewis Edwards a Chymdeithasiaeth Michael D. Jones. Yn rhyfedd iawn, yr oedd gan Michael D. Jones yntau am ryw reswm meddent, ei wendidau yn wyneb uniongrededd, sy'n bur amlwg, efallai. Ond cyffyrddent yn orfoleddus â nerf.

Dilynai Tudur Kuyper (gynt yn Amsterdam) a'i syniadaeth Feiblaidd. Ond symudodd wedyn at syniadaeth ei gywion yn yr Hen Princeton, lle yr ymledodd (gyda phobl fel Warfield). Yma, gwreiddiwyd yr athrawiaeth o'r newydd yn y dehongliad cyfundrefnol Beiblaidd. Gallasai rhywbeth tebyg fod wedi rhoi aeddfedrwydd a chadernid i ymgais L.E. i lunio beirniadaeth gydlynol Gymraeg. Adeiladodd Lewis Edwards iddo'i hun feddwl trefnus, a cheisiodd daclo rhai problemau rhagdybiol beirniadol mewn modd a roddai gadernid i'r meddwl Cymraeg. Gwelai Warfield gynt y Drefn, nid fel rhywbeth damweiniol (fel pe bai'n esbonio'r byd yn newyddiadurol yn null Dawkins) eithr fel cydlyniad gorfodol gerbron tystiolaeth ddatguddiedig a ganfyddid yn berthnasol ac yn wir organaidd. Ond yr un pryd cydnabyddai'r angen i'r Ysbryd Glân weithio i adgenhedlu a goleuo'r unigolyn. **Nid gwyddor brofiad oedd hyn yn unig, ond gwyddor Duw.** Felly pob gwyddor yn y bôn, wrth gwrs, gan gynnwys Beirniadaeth Lenyddol. Yr hyn a ddywedai'r Ysgrythur, a ddatguddiai Duw; yn gwbl ddynol, yn gwbl ddwyfol; heb wall, yn Absoliwt. Y goruwchnaturiol Cristnogol wedi ymgnawdoli oedd, gan mai Beibl yr Ysbryd Glân a oedd yn ei amlygu. Ond ni chanfu L.E., megis y rhamantwyr ar ei ôl (ac eithrio J. Morris-Jones), mor solet y gallai'r gyfundrefn o gyfundrefnau ffurfiol fod yng nghanol diferu profiad y Mynegiant.

Hawdd y gellir tybied heddiw fod sôn am 'Feirniadaeth Lenyddol' Lewis Edwards yn ein gwthio'n ormodol i gyfeiriad materion diwinyddol. Ond anochel yw hynny os ydym am amgyffred

beth a oedd – er drwg neu er da – ar gerdded yn llenyddiaeth Gymraeg fwyaf praff y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac a fu mewn modd cadarnhaol a negyddol yn gwthio arloeswyr dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu blaen.

Ni ddylid disgwyl gan neb oll feirniadaeth lenyddol union gytbwys. Wrth ddisgrifio neu ddadansoddi gwaith y beirniad unigol, fel L.E., yr hyn a wnawn yw diffinio beth sydd i mewn a beth sydd allan. Efallai fod modd cael beirniadaeth gatholig felly, a hyd yn oed amlinelliad neu arolwg a theori gyflawn gyfundrefnol o adeiladwaith beirniadol. Ond beth arall y gellid ei ddisgwyl gan feirniaid? Mae yna gyd-destun testunol, ieithyddol, ysbrydol, a hanesyddol i lenyddiaeth sy'n gefndir i feirniaid llenyddol. Ac yn draddodiadol dyna'r lle y bu ysgolheigion yn pori, er na wyddai L.E. odid ddim am y fath beth yng nghyd-destun Cymru. Rhoddai ef arolwg eang er hynny yn ei sylfaen i astudiaeth aeddfed o lenyddiaeth. Bu'n waith cwbl reidiol mewn diwylliant gwâr, ac erys eto o hyd yn anghenraid hyd yn oed yn achos ein llenorion blaenaf.

Deil hyn oll yn berthnasol yn ein haddysg gyfoes. A cheisiwn ninnau agosáu at yr astudiaeth uniongyrchol o lenyddiaeth, (sef at y gwaith unigol ynddo'i hun), a'r feirniadaeth ohoni a geir gan Coleridge yn arbennig. Mewn 'ysgolion uwchradd' erys o hyd yr astudiaeth glòs o lenyddiaeth, y dadansoddiad a'r gwerthfawrogiad ohoni, yn brofiad diriaethol. Ac nid wyf yn difrïo hyn o waith drwy ddweud 'ysgolion'. Dyma fath o fyfyrdod a ddylai fod yn flaenaf er mwyn cyweirio siâp a ffrwyth darllen llenyddol ar hyd ein hoes i bob darllenydd. Yr un modd, erys yr astudiaeth o *ffurf* mewn Mynegiant yn berthnasol, yn arbennig/gyffredinol; heblaw themâu, ffigurau a throadau, ac ieithwedd. Felly, a dyma ni'n nesáu o'r newydd at L.E.: gwerthoedd, trefn, a phwrpas, ac ynddynt gymhelliad hefyd. Y mae'n amlwg fod y beirniaid megis y llenorion eu hunain yn gorfod ymdroi gyda'r fath faterion, heblaw gyda mwynhad teimladol. Ychydig o lenyddiaeth o bwys a geir yn y byd heb ei mêr ysbrydol. Dyna pam y mae efrydu llwyddiant a methiannau L.E. yn dal yn berthnasol. Ond sut yr wynebodd y cyfanrwydd mewn beirniadaeth lenyddol?

Gyda Lewis Edwards, ymdrinnid â'r 'egwyddorion' ynghylch cynnwys, a'r cysylltiadau ysbrydol a oedd yn fythol bresennol mewn llenyddiaeth. Dyna'i ddewisol faes. Ymdrôi Hugh Bevan gyda synwyrusrwydd a chrefft. Pawb at y peth y bo. Roedd gan L.E. ei wreiddioldeb ei hun.

Holaf eto, yng ngoleuni sialens L.E.: ble y 'dylai'r pwyslais mewn Beirniadaeth Lenyddol fod?' A'r unig ateb 'catholig' yw – ble fynnwch chi; ym mhobman; yn ôl eich chwaeth neu'ch angen. Mae'r maes yn cynnwys bywyd oll. Yr unig rybudd a roddwn yw hyn. Gelynion llenyddiaeth yw gwrth-gatholigwyr. Hynny yw, gwylier negyddiaeth gwleidyddion ymyrrol yn thematig a'u cystwyo pleidleisiol, eu gwaharddiadau, a'u gwyro anniwylliedig tua'r tenau a'r poblogaidd. Gwylier hefyd y bydolwyr materolaidd: hynny yw, darllenwyr sydd am gyfyngu lled y cyweiriau. Ni wn a gytunasai L.E. â hynny, ysywaeth. Ond o leiaf, nid oedd ef bob amser yn gallu goddef ffyliaid.

Roedd deuoliaeth y Rhamantydd a'r Goleuadwr yn weddol glir ym meirniadaeth Coleridge. Mae'r enghreifftiau o feirniadaeth ddisgrifiol ganddo yn adlewyrchu arferiad y cyfnod rhamantaidd; a sefydlodd yr arfer yna yn bennaf o fwynhad ac yn ogwydd o fywhad er ei fwyn ei hun. Er gwneud hyn droeon, yr oedd ei gymhelliad ei hun yn wahanol. Ceisiai Coleridge theorïa'r weithred lenyddol. Pwysleisiai ddychymyg a ffansi fel rhamantydd go iawn ynghyd â rhuddin ysbrydol; ond unwaith eto, theori deg a llenyddol oedd. Tueddai greddf L.E. fwyfwy ar y llaw arall i broselytio.

Dyma Coleridge: 'Galwn o hyn ymlaen bopeth, nad yw ond yn wrthrychol, yn *natur*. Amgyffredwn gyfanswm y goddrychol yn ôl enw'r *hunan* neu ddeallusrwydd.' I mi gogwydd bwriadus y goleuadwr oedd y gwrthrychol iddo, er bod *natur* a'r *hunan* ill dau yn faterion a fawrygai'r rhamantydd. Yn ei bwyslais ar dwf 'organaidd' cerddi a dramâu Shakespeare, dod a wnaeth Coleridge â'i ymdeimlad goddrychol; ond fe'i mynegai yn ddiffiniadol yn ôl dull y goleuadwr. Cadwai'i feddwl o hyd yn fwyaf penodol ar y Cread, heb hidio am ennill eneidiau.

Tybiaf mai enw L.E. ar yr erthygl ar Coleridge yn wreiddiol oedd nid 'Athroniaeth a Diwinyddiaeth Coleridge', eithr 'Greddf, Deall a Rheswm', oherwydd yn ôl llythyr gan L.E. at Morris Davies yn y *Cofiant* i'w dad (gan fab L.E.), dywed mab L.E. mewn nodyn fod yr enw a roddai'i dad, sy'n darllen '*Greddf, Deall, a Rheswm ... Coleridge*' (fel pe bai Coleridge yn awdur i'r erthygl), yn gamgymeriad ac mai L.E. oedd yr awdur, a safle 'Coleridge' wedi'i gamleoli yn ôl safle'r awdur yn hytrach nag yn rhan o'r teitl. Bid a fo am hynny: tybed a oedd L.E. wedi sylweddoli mai 'Greddf' etifeddol ei hun o fath oedd 'Rheswm a Deall'? Mawrygai ef Reddf yn gyferbyniol, fel Rhamantwr go uniongred. Yn ei ysgrif 'Barddoniaeth y Cymry', sylwai'r rhamantydd ynddo: 160 '*Dylai y bardd fod yn meddu teimlad cryfach na chyffredin, oblegid y mae efe wrth ei swydd i roddi iaith i holl deimladau y natur ddynol ...*' 163 '*Y rheol anffaeledig yw "cydfyned âg anian"*.'

Yn ystod ei oes, gwiw sylwi i Lewis Edwards gael o leiaf dair tröedigaeth. A meddwl yr wyf yn awr am dri phrofiad meddiannol mawr a thu hwnt i'w ddeall a newidiai gyfeiriad ei safbwynt a'i fywyd. Yn gyntaf, ac yn gymharol gynnar, y dröedigaeth *brofiadol* Gristnogol a fu, fel bob amser, yn unigolyddol wahanol a'r un pryd yn dilyn patrwm cyfarwydd a chyffredinol i lawer, 'y darostwng drwy oleuo a'r rhyddhau drwy faddeuant goruwchnaturiol'. Yn ail, ei dröedigaeth *ymenyddol* Gristnogol. Yr oedd hon yn olynydd ffyddlon i'r gyntaf, ond bron yr un mor syn ac annisgwyl iddo; a hon oedd y sylfaen a arweiniai at lawnder Coleridge. Cydiodd hon yn ei ymennydd (yn bennaf dan arweiniad Coleridge, a'i addysg gartref ac yn yr Alban) i sylweddoliad bod y goruwchnaturiol, a oedd wedi dod yn real iddo bellach, yn cwmpasu athroniaeth ddwys Feiblaidd a theyrnas ymenyddol ac esboniadol eithriadol a symbolaeth foesol a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'w ddisgwyliadau naturiol.

Ond y drydedd dröedigaeth sy'n berthnasol i'n hastudiaeth ni yn awr. A hynny oedd ei

dröedigaeth *lenyddol.* Yn llenyddol, cafodd Lewis Edwards sioc. Ni chwiliodd am hon, yn wahanol i'r ail. Nid tyfiant mewn addysg a dealltwriaeth oedd ei feithriniad llenyddol ef, er bod hynny'n wir i raddau hefyd. Cafodd ef ddarganfyddiad arbennig ysigol. A hynny eto oherwydd dirgelwch y weledigaeth sy'n hofran ar ymylon y dychymyg ieithyddol, hud y cwlwm geiriol a fuasai ganddo o'r dechrau, dewiniaeth y meddwl celfydd mewn iaith. Dymunasai fod yn ddiwinydd, ond mynnai rhagluniaeth iddo hefyd, druan, fod yn feirniad llenyddol. Yr oedd y tair tröedigaeth wedi bod yn rhyfeddol i'w fyfyrdodau tawel. Roeddent mewn cysegrle gan ymsymud ar ymylon yr annealladwy. Cyn hynny tybiai mai darllen oedd darllen, y pleser a ogleisiai chwaeth a difyrrwch deall. Ond yr oedd y drydedd dröedigaeth hon, ar ôl cyfarfod â Coleridge, yn fath o ddatguddiad dieithr ym myd y naturiol. Bellach, yr oedd eisoes wedi credu'r Goruwchnaturiol, hynny yw wedi gallu pwyso arno'n ddiriaethol yn y byd tragywydd personol. Mwyach, mewn maes naturiol cyfarwydd, maes naturiol a dybiai'n fwynhad cymharol syml i'r synhwyrau, cafodd ei feddiannu gan rym a'i perswadiai fod yna rywbeth hynafol a chyfareddol yn y cyneddfau dynol naturiol a oedd yn fwy na chyfathreb syniadol. Canfu lenyddiaeth yn brofiad personol cyflawn ac aruchel i oedolion.

Wrth ymdroi ambell waith gyda'r hyn na ellid ei ddeall mewn modd dynol, ni frysiai Coleridge i'w wrthod ar sail rheidrwydd cwmpas digonol yr ymennydd naturiol. Caniatâi gyraeddiadau cymhleth y Tragwyddol goruwchnaturiol. Cydnabyddai du-hwntrwydd yr Absoliwt creadigol. Felly y gallai gyfaddef hynny iddo'i hun: gallai fodloni ar hunan-wrthddywediad meidrol. A gwyddai Lewi Edwards beth o'r tyndra hwn. Roedd yna elfen o blygu, felly, gan ŵr mewn oed.

Dyna eni'r Beirniad Cristnogol ynddo felly. Agorodd gyrfa newydd iddo. Rhan o drasiedi gyrfa L.E., yw iddo fod yn rhy brysur, ac yn rhy ymrwymedig yn ei ddyletswyddau fel arweinydd i'w oes, fel na allodd ddatblygu'r yrfa lenyddol wreiddiol hon i'w llawn botensial. Amhriodol yw trafod ei *ragoriaethau* llenyddol heb archwilio ym mhle y *methodd* hefyd; a'r holl ail hanner o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gydag ef. Ceir hynny yn y lle y cyfarfu'r Deunydd 'amlwg' â Ffurf Gymraeg. Bu'r Ffurf yno erioed, wrth gwrs, cyn y Deunydd. Ond beth a fu'r Ffurf yn ei wneud yng nghyswllt y ddau? Brysiodd ef yn ôl wedi'i ddrysu at y Deunydd. Y trueni yw nad aeth ef ati i lunio astudiaeth o Estheteg Gristnogol ac o berthynas dysgeidiaeth y Greadigaeth a natur prydferthwch Duw (a'r Gyfraith): Salm 8, 19, 104; Diar. 20:27.

'Deunydd' y llenyddiaeth yw bedd y beirniad ifanc, boed yn Farcsydd, yn Ffeminydd, yn Broselytiwr Cristnogol neu'n ddefodwr confensiynol Cymraeg. Ffurf ynghyd â Deunydd sydd: dau geffyl y mae'n rhaid eu cydredeg, ar yr amod bod y gyntaf wedi'i rhagflaenu gan yr ail yn ddarganfyddus o'r cychwyn.

Un o'r symudiadau pwysicaf o fewn Rhamantiaeth y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd ffurf feddyliol Symbolaeth. Symbolwyr fu'r beirdd diweddar mwyaf aeddfed yng

Nghymru – Pantycelyn, Ann Griffiths, ac Islwyn, – lle yr oedd y symbolaeth Gristnogol a'r hanesyddol yn un, ac wedi tarddu yn y Beibl. Pe buasai L.E. yn fwy agored i hyn, yn ysgafnach hydeiml ei fysedd ac yn fwy rhydd rhag 'cyfrifoldeb', ac yn meddu ar wylltineb iach, dichon y buasai wedi adnabod nerth hydeiml Ffurf. Bid a fo am hynny, yng nghanol ei ddoniau cyfoethog, y peth hwnnw a wnâi lenyddiaeth mor gyflawn oedd ei faen tramgwydd: Ffurf, y forwyn nas gwrthodir yn ddi-gosb, un o arweddau ymwybodol mwyaf cywrain y datblygiad deallol Cymraeg yn y dechreuadau, a bwlch arwyddocaol cyfrinachol o hyd yn ein hysgolheictod diweddar. A Deunydd, a fydd yn ysgogi Ffurf, yn plygu iddi, ac yn ei llenwi. Roedd y cwbl o dan ysgogiad 'Ysbrydoliaeth'.

# BEIRNIADAETH LENYDDOL Y BEIBL

Mae gwreiddiau llenyddiaeth ei hun ym mhob rhan o'r byd i'w cael mewn crefydd. Ers y dirywiad crefyddol yn Ewrob yng nghanol Rhamantiaeth seciwlaraidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu'r cyswllt hwn yn embaras braidd i feirniadaeth lenyddol. Eto, o'r cyfnodau cyn-hanesyddol ynghynt, pryd y ceid seremonïau dramatig sagrafennol a chwedloniaeth 'fytholegol' hyd at y cerddi Mawl yn yr oesoedd canol, crefydd a ddarparodd egin y llenyddiaeth seciwlar ei hun. Ac ni raid chwilio'n bell iawn felly er mwyn canfod beth oedd cynefin L.E. ar gyfer llunio beirniadaeth lenyddol, hyd yn oed pan drafodai waith pobl fel Goethe, ac yn enwedig gan fod cyfieithiad William Morgan o'r Beibl i L.E. yn un o'r uchafbwyntiau clasurol yn hanes Llên Cymru.

I'm bryd i, un o'r gweddau mwyaf calonogol ym meirniadaeth L.E. oedd y safbwynt a ddatblygodd ef yn ei gyfnod diweddar ynghylch Beirniadaeth Feiblaidd. Dichon fy mod wedi gorbwysleisio'i orbarodrwydd i symud yn dawel bach gyda'r llif, a bod yn rhy agored i chwiwiau'r oes. Y mae ei barodrwydd i wneud safiad beirniadol mwy gwreiddiedig a llym yn erbyn y ffasiynau llac defodol mewn Beirniadaeth Feiblaidd yn nodedig, gredaf i, i ŵr a fu mor awyddus i fod yn wyliadwrus ynghylch barn y byd am ei ysgolheictod.

Llenyddiaeth aruchelaf Israel yw'r Beibl. Arni hi y torrodd Lewis Edwards ei ddannedd fel beirniad llenyddol. Ond yr oedd yn amddifad o athrawiaeth ddatblygedig o Ras Cyffredinol; ac o ganlyniad, yr oedd ei athrawiaeth am y Greadigaeth yn gul, peth anffodus i feirniad llenyddol. Boddodd yn ymyl y lan droeon fel beirniad. Eto, wrth edrych yn ôl tuag at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, efallai mai'r hyn a ddisgwyliem gan ŵr cydymffurfiol megis L.E. fuasai iddo droi at y Beibl megis at lyfr dynol arall. Onid gŵr oedd ef yn gyfarwydd â'r gwyntoedd a chwythai o'r Almaen, ac am ddangos ei fod yn hyddysg ynddynt ac ar flaen y gad, ac yn ŵr angerddol o sefydliadol a chwenychai barchu'r ysgolheictod mwyaf cyfoes? Dyna yn bur fuan a ddigwyddodd i lawer o ddiwinyddion eraill Cymru. Nid astudient y Beibl yn ôl ei delerau'i hun. Yr oedd gwynt yr Ymoleuo eisoes i'w glywed ym mrig y morwydd. Dyma oes eisoes a oedd yn cynyddol dwrian am wallau archaeolegol, gwallau ffurfiol hanesyddol, gwrthddywediadau gosodiadol, cambriodoli awduraeth a chamddyddio, ac yn y blaen, rhywbeth-rywbeth a fedrai wanychu 'awdurdod' y Beibl. Gwrthddweud nodwedd oruwchnaturiol y Beibl oedd rhagdyb beirniadaeth lenyddol i'r gwŷr cymedrol. Ni chawsid erioed cyn Oes Fictoria y fath ymgais i danseilio geirwiredd y Gair. A hynny am resymau heblaw rhai ysgolheigaidd. Llwyddodd L.E. i godi uwchlaw'r gwastad hwnnw'n aml.

Caed maes o law barodrwydd digon academaidd i amau'r 'amheuwyr'. Un o'r datblygiadau hanesyddol mawr yn eu herbyn yn yr ugeinfed ganrif fu'r gyflafan wedyn a ddigwyddodd i wybodaeth, er nad i hyder, y beirniaid Beiblaidd hynny a'u hymosodiadau cafalîr ar lawysgrifeg,

archaeoleg, testunwaith, a dehongliad y dogfennau ysgrythurol. Tybiai'r hen ysgolheigion Beiblaidd hyn eu bod yn dal i gynyddu'n niwtral gan bwyll, gan wneud ambell gamgymeriad wrth gwrs fel pawb dynol. Ond yn y bôn, yr oeddent yn wynebu her arall. Ciciwyd yn ôl gan uniongredwyr. Tanseilid eu rhagdybiau a dilysrwydd eu cymhellion gan Gristnogion crediniol newydd. Dechreuwyd chwilio nid yn unig fanion, ond y mawrion wallau yn eu gweithgarwch. Yn llythrennol, aethpwyd gan ysgolheigion uniongred newydd yn ddyfnach i'r gwir nag o'r blaen drwy ailystyried y rhagdybiau diarchwiliad. Yn wir, chwalwyd erbyn hyn filoedd o'r 'cywiriadau' tybiedig negyddol cynt.

Nid cyflafan fach a gafwyd o'r adwaith gwrth-ysgrythurol, ond llwyth o gadarnhad newydd yn cyfiawnhau'r symudiad gwrth-danseiliol. Ysgubwyd dros y symudiad negyddol hwnnw'n ddidrugaredd. A cheir, bellach ac ymhellach gan nifer helaeth o ysgolheigion praff, fwyfwy o ofal ac o hunanfeirniadaeth a gwyleidd-dra gerbron y testunau rhyfeddol hyn. Dechreuwyd sylweddoli nad yr un rywsut oedd natur eu criteria negyddol hwy ag a geid gan ysgolheigion mewn meysydd eraill. Mewn meysydd eraill, defnyddid rhagdybiau amrywiol a oedd yn gweddu i'r maes. A sylweddolwyd o'r herwydd angen i ailystyried o'r newydd y Beibl yn ôl ei natur unigryw.

Byddaf yn synied y gall fod rhai o'r ymosodiadau 'ysgolheigaidd' ar y Beibl yn gangen mewn gwirionedd ar y mudiad rhamantaidd. Fe gofir bod y Rhamantwyr yn arddel 'rhyddid' bythol rhag 'awdurdod', ac yr oedd yn 'naturiol' (a phopeth o bwys mewn bywyd yn 'naturiol') fod y farn bersonol oddrychol hon yn cael y lle blaenaf. Profiadaeth oedd nod Schleiermacher. Yr oedd traddodiadau uniongrededd oesol yn anathema. Ac wrth gwrs, yn gynhenid fel hyn, cafwyd, ers amser y 'gwrthryfel' Edenaidd, ragdybiau yn erbyn Duw. Hen oedd yr Ego Trosgynnol: dyna ran bwysig o'r diffiniad o Bechod. Ond erbyn y 19eg ganrif, y 'fi' oedd un o'r nodweddion lleiaf deniadol a bwysleisiai'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment),* hyd yn oed wrth astudio'r Beibl.

Deuai L.E. at ddadansoddi'r Beibl o du gwahanol, ychydig. Yr oedd ei draed eisoes yn sicrach ar dir uniongred. Heb ddifwyno 'ffeithiau', a heb ddianrhydeddu 'rheswm', ceisiai ledu'i ragdybiau i gynnwys priod natur y pwnc dan sylw. Er mor bwysig yn ei ddosbarthiadau Coleg yn ddiau fu darllen clòs, fel y gellid ei ddyfalu wrth ddarllen ei bennod 'Llyfr y Prophwyd Eseiah,' nid dyna oedd ei ogwydd arferol. Theorïwr oedd ef fel beirniad, nid beirniad ymarferol 'y darn ei hun'. Ac yr oedd i'r theorïwr ei le beirniadol allweddol wrth astudio llenyddiaeth Israel. Theorïwr mewn Themateg oedd L.E.. Ac ni ellid hepgor y fath fyfyrdod.

Deuai ati fel beirniad llenyddol, bid siŵr. Ond gwnâi ragdybiaeth gwbl wahanol i'r testunwyr negyddol ac arferol. Fel un a safai yn y traddodiad Efengylaidd, deallai ym mêr ei esgyrn am unigrywiaeth ysbrydoliaeth y Beibl yn tarddu o bresenoldeb yr Ysbryd Glân. Gwyddai fod a wnelo ffeithiau â rheswm a feddai ar fwy na dimensiwn amser a lle. A'r hyn a'i diddorai ef oedd ei

arwyddocâd moesol, esthetig, ac ysbrydol i ddarllenydd a oedd o ddifrif yn gwybod rhywbeth am drefn oruwchnaturiol. Hynny yw, yn y bôn – er nad yn unig fel hyn – yr oedd ei dröedigaeth Feiblaidd wedi gweddnewid ei welediad beirniadol. A chafodd her i'w ymennydd gydweithredu â'i ysbryd yn ôl cefndir dadansoddol yr Ysgol Sul. Felly, dyrchafodd L.E. ansawdd meddwl yr Ysgol Sul i lefel newydd drwy'i barch ysgolheigaidd.

Cafodd ddimensiwn amgen i'w ddealltwriaeth. Byddaf yn synied ei fod yn ddyledus iawn i Coleridge wrth ddirnad beth oedd 'Rheswm' i'r Cristion. Yr oedd wrth gwrs yn llawn o barch tuag at Reswm, fel un cyfarwydd â'r Ymoleuo a'r Oleuedigaeth. Ond ceid gan Coleridge ddirnadaeth Gristnogol a phrofiadol, hyd yn oed teimladol, o Reswm mwy cyflawn. Un o ddoniau llydan Duw, un o hanfodion y greadigaeth oedd Rheswm. Yr oedd ef yn mwynhau rhesymu nid yn unig ar lefel ddeallol, ond fel rhywun a ganfyddai'r Duwdod ar waith yn cwmpasu amgylchfyd a ymestynnai y tu hwnt i Ofod ac Amser mewn Rheswm uwch. Cyfrannai rheswm at fwynhau'r goruwchnaturiol a'r naturiol. Nid cyfartalu'r Duw Trindodaidd yr wyf yn awr â *Rheswm*, fwy nag y'i cyfartalaf â *Rhifyddeg*, wrth gwrs. Deall drwy Ras Cyffredin yw'r naill a'r llall: Creadigaeth. Ond cysylltir Rheswm Goleuedig Cristnogol â'r cyfrwng y gweithreda Duw drwyddo i adeiladu deall.

Eto, y mae gennyf garn amgen i edmygu beirniadaeth L.E.. Wrth iddo efrydu'r Deunydd, yn fwy na'r Ffurf Fynegiant, câi wrth gwrs Thamateg gymen a hardd. Câi hefyd systemwaith sylfaenol. Yr wyf wedi sôn o'r blaen am Gyfundrefnau Tafod a Chyfundrefnau Mynegiant. Cyfundrefnau o wneuthuriad dyn yn fwriadus yw cyfundrefnau ymarferol Mynegiant, megis y gyfundrefn iechyd neu'r pennill mewn prydyddiaeth. Materion 'diweddar' a 'ffurfiol' ydynt. Dyma syniad 'y dyn yn y stryd' am gyfundrefn. Ond cyfundrefnau isymwybodol, a berthyn i fframwaith y Greadigaeth ei hun, yw Tafod: rhai hefyd y gellir canfod ynddynt nodweddion sy'n gysylltiadau â'r ddealltwriaeth Gristnogol o'r Duwdod. Rhoddir y cyfundrefnau hyn gan Dduw ar ffurf Rhagluniaeth, ac ni wna dyn ond eu darganfod. Dywed L.E. *(Traethodau Duwinyddol: cf. T.D 701)* 127, '*Llawer ymgais a wnaethpwyd gan Des Cartes ac eraill i esbonio symudiadau y ddaear a'r planedau: ond yr oedd diffyg yn mhob cyfundraeth, oblegid nid oedd ganddynt ond golwg ar ryw ranau o'r gwirionedd, nes y dangosodd Syr Isaac Newton fod yr holl fydoedd sydd yn troi oddiamgylch yr haul yn cael eu cadw a'u llywodraethu yn eu cylch-dröadau gan ddau allu gwrthgyferbyniol, un yn tueddu i'w tynu at yr haul, a'r llall yn tueddu i'w gyru oddiwrtho*.' Mae ganddo gryn lawer i'w ddweud am gyfundrefneg resymegol o'r fath (TD 171,184, 341, 342; *Hanes Duwinyddiaeth* xcvii, cxi). Os oes gwendid yn ei fethodoleg yn y fan yna, mae'n gysylltiedig eto â'i Hegeliaeth, ac â'i fframwaith. Nid wyf er hynny am fod yn negyddol yn y fan hon. Ond gwyddys fel y sylfaenai ef *Athrawiaeth yr Iawn* ar hyn. Meddai ef *T.D. 701:* '*Y cwbl a wnaethum oedd cymhwyso at dduwinyddiaeth yr hen egwyddor oedd i'w gweled yn ysgrifeniadau y prif athronwyr, a'r hon y gellir ei holrhain yn ôl i rai*

*o'r meddylwyr Groegaidd.*' Cafodd y fformiwla gan Coleridge a hefyd gan Hegel, er iddo sylwi fod rhaid mynd yn ôl i wlad Groeg am ei wreiddyn: gosodiad/ gwrthosodiad/ cyfosodiad. Camgymeriad fu, er hynny, gymhwyso egwyddor at rychwant diwinyddiaeth a gafwyd yn rhy rwydd gan wyddor ddynol. Anghydweddol oedd. Fe'i cymhwysai yn ôl rhagdyb a oedd yn briodol i raddau mewn Ysgrythur am ei fod yn gweithio ar dro yn y Greadigaeth. Mor rhyfedd o agos fu L.E. er hynny yn ei fyfyrion. Gwelai'n union beth oedd tipyn o arwyddocâd cyfundrefn, a darddai yn y Duwdod, ac mor arwyddocaol ydoedd (T.D. 703): '*Yr hyn y ceisir ei ddangos yw gwahaniaeth mewn undeb, ac undeb mewn gwahaniaeth, a'r ddau yn bod o angenrheidrwydd fel y ddau begwn mewn trydaniaeth.*' Dyna ddiffiniad cryno o'r iawn ryw o gyfundrefn: gwahuno. Dyna sylfaen i ddadansoddi dealltwriaeth ac iaith a themateg lenyddol a diwinyddol: mae'n amlwg ar ganol y datguddiad o'r Duwdod ac yn y dadansoddiad o'i Greadigaeth. A gwelai'r un math o gyfundrefn gan Coleridge a Hegel. Ond mae Trugaredd Duw yn llywio Cyfiawnder, a'r Goruwchnaturiol yn ymyrryd yn y naturiol. Y gyfrinach i'r gwrthddywediad yn y cyfosodiad, a pharhad deinamig y 'fformiwla', yw sofraniaeth yr Absoliwt. Os oes angen meddwl yng nghyfeiriad patrymau (a pham lai?), mae angen hefyd gydnabod cymhlethrwydd y-tu-hwnt-i-ddeall y tragwyddol yn y meidrol. Credaf iddo ganfod mwy gan Coleridge na chan Hegel – fod 'cyfundrefn' yn llawer mwy ysbrydol nag a farnai'r Ôl-fodernwyr dogmatig ymhellach ymlaen. Llwyddai gyda Coleridge i sylweddoli bod hyn yn gallu cwmpasu gwrthrychedd â goddrychedd. Ac yn hyn o beth dylem ochri hefyd gyda Coleridge, Hegel, ac L.E. yn erbyn goddrychedd Kierkegaard. '*Goddrychedd yw'r unig iachawdwriaeth,'* meddai hwnnw: '*hynny yw, Duw fel goddrychedd gorfodol tragwyddol*.' Yr hyn a oedd mewn golwg gan Kierkegaard oedd ymosod ar y dybiaeth mai amhersonol oedd y gwirionedd. Y dewis goddrychol, llam ffydd, yr ymrwymiad i'r hurt, dyna nod ymchwil yr Ymofynnydd am y byd ysbrydol ym mryd Kierkegaard. Ac aeth Kierkegaard yn rhy bell. Ym mryd L.E. yr oedd y Gwir yn llawnach na hynny, yn wrthrychol ac yn oddrychol. Gwelir, felly, yn hyn o beth, hyd yn hyn, fod gennyf lawer i'w ddweud o blaid dull dadansoddol a beirniadol L.E.. Dyma'r cyd-destun y dymunwn ei nodi cyn anghytuno ag ef ar fater cysylltiedig lle yr âi L.E. yntau, gredaf i, ar gyfeiliorn yn dost. Gwelai, bid siŵr, fod cyfundrefneg yn fwy na fframwaith prennaidd, ac yn gynhenid i fywyd. Ac mae'n rhaid oedi i ystyried rhywbeth arall a gyd-redai â'i sylweddoliad o 'gyfundrefn' a ddyfnhâi'r sylweddoliad hwnnw. Ond gwelai fod bywyd oll, gan gynnwys llenyddiaeth a diwinyddiaeth hwythau, yn angerddol gyfundrefnus hefyd. Ac wrth gwrs, dyna un rheswm fod y gynghanedd, a'r trosiad, a'r llenddulliau fel y delyneg, y ddrama, a'r stori yn ffurfiau mor isymwybodol ddwfn. Os Cyfundrefn oedd y Ffurf, yna Cariad oedd y Deunydd.

*Tröedigaeth Ddeallol*

Disgwyliem efallai y buasai L.E., ac yntau'n llenor o Gristion yn ei gyfnod, yn darllen y Beibl fel pietist gan chwilio olion Gras Arbennig, a chan esgeuluso Gras Cyffredinol. Ac yr oedd hynny'n wir, ac yn annigonol ar ei ran. Ond rhaid ymatal rhag ymgyfyngu i'r diffyg hwn yn ein sylwadau arno. Mewn un ysgrif yn *Traethodau Llenyddol*, y mae L. E. yn sôn am dröedigaeth ddeallol a gafodd ef. Dangosais ei fod eisoes cyn hynny wedi profi tröedigaeth grefyddol. Ond daeth tro deallol (a llenyddol) arall ym myd L.E. a fu'n estyniad ar yr un crefyddol.Y mae'n amlwg i mi ei fod cyn hynny wedi profi tröedigaeth grefyddol, a'i fod eisoes o'i blentyndod wedi cael ei feddiannu gan ysfa naturiol i ddarllen a myfyrio a lleibio gwybodaeth o bob math mewn ffordd elfennaidd. Hunanddiwylliedig i ryw raddau yw pob gwir ysgolhaig. Ond fe gafodd yr hyn a ystyriai ef oedd y 'ddealltwriaeth' fwyaf a brofodd erioed – a ffordd i ddarllen. Cafodd allwedd i'r holl bentyrrau o lyfrau a ddarllenai. Crybwyllwyd hyn yn y bennod ar Coleridge, ond dyma beth o'r effaith. Bu mewn preswylfod am gyfnod lle y ceid digonedd i'w ddarllen, a rhedai o gwmpas y lle mewn afiaith. '*Ond ar ôl i'r dysbeidiau gwynfydedig hyn ymlonyddu i ryw radd, cymerasom mewn llaw yr **Aids to Reflection.** Nid oedd ei faint ond bychan, a meddyliwn nad oedd ond prin gwaith dau ddiwrnod o ddarllen. Agorasom ef, fel y byddwn yn arfer, ond arfer ddrwg ydy, tua diwedd y llyfr: ond nis gwyddwn pa beth i'w wneyd o hono, mwy na phe buasai wedi ysgrifenu yn iaith Timbuctoo. Edrychasom yn ol tua'i ddechreu.'*

Ac yn y fan hon, y mae'r bardd gan Lewis yn ymaflyd ynddo, wrth i'r dröedigaeth hon gyffwrdd ag ef yn gorfforol. Dechreuai ddarllen fel pe bai ef ei hun yn awdur, dull da o ddarllen.

Mae'n codi trosiad o'r dyfroedd yn ei wlychu, ac yna'n codi'n araf drosto, nes bod y môr yn berygl i'w fywyd, yn awr yn ildio i'r obsesiwn, anghenraid mawr y dröedigaeth glasurol. Darostyngiad personol, ymdeimlad o annigonolrwydd, a pharodrwydd i'r balchyn mawr gael ei wneud yn fach mewn rhyfeddod.

*'Yr oeddem wedi darllen Locke a Reid, a Stewart, a Brown; ac yn tybied ein bod yn dëall pob cywir. Ond dyma lyfr bychan dirodres, yr hwn nid oedd yn hòni bod yn ddim mwy na chymhorth i feddwl, wedi ein trechu yn eithaf teg. Ceisiwn wenieithio i ni ein hunain weithiau nad oedd yr awdur yn deall pa beth yr oedd yn ei ysgrifenu...Fel y dywed Coleridge ei hun mewn un man, nid oes gan neb hawl i gyhuddo un arall o anwybodaeth, oddieithr ei fod ef yn amgyffred ei anwybodaeth* [ei hun].*'*

Credaf y gellid casglu fod Lewis hyd y pwynt hwn, wedi cael ei fagu ar aelwyd dduwiol, ac yn fachgen galluog wedi ymbaratoi ar gyfer yr unig yrfa a ganiatâi iddo ymgodi uwchlaw gyrfa gwas fferm, a gwneud ei hoff waith o ddarllen. Yn awr, mae rhywbeth newydd yn dechrau ymaflyd ynddo. Mynnai ddeall y llyfr dyrys hwn o'r galon. Daeth i'w ran fath arbennig o ysgolheictod.

'*Ar ol methu amryw droeon, sylwasom yn fanylach ar ddywediad o eiddo* ***Awstin****, yr hwn a ddyfynir gan yr awdur yn ei ragymadrodd: sef yw hyny. "Fod yn rhaid i ffydd ragflaenu dëall, fel y bydd yn wobr ffydd." Gwelsom nad oes modd dëall dim yn iawn mewn athroniaeth na dwyfyddiaeth heb gredu; ac ymfodlonasom o'r diwedd i ymddiried ein hunain ar wyneb y dyfnder, trwy gymhorth a than gyfarwyddyd y ffydd hon, yr hon sydd yn gweled yr Anweledig, ac yn gweithredu ar egwyddorion ysbrydol a thragwyddol.'* Unwaith eto, dyma ddarllen megis yr Awdur.

Hynny yw, yr oedd rhaid cael y **rhagosodiad** yn iawn, peth a esgeuluswyd yn y symudiad rhyddfrydol, dynganolog. Nid wyf wedi gorffen crynhoi'r disgrifiad o'r dröedigaeth hyd y fan yna. Ond credaf fod yr adroddiad hwn (ac yn arbennig y trosiad) yn gwbl nodedig. Darllenais laweroedd o adroddiadau am dröedigaethau Cristnogol. Tueddant gan amlaf, fel sy'n gweddu, i fod yn ddigwyddiadau eithafol syml: yr ymbaratoi ystyrol ymlaen llaw weithiau, y clwyfo, y darostwng, a'r sylweddoliad o ystyr hyn, a'r codi. Ond dyma ddechrau sôn yn synhwyrus am dröedigaeth a oedd yn hanfodol ddeallol a llenyddol (heb wadu unrhyw dröedigaeth i'r serchiadau yn llanc). A bu'r hyn sy'n dilyn y rhagymadroddi hwn yn ddadleniad annisgwyl, ac wedi dysgu i L.E. gryn dipyn am ei waith beunyddiol.

Wrth ymlwybro drwy *Aids to Reflection* y mae Lewis (a Coleridge) wedi cyrraedd tudalennau 142 a 143. Mae Coleridge yn wynebu un o golofnau mawr yr Ymoleuo, sef 'Rheswm'. Roedd Lewis yntau'n hen gyfarwydd ar y pryd â'r Rhesymolwyr a'r Empeirwyr, ac yn gwybod am eu treiddgarwch. Am wn i, ei ddealltwriaeth ef o Reswm (o leiaf, hyn fu fy nealltwriaeth innau o'r hyn a ddywedent) oedd mai canfod cysylltiadau cyson natur o fewn amser a lle oedd eu hymarfer. Cysylltid achos ac effaith mewn tystiolaeth empiraidd. Digon teg. Bûm innau, os caf fod yn bersonol, ers blynyddoedd lawer yn dra ymwybodol o gyfyngiadau amser a lle i Reswm. Ac yr oeddwn yn sicr mai cynneddf oedd i fesur yn gytûn y tu mewn i'r dimensiwn naturiol, a bod a wnelo materion tragwyddol â'r posibilrwydd o amgyffred ymhellach y tu mewn i hynny. Tueddid i osod Rheswm yn lle'r Creawdwr-Arglwydd mewn Natur. Yn nehongliad Lewis o Coleridge, dysgais ddiffiniad newydd. Ni welais neb ond Lewis Edwards ynghynt yn cyflwyno pethau gyda'r pwyslais hwn. (Medd Lewis ei hun: 'Cymerasom ein rhyddid i gynnyg cymaint â hyn o'n syniadau ein hunain ar y mater hwn.') Nid yw'n arfer mentro fel hyn ar ddehongli personol a gwreiddiol sy'n deffro darllenydd yn ymenyddol lenyddol. Felly, ceisiaf gyfleu beth sydd ganddo mewn golwg. Nid yw'n barod i rannu Rheswm. Ac nid yw am ei gyfyngu'i hun i ddimensiwn amser a lle chwaith. Unoliaeth yw'r gwir ysbrydol am bob dim, ddaear a nef. Unoliaeth yw yn yr Absoliwt personol. '*Y mae y cwbl yn cael eu cynnyrchu gan oleuni y byd tragywyddol, yr hwn sydd yn tywynnu trwy feddwl dyn, ac yn gwisgo yr holl grëadigaeth â Phrydferthwch* [hynny yw, allan o ddim]' Yn y ddealltwriaeth gywir y gweithia yn y fan hon, felly, Cyfundrefn o gyfundrefnau diwnïad gorff ac ysbryd yw pob dim.

Ysbrydolir Rheswm: fe'i gweddnewidir ac fe'i lledir yn gynhwysfawr. *'Os oddiwrth ryw undod hollbresennol y deillia pob trefn a daioni yn y byd moesol, nis gall ewyllys dyn ei gau allan.' 'Y mae rheswm yn cario y meddwl i'r canolbwynt, ac oddiyno y mae yn gweled y cwbl mewn trefn a chysondeb.' 'Y mae pob athrawiaeth sydd yn dyfod i ni trwy ddadguddiad yn rhwym o fod uwchlaw y dëall, ond y mae yn berffaith unol â rheswm.'*

Yn y modd hwn, fel y ceisiais ei ddangos yn *Y Cynllun sy'n Canu,* yr oedd Pantycelyn yn canfod holl wyddorau a chelfyddydau'r Greadigaeth gan gynnwys Rheswm, yn cael eu gwraidd yn nhrefn y Tri-y-Un, ac yn y Duw-ddyn yn neilltuol mewn llenyddiaeth. Datguddiad! Tybiaf fod L.E. yn yr un olyniaeth. Os yw hyn yn ymestyn yn awr i'r lle yr wyf yn ei dybied, mae a wnelo hyn â'r dasg o ddarllen llenyddiaeth, ac o ddeall perthynas ei threfn seciwlar â'r awen ddwyfol.

Buwyd yn dirnad Rheswm gan yr *Ymoleuwyr* y tu hwn i Amser a Lle (o'u cyferbynnu â'r Goleuadwyr). Ond dyfynna L.E. Coleridge, awdur sy'n mynnu derbyn fel y mae Rheswm yn awr wedi ymamlygu'n elfen yn y byd ysbrydol, ymhell y tu hwnt i gulni Rhesymolwyr confensiynol. '*Rheswm yw cynneddf yr argyhoeddiadau cyffredinol ac anghenreidiol, ffynnonell a sylwedd gwirioneddau uwchlaw synwyr, y rhai a gynnwysant eu prawf ynddynt eu hunain.'*

Gwawriodd hyn ar Lewis wedi cryn gyfnod o addysg weddol 'niwtral', dybiwn i. A theimlai efallai beth cyd-deimlad â gyrfa ddeallol Coleridge. Ym more ei oes buasai Coleridge yn pregethu'n undodaidd, mewn capeli, ei resymoliaeth ddyn-ganolog, yn ôl ei amseroedd. Ond nid oedd ei 'gyfundrefnaeth' (gair Lewis) *'yn rhoddi gorphwysfa i'w ysbryd ymhongar. Wedi hyny, aeth trwy lawer o dywydd blin a chyfnewidiadau pwysfawr, yn ei feddwl yn gystal â'i amgylchiadau ac ar ol chwilio holl ddyfnderoedd gwybodaeth, a chyrhaedd enwogrwydd nid bychan ar feusydd llëenyddiaeth, dygwyd ef i gyfrif y cwbl yn golled fel yr enillai Grist.*' Sylwer: cyd-destun deallol a chymhelliol lenyddol a gaed gan Coleridge, megis gan Lewis. Gwrthrych gorfoledd oedd.

Ni chyhoeddodd Coleridge *Aids to Reflection* yn ystod ei oes. Yn wir, dim ond un gyfrol o'i ryddiaith a gyhoeddwyd pan oedd yn fyw, er bod yna helaethrwydd enfawr wedi'i gasglu bellach, erbyn ein dyddiau ni, yn arbennig yn ddiweddar yn ei lythyrau.

Darganfod Rheswm arbennig Coleridge fu'r allwedd gan Lewis Edwards i agor y drws a allasai ei arwain i fyd rheswm Cristnogol ym mhob maes arall. Gwaetha'r modd, bodlonodd L.E., gan amlaf, ar fynd ymlaen, a disgrifio llyfr a disgrifio pwnc a phwnc, mor 'ddiduedd' ag y medrai, yn ôl y traddodiad hiwmanistig, yn hytrach na phlymio fel y gallasai, ac fel y dylsai i ddyfroedd gwreiddioldeb a chyfundrefneg fwy treiddgar y pwnc hwn. Rheswm oedd ganddo a gynhwysai sylw ar y goruwchnaturiol: cynneddf oedd a fendithid gan yr anweledig. Datguddiad! Ond rhagdyb y diduedd ffasiynol oedd peth o'r llygredd a wenwynodd ei allu i adnabod rhagdyb.

Roedd Coleridge yn un o'r bobl hynny a oedd yn hanfodol i fywyd llenyddiaeth. Roedd ef yn

'enigma'. Credaf mai'r sefyllfa a'i gwnâi'n enigma oedd y cyfarfyddiad rhwng yr Ymoleuo a Rhamantiaeth, a rhwng Diwinyddiaeth Resymegol a Barddoniaeth. Ond yr oedd yn rhy onest i beidio ag wynebu ac ymaflyd codwm â'r gwrthddywediad yn ei feddwl ei hun â'r broblem. Tarddai ffenomen gadarnhaol yr enigma o'r ffaith y gallai llenor aros yn driw iddo ef ei hun ac i oruchafiaeth yr ysbrydol ar y corfforol hyd yn oed pan na allai ddatrys problem. Wynebai broblemau, wrth gwrs, a dyma'r cyfarfyddiad a oedd wrth wraidd ac a lygrodd Ryddfrydiaeth Schleiermacher.

Bodlonai Coleridge ar fethu â datrys rhai problemau. Gwyddai er hynny mai'r Ysbryd Glân oedd unig ddehonglydd cywir Duw: hen ddarganfyddiad ym maes Beirniadaeth Lenyddol.

Ar ryw olwg, peidio â bod yn 'enigma' oedd rhan o hiraeth sylfaenol Lewis Edwards. Chwenychai beidio â cholli gafael arno ef ei hun. Ond nid bob amser y mae'r dyn naturiol yn cael rheoli'r ffyrdd y mae syfrdandod y Gwirionedd yn ei arwain. Yr uchelgais hon o bryd i'w gilydd oedd un o rinweddau L.E., er gwaethaf ei amharodrwydd i'w 'mentro hi'. Gwelai'r Wlad o agos.

*Y Beibl fel Llenyddiaeth*

Nid wyf yn cael y budd y dylwn ei gael gan lyfrau sy'n sôn am y 'Y Beibl fel llenyddiaeth'. Y rheswm efallai yw mai 'Rhyddfrydwyr' a fu wrthi, hyd yn oed rai di-ffydd, sydd yn coleddu rhagdyb i geisio dod o hyd i ryw hyfrydwch diwylliannol seciwlar mewn llyfr 'arall'. Ceisiais felly ymaflyd, fy hun, yn y broblem hon mewn modd gwahanol.

Byddaf yn synied bod Beirniadaeth Lenyddol Fynegiant, *yn gyffredinol*, hynny yw'r darllen clós a mân ar ddarnau penodol hyd yn oed llenyddiaeth 'seciwlar', wedi tarddu ym meirniadaeth Feiblaidd ac esboniadaeth syniadol o'r testun. Felly, pan fydd L.E. yn trafod beirniadaeth ysgrythurol, a themateg yn arbennig, gellid synied ei fod yn weddol agos i waith confensiynol beirniadaeth lenyddol draddodiadol. Ond cyfyd gwestiwn canolog y mae'n rhaid ei ystyried yn y fath amgylchiadau – Onid yw'r Beibl yn gyfansoddiad mwy na dynol? Onid oes hawliau gwahanol ganddo? Onid oes profiadau unigryw? Onid oes ynddo, yn ôl ei ddiffiniad ei hun, awduraeth o ansawdd gwahanol?

Pan soniwn fod unigrywiaeth ysbrydoliaeth y Beibl yn tarddu o bresenoldeb yr Ysbryd Glân, beth a feddyliwn? Onid oes iddo ddimensiwn arall, awduraeth o fath gwahanol, rhagdybiaeth am ddimensiwn llawnach? Beth yw natur perthynas dyn a Duw yn y geiriau hyn? Mae disgwyl i feirniad cyfansawdd, sef y beirniad sy'n barod i agor ei ddeall a'i gyd-deimlad (empathi) i natur yr awduraeth, fod yn barod i daflunio'i gyd-ddealltwriaeth i ddirnad y gwaith o'r tu mewn fel y'i hysgrifennwyd. A phriodol yw meithrin beirniadaeth yn ôl angen a natur yr hyn a efrydir, ac mewn efrydiau Beiblaidd yn ôl y disgrifiad yn y Beibl a roddir ohono'i hun.

Roedd y criteria datblygol o amrywiaeth datguddiedig mewn undod yn cyflwyno iddo ffurf syfrdanol. Criteria llenyddol, heblaw'i Ysbrydoliaeth, er yn gysylltiedig, yw'r unoliaeth berffaith hon. Yn wir, gyda dyfodiad gwendid Ôl-foderniaeth ddiweddar, fe ganfuwyd bod undod yn un o angenrheidiau hiraethlon iaith, deall, a llên. A Duw. Ac y mae L.E. yn rhoi pwyslais ar unoliaeth y Beibl mewn mwy nag un ffordd: (1) yn y proffwydoliaethau, a (2) yng nghydberthynas yr holl awduron (er gwaethaf gwahanol gyfnodau a phersonoliaethau a chefndiroedd cronolegol ac addysgol), a (3) yn yr uchelgais gyfansawdd.

Hoffaf yn fawr ddull L.E. fel beirniad llenyddol o 'amddiffyn' geirwiredd y Beibl. Yn y traddodiad efengylaidd arferol o drin geirwiredd y Beibl, yr hyn a wneid dro ar ôl tro, yn Oes Fictoria, filoedd o weithiau, fu datgelu anghywirdeb cyson yr archaeolegwyr a'r testunwyr a chwiliai mor ddyfal am 'wallau' hanesyddol. Mae wynebu'r mater hwnnw'n bwysig, wrth gwrs. Ond nid oes gennyf rithyn o amheuaeth nad ysgolheictod fel y cyfryw, fel y'i hadweinir mewn pynciau eraill, fu'r ysfa ddall am danseilio awdurdod a natur y testun a gaed yn y maes hwn o du'r dull Troeltschlaidd o 'wrthbrofi' ffeithiau'r Beibl drwy'r naturiolaeth i gyd. Ac erbyn hyn, er bod yr ysfa honno'n aros, yr hyn sy'n syfrdan i bawb cytbwys yw cysondeb a rhyfeddod testun y Beibl drwy'r cwbl, flwyddyn ar ôl blwyddyn po bellaf y pelir tir Israel a pho hynaf y testunau a ddadlennir. A pho bellaf yr archwilir rhagdybiau.

I'm bryd i, yr hyn a wnâi L.E. fel Cristion oedd mynd i bwll y pwnc; ac fel beirniad y mae'n cydio mewn un o'r criteria mwyaf difyr a pheryglus mewn beirniadaeth lenyddol, sef natur a gwneuthuriad ysbrydoliaeth y llenor. Ansawdd ysbrydoliaeth y Beibl yw'r hyn sy'n mynd â'i fryd, nid cyrchu at yr Almaenwyr dysgedig ar y pryd, er gwneud hynny yn y cefndir. Nid y mân us digon academaidd (ond dros dro) a âi â'i fryd, ond dadansoddi'r arbenigrwydd canolog. Wedi'r cwbl, caed gwahaniaeth rhwng ysbrydoliaeth y llenor ac Ysbrydoliaeth yr Ysgrythur (*pace* W.J. Gruffydd).

Gwiw yw cofio ystyried y Beibl fel '**tystiolaeth**' gyffredinol; ac yn hyn o beth ymddengys yn union yr un fath â 'thystiolaeth' arall. Eto, ni phrofir na nerth nac unigrywiaeth yr ysgrythurau mewn dull sy'n ein gorfodi i gydymffurfio â dimensiwn seciwlar. Yn wir, mae'r tystiolaethau eraill a ddygir gerbron yn rhai sydd yr un mor wrthrychol – *sensus divinitatis* (synnwyr o Dduw), hanesyddoldeb ymgnawdoliad bywyd a marwolaeth ac atgyfodiad Crist, yr Eglwys, y Greadigaeth, y Beibl fel ffenomen oruwchnaturiol, oll yn gyd-dystiolaeth dreiddgar yn y cyfanwaith cyfathrebol rhwng Duw a dyn. Mae'r rheina bob un yn rhyfedd o arwyddocaol ac yn ysgubol o werthfawr. Ond heb un gynneddf ysgolheigaidd arbenigol, y maent yn gwbl farw. A'r ateb a wyddai L.E. oedd gwaith bywiol yr Ysbryd Glân yn y meddwl a'r galon ddynol. Gall anghredadun gwrthwynebus ddod wyneb yn wyneb â phob un o bynciau'r Beibl; eithr heb yr Ysbryd Glân, celain ysbrydol yw. [Calfin, *Inst*. I vii] Eto, tystiolaeth yw i bawb, y geiriau a heuir i bawb ym mhob tywydd.

Y mae L.E. yn wynebu unigrywiaeth y Beibl yn hyn o ansawdd. Ac nid wyf yn sôn am hynny oherwydd ansawdd ei ddysgeidiaeth gyson anffaeledig o'i chymharu â'r Corân (ynghyd â symudiad Cristnogaeth yn y Beibl o Israel Gwaed i Israel yr Ysbryd, o'r llwyth i'r bydeang, ac amddiffyn drwy'r cleddyf ymlaen i amddiffyn drwy heddwch di-drais, ac y.y.b.) a'r parodrwydd gofynnol i fod yn hunan-feirniadol. Sôn yr wyf yn syml am (1) ail a thrydydd person y Drindod, (2) presenoldeb gwefr ddihafal yng ngwead yr arddull, a (3) ymwybod â goruwchnaturiol mewn awen.

Eisoes o du'r Almaen, caed digon o rybudd ynghylch llacrwydd credu, a diffyg trylwyredd ysbrydol, a diffyg hydeimledd ynghylch y chwalfa. Ond gorwedd i lawr a wnaeth llawer er hynny a gadael i'r lliaws a'u lluosedd gerdded drostynt. Oherwydd yr eiddilwch hwn, dôi'r bygythiad ar unwaith, ac am gan mlynedd wedyn, o'r tu mewn yn fynych i'r Colegau Diwinyddol, ac o'r tu mewn i'r enwadau (a'u harweinwyr) o'r pwlpudau, gan y bobl dda yr ymddiriedwyd ynddynt, gan y rhai mwyaf uniongred ac efengylaidd weithiau. Nid gorwedd o'r fath a wnâi L.E., nid yn union. Ond gellir gweld mwyach ei lwybr ar ymyl y dibyn. Fe ellwch redeg, ond ni ellwch guddio. Os nad yw ysgolheigion yr enwadau yn barod i sylweddoli'r gwahaniaeth a'r berthynas rhwng rhagdyb dynganolrwydd a Christnogaeth, rhwng goddrychedd a gwrthrychedd, rhwng pregethu mytholegol a chyhoeddi hanes, yna fe ddaw rhai ar eu gwarthaf o'r tu allan yn chwim, ac wynebu'r argyfwng yn blwmp ac yn blaen. Gwawdiwyd Hanes; gwawdiwyd ffeithiau a rheswm Pechod, Uffern, a Barn, a chafwyd dallineb i ddadansoddiad gras cyffredinol mewn gras arbennig. Ond ofer y fföedigaeth oll.

Awgrymir mai beirniad theoretig yn bennaf fu Lewis Edwards, nid beirniad ymarferol (neu feirniad 'y darn ei hun') onid siwrnai a siawns. Ac yn hyn o beth yr oedd yn debyg i Samuel Taylor Coleridge. Mae'n werth imi gyfieithu dadl George Watson ynghylch natur beirniadaeth Coleridge: 'Er gwaethaf holl amlochredd beirniadaeth Coleridge, gallwn yn ddiogel honni nad dadansoddiad oedd ei fwriad, ond *sicrwydd theoretig* – "i ddarostwng beirniadaeth i system" fel y mae'n ei eirio yn ei lythyr at Byron (17 Hydref 1815): "drwy ddiddwytho ceir achosion ar sail yr egwyddorion a gorfforir yn ein cyneddfau,"; neu drachefn, yn y *Biographia Literaria,* "i sefydlu egwyddorion ysgrifennu yn hytrach na darparu rheolau ar gyfer dyfarnu yr hyn a sgrifennir gan eraill." (Pen. 16). Dyna iaith y beirniad theoretig – a hynny gan un yn wir a weithredai ar lefel haniaethu ymhell oddi wrth safonau arferol aesthetigwyr. I Coleridge, yn y pen draw, dim ond theori o greadigaeth farddonol sy'n cyfrif...' Dyna felly iaith arwr L.E.. Ceisient gyfundrefn oruwchnaturiol.

Os eir yn syml ar ôl 'Beirniadaeth Feiblaidd' neu'r Efengyl gymdeithasol' (sef y grefydd ddyn-ganolog) i ddod o hyd i galon dirywiad yr enwadau, fe gollir golwg ar bwysigrwydd y symudiad Ôl-fodernaidd a Lluosedd ym meddwl y cyfnod. Yn wir, wrth gwrs, caed er yn gynnar mai anghrediniaeth annealllus ac unochrog farw fu yn y canol. Ond sut yr enillodd honno yn y cyfnod diweddar yn nannedd twpdra'r ddadl atheistaidd? Digwyddodd oherwydd bod yr arweiniad

efengylaidd ei hun wedi llithro ar yr ymwybod o unplygrwydd yr Absoliwt, oherwydd bod Cristnogaeth wedi cilio o flaen Sefydliad grymus seciwlariaeth gynhwysol, ac oherwydd yr amharodrwydd i beidio â chyfaddawdu – a'r diffyg hyder. Yn arbennig yng Nghymru. Ni ddadansoddwyd yr her yn ddigonol. Gellir gweld fel y mae datblygiadau mewn amgylchiadau a datguddiad yn gallu darparu esgus ardderchog arall i'r rhai sydd eisoes am hau amheuaeth ramantaidd ynghylch 'awdurdod' yr ysgrythur, a chydymffurfio â'r amseroedd. Ond felly y mae hi i academyddion symleiddiol-ddiwinyddol gyda phob pwnc dan yr haul. Dyna pam yr ystyriaf fod ymrwymiad Lewis Edwards i feirniadaeth Feiblaidd egwyddorol a chlòs yn gyfraniad nodedig. Erys ei bwyslais yn berthnasol yn ein cyfnod ni. Byddaf yn ystyried, yn gam neu'n gymwys, fod yna sawl rheswm i 'Feirniadaeth Ymarferol' ddechrau mynd o ffasiwn ymhlith beirniaid llenyddol seciwlar erbyn diwedd canol yr ugeinfed ganrif.... Roedd ei hymarferwyr wedi tybied bod un gornel o Feirniadaeth yn gallu disodli'r rhannau eraill, a meddiannu'r cyfan. Cafwyd ymroddiad i archwilio cefndir a naws yr oes. Drwy bropaganda ym myd Sosialaeth a Chenedlaetholdeb, mewn beirniadaeth lenyddol tyfodd y meddwl newyddiadurol yn ei rym ynghylch themateg ddeunyddiol; a hoff iawn oedd hwnnw o newid chwyrn allanol beunydd, ac o newyddu arwynebol, a'r dull sloganaidd ymhlith arlunwyr. Dymunai greu gwrthdrawiad lle nad oedd ond datblygiad, a chael rhywbeth 'syml' i'w ddweud yn lle sylwedd. Aeth yn unochrog 'thematig' i gyd. Mewn beirniadaeth lenyddol, cefnwyd ar werthuso anodd er mwyn hanesydda hawdd, a hel ffeithiau er mwyn peidio ag archwilio ansoddau.

Mewn gwirionedd, yr oedd yr *avant-garde* ac Ôl-foderniaeth mewn arlunio mor ddiffaith bob dim â philistiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mewn un o'r pwysicaf, onid y pwysicaf oll yn Saesneg, o gasgliadau canol y ganrif ddiwethaf o ysgrifau gan wahanol awduron am 'Y Darn ei Hun', sef *Interpretations,* gol. John Wain, egyr un o'r cyfranwyr fel hyn (ac mewn un man, synhwyraf eisoes yng nghanol y 'darllen clòs' fod yna dwf yn yr ymwybod hanesyddol mewn ffasiwn beirniadol): '*"Structure", nowadays, is a keyword in Shakespearian criticism. "Analysis" by "plot" and "character" is out. It is "theme" and "organization" that describe modern critical presumptions.'* Mae 'out' yn tueddu i adleisio catalog masnachol i ddillad pert dynion ifainc. Y gwir yw bod cynllwyn a thema ynghlwm anochel yn ei gilydd, ac nad oes yr un ohonynt heb drefn. Mae 'cymeriad' a 'chynllwyn' (yr elfen ferfol) yn faterion strwythurol anochel yn ogystal â bod yn weddau ar lenyddiaeth sy'n haeddu ystyriaeth 'arbennig' a 'chyffredinol'. Ond ceir llawer mwy na hynny mewn beirniadaeth aeddfed. Un o'r cerrig sylfaen yn yr adeilad yw Mynegiant. Camgymeriad felly yw ysgaru'r darllen 'clòs'. Ac mae themâu ystyrol bob amser yn bwysig.

Yr ydym oll yn gyfarwydd â goroesiad beirniaid rhamantaidd sy'n gwrthwynebu 'dadansoddi', ac yn dadlau nad ystyron ond bodolaeth mewn cerdd sy'n flaenaf pwysig, nad

dehongli y dylem ei wneud yn gyntaf ond cyd-deimlo'n ddychmygus. Pwy all ddadansoddi blodyn heb ei ladd, ac yn y blaen. Yn y diwedd, gwaith amlochrog yw Beirniadaeth, ond nid anarchiaeth amlochrog. Mae iddi lu o weddau, ond y maent oll yn gydlynol. A chydag ychydig o fyfyrdod y mae modd inni ganfod sut y'i cydlynir. Gan amlaf, mewn beirniadaeth, gellid mentro nad oes yr un peth heb y llall, er mai dywedyd pam neu sut yw'r tramgwydd. Y trueni mawr yw mor annisgwyl alaethus fu gŵr mor alluog â Parry-Williams fel beirniad oherwydd amheuaeth endemig. Bid a fo, caed yn L.E. ddealltwriaeth olau a'r angen i feirniadaeth Feiblaidd gylchu'r darllen manwl a'r darllen crwn gyda'i gilydd. Nid oes angen 'llunio' cyfundrefnau i ddadansoddi'r Beibl, mae'n wir. Ond mae'r cyfundrefnau eisoes yno o fewn pob pennod ac adnod. Lle bynnag y ceir cyfundrefn fe geir rheswm. Cyfundrefn anochel fythol-bresennol y meddwl sy'n esgor ar y medr i 'ddadansoddi ac i gymharu' yw rheswm. A hynny yw'r Rheswm Cristnogol cyfoes. Rheswm oedd i amau'r amau.

*Themateg y Beibl*

Un Cymro erioed a enillodd Wobr Nobel am lenyddiaeth, sef Bertrand Russell, a anwyd yng Nghymru, a fu'n byw yma am gyfnod, ac a fu farw yma. Rhaid ei gyfrif yn hyn o beth yn flaenaf ymhlith yr hyn a elwir yn 'Welsh Writers in English.' Y gangen o lenyddiaeth y rhagorodd ynddi, fel y dywedais o'r blaen, oedd Mathemateg! Llenddull ymylog efallai.

Wedi honni mai beirniad llenyddol gorau Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Lewis Edwards, teg addef mai Diwinyddiaeth oedd y gangen o feirniadaeth y rhagorodd ef ynddi; llenddull ymylog arall. O safbwynt beirniadaeth lenyddol ddeunyddiol, *themateg y Beibl* yw Diwinyddiaeth.

Ni bûm erioed yn un o'r rhai a ddeallodd y gwahaniaeth rhwng llenyddiaeth a llenyddiaeth bur. Bydd rhai'n cyfyngu 'purdeb' i delynegion, dramâu, storïau, ac ysgrifau. Eto, ni lwyddais erioed i ddod o hyd i well diffiniad na 'defnydd o iaith mewn unedau' fel disgrifiad o lenyddiaeth, ac ni allwn ganfod yr union ffin o gwbl ar gyfer testunau llenyddiaeth. Beth bynnag yw dehongliad, mae ffurf llenddull yn eiddo i ras cyffredin, fel y mae gair neu ferf yn aros yn air neu'n ferf, beth bynnag yw'r thema a'r dehongliad. A'r un defnyddiau a ffurfiau gwrthrychol hyn sydd yno i bawb.

Cosb Lewis Edwards am fod yn Gymro oedd mai crefydd oedd ei hoff destun. Fel y gŵyr pawb a gondemniwyd i astudio llenyddiaeth Gymraeg mewn modd gonest, cyflawn, a theg, anodd yw dianc rhag rhai o brif syniadau a delweddau Cristnogaeth. Ymdrechir (ond yn ddiog weithiau) i'w wneud, ond methir. Saif testun y Beibl ar ganol ei feirniadaeth a'i werthuso.

Ni allaf lai na meddwl bod yna dri gwreiddyn i Feirniadaeth Lenyddol Gymraeg: Aristoteles fel pawb yn y gorllewin, Ysgolion y Beirdd, a Beirniadaeth thematig ar lenyddiaeth y Beibl. Cafodd yr olaf hwb a chwyldro go sylweddol gan y Piwritaniaid a'r Methodistiaid. Canys beth arall yw

Pregethau Esboniadol, a thrafodaethau Ysgolion Sul ar yr ysgrythurau, ond astudiaethau clòs o themateg hanes, dysgeidiaeth, a barddoniaeth y Beibl? A beth yw diwinyddiaeth ei hun namyn Theori ar ffurf Themateg feirniadol fwy cyffredinol yng nghynnwys llenyddiaeth Hebraeg a Groeg? Mae gwaith L.E. yn hyn o beth er ei waethaf yn bur amrywiol. Pan feddyliwn am L. E. gwelwn, yn ei bregethau'n gyntaf, yr ymgais i fyfyrio'n lleoledig fanwl ar ddarnau penodol. Ac yna, yn ei *Traethodau Duwinyddol* astudiwn theori themateg llenyddiaeth Israel, ac yn y *Traethodau Llenyddol* gwyrir (eto ym maes theori) i gyfeiriad themâu cysylltiedig â Metanaratif. Yn ei lyfr pwysig ar *Hanes Duwinyddiaeth,* ceir hanes beirniadaeth lenyddol yn ei gwedd ddiwinyddol ac athronyddol drwy'r oesoedd. Er gwaethaf ei ogwydd crefyddol, ni bu'r un beirniad llenyddol yng Nghymru yn fwy catholig ei ddiddordebau, yn fwy diwyd, nac yn fwy ei ddeallusrwydd a'i ddysg na L.E. yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. A gwerthfawrogwyd ef (yn nannedd pob unochredd fel beirniad) gan Huw Llywelyn Williams a Gwenallt. Dyma'i bennaf cyfraniad parhaol, er nad pawb a fyddai'n dyfarnu felly. Ac ni roddwyd digon o sylw i'r tyndra yn ei ddiddordebau.

Sylweddolai L.E. o ran theori y penbleth hwn. Ond o ran ymarfer, ni chanfu ef ei arwyddocâd llawn. Pwy a'i gwnâi? Efallai y gallwn i esbonio hyn o hollt yn well pe bawn yn ailgodi cymhariaeth a grybwyllais eisoes. Soniais yn syml am un syniad a gysylltir â T.S. Eliot (ond a oedd yn hysbys i Goethe, Rémy de Gourmont a Jane Austen), sef Dadgymdeithasiad Teimladolrwydd, os caf felly gyfieithu 'Dissociation of Sensibility'. Defnyddiai Eliot hyn i feirniadu hollt yn y meddylfryd deallol mewn llenyddiaeth ar y pryd, er mwyn annog ei gyd-lenorion i ddychwelyd i feddwl cyfansawdd y beirdd metaffisegol fel Dante a Marvell. Machludodd y cysyniad beirniadol hwnnw i raddau ar ôl dyddiau Eliot; ond bellach y mae fel pe bai'n ennill parch o'r newydd o fewn amodau mwy amlochrog. Credaf ei fod yn dal yn awgrymus.

Yn awr, mi gredaf fod rhywbeth tebyg wedi digwydd gyda'r Oleuedigaeth, gyda'r hyn a alwn i yn 'Ddadgymdeithasiad y Goruwchnaturiol'. Yn gynhenid, yn y Beibl ac yn Nhraddodiad deallol Awstin-Acwin-Calfin, nid cyferbyniad ydoedd Goruwchnaturiol/Naturiol. Goruwchnaturiol-naturiol oedd popeth creedig, gyda'r ail yn gynwysedig yn y cyntaf, er gwaetha'r angen i beidio ag uniaethu Creawdwr a Chreadigaeth. Yr hyn a wnâi'r Oleuedigaeth Amddifad oedd cyferbynnu Gwyddoniaeth â Ffydd (cf. Kant). Codwyd Naturiol Amddifad i'w gyferbynnu â'r Goruwchnaturiol Cyflawn. Holltwyd Diwinyddiaeth hithau yn ôl rhagdybiau digwestiwn. A bu hyn yn benbleth i L.E..

Yr her oedd sylweddoli sut yr oedd y Goruwchnaturiol yn cynnwys Gwyddoniaeth. Sut y gallai Cristion sôn am Wyddoniaeth a Dysg heb fforffedu safonau gwirionedd naturiol cyfansawdd? Beth oedd addysg Gristnogol? A oedd rhaid trafod y pynciau athronyddol a gwyddonol fel petaent yn ynysedig oddi wrth ddiwinyddiaeth gynhwysfawr? A ddylid dysgu i fyfyrwyr feddwl yn

sgitsoffrenig egwyddorol? A ellid trechu clwyf y Sefydliad? Athrawiaeth y Creu a atebai bob cwestiwn o'r fath.

Beth yw 'rheswm amddifad'? Peth yw sy'n ynysu a gorawdurdodi Rheswm. Mae'n dinoethi dyn mewn dwy ffordd. O ran gras cyffredin, y mae dyn yn meddu ar lawer mwy nag offeryn Rheswm. Mae ganddo yn naturiol gorff a dychymyg, ewyllys a chydwybod, ac yn y blaen. O ran gras arbennig, y mae'n bosibl i'w ysbryd ef ddeffro a dod yn agored i ddimensiwn dwyfol a goruwchnaturiol, ac i'r cwbl oll fod yn undod. Hynny yw, ni wna 'rheswm amddifad' ond lleihau dyn yn gyffredinol, gan ei gyfyngu a'i dlodi o ran potensial. Mae'n ei galedu a'i haniaethu'n bersonol. Hynny yw, mae'n ei ddad-ddynoli. Dyma'r lle y mae Cristnogaeth yn adfer dyn. Mae'n ei adfer a'i gyfannu fel unigolyn ac fel rhan o'r gymdeithas, yn ymwybodol ac yn isymwybodol, yn amserol ac yn dragwyddol, oherwydd ei fod yn ei gyfrif yn berson crwn. Person crwn yw sy'n ymwneud hefyd â Pherson y Duw-ddyn nad oes dim yn fwy cyfan. A'r cyfanrwydd hwn yw un wedd ar fethiant L.E. y tâl i'r sawl sy'n ei astudio i'w sylweddoli.

Soniodd sawl un yn ddiweddar yn adweithiol reddfol am athrawiaeth Gristnogol Abraham Kuyper gyda pheth dirmyg; ac ni allaf lai na chytuno ynghylch amhriodoledd rhai gweddau negyddol ar ei ragfarnau cymdeithasol. Defnyddir hynny, ysywaeth, er mwyn ymwrthod â chydnabod ei brif gyfraniad. Mesurir ei bwysigrwydd ar dro yn ôl ei ddylanwad yn America; a dywedir hefyd, 'wedi marw ei sylfaenydd bu'n wrthodedig yn yr Iseldiroedd, ei wlad ei hun.' Pe bai ots am anwiredd (neu wirionedd) hynny, ni ellir ond awgrymu llithrad go annisgwyl yn y sylw hwnnw, yn hytrach nag anwybodaeth gywilyddus fwriadus ymhlith ei wrthwynebwyr. Crybwyllwyd wrth gwrs Herman Dooyweerd yn un y dylanwadwyd arno gan Kuyper. Ond bu D.H.Th. Vollenhoven hefyd yn cydweithio â hwnnw. Yr wyf i'n siŵr fy mod wedi crybwyll o'r blaen Rookmaaker (a fu'n ymwelydd yn Aberystwyth), Herman Bavinck, J.M. Spier, H. Van Riessen, Van Til, G.C. Berkouwer ac eraill. (Mae dau o'r rheini ymhlith y tri ar ddeg o fawrion a bortreadwyd yn *Creative Minds in Contemporary Theology,* P.E. Hughes, Eerdmans). Ni raid chwilio'n bell am barhad i ddylanwad Kuyper pwerus mewn sawl man arall (eithr, wrth gwrs, heb rith o debygrwydd i ddylanwad sefydliadol Barth a Bultmann.) Ym Mangor, ceid edmygydd pwysig er hynny, ac i raddau helaeth etifedd i Kuyper, yn y Prifathro R. Tudur Jones. Ac yn *Ysgrifau Diwinyddol* II, ceid ysgrif gyfan gan R. Tudur Jones gyda'r teitl 'Abraham Kuyper'. Gwyddom oll am wirionedd disgrifiad o hwnnw fel 'y gwleidydd gwrth-fodernaidd (ac adweithiol)'. Dyna ddyfarniad 'terfynol' arno, meddant hwy. Ac ni buasai Tudur Jones na minnau'n anghytuno ynghylch ei wyriadau cymdeithasol. Ond wrth gwrs, nid dyna'r pwynt. Kuyper, ar raddfa ryngwladol, oedd y cyntaf i gyflwyno o'r newydd y pwyslais Calfinaidd ar Benarglwyddiaeth Duw ar bob gwedd ar fywyd, – cymdeithas, celfyddydau, gwyddoniaeth, ac i ailbwysleisio Calfiniaeth Gras Cyffredin. Datganai

fod dyn ohono'i hun yn ei dybio'i hun yn hunanddigonol ac yn hunanganolog, a Duw yn relatif. Sylwedddoli hynny'n gyfundrefnol fu'r hyn a fu yn gadarnhaol fel ei brif gyfraniad. Ni raid tybied bod yna undod unffurf y tu mewn i'r ysgol hon, na bod hyd yn oed Dooyweerd a Van Til hwythau yn gytûn, er enghraifft. Ond hawdd deall sut y cafodd Tudur Jones ysbrydoliaeth yng ngwaith Kuyper ac yn y wedd honno ar Galfiniaeth y bu'n darlithio arni mewn cwrs cyfan.

Un arall – yn Gymraeg a Saesneg – a oedd wedi'i orfodi'i hun i ymgodymu â'r un ysgol (ond yn negyddol eto) oedd Dewi Z. Phillips, mewn dwy gyfrol, wrth iddo'i gosbi'i hun yn ei ymgais lai na llwyddiannus i drechu 'rhagdybiaetholdeb' Van Til ac i amddiffyn rhagdybiaeth amhosibl 'niwtraliaeth'.

Codais enw Kuyper yn y fan hon, gan mai'r hyn oedd Kuyper i'r Iseldiroedd, hynny oedd Lewis Edwards i Gymru. Sefydlodd y ddau hyn ganolfannau addysgol. Bu'r ddau yn ddiwinyddion Calfinaidd. Cafodd y ddau ddod yn arweinwyr cymdeithasol cenedlaethol. Bûm innau'n ddyledus droeon i'r ysgol hon, pryd bynnag y trafodwn Ras Cyffredinol mewn gwirionedd, megis ar y Wefan hon yn *Palu'r Ardd* ac yn *Y Cynllun sy'n Canu.* Ni chefais achos i amau pwysigrwydd y dadleuon deallol Beiblaidd sy'n garn solet i'r athrawiaeth. Gan mor llydan oedd diddordebau L.E., mewn gwleidyddiaeth a llenyddiaeth, mewn gwyddoniaeth ac athroniaeth, a chan ei fod yntau'n ymwybod â'r ffaith ei fod yn fath o arweinydd meddyliol cenedlaethol, ni allwn lai na'i weld yn gogwyddo i gyfeiriad ymarferol rhai o ddiwinyddion y cyfandir, yn Nenmarc ac yn yr Iseldiroedd. Ond nid oedd yn barod i wynebu Gras Cyffredinol mewn dyfnder na'r Beibl yn yr achos hwn chwaith, gwaetha'r modd. Dyna, sut bynnag, gamp Kuyper.

Lewis Edwards oedd ein beirniad mwyaf deallus a phwysicaf rhwng Iolo Morganwg a John Morris-Jones. Ef oedd biau'r ymennydd llymaf a mwyaf dysgedig yng Nghymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ei gyfrol *Traethodau Llenyddol,* fe geir y casgliad mwyaf swmpus yn ei gyfnod o drafodaethau mewn beirniadaeth lenyddol. Ond nid dyna'r gwaith mwyaf dylanwadol a gyhoeddodd Lewis. Ceir dwy gyfrol arall sy'n fwy 'solet' yn feddyliol ac yn fwy confensiynol dreiddgar yn syniadol, sef *Traethodau Duwinyddol* a *Hanes Duwinyddiaeth* (a ailgyhoeddwyd yn gyfrol ar wahân ar ôl bod yn rhagymadroddi ar flaen llyfr George Lewis). Gwneuthum rai sylwadau o'r blaen ynghylch prif effaith y *Traethodau Duwinyddol.* Y tro hwn sut bynnag, dymunir ymgyfyngu i'r hyn y syllodd ef arno o gyfeiriad llenyddiaeth.

Beirniad adweithiol pietistig oedd Lewis. Yr oedd yn Galfinydd efengylaidd. Dyma beth peryglus i rai beirniaid (bron mor beryglus â bod yn Ôl-fodernydd). Ac os ydynt hefyd yn bregethwyr, gall eu swydd eu harwain i foeswersi ac i gamddeall swyddogaeth 'hunanlywodraethol' llenyddiaeth. Dyma'r hyn a alwaf yn 'wenwyno'r dŵr'. Yn ei ysgrif ar 'Goethe', digwyddiad hanesyddol o bwys o fewn y traddodiad beirniadol Cymraeg, y mae Lewis yn gogwyddo at

ystyried campwaith Goethe yn 'rhinweddol' oherwydd iawnder ei ogwydd tybiedig foeswersol. Dyma bechod mwyaf difrifol y pietistiaid. Câi Goethe ffit. Yn y fan hon, ac mewn mannau cymdogol eraill, y mae athroniaeth feirniadol Lewis Edwards yn cloffi'n arw. A'r rheswm oedd iddo fethu â chanfod llydanrwydd teyrnas Dduw mewn celfyddyd, mewn rhyw, mewn egni dychmygol, ac yn radicaliaeth dadansoddiad y Beibl o'r 'byd'.

Ychydig ar ei ôl yn amseryddol, gwiw i ninnau ddychwelyd drachefn at y prif weinidog hwnnw yn yr Iseldiroedd yr wyf newydd gyfeirio ato, sef Abraham Kuyper, a oedd – er ei wendidau dybryd mewn rhai cyfeiriadau adain-dde anffodus – wedi myfyrio yn ddwysach na Lewis am berthynas Cristnogaeth a Diwylliant. Gwelai ef fod yna sfferau diwylliannol amrywiol mewn bywyd, a chan bob un ei hawliau a'i natur a'i 'hawdurdod' ei hun. Un o'r rhain, yn fy marn i, oedd y Celfyddydau, gan gynnwys llenyddiaeth. Yr oedd yna griteria barnu ar gyfer hon, fel yr oedd gan Ffiseg neu Iaith. Ac o'r herwydd, er ei fod yn ystyried mai Crefydd oedd y rhagdyb a oedd yn teyrnasu yn benllywodraethol ar undod absoliwt o fewn yr holl sfferau, mynnai'n benodol egwyddorol na ddylai'r sefydliadau sfferol unigol (gan gynnwys gwleidyddiaeth a chrefydd sefydliadol, a'u swyddogaeth) ymyrryd â'i gilydd. Methodd Lewis â deall y fath egwyddor ddeuol.

Dylid pwysleisio bod gan Lewis yr un pryd ymwybod anrhydeddus o werth a phwysigrwydd llenyddiaeth. Yr oedd ganddo hefyd ddyfnach dealltwriaeth na neb yng Nghymru ers Iolo Morganwg o'r cyfraniad y gallai llenyddiaeth ddifrif ac egnïol a dychmyglon ei wneud i fywyd. Dyna un wedd arwyddocaol ar feirniadaeth Lewis sy'n haeddu sylw cyfoes. Un arall yw'r berthynas (fwy byw na Kuyper) rhwng ei glasuroldeb a'i ramantiaeth. Wrth gwrs, clasurydd oedd Lewis wrth reddf. Yr oedd yn ymwybodol iawn ei fod yn sefyll o blaid trefn, ffurf, cyfrifoldeb, hunanddisgyblaeth, y traddodiad. Yr oedd yr holl gymwynasau meddyliol hyn ganddo yn ei ffitio'n gadarn o fewn carfan y clasurwyr. Ond ceid hefyd briodoleddau a ddengys ei fod yn gogwyddo hefyd tuag at rai arweddau Rhamantaidd: megis dyrchafu profiad a delfrydu rhyddid.

Ond un o'r arweddau ar feddwl L.E., a'i tynnai ef a Kuyper at ei gilydd, oedd y wedd gyfundrefnu. Fe'i canfyddir yn ei *Hanes Duwinyddiaeth* xcvii, cxi, yn ogystal ag yn y dull Hegelaidd triol, os annigonol, a roddai iddo ffurf ar gyfer apologeteg. Ac yng ngwaith Kuyper fe ganfyddir y gyfundrefneg yn amlwg yn ei ddarlithiau enwog ar Galfin ac yn ei Sffêr-sofraniaeth. Tynnai'r ddau, allan o'r hanes yn y Beibl, y patrwm trefnol. Canfyddent ill dau, wrth gwrs, drefn y cadw, a threfn y Drindod, trefn y Creu drwy Bechod a'r Cwymp, i'r Iawn, yr Atgyfodiad, a Barn. Ond nid ymddengys fod L.E. mor hydeiml â Kuyper ynghylch difrifoldeb y llacrwydd credu a'r chwalfa a ffynnai o'i gwmpas ym meddwl y Cymry ar y pryd. Bu L.E. yn rhy sefydliadol ddof ei antennae.

Eto, er na feddyliai'n gyfundrefnus am y maes, un o'r cwestiynau y bu Lewis Edwards yn

ddigon dewr i'w wynebu ar ddechrau ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd – beth oedd a wnelo Cristnogaeth â bywyd 'seciwlar'? A'r ateb a gafodd ambell waith oedd nad oedd yna'r fath beth â bywyd seciwlar go iawn. Ac yr oedd yn bwysig i gael yr ateb yn iawn. Onid oedd ef yn gyfrifol, nid am addysgu criw go solet o weinidogion yn unig, ond am y genedl i gyd? Ef oedd golygydd *Y Traethodydd,* a beth bynnag oedd y gwerthiant, yr oedd yn gyfrifol am osod esiampl i bawb. Gallwn gytuno mai ef yn anad neb a sicrhaodd ac a roddodd esiampl o ddealluso gweinidogaeth Cymru. Cododd safon a rhuddin meddwl yn y Gymraeg, llunio polisi hyfforddiant y pregethwyr, mapio paramedrau a sefydlu rhagdybiau (ysywaeth) – lluosedd+yr Ego Trosgynnol, – gyda norm y goddrychol, a'r Ystrydeb o Sefydliad y meddwl ysbrydol diantur modern. Gallai fod yn drwyadl ynglŷn â phopeth, ond y peth pwysicaf yn ei gyfraniad oedd colli'r craidd. Mae angen mawr am Hanesydd yn olynydd i Tudur Jones a fydd yn ddigon dewr i weld natur y gwacter cynyddol a'r cysylltiad rhyngddo a'n harweinwyr; ac fel Tudur, un heb fod yn hac sefydliadol. Ac eto, ni charwn i farn negyddol am bolisi addysgol L.E. wrthddweud gwerthfawrogiad o'i waith llenyddol a'i waith golygu. Cafwyd gormod o symleiddio wrth bwyso a mesur y gorffennol Cymraeg, a hynny oherwydd llwfrdra ac unochredd. Yn sicr, y mae angen olrhain y digwyddiad canolog mawr – rhwng 1850 a 2000: diflaniad y Colegau Diwinyddol a gwacâd y capeli. Chwyldro ysbrydol enfawr. Efallai fod y Sefydliad heddiw yn swil ynghylch twf y Coleg Efengylaidd a thwf bach ymhlith y capeli efengylaidd Saesneg; ond y mae'r sefyllfa ddiwylliannol yn waeth na hynny.

O fewn y cyd-destun Cymraeg, dywedwn i mai myth y diduedd a'r methiant gan y Colegau i sefydlu polisi cryf addysgol dirnadol Gristnogol, ynghyd â'r methiant unol gan yr Efengyleiddwyr ers Humphrey Jones, a'i ddiwygio carismataidd Arminaidd, i ddadansoddi a chwalu rhagdybiau seciwlariaeth ddiffaith, dyna rai ffactorau eraill a ysigai bethau. Methwyd â datblygu athrawiaeth Sancteiddhad i wynebu twf Seciwlariaeth a'r Efengyl Gymdeithasol ddyn-ganolog. Lewis Edwards, dybiaf i, oedd tad y 'diduedd' yn y cyd-destun Cymraeg. Stwffiwyd i lawr corn-gyddfau academïwyr confensiynol y dogma hwnnw fel gwin dialcohol ac ymledu drwy'r celfyddydau a'r gwyddorau dyneiddiol. Esgeuluswyd Penarglwyddiaeth Duw a rheidrwydd Absoliwt a Chyfundrefn.

Dyletswydd pob Diwinydd Cymraeg oedd meddwl yng nghyd-destun peryglus y tu allan i'r Sefydliad, yn hytrach nag ymfalchïo mewn dynwarediad a dilyn y llif yng ngoleuni seicolegol israddol Cymru a'i llacrwydd rhyddfrydol. Beth oedd arwyddocâd y fath gam gwag? Un gwirionedd cymhleth oedd mai Dyn y Sefydliad oedd L.E.. Yn ôl ambell un o'i ddilynwyr, o'r braidd fod yna fai ynddo. Ei amod a'i nod, er hynny, oedd cydymffurfio â'r disgwyliadau. Yr oedd yna, o'r herwydd, 'cover-up'. Ac eto, y tu mewn i hyn oll, teg cydnabod bod y pwyslais rhyfedd ar ddiwinyddiaeth a gafwyd yn llethol ddigon gan L.E. yn gryn nes at ansawdd a phwyslais

llenyddiaeth Gymraeg yn y pedair canrif o ddechrau'r 16eg ganrif hyd ddiwedd y 19eg nag odid neb o'r beirniaid llenyddol eraill a gawsom.

Ar yr ochr gadarnhaol, yn nechrau'r dyddiau tywyll, caed gan L.E. gyfraniad diamheuol ganolog ym maes beirniadaeth lenyddol a meddwl diwylliannol.

O fewn theori Deunydd, neu hierarci'r weithred lenyddol ddeunyddiol, y mae i *Fetanaratif* a *Thema* hwythau eu lle anochel yn ei waith ef. Ceisiais awgrymu fwy nag unwaith arwyddocâd dau ddeunydd thematig arbennig a phenodol a geid mewn llenyddiaeth Gymraeg. Ceir eraill heblaw'r ddau hyn, wrth reswm. Eto, awgrymais yn gam neu'n gymwys fod yna ddau faes thematig go arbennig yn y tradoddiad llenyddol Cymraeg sy'n fwy dygn nag mewn rhai llenyddiaethau cymdogol, sef Cristnogaeth a Chenedligrwydd (ansoddol ac ysbrydol). Naturiol yw bod angen ymdrin yn ystyriol â'r themâu hyn mewn beirniadaeth thematig a diwinyddiaeth. Nid oes yn y gosodiad deuol hwn, mi obeithiaf, ddim sy'n ddadleuol. Ac ychwanegwn at y rheini un cwlwm pellach: Mawl. Mae Mawl yn Thema (ac yn Gymhelliad) sy'n dipyn lletach a dyfnach na rhyw damaid o weniaith. Bydd rhai beirniaid neu haneswyr llên yn sylwi bod yna gryn dipyn o fawl strwythurol ar gerdded yn y traddodiad Cymraeg, gan ddechrau gyda Thaliesin ac Aneirin, a gwau drwy'r Gogynfeirdd a Beirdd yr Uchelwyr. Erbyn hynny, fe ganwyd mathau eraill o Fawl heblaw mawl i Frenin a Thywysog ac Uchelwr. Molwyd Duw a Natur a Merched hefyd. Eto, parhaodd y Mawl hwn ar ffurf wahanol braidd hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn dull Cristnogol. Felly, wrth geisio darbwyllo pobl am y canrifoedd llenyddol hynny fod Cymhelliad yn orfodol er mwyn cael llenyddiaeth o gwbl, ni chafwyd llawer o anghytundeb ynghylch lle a diffiniad Mawl, ei hoffi neu beidio, yn y meddwl Cymreig, ac wrth gwrs o fewn Crefydd a Chenedligrwydd. 'Ystyr' ei hun yw Mawl yn y traddodiad Cymraeg, ac arfogaeth. Symudiad yw i fod yn adeileddol mewn bywyd, gan gynnwys Adeiladu Cenedl. Yr hyn a geid gan L.E. oedd argyhoeddiad cadarnhaol o ran llenyddiaeth (nid geirwiredd hanesyddol yn unig), fel y ceid tipyn o ymagweddu dibennol yn ei feirniadaeth. Diffinnid mawl fel sgrifennu neu ddatgan (neu weithredu a meddwl hefyd, ddwedwn i) o blaid hyrwyddo neu ddyrchafu gwrthrych. Ac ymddengys i mi – yn ein *Hôl*-ôl-foderniaeth – mai offeryn yw iaith ei hun yn ei hanfod i hyrwyddo a threfnu bywyd, i ennill, ac i gyflawni rhywbeth cadarnhaol (ac o safbwynt y defnyddiwr i bleidio'r gwir). Dim amgen. A pho fwyaf y sylweddolir bod Dychan a Beirniadaeth ddeallus negyddol yn cael eu defnyddio er mwyn cywiro neu er mwyn ufuddhau i gymhellion moesol, mwyaf y canfyddir bod Dychan a Moli yn cydberthyn o ran swyddogaeth. Felly y ceir Mawl drachefn fel grym cymhlethol yn y meddwl yn bur gyffredinol, a hynny o fewn cyd-destun absoliwt. Dyna pam y mae troi'n ôl at Lewis Edwards, a thrafod ac ailystyried ei naws a'i flinderau a'i broblemau, a hynny'n wâr ac yn amlochrog os gellir, yn fudd bythol i feirniadaeth lenyddol Gymraeg.

# KANT

## I

Un peth a wna pob beirniad – dethol. Mae'n dewis ei bwnc. Mae'n dewis y wedd ar ei bwnc. A dyna'n union a wnâi L.E. gyda Kant a Hegel. Yn ôl y dethol hwnnw y bernir L.E. yntau. Beth yw'i bwyslais wrth ddethol? Beth yw'r hyn a wêl? I raddau helaeth, y mae'r hyn nas dywed mor arwyddocaol â'r hyn a ddywed. Mae'r hyn a ddetholir a'r hyn nas dewisir mewn cwrs hefyd yn datgelu rhywbeth am y darlithydd. Pwy yw'r detholwr hwn o bethau'r byd?

Yn achos L.E.: Coleridge, Kant, a Hegel yw. Ni ellir dweud y cwbl am yr un ohonynt, nac yn wir am neb ohonynt. Ac ni ellir sôn amdanynt yn llawn fel y maent yn byw y tu mewn i L.E.. Ni ellir dweud y cwbl am un diwrnod ym mywyd neb: am ei holl amgylchfyd tymhorol o eiliad i eiliad, am y cwbl o'i amgylchiadau, am ei holl gefndir mewn gofod ac amser, am gyflwr ei organau i gyd bob eiliad, a'r hyn sy'n berthnasol i'w *psyche.* Ni ellir trafod y berthynas lawn rhyngddo a phobl eraill. Byddai'r ymdrech yn anorffen.

Beth felly a ddywedir? Beth yw Hanes bondigrybwyll? Detholiad posibl, cwbl ragfarnllyd. Celwydd i gyd o raid, yn ddiau. Ond Hanes ymhongar odiaeth yw, yr un fath.

Eto, fe'i ceisir gan rywrai, yn hyderus, o ddifrif, gyda llawer iawn o awdurdod. A dwedwch neu beidio, mae'n gwneud y tro. Mae'n ymarferol ddefnyddiol, yn addysgol, yn ddysgedig. Eithr yn dyllog oll. A rhagdybiau yw'r prif dyllau, y tyllau y mae eisiau eu hadnabod.

Kant ym mlaenau'r Cymoedd! Kant yn Llanfair yng Nghornwy! Roedd pawb mor falch. Roedd Lewis Edwards yn ymbluo nid am y tro cyntaf wrth weld dwy erthygl orffenedig ar dudalennau'r *Traethodydd* ar Immanuel Kant. Dichon mai nodiadau cyfieithiedig o Glasgow oeddent, ond yr oeddent yn awel iach ym mhlwyfoldeb cefn gwlad Cymru.

Disgrifio ac amlinellu cynnwys gwaith Kant i'w fyfyrwyr heb ddysgu iddynt fod yn feirniadol bietistig, dyna'i nod. Didueddrwydd ysgolheigaidd eisoes, i raddau helaeth, oedd y dogma amhosibl ond tra phresennol. Gwybodaeth noeth ydoedd er ei mwyn ei hun, fel pe dysgid 'un diferyn+un diferyn = un diferyn.' Ac âi'r myfyrwyr allan, gyda gwybodaeth bur, gan anadlu'n ddwfn eu rhyfeddod at feddyliwr a allai gyflwyno 'rheswm + profiad = dyn' heb ond rhagdyb naturiol; yn weddol amddifad o ddimensiwn goruwchnaturiol, efallai, ac eto'n ben draw i ddealltwriaeth. Y fath allu! Y fath ddyfnder! Dyrchafai weithgaredd y goddrych a oedd yn 'profi' pethau.

Ni rybuddid fel y ceid prif fethiant Kant yn y ffordd y caeodd ei feddwl (yn groes i bob traddodiad athronyddol clasurol) y tu mewn i fath crebachedig o Reswm ac i fath crebachedig o Brofi. Gwrthododd ef Fetaffiseg *en bloc* yn rhagdybiaethol brofiadol i ddechrau, er honni fel arall. Methiant Lewis Edwards, yn y cyfeiriad hwn, oedd iddo fethu â rhoi'i fys ar y caeedigrwydd

afresymol a beirniadol Kantaidd hwn. 'Dim ond' y drefn ffenomenolegol oedd cloffni Kant. A gwrthododd y posibilrwydd y gallesid adnabod a gwybod y trosgynnol drwy ddatguddiad. Ffydd oedd o fath, wrth gwrs; ond ffydd oedd gyda drws datguddiad ynghlo. Ffydd oedd fel teimlad neu benderfyniad pragmatig. Ffydd wedi'i lapio'n dynn ac yn dwt ganddo ef mewn rhagdyb.

Yn y *Traethodydd* 1853, cyhoeddwyd y ddwy ysgrif ar 'Athroniaeth Kant' gan y Golygydd, ac fe'u hatgynhyrchwyd wedyn yn *Traethodau Llenyddol.* Dywedodd yr Athro Densil Morgan yn ei gofiant, yn gywir iawn: 'Ni chafwyd dim fel hyn yn Gymraeg o'r blaen... Roedd ymestyn terfynau deallusol, ehangu gorwelion diwylliannol a gorseddu'r safon Ewropeaidd uchaf i fod yn norm, a hynny yn Gymraeg, yn gymwynas gawraidd gan brifathro Coleg y Bala.' Mewn cyfyngu llawer o ystyriaethau gofynnol y ceisid eu 'hehangu' (o'r 'Goruwchnaturiol+y Naturiol' tua'r 'Naturiol'), ac mewn naïfder anochel anfeirniadol, ysgubwyd y werin oddi ar ei thraed gan drendïaeth dysg gaeedig. Yr ydym oll, yn ddifeddwl, yn gorfod hepgor rhai materion.

Mae'r amlinelliad o waith Kant (1781; 1787) yn yr ysgrifau hyn yn eglur ac yn ddiddorol. Erys yn berthnasol o hyd yn yr unfed ganrif ar hugain wrth gwrs. Ar hyd y ffordd, cais Lewis Edwards osgoi'r cam o symleiddio. Felly y gwna gyda Locke; felly gyda Hume. Felly hefyd gyda Plato. Gwyddai L.E. fod ganddo ar y pryd nifer o bobl ddeallus yn ei gynulleidfa-ddarllen yn sychedu am wybodaeth. Ond yn y Gymraeg, ychydig oedd *swmp* y cyd-ddarllenwyr addysgedig.

Yr hyn na wnaent oedd ymaflyd yn eu darllen gyda chyhyrau uniongred Cymraeg, a meddwl annibynnol a gwreiddiol.

Dechreuaf felly gydag Empiriaeth, sef *'yr ysgol Saesneg honno a gred mai profiad, a hwnnw'n brofiad synhwyrol, yw ffynhonnell pob gwrthrych yn y meddwl.'* Yn ei theori ieithyddol, yn yr ugeinfed ganrif, yr oedd Guillaume yntau'n sôn am ddechrau pob dadansoddiad gyda'r 'ffeithiau empiraidd'. Dyma'r 'ffeithiau i'w hesbonio', 'yr hyn a oedd yn y golwg'. Meddai Lewis Edwards, *'daeth Hume ymlaen i brofi nas gallai dyn fod yn sicr am ddim ond yr hyn a welai â'i lygaid ac a deimlai â'i ddwylaw';* a chanfyddai Kant fod yna broblem yn y fan yna. Pe baem yn dibynnu ar synhwyrau ar y pryd mewn amgylchiadau achlysurol, ni ddeallem ond amrywiaeth diderfyn. Mae'n rhaid dosbarthu, cymharu elfennau, cysylltu, neu fel y dywed Kant yng nghyfieithiad Lewis Edwards, 'Y mae y cyfanswm o'r wybyddiaeth, gan hyny, yn ffurfio cyfundrefn.' A hynny, wrth gwrs, o fewn cyd-destun arall a wna Guillaume yntau ym myd Iaith. Fe wêl y darllenydd cyfarwydd pam yr wyf yn ymddiddori yn nwy ysgrif Lewis Edwards. Yn ôl Kant, ceir pedair egwyddor sy'n ysgogi dosbarthiad: maint, math, perthynas, modd. Dyma hadau cyfundrefn.

Canfyddwn yn awr ddau gyflwr hefyd: y synhwyro ar y pryd, a hynny gyda'r dadansoddi yn arwain at yr amgyffrediad egwyddorol, y neilltuol a'r cyffredinol. Bydd y cyfarwydd yn gwybod fod hyn mewn Seicogyfundrefneg Iaith neu mewn Beirniadaeth Gyfansawdd lenyddol yn cyfateb i

Fynegiant (y gweledig) a'r Tafod (yr anweledig), teimlo a deall, deunydd a ffurf, corff ac ysbryd. Ond i mi, yr hyn a fwriodd fy ngwynt ag edmygedd oedd y gosodiad: '*Pa le y ceir cyfryngau trwy ba rai y gall y deall drosglwyddo ei hun dros y gwagle sydd yn gwahanu rhwng corff ac ysbryd?.. Cyn y gellir uno yr allanol â'r tufewnol, y mae'n rhaid cael rhyw gyfrwng sydd yn cyfranogi o natur y ddau. Y cyfrwng hwn, yn ôl barn Kant, yw amser.*' Dyma, i mi, oedd disgleirdeb Kant, a her i'n gwerin. Dyma'r hyn a alwai Guillaume yntau yn 'temps opératif' (amser gweithredol mewn iaith). Dyma'r lle y ceir 'yr ysfa i drefnu' tuag at werth a phwrpas; a'r Cymhelliad hwnnw a drafodais innau mor llafurus ym maes Beirniadaeth. Mae Kant felly yn dal yn werth ei ddarllen heddiw gan ei fod yn dal i agor drysau. Hyd yn hyn, felly, ceir tebygrwydd annisgwyl rhwng Kant a Guillaume. Ond wrth gwrs, ceir gwahaniaethau. Ym maes Iaith, gyda chyfundrefnau aeddfed a datblygedig, y bu Guillaume yn llafurio, a'r tu ôl iddo y miloedd o flynyddoedd o ramadegu go gyson, o ddadansoddi cyfundrefnau penodol, o adnabod sythweliadau isymwybodol cytûn, cymharol syml ac ystyrlon, ac o fewn cylchoedd strwythurol pendant a diosgoi, gydag enghreifftiau amlwg elfennaidd. Yr oedd casglu Mynegiant ieithyddol yn hwylus, a'r darganfyddiad o Ramadeg wedyn y tu ôl iddo, er yn llawn o broblemau, yn gallu rhoi ymdeimlad o gyflawniad sefydlog o fewn paramedrau. Ceid echel amser hefyd yn y gyfran o eiliad yng ngweithred Mynegiant. Dyma ddeuawd sylfaenol Iaith.

Chwilio am drefn er mwyn darostwng cythrwbl profiad, dyna oedd nod iaith, a nod yr athronydd.

Yr oedd Guillaume hefyd yn rhagdybied anocheledd y safle Absoliwt a geid wrth archwilio a rhagdybied trefn mewn gwyddoniaeth. Nid oedd yn manylu ar hyn. Ond o'n safbwynt ni, Gras Cyffredinol oedd ei faes, fel pob gwyddor; a digonol felly oedd cydnabod fod yna safle absoliwt arweiniol i wireddu'r meddwl. Ond nid oedd Kant yn fodlon ar hynny. Dechreuai Lewis Edwards y clo i'w drafodaeth: '*Cymaint am y Deall. Gwelir fod yr holl egwyddorion hyn yn cyfeirio at wrthddrychau teimladwy. Cylch y deall yw y byd anianyddol a'i ddeddfau. Ond yr ydym yn ymwybodol fod dyn yn ymgyrhaedd at wirioneddau llawer uwch...'* Ac wrth ystyried safle a swyddogaeth a chyfraniadau Lewis Edwards ei hun, y mae'n hanfodol inni wybod yn y fan yma beth yn union oedd y gwirioneddau uwch hynny. Mae'n nesu yn awr at ddiwedd ei ddwy ysgrif, ac at fath o uchafbwynt.

Ym 1784, mewn erthygl, fe'i holodd Kant ei hun: 'Beth yw ymoleuo?' Ac etyb: '*y gallu i gyrhaedd gwybodaeth a'r gwirioneddau hyny...Rheswm*'. Yr union ragdyb hwn sy'n ei gyfyngu'n ddogmatig yn y fan yma i ofod ac amser, dyna sy'n cau'r drws (gellid ei feddwl) i'r goruwchnaturiol. Sonia am y cyferbyniad rhwng y *ffenomen* (Ding-an-sich, y peth ynddo'i hun) a'r *nwmenon* (ffynhonnell allanol profiad na ellir ond ei dyfalu ar sail profi'r ffenomenau). Mae'r olaf y tu hwnt i reswm. Ceisir ei gyrraedd drwy foesoldeb, ond methir. Yr oedd Kant wedi cau'i feddwl eisoes ar

Fetaffiseg ac eto'n ymbalfalu'n seithug tuag at Fetaffiseg newydd. Yr oedd wedi cyrraedd wal ac arni'r gair 'nwmenon', a cheisiai hwpo Rheswm dros y Wal honno. Ond yr oedd y Wal yn rhy uchel, a dyn yn rhy ffaeledig: byddai'n rhaid cael ei godi drosti.

Mae gan Lewis Edwards ddiwedd nodweddiadol i'w ymdriniaeth: '*os gallu i ganfod egwyddorion yw Rheswm, y gallu sydd gennym i weithredu ar wrthddrychau anweledig yw ffydd.*'

Mae Lewis Edwards yn ei ollwng ei hun yn y fan yna, ac yn ôl ei arfer yn rhy gyflym, heb ddiffiniad, heb rybudd, heb ddifrifoldeb ynghylch addysg sy'n anhunanfeirniadol nac am ba 'egwyddorion' sydd dan sylw, gyda'r ffug ragdybiaeth o niwtraliaeth. Yng nghyd-destun gwerin Cymru, gorbwysleisiasai wybodaeth falch a snobyddlyd ar draul argyhoeddiad a heb flaenoriaethau, gan ollwng Kant am bennau'r bechgyn o gefn gwlad heb gyfrif eu bod eisoes dan ormes methodolegol cyfyngus Hegel, a'r cyfaddawd Cymreig gwleidyddol diweddar. Ni fentrai Lewis Edwards weithio allan yr ateb Cymraeg diwinyddol, na rhoi testunau'i wybodaeth o fewn cyd-destun beirniadol gwreiddiol. Ni ddysgodd reidrwydd beirniadaeth Gristnogol i'w fyfyrwyr pan ddadansoddent athronwyr rhagdybiol cul yr Ymoleuo.

Mawr oedd cynnyrch Immanuel Kant (1724-1804). Ond gellir cyfeirio at dri 'Kritik' fel ei waith pwysicaf: sef *Kritik der reinen Vernunft* (Beirniadaeth Rheswm Pur), *Kritik der praktischen Vernunft* (Beirniadaeth Rheswm Ymarferol), a *Kritik der Urkilskraft* (Beirniadaeth Barnwriaeth).

Ni byddai'n annheg i mi eu dehongli yn ôl tri phennawd sy'n gyfarwydd i mi: sef *Tafod* (Cyfundrefneg Deall), *Cymhelliad* (Y Gyriant), a *Mynegiant* (Estheteg), gyda symudiad bras ymlaen (ac yn ôl) rhwng y Goddrychol tua'r Gwrthrychol yn ôl yr elfen 'Pwrpas'.

Yn *Kritik* I, fel hyn y mae Lewis Edwards yn disgrifio y math o wybodaeth y mae'r meddwl yn meddu arno: *'dangosir ein bod yn meddu rhyw wybodaeth a priori, sef gwybodaeth anymddibynnol ar y synwyrau corfforol. Nodau y wybodaeth hon yw anghenrheidrwydd a chyffredinolrwydd. Os cyfarfyddir â gwirioneddau sydd yn ymddangos yn anghenrheidiol anhepgorol, ac yn gyffredinol ddieithriad, mae yn hawdd gweled fod yna rywbeth nad yw yn cael ei ddysgu gan brofiad y synwyrau corfforol. Y cwbl a ddichon profiad ei ddangos yw fod y peth yn wirionedd hyd y mae ein sylw ni wedi cyrhaedd; ond nid yw mewn un modd yn profi i fod yn wirionedd anghenrheidiol a chyffredinol. O ba le y daeth yr anghenreidrwydd hwn? Mae yn amlwg nad yw wedi dyfod oddiwrth brofiad; ac y mae yn rhaid gan hyny ei fod wedi tarddu o gyfansoddiad y meddwl ei hun.'* Yr hyn y mae Kant yn y fan hon yn chwilio amdano yw'r rheswm neu'n well y dulliau barnu *a priori* synthetig, neu'r rhagdybiau sylfaenol i'r gwyddorau a'r meddwl moesol. A dyma'n union, mewn ffordd wahanol, nod Beirniadaeth Gyfansawdd wrth geisio archwilio cyfundrefnau llenyddiaeth, yn arbennig 'Tafod'. (Cysylltir y maes hwn â'r 'acsiom, sythwelediad, syniadau cynhenid, gosodiadau sylfaenol, theorem, *incorrigible,'* a'r fath gysyniadau athronyddol.)

Arhosodd L.E. sut bynnag gyda *Kritik* I. Ymdriniaeth ddiarhebol o gymhlethog oedd hyn. Ceir tyndra yng nghytundeb Kant ei hun â safbwynt yr empeirwyr, na all unrhyw *syniadau cynhenid* ragflaenu profiad synhwyrus. Ac eto, dywed: 'Nyni ein hun sy'n cyflwyno, i'r hyn a alwn yn natur, y drefn a'r rheoleidd-dra mewn gwrthrychedd. Y deall ei hun yw deddfroddwr natur.'

Ond yr hyn a'm denodd i oedd dilyn y thema o gyferbyniad sefydliadol yn y berthynas rhwng y metaffisegol (trosgynnol) a'r ffisegol (synhwyrus). Y mae angen datglymu a chysoni perthynas o'r fath lle y mae'r ysbrydol a'r naturiol benben â'i gilydd. Ymddengys hyn iddo yn y bôn yn amhosibl. Ond cais gyflwyno theori ynghylch Dychymyg a fyddai'n ei ddwyn yn weithgaredd adeileddol a allai fod yn arweiniol yn y celfyddydau a'r gwyddorau. Sieryd am ganonau chwaeth, yn hytrach nag am ansoddau esthetig. A chynhwysa'r 'mawreddus' (*sublime*) ynghyd â'r 'hardd' (*beauty*) o fewn ei astudiaeth o estheteg derfynol. Bu'r casgliad hwn yn gyrhaeddbell ym meddylfryd L.E..

I mi, cymerwn Kritik I fel ymdriniaeth a osodai'r llwybrau, gan sefydlu math o fframwaith o bropiau cyferbyniol yn broblem i'w datrys neu i'w gweithredu: corff ac ysbryd.

Pan drown at Kritik II lle na phorodd L.E. yn ei ysgrif, ceir ymgais i weithredu er mwyn dod o hyd i drefn gysonol y gellir dewis ohoni i unioni'r broblem hon. Mae yna symudiad meddyliol cadarnhaol ac unol, efallai o ran dyletswydd, parch, neu angen i fawrygu bywyd. Nid oes unrhyw egwyddorion ymddygiad parod heb Dafod. Ymestyn y mae drwy ymresymu tuag at gyflawniad anochel. Corfforir moesoldeb (gwerth) o fewn y gweithredu hwn. A thros y symudiad hwnnw oll, ceir y tyndra rhwng ymwybod â Duw ac ymwybod â'r hunan. Tuedda Kant o hyd i fynd at Dduw drwy foesoldeb, ac fel Pharisead da i gyfyngu'r Beibl i grefydd foesol. Ni wedir gan neb wrth gwrs elfen ganolog y Da/Drwg; ond sylfaenol i hynny yw'r profiad Cristnogol o berthynas â Duw, a thystiolaeth hanesyddol y Beibl.

Byddwn i'n dweud mai camgymeriad addysgol fu i L.E. ymgyfyngu i Kritik I yn ei ysgrif ar Kant. Fel hyn y cly H.O. Mounce ei bennod ar Kant yn *Hanes Athroniaeth y Gorllewin*: **'Y *Feirniadaeth* gyntaf [h.y. Kritik I] yw gwaith enwocaf Kant. Ond dengys astudiaeth o'i athroniaeth yn ei llawn dwf mai camgymeriad fyddai canolbwyntio ar y gwaith hwnnw'n unig. Yn ei waith diweddarach ceir safbwyntiau eraill na ellid eu rhagweld yn hawdd, gan eu bod, ar adegau, yn groes i'r rheini a geir yn y *Feirniadaeth* gyntaf.'**

Mae'r newid yn y ddau gyfnod yn gymharol syml. Am y tro cyntaf, try o'r ymgyfyngu i'r ffenomenaidd i wynebu'r nwmenaidd. Dyma'r datblygiad a geir yn Kritik II, sef *Beirniadaeth y Rheswm Ymarferol.* Dyma a ddywed Mounce am hyn: **'dadleua Kant fod bodolaeth Duw ac anfarwoldeb yn amodau angenrheidiol i'r ddeddf foesol... Ymddengys fod gwrthdaro neu wrthebiaeth oddi mewn i foesoldeb ei hun, ac ni ellir diddymu hynny ond drwy fodolaeth Duw ac anfarwoldeb... Nid yw moesoldeb bellach yn annibynnol ar grefydd.'**

Mae'r dyfarniad hwn gan Mounce yn berthnasol i Lewis Edwards mewn ffordd arwyddocaol: camgymeriad fu iddo ganolbwyntio ar Kritik I yn unig, gan ei fod yn camarwain ei gynulleidfa 'ddiniwed'. Aeth ei arweiniad o'r herwydd yn *ffenomenaidd* er ei waethaf, yn ddyn-ganolog, ac yn ôl gwth yr amseroedd. Yn ei safle ddysgedig, felly, yr oedd yn camddysgu. Eto, gweld yr wyf fath o gysgod yn nhrefn feddyliol driol Kant yn y tri gwaith pwysig hyn a argoelai strwythur datblygol hynod o ffrwythlon arall: mae'n debyg i Dafod, Cymhelliad, a Mynegiant, cysgod nas corfforwyd ysywaeth.

Ni thrafodir hyn gan Lewis Edwards yn ei ddwy ysgrif ar Kant, na chwaith ymchwil yr athronydd am ddeddfau esthetig yn ei waith terfynol, *Kritik* III, lle y mae'n cyrraedd y cam olaf, yng nghreadigaeth hardd Mynegiant.

Un o dueddiadau Athroniaeth ddiweddar o'i chyferbynnu â Beirniadaeth Lenyddol Gyfansawdd yw bod y gyntaf yn goddrychol-chwilio profiad syniadol yr athronydd lle y byddai beirniadaeth lenyddol yn archwilio profiadaeth o bob math yn y bersonoliaeth lawn y gellir ei llenydda ym mhob ffurf a phwrpas, gyda chryn barch i ffurf. Felly, y mae beirniad llenyddol yn enghreifftio ac yn wynebu pob rhan o'r profiad llenyddol – os gall – heb osgoi dim a heb gael ei gyfyngu gan ei orffennol ei hun. Ond yn bwysicach na hynny, sylfaenir llenyddiaeth ar Iaith ymhellach nag ystyr, yn Ffurf a Deunydd. Ac y mae mewn Iaith ei hun ddadansoddiad gwrthrychol gramadegol isymwybodol cymdeithasol. Gwnaethpwyd y dadansoddiad hwnnw yn gyntaf nid gan ramadegydd, ond gan y meddwl cyffredin, nid ar sail tybiaethau goddrychol gramadegydd, eithr gan ddefnydd ymarferol pobl sy'n cael eu bod wedi llunio neu wedi darganfod dull o drefn perthynas sy'n 'gweithio'.

Beth, felly, yw gwerth erthyglau Lewis Edwards ar Kant i Feirniadaeth Lenyddol? Nid oes trefn y tu hwnt i'r unigolyn, yn ôl Kant (o leiaf ar un adeg). Does dim dwywaith nad oedd L.E. yn didwyll geisio rhoi trefn ar ei feddwl ei hun. O leiaf, gall unigolyn gael cryn ysgogiad wrth ddilyn dull L.E. o fyfyrio. I mi, heddiw, wrth ddarllen yr ysgrifau hyn, megis wrth ddarllen cerdd gan Waldo neu Saunders Lewis, erys ffurf yr ysgrifau hyn gan L.E., sef y grefft o'u hadeiladu, yn ddiddorol ac yn ddifyr. Gyda gofal, gallasai dilyn eu datrysiad ddarparu atgryfhad yn wyneb yr argyfwng llenyddol cyfoes. Hynny yw, drwy lunio ysgrifau fel y rhain, ceisiai L.E. adeiladu rhuddin i'r myfyrdod cyfundrefnus. Tra myn athronydd gytuno neu anghytuno yn ei ddadleuon, y mae beirniad llenyddol yn gweld Mynegiant (lle y gweithiai L.E. yn fynych) yn symud ymlaen drwy ymateb, disgrifio, a gwerthuso.

Cawsom ein magu mewn cyfnod pryd yr oedd chwalfa ac ymddatodiad wedi'u mabwysiadu'n bolisi – ac i feirniad dynwaredol – yn wirionedd caeedig. Nid wyf yn dweud bod pob ystyr a phwrpas a gwerth wedi diflannu. Ond fe deimlid yn fynych eu bod heb gyfrifoldeb a heb fod

yn soffistigedig ymwybodol o'i arwyddocâd ymarferol. Cafwyd theori er mwyn theori. Yr oedd yn gwbl amhosibl i fywyd ac i iaith golli trefn – gan fod trefn yn sylfaenol i gelfyddyd y bydysawd. Darganfod trefn yw gwaith athronydd medrus. Ond fe fabwysiadwyd dogma o anhrefn. Plygwyd i orthrwm anghred, a oedd yn 'newydd-deb' (go hen) i lanciau ifainc cefn gwlad ar y pryd wedi oesoedd o goelio gwerthoedd. O fewn amgylchfyd felly y darllenwn heddiw Kant a Coleridge ac ymateb Lewis Edwards iddynt. Dangosent hwy fod meddwl gorau y cyfnod diweddar yn wynebu cael ei danseilio, ar y naill ochr gan graig fwyafrif yr anghredadun (o safbwynt uniongrededd) ac ar y llall gan graig leiafrif y Pietist (o safbwynt Cristnogion profiadol).

Wynebai Lewis Edwards dasg go anodd, gellid meddwl, yn achos ysgrifennu'r ddwy ysgrif hyn am Immanuel Kant. Yr oedd yn rhaid iddo beidio â dweud sill am y ffaith fod Kant yn casáu addoliad Cristnogol ac yntau heb eisiau meddwl am y Goruwchnaturiol, ac eto ganmol y dyn am ei gyfraniad mawr i athroniaeth ysbrydol. Gwyddom am Kant acw yn ei swydd Brifysgol, yn yr orymdaith flynyddol gan y staff i'r Eglwys, yn ymuno â'r gweddill, ac yna'n sleifio i'r naill ochr yn ddisylw dybiedig i'w gyd-academyddion seremonïol, er mwyn llithro allan drwy ddrws y cefn cyn i'r gwasanaeth ei hun ddechrau; felly'n cyflawni'r gofynion allanol yn y Brifysgol o ymuno â'r orymdaith. A dyma ymddygiad meddyliol olynwyr Lewis Edwards hwythau maes o law: mae yna sawl ffordd i orymdeithio Wil i'w wely. Meddyliwch am Wesleaid cefn gwlad Ceredigion yn wynebu Kant, heb sôn am yr Hen Gorff yno. Efallai fod yr Hen Gorff yn gorfod wynebu rhai cwestiynau perthynol pan ddôi'n fater o ddiwygio'r Gyffes Ffydd i'r byd dynganolog; ond ar y pryd, yr oedd ysbryd ar gerdded a rwymai'r Gyffes wrth bob adeilad o eiddo'r enwad yn gyfreithiol gaeth. A dichon fod ysgrifau 'diduedd' unochrog dawedog y *Traethodydd* yn batrwm (heb ei sylweddoli) o 'ddidueddrwydd' yr hyn a wnâi L.E.'n addysgol yn ei swydd Golegol.

Fel y dywedais, un yn unig o'r tair cyfrol *Kritik* a gafodd sylw gan Lewis Edwards. Ni ddewisodd ganolbwyntio ar *Kritik* II, sef Rheswm fel offeryn ymarferol i ddatrys 'Rhyddid a Gweithred', na chwaith ar *Kritik* III. Dywed R.I. Aaron am yr olaf: 'ceisiai Kant ynddo bontio'r gagendor rhwng y nwmenaidd a'r ffenomenaidd, rhwng yr Holl-ddoeth a mecaniaeth natur. Cwlwm a nod yw III sy'n datrys Kritik I a ganolbwyntiai'n ormodol ar y gagendor.' Peth arall nas gwnâi oedd ymatal i bob pwrpas rhag rhoi Kant mewn cyd-destun beirniadol. Ymgais L.E. oedd bod yn 'ddisgrifiol'. Ond y mae anwybyddu'r cyfle i hyfforddi beirniadaeth amlwg yn fath o gyfleustra sy'n hyrwyddo'r 'Dadgymdeithasiad Goruwchnaturiol a Naturiol', fel y cawn weld.

Roedd gan Lewis Edwards enw da i'w warchod. Bod yn saff amdani. Un peth nas dymunai oedd dirmyg gan y Sefydliad Seisnigaidd am ei fod ef a'i enwad yn 'enthiwsiastaidd' ddeallol.

Dogma'r Ymoleuo fwyfwy yn ei fan eithaf oedd coleddu cwestiyna heb fodloni ar ateb. Dôi ansicrwydd yn ddymunol fel diweddbwynt; megis dadl heb gytuno. Gallai Gwyddonwyr anelu at

ateb cywir. Ond nid felly'r dyniaethau. Onid dogma awdurdodol oedd dal i amau (yn eu bryd hwy), gan fod yn benagored ar bopeth ar egwyddor? Y mae i hyn ei rinweddau; ond nid fel rhagdyb angenrheidiol. A'r bygythiad gan feirniadaeth lenyddol Gristnogol a'i gwelai'i hun o fewn unoliaeth gyfundrefnol ddiwnïad oedd ymuno'n ddiniwed â'r rhengoedd a fygythiai ddod i ben â chael ateb cywir. Meddwl a garai ymholi penrhydd yn awr wedi'i gysegru'i hun i ddatrys cyfrinach grefftwrol yr hiraeth mewn mynegiant barddonol! Dyma osgo a ddeuai'n fwyfwy perthnasol wrth i Ôl-fodernwyr sylweddoli caethiwed enbyd yr amhenderfynadwy a'r relatifrwydd gorchfygol. Ar ryw olwg er hynny yr oedd L.E. ar flaen yr orymdaith hon a arweiniai at ddidueddrwydd dof.

Beth a ddigwyddodd i beri iddo ffoi rhag dilyn trywydd amgenach o'r blaen?

Mae'r ateb i'w gael yn hynt syniadaeth Coleridge yn Lloegr. Ni chafwyd 'Ysgol Coleridge' mewn beirniadaeth Saesneg. Nis dilynwyd ef fel y gwelsom gan Lamb, Hazlitt, De Quincey, ac yn sicr ddim gan Arnold, arwr Leavis. Pam?

Parchusrwydd y Seciwlarwyr; fawr arall. Gwg y Sefydliad niwtral. Ymlid deallol gan yr Awdurdodau eclectig. Crefydd newydd yr oes a oedd yn gwawrio; a beirniadaeth lenyddol heb gyhyrau! Yr hyn a welodd Coleridge oedd Unoliaeth ddeallol (o fewn yr hyn a alwn ni, Galfiniaid, yn Ras Cyffredinol). Yr oedd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol ar y llaw arall, y gogwydd a adwaenai Lewis Edwards, yn barod i fod yn feirniadol oherwydd ei Galfiniaeth ddatblygedig; a'r gogwydd a ddarganfu Coleridge yntau wedi darllen yr Almaeneg, yn soffistigedig, yn arbennig mewn cyd-destun o Ddeddfau Gwyddonol yr Ymoleuo. Ond 'enthiwsiast' oedd Coleridge, er ei fod yn 'enthiwsiast' go unigryw. Roedd ei osgo a'i safbwynt yn gondemniedig felly gan ogwydd cynyddol yr oes. Yr hyn nas ceid ganddo oedd cyferbyniad rhwng y Seciwlarwyr a'r ddau Ras, Cyffredinol ac Arbennig, mewn un person.

Un peth a fawrygai Lewis Edwards, ysywaeth, yn uwch nag arloesi meddyliol, oedd parchusrwydd. Y deallusyn Cymreig delfrydol oedd ef – a allai ffitio i mewn i'r byd deallusol Seisnig, ond iddo gael siawns. Buasai dilyn y liwt enthiwsiastaidd i faes dadl ddeallol yn felltith iddo. Dichon y buasai'i ddarganfyddiadau eisoes mor ffrwythlon ac mor gywir – ond doent i grino yn sgil traddodiad diwinyddol a allai weld y byd ysgolheigaidd niwtral dan bwysau o gyfeiriad mor amheus. Soniai Arnold am '*disinterested endeavour.'* Meddai ef: '*The Hebrew genius has not, like the Greek, its conscious and clearmarked division into a poetic side and a scientific side; the scientific side is almost absent; the Bible utterances have often the character of a chorus of Aeschylus, but never that of a treatise of Aristotle.'* Yr olaf oedd gogwydd achlysurol L.E..

Condemniai Arnold epistolau Paul am na chydnabyddent y gwahaniaeth rhwng gosodiad ac analog heb sylweddoli mai dyna gydlyniad y Beibl benbaladr.

## II

Un o Gymry mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Lewis Edwards... Na: fe ailddechreuaf y casgliadau atodol hyn mewn cywair diduedd.... Hacwaith ystrydebol oedd *Traethodau Llenyddol* Lewis Edwards, yn rhy aml. Bwriadwyd y gyfrol fel yr awgrymir ar ei thudalen cyntaf i gymodi crefydd â llenyddiaeth. Cymodi yw llawer o'i gywair. Mae yma wybodaeth a diwylliant ac ysbryd eangfrydig cadarnhaol. Ond oherwydd na fynnai Lewis Edwards ddefnyddio'i feddwl cywrain i fyfyrio drosto'i hun mewn dyfnder unigryw, gwaith caled yw dod o hyd bellach i wreiddioldeb yn y gyfrol 672 tudalen hwn. Yr oedd y cynnwys a'r bwriad a enwyd yn awgrymu y buasai'r awdur yn dadansoddi perthynas crefydd a llên pe gallai. Buasai'n chwilio priodoleddau'r naill a'r llall am 'dir cyffredin'. Ym mha ffordd y bu llenyddiaeth yn defnyddio themâu diwinyddol ac ym mha ffordd yr oedd moesoldeb yn hawlio lle hanfodol yng nghryfder ac egni llenyddiaeth? Pa amcanion a oedd yn cael eu rhannu gan y naill a'r llall, a sut yr oedd gan lenyddiaeth ei thiriogaeth briodol ei hun? Dyma gwestiynau a haeddai barch hyd yn oed pan oedd y darllenydd yn anghytuno â'r syniadaeth. Ond ymataliodd: yr oedd disgrifio'r disgwyliedig yn haws.

Crynodeb o *Kritik* I Kant a gafwyd, heb ei fantoli.

Mae'n wir mai go gyntefig ac elfennol oedd tarddiad y rhagfarnau poblogaidd ymhlith pietistiaid ar y pryd. Ond nid oedd hynny'n ddigon o esgus dros beidio ag ymgodymu â'r broblem ar wastad garwach nag y gwnaeth y Prifathro. Yr oedd gan Gymru gyfle euraid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ymaflyd yn y pwnc hwn, a bod yn feirniadol, a chyflwyno astudiaethau gwreiddiol a meddylgar helaeth yn y maes. Yr oedd gennym gryn soffistigeiddrwydd uniongred hunanfeirniadol ar y pryd yn cydredeg ag awydd mawr am ddysg ymhlith gwerin ddarllengar. Ond gwaith arall oedd gan L.E. mewn golwg: cael *Quarterly Review* yn Gymraeg heb fentro wynebu mewn dwyster yr union broblem genedlaethol a oedd dan drwyn golygydd *Y Traethodydd.* Dyna'r uchelgais.

Yr ail gymhelliad ganddo oedd trafod materion deallol a diwylliannol yn y Gymraeg. Yr oedd y Gymraeg yn fater o bwys iddo: *'yr oedd rhyw awydd angerddol yn ei fynwes er yn ieuanc i wneuthur hyny a allai tuag at ei chadw yn fyw a'i hymgeleddu.'* Cymodi Crefydd â Chymreictod, dyma bwnc praff arall lle yr oedd gan Gymru ddiwylliannol eto gyfle ac arbenigedd angerddol i drafod maes diwinyddol perthnasol yn wreiddiol. Profai Lewis Edwards y berthynas honno i'r byw yn feunyddiol. Yr oedd ganddo'r cefndir athronyddol, gwleidyddol, a llenyddol i fyfyrio drosto'i hun am hyn, ac i arwain ei bobl i ystyried egwyddorion cymhleth y maes. Er hynny, dyma bwnc arall nas triniodd ond yn arwynebol. Ond pe defnyddiasai Lewis Edwrads ei grebwyll diamheuol a'i Gymreictod, gallasai fod wedi gwneud cyfraniad byd-eang ar bwnc a ddôi'n fwyfwy perthnasol yn oes Fictoria imperialaidd, ac yn yr Almaen: diwinyddiaeth diwylliant.

Efallai fod y ddwy ysgrif gampus ar Immanuel Kant yn dipyn o orchest braf yn Llanfair

Caereinion. Ac yr oedd Cymru ddiwylliedig yn falch ohonynt. Ond hacwaith clir a gofalus oeddent. Yr oedd ganddo gyfle, bron ddyletswydd; ac fe'i fflyffiodd. Dywedodd yn niwedd y gyfrol (671): '*Kant, yr hwn a wnaeth fwy na neb i dori yn ôl anffyddiaeth y ganrif ddiweddaf, ac i roddi cychwyn newydd mewn cyfeiriad mwy ysbrydol i'r meddwl dynol.'* Dyma genadwri wyrdröedig i'r agnostig braidd, ond hefyd i'r anfeirniadol ymhlith ei genedl a'i fyfyrwyr.

Yr oedd yn wir i anghredinwyr; ond nid oedd yn wir i Gristnogion difrif.

Ond fel bob amser, yr hyn a osgôdd, dyma oedd ei gyfraniad anffodus. Tawodd arweinwyr Cymru ym maes y meddwl cydlynol. A dyma'r union beth a oedd yn angenrheidiol o safbwynt beirniadol anffodus. Y peth ar goll oedd archwilio a dadansoddi anawsterau anferth a rhagdybiau athronydd aruchel fel Kant a gydnabyddai Ddyluniaeth (onid Dylunydd) i'r greadigaeth, ac (fel Aristotlys) y tebygrwydd o Esblygiad bylchog (III, 418). Meddyliwr oedd, wedi'r cwbl, a ddyrchafai Foesoldeb, a hynny o'r tu allan i Gristnogaeth pe gallai. A phriodol, drwy gymharu â phriffordd Cristnogaeth, fuasai dehongli perthynas hyn.

Moesoldeb oedd, mae'n wir, uwchlaw ymddygiad da a drwg, ac a grybwyllai hefyd, yn ysgafn, gyfrifoldeb dyn (neu ryddid), ac ni chaeai'i ddrws ar fodolaeth Duw, o leiaf yn nhermau '*summum bonum*'. Ymddengys ei fod hyd yn oed yn credu bod yna bosibilrwydd o ddimensiwn goruwchnaturiol anhysbys. Ond, heblaw'r ddysgeidiaeth am foesoldeb, ni wyddai Kant beth i'w wneud ynghylch athrawiaethau sylfaenol yr Efengyl: y perthyn. Dyma, gellid meddwl, oedd cyfle beirniadol Lewis Edwards. Heb rybudd nac eglurhad na dadl ynghylch hyn, yr oedd y Prifathro, sut bynnag, wedi bradychu'i feddwl ei hun. Ar ôl treulio tudalennau lawer i amlinellu syniadaeth Kant yn *Kritik* I, yr oedd ganddo un paragraff o feirniadaeth bersonol. Ni chydiodd o ddifri yn y gwaith o wynebu'r broblem fel Cristion. '*Nid yw yn ddigon Platonaidd,'* meddai am Kant, '*hyny yw, nid yw yn rhoddi lle digon mawr i'r egwyddorion y mae Rheswm wedi ei fwriadu i weithredu arnynt.'* Ni allaf gytuno ag ef yn hynny o beth. Beth bynnag, dywed yn ail: *'Dylasai roddi lle i ffydd fel un o alluoedd ein gwybyddiaeth; oblegid, os gallu i ganfod egwyddorion yw Rheswm, y gallu sydd genym i weithredu ar wrthddrychau anweledig yw ffydd.'* Mae gan bawb sut bynnag, ffydd o ryw fath. I Kant, ffydd yn rheswm a gallu dyn oedd yr hyn yr ymestynnai tuag ato. Ciliai'n ôl i glydwch y Naturiol, lle yr oedd ei ffydd yn gartrefol hyd yn oed pan ymestynnai tuag at yr Ysbrydol. Ond o ran sylwedd ystyrlon Cristnogol hanesyddol, cynnwys athrawiaethol traddodiad Awstin-Luther (yn achos Kant) oedd y berthynas heriol ar y pryd – (ac o ran L.E.), Duw personol goruwchnaturiol, dyn syrthiedig, perthynas achubol Duw a dyn, aberth iawnol, marwolaeth ac atgyfodiad Crist y Duw-ddyn, ail berson y Drindod, uniganedig Fab dwyfol, penarglwyddiaethol, cariadus – yr Hanes; ac nid oedd yn barod i holi arwyddocâd hyn oll yn y patrwm. Cyhoeddai Kant ragoriaeth y Beibl ar gyfer hyfforddi'r cyhoedd mewn crefydd foesol. Ond rhagdybiai fod byd y synhwyrau ei hun a

rheswm, yn gaeedig o fewn Natur, ac felly nid oedd lle i addoliad. Yr Ego Trosgynnol oedd hyd a lled ei ymwybod heb Ras Arbennig. Ac ni allai'r dyn naturiol gymaint â gwybod am Dduw Cristnogol Personol. Anwybyddai *Sensus Divinitatis* hyd yn oed. Symudai'i *Ymwybod* yn syth at *Gydwybod* (Moesoldeb).

Dyma'r hyn a heriai ymholi L.E..

Peth arall a gollodd Lewis Edwards, nad oedd yn ymwybod ag ef, oedd arwyddocâd Kant i feirniadaeth lenyddol. Nid oedd gan y Prifathro, beirniad llenyddol mwyaf ei ganrif yng Nghymru yn ôl pob tebyg, ddim diddordeb cyfansawdd mewn llenyddiaeth fel llenyddiaeth. Er nad oedd yn bietist cwbl gul ei hun, sgrifennai ar gyfer pietistiaid.

Ac ni lwyddodd i drafod arwyddocâd egwyddorion Kantaidd wrth fyfyrio am adeiladwaith ac egwyddorion ffurfiol llenyddiaeth. Bwydwyd y wedd honno ar theori llenyddiaeth gan Kant drwy waith Coleridge. A thrafododd y Prifathro Coleridge, beirniad mwyaf llenyddiaeth Saesneg erioed o bosib, heb ddilyn y trywydd hwnnw. Unwaith eto, nid oedd yn barod i ganfod y cyswllt rhwng pwyslais Rhamantaidd Coleridge ar y synhwyrus a'i bwyslais adeileddol ar Ffurf. Gallasai daclo Coleridge, nid fel diwinydd yn unig, ond fel beirniad llenyddol, a thorri cŵys wreiddiol a fuasai wedi egnïo meddyliau Cymreig ar y pryd mewn llenyddiaeth. Ond gŵr di-fentr oedd.

Rhwyddach iddo oedd goddef Addysg 'Naturiolaidd'.

Rhaid sôn am y dull cyffredin bellach o ddehongli'r wedd hon ar athroniaeth Kant. Nid dau fyd sydd. Ceir undod, ond dwy ffordd o feddwl amdano. Ceir ffordd o wybod am wrthrych allanol yn ôl ei ansawdd nwmenaidd, ac mae yna ymddangosiad o ffenomenau mewn modd delweddol. Ni ellir wrth raid ddisgwyl i neb wybod 'popeth' am Dduw. Y gwir yw mai'r argraff a ddyry Kant yw nad oedd am wybod am Dduw o gwbl, ond yn peidio â dweud hynny. Nid negyddu a wna; eithr ymetyb i'r hyn a oedd o fewn ei brofiad tybiedig, a'r wybodaeth ynghylch teimladau am Dduw.

Gyda diddordeb cyfredol L.E. yng ngwaith Kant a Coleridge, 'roedd eu perthynas yn amlwg arwyddocaol, a buasai cyferbyniad rhyngddynt yn ffrwythlon, ac i L.E. yn berthnasol. Medd Angela Esterhammer, 'Coleridge learned that the human mind is not a passive receptor of sensations from the material world, but that the mental faculties act autonomously to synthesise impressions into phenomena, or manifestations of reality shaped by the forms and categories of human understanding... This application of an act of the mind in order to discover the relations among things, or in order to proceed from random phenomena to organised principles, is what Coleridge refers to as *method*, a term he applies to both literary criticism and scientific investigation in the 'Essays on the Principles of Method' that he published in the *Friend.'*. Da cofio mai Coleridge biau bathu'r term 'practical criticism,' a enwogwyd gan I.A. Richards. Yr oedd y cyfuniad gan Coleridge, yn theoretig ac yn ymarferol o Feirniadaeth Athronyddol a Beirniadaeth Ymarferol (y darn ei Hun),

yn crefu ar Lewis Edwards am ddatblygiad unigolyddol mentrus. Ond ofer y gobaith.

Yr oedd George Berkeley (1685-1753), gŵr a gyfrifid gan Coleridge (*Coll. Letters*) yn fentor iddo, wedi datblygu disgrifiad o'r byd gweledig fel iaith Duw drwy analog o iaith ddynol.

Cyfle euraid fu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru i gydio o'r newydd yn yr Oleuedigaeth etifeddol ffyddlon ac i adeiladu meddwl Cristnogol Cymreig gyda dewrder diamwys a threfnus gyhyrog yn wyneb yr Ego Trosgynnol bythol bresennol. Nis gwnaethpwyd.

* * *

Hawdd efallai yw dweud yn yr unfed ganrif ar hugain fod Athroniaeth Iaith yn gymorth i ganfod *Kritik* I Kant yn nhermau Adeileddeg Iaith a Llên. Anodd i ni, sut bynnag, yw osgoi meddwl am 'Gyfundrefneg y cyfnod diweddar' (ers Calfin). Y mae Kant yn sôn llawer am gyfundrefnau, heb geisio archwilio holl ofynion pennaf a photensial strwythurol Cyfundrefneg. Byddaf yn credu bod mawr angen troi'n ôl at Kant a'i ailystyried yng ngoleuni datblygiad Adeileddeg llenyddiaeth. Yr ydym ar hyn o bryd yn ceisio sylweddoli o'r newydd pa mor bell yr oedd cyfundrefnu'n treiddio'n sylfaenol i Ffurf a Deunydd y Beibl a llenyddiaeth, ac yn ddyfnach na'r llenddulliau ac arddulleg. A go brin bod neb yn well na Kant wrth ysgogi archwilio ymhellach yr hyn sy'n isymwybodol bresennol yng ngwneuthuriad llên.

Dyma'r pwyntiau yn ymdriniaeth Lewis Edwards sydd yn fy marn i yn disgwyl am eu hystyried ymhellach o fewn yr arolwg cyfoes o gyfundrefnau. Soniai L.E. am wybodaeth sydd '*wedi dyfod oddiwrth brofiad*' ac am '*wybodaeth sydd wedi tarddu o gyfansoddiad y meddwl ei hun*.' Dyma'r Ego Trosgynnol a hunanwireddol o absoliwt rhagdybiol. Yna, mae'n trafod tri dull sydd gan ddyn o farnu yn ôl *'y gwahaniaeth rhwng barnau dosranol a chyfosodiadol'* (analytig a synthetig). Ond llawer mwy diddorol i mi oedd y tabl o 'gategorïau' o fewn y deall. Cyflwynir pedair golwg gan y deall o edrych ar bethau: yn ôl Maint, Ansawdd (Math yw term mwy amwys L.E.), Perthynas, a Modd. Mae gan bob un o'r pedwar hyn dri dosbarth:

| I MAINT | II ANSAWDD |
|---|---|
| Unigol | Cadarnhaol |
| Lluosog | Nacaol |
| Cwbl | Terfynol |

| III PERTHYNAS | IV MODD |
|---|---|
| Sylwedd, a Phriodoledd | Posibilrwydd, ac Amhosiblrwydd |
| Achos ac Effaith | Bodolaeth, a Difodiant |

Cymundeb y Gweithredydd â'r Goddefydd — Rhaid, a Damwain

Dyma Kant yn ychwanegu, gredaf i, at yr hyn y buwyd yn ei drafod fel priodoleddau cyfundrefn. Ac y maent oll yn berthnasol wrth ystyried perthynas ffurfiol llenyddiaeth a Chyfundrefneg Gristnogol. Ac os awn yn ôl at y syniad o lenyddiaeth fel Cyfundrefn o gyfundrefnau, fel Iaith ei hun, gwelir perthnasoldeb ei drafodaeth heddiw. Gwelir hefyd berthynas â natur yr Absoliwt.

Bid siŵr, ers Kant, bu tipyn o feirniadaeth ac ychwanegu at y Sgêm hon, fel y disgwyliwn. Ond credaf nad ydym eto ond megis dechrau ystyried amodau ac adeileddeg y meddwl llenyddol gorfodol. Tueddir i gynnig theori heb edrych ar yr ymarfer llafar a'r Tafod yn ein hiaith ein hun. Ond yn waeth byth, tueddir i dderbyn yn rhy anhunanfeirniadol y rhagdyb o Naturiolaeth.

* * *

Roedd dwy erthygl L. E. ar 'Athroniaeth Kant' yn y *Traethodydd* (ac wedyn yn y *Traethodau Llenyddol*) yn destun balchder i'r awdur, ac wrth gwrs yn ddigwyddiad nodedig yn hanes gwerin Cymru. Maent yn haeddiannol glodwiw. Gan fy mod wedi collfarnu'r awdur ynghynt oherwydd iddo fod yn rhy barod i dderbyn arweiniad seciwlar heb fod yn feirniadol, ac felly i hyrwyddo'r cyfaddawd enwog a danseiliodd Gristnogaeth yng Nghymru, rheitiach i mi fuasai nodi beth yw'r sefyllfa yn lletach. Wynebai'r Goleuadwr L.E., a'i genhedlaeth, y gelyn Ymoleuwr.

I mi, bu'r amlinellu 'diduedd' ganddo, heb ei herio, yn anfaddeuol bron yn yr amgylchiadau.

Iechyd yw bod L. E. yn effro i rai o wendidau amlwg Kant fel y noda'n eglur ar ddiwedd ei ail ysgrif. Ond ni thynnai sylw cyflawnach at wendidau sylfaenol Lluosaeth, a'i pherthynas â 'Gwybodaeth'. Dyma'r pryd yng Nghymru y dechreuai Deistiaeth gael ei seciwlareiddio ar ffurf Moesoldeb, a chymryd lle Cristnogaeth gan bwyll yn yr eglwysi efengylaidd Cymraeg. Disodlid Duw gan Ragdyb o Reswm Ymarferol Pur, neu'r *summum bonum*, fel y dynodai Kant (yr absoliwt da). A hynny o fewn cyd-destun Crefydd a oedd wedi mawrygu'r bersonoliaeth i gyd.

Fel pob rhamantwr gwerth ei halen, beirniadai L.E. gyfundrefneg, ac eto fel pob rhamantwr yr oedd ef ei hun yn benllanw o gyfundrefnau. Fel yr oedd yn gosod ei fethodoleg Hegelaidd ar gyfer deall popeth yn whingil iawn ar gefn gosodiad/gwrthosodiad/cyfosodiad, felly, heb droi blewyn, yr oedd ei ysgrifau ar Kant yn cymeradwyo amryw gyfundrefnau deuol cyfarwydd megis Ffurf/Deunydd, Corff/Enaid, Achos/Effaith, *a priori/a posteriori*, a dadansoddi/cyfansoddi. Ond y drafferth yw ei fod wedi enwi rhai cyfundrefnau o'r fath heb archwilio hollbresenoldeb 'cyfundrefneg' ei hun fel y cyfryw, heb gydnabod y cydlyniad cyffredinol, a heb aros i ystyried arwyddocâd hyn o fewn y dystiolaeth Feiblaidd, Arfaeth Duw, a'r myfyrdod am yr Ymgnawdoliad a'r Drindod. Roedd y 'rhaid' unplyg yn absennol yn y gyfundrefneg a drafodai. Ni welai ef fod cymeradwyo Kant yn rhy anfeirniadol, i ddarllenwyr cymharol ansoffistigedig a dibrofiad a heb

ddimensiwn Cariad Duw, yn rhan o'r broses amlochrog o arwain yr eglwysi tuag i waered tuag at Arminiaeth i Undodiaeth. Yr oedd yn gosod haniaeth yn lle person, ac yn disodli y Crëwr gan y creedig. Gwahanai Kant wybodaeth yn ddwy sffêr – y ffenomenolaiddd (ar gyfer y synhwyrau) a'r nwmenaidd (sef y metaffisegol a'r hanfodion anweledig). Ond y sffêr gyntaf a ddyrchafai ef, gan adael y llall felly i sgeptigiaeth, i ddirfodaeth, ac i sythwelediad cyfriniol, hynny yw i chwarae chwiw. Ni welai berthynas annatod y rhain yn yr Ymgnawdoliad a'r Greadigaeth. Ac nid oedd L.E. (wrth drafod Kant) yn barod i wynebu y Duw Personol(hanesyddol)-Dragwyddol â meddwl dadansoddol gwahaniaethus Beiblaidd. Pan fyddai Kant yn sôn am *Summum bonum* neu'r cyfanrwydd, yr hyn yr oedd ef yn meddwl amdano yw'r Arfaeth. Ond roedd y Cristion yn meddwl am Dduw, awdur yr Arfaeth, ac am Iesu yr Absoliwt Cariadus Personol.

Yr hyn sy'n ein poeni wrth syllu ar fraenaru L.E. yw nid 'Moderniaeth', ond Ôl-foderniaeth (a'i lluosaeth) anhunanfeirniadol. Mynnai Kant fod gan y deall hunanlywodraeth absoliwt. Yn wir, yn ei *Feirniadaeth o Reswm Pur,* hawliai – '*Nid yw'r deall yn cael tarddiad ei ddeddfu (a priori) gan natur, eithr hwnnw sy'n eu rhagosod i natur'!* Dyna'r Ego Trosgynnol. Hynny yw, nid yn unig y mae'r ymwybod dynol yn allwedd i ddarganfod realiti; dyna sydd ei hun yn ffynhonnell i realiti. Wrth gymeradwyo Kant heb lawer mwy o rybudd, yr oedd Lewis yn dod yn rhan o'r chwalfa, er gwaethaf ei holl brotestio o blaid unoliaeth a chydlyniad. Yr oedd Kant hefyd yn trin y Rheswm dynol fel pe bai'n offeryn diduedd. Roedd hyn yn cynnwys elfen o eilunaddoliaeth. Dyrchafai Natur yn ormodol.

Mewn gwirionedd, cyfyngedig yw pob empeiriaeth am ei bod yn hunan-wrthddywedol ac am fod yr honiad ei hun o awdurdod empeiraidd yn anempeiraidd. Ond mae'r rhagosodiad fod y Creawdwr-Dduw yn Absoliwt effeithiol yn rhoi sail gwirionedd i Fathemateg Fodern. Honnai Kant ei fod yn cychwyn gyda ffeithiau profiad. Ffeithiau yw profiad moesol. Ond yr oedd yn dod o hyd i'r ffeithiau hyn drwy'i hunanlywodraeth ei hun. Hynny yw, er iddo ymwrthod â Metaffiseg, mynnai fabwysiadu metaffiseg newydd. Felly, dyn yw ffynhonnell eithaf teyrnas y nwmenaidd i Kant. Ond i'r Cristion y mae'r Duw hwn yn gyfeirbwynt eithaf i fodolaeth dragwyddol sy'n gyffredinol, ac nid yn fater o synhwyrau cariadus personol yn unig. Hyn yn unig a roddai sicrwydd absoliwt. Gwyddai L.E. hyn oll. Ond plygai gerbron y meddwl estron. Gwreiddyn gwendid yr Eglwys ar y pryd oedd dilyn yn anfeirniadol y gwth o'r tu allan. Ymwadu, peidio â dweud oedd gwendid L.E., a'r rhai a'i dilynodd. Heb dipyn o hunanlywodraeth feddyliol Gymreig, heb ddatblygu athrawiaeth efengylaidd frodorol, methid â meithrin meddwl y gwreiddiol. Diolchwn er hynny i L.E. y beirniad praff am drafod Coleridge, Kant, a Milton. Hac da oedd L.E., yn maldodi'r cymhleth israddol Cymreig. Ond o'r tu mewn i gylch yr efengyleiddwyr eu hunain, hyrwyddwyd tyfiant y gwendid mwyaf, y gwyro mewn tawelwch, a hunan dwyll y diragdyb. A dyna'r perygl byth, gredaf i.

Nid wyf yn cyhuddo Lewis Edwards ei hun o Luosaeth bersonol yn yr Ystafell Ddirgel. Yr oedd yn ormod o Gristion ac o ysgolhaig i hynny. Ond yr oedd ei Fethodoleg gyhoeddus wedi agor y llidiart i'r lluoseddwyr gripian allan. Ceisodd ef niwtraliaeth gymedrol bêr; ac nid oedd honno'n bod. Ceisiodd fod yn wrthrychol; ac yr oedd hynny hefyd yn amhosibl. Hynny yw, ceisiodd eistedd ar ben y llidiart cysurus, yn Oleuedigaeth undyn gytbwys ochr yn ochr â'r Ymoleuo. Ond hanner siawns a oedd ei hangen ar yr Ymoleuo a'r Ego Trosgynnol... a'r Lluosaeth braf.

Yr wyf o hyd wedi cefnogi'r amrywiaeth a'r cyfanrwydd. Rhaid wynebu'r holl wyntoedd. Agorer y drws. Ond mae yna fwy na chyfundrefn yn y fantol. Ffordd yw. Does dim modd osgoi rhai pethau. Mae yna undod a phenderfynu creadigol yn arwain drwy'r anialwch. Pan gyflwynir yr amlder seciwlar heb fod yn anhunanfeirniadol, yna mae angen i'r clustiau godi... Archwilier yr *anialwch* hwnnw o'r newydd: o'r gorau, ond hynny heb awgrymu rhagdybied ei fod o raid yn gyfwerth â'r *llwybr* ffrwythlon ei hun, neu'i fod yn haeddu inni aros ynddo. Rhaid dysgu cwmpasu.

Ni ddylai Cwrs Addysg Gyfansawdd (Gras Cyffredinol ynghyd â Gras Arbennig) beri ofn 'cyfyngiadaeth' i'r un deallusyn Cristnogol: lletach o iach yw o raid na'r seciwlaryn unochrog.

Fe all ymddangos fy mod yn defnyddio beirniadaeth o L.E. yn debyg iawn i'r feirniadaeth hysbys o gwrs o ddarlithiau gan Albertus Magnus a gyflwynwyd yn y seminari Dominicaidd yng Nghwlen ym 1250 ar '*Foeseg Nicomacheaidd'* gan Aristoteles. Dadleuai Albert o blaid ei ddewis oblegid mai ceisio dangos yr oedd ef allu rheswm dynol digymorth i wybod am lawenydd a rhinwedd. Hynny yw, dyma ef yn dathlu Gras Cyffredinol. *Dyma wybodaeth 'bur' yn asgwrn cefn i Addysg.* Derbyniwyd y dadleuon hyn felly ym 1259 yng Nghynulliad Cyffredinol Valenciennes. A dyna'r pryd y mabwysiadwyd felly yr astudiaeth o Aristoteles yn swyddogol am y tro cyntaf ynghyd ag athronwyr eraill.

Ond aeth Albert ymhellach a dadlau bod gan Ddiwinyddiaeth ac Athroniaeth seiliau (egwyddorion cyntaf) gwahanol i'w gilydd. Bu hyn yn faen tramgwydd i'r Diwygiad Protestannaidd. A dyna pam y canfuwyd y berthynas rhwng Sfferau pynciol sofran o fewn Cyfundrefneg Absoliwt mewn trefn hierarcaidd. Yr hyn a esgeuluswyd efallai wrth gloffi ynghylch sfferau pynciol ac Absoliwt cydlynol gan L.E. oedd methu â dangos y drefn Feiblaidd yr oedd ei ddarlithiau ef ar Kant a Hegel hwythau yn atebol iddi. Ond un o'r cymwynasau a gafwyd ganddo yn ddiau oedd chwalu ambell hoff fyth gan elynion Calfiniaeth ar y pryd: er enghraifft fod Lwtheriaeth a Chalfiniaeth benben; neu fod credu'r Pum Pwynt yn orfodol er mwyn bod yn Gristion. O'r ochr arall, ac yn anad dim, awgrymai'n gadarnhaol fod a wnelo Calfiniaeth â holl deyrnas Gras Cyffredin a llawnder y Greadigaeth. Darparasai hynny'r sylfaen i ddatblygu Beirniadaeth Gristnogol.

* * *

Gwyddom am y ffasiwn ryddfrydol adnabyddus yn nechrau'r ugeinfed ganrif i ddisodli

Cristnogaeth gan Foesoldeb dyngarol. Dichon fod peth o'r camgyffrediad hwnnw wedi llithro i mewn i'r pwlpudau o du cambwyslais Kant. Dymunai ef anrhydeddu Moesoldeb. Hwnnw, yn wir, i Kant oedd y pennaf 'prawf' o fodolaeth Duw. Fel yr awgrymodd Mounce (uchod) roedd Kant yn *Kritik II* yn dangos bod y ddeddf foesol yn dibynnu ar fodolaeth Duw. Ond yn y bôn, dyn-ganolog oedd moesoldeb iddo o ran diffiniad. Gwedd oedd ar *Sensus Divinitatis.* Llawenydd llawn dyn oedd y nod yn ôl ei ddealltwriaeth ef, yn ben draw i'r ewyllys. Ond collwyd y Cwymp *en route.* Collwyd gwaed Crist. Aeth pleser Dyn yn awdurdod Duw. Ochrai Kant gydag ewyllys dyn.

Yn ôl Kant, felly, rhagdybir gan ddyn y dylai pobl ymdrechu'n ewyllysgar i gyrraedd perffeithrwydd moesol, er ei fod yn methu heb gymorth dwyfol. Rhaid bod Duw'n bodoli er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cyrraedd yr hyn y dylent ymdrechu erddo. 'Cyflawni'r daioni pennaf yn y byd yw gwrthrych angenrheidiol a benderfynir gan ddeddf foesol.' (Immanuel Kant, *Critique of Practical Reason,* trans. Werner S Pluhar, Indianapolis, IN, 2002, t.155). Mae hyn yn golygu hefyd ewyllysio'r dychwelyd priodol i hapusrwydd gan y rhai sy'n canlyn daioni moesol. Credai Kant fod rhagdybied bodolaeth Duw yn sicrhau ffyddlondeb i'r angenrheidiau moesol (ibid. tt. 158 yml.). O fewn y nod o osod ewyllys ei hun a hapusrwydd dyn yn gyntaf, gellir amrywio safonau o gymuned i gymuned, o ryw i ryw, o oedran i oedran, ac o oes i oes. I bob pwrpas, y mae Kant yn dadlau oddi wrth fodolaeth moesoldeb tuag at fodolaeth Duw, heb sylweddoli ein hanian syrthiedig.

Dw i ddim yn dweud wrth gwrs mai Kant, o safbwynt Cymru, oedd yr unig ffactor a oedd wedi gwanhau cryfder L.E. a'r enwadau yn eu pwyslais Duw-ganolog. Disodlwyd Duw gan foesoldeb gan bwyll am resymau dyfnach na hynny. Ond credaf mai rhan Kant yn yr Ymoleuo oedd rhan o'r gwth mwyaf parchedig ac arhosol o fewn athroniaeth. Rhannau oedd Kant ac L.E. o symudiad cyffredinol, a adnewyddasai hen glwyf Adda.

Gwiw cofio y gall rhywun gredu 'bodolaeth' un Duw oherwydd *Gras Cyffredinol.* Ond ni chred *yn* Nuw. Drwy gredu Cristnogol y dibynnir arno, gyda 'pherthynas' plentyn/Tad, – oherwydd bod Iesu'r Crist wedi ein gwaredu rhag marwolaeth drwy *Ras Arbennig* yr Ysbryd Glân. I Gristion, ni ddechreuir profi Duw drwy ddadleuon. Ni cheir sicrwydd llawn ond drwy hunanddatguddiad. Ar ôl hynny y deellir Creadigaeth, Dyn, a Drygioni. Canys Duw hunanwireddol yw.

[gw. ysgrif Gwenallt ar 'Lewis Edwards' yn *Traethodydd* 1945. Ceir cyflwyniad ardderchog i Kant, megis i Hegel (a nifer helaeth o athronwyr eraill), yng nghyfrol feistraidd Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, 2009, *Hanes Athroniaeth y Gorllewin,* gol. gan John Daniel a Walford L. Gealy.]

# HEGEL A CHYFUNDREFNEG

Ni cheir ysgrif ar Hegel yn *Traethodau Llenyddol,* er bod yna ddwy ar Kant. Ond camgymeriad fyddai mynd o'r tu arall heibio iddo. Gan Hegel a Coleridge y dysgodd L.E. ei gyfundrefneg, nid gan Kant. Ac anaeddfed yw theori lenyddol na fyfyriodd am Gyfundrefneg.

Trafferth fwyaf Hegel oedd iddo yntau, fel Kant, gau'i feddwl i 'ymyrraeth' Duw (mentr amhosibl lle y bo Duw'n hollbresennol). Nid ymagorai i bosibilrwydd o ddatguddiad goruwchnaturiol personol Beiblaidd. Ei ddatblygiad dynganolog addysgol hwn, yn baradocsaidd, a esgorodd hefyd yn yr ugeinfed ganrif ar 'ysbrydoledd' a 'lled-gyfriniaeth' fwriadus ddyn-seiliol. Felly, yn lle edrych tuag at Dduw a'r dystiolaeth Feiblaidd er mwyn olrhain natur cyfundrefneg, edrychid oddi wrth gyfundrefneg a theimladaeth y natur ddynol ei hun er mwyn olrhain natur Duw a'i waith. Cael profiad, dyn yn mwynhau ac yn teimlo, fel pe bai hynny'n ben draw, yn lle gogoneddu Duw, dyna ymgyfeiriad anhapus dyn. Yr effeithiau yn hytrach na'r Achos. Tasg Cristion fel L.E. a chanddo brofiad ysbrydol a rhagosodiadau meddyliol gwahanol i Kant a Hegel, oedd sylweddoli rhagoriaethau'r ddau yna, ac eto wneud hynny o fewn fframwaith gwerthusol Cristnogol.

Pwysicach o lawer na Kant, yn hanes ymddatodiad deallol Cristnogaeth ym mhwlpudau a cholegau diwinyddol Cymru, oedd dylanwad Hegel a'i gywion. Anodd mesur maint ei gyfraniad helaeth i'r dirywiad lluosaidd. Pan oedd hi'n gyfleus, fe'i cymerwyd ef gan L.E. yn ganiataol o ran ei fethodoleg ymresymu ymarferol. A bu'r canlyniad yn erchyll. Nis wynebwyd ef yn ddigon beirniadol o bell ffordd gan genedlaethau o fyfyrwyr y ffurfiwyd eu rhagdybiau a'u cymhellion gan ffasiynau meddwl estron a danseiliai draddodiad mor hardd. Roedd yr ysgolheictod, a osgôi wynebu gwreiddioldeb gwreiddiau Cymru a chadernid cynhwysfawr y gwirioneddau ysbrydol ac ymarferol, yn ddiarhebol o ffasiynol ac yn gysgod dros ymchwil ysgolheigaidd lygad-agored. Gan amlaf, wrth gwrs, buwyd yn ysglyfaeth i'r Sefydliad. Ac felly Lewis Edwards yntau, yn ddiau. Dilynwyd ef gan gywion y 'cover-up'. Ac eto, cymhleth oedd yr un pryd: ceidwadol uniongred fu llawer o sylfeini L.E., a'i galon (fel calon Hegel) 'yn y lle iawn' mor aml.

Gadewch inni gymryd cymhariaeth weddol drawiadol rhwng byd astudiaeth Feiblaidd a Methodoleg Hegelaidd L.E..

Prif gyfraniad y beirniaid rhyddfrydol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i esboniadaeth yr Hen Destament fu'r cysyniad o 'ddatblygiad' hanesyddol naturiol. Ac yn achos Hegel, dechreuwyd yn yr un casgliadau. Darparai ragdybiau a fyddai'n ffurfio'i ddamcaniaethau eraill yn y diwedd. Hynny yw, yn hytrach na rhagdybied y goruwchnaturiol yn y bôn, dechreuai o'r naturiol yn y brig, heb gyfrif y Cwymp. Cymerer yn gymharol yr adeiladwaith a gynigiwyd gan un o'i ddilynwyr ar gyfer hanes crefydd Israel. Rhagdybid yn ddibetrus wrth gwrs gan ddyn-ganolwyr fod pawb yn

ddifrycheulyd rydd rhag y goruwchnaturiol. Llechen lân oedd dynoliaeth hunan-ganolog. Ar y llechen honno y dechreuid sgrifennu datblygiad syniadaeth ddynol grefyddol yn ôl tri cham sylfaenol, fel y'i disgrifid yn ei faes gan A. Kuenen, *The Religion of Israel,* cyf. Alfred Heath May, 1874: *'Yn erbyn yr hyn a alwem yn rheol gyffredinol, fod crefydd yn dechrau gyda ffetusiaeth, yna'n datblygu'n amldduwiaeth, ac wedyn, ond byth ynghynt, undduwiaeth – hynny yw, os ydym am gyrraedd y radd uchaf – nid yw'r Israeliaid i fod yn eithriad.'* Tri cham twt.

Hynny yw, gosodid ymlaen llaw y siwrnai dri-cham, ac yna bu'n rhaid i hanes Israel ffitio'r adeiladwaith parod hwnnw. Ac felly hefyd, fel y dengys Gleason L. Archer, *A Survey of Old Testament Introduction,* 1964, eid ati'n hwyliog i gamddehongli'r adroddiadau o dadau Israel megis Abraham, Isaac, Jacob a Moses, gyda golwg ar ddogmâu ynghylch cyflwyno'r Beibl drwy ragdybied iddo gael ei gamliwio gan awduron Dewteronomaidd ac offeiriadol. Hyn oedd y fethodoleg osodedig: dechrau gyda'r casgliadau a'r rhagdybiaethau caeedig dyn-ganolog a mynnu ailadeiladu ac ailddehongli'r defnyddiau hanesyddol drwy ffitio syniadau datblygol naturiolaidd; yn hytrach na dechrau yn natguddiad Duw, ac olrhain y nodau cyfundrefnol yn ôl y cyflwyniad ysgrythurol ei hun. Er gwaethaf bri haeddiannol Wellhausen ym myd disgrifio (ac yntau ym mryd rhywrai oedd 'ysgolhaig Beiblaidd mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg') camliwiwyd twf y datguddiad a gafodd Israel a hynny yn ôl patrwm a arweiniai o animistiaeth drwy henotheistiaeth i undduwiaeth. Gwyrdrowyd y casgliad gan y rhagdybiau.

Felly y bu hi yn union ym Methodoleg Hegelaidd L.E.. Cymerwyd Gosodiad/ Gwrthosodiad/ Cyfosodiad yn rhyw fath o ddelfryd, heb ddelio â natur gyfoethog Cyfundrefneg greedig a dwyfol ei hun. Gymaint mwy gofalus fuasai ef ynghylch ffrwythlondeb y mathau o gyfundrefnau sydd i'w cael pe bai wedi mabwysiadu'r sylweddoliad Beiblaidd o Absoliwt mewn modd Cristnogol sy'n amodi cyfundrefnaeth mewn fframwaith mor greadigol.

Cymhlethwyd casgliadau L.E. gan uniongrededd ei Gristnogaeth a fethai â chymathu methodoleg Hegel. Yn ei bennod feistraidd 'Duwinyddiaeth a Chyfundraeth', egyr L.E. gyda dau bwynt llywodraethol na ellid eu gwell. Yn gyntaf, 'y cynllun mwyaf cydweddol ag ysbryd Duw, i gyfansoddi Corff o Dduwinyddiaeth, yw cymeryd yr Arglwydd Iesu Grist fel canolbwynt y gwirionedd dwyfol.' Ni allasai Pantycelyn ei ddweud yn amgenach. Wedi cydnabod yr absoliwt, try L.E. at rybudd teg ynghylch cyfundrefnau: 'Os eir i ymofyn pa mor bell y mae cyfundrefnaethau y duwinyddion enwocaf yn cyfateb i'r cynllun, ceir yn rhy fynych, nid yn unig eu bod wedi methu llwyddo i gyrhaedd yr amcan, ond nad oedd yn amcan ganddynt mewn golwg.' Achwyna L.E. am ddull anfoddhaol y Cyfundrefnwyr Diwinyddol i 'restru'r' athrawiaethau a drafodir 'heb un cysylltiad rhyngddynt a'u gilydd.' Mewn corff o gyfundrefnau, y mae'n rhaid cael pwynt y tu hwnt i gyfundrefnau 'i gynal yr holl adeilad... y drychfeddwl mawr am y person yn yr hwn y mae pob peth

yn cydsefyll.' Dyma'r her gyntaf i Hegel.

Ond yn ail, â L.E. ati i rybuddio ynghylch y man peryglus mewn Cyfundraeth lle y mae'n rhaid ystyried safle 'dyn' yn hyn oll. A dyma, er mor angenrheidiol yw'r cam hwn, yr union le y bydd diwinyddion yn cloffi. Ceir cyfundrefnu o eiddo dyn, a chyfundrefnu o eiddo Duw. Gellir cyfeiliorni nid yn unig ynghylch dyn, ond ynghylch Duw hefyd. A dengys fel y mae Spinoza yn dibennu mewn Pantheistiaeth. Y mae Fichte a Hegel ar y llaw arall 'fel pe byddent yn ceisio profi mai dyn yw pob peth.'

Wrth sôn am berthynas L.E., cofier nad yw L.E. yn gwbl anfeirniadol ar y pen hwnnw. Cydnebydd L.E. mai 'Dyben pob crefydd yw dwyn Duw a dyn at eu gilydd, a dyma yr anhawsder mawr mewn duwinyddiaeth.' Ac yna, ceir un o'r brawddegau 'terfynol' yna a ysgrifenna L.E. ambell waith: 'Yr unig esboniad yw yr athrawiaeth fawr am y Person yn yr hwn y mae Duw mewn undeb tragywyddol.'

Pe dilynid y gwirionedd hwnnw, buasai wedi gallu rheoli awgrymiadau Hegel.

Gan mor feistrolgar yw *Hanes Duwinyddiaeth* Lewis Edwards, pam y petruswn ynghylch dilyn ei arweiniad yn ddi-ffael? Ceir gwraidd ei wendid yn ei ddiffiniad o Gyfundrefn, ac yn y fethodoleg ddiwinyddda a gymeradwya. Mabwysiada drioliaeth Hegel, ac fe'i cymeradwya fel offeryn diwinydda cyson. Ond y mae llawer mwy mewn Cyfundrefneg nag a nodai Hegel. Cywir ddigon oedd cydnabod lle Cyfundrefneg yn hyn. Ond oni chanfyddir cyn lleied y gwyddom o hyd am Gyfundrefneg, ni welwn yr angen i betruso'n ddigonol ynghylch yr hyn nas sylweddolwyd.

Nid yw'r Beibl yn amlinellu Cyfundrefneg noeth amlwg. Mynegiant yw yn hytrach o Ysbryd Duw ar waith. Fe'i cyflwynir yn y fath fodd fel y bydd Cristion yn derbyn ei eiriau mewn cariad a gostyngeiddrwydd. Nid dysg fel cyfundrefn, eithr fel Ysbryd yn llefaru. Nid yw'r haul na'r galaethau yn sôn amdanynt eu hunain fel cyfundrefnau; ond dyna ydynt. Nid yw'r atom na'r gell na'r iaith yn eu cyflwyno'u hunain â'r label 'cyfundrefnau'. Ond dyna eu natur o'r dechrau hyd y diwedd. Nid yw'r Tri yn Un, y Duw tragwyddol, yn ei gyflwyno'i hun na'i waith yn ddisgrifiol gyfundrefnol. Ac eto, oherwydd ei gymeriad, ni cheir un dim ganddo ond yn ôl trefn gwbl systematig. [Sylwer: *systemeg*=bod yn system; *systemateiddio*=gwneud system] Deddf a chariad, trugaredd a chreawdwr, ac yn y blaen: rhyfeddol yw'r Duw personol diderfyn, a'r Greadigaeth ddiderfyn.

Am wn i, un o'r dadleuon pennaf a geid ym myd Cristnogaeth (a chan L.E. yntau) oedd yr un rhwng Etholedigaeth neu Ragluniaeth ar y naill law a Chyfrifoldeb neu Atebolrwydd ar y llall. Y mae'r naill ochr a'r llall yn gwbl Feiblaidd, yn wir yn gwbl unol â phriodoleddau Duw a gydnabuwyd gan Gristnogion uniongred erioed – heb yr un 'datblygiad' angenrheidiol yn yr athrawiaeth. Tybid gan y dynganolwyr mai caeth oedd Etholedigaeth, ac mai ewyllys rydd dyn a'i harweiniai. Tybid gan ffug Galfiniaid nad oedd dim cyfrifoldeb na dewis gan ddyn. Oherwydd bod

derbyn ergyd y Beibl ynghylch cyfuno'r ddwy ochr yn annealladwy i'r amgyffrediad naturiol, hynny yw bod ystyron Duw y tu hwnt i gadwyni'r meddwl dynol, gwnaed twpdra dyn yn fesur terfynol.

Ac eto, gŵyr dyn erioed mor gaeth yw ei fywyd – y methiant i ddewis rhieni a magwraeth gynnar, ei amgylchfyd a'i ddoniau cynhenid. Gwyddom ninnau heddiw nad oes dewis ond derbyn gwneuthuriad ein celloedd, ein horganau, a'u hatomau yn gaeth gyfundrefnol. Mae'r rhan fwyaf o'n cyfansoddiad wedi'i phenderfynu'n amlwg ymlaen llaw. Methwn â bod yn berffaith, ac y mae angau yno.

Hynny yw, pan soniwn am 'ryddid' meddwl dyn, gall ymddangos yn chwerthinllyd o dila. Ac eto, mae'r Beibl yn sôn am atebolrwydd a chyfrifoldeb llawn; a gwyddom mewn rhai meysydd fod ein cyfrifoldeb yn bur ddifrifol. Mae'n fwy difrifol nag y sylweddolwn. Pryd bynnag y mabwysiedir dealltwriaeth gyfundrefnol, dylid cynnwys dadansoddiad hefyd o gyfyngderau dyn. Ac eto, yng Nghrist y mae yna ryddid tragwyddol.

I mi, bu'r cyferbyniad ieithyddol Tafod/Mynegiant yn gymorth i sylweddoli gwahanol ansawdd awdurdod Etholedigaeth a chyfrifoldeb dyn. Gwahaniaethir nid yn unig oherwydd bod 'Tafod' yn barhaol a 'Mynegiant' yn achlysurol, sef eu gwahaniaethau mewn amser, eithr hefyd oherwydd dyfnder y naill a'r llall. Bydd dadleuwyr ieithyddol sy'n gorbwysleisio Tafod neu'r rhai sy'n gorbwysleisio Mynegiant ill dau'n gywir yn eu hagwedd at yr hyn a gadarnhânt ond yn anghywir yn yr hyn a negyddant.

Dyma safbwynt Charles Simeon wrth drafod y cyferbyniad rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth. Credai fod Calfiniaid yn gywir wrth fawrygu dysgeidiaeth etholedigaeth rydd, ac ar wahân i ragoriaeth dyn. Cywir ydynt ynghylch eu diymadferthedd llwyr o ran natur; iachawdwriaeth yn gyfan gwbl drwy ffydd, heb ddim ohonom ein hunain. Derbyniant gywirdeb ysgrythurol hyn. Mae Arminiaid yn honni bod yn rhaid i Gristion weithio allan ei iachawdwriaeth; mae'n gwbl gyfrifol ac atebol am ei weithredoedd ei hun. Ond pan fo'r pleidiau hyn yn defnyddio un ochr ar y gwirionedd, y naill i wrthod y llall – yn y materion hyn – dyna wyro oddi ar y briffordd. Nis gwnâi Crist, ac nis gwnâi Paul, a nis gwnâi Calfin.

Un o'r themâu llenyddol cynhenid yw brwydr da a drwg. Yn ôl darlleniad Awstin o'r Beibl ar gefndir Neoblatonaidd, nid gwrthosodiad syml o'r da oedd llygredigaeth lwyr. Anfodolaeth oedd hefyd. Golygai hyn mai Duw oedd unig Grëwr y bydysawd. Ac ni ddigwyddai'r Drwg namyn drwy ganiatâd ei ewyllys ef. Cadarnheid ffydd Awstin yng ngeirwiredd datguddiad y Beibl a arweiniai at ostyngeiddrwydd Gras dwyfol. Mae'r da, am mai nodwedd ddwyfol yw, yn bodoli ar lefel gwbl wahanol ac yn anhraethol uwch na'r drwg. Ac mae cyfleustra'r drwg i ddyn, a'r orfodaeth, yn gosod y gyferbyniaeth mewn greddf gymhleth.

Yr hyn sy'n ddiddorol ac yn ganmoliaethus yw parodrwydd L.E. i fod yn feirniadol o Hegel,

mewn enghraifft y tu allan i'w fethodoleg. Eto, derbyniai ef ei fethodoleg yn absoliwt, tra oedd yn gallu bod yn feirniadol o'r athrawiaethau Beiblaidd a esgeulusai. Diddorol yw sylwi ym mha gyd-destun felly y cyfeiriai L.E. at Hegel yn *Hanes Duwinyddiaeth.*

Mae gan Lewis Edwards bennod gyfan yn dwyn y teitl 'Duwinyddiaeth a Chyfundraeth.' Ac yn y bennod honno (t.xv) y mae fel pe bai'n beirniadu'r cyfrolau confensiynol o 'Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol' sydd gan amlaf yn rhestru '*lliaws o bynciau pwysig, megis Y Priodoliaethau Dwyfol, Yr Arfaeth, Y Cyfammod Gweithredoedd, Pechod Gwreiddiol, Y Ddeddf Foesol, Yr Ysgrythyrau, Rhagluniaeth, Cyfiawnhad, Sancteiddhad, a'r cyffelyb.'* Yna, ychwanega sylw tra threiddgar am Grist, o fewn cyd-destun y rhestr hon. '*Gosodir Crist allan fel rhan yn unig o'r gyfundraeth, pan y mae yn y dadguddiad dwyfol yn bob peth, ac ym mhob peth.'* [Sylwer bod trefn Pantycelyn hithau fel y'i darluniwyd yn *Y Cynllun sy'n Canu* yn ymateb i'r math hwn o angen drwy sylwi ar y cwbl o Gyfundrefneg yn ôl hierarci angenrheidiol o dan Absoliwt Crist.]

Pe glynasai wrth y datguddiad hwn, buasai methodoleg L.E. yn iachach. Mae L.E. yn cymeradwyo'r ffordd y mae rhai diwinyddion wedi ceisio gosod un drychfeddwl i weithredu fel unolwr i'r pynciau oll – megis yr Addysgwr gan Clement, y Deyrnas gan Awstin, y Cyfamod gan Cocceius, Witsius, a'u canlynwyr. Ac yna, cynigia'n eglur nad oes neb ond Person Crist '*yn yr hwn y mae pob peth yn cydsefyll.'*

Dengys fel y bydd rhai Diwinyddion yn gallu canolbwyntio ar Dduw; ac eraill yn '*amcanu i ddangos fod gan ddyn ei waith, ac nas gall ymddyosg o'i rwymedigaeth,'* fel y ceir dau 'eithafbwynt.'

Dadleua L.E. fod Spinoza yn cynrychioli'r rhai sy'n cymryd Duw yn ganolbwynt i'w hymresymiadau yn y fath fodd nes dibennu mewn Pantheistiaeth. Ar y llaw arall, gesyd ef Fichte a Hegel yn y pegwn arall.

Dyma Hegel yn cael ei gondemnio gan L.E.: *'Y mae Fichte a Hegel, drachefn, yn dechreu gyda dyn, ac yn ymddangos weithiau fel pe byddent yn ceisio profi mai dyn yw pob peth, ac nad yw Duw ond dychymyg, neu fel yr oedd un o honynt yn beiddio dweyd, mai dyn sydd yn creu Duw.'* Hynny yw, yn y gosodiad unochrog hwn, fe'i gesyd dyn ei hun yn daclus gyntaf, ond yna, wrth droi at y 'gwrthosodiad' mae'n baglu – *'Er nad ydynt yn dyweyd mewn geiriau amlwg mai Duw yw pob peth, y maent er hyny, trwy wadu yr hyn sydd hanfodol i ddyn fel creadur rhesymol, mewn effaith yn difodi y meddwl dynol: neu ar y llaw arall, wrth geisio dyrchafu dyn, y maent yn gwadu priodoliaethau hanfodol y Duwdod, a thrwy hyny yn gwneuthur a allont hwy i ddifodi Duw.'*

Yna, â L.E. ati i gyflwyno enghraifft sy'n dilyn, fel petai, yn ôl yr un fethodoleg ymddangosiadol â Hegel, ac yn llwyddo i brofi'r un pwynt, gredaf i. Ond ni ddengys ef yr hyn a wnaeth i driciau eraill Hegel o ran egwyddor, na thrafod cyfoeth amrywebau cyfundrefneg, na

thrafod arwyddocâd dau ddimensiwn gwahanol, er mwyn cyflwyno'i enghraifft ei hun yn llwyddiannus. Af innau ymlaen â'r dyfyniad: *'Dyben pob crefydd yw dwyn Duw a dyn at eu gilydd, a dyma yr anhawsder mawr mewn duwinyddiaeth. Pa fodd y mae i ni gydnabod Duw yn mhob peth, heb ei wneuthur yn bob peth? A pha fodd y gallwn ddal rhyddid dyn fel creadur, a'i ddyledswydd anghyfnewidiol, heb wadu y priodoliaethau dwyfol? Yr unig esboniad yw yr athrawiaeth fawr am y Person yn yr hwn y mae Duw a dyn mewn undeb tragywyddol. Yr undeb hwn sydd yn rhoddi goleu ar bob undeb arall...'*

Hynny yw, y mae L.E., heb ei enwi felly, yn cydnabod Absoliwt, sy'n gynhwysfawr gychwynnol a tharddiadol, Un sy'n cwmpasu pob dim: yr Un angenrheidiol. Wedi traethu amheuaeth, sut bynnag, erys o fewn y patrwm yn ei enghraifft; a mabwysiada fformiwla Hegel ond heb archwilio'i offer yn ddigon beirniadol drwy ddangos mai natur y drioliaeth yn y fan hon yw 'cyfuniad' yn hytrach na 'gwrthosodiad negyddol'. Y mae fel pe bai'n cynnwys dynganolrwydd Hegel o fewn cyferbyniad creadigol rhy rwydd sy'n esgor ar undeb y Gwirionedd.

Hynny yw: Gosodiad – Duw; Gwrthosodiad – dyn; Cyfosodiad – Duw-ddyn (Crist).

Ond mae yna drioliaethau a thrioliaethau eraill, fel deuoliaethau a deuoliaethau eraill wrth gwrs, ac ni chafwyd gan L.E. na chan Hegel esboniad digonol yn garn i'w moddion dadansoddi yn ôl un llwybr cyfundrefnus sengl canolog.

Trueni bod Lewis Edwards wedi'i ddylanwadu'n fwy gan Gyfundrefneg Hegel na chan ei Estheteg. Yr oedd Estheteg Hegel (*Lectures on Aesthetics; Philosophy of Fine Art,* tr Bosanquet; *Hegel: a Re-examination,* J.N Findlay) yn anhraethol gryfach na'i Fethodoleg Gyfundrefnol. Roedd darganfyddiad Hegel o analog rhwng strwythur gwaith celfyddydol a strwythur y bydysawd yn gwbl gywir. Roedd y canfyddiad hwn – fod undod esthetig wedi'i wreiddio yn undod y diriaethau – yn gyfraniad o'r mwyaf llwyddiannus yn y maes, dybiaf i. A phwysleisiai Hegel harddwch y meddwl yn fwy na harddwch natur: mae'r ysbryd yn uwch na'r synhwyrus.

Ond ni lwyddodd ef (na L.E.) yn ei fethodoleg i olrhain ym mha ffyrdd yn union yr oedd y meddwl dynol a'i gyfundrefnau yn estyniad fel hyn i drefn y greadigaeth. Ac felly y mae'i fethodoleg 'gyfundrefnaidd' yn aros yn hanner pob. Drwy gyfrwng camre haniaethol braidd o fewn y broses o 'ddadlau' (thesis/antithesis/synthesis), cynigiodd *ddialechteg* geometrig heb gydnabod rheidrwydd naturiol *gwahuno* (gwahanu + uno) yn y broses *naturiol* a *gorfodol* o ddeall cydlynol. Aeth ar wahân i broses ddilys y meddwl ei hun er mwyn disgrifio ymarferiad camre rhesymu ar yr wyneb. Ac fe'i cafodd drwy symleiddio un ffordd o ddatblygu'r ymwybod o hanes.

Ar dro, gall dyn fod yn llwyddiannus. Yn *Kritik* I cyflwynodd Kant theori newydd o ddychymyg. Fe'i dangosai'n weithgaredd adeileddol a allai fod yn arweiniol yn y celfyddydau o'u cyferbynnu â'r gwyddorau, sydd heb eu hesgeuluso wrth gwrs. Fe ganfu Hegel hyn: os yw dyn yn

ceisio deall a systemateiddio'r bydysawd, un cam allweddol yn y broses yw sylweddoli'r cyferbyniad gwaelodol rhwng yr hyn sydd yn y golwg a'r hyn sydd o'r golwg. Galwaf drefn o'r golwg yn 'Dafod', a'r profiad yn y golwg yn 'Fynegiant'. Yn sylfaenol, ni ddatblygir cyfundrefnau Tafod byth yn fwriadus ymwybodol: y maent yn ***gynhenid*** (e.e. cell, atom, organ), yn sylfaenol. Mewn Mynegiant ar y llaw arall, gellir mynd ati i ***lunio*** cyfundrefnau, yn ôl ffrâm Tafod, gan eu datblygu'n ymwybodol ar ddelw'r egwyddor o gyfundrefneg sy'n rhan o fyd natur. Dywed Howard Williams am fwriadau Hegel (*Hanes Athroniaeth y Gorllewin):* 'Yn ei athroniaeth y mae Hegel yn ei weld ei hun fel olynydd i holl draddodiad athroniaeth, a hynny mewn ffordd gwbl systematig. Tybia Hegel y ceir canlyniadau diamheuol yn nhwf athroniaeth y gellir eu nodi, eu casglu a'u crynhoi'n gyfundrefn o syniadau sydd yn wir i ninnau yn awr. Yr hyn y mae'n ceisio ei wneud yn ei athroniaeth yw uniaethu a systemateiddio'r syniadau er mwyn eu trosglwyddo i'w wrandawyr a'i ddilynwyr.' Gwaetha'r modd, ni lwyddodd i wneud tri pheth. Yn gyntaf, methodd â diffinio hanfodion gorfodol 'system'. Ac yn ail, ni wahanodd yn benodol rhwng y nodweddion priodol i gyfundrefn mewn Tafod o'i gyferbynnu â Mynegiant. Ac yn drydydd, ni wahanodd systemau dwyfol, cynhenid a'r systemau gwneuthuredig dynol. Sonia Howard Williams am 'waith mawr cyntaf Hegel, y Ffenomenoleg' (sef Phänomenologie des Geistes)1807: '*yn y **Ffenomenoleg** dengys yn eglur gymaint y mae strwythur ein gwybodaeth yn dibynnu ar ymyrraeth ein deall a'n rheswm.*' A dengys hynny mor hanfodol yw dadansoddi adeiladwaith cyfundrefn deall, ac wedyn sylweddoli'r hyn y mae'r deall yn ei wneud yn ymwybodol, a'r hyn y mae'n ei wneud yn anfwriadus. Cydnebydd, fel y dywed yr Athro Williams: '*Y mae'r byd diriaethol yn ymddangos fel sylwedd ac aralliad, ond y tu ôl i'r olwg honno y mae ysbryd neu feddwl.*' Cam ymlaen gan Hegel oedd dangos 'blaenoriaeth ysbryd ar fater' wrth ymwneud â meistrolaeth ar y bydysawd. Cafwyd ganddo egwyddorion o bwys mawr. Ond diffygiodd yn arw oherwydd na chafodd lwybr i'r deddfau mewn deall, nac i wahaniaethu rhwng corff/meddwl a chorff/ysbryd. A heddiw, er mwyn disgyblu'r sylweddoliad hwnnw, cawsom gam ymlaen wrth olrhain seico-systemateg iaith i ddod o hyd i adeiladwaith deall sylfaenol o fewn cyd-destun Person Absoliwt.

Yn ei gyfrol fawr *Traethodau Duwinyddol,* y mae L.E. yn estyn Hegeliaeth rywfaint. Mabwysiada er enghraifft, heblaw'i fethodoleg bondigrybwyll, rai o gysyniadau cymdeithasol Hegel. Cyfosodiadau ydynt a gafodd gryn ddylanwad ar Farx ac Engels. Ond ni sylwais ar L.E. yn *enwi* Hegel yn uniongyrchol wrth grybwyll materion cymdeithasol. Eto, y ddau fater hyn – methodoleg a chymdeithas – oedd dylanwad llawnaf Hegeliaeth arno.

Cyflwynodd L.E. y fethodoleg, heb arddangos union wendid y dull hwn o resymu ac o lunio'r hyn a eilw'n gyfundrefnaeth (tt. 99, 100, 130-132, 137-146, 363). Ni ellir gwadu nad oedd Trioliaeth Hegel yn gweithio weithiau; ond amheus yw fel offeryn cyfundrefn. Dyma'r lle y rhydd

L.E. y ddadl enwog: '*Y mae un dosbarth yn barnu fod yr ewyllys yn rhwym; a'r llall yn barnu ei bod yn rhydd... Os nad ydym yn camsynied, y gwirionedd am yr ewyllys yw, fod yma rwymau a rhyddid yn cydgyfarfod*.' Nid esbonia yn y fan hon (i) beth yw ewyllys sy'n rhydd, a beth yw ewyllys gaeth, na chwaith fod ansawdd y naill a'r llall yn *wahanol o ran hanfod*, (ii) na beth yw arwyddocâd di-ofod a di-amser y goruwchnaturiol na'r dimensiwn tragwyddol mewn cyplysiad anfeidrol, (iii) nac amlochredd cyfundrefnol y cyfanswm o gyfundrefneg. Dyma fyddai peth o gyfoeth bywyd ac iaith.

Heb esbonio union fethiant dialecteg Hegel, osgôdd ddangos i'w gywion bregethwyr sut y gallai'r gêm Hegelaidd gawlio'u dealltwriaeth o natur ymresymu. Ond daeth cyfaddawdu ar ei warthaf, a throi'i waith yn ormes.

Sylweddolai L.A. Feuerbach fod cyfosodiad Hegel, er ei fod yn relatifeiddio'r ffydd Gristnogol, yn darparu hefyd fath o loches olaf i ddiwinyddiaeth. Oni thybiai L.E. fod Hegel yn cyflwyno'r ddadl ddelfrydol a esboniai'r Drindod a'r Ymgnawdoliad? Ond yr hyn a wnâi Feuerbach ohoni oedd dwyfoli dynoliaeth. Ac yn ei sgil, dôi'r rhyddfrydwyr drwy gyfundrefneg anfoddhaol yn eu man eithaf, i gladdu Duw a rheswm, gyda dynolryw bellach ar yr orsedd.

I'r Cristion Kierkegaard, ar y llaw arall, nid oedd y math o uniaethu o'r natur ddwyfol â natur ddynol, a wnaeth Hegel, yn gwneud cyfiawnder â'r Ymgnawdoliad, a fu'n angenrheidiol oherwydd pechadurusrwydd arswydus a difrifol dyn a wahanasai ddyn a Duw. Hyn sy'n diberfeddu gallu rheswm dynol, ac yn ailhawlio ffydd. Nid galluoedd rhesymol terfynedig dyn yw'r sianel i'w achub. Myn y Duw Mawr gennym ffydd, gan y diddysg a'r dysgedig.

Mae'n wir y gellid yn ymarferol ddod o hyd yn burion i gyfundrefnau sy'n cyfateb i'r cyfosodiad cyfarwydd: gosodiad+gwrthosodiad, ac fel petai wedi'i sefydlu'n ôl y gyfundrefn arbennig honno. Ond dyna beidio â gwneud cyfiawnder â ffurfiant Cyfundrefneg aeddfed ei hun fel bodolaeth ac fel offeryn dadansoddi. Gellid cytuno â Hegel yn ei ddau fersiwn o <u>Logic</u> lle y mae'n trafod parau o gysyniadau neu o egwyddorion sy'n arwyddocaol eu cyd-fodolaeth a'u gwrthdrawiad megis bod+dim, maint+ansawdd, un+llawer, hanfod+golwg, hunaniaeth+gwahaniaeth, ffurf+mater, ffurf+cynnwys, mewnol+allanol, rhyddid+rhaid. Dyma offer deall, yn ddiau. Ond bydd 'perthynas' ddeuol o'r fath yn ymddwyn yn wahaniaethol yn fynych, yn ogystal ag yn debyg, ac yn estynnol ychwanegol neu'n gydlynol. Gall hynny ddilyn cyferbyniad ansawdd.

Cymerer er enghraifft athrawiaeth 'person' o fewn Trindod ac o fewn gramadeg. A chymerer wedyn y pâr Nef ac Uffern. Yna, cymharer natur y ddwy 'gyfundrefn'. Bydd Cristion yn gweithio oddi ar yr hyn sy'n hysbys am Dduw i ddirnad ei ewyllys ar gyfer dyn a'r presenoldeb o Dduw yn y greadigaeth. Mae Hegel (*Phänomenologie des Geistes*) bob amser yn tybied mai dimdra pur yw'r canlyniad yn ôl negydd go iawn. Ac yn fras, dyma fethodoleg dybiedig Hegel a beryglai gywion L.E.. Ceisiodd L.E. ddysgu i'w fyfyrwyr feddwl yn gyfundrefnol, peth amheuthun os ydys yn

hunanfeirniadol. Allan o ffaith wrthrychol cyfundrefneg y dôi cynneddf rheswm. Dyma wrth gwrs anghenraid pob myfyriwr sydd wedi'i arfogi i astudio unrhyw waith deallol. Dyna faich adran L.E. *Cysondeb y Ffydd* yn *Traethodau Duwinyddol* 124-220, a'r bennod 'Duwinyddiaeth a Cyfundrefnaeth' yn *Hanes Duwinyddiaeth* xiv-xxi. Ond âi L.E. yn rhy bell wrth gymryd yr un patrwm yn unig yn ddelfryd sefydlog. Mae yna gyfanrwydd, ond nid unffurfiaeth.

Ymwneud â pherthynas a wna; ac y mae perthynas o fath yn fythol bresennol; ond nid yr un patrwm sy'n ffitio popeth yn fythol bresennol; ac nid yr un chwaith yw ei natur adeileddol na hanfodol bob tro. Meddai Hegel yn *Wissenschaft der Logik* (Gwyddor Rhesymeg, cyf.): 'a determinate, a finite, being is one that is in relation to an other; it is a content standing in a necessary relation to another content, to the whole world.' Felly y mae i fod ym mhob perthynas. Tybiaf mai 'diriaeth' yw'r 'content' a grybwylla yn gywir yn y fan yna. Prin yw athronwyr sy'n aros gyda'r diriaethol beth bynnag a ddywedont; ond gellir derbyn perthynas yn y pen draw i bopeth. Gwirioneddau cysyniadol, diamser a thragwyddol eu gwireddiad yw gwybodaeth am y Greadigaeth a roddwyd. Ac nid yw Hegel yn aros gyda 'Ffenomenoleg yn unig'.

I'r Cristion, yr Ymgnawdoliad sy'n tanlinellu ein hymwybod dwyfol o ddiriaeth, ac sy'n preswylio yn ein hymwybod o berthynas Naturiol a Goruwchnaturiol, y tu hwnt i'n dealltwriaeth lawn. Nid gwrthddywediad mohonynt, gwyddom hynny, eithr estyniad. Barn Hegel a materoliaeth ddialectig yw bod yna wrthddywediad ym mhopeth, ym maes cysyniadau ac ym myd pethau empiraidd. Ond yn y bôn, nid dyna farn L.E., beth bynnag a ddywedai.

Testun dadl yw 'perthynas' yn ôl Hegel ac L.E.. Rhaid bod yn glir beth sy dan sylw pan soniant am 'wrthddywediad'. Ymddengys bod y 'ddealltwriaeth' ganlynol mewn bywyd deinamig yn amlinelliad teg o'r prif gasgliad poblogaidd a fabwysiadodd L.E.. Yn ôl ei honiad, mae gosodiad cychwynnol yn annigonol ac yn esgor ar wrthddywediad. Tynnir y naill a'r llall at ei gilydd mewn *Aufhebung* (Cyfosodiad). Hanes camre ym mhroses y meddwl yw'r fethodoleg hon, a da i Gristion mewn tasg felly arddangos y cyfyngiadau a'r amodau sydd i'r fath olyniaeth. Mae'r Gwirionedd, dybiai L.E., yn gyfundrefn gyfosodol, boed mewn beirniadaeth megis mewn diwinyddiaeth. Ond yn ei chyfyngder eithaf, mae cyfundrefn gyfan hefyd yn *cymodi* gwrthddywediadau. Yn y bôn, nid oes y fath beth â gwrthddywediad bythol ym mherthynas aeddfed y gwirionedd. Ceir camddealltwriaeth, bid siŵr. Ceir hefyd estyniad a chydlyniad. Ond gall y syniad o wrthddywedyd 'pur' fod yn anfoddhaol. Felly, pan awgrymai Heracleitos 'hon ydyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr', sôn yr oedd am gwrs yr afon ar y naill law, ac am gynnwys yr afon ar y llall. Pan soniaf i am gwahanu+uno=gwahuno sy'n gwneud cyfundrefn deall, y mae gwahanu yn ymwneud â dau wrthrych ond yr uno yn ymwneud ag un gwrthrych mewn gwahanol amgylchiadau. Pan sonia L.E. am Sofraniaeth Duw+ewyllys dyn, nid gwrthddywediad mohono. Mae'r naill yn wir am Dduw a'r

llall yn wir am ddyn. Fel Hegel, y mae Engels yn haeru drosodd a thro fod dialecteg ar waith nid yn unig mewn natur eithr hefyd mewn cymdeithas a meddwl dynol. Ond y mae gan ddyn ymwybod o euogrwydd, barn foesol, a chydwybod a all ymwrthod â'r gwrthdaro naturiol.

Heb yn wybod iddo, yr oedd L.E. yn agor y fflodiartau i ddogma Lluosedd. Dyma'i bennaf condemniad. Mae Lluosedd yn y cyfnod diweddar wedi bod yn ddogma ac yn esgus arwynebol hael a hwylus i osgoi'r unplyg. Anodd i Ôl-fodernwyr amgyffred beth sydd o'i le ar *beidio* â chyflwyno unplygrwydd barn mewn cylchgrawn neu gysondeb credo mewn cynhadledd. Oni chredant oll (meddant) mewn rhyddid llafar, ym mhob pen mae piniwn? Beth sydd o'i le mewn camddefnyddio iaith? Oni ddylid ym mhob lle a phob amser gyflwyno cymysgedd, amhendantrwydd, amhenderfyniad? Onid hyn wedi'r cwbl yw'r gwirionedd diwyro? Mae bywyd yn gymhleth; anghytundeb yw'r delfryd; yna, eir ymhellach. Gosodir y safbwynt hwnnw gerbron yn anffaeledig ddiniwed. Rhaid i bob peth fod yn llwyd er mwyn dianc, fel pe bai hynny'n aeddfed, yn orfodol. 'Ceidwadol' tost yw credu fod yna'r fath beth â gwirionedd gwyn, di-fai a chyflawn. Yna, credir i'r gwrthwyneb, yn geidwadol... Peth dethol a beirniadol yw goddefgarwch iach.

Wrth gwrs, gellir cytuno bob amser â'r '*hawl*' i rywrai wrthwynebu Cristnogaeth y Beibl. Gellir cytuno ar hynny heb orfod croesawu pwlpud na chylchgrawn crefyddol sy'n cyflwyno'n ddigwestiwn dystiolaeth luosaidd unochrog. Cyfyd perygl pan fonopoleiddir gan Luosedd. Os cyflwynir celwyddau neu gymysgfa gamarweiniol dan orfod enw goddefgarwch, am genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth, rywdro neu'i gilydd, yn y diwedd mae yna farn. Y mae'n ofynnol inni wahaniaethu'n eglur rhwng 'rhyddid' tybiedig ond emosiynol o'r fath a'r rhyddid i sicrhau bod modd dweud o hyd 'un peth', mewn lle priodol, fel y soniodd Kierkegaard.

Erbyn hyn, y mae Lluosedd wedi dod yn ystrydeb feddyliol wasaidd i'n hamseroedd. Ychydig a fydd yn medru ei gwestiynu. Aeth diffyg argyhoeddiad yn rhinwedd, ac osgoi ystyried Rhagdybiaeth anochel Mawl yn ormes. Gellid derbyn Lluosedd fel allwedd i Barchusrwydd wrth beidio â thramgwyddo neb. Pan sonnir na ddylai fod gennym genadwri ddu a gwyn, y drafferth yw nad oes sôn am ddatguddiad o Dduw Llwyd, ac ni phregethir Iesu Llwyd yn y Beibl.

Heblaw ei wendid wrth ddiffinio 'Cyfundrefn', y mae L.E., er cydnabod bodolaeth *sensus divinitatis,* yn diffygio wrth beidio â gweld arwyddocâd hyn o safbwynt gras cyffredinol, moesoldeb, y cwymp, ac (i raddau) grefydd gymharol. Dyma'i ddisgrifiad o'r ffenomen: 'Yr oedd hyd yn nod y crefyddau paganaidd, yn ol graddau y dyfnder oedd ynddynt, yn cynnwys rhyw gymaint o'r elfen gyfriniol; oblegid y mae a fyno pob crefydd â rhyw Fod anweledig, yr hwn y mae y meddwl dynol yn mhob oes yn teimlo fod angen am adnabyddiaeth uwch o hono nag a ellir ei gyrhaedd trwy ymresymiad yn unig, a chymundeb agosach ag ef na chymundeb deallol neu foesol.'

Dyma osodiad bachog goleuedig, gredaf i. Mae'n agor maes mawr. Eto, yn yr ymdriniaeth

sydd ganddo â Chrefydd Gymharol (lxxxiv-xci) er mor rhagorol yw (ac yn arbennig ei drafodaeth werthfawr ar gyfriniaeth), gadewir y cyfeiliorni allweddol yn rhy ysgafn. Dyma'r 'ysgafnder' annheg a aeth yn rhemp yn y ganrif ddiwethaf, ysywaeth, yn y petruster gwleidyddol-gywir wrth iddo ddisgrifio (yn anysgolheigaidd) y priodoleddau mwyaf trawiadol mewn Bwdïaeth a Hwndïaeth er enghraifft. Un arall o ffrwythau Lluosedd. Goddrychaeth amddifad. Ac nid oes eglurhad digonol ynghylch y gwahaniaeth rhwng amgyffrediad yr ysbryd ac amgyffrediad y meddwl. Ond Gwirionedd, wrth gwrs.

A hyd yn oed wrth gyfeirio at Gyfriniaeth, ni phwysleisir gwahaniaeth clir rhwng effeithiau teimladllyd Carismatig mewn ambell 'gyfriniaeth' oddrychol a'r angen i'n diogelu rhag y ffaith nad yw pob Bod anweledig yn rhinweddol o raid. Ni'n rhwystrir chwaith rhag datgan y ffaith ogoneddus fod Cyfriniaeth Gristnogol bob amser wedi'i gwreiddio mewn Person ystyrlon, a bod yna'r fath Fod â'r Absoliwt anochel.

Er hyn oll, diolchwn i'r drefn fod Disgyrchiant ei hun yn geidwadol, ac nad yw'n rhy hwyr i fynd yn ôl dros y Lluosedd at yr Undod i bopeth a ganfuasai L.E. yng Nghrist.

# DYN Y SEFYDLIAD

Nid wyf yn gwrthwynebu'r cysyniad o 'Sefydliad' fel y cyfryw. Wedi'r cyfan, mae cyfundrefnu ffyrdd, ysgolion, ysbytai a'n Senedd, priodas a diwylliant, ac yn y blaen, i gyd ynghlwm wrth sefydlu. Yr hyn sy'n dân ar gynifer o grwyn yw Sefydliadaeth. Mewn gwlad lle y bu cymaint o drafod crefydd ymhlith pob haenen mewn cymdeithas, diddorol fel y gogwyddodd yr enwadau efengylaidd tuag at Barchusrwydd sefydliadol. Y fath bla i lawer fu gwedduster llenyddol.

Mae'r ddelwedd o Lewis Edwards yn gosod patrwm o ogwydd pwysig yn hanes ymddygiad ein llenyddiaeth enwadol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Aeth yn fonheddig o ran gwisg a gwedd, a meddwl yn ei sgil. Ni ellir ei ddychmygu yn gosod Ffidelius yn ddelfryd, fel y gwnâi Pantycelyn: (GWWP II, 136), 'fe gyfrannodd arian, ymborth, a dillad, i aneirif o rai tlodion, a theiau i rai uwch eu pennau tra faent byw yn y byd. Ac y mae'r gwir ymddifaid heddiw trwy holl wlad yr Aifft yn ei fendithio ef.' Yr wyf yn cael anhawster i weld L.E. yn archolladwy fel Howel Harris yn cynnal cyfarfod awyr agored dan gawod o gerrig, nac yn cael ei daflu o'r eglwys fel Daniel Rowland. Gwyddom fod cydymdeimlad Daniel Owen â'r gweithwyr cyffredin, a holl osgo Gwenallt yn ei ryddiaith storïol ac yn arbennig yn ei gerddi, a Waldo'r distadl a'r gostyngedig yn y carchar yn groes braidd i'r math o urddas a nodweddai L.E.. Eto, bu anurddasoldeb o'r fath erioed yn fwy na delwedd i Gristion. Bu'n rhan gynhenid o wead Cristnogaeth, gan darddu o'r Hen Destament ac o siarter Nasareth y Gwas Dioddefus gyda'i gariad at y tlodion, y gweddwon, a'r cleifion.

Sgandal yw calon yr Eglwys erioed, sgandal y Groes. Bellach, aeth anghredu'n Sefydliad.

Credaf fod sefydliadaeth feddyliol a chydymffurfiol a mwyafrif-garol yn gallu bygwth rhywbeth mor angenrheidiol i lenyddiaeth ag anghydffurfio. Adlewyrcha ryw ddiffyg hyder mewnol saff weithiau. Pam na chafwyd yng Nghymru yr un meddyliwr sylweddol o wreiddiol ym maes Diwinyddiaeth? Byth oddi ar ddyddiau Pelagius, benthyca, dynwared, mynd gyda'r llu, cefnogi rhyw ffrwd awdurdodol o'r tu allan fu arfer ein diwinyddion (hyd y cyfnod diweddaraf), sef bod yn Brydeinig. Eto, rhagorent mewn mawl, yn ddiau; a dyna, gellid dadlau, sy bwysicaf. Rywfodd, bu gwreiddioldeb syniadol yn ddychryn.

Gwn yn burion am y ddadl fod Diwinyddiaeth o faintioli yn y bôn yn wahanol i bob gwyddor a chelfyddyd arall am nad yw yn ei hanfod yn hel ar ôl 'newydd-deb' byth a hefyd, o ran greddf. Yn loywach na'r efrydiau eraill, treiddio'n ddyfnach ac yn lletach i wirionedd sefydlog *parhaol* yw her a hyfrydwch Diwinyddiaeth, a chanfod ei pherthnasoldeb mewn amgylchiadau amryfal ac eto gyson. Ond ni wna'r esgus yna mo'r tro. Ni chaiff ysgolheigion ddianc mor rhwydd rhag hawliau'r creadigol hyd yn oed drwy ddihangfa arferol i 'hanes yr eglwys'. Heblaw'r disgrifio sefydliadol, mae i'r meddwl creadigol her bob amser mewn efrydiau cyfoes. Wedi'r cwbl, mor

llydan gynhwysfawr a gwyryfol yw meysydd Gras Cyffredinol a Sancteiddhad a'u perthnasoldeb cyfoes – sef gwyddor y Greadigaeth a lleoliad cyfrifoldeb bywyd Cristion – fel y bydd mwy na digon ar ôl i'w fyfyrio o'r newydd a'i weithredu hyd dragwyddoldeb. Nid oes ffrwyn ar wreiddioldeb wrth ymgymhwyso i ymarferoldeb. Nid oes byth gaethiwed ar na threiddgarwch gwirionedd na dychymyg diwinyddol. Ond mentr haerllug weithiau yw credu o ddifri.

Hyd yn oed yn eu hamheuaeth, mor ddynwaredol fu ac yw diwinyddion Cymraeg. Sylwaf, pan fyddant yn ymuno â dadl, ychydig y byddant yn cydio yn adeiladwaith cydlynol yr egwyddorion a godir. Maent yn cyfeirio at y 'mwyafrif', ac at y derbyniol. 'Cylch bychan sy'n derbyn y safbwynt yna.' Dyna'r pren mesur i un diwinydd hoff. Taeogrwydd; gwaseidd-dra; bod yn dderbyniol i rywrai; dyna yw seicoleg Sefydliad, hyd yn oed i'r rhai sydd mewn awdurdod. Gwaseidd-dra cenedl lwfr yw. Gall hyn ddylanwadu hyd yn oed ar werthuso, nes mesur yn ôl criteria estron neu 'boblogaidd'. Clywch y taeog: (T Ll 50) '*Er cymaint yw ein heiddigedd dros anrhydedd y Cymry, yr ydym yn teimlo, pe byddai rhagoriaethau yr holl feirdd er dyddiau Taliesin wedi eu casglu ynghyd mewn un dyn, na fyddai hwnnw yn haeddu ei gystadlu â John Milton*'. Ac wedyn yn y llefaru taeogaidd diargyhoeddiad, (114) '*Nid oes neb yn teimlo mwy o anwyldeb at Gymru na ni ein hunan.*' Sylwer ar y 'ni'. (120) '*Mae yn debyg mai darfod a wna yr iaith yn raddol, er prophwydoliaeth Taliesin, ac er yr holl gynhwrf eisteddfodawl. Nid yw wiw ymladd yn erbyn Rhagluniaeth. Doethineb crefyddwyr fyddai ymbaratoi ar gyfer yr amgylchiad trwy godi addoldai Seisnig yn brydlawn yn y prif drefydd... Y gwirionedd ydyw, mai y ffordd rwyddaf i ddysgu Saesneg iddynt yw trwy eu cynnysgaethu âg archwaethu at wybodaeth yn yr iaith Gymraeg.*' (154) '*Os dywedwn fwy yn gyffredinol nag ar destun ein traethawd yn neillduol, ni fydd hyny am unwaith ond yr hyn a wneir yn yr holl gyhoeddiadau Seisnig yn barhaus.'*

Hen arferiadau meddyliol taeog o'r fath sy'n yngan pethau ysmala fel hyn. Mae'r math hwn o ymostwng, a'r dathlu gwag, yn frodyr i'w gilydd ac yn ymgysylltu â diffyg barn ymffrostiol gŵyl Ddewïaidd. Felly y cafwyd dihangfa i hanes crefydd megis i hanes llenyddiaeth.

*Rhamantiaeth*

Diddorol sylwi ar farn L.E. am y farddoniaeth a oedd yn gyfoes iddo (T.Ll.153-166). Fel y gwyddys, bu'i gyfnod ef o dan dipyn o gwmwl, am un peth am na wyddid sut i drafod barddoniaeth grefyddol. Bu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn faen tramgwydd i feirniaid ar eu hôl am fwy nag un rheswm. Gellid meddwl o safbwynt beirniaid o fath W. J. Gruffydd, a'r holl ddefaid rhamantaidd a'i dilynodd ef, mai dyma'r ganrif waethaf yn hanes barddoniaeth Gymraeg, yn waeth na'r wythfed, yn waeth na'r ail ar bymtheg. Ni fu neb yn fwy echrydus na Dewi Wyn na Dafydd Ionawr o ran dychymyg na sensitifrwydd ieithyddol. Dyna farn ein Sefydliad diweddar ninnau yn fynych.

Ac eto, dyma feirniad praffaf, mwyaf darllengar, a mwyaf deallus y ganrif honno, sef Lewis Edwards, yn hawlio ym 1852 (yn ôl T.Ll. 153) gyda'r 'ni' frenhinol: '*A'n barn ddiduedd ydyw, fod y cyfnod hwn yn rhagori ar bob un a fu o'i flaen yn hanes y genedl, ac yn rhagarwyddo oes euraidd mewn llenyddiaeth Gymreig.'* Dywed y 'beirniad' yn y fan yna lawer amdano'i hun fel beirniad a chymeriad. 'Sefydliad' sy'n defnyddio 'ein'; a hyfryd yw cael 'barn ddiduedd.' Safai gerbron canrif bietistig ar ei gwaethaf, canrif heb addysg ddiwylliedig gyfoes, yn ofni gwreiddioldeb am resymau seicolegol, yn rhamantaidd ei chefndir emosiynol, ond yn anhunanfeirniadol. Ai barnwr gwrthsefydliadol oedd syniad L.E. amdano'i hun felly? Byth bythoedd. Ynteu ai safonau gwahanol a gaed ar y pryd? Dôi math arall o ramantiaeth arall cyn bo hir gyda 'rhyddid a rheswm' Gruffydd a'i ddefaid dynwaredol rhamantaidd, a'u melltith hwythau ar lenyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond beth oedd rheswm Lewis Edwards am yr hyn y soniodd yntau amdano wrth iddo 'osod gormod o bwys ar yr hyn sydd yn dygwydd yn eu hoes hwy eu hunain'? Ai Clasuraeth?

Adolygu gwaith Dafydd Ionawr y bu L.E. ar y pryd. Ac y mae'n nodi, ar ddechrau ei ysgrif, yr hyn y mae ef yn ei gyfrif fel y prif arwyddion o fawredd llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod: 'Yn y dyddiau hyn o gyffröad llenyddol, pan y mae y wasg Gymreig yn fwy cynnyrchiol nag erioed, [*a thybied yr wyf mai'r 'cyfnodolion' a oedd ganddo mewn golwg, a'r* ***Traethodydd*** *yn goron ar y cwbl: ni allai Dafydd ap Gwilym a'i gyfnod gystadlu yn ei gyfnodolion o leiaf*], – pan y mae ein heisteddfodau wedi adgyfodi gyda nerth newydd [*prin oedd cadeiriau eisteddfodol D.ap G.*]... a phan y mae cyfansoddiadau barddonol yn ymddangos bob blwyddyn, y rhai ni fuasent yn annheilwng o'r beirdd enwocaf o amser Taliesin i lawr hyd Dewi Wyn...' [Beth yn y byd oedd ar y dyn? Onid diffyg darllen? Ni allai'i gofiannydd mwyaf hagiograffig ei achub yn hyn o wallgofrwydd, does bosib.] Syhwyrai fath o Sefydliad 'yn yr awyr'.

Wrth drafod ei waith fel meddyliwr beirniadol, sef ei gyfraniad pwysicaf i Gymru, beth yw dyfarniad y Sefydliad heddiw am feirniadaeth lenyddol o'r math hwn? Sylwer fel y mae'n cyfeirio at ddau gyfrwng mwyaf cyhoeddus y farn gyfoes lenyddol y pryd hynny a heddiw: sef yr eisteddfod a'r Wasg gyfnodol. Ond y drydedd elfen gyhoeddus a luniai'r farn gyffredin ar y pryd oedd 'capela' mewn dillad dydd Sul.

Ac eto, barnai ef bopeth o raid ar gefn ei ddarllen beirniadol diwylliedig personol ei hun. Chwilier ei egwyddorion beirniadol, ac y maent yn syndod o loyw. Dyma dyndra o fath. Diddorol yw sylwi nad annhebyg iawn yw'r criteria personol a fu gan y Lewis Edwards darllengar ag a fuasai gan feirniad yn yr ugeinfed ganrif, dyweder. Meddai ef: '*Yr elfen gyntaf sydd yn anhebgorol mewn barddoniaeth yw* ***bywyd.'*** Dichon fod 'bywyd' ychydig bach yn amwys. Ond dyna'r union fath o derm ag a ddefnyddiai Leavis... a Saunders Lewis. Term ychydig bach yn gyffredinol; beth a oedd ganddo mewn golwg? Dywedai L.E. am waith Pantycelyn a Dewi Wyn (sylwer ar y cyplysiad): *'Nis*

*gwyddom pa gyfrif i'w roddi am y bywyd hwn yn enaid y bardd ymhellach na'i fod yn deimlad cryfach na chyffredin – teimlad o brydferthwch anian, teimlad sydd yn myned i mewn i helynt dynoliaeth, yn ei mawredd a'i thrueni, ei llawenydd a'i galar, ei chariad, a'i chas, ei daioni a'i drygioni.*' Hynny yw teimlad moesol ac esthetig dynol. Ffactorau gwerthfawr.

Dyna'r '*teimladau yn gyntaf*' yn theori. ... A dyna oedd y sgrechair Rhamantaidd. Ond Dewi Wyn! Sut y gallesid dehongli'r theori yng ngŵydd rhywun felly? Rhamantiaeth oedd y Sefydliad yng nghyfnod L.E.. A Wordsworth, Coleridge, a Tennyson oedd ei arwyr, felly. Eto, trwm oedd ei anianawd, disgybledig, ceidwadol. Dyn y 'Sefydliad Capela' llenyddol oedd Edwards. Er hynny, beth bynnag oedd y pwyslais priodol iddo o safbwynt decorum a gweddustra, mewn syniadaeth Ramantaidd yr oedd yn barod i fynd gyda'r llif yn *deimladol.* Ac nid yw'r llif byth yn iawn.

'*Y rheol anffaeledig*,' meddai ef, "***yw cydfyned âg anian***"; *oblegid pa beth bynag sydd annaturiol, y mae hefyd yn anawenyddol.'* Dyma'r ail egwyddor Ramantaidd: *Natur.*

A'r drydedd egwyddor i farnu barddoniaeth? '*Y mae genym un peth i'w enwi eto, sydd yn hanfodol i fardd uchel, sef crebwyll... Y mae crebwyll yn esgyn uwchlaw pob teimladau personol, ac uwchlaw pob gwrthddrychau neillduol sydd mewn bod ... Y mae yn mynd heibio i bethau prydferth i edrych ar brydferthwch ei hun yn ddigyfrwng a diysgog*.'

Dyma'r tair egwyddor – 1.Teimlad, 2. Natur, 3. Crebwyll – annisgwyl ar y pryd i rywrai o'r werin o bosib. Caent anadlu yn y fan yna rai o'r priodoleddau iachus y mae'n dda gennym o hyd iddynt gael eu pwysleisio o'r newydd – er mor amwys – gan y Mudiad Rhamantaidd parhaol a'i etifeddion. Ni wn beth a ddywedai rhai o flaenoriaid yr Hen Gorff ar y pryd. Ond 'dyma lais y Sefydliad llenyddol,' a dyna ddigon.

Dyma hefyd y tri phrop a'i cynhaliai wrth adolygu gwaith Dafydd Ionawr. Ac os ydym am ganfod y tri hyn yng nghyd-duedd yr agwedd ddiduedd a enwyd ar ddechrau hyn o adolygiad yn awr – sef 'crefydd', yna y mae'n rhaid i ni heddiw yn anad dim oleddfu'r tri drwy'r egwyddor gyntaf: '*Dylai y bardd fod yn meddu teimlad cryfach na chyffredin, oblegid y mae efe wrth ei swydd i roddi iaith i holl deimladau y natur ddynol, ac fel offeiriad i gyflwyno mawl y greadigaeth i'w Chreawdwr.*' Dyna pam y cyfeirir at Ramantiaeth L.E..

Yn ei adolygiad o gyfieithiad Rowland Vychan (1630) o gyfrol Lewis Bayly o Gaerfyrddin (yn 1612), meddai Lewis Edwards: 'Nid oes ynddo ond ychydig neu ddim o'r hyn a elwir *athrylith.* Ofer yw chwilio o'i fewn am un ymadrodd yn taraw y meddwl gyda grym drydanol, ac yn treiddio drwy bob nwyd a chynneddf, nes gwneyd yr enaid yn danllwyth o deimlad.' Ni châi testun crefydd ddisodli 'athrylith' y dyn teimladol ym mryd y beirniad cydwybodol.

Seisnigrwydd, rhamantiaeth geidwadol, sefydliadaeth deimlad: dyna batrwm yn ymddangos.

Nid Seisnigrwydd llethol yn unig a barai i L.E. chwenychu bod yn rhan o Sefydliad aliwn

gwladol yr Eglwys. Yr oedd ei enwad, yr Hen Gorff, hefyd yn dal yn ansicr ohono'i hun fel enwad am hanner canrif arall. Caed urddas a grym gan y Wladwriaeth. Ni chwenychai fod ar yr ymylon fel y *sentars.* Yr oedd yn ymwybod â'i gwreiddiau mewn traddodiad Protestannaidd ceidwadol, un a oedd yn barchus wleidyddol. Math o barhad i Gyffes Westminster a'r Llyfr Gweddi oeddent, ond bod eu crediniaeth o ddifri, ac yn rhagori ar baraffernalia allanol. Ac eto bu'r enwad yn fwy teimladol braidd tua 1859, pryd y gwerthfawrogai'r serchiadau'n hael.

Meddyliai Lewis Edwards felly yn gelfyddydol, mewn modd Sefydliadol, nid yn unig oherwydd ei israddoldeb Prydeinig, eithr hefyd oherwydd yr israddoldeb enwadol hwn. Anglicanwr *manqué* oedd. Chwenychai i'r Hen Gorff o ran ei drefniadaeth, a'i urddas awdurdodol, fod yn Sefydliad undebol sylweddol. Gwyddai nad oedd sôn am enwadau yn y Beibl. Dim ots, roedd yna undod (nid undebau) a fawrygai gydweithrediad rhwng eglwysi hyd yr eithaf, er na chymeradwyai'r Beibl byth enwadau sefydledig trefnus. Un arall o'r dyfeisiau dyn-ganolog oedd enwadu mae'n wir, ond nis gwaharddwyd. Ond trefn oedd a drawai Lewis Edwards i'r botwm. Corfforwyd Trefnyddion Calfinaidd gystal â neb o ran trefn ysbrydol a gweinyddol. Dôi enwadaeth felly'n rhan o'i *psyche* sefydliadol. Ac fe'i sefydlwyd iddo yn deimlad o fath, fel y gwyddai Emrys ap Iwan.

Adlewyrchid hyn o ansawdd ym marhad llenyddol yr Eglwys Anglicanaidd drwy'r canrifoedd Cymraeg-Seisnig gyda'i thraddodiad cyfieithu, a'i 'hawyrgylch' bondigrybwyll, gan ymdeimlad o dreftadaeth a gâi yng nghynhysgaeth ryddiaith ei gyfnod. Canys cyfieithu fu ei champ yn ddiau: cyfieithiad o enwad oedd mewn rhai ffyrdd, er mor anweddus o wreiddiol oedd Calfiniaeth + Methodistiaeth yng ngolwg rhywrai. Cyfieithu dethol yn ei llenyddiaeth a gaed ynghynt a gefnogai iaith werinol ddiBrifysgol i ogwyddo at fawreddogrwydd aruchel yn yr ymateb i arddull ac i urddas mewn Sefydliadaeth Brydeinig. Rhoddai ffurfioldeb a thraddodiadaeth i L.E. sefydliad heb iddo gefnu ar ei Wrthbabyddiaeth braidd yn anhunanfeirniadol (93-112).

Tybiaf fod L.E. at ei gilydd wedi cael cryn anhawster i drafod llyfrau seciwlaraidd neu lyfrau syniadol y tu allan i'r traddodiad Cristnogol, heb eu gwyrdroi fel gyda Goethe. Pan fo'n wynebu llyfrau o fewn y traddodiad Cristnogol, y mae ei synnwyr didoli yn effro, a'i allu fel arfer i weld i graidd eu cyfraniad i'r gynhaliaeth neu i'r dirywiad yn bur amheuthun.

Yn ei ysgrif ar *Ymarfer o Dduwioldeb* Bayly (cyf. Rowland Vychan), mae'r didoli craff a'r treiddio i wendid athrawiaethol yn dangos yn union beth a ddigwyddodd i Anglicaniaeth yng Nghymru (a'n llenyddiaeth gyfieithiedig) yn yr ail ganrif ar bymrheg. Yr oedd cyfieithu, fel y gwelsom, yn cydredeg â Sefydliadaeth ddiwinyddol, wrth gwrs. Ond yn y fan hon y mae L.E. yn ymatal rhag ildio'i le yn gyfan gwbl i feddwl y cyfieithydd o'r ail ganrif ar bymtheg. Ac ar y naill law, gwelai ragoriaeth y cyfrolau Cymraeg gwreiddiol *Hanes y Ffydd* Charles Edwards a *Llyfr y Tri Aderyn* Morgan Llwyd. Edmygai hefyd *Yr Ymarfer o Dduwioldeb,* gan ddirnad bod hyn yn well na

*Dilyniad Iesu Grist* gan Thomas à Kempis (dyfarniad trwyadl annheg, yn fy marn i, ar un o'n cyfieithiadau hyfrytaf) a *Holl Ddyledswydd Dyn,* a *Rheol Buchedd Sanctaidd* gan Jeremy Taylor. Ond y rheswm am y fath ddyfarniad oedd marweidd-dra Cristnogaeth y ddau ffurfiol olaf. Effeithiai hynny ar arddull y llyfrau hyn, ar eu teimlad ac ar dreiddgarwch eu deall.

Gyda llyfrau crefyddol felly yr oedd L.E. yn gartrefol. Ond gyda Kant, Goethe, a Milton fe'i hanalluogwyd rywsut gan ddau Sefydliad arall: sefydliad y byd deallol awdurdodol a sefydliad y byd pietistig. Rhaid cofio bob amser ei ddiffyg gwerthfawrogiad o Ras Cyffredinol hefyd. Gyda'i feirniadaeth ar Thomas à Kempis, mae'i Sefydliadaeth Wrthbabyddol adnabyddus yn tagu barn hefyd ac yn ei arwain at gasgliadau gau. Dywed am À Kempis nad oedd ei grefydd fawr amgen na moesoldeb neu ffurfioldeb, ac nad oedd weddi iddo yn ddim amgen na phreneidd-dra. Hynny a ddisgwyliai ef gan Babydd. Ond yr oedd yr À Kempis go iawn yn ei oes yn byw bywyd o weddi, ddydd a nos, yn awyddus i bwysleisio profiad mewnol dwfn ysbrydol, ac ymarfer ag ufudd-dod i'r Beibl. Ni pherthynai i'r Sefydliad enwadol yn y ffordd a ragdybiai L.E.. Mae *Dilyniad Iesu Grist* mor loyw (a thybiaf mai cyfieithiad W.M. 1723 y cyfeiriai ato, nid 1684) fel y mae'n rhoi'r argraff i mi nad oedd L.E. wedi darllen cyfrol hyfryd À Kempis o gwbl, neu os gwnaeth, fod y Sefydliad wedi'i ddallu. Dywed Elfed am y cyfieithydd: 'y Cymreigydd medrus hwn, – na phetruswn ei osod yn yr un dosbarth â'i gydoeswyr Elis Wyn o Lasynys a Theophilus Evans': o du'r arddull, ni allwn lai na chytuno ag ef y tro hwn i'r carn. Ac o du'r cynnwys, tybiaf fod L.E. wedi camddarllen.

*Ansawdd Mawreddogrwydd*

Anodd iawn yw dirnad sut y gallai neb sy'n berchen ar y mymryn lleiaf o chwaeth ac o amgyffrediad llenyddol ymateb i *Goll Gwynfa* William Owen Pughe fel y gwnâi Lewis Edwards: '*Gellid meddwl mai yn lled debyg i hyn, er nad yn hollol yr un fath, y buasai y gwaith yn dyfod o law Milton ei hun pe buasai yn ei ysgrifenu yn yr iaith Gymraeg.*' Defnyddiai ymadroddion fel hyn i'w ganmol: '*Mae cyfieithiad Dr. Pughe yn y fan yna, fel mewn miloedd o fanau eraill bron yn berffaith*'...'*Mae y cyfieithiad yma, hyd y medrwn ni weld, yn berffaith ddifai...*' Gwyn y gwêl y frân..

Does dim dwywaith gennyf i mai'r unig reswm dros farnu fel hyn oedd ei safon o fawreddogrwydd neu arucheledd. Medrai Lewis Edwards mewn man arall nodi'n burion wendidau Pughe: '*Ni ddygwyddodd i ni erioed gyfarfod â neb a fedrai hysbysu pa le y cafodd yr athraw hybarch ei Gymraeg. Y mae yn ddilys mai nid gan ei fam anrhydeddus yn Sir Feirionydd... Y mae ei gystrawen yn anghymreigaidd... Na lwfrhaed y Cymro anghyfarwydd; ac fe ddaw cyn hir yn alluog i'w ddarllen gyda rhwyddineb a hyfrydwch.*'

'Mawreddus' yw'r ansoddair canmoliaethus a ddefnyddiai L.E. amdano. Sylwer yn arbennig ar y 'ni' frenhinol: '*Nid oes neb yn teimlo mwy o anwyldeb at Gymru na ni ein hunain. Cymru yw*

*gwlad ein henafiaid; ac yn ei llwch hi y dymunwn fod ein llwch ninnau yn gorphwys hyd foreu yr adgyfodiad.'*

Chwarae teg iddo; a diau fod ei frolio achlysurol yn wedd arall ar y cyfiawnhad yn wyneb beirniadaeth neu 'erledigaeth': '*Dyna yr hen reswm a arferwyd gan erlidwyr ym mhob oes. Ei sylwedd ydyw, "Fel hyn yr wyf fi yn barnu, ac y mae gennyf fi hawl i farnu drosot ti, ac os wyt ti yn dyweyd yn wahanol, yr wyt yn dyweyd yn erbyn dy gydwybod, ac y mae cadwraeth dy gydwybod di wedi ymddiried i mi, ac am hyny, mi ddylwn dy gosbi." Ar yr un pryd, dylid cofio mai ychydig iawn yn yr oes hono oedd yn deall dim am natur rhyddid crefyddol. Nid oes gan un blaid lawer o le i ogan eraill yn y mater hwn. Wrth edrych ar yr honiadau a wneir weithiau, gellid meddwl nad oes neb, oddigerth y* ***Traethodydd****, yn darllen y ddwy ochr i'r darllen.'*

Roedd angen 'ni' i wneud peth felly. Doedd hyd yn oed y fi fawr ddim yn ddigon.

Gwiw cofio cymhlethrwydd y *psyche* pietistig.

Dichon fod ei barodrwydd dwfn neu'i anallu dyfnach i ddirnad neu i ymdopi â Seciwlariaeth yn faen tramgwydd aruthr, neu ei barodrwydd petrus i gydredeg â hi neu ei fethiant i wybod beth i'w wneud â hi, a hithau yn fater a dyfodd ymhellach yn y cenedlaethau wedyn. Bu hyn eto, dybiaf i, yn siglad nad adferodd ef ohono. Yn ei safle ef, gallai hynny hefyd geisio gwneud iawn ar dro drwy iddo ymddwyn *ex cathedra.*

Beth a fagodd fawreddogrwydd o'r fath yn ei agwedd at ansawdd llenyddol? Nid mantais i lenor yw amlygrwydd mawrygus. Safle cyhoeddus i'w hunan, sef y Pysgodyn Addysgedig mawr o bwysigyn mewn pwll bach; ei hoffter naturiol ddigon o Milton (bardd peryglus fel y gwelodd Leavis); y syniad am bellter rhamantaidd aruchel y bardd-broffwyd eiconig; y bachgen bach o Gapel Bangor wedi bod yng Nghaeredin; y taeogrwydd Cymreig gerbron imperialaeth fawrhydig Lloegr. A beth a wnâi'r mawreddogrwydd hwn oll iddo mewn beirniadaeth lenyddol? Methodd â bod yn grwn. Yn achos y beirniad thematig a beirniad cofiannol, mae'n bur anodd weithiau osgoi ambell wendid go fawr oni bai'i gydymdeimlad celfyddydol yn 'grwn' yn gyntaf. Ymyrra'r thema o fawredd, neu'r taeogrwydd i'r Sefydliad. Ac os nad yw'r beirniad yn effro'n synhwyrus ac yn ieithyddol ddychmyglon yn sylfaenol, bydd yn llithro i ryw safiad allanol anostyngedig.

*Rhodres ei arddull*

Gwyliwn rhag gormodiaith. Mawreddus neu beidio, yr oedd L.E. yn ymwybodol ddigon o'r cyferbyniad yn ei oes rhwng arddullegwyr y syml, yr ysgafn, a'r llafar ar y naill law, a'r trwm, amlsillafog, ac amlgymalog ar yr ochr arall: T.Ll, 660, *Un fendith sydd yn deillio oddiwrth wir ysgolheigdod yw dysgu ysgrifenu yn ddirodres...Canfyddir yr ysgolhaig yn symledd destlus a phrydferth yr ymadroddion. Y mae yr iaith mor loew, fel nad yw un amser yn tynu ein sylw oddiwrth*

*y meddwl.* 662, *Rhaid i ni ddywedyd hefyd ein bod yn dra hoff o frawddegau hirion; os byddant, fel y maent yn ysgrifeniadau Hooker a Taylor, ac fel y maent yn y dyfyniad uchod [gan Thirlwall] yn llawn o feddyliau. Y maent nid yn unig yn fwy cynnwysfawr; ond yn fwy difyr i'w darllen, na'r brawddegau byrgam, byranadl, sydd yn awr mewn arferiad cyffredin.* 667, *Y mae Eben Fardd yn meddu cryfach crebwyll [nag Ieuan Glan Geirionydd], a chredwn yn ddiragrith mai ei bryddest ef yw y cyfansoddiad mwyaf mawreddus erioed yn yr iaith Gymraeg.* 686, *Digon tebyg fod ein cariad at symlrwydd yn ein cario i eithafion.* O ran theori, ymwybyddai ag arwyddocâd y bach.

Gwelsom eisoes ym mhennod gyntaf yr adran hon, ar Lewis Edwards, sut y gallai'i arddull fod yn gartrefol ac yn naturiol. Dymunai'n dda, yn ddiau; ac nid bwriadus ond greddfol er ei waethaf oedd rhodres ambell rediad ganddo. 'Pompous' fyddai'r disgrifiad priodol ar gyfer y mawreddogrwydd hwnnw. (T Ll 34) *Yn mhen rhai blynyddau wedi i ni agor ein llygaid ar y byd llëenyddol, cododd awydd cryf ynom am ddyfod yn gydnabyddus â'r awdur hyglod hwn.* Ambell dro teimlai ef mai fel hyn y dylai Sefydliadaeth lefaru yn ei holl falchder: 33 *Rhai chwannog iawn i feirniadu yw y dosbarth cwacyddol; ac ni ryfeddem un tipyn pe clywem fod rhai o honynt yn ceisio pigo gwallau hyd yn oed yn y* ***Traethodydd,***

*Pawb a'i cenfydd o bydd bai*
*A bawddyn,* ***lle ni byddai.***

Rhaid i'r Sefydliad hefyd gael ei haeddiant.

GOLYGYDD Y TRAETHODYDD

*Ionawr 1845 – diwedd 1854*

Catholig oedd diffiniad Lewis Edwards o lenyddiaeth. Yr oedd o leiaf yn fwy catholig – o ran llenddull a phwnc – na llawer yn ei amser. Wrth gwrs, yr oedd i Gyfnodolion felly le canolog yn ei fryd fel y tystiai'i ysgrif 'Cyhoeddiadau Cyfnodol y Cymry', lle y bu bwgan Banquo y *Traethodydd* wrth reswm yn hawntio yn y cefndir. Yn ei ddwy ysgrif 'Llenyddiaeth a Gwyddiant' a 'Rhesymeg' fe welwn y pwyslais ar Athroniaeth a Hanes fel llenyddiaeth. Ac wrth gwrs, y mae'r beirdd Eisteddfodol a'r Emynwyr yn cael lle canolog ganddo yn ogystal â 'Shakespere a'r Cymry' a 'Goethe'. Ond Diwinyddiaeth, yn wahanol i'n chwaeth cyfoes ni heddiw, efallai sy'n cael ei chyfrif ganddo yn flaenaf grym mewn llenyddiaeth Gymraeg. Dyna'i fath o Gatholigrwydd.

Mae ei Gatholigrwydd chwaeth ac egni yn cael eu hamlygu yn ei bolisi ar gyfer cynnwys y *Traethodydd.* Ac nid 'hap a damwain' oedd ei bolisi ef. Ceisiai gomisiynu erthyglau pendant; a sylweddolai oni bai ei fod yn gwneud hyn, byddai cyfranwyr yn rhedeg i rigol, neu'n diogi heb anogaeth. Yn y rhagddywediad a soniai am y Rhifyn Cyntaf erioed, fe hysbysebwyd am y *Traethodydd* yn y *Drysorfa* fel hyn:

*'Bydd ynddo draethodau ar* ***Dduwinyddiaeth a Gwybodaeth Gyffredinol, Adolygiadau diduedd*** [sylwer ar y gair] ***a manwl ar Lyfrau Cymreig a Seisnig, Bywgraffiadau Enwogion hen a diweddar, Sylwadau ar yr Amserau, Darnau Barddonol, &c. Ceir ynddo olwg gryno ar Lyfrau o bwys yn mysg y Saeson, fel ag i alluogi y Cymro uniaith i wybod am eu nodwedd a'u cynnwysiad; a bwriedir rhoddi ynddo hanesyddiaeth am sefyllfa bresennol holl Eglwysi Protestanaidd Ewrop.***'

Casglodd o'i gwmpas felly dîm galluog uchelgeisiol, Roger Edwards, Morris Davies, ac Eben Fardd. Anogai a chyfarwyddai'n fanwl. Er enghraifft, amlinellai i Morris Davies yn benodol ei ddymuniad i gael ganddo gyfres ar Hanes Enwogion Cymru: gweinidogion bron i gyd wrth gwrs, gyda Lewis Môn yn unig eithriad. Cynhwysai 20 o enwau. Fis wedyn, ysgrifennai at Eben Fardd yn gofyn iddo '*anfon Ysgrif ar un o'r Beirdd i bob Rhifyn o'r* ***Traethodydd****, cyffelyb i hono ar Ddewi Wyn. Ac yn mhen tair neu bedair blynedd gellid casglu y Traethodau hyn at eu gilydd yn un llyfr.*' Awgrymai iddo ddechrau gydag ysgrifau ar Ddafydd Ddu ac R. ap Gwilym Ddu.

Wrth gwrs, yr oedd gan Lewis Edwards ei ogwydd, sydd ychydig yn ecsentrig bellach. Nid ef yw'r unig un sydd wedi cael anhawster i gymathu llenyddiaeth â diwinyddiaeth. Mae yna gymaint o weddau ar y broblem honno nes bod angen bob amser gadw'r prif glymau dyrys mewn golwg. Soniaf am ddwy wedd berthnasol yn achos Lewis Edwards.

Yn gyntaf, yr anhawster hynafol i feirniadu'r 'emyn' fel llenyddiaeth *o fewn* llenyddiaeth. Y

mynachod oedd arloeswyr yr Emyn yn yr oesoedd canol. Y clercod yn y côr oedd biau'r gân. Yn ddiweddarach, gydag amryw Biwritaniaid, caed anesmwythyd i ganu dim heblaw salmau oherwydd gwrthryfel deunyddiol reddfol, a dysgeidiaeth y darllenwyr crediniol yn erbyn y ffurf. Canu gwerin oedd y byd poblogaidd naturiol emynyddol yn y cyfnod Methodistaidd. Ond arhosodd 'gwerin' ac 'eglwys' boblogaidd ar wahân i raddau yn yr oesoedd canol oherwydd y rhaniad rhwng llys ac eglwys, peth a godai gyda'r rhai a sgrifennai lenddull 'Hanes' hefyd, a'r detholiad nawdd i lenydda o'r fath. Cais beirniaid diweddar alltudio barddoniaeth grefyddol, os oes modd, am resymau proselytaidd. Llwyddodd beirniaid parchus Saesneg felly i'w neilltuo'n o lew drwy gladdu pen yn y tywod, er bod rhai beirdd tra dawnus ymhlith y cynhyrchwyr, fel Cowper, Newton, a Charles Wesley. Yr oedd Cowper yn eithriad a ganiatawyd i'n sylw, mae'n debyg, oherwydd bod ei gerddi cynnar-ramantaidd personol a domestig boblogaidd yn gyd-destun pynciol i'r emynau. Ond bydd Cristnogaeth yn anesmwytho beirniaid am resymau 'gwreiddiol' iawn. Ac y mae'r deall yn torri i lawr oherwydd methiant penderfynol gan seciwlarwyr i gymryd y 'goruwchnaturiol' diwinyddol o ddifri fel cynnwys deallol *posibl*. Mae'n anesmwytho'r deallol onid ar lefel boblogaidd. Ac y mae gormod o emynwyr eu hunain weithiau yn esgeulus ynghylch gofynion gofal celfyddyd. Apelir yn yr emyn at yr un gynulleidfa boblogaidd o hyd, hyd yn oed pan geir pobl addysgedig yn eu plith. Mentra rhai rigymu, ailadrodd ffwrdd â hi, a chynnwys ymadroddion ystrydebol 'rhyddieithol'. Yr oedd 'ffenomen Pantycelyn' a'i fawredd diosgoi a chanolog mewn llenyddiaeth Gymraeg yn gorfodi Lewis Edwards i'w wynebu fel 'bardd' ac nid fel 'emynydd yn unig'. Meddai (TCE 289): '*The publication of his hymns seems to have formed the most important era in the history of Welsh literature.'* Dyma osodiad nodedig yn hanes beirniadaeth Gymraeg. Gosodiad yw gan ŵr anwybodus am bopeth bron cyn y Piwritaniaid. Eto, hyd yn oed yn ein cyfnod seciwlar ni, i'r sawl sy'n astudio cyfanrwydd barddoniaeth Gymraeg yn weddol waraidd, y mae nerth Pantycelyn (er nad ei ddealluswydd mawr ysywaeth) yn ennill cydnabyddiaeth weddol gytbwys. Meddai L. Edwards (TCE 212): '*It is true that you will not meet in him with passages so sublime as many in Shakespeare and Milton. But neither will you find them in Homer. The proper attitude of both is* ***fire – intense fire,*** *which kindles irresistibly the feelings of every reader.'* Sylw gobeithiol heddiw efallai. Gall y symlder hefyd, neu'r math o symlder ysbrydol, fod yn dramgwydd i feirniad modern.

Ond yn ail, roedd bai ar y beirdd. Cyfrifai'r beirdd eu hun fod ganddynt Sefydliad (yr Eisteddfod) ar wahân, a chymuned ar wahân lle y teimlai Lewis Edwards ei hun, er yn ddieithr, fod ganddo gynulleidfa ychwanegol i'r *Traethodydd* ym maes gwerthiant, a chymeriad gwahanol i'r cyhoeddiad o ran diddordeb cynnwys yn ei sgil. Yr oedd yr osgo a alwai ef (a'r beirdd) yn 'sublime', sef y mawreddus (sy'n ymylu ar rodres), yn dir cyffredin ochr yn ochr â naturioldeb teimlad eithafol. Daeth yr egwyddorion hynny o ganlyniad yn faen prawf ar gyfer prisio barddoniaeth.

Ar y pryd, dewisodd L.E. ddyn – Eben Fardd – i arwain barddoniaeth y *Traethodydd.* Un o'r gwŷr mwyaf niwrotig ac obsesif yng Nghymru oedd ef a ddioddefai iselder ysbryd hyd at fwynhad. Nid oedd deallusrwydd beirniadol y beirdd i'w gymharu â chymheiriaid diwinyddol Lewis Edwards – Roger Edwards, Owen Thomas, a Morris Davies. Ond roedd beirdd yn ddarllenwyr. Ac er bod gan L.E. ddiddordeb didwyll ynddynt, gwyddai o safbwynt amrywiaeth cynnwys y cylchgrawn y dygai'r beirdd ddiddordeb darllenadwy i batrwm y deunydd. Oherwydd yr Eisteddfod, câi'r beirdd uchaf-eu-cloch fel y gwyddys eu gwthio'n fwyfwy i gyfeiriad rhodres, a châi 'beirniaid' yr Eisteddfod lwyfan i'w sylwadau arwynebol, tra oedd y mwyaf gwylaidd a neilltuedig a'r galluocaf ohonynt megis Ann Griffiths, Robert ap Gwilym Ddu, a Golyddan (ar ryw olwg) am guddio mewn corneli tawel. Eto, gwnâi Lewis Edwards yntau dipyn o ddelwedd gyhoeddus o wyleidd-dra yn rhai o'i lythyrau wrth geisio ricriwtio cyfranwyr i'r *Traethodydd;* ac fe'i hadwaenai Roger Edwards y peth 'fel ffug wylder' (TCE 251).

'Nid wyf yn meddwl y gellid barnu ar y naill ochr a'r llall' oedd un o ebychiadau mentrus diduedd L.E.. Gwleidyddiaeth a pholisi sefydledig oedd y tu ôl iddo, ac anodd gwybod faint o drwch a oedd i rinwedd pethau felly. Golygydd da oedd, arweinydd medrus. Eto, byddaf yn synied bod darllen rhai o'r llythyrau a sgrifennai ynghylch y beirdd yn dwyn i gof ffenomen Wikileaks o 2010 ymlaen pryd yr oedd y negeseuon cudd ymhlith gwleidyddion at eu diplomatiaid yn fynych yn gwbl wahanol i'r llais swyddogol a chyhoeddus a geid rhwng eu gwladwriaethau. Ond deuai peth wmbredd i'r fei. Felly L. E. gyda'r beirdd. Yr oedd yn gallu bod yn weniaith i gyd druan mewn llythyrau at y beirdd eu hunain, ond yn bur wahanol ei bwyslais wrth eu trafod gyda'i gyd-ddiwinyddion Owen Thomas a Roger Edwards.

Mae cymhariaeth â diplomatiaeth wleidyddol yn gweddu hefyd i'r 'brolio etholiad' a glywir gan L. E. yn fynych ddigon. Er enghraifft, TCE 288, *'You ought to know that the* ***Traethodydd*** *is the highest court in the realm of Welsh Literature, and no man with an atom of sense in his head would ever dream of appealing when the* ***Traethodydd*** *has once pronounced its judgement on his case.'* Yn y fan yna ceir ar y naill law ei dafod yn ei foch, ac ar y llall yr ymffrostio diniwed a geir gan wleidyddion sy'n ceisio pleidleisiau.

I ddarllenwyr yr unfed ganrif ar hugain, tipyn o ddirgelwch yw darganfod bod cryn swm o ohebiaeth Lewis Edwards, Roger Edwards (gweinidog Daniel Owen, ac yntau'i hun yn un o nofelwyr pwysicaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg) ac Owen Thomas (taid Saunders Lewis, a phrif gofiannydd y ganrif) pan sgrifennent at ei gilydd ar glawr mewn Saesneg cysurus. Ac felly Eben Fardd hefyd, ond gyda pheth o hynny'n ddwyieithog. Felly y bu hi, yn wir, gyda'r Morrisiaid ynghynt, bid siŵr, a llawer o ohebiaeth a dyddiaduron Howell Harris, gyda'r cwbl lot wrth gwrs yn mynegi teyrngarwch a chariad ac edmygedd amddiffynnol eithaf tuag at eu hiaith a'u cenedl eu hun.

Sylwer yn yr hysbyseb a roddai yn y *Drysorfa*, fel y pwysleisiai lenyddiaeth Saesneg ar draul llenyddiaeth Gymraeg. Beth wyddai ef am Feirdd yr Uchelwyr? Beth y dymunai'i wybod? Cafwyd llawer o esboniadau am hyn wedyn. Yn achos ambell un yn y cyfnod, cyfle oedd ysgrifennu llythyrau Saesneg i ymarfer â'r iaith honno, ymarferiad addysgol fel petai. I eraill, adlewyrchu a wnâi'r addysg ffurfiol Saesneg a geid fel trefn Sefydliadol mewn addysg swyddogol ers y Ddeddf Uno, mewn ysgolion gramadeg ac eglwysig. Yn fwy sylfaenol, cynrychiolai'r ymdeimlad llethol o waseidd-dra cwbl isymwybodol a difeddwl breifat, heb ystyried bod y fframwaith diwylliannol hwnnw hefyd yn adlewyrchu israddoldeb seicolegol cyrhaeddbell abnormal... Teimladrwydd a geid eto, beth bynnag.

Yr unig beth gwir ogleisiol ynglŷn â'r safle neu'r sefyllfa hon yw ymholi am yr eithriadau. Pam yn y byd y mae hwn yn y fan hon neu fan arall yn troi i'r Gymraeg (o bopeth)? Mae'n gwestiwn difyr, ond yn ysgogi dryswch weithiau ymhlith y sefydliad.

Drwy gydol deng mlynedd ei olygyddiaeth, ei uchelgais 'ddiduedd' oedd bod mor anenwadol ag y gallai dyn gweddol feidrol fod. Dymunai a llwyddai i apelio at Eglwyswyr Anglicanaidd canol y ffordd a'r rhai efengylaidd; ond safai'n gyndyn yn erbyn Mudiad Rhydychen (neu'r Puseyaid Sagrafennol) ar yr adain dde. Ceisiai apelio at yr Anghydffurfwyr oll fel cylchgrawn cenedlaethol, gyda chryn oddefgarwch at y Sentars. Cyfaddawdwr ydoedd o ran anianawd. Ac yr oedd am i'r *Traethodydd* fod yn gylchgrawn a lefarai ar ran meddylwyr mwyaf solet Cymru. A diau iddo lwyddo. Gwelir bod ei barodrwydd i gyfaddawdu yn debyg i raddau i'r unfed ganrif ar hugain gan ei fod (TCE 328) yn ystyried y gallai agor ei ddrysau i gyfraniad gan bron pob sect a phlaid, ond i'r Cylchgrawn lwyddo o ran cylchrediad. Gallai hyn ymddangos yn hynod debyg i blaid wleidyddol yn y Senedd yn barod i aberthu'i hegwyddorion a'i haddewidion a'i pholisi oll mewn clymblaid, boed yn Llundain neu yng Nghaerdydd, ar yr amod ei bod yn cael aros mewn grym.

Ond yr hyn sy'n drawiadol i mi yw bod prifathro Coleg Diwinyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi cael ei ysgogi i ystyried 'polisi' cylchgrawn (neu unrhyw fath o bolisi), ac i batrymu cyhoeddiad rheolaidd deallol mewn iaith leiafrifol led ddirmygus yn Ewrob. Roedd y gŵr Sefydliadol hwnnw wedi mynd ati i gystadlu, nid yn unig o fewn Cymru, ond yr oedd yn ei fryd ei hun a'i ddelfryd i gystadlu'n bersonol ac yn ddeallol â'r cylchgronau Saesneg dros y ffin lle y ceid cyfartaledd aruthrol o bobl uwch-addysgedig bwerus. Cymdeithas o ddeallusion iddo ef oedd y *Traethodydd* fel hyd heddiw, o fewn cymdeithas ryngwladol agored. Echel i feddwl praffaf yr holl genedl oedd; fel y mae heddiw, felly y bu yn oes ei darddiad yn darparu llwyfan i'r deallol, fel y caiff y genedl fechan hon ymddwyn fel cenedl fawr, a gweddnewid ei phobl o'r herwydd.

Erbyn heddiw ac ers canrif, bu'r Farddoniaeth a'r rhan fwyaf o Ryddiaith y bedwaredd ganrif ar bymtheg o dan gabl gan y Sefydliad beirniadol. Ac wrth gwrs, ystrydeb yw'r agwedd honno

bellach. Gellid yn sicr gytuno bod y ddelwedd o farddoniaeth y ganrif honno'n drwm ac yn ddidlysni, yn ddiawen ac yn haniaethus, fel y bo'r realiti gynddrwg â'r ystrydeb. Ond gwahanol fu'r ymateb i Lewis Edwards. Didolwyd ef gan y Sefydliad i'w gyfrif yn baragón. Weithiau, teimlid yn analluog i ddod i unrhyw farn gytbwys amdano. Ac efallai ei fod yn haeddu ystyriaeth fwy credadwy, gan rywrai sy'n medru adnabod ei ddiffygion yn ogystal â'i rinweddau diamheuol.

*Perthynas L.E. ac Eben Fardd*

Carwn fanylu ychydig nawr ar un o'i broblemau ymarferol. Gwyddai Lewis Edwards fod yn rhaid maldodi amryw o'i gyfranwyr gan mor anodd oedd cael dŵr allan o ambell garreg. Gellid enghreifftio Eben Fardd, a faldodai ef hyd at ymylon digrifwch (TCE 228): *' Let me beg of you to write a splendid Article for the second No... We are most anxious about the poetry, as we are rather deficient in this department. We depend almost entirely upon you...'* 230: *Let me thank you most sincerely for the beautiful lines you were so kind as to write for the* ***Traethodydd.*** *They appear to me eminently beautiful; but it struck me, in reading "Cwyn y Dall" that perhaps I hurried you too much. They are perfectly satisfactory as they are – only if you would wish to give them a few touches, we could reserve them for the last few sheets... Let me again assure you that I am very far from finding fault with "Cwyn y Dall". My sole object is to meet your convenience in case you should wish to add any ideas, and render it still more perfect. As it is, I admire it exceedingly.'*

At Roger Edwards, ysgrifennai 236: *'I presume 'Cwyn y Dall', by E. Thomas, ought to come in also before the end, lest he should be offended.'*

Ac yn ôl llythyr at Eben ei hun (a fuasai'n ôl pob tebyg yn achwyn ynghylch ei ddyletswydd byth a hefyd i feirniadu mewn eisteddfodau lleol) 243: *'I sympathise with you most sincerely that you have been obliged to devote so much of your time to worldly avocations. But this has been the fate of great men in all ages.'* 289: *'Let me assure you once more that nothing could be further from my thoughts than to throw the slightest disrespect on any thing you wrote. I only assigned one subject for you instead of another. I do not write thus because I think you are offended, for I know you are too sensible to mind such a trivial matter, but I am anxious that I should not even* ***appear*** *to be wanting in that kindness and regard which is due to such an able contributor.'*

Lwmp o faldod o'r dechrau i'r diwedd oedd ei lythyr at Eben Fardd ar Ebr. 3, 1847 (306). Mae'n pigo'i ffordd drwy'r drain a'r ysgall gan ymddiheuro bob yn ail gam, â gormodieithu'n gywilyddus, ynghyd â mynegi ofn ynghylch peidio â moli digon. Ceid yr un fath o faldod wrth drafod ambell un o'i gydweithwyr eraill, ond gyda llai o eithafrwydd efallai. Sgrifennai at Roger Edwards, ei is-olygydd, er enghraifft, ynghylch cyfraniad gan 'Edward Matthews Article... '*The best way would be to write to him at once, pointing out the obnoxious passages, and asking his*

*permission to alter them. If this were done kindly, I am sure he would have no objection.'*

Ond Eben oedd y pencampwr yn seremonïaeth y maldod hyfedr hwn.

Efallai mai'r digwyddiad mwyaf syfrdanol – o leiaf i'r sawl nad yw'n gyfarwydd â Dyddiadur Eben – yw'r llythyr lle y mae L.E. yn cynnig arian mwy nag arfer (sef £5) i'r bardd am gael cyhoeddi'r bryddest 'Adgyfodiad'. Dyma dâl ar adeg pryd yr oedd rhifyn cyfan o'r *Traethodydd* yn costio 1s 6ch. Cododd y cynnig ddwywaith, sef i £6 yn niwedd y llythyr, gan nodi 'Should the funds of the *Traethodydd* be insufficient, I shall make up the remainder out of my own pocket.' Ac yna i £20 yn y llythyr wedyn, ac âi ymhellach drwy wneud casgliad o gyfraniadau at yr achos ymhlith ei gyfeillion. Dylid sylwi mai *£25 y flwyddyn* a gâi Lewis Edwards ei hun yn dreuliau ar gyfer golygu a threfnu'r cwbl o'r cylchgrawn ac am sgrifennu'r holl erthyglau a luniai ef ei hun, – yn fwy na neb arall.

Dywed hyn lawer am Lewis Edwards fel Golygydd, ac fel person, ac am Eben Fardd.

Yn y berthynas ryfedd hon rhwng y ddeuddyn rhwng 1844 ac 1853 pryd y dechreuai L.E. ystyried ymddiswyddo o'r olygyddiaeth, fe sgrifennodd Eben Fardd lythyr, 1853, at L.E. i gloi'r berthynas (336-337). Dywed y llythyr hwnnw lawer am ddiffyg chwaeth a diffyg synnwyr cyffredin a balchder 'swil' Eben Fardd. Dywed hefyd yn ei eiriau'i hun am gyflwr beirniadaeth lenyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac am y berthynas rhwng llenorion a'i gilydd ar y pryd. Mae Eben yn haeddu'i ddyfynnu: '*As to the **Traethodydd** I regret that it identifies itself with* [Caledfryn] *this pugnacious **censurer** of the most brilliant and transcendent geniuses Wales has produced in the present age, namely the late Revd J. Elias and Dewi Wyn... We the bards have been repeatedly complaining to each other of late that as a class we are out of favour with the **Traethodydd**, held up as dabblers in poetry, of some third or fourth merit; if this be the case with us, surely we are not the men "to raise the character of Welsh literature, or to improve the taste of our countrymen".'*

Yna, try i foliannu Dewi Wyn: *'His genius possessed a singular distinction: we see Gronwy in D. Ddu, we see D. Ddu in R. Ab G. Ddu; they are successively but reproductive models bearing much of the same stamp: but look at Dewi, all of the man in him is his **own** manhood, the rest a semi-divinity far beyond the range of the dwarfish intellects who tamper with his well-earned fame.'*

Ymbalfalu yr oedd Eben Fardd oherwydd safon ac ystyr 'arucheledd' neu 'fawreddusrwydd' (*sublimity*) ar y pryd, yn ôl pob tebyg. Doedd dim disgwyl i feidrolyn fel L.E. lywio'i fad drwy ddyfroedd mor helbulus. Ond ymbalfalu a fentrai L.E. ei hun mi dybiaf ym maes barddoniaeth oherwydd ei amgylchfyd Cymraeg er gwaethaf ei ddiffygion. Pe buasai ef yn bersonoliaeth lai mawreddog, gallasai fod wedi datblygu chwaeth a chyngor a fuasai efallai wedi cyfrannu arweiniad gofalus i'r beirdd amddifad, heb sylwi eu bod hwythau'n ferthyron i'r 'sublime'. Ymddengys fod barn L.E. am 'sublimity' wedi newid ddwywaith yn y 50au: yn gyntaf i ramantiaeth fwy teimladol

angerddol, ac yn ail i'r 'pathetig' (326). Rhaid oedd mynd i rywle. Po fwyaf y bu'n ymwneud â'r beirdd, mwyaf y dôi'n ymwybodol o'u gwendidau (TCE 330). Ac yn y diwedd, diffygiodd ei amynedd i'r pen: *'We shall not give so much room to the Poets for the future.'*

Am Eben Fardd, bu'n dipyn o enigma i Lewis Edwards, fel y mae i bawb ohonom o bosib o hyd. Ond y mae'n amlwg i mi ei fod hefyd yn enigma iddo ef ei hun. Ymddengys ei fod yn meddu ar rai galluoedd diamau – ie, hyd yn oed yn ei feirniadaeth (megis yn ei anerchiad 1855, 'Awgrymiadau ar Feirniadaeth Gymreig'), ac yn sicr yn ei emynau a'i delynegion rhamantaidd diweddar. Roedd yna berygl i'r *hype* eisteddfodol ac i'r holl fri ynghylch cystadlu, fel heddiw, gamarwain beirniad a bardd i roi llawer gormod o sylw i ffug-safonau awdlau megis 'Maes Bosworth', 'Y Flwyddyn', a phryddest fel 'Atgyfodiad', a pheidio â rhoi sylw dyladwy i'r farddoniaeth gynnil orau. 'Y cyfansoddiad mwyaf mawreddus a ymddangosodd erioed yn yr iaith Gymraeg,' meddai L.E. am yr 'Atgyfodiad' druan yn y *Traethodydd* 1851, lle y cyhoeddodd yr erthyl. A dyfynnodd Dr E.G. Millward lythyr gan L.E. at Eben: *'in sustained sublimity my belief is that it surpasses all the previous efforts of Welsh bards.'* Cafodd y gerdd o'r herwydd ddylanwad enfawr ar arwriaeth bothellog Gymraeg yn ail hanner y ganrif. Druan o ddynoliaeth.

Ond hwyrach nad oes llawer o newid heddiw ysywaeth mewn ambell Eisteddfod gyfoes o ran parodrwydd i aberthu ar allor ennill sylw. *Plus ça change.*

*[Darllen perthnasol: Cofiant L.E. gan ei fab Thomas Charles Edwards; Cofiant Roger Edwards, Cyd-olygydd 1845-1854 a Golygydd 1855-1865; Cofiant Owen Thomas, Cyd-olygydd 1855-1865]*

**JOHN MORRIS-JONES**

**Yr Iaith Lenyddol Ganonaidd**

## YR IAITH LENYDDOL GANONAIDD

Mae'n amlwg fod cywair neu 'safon' yr iaith lenyddol yn wedd esoterig ar feirniadaeth lenyddol. Ac y mae'n amlwg, yn ôl y bwlch rhwng yr iaith lafar – hyd yn oed yr iaith lafar safonol – a defodau arferol yr iaith lenyddol fod hyn yn bwnc mwy amlwg i lenyddiaeth Gymraeg nag i amryw lenyddiaethau eraill.

'Cywirdeb' oedd un o roddion pennaf Syr John Morris-Jones i Gymru. Neu un o'i fythau, o leiaf. Ond 'celwydd' oedd y myth hwn. Nid oedd yn ceisio disgrifio'r iaith fel y bu mewn llyfr nac ar lafar, yn 'gywir', mewn unrhyw gyfnod penodol. Ceisiai ddarparu iaith lenyddol 'ddiduedd' a 'safonol' i'r Gymru gyfoes. Ac yn y gyfres o ysgrifau ar Thomas Parry (y Canonwr) a fydd yn dilyn ymhellach ymlaen, rhaid sylweddoli cyfraniad yr ysgolhaig mawr hwnnw o fewn cyd-destun yr hyn a wnaeth J. Morris-Jones o'i flaen dros 'gywirdeb' yr iaith a'r meddwl. Sefydlodd Syr John ar gyfer cenhedlaeth ganonaidd Thomas Parry *batrwm o ymagweddu* at iaith a llên. Nid nod J. Morris-Jones oedd 'disgrifio'r' iaith yn unig, eithr cyflwyno 'iaith lenyddol ganonaidd'.

Nid oes ysywaeth neb erioed wedi disgrifio'r iaith lafar safonol ysgrifenedig, onid mewn rhannau. Nid yw'n tafodieithwyr ni, ysywaeth, wedi cyflawni'r swydd gymhleth ac ymarferol honno. Rwy'n cofio mynd i gyfarfod o dafodieithwyr Cymru un tro. A doedd neb yno yn siarad tafodiaith. Yr oedd pawb yno'n llefaru'r iaith lafar safonol. Ond pe gofynnid iddynt ddisgrifio'r iaith honno fel y'i ceid mewn lle felly — neu ymhlith Pwyllgorwyr Cymraeg Byw tua'r un pryd — nid wyf yn siŵr a fuasent wedi hoffi'r fath dasg 'safonol'. Ond gwyddai Syr John a Syr Ifor am yr un broblem, ac Emrys ap Iwan yntau. Dadleuai G. J. Williams mai dyna a siaradai'r beirdd wrth fynd o lys i lys. Dyna a gawn o hyd at ei gilydd gan gyflwynwyr y teledu heddiw. Gwaetha'r modd, y mae'r symudiad mawr tafodieithol a gafwyd gan ymchwilwyr yn y chwedegau a'r saithdegau wedi cilio bellach heb gyflawni'r gorchwyl ymarferol uniongyrchol o ddisgrifio'r iaith lafar safonol a fuasai mor ddefnyddiol i ymarferwyr cyhoeddus wedyn. Dogfennau hanesyddol a gafwyd. A hynny hefyd heb sôn am fodel dethol llawn wedyn ar gyfer dysgu ail iaith. Yn sicr, pan aeth Syr John ati i lunio *A Welsh Grammar* a *Welsh Syntax,* neu yn ei ymgyrch dros Orgraff go lew, ni ddisgrifiodd yntau chwaith hyd yn oed iaith lenyddol ei gyfnod ei hun. Newid honno oedd ei fwriad ef, nid ymhelaethu ynghylch safon unrhyw gyfnod nac amgylchfyd.

Beth bynnag, os 'cywirdeb' oedd sgrechair Syr John, credaf ei bod yn bwysig iawn bellach i rywun fod yn ddigon haerllug i fanylu ymhellach ychydig ar 'anghywirdeb' achlysurol yr ysgolhaig dihafal hwnnw. Hyd yn oed pan symudai o'i Ramadeg i Gerdd Dafod, o iaith i lenyddiaeth, ymataliai'i wyliadwriaeth gydwybodol rhag 'anghywirdeb'. A phriodol bob amser mewn llenyddiaeth yw wynebu cwestiwn pam ynghylch cywair 'cywir'.

Ef oedd ***Athro Iaith yr Ugeinfed Ganrif***. Darganfu a dyfeisiodd fodel ar gyfer iaith lenyddol safonol. Ac anodd bellach yw dychmygu beth a ddigwyddasai i'n llenyddiaeth heb ei arweiniad ef. Mewn rhai ffyrdd gallasai ein golwg ar yr iaith fyw fod wedi dod yn fwy bywiog hyderus a naturiol. Ni wnâi'r model a gynigiai lai na pheri inni wynebu ansefydlogrwydd, beirniadaeth, a hiraeth am ddiwygiad. Gwendid John Morris-Jones oedd iddo ildio i fodel iaith lenyddol hynafol wneud wedi'i sylfaenu ar oes aur barddoniaeth yr uchelwyr. Yn gyntaf felly, ni pherthynai i 'orau'i' oes ei hun. Yn ail, er iddo olygu y Bardd Cwsg, anwybyddodd y traddodiad rhyddiaith hyd at y cyfnod modern. Yn drydydd, methodd â dygymod â'r tueddiadau a geid yn y tafodieithoedd eisoes i ymgymhwyso i'w gilydd, i ddylanwadu ar ei gilydd, ac i gydnabod model o iaith lafar safonol y gellid ei sgrifennu. Canfyddai Edward Anwyl faterion y methodd John Morris-Jones â'u sylweddoli'n llawn. Soniai Anwyl am 'present linguistic consciousness' yr oedd Syr John wedi'i gydnabod o bryd i'w gilydd; ond er bod Anwyl yn llai o ysgolhaig na Morris-Jones, dichon y buasai Cymru ar eu hennill, pe meddasai Anwyl ar gyhyrau yr Athro o Fangor. Mae'r ffordd yn ôl i'r oes bresennol ac i safoni 'iachach', fel y geiriodd Dr Brynley Roberts y broblem, yn hir. Ymladdodd Syr John dros ei gornel. Nid oedd ganddo fawr o hunanddisgyblaeth wrth feirniadu pawb a anghytunai ag ef, hyd yn oed cyd-ysgolhaig doeth fel Anwyl. Ymddengys mai cibddellni hiwmor oedd diffyg Syr John. Ond rhesymau seicolegol amgylchiadol mebyd, anian a allai fynd heibio i'w hiwmor diamheuol, ac israddoldeb y Gymraeg a barai na allai ddeall heb sôn am werthfawrogi barn neb oll a anghytunai ag ef. Rhaid i bawb ymdopi yn ôl posibiliadau'i oes ei hun. Pe cawsid llenor neu feirniad llenyddol meddylgar tebyg iddo o ran gallu a dylanwad ymhlith tafodieithegwyr y 70au, tybed a fuasent wedi cilio i'r cysgodion erbyn hyn heb wynebu'n uniongyrchol y dasg amlwg, anghenus, ac ymarferol a oedd o'u blaenau? Pe cawsid ieithydd theoretig, ymarferol, a mwy gweledigaethus, buasai maes ieithyddiaeth yng Nghymru yn fwy parhaol a thrwyadl, a beirniadaeth yn fwy myfyrgar. Sonnid weithiau am safon iaith y Beibl, ond ni chymerai Syr John byth mo'r arweiniad yna.

Syr John hefyd oedd ***Canonwr Cerdd Dafod***. Ef a osododd brif batrwm gwaith ysgolheigaidd ei gyfnod. Erys ei ddylanwad heddiw. Er na ddilynwyd fawr ar y gwaith a wnaeth ef mewn beirniadaeth lenyddol ganol-y-ffordd, fe ddangosodd yn *Cerdd Dafod* sut y gallasai beirniadaeth Gymraeg gysefin ddatblygu. Ac yr oedd ganddo'r bersonoliaeth lethol a'r safle awdurdodol i ymaflyd yng ngwar y ganrif a'i hysgwyd yn ddidrugaredd. I raddau, gadawodd y bersonoliaeth angenrheidiol honno ei ôl ar bawb ohonom. Ond am ddwy genhedlaeth, ni threiddiwyd fawr ymhellach i Gerdd Dafod. Yn y gyfrol *Cerdd Dafod* ceir astudiaeth y gall ei 'sylfeini' a'i 'darganfyddiadau' aros i raddau yn ddi-sigl; a bu ei gyfraniad yn gwbl enfawr. Ond bellach, o safbwynt ailgydio yn ei draddodiad yn ysgolheigaidd, a hyd yn oed sylwi ar natur yr hyn a wnaeth, priodol hefyd ochr yn ochr â'i gampau yw nodi ym mha le yr oedd yn cloffi.

Bid a fo am hynny, credaf fod ei ddau ddarganfyddiad mawr mewn Cerdd Dafod, *yn gyntaf ynglŷn â'r rhagacen ac yn ail ynglŷn â'r trefniant rheoledig i'r sillafau diacen*, yn faterion llawer pwysicach nag a gydnabyddir yn gyffredin. Yma y canfyddir athrylith y beirniad hwn; a dichon fod y darganfyddiad wedi dechrau yn ei ddyddiau cynnar. Sonia mewn llythyr at Gwenogvryn am ddyddiau'i febyd: 'I learnt the cynghanedd by ear from the poetry I read, [hynny yw, nid gan unrhyw athrawon gwledig ym Môn], and discovered for myself the rule of accentuation ... and was confirmed in this when I came to study the subject in J.D. Rhys and Simwnt Fychan .... my teachers are the two writers I have named and my exemplars Tudur Aled and William Lleyn.' (THSC 68-72) Yn *Cerdd Dafod* dangosai am y tro cyntaf mai'r acen a oedd yn frenhines ar y Gynghanedd.

* * *

Mewn manion yn fynych y darganfyddir y mawrion egwyddorol. Fel y buasai'n amhosibl deall Mydryddiaeth Saesneg heb egwyddor y 'Corfan' *(foot),* felly mae'n amhosibl trafod Mydryddiaeth Gymraeg yn iawn heb egwyddor yr 'Uwchcorfan' *(superfoot).* Hynny yw, yr hyn yw'r Corfan i'r Sais, dyna yw'r Uwchcorfan i'r Cymro. Dylsai hynny fod wedi dod yn Rhan Gyntaf *Cerdd Dafod* gan J. Morris-Jones, cyn iddo fynd at y cynganeddion.

Nid da gan y Cymro yw meddwl fel Cymro. Soniwch am fyfyrio ynghylch 'egwyddorion' Cerdd Dafod, ac y mae'n rhedeg nerth ei sodlau. Ni ŵyr ymhle y mae ei arfogaeth.

Nid oedd gan J. Morris-Jones ddim clem am egwyddor yr Uwchcorfan. Ac felly, fe gawliodd ei holl drafodaeth ar y Mesurau Cymraeg o'r brig i'r bôn.

Caniataer i mi geisio gwneud rhywbeth mor gywilyddus o elfennol â diffinio 'Corfan'. Mae'n eithriadol o syml. Mewn Cerdd Dafod Saesneg (nid mewn Mynegiant bob amser), ceir corfannau deuol a chorfannau triol. Dyna'r cwbl. Mae pob Corfan (mewn Tafod) yn cynnwys un brif acen ynghyd ag un neu ddwy sillaf ddiacen. Felly'n ddeuol, dyma'r posibiliadau theoretig (sy'n symlach yn y Mynegiant mewn mydr traddodiadol Saesneg: – x | – x neu x – | x – dim mwy. Pan geir x x | x x dyweder, neu – – | – – , achlysurol ydynt mewn cerdd neu yn y traddodiad heb fod yn gynhaliol, a pherthynant i 'Fynegiant' yn hytrach nag i 'Dafod'. Felly hefyd yn driol, dyma nawr bosibiliadau mydryddol dilys ychwanegol, sef: x x – | x x – neu – x x | – x x neu x – x | x – x heb ddim mwy. Pan geir amrywiadau eraill, 'Mynegiant' ydynt o hyd heb fod yn gynhaliol mewn cerddi cyfain. [Yn yr arwyddion Cymraeg 'x – ', ni cheisir ond nodi *presenoldeb* cyferbyniad y diacen 'x' a'r acennog '–' . Nid yr olyniaeth sy'n bwysig yn y drefn, na'r nifer o sillafau diacen. Yr hyn a oleuir yw'r patrwm symetrig sydd y tu mewn i'r gyfundrefn gyflawn o uwchcorfannau: ***cyfrinach uwchcorfan***. Ond sylwer, ym mhob cywydd deuair hirion, bydd un llinell bob amser yn gorffen mewn *trochee.* A bydd pob Cynghanedd Lusg yn gorffen mewn *trochee.*]

Mae'r Saesneg yn sylfaenol syml ei Mynegiant mydryddol, yn ôl corfannau felly, yn ei phrif draddodiad, — er bod yna wrth gwrs amrywiadau ar ei ffordd, ac er bod Mydryddiaeth Anglo-Saesneg yn bur wahanol. Mae Cerdd Dafod Gymraeg, sut bynnag, yn gofyn bob amser i feddylwyr yn y maes hwn ddod o gyfeiriad hollol wahanol. Ond unwaith eto, ac er eu bod yn dilyn egwyddor wahanol, ceir mydrau deuol a thriol yn y Gymraeg, heb ddim arall. Y tro hwn, nid y corfan sy'n ddeuol neu'n driol. Does dim 'corfan'. Does dim *ond* 'uwchcorfannau' deuol a thriol.

Pam yr wyf yn sôn am hyn? Am fod hon yn enghraifft seml a digon nodweddiadol o 'broblem' Gymraeg. Am fod y cysyniad o Uwchcorfan yn enghraifft o'r rheidrwydd i symud y meddwl diog Cymraeg at yr her i feddwl yn feirniadol Gymraeg. Dyma un o'r problemau y bu Syr John yn ymbalfalu amdanynt, ac y dechreuodd roi ateb iddi, yr un pryd ag y ceisiai ganon iaith.

Er mwyn cael rhyw grap ar natur yr Uwchcorfan, rhaid cadw'r glust ar y brif acen. Dyma un o orchmynion Syr John. Ceir *dau* fath o Uwchcorfan: y deuol sy'n cynnwys dwy brif acen, a'r triol sy'n cynnwys tair prif acen. Y naill yw egwyddor draddodiadol y Cywydd Deuair Fyrion. Ac y mae'r holl fesurau deuol eraill yn tarddu o'r egwyddor honno ac yn grwpio'n fesurau dwy-acen fesul uwchcorfan. A'r llall yw'r Cywydd Deuair Hirion, a oedd yn wreiddiol yn cynnwys tair prif acen (er i hynny ddatblygu'n amrywiol ymhellach ymlaen, gan gynnwys uwchcorfannau deuol neu driol). Ond yn sgil yr egwyddor driol yn y mesur hwn y cafwyd yr holl fesurau triol eraill. Bydd y sillafau diacen yn amrywio — yn un neu'n ddwy ar y tro. Cofier y problemau Cymraeg. Hwy yw Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain.

A dyna'r cwbl ym maes *mesurau* Cerdd Dafod. Dyna'r her a oedd yn wynebu Syr John. Dyna'r allwedd i'r mesurau a gollodd Syr John. Mae'r holl barêd o fesurau yn ymateb yn sythwelediadol i ddeuoliaeth neu i drioliaeth, heb 'gyfrif' dim. Gallech feddwl y buasai'n rhaid i Syr John gael gafael ar yr egwyddor sylfaenol seml hon, a'r holl ysgolheigion eraill ar ei ôl. Ond ni lwyddodd ef i gael crap ar egwyddor seml Cyfundrefneg (na chyfundrefneg celfyddyd, [nac weithiau iaith, megis y fannod a thympau'r berfenw] ), sef *Gwahuno.* Ni chanfu arwyddocâd sythwelediad. Ni wybu seico-gyfundrefneg. Ac wele felly'r cawl.

Ond llwyddodd i symud ymlaen yn well na neb arall o'r blaen ers tro.

Peth od i Gymro fyfyrio'n wahanol i'r Sais, a bu Syr John yn hwyrfrydig iawn i bendroni am egwyddor fydryddol wahanol a'i dadansoddi, er ei fod yn dilyn egwyddor wahanol yn isymwybodol. Heb feistroli egwyddor yr Uwchcorfan, ni byddai *arbrofi* ym myd y mesurau yn llwyddiannus iawn byth i Gymry gwlatgar ym maes y Gynghanedd.

Ceir anawsterau weithiau, bid siŵr, gyda'r hyn a elwir yn 'eithriadau' (e.e. mathau o geseilio). Ond y cwbl yw'r rheina yw Mynegiant, am y tro, nid y strwythurau sylfaenol. A dyma'r maes arall lle y cloffodd Syr John. Ni ddaeth i benderfyniad eglur ynghylch y gwahaniaeth

gweddol hanfodol rhwng Cerdd Dafod a Cherdd Fynegiant; ac o'r herwydd, methodd â meddwl o'r gwaelod i fyny mewn rhai cyfeiriadau yn ei lyfr gorchestol. Ond oherwydd mawredd ei gysgod awdurdodol ar draws yr ugeinfed ganrif, ni feiddiai neb doeth herio'i gampwaith o gyfrol.

Ond priodol cofio am y symudiadau a wnaeth i'r cyfeiriad hwn. A gaf nodi un pwynt pellach am yr uwchcorfan, sy'n wir hefyd am y corfan, ac sy'n bur angenrheidiol i ddeall natur Mydryddiaeth yn sylfaenol isymwybodol? Ni ddefnyddir bysedd i gyfrif sillafau. Ymatebir yn ddifyfyrdod drwy gymorth patrwm isymwybodol. Clywir hanfodion y curiad yn sythwelediadol. Gwrandewir ar reoleidd-dra sigl drwy'r holl gorff. Hynny yw, Ffenomenoleg, peth y dywedwyd ei bod yn dechrau yn 'synnwyr rhyfeddu.' Dyma sut y tyf traddodiad.

* * *

Yn ail, ni ddarganfu Syr John (na Thomas Parry ar ei ôl), sut yn union y datblygodd y Gynghanedd allan o Gytseinedd. Hynny yw, *fel y troes hi arferiad yn gyfundrefn*. Ond ymdeimlent â'r ffaith. Ni ddeallodd y naill na'r llall beth oedd nodweddion llawn cyfundrefnu meddyliol, na'r llam o gyfundrefneg bendant Gogynghanedd y Gogynfeirdd i athrylith arall, a'r un mor bendant, Cynghanedd Beirdd yr Uchelwyr. Ni ddeallent berthynas Tafod a Mynegiant yn y cyd-destun hwnnw. A heb amgyffred sut yr adeiledir cyfundrefn, na pham, nid oes gobaith *esbonio natur* y gynghanedd (na Beirniadaeth lenyddol o ran hynny) yn weddol dreiddgar. Mae modd ei gwneud hi heb ddeall wrth gwrs, fel y mae modd i'r 'gyfundrefn anadlu' neu'r 'gyfundrefn waed' weithio heb eu deall. Ond i'r bardd arbrofol effro yn achos peth mor arbennig â'r gynghanedd, arwynebol mwyach yw'r llwybr union heb ddealltwriaeth. Dibynna Iaith a Llenyddiaeth (megis Cemeg a Diwinyddiaeth, fel y cyhyrau a threulio bwyd) o'r brig i'r bôn ar Gyfundrefneg. Dibynna Beirniadaeth Ffurfiol Gymraeg ar feddwl o'r newydd, yn hen. Ac oni cheir chwyldro yn y ddealltwriaeth ynghylch hynny, fe'n tynghedir oll bellach yn y maes hwn i aros yn ddiletantiaid cymharol ddiymgeledd ym maes deall. Argraffiadwyr teimladol yw beirniaid *heb* fod deall ar waith.

Ac O! fel y mae'n anodd ei ddeall bellach, medd rhai, rhy anodd i fentro meddwl am y peth.

Os ydys yn mynd i ddatblygu beirniadaeth Gymreigaidd, y mae angen ymwreiddio mewn Cerdd Dafod. Cyw Iolo oedd Syr John, o ran perthyn i'r ffrwd ffurfiolaidd. Daeth Lewis Edwards rhyngddynt a gosod llwybr thematig a theoretig; a'n hatgoffa am y trosgynnol mewn llenyddiaeth; ond agorodd yr angenrheidrwydd i gymryd adeiladwaith crefyddol cyfundrefnol yn ystyriaeth ganolog yn y myfyrdod llenyddol beirniadol. Gwelodd L.E. eisiau ffurf. Ym mhen hir a hwyr, cododd ysgol y beirniaid clòs, ynghyd â'r beirniaid ideolegol, a chollwyd y pwynt ynghylch ystyried gwreiddiau diwinyddol thema.

Wrth gwrs, yr oedd gwaith ffurfiol Syr John yn arloesol. Creodd waith dadansoddol cwbl

ddisglair, cyn belled ag yr aeth. Yr oedd ei ddosbarthiad o gynganeddion yn torri tir newydd. Anodd dychmygu sut yr ymdopai ysgolheictod hebddo ynghynt. Ond yr oedd cymaint yn sylfaenol o'i le yn ei waith, fel y methwyd â symud ymlaen yn egwyddorol am hydoedd mewn trafodaethau ar Gerdd Dafod.

Cymerer ei drafodaeth ar y Beiau Gwaharddedig. Dyma faes diffiniol. Hwy sy'n llefaru am chwaeth. Hwy sy'n gosod paramedrau'r Gynghanedd ac yn dweud ymhle y mae'n peidio a pham. Mae a wnelo â natur gwerthuso, nid â chytuno'n unig. Mae eisiau ymholi beth yw eu harwyddocâd ffurfiol. Gwyddai Syr John yn burion mai'r Acen oedd brenhines y Gynghanedd; ond methodd i raddau helaeth â dilyn ei ddarganfyddiad ei hun, a sylweddoli arwyddocâd y *beiau acennog* yn adeiladwaith y Beiau Gwaharddedig. Methodd â'u rhoi yn y canol, na chanfod yr egwyddor lywodraethol 'Rhy ac Eisiau'. Methodd hyd yn oed ag enwi'r Beiau Acennog.

Mewn gwirionedd, casgliad ar ffurf rhestr oedd *Cerdd Dafod* i raddau helaeth, nid Cyfundrefn. Ac nid rhestr yw ffurfiau dyfnaf llenyddiaeth, ond cydlyniad egwyddorol.

Yr unig ddosbarthiad ystyrlon a chychwynnol wrth gwrs yw'r un a fuasai wedi dechrau yn ôl natur y sillaf — y llafariad, y gytsain, yr acen. Dosberthir y beiau'n gyflawn yn ôl gwyriad y glust dan bosibiliadau cyfeiliornus y tri dosbarth hynny. Gwyddai Syr John yn anad neb am ganologrwydd yr acen (a disgyrchiant o dan hynny). Ond ni cheisiodd gydnabod hynny yn y maes dadlennol hwn. Ym *Meddwl y Gynghanedd* dadleuwn mai prif ddarganfyddiadau chwyldroadol Syr John oedd egwyddor y rhagacen a'r dosbarthiad o sillafau diacen cyfeiliol. Dylid ychwanegu dosbarthiad mwy amlwg a llai gweledigaethus, ond tra phwysig, o'r tair ffurf acennog gyffredin o draws a chroes, a'r pedair trefn gytbwys/anghytbwys o acenion. Camp bob amser, fel gyda Syr John, yw'r gweld cyntaf. Ond diffyg mawr o hyd oedd na lwyddodd i bwysleisio sythwelediad yr Uwchcorfan, a'r cysylltiad organaidd cyfundrefnol rhwng hynny a phob ffurf ddynol arall, hyd yn oed ym myd Rhyw, a'r galon. Rhaid i'r isymwybod barddol ymateb o hyd mewn modd elfennaidd mewn Cerdd Dafod, beth bynnag a fo'n digwydd mewn Cerdd Fynegiant. (CD 281-2).

Yn fyr, disgrifiad yw ei gyfrol *Cerdd Dafod,* nid esboniad. A'r drafferth gyda disgrifiad yw ei fod yn gorfod gweinyddu i esboniad er mwyn cydlynu. Fe all hefyd rwystro datblygiad os nad yw'r egwyddorion yn gyflawn. Ac un o'r angenrheidiau sydd i *Gerdd Dafod* fyw yw ei bod yn hiraethu, fel popeth byw, am ddatblygiad. Gellir gwneud hynny ar yr arwyneb, a dyna sy'n digwydd yng Nghymru. Eithr heb amgyffred egwyddorion Cyfundrefneg, does dim dichon hyd yn oed mewn Mynegiant ddatblygu'n gynyddol barhaol. Dyw'r rhan fwyaf o feirdd wrth gwrs ddim yn gallu arbrofi beth bynnag. A dyw hynny ddim yn farwol yn y bôn — er bod pob cân wreiddiol yn arbrawf yn ei hanfod. Ond os yw'r beirdd arweiniol yn deall symlder cyfundrefneg — a cheir hanner dwsin a mwy o gynganeddwyr canol-oed heddiw a all godi i'r sialens yn feddyliol — fe

allent sylfaenu’r cyfeiriad i arbrofi gan ddyfeisio dulliau aeddfed newydd i’r dyfodol.

* * *

Yn drydydd, bu Syr John yn ei gyfrol athrylithgar, megis mewn cyfeiriadau eraill, yn rhy awdurdodol. Llwyddai drwy fwlio. Gallai hynny fod yn gaffaeliad. Ond trymdroed oedd ei ddeniadau, a gogwyddai'n ormodol y tu heibio i estheteg.

Cafwyd ym myd iaith ddau brif feirniad awdurdodol yn yr ugeinfed ganrif. 'Awdurdod' hyderus oedd eu hanian. A bu’r ddau yn awdurdodau gwahanol. Cymerer un enghraifft gan yr ifancaf o'r ddau. Enghraifft dda, ymylog lenyddol, yn achos awdurdod Saunders Lewis, yw’r hyn a ddangoswyd (ym myd Cymdeithaseg Iaith) gydag arolwg hanesyddol *Tynged yr Iaith* (a chymryd datganiad nodweddiadol awdurdodol o'i ddylanwad). Yr oedd anferthedd ei ddoniau, ei hyder, ei benderfyniad, a’i ddramatigrwydd yn sylfaen i’w awdurdod y pryd hynny mewn meysydd eraill. Ond fe’u cymysgwyd gyda chenedlaetholdeb rhamantaidd. Safai o blaid ‘cadw’r iaith’ yn hytrach nag ‘adennill’. Annigonol ac anymarferol oedd, felly. Ystyr cadw oedd gwarchod y gymdeithas fewnblyg. Yna, pleidiai *brotestio’n* draddodiadol er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb i eraill (i wleidyddion o bawb!) *yn hytrach* na sefydlu'r her i adennill gan bawb, drwy fod trwch lleiafrifol y bobl frwd (yn Gymry Cymraeg ac yn Ddysgwyr) yn gwneud y gwaith canolog gwirfoddol o adennill eu hun. Yr oedd SL yn seicolegol anghywir ar y ddau gownt. Cafwyd ffrwgwd effeithiol. Gwastraffwyd dwy genhedlaeth. Collwyd canol y broblem, sut bynnag, fel y gwneir gan Fwrdd yr Iaith a'r Cynulliad heddiw. Yna, o safbwynt adennill ymarferol yn y maes, un o'r llwyddiannau mwyaf penderfyniadol oedd y Teledu, gan obeithio hefyd — fel y Gwyddelod — y byddai’r ysgolion yn gwneud y gwaith o adfer dros bawb arall. Ac allan o’r ysgolion rhedai'r plant gan barablu Saesneg. Nid oedd cynllun symbolaidd Saunders Lewis yn ddigon cynhwysfawr, yn ddigon trefnus, yn ddigon uniongyrchol. Nid oedd chwaith, os caf ddweud yn warthus o haerllug, yn ddigon deallol a gwybodus ynghylch iaith. Proselytio annigonol oedd ei wendid mewn iaith ac mewn beirniadaeth. Yr oedd angen Cynllun Cyfansawdd Gwarantedig.

Diwygio pobl eraill fel egwyddor gyntaf diwygio yw prif nod y Rhamantwr. Sythweled greddfol a gweledigaethus yw'r ail egwyddor.

Roedd a wnelo calon John Morris-Jones yntau, wrth iddo yn ei ffordd ei hun synied am adfywio Cymru mewn cyfeiriad arall. Codai adnewyddiad llenyddol. Nid oedd a wnelo hynny ag academeiddio'r iaith yn unig, onid hefyd â dibenion goruwch-academaidd. Credwyd bod cynnal llên a chymdeithasau diwylliannol ceidwadol hefyd yn fodd i rymuso egni cenedligrwydd. 'Cywiro' iaith y werin, a dyna *fait accompli.* Cafwyd gan J. Morris-Jones, am na welai'r iaith fel hanfod mewn perygl, geidwadaeth ac arweiniad awdurdodol llai esgymun ond gwahanol i bwyslais Saunders Lewis. Yr oedd angen symudiad poblogaidd ac amhoblogaidd, wedi'i seilio ar werthuso.

Ac fe'i mynegai'i hun drwy gyfres o lyfrau gramadeg a thrwy osod gerbron safon academaidd i'r beirdd ym maes Prydyddeg.

Fe'i canfuwyd yn academaidd yn *Cerdd Dafod* mewn dwy ran benodol, mewn rhan a ymdriniai ag ieithwedd (a ffigurau) ac mewn rhan a ymwnâi â'r cynganeddion. Erbyn heddiw sut bynnag, ymddengys y rhan gyntaf (hynod Seisnig ddynwaredol) yn well nag a feddylid ers blynyddoedd, a'r ail ran (y rhan Gymreig) yn waeth na'r dyb. Ond yr hyn a oedd o safbwynt academaidd o'i le ar *Gerdd Dafod* oll oedd ei bod yn ormod o restr, heb fod yn ddigon o gyfundrefn. Mae hynny'n wir hefyd am ei *Welsh Grammar* a'i lyfrau eraill. Rhestri awdurdodol oeddent. Ni thrafodai'r cydlyniad meddyliol er gwybod amdano. Ni ddatgelai Syr John fethodoleg y Gyfundrefn o gyfundrefnau: canol y broblem. Ni roddai'r ysgogiad i'w olynwyr dreiddio i'r iaith. Yn ei faes ei hun, fel Saunders Lewis, nid oedd ganddo, y tu ôl, ddim gweledigaeth gynhwysfawr ymarferol yn botensial. Ni chafwyd trefn briodol ond gyda'r allanolion. Ni chanfu sut y gellid trefnu twf i'r iaith drwy gyfundrefnu polisi. Academyddion oeddent heb fod yn ddigon academaidd.

Dwy weledigaeth am iaith fu gan y ddau feirniad. Dwy hefyd a oedd yn gwbl annigonol am na chafwyd na chenadwri na gweledigaeth ar gyfer Cymru gyfan a chydlynol fyw fel ffenomen.

Buasai angen meddwl rywbryd am Gymru ei hun yn grwn ac yn fwy cynlluniol.

Ac eto, o bawb yn yr ugeinfed ganrif, ni ellid mae'n bosib feddwl am neb oll a ymsymudai'n ystyriol graff ac yn benderfynol feddylgar tuag at Gyfundrefneg yn rheitiach na Syr John. Nid oes gan yr unfed ganrif ar hugain well ysgwyddau Cymraeg i sefyll arnynt ar gyfer y ganrif newydd hon na'i rai ef — oni chwiliwn efallai, mewn un man arall, am rai SL.

Dyma ddau brif chwyldröwr iaith a llên yr ugeinfed ganrif, a'r ddau yn geidwadwyr annigonol. Hebddynt hwy, gynllunwyr glew, anodd synied sut olwg fuasai ar ysgolheictod, drama, beirniadaeth, na chenedlaetholdeb erbyn heddiw. Ond gyda hwy ni bu'r cynllunio'n gyfansawdd.

* * *

Y gwir yw bod J. Morris-Jones wedi wynebu problemwaith Cymru yn ei holl amlochredd yn undyn. Yr oedd ganddo ormod i'w wneud. Ac un o'i orchestion oedd hau hadau. Darparodd amiwnisiwn i'r dyfodol. Arfogodd genedl amddifad. Llwyddodd i wneud cymaint. Ond ni ellid disgwyl i genedl o'r fath ymgymryd â'r olyniaeth i hynny yn loyw drefnus wedyn, heb adael ar fin y ffordd ambell anghenraid, efallai'r pwysicaf. O'r herwydd, cuddiodd ein hieithyddion erbyn hyn.

Hoffwn ailddyfynnu yma ddarn o'r llythyr pwysicaf a sgrifennodd Syr John yn ei fywyd. Ateb sylwadau O.M. Edwards yr oeddid ynghylch cyfyngderau'r gynghanedd (Rhagfyr 1892). Cywiraf ei orgraff: nid oedd hynny bob amser yn un o'i bwyntiau cryf.

'Y mae miwsig mewn cynghanedd… I gael miwsig rhaid cael rheolau a deddfau; pan fo nodau cerddorol yn cydgordio y mae *vibrations* mewn *exact arithmetical progression;* megis 24,

32, 40, 48; ac y mae gwerth offeryn cerdd yn dibynnu'n hollol ar gywirdeb y gwneuthuriad. Felly am y peintiwr, sonia am ei *gomplimentary colours* &c; ac y mae'r rhai hynny yn y diwedd yn dod yn rhifyddiaeth noeth (dibynna lliwiau ar faint a chyflymder y don oleuni). Gelli di a minnau fwynhau pictiwr da; ond beth pe buasem yn deall tipyn ar ddeddfau celf y peintiwr?… Felly'n union am gynghanedd. Gwybydd di, Owen, nad oes neb erioed wedi gweled holl degwch Dafydd ap Gwilym cyn deall cynghanedd… A heddiw os oes ar y Cymry eisiau rhywbeth, eisiau disgyblaeth elfennol mewn *rheolau* sydd arnynt. Nid rhoi iddynt reolau arbitrary, ond dysgu iddynt reolau naturiol iaith a miwsig a rheswm a phopeth.'

Dyma hadau gweledigaeth Syr John yn ifanc. Dyma hadau i ysgolheictod modern. Deddfau i bopeth! gwyddai. Mewn planhigion, eigioneg, ffurfiau llenyddol, mathemateg, crefydd, popeth. Deddfau yn ôl y dosbarthiadau a'r pynciau hynny i gyd. Eithr, yn baradocsaidd dreiddgar, *deddfau i'r ymgyrch gyfansawdd wirfoddol* hefyd. Ond ni ddatblygodd ei weledigaeth fel y gallasai; ac am iddo fethu â chlymu'r cwlwm a dweud beth yn union oedd 'cyfundrefn feddyliol', tueddodd beirniadaeth Gymraeg byth wedyn i fod yn dameitiog o ran cymeriad. Collwyd safoni iaith. Crwydrai o ddull i ddull, o ymgyrch i ymgyrch. Ymgymerwyd mewn beirniadaeth lenyddol â hanes ambell unigolyn mewn modd medrus iawn; golygwyd ambell destun yn rhagorol. Ond ni chaed yng Ngherdd Dafod weithred genedlaethol i osod patrwm cyfannaidd mewn beirniadaeth; myfyrdod am isymwybod ein celfyddyd oll bron, megis yn *Gramadegau'r Penceirddiaid* yn eu cyfnod hwy. Daeth eraill wedi Syr John i ganfod yr undod hwnnw, megis Saunders Lewis, J.E. Caerwyn Williams ac eraill. Ond wedi canfod o bell y Gyfundrefn o gyfundrefnau mewn bywyd, petrusodd Syr John. A chafwyd adeiladwaith a thraddodiad o betruso ar ei ôl. Pan aethpwyd ati yn y saithdegau i sefydlu'r athrawiaeth o dameitiogrwydd yn ddogma ôl-fodernaidd, yn wahanu heb undod, yr oedd yn rhaid i gydymffurfwyr hyddysg o hyd blygu iddi, megis gorchymyn y Brawd Mawr. Nid oedd yna ymwybod o reitiach dewis. Dechrau ymateb cyfansawdd yw canfod yr hyn a wnaeth fydysawd y Gynghanedd yn gymaint o gamp. Un Gyfundrefn enfawr, ryfeddol, gydweol, gyfrwys, ac isymwybodol, ar draws ffurfafen ffurf oedd y cwbl. Heb ddeall hynny, gellir bid siŵr gynganeddu'n wych. Gellir canfod y manylion a rhyfeddu at lawer o'r miwsig a'r acrobatiaeth. Ond ni ddeellir cydlyniad y gogoniant, ac nis llawn werthfawrir chwaith yn brofiad deallol cyneddfol. Nis clywir yn iawn. Eto, heb ddisgrifiad Syr John o lenyddiaeth, ni ellid bod wedi dechrau ailystyried amryw o'r prif weddau.

*   *   *

Yn ein dyddiau ni, ni ellir – bob un yn ei gornel – ond ceisio llenwi'r tyllau a adawyd ganddo ef. Wrth lunio *Meddwl y Gynghanedd* yn y blynyddoedd cyn 2005 bûm yn ceisio dod o hyd i drefn Cyfundrefneg yn bur bell oddi wrth *Cerdd Dafod* 1925 J. Morris-Jones, ac eto gan synied yn

ddof mewn cornel mai ganddo ef yr oedd y Disgrifiad cyflawnaf a mwyaf safonol o Gynghanedd a gaem byth. Safasai hwnnw ar ei ben ei hun ar ryw olwg ers tri chwarter canrif. Y cwbl a geisiwn i mwyach oedd llenwi ambell dwll er mwn hybu Esboniad o ble'r oedd hi wedi dod, sut yr adeiladwyd hi'n isymwybodol a pham, a beth oedd yr union gamp ynddi fel y gallai rhywun gasglu'n ddeallol sut mai dyma'r patrymwaith seiniol mwyaf rhyfeddol yn y byd mewn prydyddiaeth, sut hefyd yr oedd hi'n 'Gyfundrefn o gyfundrefnau'. Ni thybiwn unwaith yr âi neb ati i ddisodli 'Syr John y Disgrifiwr', er mai amlwg oedd fod yna nifer o ddiffygion yn ei waith.

Ddim mwyach. Agorwyd ystyriaethau ffres. Ddwy flynedd ar ôl *Meddwl y Gynghanedd*, wele Alan Llwyd yn cyrraedd ar farch melyn. Mae ef i raddau wedi disodli Syr John, gan adeiladu ar ei rinweddau. A chofio bod Adran y Gynghanedd yn *Cerdd Dafod* yn ymestyn o dud. 143 hyd 382 (sef 239 tud.), nid yw cyfrol Alan yn fyrrach chwaith, (sef 349 tud.) Mae'n gywirach, yn llai cymysglyd, ac yn fwy ymarferol. Gweler maes o law y bennod ar ei Gerdd Dafod.

Mae Alan yn well bardd na Syr John: mae'n well beirniad. Yr hyn a oedd gan Syr John oedd yr ysgolheictod aruthrol newydd ar y pryd a ganiatâi chwyldroi'r iaith. Ac eto, yn yr Adran fwyaf anodd o *Gerdd Dafod* — sef Ceseilio — ac yn yr Adrannau helaeth ar y Mesurau ac ar Arbrofi, y mae Alan ben ac ysgwyddau uwchben mythau ei ragflaenydd.

Yn ddiddorol iawn, yn yr ansicrwydd sydd wedi tyfu ynghylch Ceseilio ymhlith beirdd oherwydd colli llif y llafar mewn cloffi dwyieithog, mae *Anghenion y Gynghanedd* 2007 wedi rhoi arweiniad hyderus i'r dyfodol. Dyma hyder y meistr. Ond roedd myfyrdod ynghylch arbrofi wedi tyfu'n wych allan o'r argraffiad cyntaf, a oedd — fel cynnyrch gŵr ifanc ar y pryd — wedi byrlymu o ddisgleirdeb. *Anghenion y Gynghanedd* 1973 oedd maniffesto'r adfywiad cynganeddol yn y saithdegau, fel y dangosai'i adran gynnar ynddo ar arbrofi. Nid ail argraffiad yw'r hyn y daethpwyd ag ef wedyn felly, yn ddiweddar, gan Alan. Gweddnewidiad yw.

Pan ymwnâi Syr John a'i genhedlaeth â deddfau, pethau i'w casáu oeddent: datguddiai Alan Llwyd ymhellach ymlaen ddeddfau mewn beirniadaeth lenyddol y gellid eu caru.

Yr oedd traddodiadwyr protestiol Saunders Lewis hwythau'n bobl a geisiai ddeddfau (Statws ac ati); ond deddfau confensiynol gwleidyddol a ddymunent, ac yn porthi mewnddrychedd. Mewn llyfryn bach ar y wefan hon (*A Fydd y Cymry Cymraeg mewn Pryd?)* ceisiwyd amlinellu'r Ddeddf Gyfansawdd angenrheidiol ar gyfer Adennill yn hytrach na Statws. Deddf yw honno hefyd y gellid dysgu'i charu.

Cofiwn, sut bynnag yn awr, mai'r un ymennydd a ddyfeisiodd Ganon i'r Iaith Lenyddol Ramadegol yn yr ugeinfed ganrif, a ddarganfu hefyd Gerdd Dafod ganonaidd. Ac yn y ddwy gornel hynny, o broblem gyfansawdd lydan 'Adennill yr Iaith', erys ei waith o hyd yn sylfaen i'r dyfodol.

## SAUNDERS LEWIS


| | |
|---|---|
| **Rhychwant ei Feirniadaeth** | **131** |
| **Natur ei Ramantiaeth** | **139** |
| **Trefn ac Anhrefn** | **146** |
| **Adeiladwaith Meddwl Pantycelyn** | **154** |
| **Rhamantiaeth Ddisgybledig** | **171** |
| **Darganfod I** | **178** |
| **Llythyr o'r bedd:Yr Ail Ddarganfyddiad** | **185** |
| **Moderniaeth: Darganfod III** | **193** |

# RHYCHWANT EI FEIRNIADAETH

*Williams Pantycelyn,* Saunders Lewis, Llundain, 1927; *Meistri'r Canrifoedd,* Saunders Lewis, gol. R. Geraint Gruffydd, Caerdydd, 1973.

Wrth wrando ar Johann Sebastian Bach, gan ymwybod â'i fawredd, byddaf yn cyfrif mai gwedd flaenllaw ar y mawredd hwnnw yw trwch y cyfoeth a blethir drwy'i waith. Mae'r diddordeb sydd ym mhob bar, yr amrywiaeth ffrwythlon, gwead y gynghanedd, egnïon y deunydd amryliw, y themâu, a'u hundod gwythiennol llawn, yn gyson syfrdan.

Mewn modd nid anghyffelyb – os eithafol o wahanol – wrth droi bellach i ystyried cyfraniad unigryw Saunders Lewis — gyda'r sylw pennaf am y tro, ond nid yn gyfan gwbl, ar amrywiaeth ei feirniadaeth — y mae trwch y cyfoeth cyfan unwaith eto yn synnu dyn. Ac wrth geisio gwerthuso llenor unigol o fath hwn, nid drwg o gyngor yw canolbwyntio yn y man cychwyn ar y Deunydd. Hoffwn ystyried ym mha ffyrdd gwahanol y mae Deunydd Saunders yn arddangos cyfoeth ei feddwl, er nad wyf am anwybyddu'i Ffurf bid siŵr.

Un o'r lefelau mwyaf arwyddocaol mewn Deunydd llenyddiaeth yw'r hyn a elwir yn Fetanaratif. Dyma un fframwaith syniadol cyffredinol sydd (am gyfnod penodol) yn llywio adeiladwaith y meddwl cyffredinol ymhlith rhai o'r cyhoedd ar y pryd. Dyma'r strwythur o ragdybiau sy'n penderfynu barn lydan y llenor (a'i oes i raddau) am fywyd: ei ideoleg lywiol gyffredinol.

Nid wyf yn un o ffaniau mawr Ôl-foderniaeth. Ac nid wyf yn cydsynied â'r modd y triniodd hi Fetanaratif, fel pe bai modd dianc rhagddo. I mi, prif strwythur cyflawn crediniol cyfnod neu gymuned ddeallol yw Metanaratif, gogwydd y syniadaeth 'ddihysbyddol' sy'n cwmpasu rhagdybiau. Cyfrifaf Ôl-foderniaeth ei hun yn fath o Fetanaratif. Ac nid oes gennyf amheuaeth nad oes i Fetanaratif yntau le allweddol wrth astudio Deunydd llenor mewn cyfnod. Safbwynt cyffredinol a chynhwysfawr mewn cymuned neu fudiad sy'n darparu fframwaith meddwl i ganfod ac i esbonio cyfanrwydd bywyd mewn amser, dyna yw'r Metanaratif. Y Metanaratif sy'n esgor ar y themâu arweiniol. Os yw Saunders Lewis yn ffigur allweddol yn hanes ein beirniadaeth, yna mae archwilio'i Fetanaratif neu fetanaratifau yn waith priodol. Ac y mae trwch thematig Saunders Lewis wedyn yn un o'r ffactorau sy'n fy ngorfodi bellach nid yn unig i'w gyfrif fel llenor Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif, eithr hefyd yn ddigamsyniol yn un o'r tri llenor mwyaf a gafodd Cymru erioed a chofio'i farddoniaeth a'i ddramâu (gydag eithriadau, wrth gwrs), eithr mewn modd cyfeiliol, bwysigrwydd cefndirol ei feirniadaeth lenyddol hefyd, ac yn olaf ei ysgrifau newyddiadurol.

Canolbwyntio'n bennaf a wnaf ar ei Ddeunydd, ddwedais. Y mae hynny'n fy ngorfodi

ysywaeth i grwydro i faes theori Deunydd er mwyn egluro pam y mae themateg mor ganolog, a'r fath le sydd i Ddeunydd — yn y ddeuawd *Ffurf/Deunydd* — o fewn paramedrau Beirniadaeth Gyfansawdd. (Bûm yn ceisio trafod theori Deunydd o'r blaen ar y Wefan hon, sef yn y gyfrol *Y Cynllun sy'n Canu.*) Ond yn achos Saunders Lewis, y mae'n ein gorfodi i ystyried mwy nag un Metanaratif arweiniol. Tri yn benodol.

Syniaf mai'r Metanaratif cyntaf sy'n llywio'i themateg yw *Cristnogaeth* o'i chyferbynnu â Seciwlariaeth — fe'i gwelir yng Ngwrthbelagiaeth *Buchedd Garmon,* ond yn bwysicach yn *Amlyn ac Amig* ac wrth gwrs mewn amryfal gerddi unigol a rhai dramâu eraill; yn ogystal ag yn ei sylweddoliad o ganolrwydd Mawl, a'r weledigaeth lydan a gafodd y *beirniad* Saunders Lewis am ystyr Mawl. Yn ei feirniadaeth lenyddol, mae'r pwyslais anniddig hwn ar Fawl, ac ar gyswllt y Byd a'r Betws, ac y mae arwyddocâd dibennol ysbrydol hyn oll yn beth Cymreig iawn. Mae'r arwyddocâd cwmpasog a ganfu ef yn amlygrwydd Mawl, a hwnnw'n ysgogiad anochel ysgogol o rym mawr, yn weledigaeth lydan sy'n dod yn fwyfwy o dramgwydd i rywrai a fagwyd o fewn gormes relatifrwydd. Ac ymamlyga hefyd yn ei ddehongliad o Gyfriniaeth Pantycelyn.

Yn ail: *Yr Oleuedigaeth* (Ysbrydol) o'i chyferbynnu â'r *Ymoleuo* (Secular Enlightenment) — a'u pwyslais ill dau ar ddysg a deallusrwydd, a gwyddoniaeth (i Saunders: Freud, diwinyddiaeth gyfundrefnol, yn ddiweddarach Teilhard; diddordeb Pantycelyn mewn seryddiaeth a bioleg a'u cysylltiad â'r Creu; crefydd gymharol) — o'u cyferbynnu hefyd â hunan-ddifodiant myth 'poblogaidd' y darllenwr 'sound-bite' cyfoes i fod yn gyndyn wrthddeallgar. Ond wrth gwrs yr oedd Saunders Lewis yn effro hefyd i gyfyngderau gwyddoniaeth, a thuedd falch ac allwyddonol a naïf rhai gwyddonwyr i fod yn ddogmatig y tu hwnt i'w cymwysterau. Dyma hiraeth Saunders am i'r Cymry *feddwl* am eu llenyddiaeth, megis cenhedloedd eraill — gwedd ar ein rhyddid. (gw. eto *Y Cynllun sy'n Canu*).

Ac yn drydydd: *Aristocratiaeth* ysbrydol, a'i orbwyslais newyddiadurol ei hun ar wleidyddiaeth, ond yn bennaf o gyfeiriad Seicoleg. Hynny yw 'Clasuraeth', o'i chyferbynnu â Rhamantiaeth. Gan Ramantiaeth y ceid ymosodiad ar Fetanaratif traddodiadol, tyndra democrataidd a ddatblygodd yn dreiddgar ers Pantycelyn, ac fe gyferbynnai yn bwerus â phrif draddodiad uchelwrol ein llenyddiaeth, a'i threfn awdurdodol. Effeithiai'r tyndra hwn ar gymdeithas, yn arbennig ar y teulu, ar sentimentaliaeth, ac ar anian llenorion Cymraeg cyfnod ei fagwraeth. Yn y gwrthdrawiad hwn y gwnaeth Saunders ei gyfraniad meddyliol mwyaf.

Yn y cyntaf a'r trydydd o'r tri Metanaratif hyn, yr ydym yn ymwybod â Mawl fel ffordd o fyw. Mae hyd yn oed Ôl-fodernwyr yn gallu deall bod Pantcelyn, er mewn ffordd wahanol i Ddafydd Nanmor, yn cyfrif Mawl fel elfen bwysig yn y deall Cristnogol. Ond y mae'r math o agwedd sydd gan Gristion 'lleyg' fel Saunders Lewis at Fawl fel pwrpas a rhuddin gwareiddiad yn

ein gorfodi i ystyried rheidrwydd cyfundrefnol gwerth, trefn, a diben. Maent yn ddiosgoi. Mae sylweddoli gorfodaeth resymol ac ieithyddol y Cymhellion cyfan hyn yn dangos yr ynni sy'n gwneud llenyddiaeth (ac iaith) yn bosibl.

Dechreuwn y tro hwn felly gyda'r hyn a fydd yn ddadansoddiad estynedig o ysgrifau sy'n trafod Beirniadaeth Lenyddol Saunders Lewis. Gan fod Saunders yn ymwneud yn bennaf â '*Mynegiant*' llenyddol, bydd yn rhaid imi esbonio'n gynnil beth a dybiaf yw paramedrau Beirniadaeth Mynegiant yn gyffredinol.

Gŵyr y sawl sy'n gyfarwydd â Beirniadaeth Gyfansawdd, mai tair gwedd sydd i Feirniadaeth Lenyddol — *Tafod, Cymhelliad, Mynegiant*. Ac mae'n ofynnol nodi'n gryno beth yn union yw Tafod yn gyntaf yn y drefn hon, gan mai hynny yw'r elfen ddieithr. Gwyddys bod yna rai ffurfiau llenyddol a grewyd gan 'Anhysbys' ar gyfer *llenyddiaeth yn gyffredinol* sy'n gymharol sefydlog — megis Cerdd Dafod, Y Trosiad (Metaffor), Y Stori, Y Ddrama, Mydr, Odl, ac yn y blaen. Nid yw Saunders Lewis odid byth yn ymddiddori'n ddwys yn hanfod, natur, nac yn ffurfiant sylfaenol y rhain. 'Tafod' ydynt, peth y dewisodd ei anwybyddu. Cymhelliad a Mynegiant yr unigolion yw ei ddau faes dewisol ef. Er mor bwysig yw i feirniad llenyddol ystyried sut y mae ffurfiau fel y rhain wedi dod, a pham, ac mor ganolog yw'r fath gwestiynau i hanfod deall celfyddyd mewn Tafod, nid oedd gan Saunders Lewis odid ddim hid yn hynyna. Mae sefyllfa o'r fath bellach yn ymddangos yn rhyfedd, gan gymaint ei ymrwymiad cymdeithasol, a chan gymaint ei hoffter o gyffredinoli. *Deunydd a Chymhelliad y Mynegiant* yw ei bennaf diddordeb, am resymau ideolegol, gyda pheth sylw achlysurol, ond hynod ddifyr i Arddulleg neu Ieithwedd Mynegiant. Y rhain a'u hawduron yw'r gweddau mwyaf unigolyddol, rhamantaidd ar lenyddiaeth. Yn y rhain, ynghyd â'r Gwerthuso, y clywir yr awdur goddrychol ar waith. Ac efallai y sylwn mai Rhamantydd oedd Saunders Lewis i raddau helaeth yn hyn o beth, hyd yn oed o ran ei ddathliad o aristocratiaeth glasurol.

Yr unig eithriad eglur a phwysig i hyn o anniddordeb gan Saunders Lewis mewn *Ffurf* gyffredinol oedd Traddodiad. Dyna faes cyffredinol penodol, hynny yw un sydd heb fod yn unigolyddol, y byddai ef yn dychwelyd ato o hyd. A rhaid i unrhyw sylw gweddol estynedig ar ei Feirniadaeth sylwi ar arwyddocâd hynny rywbryd. Traddodiad oedd y lle yr oedd ei Gymhelliad yn cyfarfod â Ffurf. Ffurf fawr ac estynedig yw Traddodiad, sydd hefyd yn llythrennol gynhwysfawr.

Er mai rhy gynnar efallai oedd cyfnod gweithgarwch Saunders Lewis (g. 1893) i ymroi i ystyried Tafod, drwy wybodaeth a dderbyniais gan y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones mae'n ymddangos fod paragon ein beirniadaeth yn niwedd ei oes yn effro iawn o hyd i'r hyn a oedd ar gerdded mewn Beirniadaeth Fodern a Theori. Deuai ar y pryd at theori (a meddwl yr wyf am amser tua 1978) yn ôl pob tebyg drwy gyfrwng Adeileddwyr neu Strwythurwyr Ffrainc. A hwynt-hwy a

fu'n gyfrifol am adnewyddu'n diddordeb diweddar yn Ffurfiolwyr Rwsia a Phrag hefyd.

Wrth gwrs, yr oedd yn rhy ddiweddar arno i fyfyrio'n arbennig fanwl ar Dafod. Mynegiant a fu'n bennaf o ddiddordeb iddo ar hyd ei oes, fel yr oedd yn nodweddiadol o dri chwarter cyntaf yr 20fed Ganrif. Dyna pam nad oedd yn ymddiddori, ond yn gynnil egwyddorol ac yn ymarferol, yn natur y Gynghanedd, sef maen prawf beirniadaeth Gymraeg theoretig. Buasai hefyd, oherwydd ei ymrwymiadau crefyddol a gwleidyddol, yn tueddu i ogwyddo'n bennaf at Ddeunydd (yn hytrach nag at Ffurf) llenyddiaeth.

Bid a fo am hynny, wrth adolygu'r ddwy gyfrol bwysicaf a sgrifennodd ef mewn Beirniadaeth, sef *Williams Pantycelyn* a *Meistri'r Canrifoedd,* rhoddir cyfle i mi ymhelaethu ar ddau faes sydd yn arwyddocaol iawn mewn Beirniadaeth Gyfansawdd, sef Mynegiant a Deunydd. A rhaid i mi yn y fan hon amlinellu Hierarci ffurfiant Deunydd mewn Mynegiant, gan fod hyn yn bur newydd, ac yn helaethiad (i raddau) ar yr hyn a drafodais o'r blaen mewn Beirniadaeth Gyfansawdd.

Fe ddechreua'r astudiaeth, o gyfundrefnau Deunydd, yn y Sfferau neu'r Meysydd Cynnwys a ddisgrifiwyd yn fras gan Dooyeweerd, er fy mod i'n estyn y rheini. Dyma'r Sfferau Ystyr y mae'n rhaid i bob un ohonom fyw o fewn pob un ohonynt, yn ddiddewis. Esgorir ar Gyfundrefn y Sfferau Ystyr hyn mewn *Tafod* i ddechrau. Yr ŷm ni oll yn meddwl am y byd fel casgliad o ddeunyddiau gwahanol sy'n ymwneud â gweddau gwahanol ar ein bywyd. Hynny yw, y mae gan bob un Sffêr ym myd ystyr ei chyfundrefn ddiffiniol ei hun, y mae pawb sy'n ymhel â Deunydd yn gorfod plygu iddi. Yn y Sfferau neu bynciau neu feysydd cyffredinol ym myd Cynnwys, mae gan bob maes ei ddisgyblaeth ddiffiniol, neu ei ddeddfau syml. Er enghraifft, os oes a wnelo llenor unigol â Sffêr Moeseg, does dim dewis ganddo ond derbyn y fframwaith neu'r Gyfundrefn Arweiniol *Da/Drwg.* Hyn sy'n elfennaidd sythwelediadol, yn blentynnaidd o sylfaenol; cyfrifwn fod gwreiddiau Deunydd o'r fath yn gyffredin i bawb, ac yn perthyn felly i Dafod.

Ym *Mynegiant Deunydd* wedyn, – o fewn Sffêr Llenyddiaeth – olrheiniaf yn gyffredinol dri cham neu dair gradd: Metanaratif, Themâu, a Motiffau. [Cofiwn o hyd wrth gwrs mai gwedd arall mewn Beirniadaeth Lenyddol yw mater *Mynegiant Ffurf*: mae'n cwmpasu ieithwedd ac arddulleg, adeiledd y gwaith unigol, a gwerthuso].

Er mwyn penodoli pa weddau o Feirniadaeth yr wyf am ymgyfyngu iddynt hwy yn y drafodaeth hon, yr wyf am bwysleisio mai'r Sfferau Deunydd yr wyf am gyfeirio atynt yn bennaf yw Ffydd, Moeseg, Estheteg, Cymdeithaseg (Gwleidyddiaeth), Hanes, a'r hyn a alwaf yn Fwynhad (sy'n cynnwys y serchiadau a'r dyheadau a'r dibenion). Y rheina yw meysydd meddwl pennaf Saunders Lewis, o'u cyferbynnu dyweder â Ffiseg neu Fathemateg, sydd hefyd wrth gwrs yn bwysig i bobl eraill. Mae yna ddwy wedd ar yr holl Sfferau Deunydd hyn. Yn gyntaf oll, Tafod. O

fewn TAFOD ceir i bob Sffêr, fel y gwelsom, ei chyfundrefn ddiffiniol a gwaelodol ei hun. Dyna'r hyn sy'n cyfyngu ac yn pennu swyddogaeth neu faes pob Sffêr: megis *Da/Drwg* mewn Moeseg. Dyma wedd gyferbyniol ar Dafod: y Sffêr, y gyfundrefn ddiffiniol gyffredinol. Ond y mae Moeseg yn cynnwys llawer o *themâu*, megis Cenfigen, Gonestrwydd, a Hunanoldeb, ac y mae gweithiau llenyddol yn gallu dethol o blith y rhain mewn MYNEGIANT. Ond lle bynnag y bo Moeseg yn faes ar waith yno ceir o hyd y cyferbyniad *Da/Drwg.* Dyna'r fframwaith diddewis — un o Sfferau gweithredol Tafod Deunydd. Mae hynny'n ymwneud yn isymwybodol orfodol bob amser â chyfundrefn ddiffiniol foesol sy'n gyffredinol i bawb. Yn y dewis unigol hwn o themâu o fewn Moeseg y ceir y Mynegiant ar waith. Yma y ceir hefyd yr amrywiaeth i bawb.

Mewn Deunydd Mynegiant, yr wyf yn canfod tair gwedd strwythurol fel y dywedais, tair lefel sy'n perthyn yn ddatblygol i'w gilydd, sydd yn arwyddocaol ym meirniadaeth lenyddol Saunders Lewis. Ac nid yn unig fel Beirniad, eithr fel y disgwylid hefyd, fel Dramodydd, Bardd, a Storïwr rhyddiaith. Dyma'r gyfres gydlynol, felly, sy'n ffurfio Mynegiant Deunydd inni: *(1) Metanaratif ac Ideoleg, (2) Themâu Arbennig, a (3) Motiffau.* Er bod gan Saunders Lewis lawer i'w ddweud yn achlysurol am 'Ffurf'' ar lefel 'Mynegiant' — ac ieithwedd neu arddulleg, yn ogystal am werthuso hefyd — yr wyf am ddechrau drwy ogwyddo'r drafodaeth hon (ar theori ei ddeunydd beirniadol) tuag at yr hyn a alwai'r Ffurfiolwyr yn Themateg, heb anwybyddu mi obeithiaf nac ieithwedd na gwerthuso erbyn y diwedd.

Ar ôl sylwi ar 'Ddeunydd' ei waith, yr wyf am symud rhagddi wedyn i sylwi ar Ffurf y Mynegiant, y peth sy'n ein harwain yn ddi-ffael at holl faes a dyletswydd Gwerthuso a Mwynhad.

Ochr yn ochr â 'Thema', un o dermau'r symudiad Ôl-fodernaidd oedd '*Metanaratif*'. Tueddid i'w ddefnyddio ynghylch yr Ymoleuo (Secular Enlightenment) yn yr 16eg-18fed Ganrif; ac yn ôl yr Ôl-fodernwyr gwelid yr Oleuedigaeth wedyn hefyd braidd yn optimistaidd naïf wrth dderbyn taclusrwydd deddfau twt gwyddonol, rheswm a'r method empeiraidd. Rhagdybid gan yr Ôl-fodernwyr eu hunain, wrth gwrs, chwalfa, afreswm, ymwahanu, ac amhenderfyniadaeth ansicr a fyddai'n tanseilio'r ddau olau. Dyma chwiw anhunanfeirniadol yr amseroedd hynny. Bu *Metanaratif* yr 'ymoleuo' a'r 'oleuedigaeth' — y naill a'r llall — felly'n mawrygu rheswm (gyda diffiniadau gwahanol) a'r synhwyrau corfforol; ond eu rhagdyb allwyddonol a ddosrannai'r ddwy garfan hyn. Roedd y Cristion o wyddonydd yn derbyn yr Absoliwt yn rhagdyb penarglwyddiaethol, a'r Seciwlarwyr allwyddonol yn rhagdybio absenoldeb pob dimensiwn namyn y materol, (neu ryddid goddrychedd mewnddrychol teimladol a rheswm), fel priod nod a oedd yn brysio'n hwyliog tua Phenrhyddid.

Mae Saunders Lewis yntau (heblaw ei oleuedigaeth ddiamau), yn ei gyfeiriadau at Freud yn *Williams Pantycelyn,* yn cynnal (o ran agwedd) Fetanaratif yr Ymoleuo hefyd. Bu Freud yn bur

chwiwus o anectodgar a goddrychol, ac yn ymwrthod ag Absoliwt. Ond dychymyg iraid Freud a'i ddramatigrwydd a apeliai at Saunders.

Wrth inni ystyried y ddau wrthgyferbyniad, Clasuroldeb yr Oesoedd Canol a Rhamantiaeth diwedd y ddeunawfed ganrif, ac yna Oleuedigaeth ac Ymoleuo y ddeunawfed ganrif, teg inni maes o law grybwyll un cwlwm penodol pellach, o fewn y Metanaratif cymdeithasol, — Thema gyfundrefnol Serch Rhamantaidd fel un o'r arweddau ar Ramantiaeth. Gall Metanaratif Rhamantiaeth bwysleisio Goddrychaeth mewn modd sy'n effeithio fel rhagdyb ar bob rhan o fywyd. Y mae a wnelo Serch Rhamantaidd fel thema yng ngwaith S.L. â pherthynas amryfal Mab a Merch; ond y mae ei arwyddocâd yn ei waith yn lletach na gweithred rywiol. Lletach byth yw Rhamantiaeth ei hun fel ffenomen gyflawn wrth gwrs. Heblaw Goddrychaeth yn gyffredinol, rhydd flaenoriaeth i'r teimladau, i allu rhesymol 'Dyn' ffaeledig, ac i ryddid fel cwlwm o werthoedd, sy'n ein tynnu tua Phenrhyddid. Yn y fan honno, trafodwn natur Rhamantiaeth Gymraeg.

Diau fod yr Ymoleuo (seciwlar) yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg ac yn y ddeunawfed ganrif yn ymdeimlo â chyferbyniad â Metanaratif yr Oesoedd Canol pryd y rhagdybid trefn hierarcaidd mewn byd a betws; gydag awdurdod goruwchnaturiol yn ogystal â naturiol, a sefydlogrwydd delfrydus. Daeth hyn yn fath o ideoleg neo-glasurol i Saunders Lewis i'w chyferbynnu â'r Metanaratif rhamantaidd. Delfrydu Platonaidd oedd.

Dechreuaf yr holl ymdriniaeth hon, felly, drwy gyfeirio at Fetanaratif neu Ideoleg Saunders. Ac wrth ddefnyddio'r term 'Metanaratif' yr wyf am gyfeirio at rywbeth a drafodid hefyd yn helaeth gan yr Ôl-fodernwyr. Metanaratif yw'r fframwaith i bob cymdeithas ddeallol. Ac wrth gwrs, yr oedd gan yr Ôl-fodernwyr eu Metanaratif eu hun a ragorai — yn rhagdybiol — ar olwg yr Ymoleuwyr a'r Goleuadwyr. Ym mryd yr Ôl-fodernwyr, pan gyfeirient at Fetanaratif yr Ymoleuwyr, tueddent i resynu bod, yn y gymdeithas, ryw fath o gwlwm rhagdybiol naïf a oedd yn cwmpasu barn. Ceid yn yr Oleuedigaeth ragdybiau cyfrannol megis Rheswm ac Empeiriaeth, wrth gwrs, a oedd ym mryd yr Ymoleuwyr yn ceisio egluro popeth. Felly y caed Ôl-fodernwyr yn eu dull nawddogol chwalgar yn wfftio at y fath ddogmâu dihysbyddol yn y naill garfan a'r llall. Cofleidient ddogma'r penagored a'r rhanedig. Deuai'r Ôl-fodernwyr â'u Metanaratif hwythau eu hunain, a oedd yn rhagdybio relatifrwydd, ansicrwydd, drylliadaeth, ac amhenderfyniaeth. Bu Marcsaeth hithau hefyd yn Fetanaratif esboniol cwmpasol cyffelyb, yn fframwaith i synied am bob cornel o fywyd yn faterol. Felly hefyd, Metanaratif Cristnogaeth o ran bwriad dihysbyddol, yn naturiol ac yn oruwchnaturiol. Hynny yw, ceid ideoleg neu gwlwm o gredoau ac o agweddau a oedd yn sylfaen syniadol i bopeth. Yr oedd hyn yn mynnu digoni carfan o bobl, ac yn botensial i bawb. Ffurfiai farn a rhagosodiad (rhagfarn) a ffordd o fyw.

Enwais Fetanaratif blaenaf Saunders Lewis, sef Cristnogaeth. Ond yr oedd yna rai clymau

syniadol ac agweddol eraill, rhai digon cyffredinol a chynhwysfawr, y mae'n wiw inni gyfeirio atynt. Oherwydd, y rhain yw'r Metanaratif thematig sydd o bwys i Seciwlarwyr.

Mae'r cyferbyniad *Clasuraeth/Rhamantiaeth* yn fan cychwyn pwysig iawn i Saunders Lewis, fel y bu i lawer ers cyfnod Pantycelyn. Ac y mae hyn yn ymgysylltu'n agos â'r cyferbyniad 'Cristnogaeth Gatholig/Cristnogaeth Brotestannaidd'. Y mae hefyd, yn ôl ei ddehongliad arbennig, yn cynrychioli'r hyn a ystyrir yn brif ddarganfyddiad ei waith fel beirniad llenyddol.

Mae'r cyferbyniad rhwng yr *Ymoleuo* (Secular Enlightenment) a'r *Oleuedigaeth* (Christian Enlightenment), a grybwyllais eisoes, hefyd yn dal drwy'i oes yn arwyddocaol.

Ac yn gefndir i'r cwbl hwn, yn arbennig o safbwynt Canon a Gwerthuso, a'i ddiddordebau cymdeithasol, credaf fod y cyferbyniad morffolegol rhwng y *Deallol* a'r *Poblogaidd* eto yn ganolog iddo. Mae hyn yn gysylltiedig â'r forffoleg gymdeithasol *Uchelwrol/Gwerinol* (a'r Proletariad), sydd ym mryd Saunders Lewis heb fod yn fater economaidd (yn unig) o ran rhaniad, eithr yn ysbrydol.

Dyna, yn fras felly, y tri metanaratif sydd i mi yn ganolog yn ei *psyche*. Ochr yn ochr â'r rheini ceir Ideolegau nad ydynt mor gwmpasog â'r cyferbyniadau metanaratif hyn, ond sy'n bur dreiddgar yn 'thematig', megis *Serch Rhamantaidd* a *Chenedlaetholdeb* a *Phechod.*

Dyma fi, felly, yn mynd ati i lunio adolygiad cyfresol o feirniadaeth Saunders Lewis ychydig yn fwy estynedig nag y dylai fod, gan osod fy stondin Deunydd gerbron.Yr wyf hefyd yn ceisio amlinellu un rhan (rhan y Mynegiant) o'r lle a welaf i Ddeunydd llenyddol fel ffenomen o fewn Beirniadaeth yn gyffredinol. Ond carwn nodi'n atodol fy mod eisoes — yn *Tafod y Llenor* a *Seiliau Beirniadaeth* a mannau eraill — wedi cyffwrdd â'r hyn a welaf fel Mynegiant Ffurf (a'i gysylltiad â Thafod). Bydd rhaid imi ddychwelyd at hynny drachefn, er mwyn casglu'r fframwaith panoramig, oherwydd yr oedd gan Saunders Lewis ddiddordeb ysol fwy na neb arall erioed yn hanes Cymru yn y 'Canon' a 'gwerthuso'. Myn ef foli. Mawl yw ei feirniadaeth. Myn hefyd wahaniaethu wrth iddo olrhain Undod y Traddodiad. Yr wyf innau eisoes wedi sylwi'n bennaf ar Ffurfiau Seiniol, Ffurfiau Ystyrol, a'r Cyfanweithiau (Rhannau a'r Cyfan) wrth drafod Ffurf llenyddiaeth. Ac er mai 'Deunydd' oedd mor aml yn mynd â bryd Saunders, ni ddylid anwybyddu'i Ffurf mewn Mynegiant. Er mor bwysig yw'r themâu a'r ideoleg, ac er bod difrifoldeb a gweledigaeth ynglŷn â'r Deunydd yn cyfrannu at y gwerthuso, cawn mai yn y Mynegiant 'ffurfiol' y bydd ef fel beirniad yn dod o hyd i griteria blaenaf ei werthuso. Nid yr hyn a ddywedir o ran thamateg yn unig sy'n tanlinellu'r gwerth yn y diwedd, ond y ffordd y'i dywedir hefyd — megis yn llenddull y 'jôc'. Boed ar ffurf drama, nofel, neu ysgrifau newyddiadurol.

Bydd hyn oll yn peri bod yna elfen gref o werthuso gennyf innau ynghylch Saunders ei hun wrth inni geisio ymgodymu â ffrwythlondeb rhyfeddol ei waith fel Beirniad. Ac y mae hynny'n

golygu cysylltu ei gyfraniad pennaf oll i feirniadaeth — sef y cyflead o naws a rhuddin y traddodiad clasurol — â phopeth arall. Ac wrth gwrs, yr oedd ef ei hun wedi dechrau'i gyfrol unol bwysicaf erioed ar unrhyw lenor unigol, *Williams Pantycelyn,* drwy baradocsaidd wynebu llenor felly, a ystyriai ef yn drais ar y traddodiad llenyddol, a chanfod mawredd anferth yn hwnnw yn nannedd pob rhagdyb ac ideoleg o'i eiddo ei hun. Haelfrydedd ysbryd sy'n esgor ar haelfrydedd deall. (gw. eto *Y Cynllun sy'n Canu* yn y Wefan hon.)

Sylwer, felly, wrth ymdrin â Mynegiant llenyddiaeth, ac wrth ddechrau ar hynny drwy sylwi ar Ddeunydd, ein bod yn ymhél â Hierarci feddyliol ymarferol. Wedi ymsefydlu mewn un, neu fwy nag un, o'r Sfferau Ystyr, hynny yw mewn Tafod Deunydd, yr ydym yn troi at Themateg. Ac yn y fan yna y byddwn yn ymdroi mewn Mynegiant a hynny mewn hierarci haenol y triawd: Metanaratif, Themâu, a Motiffau. Dyma faes felly lle y profir y rheidrwydd i ddewis achlysuron ystyr, pwrpas, a nod, o'i gyferbynnu â maes Tafod. Ond hyd yn oed o fewn y rhyddid hwnnw, mae yna gryn bwyslais o hyd ar bob unigolyn i gydymffurfio â sialens naws natur yr amseroedd. Cydymffurfir hefyd â threfn yr Hierarci. Ac wynebu Hierarci Saunders a wnawn drwy symud oddi wrth 'Sfferau' cyffredinol iawn tuag at 'Themâu', ac ymlaen i'r Motiffau. Mae yna amgylchfyd thematig ac amgylchfyd trefnol, sy'n gymdeithasol bwysfawr ac yn 'her' i bob unigolyn. Nid dechrau meddwl o'r gwaelod gwyryfol yn thematig a wna'r un llenor unigol. Mae yna hefyd fframwaith i'r deall a'r dychymyg weithredu yn ôl camre anochel trefnus o'i fewn fel y cawn weld. Trefn yw bywyd, o'r atom a'r electron hyd yr iaith a'r deall, a'r galaethau. Mae realedd bywyd yn gyndyn wrth-ôl-fodernaidd, os caf nodi fy rhagdyb ynghylch Ôl-foderniaeth fel ideoleg ddiwinyddol yn ganolog, a gwedd ddirywiol hefyd ar Foderniaeth.

Trefn ryfeddol Saunders Lewis, fel y daeth o hyd iddi yn y diwedd mewn tri cham, yw'r hyn a ddilynwn ninnau yn ganolog wrth olrhain ei amlochredd.

Ceisiwn felly ystyried *tri darganfyddiad mawr* Saunders Lewis wrth ystyried tri o'r prif Fetanaratifau a'i swynai ef.

Oherwydd hyn o adeiladwaith, mae ystyried a dysgu ffurf llenyddiaeth (y mynegiant mwyaf aeddfed o ddelweddu bodolaeth dyn a Duw) yn dwyn gwerth ymarferol i fywyd a gwerth ysbrydol i Feirniadaeth Lenyddol yn ôl egwyddor ddychrynus Cyfanrwydd. Cafodd Saunders Lewis nad oedd modd ymgodymu â meddwl Pantycelyn heb ei fod yn medru dadansoddi'r ffactorau llenyddol hyn.

## NATUR EI RAMANTIAETH

*Williams Pantycelyn,* Saunders Lewis, 1927

Mor amrywiol yw barn beirniaid am ystyr 'Rhamantiaeth', fel y mae llawer yn tueddbennu tuag at ollwng y term yn gyfan gwbl. Mae eraill yn synied mai priodol i'r sawl a'i defnyddia ei ddefnyddio'n benodol o fewn cyd-destun diffiniedig ar y pryd. Yr ail lwybr a ddewisodd Saunders Lewis yn ei bennod olaf i 'Ramantiaeth' yn *Williams Pantycelyn.* Ond yr oedd yna elfen arall ar waith ym meddwl Saunders Lewis. Ceisiai ym mhennod gyntaf y gyfrol honno gyferbynnu Clasuraeth Gymraeg â hi. Bu'r cyferbyniad hwn iddo yn sylfaenol ac yn gyrhaeddgar nid yn unig yn ei feirniadaeth, eithr hefyd yn ei ddramâu a'i gerddi a'i nofelau. Drwy'r gwrthdrawiad syniadol ac egwyddorol a gaed felly y trafododd ef ei ddehongliad ei hunan o Ramantiaeth Gymraeg.

Yr elfen ddiffiniol gyntaf y mae Saunders Lewis yn ei thrafod yw gogwydd 'cymdeithasol' cryf ein llenyddiaeth glasurol wrth iddo bwysleisio'r 'unigrwydd' tybiedig a gaed mewn Rhamantiaeth. Yr wyf wrth gwrs yn y cyd-destun hwn yn derbyn ei ddisgrifiad diffiniedig, ond yn betrus. Amau'r wyf y modd y mae Saunders Lewis yn ei gymhwyso at Bantycelyn. Dadleuais o'r blaen fod gwaith ymroddedig Pantycelyn yn sefydlu 'soseietis' yn ymarferol, ac yn sgrifennu *Cyfarwyddyd* iddynt, yn mynd yn groes i hyn. Mae'r hyn a wyddom amdano'n bersonol yn cadarnhau mai cwmnïwr cymdeithasgar oedd hefyd. Felly y mae ef yn sgrifennu'i farwnadau. Mae'r hyn a wyddom hefyd am ei bregethu, a'i ran yn y Diwygiad, a'r emynau ar gyfer Seiadau yn tanlinellu'i le bwriadol i fod yng nghanol y gymdeithas.

Pan sonnir am 'unigrwydd' Pantycelyn, gwiw felly yw lleddfu'r gosodiad rywfaint. *Seren bop* oedd Williams wedi'r cwbl. Gyda'r miloedd yn sathru ar ei draed yn Llangeitho ym 1762, nid yw'n debyg fod ambell un o garfan Llŷn yn ebychu, 'Drycha ar yr hogyn *unig* acw. Williams 'di hwnnw?'

Aeth Saunders ati i drafod, ddwedwn i, y llenor mwyaf poblogaidd a gafodd Cymru erioed. Ond gwnaeth rywbeth, drwy drugaredd, sydd wedi mynd yn bur amhoblogaidd yng Nghymru bellach: defnyddiodd ym 1925 ei feddwl a'i ddeall yn y fath orchwyl cymdeithasol, a hynny yn Gymraeg.

Dichon o dan y sioc feddylgar hon fod y Meddwl Cymreig gwasaidd ar y pryd wedi gorfod ymysgwyd o gywair poblogrwydd, cywair a ddisgwylir ar ei anterth mewn trefedigaeth, a hynny tuag at anrhydeddu ansawdd. Ac yn pen draw, megis yn y bywyd ysbrydol, felly mewn llenyddiaeth, dichon mai ymysgwyd sylweddol o ddifrif syn cyfrif. Doedd y weithred 'wrth-ysgafn' honno yn y dyddiau hynny ddim mor angharedig nac mor wrthsefydliadol ag y buasai yn ein dyddiau ni. Ac eto, rywfodd, wrth i Bantycelyn ei ddodi'i hun yng nghyfnod yr Oleuedigaeth ym

myd dysg a myfyrdod, y mae'r holl broblem o boblogrwydd yn mynnu ei wynebu ef fel yr wynebodd Saunders hi wedyn.

Ni chafwyd erioed yng Nghymru lenor mwy poblogaidd na Williams. Ni werthwyd erioed, yn wirfoddol naturiol ac yn ddi-nawdd, waith yr un llenor Cymraeg unigol fel y gwerthwyd hwn. Yr oedd yn ddarllenadwy rugl ac yn 'ysgafn', heb fod hynny ar y pryd mewn cyd-destun nawddogol. Ymestynnai'i apêl ef o'r dosbarth gweithiol hyd at ddysgedigion y dosbarth canol. Heriwyd Saunders Lewis yn gynnar felly i ddygymod â llenor poblogaidd.

Yr oedd hyd yn oed ei arwrgerddi, heb sôn am ei emynau, yn fwy derbyniol yn gyffredinol, na'r *Penillion Telyn.* Ac yr oedd amryw o'r rheina'n gallu rhagori yn fynych – hyd yn oed oherwydd eu gwerth llenyddol – ar lawer o'n llenyddiaeth uchelwrol, yn 'safonol' felly. Ac nid oherwydd eu bod ar gyfer 'plant' o ran deall nac yn 'boliticaidd gywir' nac yn 'ddogfennau cymdeithasol' hanesyddol chwaith. Ceisiai Saunders Lewis drafod Williams ar wahân i sŵn gwleidyddol ystadegau cyhoeddi, eithr yn ôl ansawdd hanfodol ei gynnyrch.

Llenor enfawr oedd William Williams. Doedd dim rhaid cael 'rhyw' anaeddfed na masnachu emosiynol na thrais trawiadol na 'siarad i lawr' na'i dwpeiddio i berswadio neb rhigolog i ganlyn traed hwn. Nid dyna a ddarparai bolisi llên ar y pryd. Yr ydym yn cydnabod bod peth o lenyddiaeth 'boblogaidd' y gorffennol – y topicaliad, a llawer o anterliwtiau ysgafn y ddeunawfed ganrif, papurau newydd a baledi'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ffugchwedlau – yn gymdeithasol bwysig. Ond maent wedi darfod nerth eu sodlau o safbwynt llenyddol, er gwaethaf eu gwerth 'hanesyddol'. Ni wyddom namyn ychydig bach bach am lenyddiaeth 'boblogaidd' yr oesoedd canol chwaith. Ond nid felly Pantycelyn. A da hynny heddiw. Tra bo llên-garwyr yn cilio oddi wrth werthuso esthetig, ac yn cogio'u bod yn methu â chyrraedd pynciau metaffusegol, fe bery llenyddiaeth eu cenedl ysywaeth yn llenyddiaeth daeog. Ac eto, yn achos Pantycelyn, hyd yn oed mewn llenyddiaeth aruthr ymrwymedig o fath emynyddiaeth, gallwyd cael gwerth deallol, dychmyglon, teimladol, ac ieithyddol a oedd yn fwy diwylliannol ac esthetig i bob dosbarth hyd at ein dyddiau ni. Hyd yn oed heddiw, darllenir gwaith y llenor hwn yn wythnosol gan filoedd o bobl heb iddo ef ei hun (er gwaethaf pwyso didrugaredd) droi'n arwynebol. Erys ar gof myrdd. Ac ar un lefel cenir ei waith mewn caeau rygbi.

Ond canodd Pantycelyn hefyd yng nghalon Saunders Lewis. Ymholodd beth a roddodd i Williams y fath nerth celfyddydol? Sut yr apeliodd? A oedd yna 'fformiwla' ar gyfer bod yn 'orau-werthwr' parhaol o genhedlaeth i genhedlaeth? A hynny heb wobrau blynyddol?

Yn yr astudiaeth ohono gan Saunders Lewis ceisid myfyrio ynghylch rhai o'r prif elfennau angerddol ac ymenyddol a gaed yng ngwaith William Williams Pantycelyn. Dyna a'i gwnâi nid yn unig yn 'fardd mwyaf Cymru' ym marn Gwenallt, a'r llenor mwyaf poblogaidd a gafodd ein gwlad

erioed ym marn lliaws: yr oedd yn un a oedd hefyd ymhlith y bobl, oherwydd nerth ei ddawn lenyddol, a wnaeth yr iaith Gymraeg yn werth ei hachub ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Prin bod angen dweud, wrth gwrs, fod yna felly fwy o lawer nag ysgafnder disylwedd yn ei epigau. Yr oedd potensial ei ddeunydd mewn emynau yn ddwfn arwyddocaol i bawb. Oblegid y theorïau gwleidyddol cyfoes a'r Sefydliad ariannog sy'n cynnal ein llên bellach, byddai rhai'n ddigon rhyfygus i ddadlau bod golwg 'arwynebol' a 'rhwydd' ar fywyd braidd yn angenrheidiol cyn bod pobl yn gallu ymateb i lenyddiaeth o gwbl mwyach. Rhaid peidio â chaniatáu mwy na dwy sillaf mewn gair. Rhaid cilio i'r ffos olaf. Ond y mae hyn wrth gwrs yn ffordd braidd yn anghytbwys o wynebu llawnder a chyfoeth llenyddiaeth. Dyma wneud eilraddoldeb mewn llên yn sefydliadol. Ac os ydym am wybod cyfrinach Williams, rhaid inni dreiddio ychydig yn ddyfnach na hynny, mae'n debyg. Mae trefn feddyliol Williams yn hawlio beirniadaeth amlochrog.

Mynnai Saunders Lewis sôn am ŵr o Sir Gaerfyrddin a fu'n byw yno, beth bynnag yw barn rhai haneswyr diweddar, yn ystod y profiad cymdeithasegol estynedig mwyaf rhyfeddol y bu neb erioed yng Nghymru yn byw yn ei ganol. Gŵr ydoedd a fu'n cerdded ymhlith cannoedd o gymdogion, hwythau hefyd yn aml wedi'u llenwi â llawenydd a gweledigaeth anghyffredin ond ystyrlon. Gŵr deallus dros ben, ond gŵr cymysg werinol ei anianawd. Gŵr dysgedig a meddylgar ond un a gafodd adnabod a charu pobl gyffredin lawer o'i ddeutu, a'r rheini'n tyfu'n ymenyddol ac yn brofiadol fel y gallent weithiau ymwneud ag athrawiaethau anferth o ddwfn. Gŵr ydoedd a faethwyd gan y ffaith iddo rodio hyd at borth y nefoedd, a sbio drwy dwll y clo i mewn i'r ochr arall. Daeth wyneb â wyneb â gwyndra'r Mab am foment, ac fe ddaeth yn ei ôl i sgrifennu â gwaed ei galon am y pethau hyn. Gŵr a ganfu hanfod cynllun y Greadigaeth drosto'i hun a'r modd yr oedd tynged dynol-ryw yn ymhél â'r Absoliwt Tragwyddol a luniai'r cyfan oll. Ac yna, wele, yn nwy gerdd hir bwysicaf yr iaith Gymraeg, yr arwrgerddi modern cyntaf yn yr iaith hon, dyma ŵr a gyflwynodd i ni, mewn arddull arw ac mewn ffurfiant blêr weithiau, amlinelliad od o drefnus o'r cynllun hardd a godidog ac amrywiol a ganfu. Fe'i canfu yn ei fanylder a'i led a'i lawnder cymen. Ac yn fanwl ddatblygedig fe'i rhoddodd at ei gilydd. A'r un pryd gallai droi oddi wrth y cerddi hir hynny i ganu oddi ar yr uchelfannau rai o'r telynegion moliant prydferthaf i Dduw a glyw-wyd erioed, cannoedd o emynau dwys. Pantycelyn oedd y gŵr hwn. Wynebu hwn oedd sialens Saunders Lewis. Ac er mwyn i ni gael cipolwg ar faint a siâp y meddwl hardd a luniodd y pethau a wnaeth Pantycelyn, y mae'n rhaid oedi'n ddadansoddol gyda'r ddwy arwrgerdd hynny. Yr hyn a welwn yw cyd-adeiladwaith eithriadol o gelfydd yn syniadol, yn frenhinol o ddyrchafedig, a hynny'n baradocsaidd fwriadol mewn ffurf ac iaith briddlyd gyffredin, fel pe bai'r nefoedd wedi dod i breswylio yn ei stabl aflêr ef, sef un o'i brif themâu. Dyma ffurf ei feddwl. Rhaid troi wedyn oddi

wrth yr arwrgerddi at y caneuon moliant, ac at y rhyddiaith. Saunders Lewis oedd y beirniad cyntaf i wynebu'r rhychwant hwn.

Cafodd y gŵr hwn weledigaeth enfawr a thragwyddol o wefreiddiol a ffurfiodd ei feddwl oll. Dywed hyn gryn dipyn am Saunders Lewis hefyd. Peth o'r her i feirniad oedd ymgodymu â rhywfaint o'r weledigaeth honno. Byth ar ôl iddo fod yng nghanol berw aruthr ei gyfnod, prif waith y bardd disglair ifanc hwnnw, Pantycelyn, fyddai sgrifennu am ystyr yr hyn a ddigwyddasai iddo. Lluniodd gorff o waith prydyddol athrylithgar, ynghyd â llyfrau rhyddiaith: y cwbl yn fynegiant o'i weledigaeth newydd, a ddadlennai gynllun anweledig. Sefydlwyd addysg newydd. Chwalwyd israddoldeb Cymru, i raddau, gan yr Ysbryd Glân.

Anhrefn oedd y 'Cynllun' hwnnw, yn ymddangosiadol. Meddai'r Athro Geraint Gruffydd: 'Williams yn ddiamau oedd prif amddiffynnydd y 'jumpers' neu'r Neidwyr o 1762 ymlaen.' Yn ôl Robert Jones Rhos-lan, *"Pan ddaeth y tywylltiadau grymus hyn ar amryw o gannoedd, os nad miloedd, trwy y Deheudir a Gwynedd, bu llawer o gynnwrf a dadlau yn ei gylch; daliwyd llawer â syndod gan ddywedyd, 'Beth a all hyn fod?' 'Meddw ydynt,' meddai rhai. 'O'u cof y maent,' meddai eraill, yn debyg iawn  i y rhai hynny gynt ar ddydd y Pentecost; ond ni feiddiodd braidd neb wneud niwed iddynt, ond yn unig eu gwneuthur yn nod i gynnau tafodau."* Hwn oedd y creadur anystywallt trefnedig a goruwchnaturiol a wynebai Saunders.

Meddai Williams yn *Ateb Philo-Evangelius,* 'Mae aelodau ein corff, fel galluoedd ein henaid i ogoneddu Duw, ac i fynegi i'r byd ei glod ef...' Ac yn *Llythyr Martha Philopur,* 'Mae fy synhwyrau i yn fwy buan; yr wyf yn deall pethau Duw yn fwy golau; mae'm rheswm a'm holl nwydau mor gyngan yn eu trefn.' Y drefn anhrefnus honno, y deall a'r rheswm cynhyrfus hwnnw yw peth o fyfyrdod Saunders. Eto, gall y darllenydd hunanddisgybledig eistedd yn dawel gysurus ac yn ddi-ofn, canys sôn am bethau gwareiddiedig fel 'cyfundrefn' y bydd Williams. Trefn yw ei destun, yn y bôn, ie, 'trefn yr arfaeth', a 'threfn y cadw' meddid gynt, y drefn fanwl a barodd i Williams ebychu, 'Mae 'nghnawd a'm hesgyrn yn gorfoleddu yn y Duw byw.' Bu llawer o hyn yn annisgwyl i'r rhagdybiau a arddelai Saunders Lewis ynghylch  gŵr  a allai fod yn garismatig. Synied yr wyf fod Saunders Lewis, wrth iddo ddychmygu Williams, fel yr oedd yn rhaid, wedi dod â gormod o ragdybiau deallol am Freud, seintiau Catholig, a'r syniadaeth am Ramantiaeth. Eithr hefyd, ac yn bwysicach, roedd wedi peidio â dod i berfedd deallol ei Galfiniaeth serchiadol. Yr oedd angen gwisgo'r 'gwylltineb' tybiedig a'r profiad gorfoleddus, a hynny o fewn cyd-destun o feddwl ysgrythurol uniongred cadarn.

Ond golwg soffistigedig oedd testun dwy gerdd hir fwyaf arwyddocaol Pantycelyn. Golwg o safbwynt Duw oedd i'r gyntaf, sef *Golwg ar Deyrnas Crist.* Yna, golwg o safbwynt gŵr 'ifanc o hen', tebyg iddo ef ei hun, a oedd am olrhain hanfod ei fywyd, dyna oedd testun yr ail gerdd, *Bywyd*

*a Marwolaeth Theomemphus.* Canodd i ddyrchafu a dathlu dau o'r gogoniannau dwyfol mwyaf – Cariad Duw yn yr Arfaeth a'r Greadigaeth, a chariad gwaredigol Duw ar y Groes i'r unigolyn. Dau hanes mawr ffurfiedig.

Cynllunio fu cam cyntaf Duw wrth sefydlu'r Deyrnas arbennig a ddarlunnir yn y cerddi hyn: (GGWP I, 32) '*I grëu helaeth deyrnas, bur, gyson, a chytûn.'*

'Arfaeth' oedd enw Pantycelyn ar hynny yng nghyd-destun tragwyddoldeb ac amser. A dyma, fel y darganfu ef yn weddol fuan, fyddai'i gam cyntaf yntau wrth geisio deall y 'drefn' yn ei feddwl ei hun. Dyna yn anochel a oedd yn digwydd gyda cherdd hir bob amser: rhaid cynllunio honno'n drefnus, neu ddod o hyd i gynllun parod. 'Ble'r wyf yn mynd? Beth yw'r dechrau? A'r olyniaeth o gamre? Beth fydd gennyf erbyn y diwedd?' Sylwodd Pantycelyn wrth iddo fyfyrio ynghylch y Creu mewn amser, a Duw yntau yn mynd ati i lunio'r fodolaeth a'r drefn hon a'r bywyd hwn oll i ddyn, er gogoniant iddo'i hun ac i ddyn, mai un o'r rhyfeddodau mwyaf, ac yn wir un o'r gweithgareddau dyfnaf iddo ef ynglŷn â'i greadigaeth farddonol yntau wedyn, fyddai'r drefn ddwyfol a ganfuasai ymlaen llaw. Hynny yw, 'ffurf' hardd yn ogystal â sylwedd hardd. Dyma'r hyn a wnaethai Duw, y Bardd a wnaeth y Byd. Dôi i Bantycelyn, felly, *fath o arfaeth fechan yn ei feddwl,* ymlaen llaw ar gyfer ei fini-greadigaeth fach yntau, ei hun, arfaeth ymwybodol ac isymwybodol yn y pen, a geisiai adlewyrchu neu gysgodi arfaeth Duw.

(GWWP I, 35) *Fel rhyw ben-saer cyfarwydd, wrth wneud adeilad gwych,*
*A bortreada'r cyfan yn hollol yn ei ddrych,*
*Trwy batrwm bychan perffaith o'r holl adeilad mawr,*
*Dry'r cwbwl yn ei ddeall cyn codi maen i lawr.*

Dyna fethod Pantycelyn hefyd. A disgwyliwn y dylsai daro Saunders i'r dim.

Wedyn, yr ail ryfeddod i'r deall, a'r cam cyntaf yn y Creu mawr ei hun, oedd *tarddiad bodolaeth 'pethau'.* Dyma'r hyn a elwid yn 'ddefnyddiau' neu'n 'sylweddau' (*substances*) mewn gofod ac amser. Duw oedd yr achosydd, yr Absoliwt o hyd. Yr Un a barodd hyn oll a esboniai bopeth. Pwy arall? Allan o ddim, o safbwynt naturiol, y peth cyntaf a wnaeth Ef o fewn Cyfundrefn neu gynllun y greadigaeth oedd creu *bodolaeth* sylweddau. Defnydd oedd un o'r llawer o broblemau a ddôi maes o law i ddrysu gwyddonwyr allwyddonol ein dyddiau ni.

(GWWP I, 34) '*Be fe, 'Boed y defnyddiau i grëu mor a thir.'*

Hyn oll yn arwain i gaos,

(GWWP I, 34) *Yn ymderfysgu â'i gilydd, tân, awyr, daear, dŵr*

Dyna'r Creu yn cychwyn yn llythrennol drwy drosiadaeth geiriau. Ac wrth gwrs, y mae *bodolaeth* pethau allan o 'ddim', a'r drefn, yn peri tipyn o anhawster i'r 'gwyddonwyr' llythrennol sy'n ceisio esbonio'r Greadigaeth heb yr un achosydd cyntaf na Phenarglwydd. Ond gadawn y rheini

yn eu chwedlau tylwyth teg a'u ffuglen wyddonol.

Mae dechrau *Genesis* yn y Beibl yn mynegi Mawl mawreddog i Dduw, – megis Taliesin i Urien Rhegid – yn llythrennol ac yn oruwch-lythrennol, ac yn gyd-destun i'r hyn a wnaeth Ef wrth lunio, yn y golwg ac yn nhragwyddoldeb (yn ddamweiniol medd y rhai sy'n 'gwybod'), ddyn ar y ddaear. Heblaw sefydlu diriaeth llawer o wrthrychau sylweddol Ei gariad – yr haul, y tir, y môr, y planhigion a'r anifeiliaid – y tu ôl i'r cyfan o'r golwg, yr oedd Duw yntau yn dal i sefydlu *trefn* esgorol gudd. Dyma'r Duw sy'n siarad. Ac fel gŵr ifanc a chanddo ogwydd gwyddonol i'w feddwl, myfyriodd Pantycelyn yntau yng ngenesis ei ddwy gerdd hir ef ac am ystyr hynny.

(GGWP I, 34) *Yr hyn oedd o'r un natur osododd ef ynghyd*

Trefn y deunydd yn feddyliol. Trefn y Cynllun, sef prif destun Pantycelyn yn *Golwg ar Deyrnas Crist.* Synhwyrodd Saunders Lewis y Goruwchnaturiol hyn oll. Ond ni lwyddodd i'w gymathu o fewn fframwaith Freud.

Ymdeimlodd Pantycelyn â'r drefn hyd fêr ei esgyrn. Ac fel sy'n digwydd gyda threfn o'r fath, yr ymdeimla pawb â hi'n ddwfn odiaeth, yn ddiarwybod i raddau helaeth, fe gymerir hyn yn ganiataol ychydig. Dibynnir ar y drefn sydd y tu ôl i fywyd oll, yn isymwybodol yn ogystal ag yn ymwybodol. Hynny yw, nid profiad teimladol yn unig ydoedd i'r drefn, ond cynnwys cudd hefyd. Yr hyn a wnâi Pantycelyn, felly, yn ogystal â chyflwyno ***'Golwg*** [allanol] *ar Deyrnas Crist',* oedd myfyrio am gydlyniad mewnol ***'O'r golwg*** [mewn dyn] ar Deyrnas Crist.' Caed trefn yr Arfaeth a threfn y Cadw, yn weledig ac yn anweledig, yn ei gerddi dieithr. Dyma destun arswydus i fardd poblogaidd.

Mynnodd Saunders Lewis, beth bynnag am anghydbwysedd ei ddelwedd o Bantycelyn, ysgogi cyhoedd Cymru i'w gymryd o ddifrif fel llenor a meddyliwr. O'r herwydd, daeth gweledigaeth Pantycelyn o rychwant llenyddiaeth, a'r criteria cytbwys i'w feirniadu, yn gynhysgaeth newydd i'r rhai a'i cymerai o ddifrif. A bu i hynny, ar sail gwerth a medddwl, bara tan eu trwynau – i'r ymchwilwyr difrif – yn rym yng Nghymru tan yr ail fileniwm o leiaf.

Trafferth Saunders Lewis oedd, am iddo seilio'i ragdybiau modernaidd ynghylch Williams ar Ramantiaeth a Serch Freud, na allai gysoni'u hymyrraeth â'r Drefn symetrig feddyliol. Perthynai Williams i Eglwys o dröedigaethwyr Trefn y Cadw cydlynol. Diau fod y tröedigaethwyr yn disgwyl chwyldro i'r meddwl; ond ni welent hynny'n groes i chwyldro i'r serchiadau. Dyna un rheswm pam yr oedd y ddelwedd a greodd Saunders o Williams braidd yn amhriodol. Datblygodd barn Saunders wrth gwrs maes o law. Fel llawer un yn ei gyfnod, dechreuodd hyd yn oed Saunders gyda chartŵn o ddelwedd naïf angenrheidiol ynghylch Calfin. Y gelyn sych a haearnaidd oedd hwnnw, y trefnydd dienaid, yr academydd gorffurfiol a ddylai fod yn rhy wrthrychol i brofi grym nerthol yr Ysbryd Glân yn y diwinydd 'caled digariad'; ac yn y blaen. Sylwer ar Ryddfrydwyr dylanwadol y cyfnod. Y

pryd hynny, nid adwaenai Saunders odid ddim o Galfin. Bu'n rhaid newid hyn gan bwyll er mwyn cael unrhyw fath o ddealltwriaeth o fyfyrdod dyfnaf Williams. Ond diau fod ymrwbio â Phantycelyn dros gyfnod hir yn anad dim, wedi peri i Saunders Lewis dyfu mewn ymwybyddiaeth gynyddol nid yn unig o ymennydd Williams, ond o'i ffydd ystyrlon ac eang. Dôi hyn yn ddyfnach o lawer yn ddiweddarach wrth sylweddoli rhagor am ymenyddwaith Methodistiaeth gyfriniol Ann Griffiths. Yn y cyfnod cyntaf, sut bynnag, oherwydd i Saunders Lewis osod y Williams gwyllt yn neilltuedig ddigymdeithas o dwt, ac ar ryw olwg yn anghyfaddas o ramantaidd o fewn fframwaith 'anystwyth' Calfinaidd-dybiedig, aeth y ddeuoliaeth ryfedd ar wahân. Syrthiai'r ddwy ochr oddi wrth ei gilydd fel pe bai rhyddid carismataidd tröedigaeth wedi gorfod cyfarfod liw nos â gŵn du gwarcheidwad carchar diwinyddol. Ni allai myfyrdod o'r fath lai na phrofi tyndra go ddiddatrys... Ond yr oedd y chwyldro meddyliol i Saunders ar y pryd yn dal yn astrus, am iddo yntau'i hun yn ei dro, brofi tadogiadau cartwnaidd lawer am efengylyddiaeth.

## TREFN AC ANHREFN

*Williams Pantycelyn,* Saunders Lewis, 1927

Yn yr ysgrif ddiwethaf, buom yn ystyried natur Rhamantiaeth ryfedd Pantycelyn. Peth arall a hudai Saunders Lewis, oherwydd ei glasuraeth gynyddol, oedd y Drefnyddiaeth glasurol ym meddwl Williams.

Mae gan efengylyddiaeth yr ugeinfed ganrif enw drwg. Fe'i cysylltir yn y cyfryngau â llefaru â thafodau annealladwy, llewygu, 'gwyrthiau' amheus, ac arddangosfa tân gwyllt cyffelyb. Hynny sy'n gwneud 'stori'. Gelwir hyn yn ysbrydoledd neu garismatiaeth. Ac fe'i ceir gan Bentecostaliaid, Mwslemiaid, Anglicaniaid, Catholigion: ni raid bod yn Gristion, er y gall y 'gordeimladrwydd' fod yn rhan o'i fywyd ef hefyd. Tybiai'r Cymro cyffredin fod pob crefydd ddifrif yn wirion. Ond gŵyr pob Cymro meddylgar bellach mai'r hyn a wnaeth Pantycelyn yn llenor mawr oedd y cyfuniad o gredu deallol datblygedig, profiad dwfn a dwys, ac ymarferoldeb gweithredol, gyda'r triawd hwnnw yn cael ei fynegi drwy'i natur gynhenid synhwyrus a dychmyglon mewn iaith fyw.

Mewn gwirionedd, yr oedd gwreiddiau deallol Williams yn braff iawn, ac fe'u maethwyd ar y naill law gan Oleuedigaeth Jonathan Edwards a Wesley mewn cyferbyniad ffrwythlon â'r Ymoleuo, ac ar y llaw arall gan ddeallolrwydd Calfin, John Owen, Baxter, a'r Piwritaniaid. Tyfent o fewn cymdeithas weddol ferw; ferw iawn weithiau. Eto, teimlad o fewn deall oedd.

### *Hanes y Tri Adeilad*

Canrif oedd y ddeunawfed a fawrygai 'Ryddid a Rheswm'. A diau fod i'r ddwy elfen hynny le yn y math o Drefn a geisiodd ac a gafodd Williams. Diau y buasai Williams a Saunders Lewis hwythau bob un yn ei ffordd ei hun yn barod i gymeradwyo'r sgrechair hwnnw. Ond buasai'r ddau yn ei ddiffinio'n ddiau yn bur wahanol i'w gilydd. Yr oeddent hefyd yn sicr o'i ddiffinio'n gwbl wahanol i'r rhelyw o feddylwyr Ewropeaidd y ddeunawfed ganrif. Yr oedd y ddau Gymro hefyd yn dra brwdfrydig ynghylch Trefn waelodol. Ond trobwynt anhrefnus i bob golwg oedd y 18fed ganrif mewn sawl ffordd. Ni chafodd Rheswm bob amser ei ffordd ei hun.

Ym 1789 cwympodd y Bastille. 'Yr Adeilad Cyntaf.' Delfrydwyd y Chwyldro Ffrengig. Codwyd creadigaeth Ffrengig. Codwyd golwg rhywrai tuag Iwtopia, fel y gwnâi'r Marcsiaid hwythau maes o law. Erbyn Tachwedd 10, 1793, fe gyhoeddwyd 'Cwlt Rheswm' fel crefydd swyddogol, sef cyfrif gofod ac amser yn derfynbwynt i bob dimensiwn. Gwir i hyn gael ei ddisodli maes o law gan 'Gwlt y Bod Goruchaf', ar ôl i'r awdurdodau ystyried y math hwnnw o fformiwla'n fwy ymarferol. Dichon fod eu habsoliwt yn ddigon agos i'r Ego Trosgynnol a ganfu Husserl yn ein

cyfnod ni. Oherwydd, yr oedd syniadau Voltaire ynghylch Deistiaeth, a'i ymosodiadau ar yr Eglwys Babyddol a'r holl sefydliad awdurdodol hierarcaidd-swyddogol crefyddol, bellach wedi ennill eu plwyf drwy'r datganiadau hyn. Roedd grym a llygredd yr eglwys wedi'u condemnio, ac yn gywir felly. Tueddodd y feirniadaeth ar yr Eglwys allanol, er hynny, i danseilio credoau mewnol yn sgil y diffygion amlycach. Ceisid datblygu cyfnod go faith o ddifaterwch atheistaidd yn eu lle. A thyfodd hynny'n rhagdyb i ddwy ganrif. Bydolrwydd oedd rhagdyb Rhyddid: bydolrwydd oedd Rheswm.

Hynny yw, roedd crefydd rymus, gymharol newydd arall bellach wedi dod i'r blaen mewn un o wledydd mwyaf dylanwadol Ewrob: Seciwlariaeth enwog Ffrainc. Dyna'r grefydd ryfeddol a ymledai ymhellach ymlaen o Ffrainc drwy Rwsia i lu o wledydd eraill erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Parhaodd y grefydd atheistaidd hon mewn grym (yn yr ystyr greulonaf) drwy Hitler a Stalin a Mao tan 1989. Dwy ganrif gron – heibio i ffigurau arwrol megis Marx, Freud a Darwin, ymlaen yn feddyliol imperialaidd hyd at dynnu ail adeiladwaith symbolaidd i lawr, sef Mur Berlin ym 1989. 'Yr Ail Adeilad'. Yn yr achos hwn, megis gyda'r Bastille, bu'r werin yn casglu cerrig fel cof greiriau oddi ar yr adeiladwaith. Math o Ramantiaeth oedd Marcsaeth.

Yn sgil y ddau gwymp symbolaidd hyn, mewn modd mwy arwyddocaol, fe olrheinir codiad a chwymp Atheistiaeth rymus ffrwythlon drwy gydol dwy ganrif, nes cyrraedd yr anniddordeb llethol presennol. Ac yna, gyda ninnau, y dadrithiad ynghylch dadrithiad.

Felly, yr wyf am sôn am Drydydd Adeilad, un a oedd yn anweladwy.

Fel y gwyddys yn burion, o leiaf gan y rheini ohonom sy'n digwydd meddwl am Ddisgyrchiant ambell waith, nid yw popeth anweledig mor fregus nac yn llai real nag ambell adeilad materol ac ymddangosiadol herfeiddiol. Felly, wedi'r Bastille a Mur Berlin y bu hi yn achos y Trydydd Adeilad hwn. Dyma adeilad oddi uchod, tŷ nad oedd o waith llaw. Rhoddwyd yr enw 'Seiat' arno. Nid oedd yn eiddo i'r un enwad nac i'r un sefydliad eglwysig. Deuid i mewn iddi nid drwy fedydd na thrwy siglo llaw a chofrestru, ond drwy fywhad yr ysbryd, drwy galon newydd, drwy adnabyddiaeth bersonol o Dduw. Yr oedd pob aelod (a dderbyniwyd ac a wnaethpwyd yn aelod gan Dduw ei hun) yn broffwyd, yn offeiriad, ac yn frenin, yn ôl Pantycelyn. Ac ni ellid tynnu'r adeilad i lawr. Nid cerrig materol oedd i'r adeilad, ac nid diwinyddiaeth yn unig fel y cyfryw, ond brics profiad a meddwl a datguddiad a oedd iddo; ynghyd â sment ffydd Feiblaidd. Cynrychiolai hyn y parhad mawreddog symudol. Bu gan Bantycelyn ran bwysig yn yr adeiladu.

Crybwyllwyd eisoes y dyddiad 1789 a Chwymp y Bastille. Yma, yng Nghymru, dyna'r flwyddyn y sefydlodd Thomas Charles, etifedd ysbrydol a chymdeithasol Williams Pantycelyn (ym mryd Williams ei hun), ei Ysgol Sul gyntaf. Ysgol oedd hon na wahaniaethai yn ôl na rhyw nac

oedran na hil, ac a sylfaenwyd gyda'r un dibenion â'r Seiad. Ddwy flynedd wedyn bu farw Williams.

Hyd yr eiliad yna, am ddwy genhedlaeth (a chymryd 26 o flynyddoedd fel cenhedlaeth) yr oedd Williams wedi bod yn cario brics i adeiladu'r ysgolion cylchynol neu'r Seiadau ym mhob math o galonnau. Ac am rai cenedlaethau pellach, byddai ef ei hun yn dal i gario a darparu brics a cherrig er iddo farw. Archwilio rhai o'r brics hynny y bydd pawb sy'n astudio Deunydd ei waith, ie hyd yn oed Saunders Lewis.

***Tri Ffrancwr***

Nid trafod diwinyddiaeth Pantycelyn yn uniongyrchol a wnaeth Saunders Lewis, nac olrhain yn rhestrol gynnwys a syniadaeth ei waith. Mae fy mwriad innau hefyd yn anuniongyrchol. Yn wir, fe ddadleuwn nad aeth Pantycelyn yntau ati erioed nac yn bennaf nac yn uniongyrchol i draethu diwinyddiaeth. Profiad canolog oedd ei faes, a mawl, fel y mynnai Saunders Lewis, ond roedd yn y profiad hwnnw gynnwys deallol, gosodiadol – y cyfundrefnau syniadol. A brics o'r fath yw'n testun ni: y brics eu hun sy'n adeiladu'r brofiadaeth.

Ysgrifennodd yr emynydd sawl cyfrol o ryddiaith. Prin yw'r traethu diwinyddol ffurfiol sydd ynddynt. Saunders Lewis yn y cyfnod diweddar oedd y cyntaf i gymryd y rhain o ddifrif. Yr oedd Voltaire wedi llunio campwaith yn dychanu'r eglwys Babyddol, sef *Candide,* 1759. Nis darllenodd Williams. Ond y mae ei gyfrol *Drws y Society Profiad* yn ateb gorchestol iddo, 'y sylfeini o'r Hen Destament a'r Testament Newydd', meddai Williams. Soniai am y wir Eglwys – ynghyd â gwrandawyr. Ac fe'i gwnaethpwyd ef yn aelod ohoni nid drwy weithred gan swyddog, ond drwy ailgreadigaeth. Gosodai bymtheg o gwestiynau i'w gyd-aelodau, megis y cyntaf. 'A gawsoch chwi olwg ar eich trueni i weled eich hun yn ddieithrhad i wladwriaeth Israel, heb obaith gennych a heb Dduw yn y byd?' Gallai fod wedi dychrynu Voltaire. Ni buasai Voltaire, er ei holl allu, wedi medru deall y frawddeg, mae'n debyg. Nid felly yr oedd hi i Saunders Lewis: y giamster am bechod.

Heblaw Voltaire, ceid yn Ffrainc awdur nodedig arall a oedd yn rhan o'r un chwyldro meddyliol a'r un annealltwriaeth, sef Marquis de Sade (1740-1814). Ef yw un o hyrwyddwyr Atheistiaeth Erotig. Yn ei *Ddialog rhwng Offeiriad a Dyn sy'n Marw* y mae de Sade yn amddiffyn yr egwyddor o fwynhau llygreddau. Wedyn ym 1793 ceir ei ddialog *Athroniaeth yn yr Ystafell Wely* lle y mae'n mawrygu amrywiaeth o wyrdroadau rhywiol. Mae ei ddisgynyddion ymhlith ein llenorion 'beiddgar' cyfoes heddiw. Ef a roddodd inni'r enw Sadist.

Ond yr oedd Pantycelyn eisoes wedi llunio ateb digonol a deallusol iddo, sef *Doctor Nuptiarum, Cyfarwyddwyr Priodas,* 1777, lle y cyflwynir ac y mawrygir perthynas a mwyniant gwryw a benyw â'i gilydd o fewn cyswllt amlochrog aeddfed sy'n cynnwys cyfeillgarwch, parch, perthynas ysbrydol, anrhydeddu, rhyw, cyd-wasanaeth, ffyddlondeb, a chyd-ymostwng. Yr oedd

hyn oll hefyd yn rhan o'r *Templum Experientiae Apertum.* Nid unrhyw weinyddiaeth swyddogol a sefydledig a'i hadeiladodd, ond person amlochrog Crist ei hun yn uniongyrchol. Ni buasai de Sade wedi amgyffred fawr ddim ohono. I'n cyfnod ni, buasai'n wir sioc. Tuedda'n cyfnod syml ni i dynnu at synwyrusrwydd moel hunanol.

Bu'n rhaid paratoi'r pren a'r cerrig ar gyfer adeiladu'r Deml arbennig hon yng Nghymru – mewn gweddi ac ymroddiad, profiad credu, a chariad at Iesu Grist ac at gyd-ddyn. Cafwyd brics deallusrwydd a sythwelediad wedi'u goruwchnaturioli yn y gymdeithas; a hwy yw'n testun.

Ffrancwr arall, a oedd yn fwy deniadol neu o leiaf yn fwy dynol na Voltaire na de Sade, oedd Rousseau (1712-78). Soniai Saunders dipyn am hwnnw. Roedd Rousseau'n fath o Ddeist hefyd, ac wrth gwrs yn dad i Ramantiaeth y tu allan i Gymru. Meddai Louis-Philippe Ségur (1753-1830), 'Apeliodd Voltaire at ein deall. Cyffyrddodd Rousseau â'n calonnau.' Bu'n dad 'ysbrydol' i lu o chwyldroadwyr (cyhoeddais untro ddetholiad helaeth o un o'i ddau waith gorau, *Émile,* ym 1963). Dyn heb y pechod gwreiddiol oedd arwr Rousseau: tybiai nad ei hunan a oedd wedi'i lygru ef, ond cymdeithas a'i gwnaeth (sef y 'nhw'). A dysgai'r awdur dechnegau rhamantaidd ar gyfer meithrin y dyn perffaith … yn bur aflwyddiannus yn ei brofiad personol, fel y gellid disgwyl, ac yn bur annibynnol ar ei ymarfer ei hun. Meddai Saunders Lewis, 'Fe ddywedir weithau mai Rousseau a roes fod i'r ddamcaniaeth newydd. Yr oedd Rousseau (1712-1778) a Williams yn gyfoeswyr; ymddangosodd eu prif weithiau yn agos iawn i'w gilydd. Nid oedd o gwbl gysylltiad rhyngddynt, a theg felly yw cydnabod y naill a'r llall fel sylfaenwyr y mudiad Rhamantus yn llên Ewrop.' Byddwn i'n gosod gyferbyn â *Confessions* ac *Émile* Rousseau y gyfres hir o emynau cyffesol' a ganai Pantycelyn, ynghyd â'r 'emynau serch' a'r 'emynau pererin', megis:

*Rwy'n edrych dros y bryniau pell*
*Amdanat bob yr awr.*
*Tyrd, f'Anwylyd, mae'n hwyrhau*
*A'm haul bron mynd i lawr.*

Nid ydynt yn llai deallol na'r awdur Ffrangeg; ond y maent yn dal yn adeilad byw heddiw. Lleddfwyd Clasuraeth led oer a sych ôl-ryfel-byd Saunders Lewis gan drefn gynnes egin Pantycelyn.

***Eciwmeniaeth y tri***

Ond rhyngom ni yn yr unfed ganrif ar hugain a Phantycelyn yn y ddeunawfed, fe saif rhwystr adeileddeg arall, felly. Bu'r tri Ffrancwr, Voltaire, de Sade, a Rousseau, yn ddefnyddiol mewn ffyrdd gwahanol wrth ei chodi. Nid hawdd i rai gyd-deimlo â'r emynydd mwyach. Codwyd dogma Ansicrwydd Imperialaidd yn ein plith. Ac eto, profodd hyn yn fath o eciwmeniaeth i'r tri

arwr y soniwyd amdanynt. Daeth yn orfodol soffistigedig i'r meddwl modern fod yn amheuol o dan reidrwydd amhenderfyniadol. Galwyd yr orfodaeth ddogmatig ramantaidd hon yn rhyddid. Ac er na chaiff darllenwyr cyfoes yr un anhawster i daflunio'r meddwl i faes teithio gofodol, a bwystfilod arallfydol, ceir rhwystr dwfn ysbrydol a chaled mwyach rhag wynebu themâu Cristnogol. Mae yna rwystr treiddgar seicolegol a hanesyddol gan y dyn 'modern' sy'n mynd yn ôl i Adda, sef rhagdyb yr Ego Trosgynnol.

Beth oedd yr hyn a ddigwyddodd yn y cyfnod diweddaraf? Yn syml, anghrediniaeth 'rydd' wedi'i llwydo. Soniasom gynnau am adeiladau'n cwympo. Dyna gyferbyniad estynedig i'r un Cwymp barfog yn union ag a ddigwyddodd yn Eden. Ac fe ddigwyddodd gennym ni yn gyntaf yn y pwlpudau. Llanwyd llawer o'r rheini gan bobl a oedd yn bur ysgafn eu crediniaeth, a aeth yno i gynnal swydd, i 'actio', pobl a gollasai ddifrifoldeb 'profiad' neu a oedd heb gyfarfod yn bersonol erioed â'r Duw byw, pobl heb dorri'u hasgwrn cefn, arferolwyr, moesolwyr da, Eciwmenwyr gweinyddol, cyfaddawdwyr proffesiynol. Lluoseddwyr. Yng Nghymru, ail-law oeddent.

Dyma elynion deallol Saunders. Wrth i bobl o'r fath, a oedd i bob pwrpas yn seciwlar eu bryd, droi'n arweinwyr crefyddol, ceisiwyd cymhwyso'r neges mwyach i lwybr moesoli, a'i llenwi â rhagdybiau dyneiddiol propor. Codwyd y safbwynt dyn-ganolog i fod yn gyfeirbwynt. Twtiwyd yr absoliwt.

Ceisiodd y 'credinwyr' newydd bellach osgoi trefn grediniol y Beibl. Felly, awdurdod 'Rhyddid' amdani! Sef y goddrych yn lle'r Gwrthrych. I lawr â Gwirionedd y tu allan i'r hunan. Nid derbyniol mwyach oedd Duw cyfiawn. Yr oedd y syniad bod achos yn peri effaith yn anghyfleus i'r bryd a lanwyd â chwaraeon relatifrwydd. Ni ellid deall sut y gallai 'Trefnyddion Calfinaidd' gynt o bethau'r byd, – a oedd i fod yn ôl pob synnwyr mor brennaidd ac mor llythrennol a rhagrithiol, ac a roddai'r fath bwys ar ystyr ac athrawiaeth a dirwest (gair nas deallent) – gael eu llenwi yr un pryd â'r profiadau personol mwyaf cyffrous, didwyll, a serchog a welwyd yn gafael mewn poblogaeth Gymraeg erioed, o leiaf ers dyddiau'r seintiau Celtaidd.

Roedd Saunders Lewis am droi Pantycelyn yn Rhamantydd, yn rhydd, yn deimladwy, yn flêr yn unol â hyn. Ond yr oedd yn rhaid iddo gydnabod na bu'r un bardd mor gyfundrefnus ei feddwl yng Nghymru erioed, o leiaf ers clasurwyr yr Oesoedd Canol. Bu hwn yn dawnsio'n drefnus. Yr oedd yna baradocs ofnadwy yn sefyll rhyngom ni, y rhyddfrydwyr llac a chysurus diweddar, y 'gwrthryfelwyr' confensiynol goddrychol, a'r bobl sicr draw acw yng nghanol eu Diwygiadau. A dyna'r tramgwydd: sef credu paradocs enigmatig, a threfn Cariad a Barn, Ethol a Chyfrifoldeb, Duw Rhyddid ac Uffern, dyfnder eithafol Pechod ac Iawn gan y Creawdwr ei hun. Credu o ddifri. Dyna'r Drefn dramgwyddus ddieithr annealladwy. A'r meddwl cyd-drefnus oll hefyd. Eto, yr oedd hyn wedi dod o hyd i dir ir yn ysbryd Saunders Lewis.

Anghredu oedd yr unig ddihangfa rhag y fath fygythiad. Caeasant y capeli o un i un, a chyda hwy y Colegau Diwinyddol. Ystyr Eciwmeniaeth ysywaeth oedd casglu'r capeli oll i'r un fynwent. Collasant 'y plot', medd yr unfed ganrif ar hugain, collasant 'drefn Duw' medd yr Epistol at y Corinthiaid, 'y sgêm' medd Pantycelyn. 'Y Cynllun sy'n canu', meddaf innau.

Oherwydd y sgêm yna y pynciodd Williams:

*Rwy'n chwennych gweld ei degwch Ef,*
*Sy uwch popeth is y rhod,*
*Nas gwelwyd lluoedd nefoedd wen*
*Gyffelyb iddo erioed.*

Bu Hwnnw yn Berson unigryw hardd yn hanes Pantycelyn, y Duw-ddyn a anwyd mewn stabl a oedd yn barod i dalu dros gyd-ddyn bris ei lygredd a'i farwolaeth. Dyma'r Duw-ddyn a oedd yn ymwneud â phob gwedd ar ei fywyd, y Creu a'r Barnu, ac Un sy'n dal i herio'n chwalfa heddiw.

***Ateb i'r Triawd Eciwmenaidd***

Heblaw'r ffaith mai Pantycelyn oedd y mwyaf poblogaidd o'n beirdd, felly, rhaid cofio ffaith lawer llai dymunol ym mryd rhai. Ef hefyd oedd y mwyaf cyfundrefnol o'n beirdd pwysig, o leiaf o fewn ei syniadaeth. Ef, yn fwy nag unrhyw fardd neu lenor Cymraeg yn yr amser hwnnw a oedd wedi meddwl yn ddwysaf am drefn bywyd. A gwnaeth ganeuon tra chyfundrefnus o hynny: gyda Cherdd Dafod o athrawiaeth, a Christ yn Ganol.

Yn ystod ei ieuenctid, yn yr academi leol a thrwy'i ddarllen dwys, fe ddarganfu ef fod bywyd yn llawn dop o ddeddfau a chyfundrefnau amrywiol ac unol. Ac ymhellach ymlaen, yn ei ddwy arwrgerdd hir *Golwg ar Deyrnas Crist* a *Theomemphus,* fe ddefnyddiodd ef y wybodaeth ryfedd hon yn helaeth. Fe wnaeth hyn yn destun i beth o'i ganu pwysicaf. Ac y mae'r ymwybod annisgwyl hwn yn treiddio drwy'i emynau. Gwnaeth drefn yn llenyddiaeth angerddol.

Ym maes gwyddoniaeth, calon ei waith cynnar fu myfyrio am y deddfau a'r cyfundrefnau a oedd yn treiddio drwy'r corff dynol a bywyd mater. Hyd yn oed os nad oedd yn *dwys* ddadansoddi realiti bywyd fel y'i ceid yng ngramadeg iaith, fe astudiodd ramadeg Groeg a Lladin rywfaint a Saesneg yn ddiau. A darganfu drwy hyn fod yna deuluoedd o eiriau mewn iaith drefnus, a bod gan y rhain eu rheolau meddyliol. Yr oedd bri newydd ar wyddoniaeth yn ei gyfnod ef. Daeth Newton (y gwyddonydd a'r ysgolhaig Beiblaidd) yn arwr iddo. Felly, fe ddaeth meddwl am drefn yn rhan ganolog o'i ddeall. Saunders a ganfu hyn.

Yn raddol, cyn iddo ddod yn Gristion, yn y capel lleol, ond yn sicr ar ôl ei dröedigaeth y tu allan i'r capel drwy gyfrwng yr argyhoeddiad o bechod yn erbyn Duw (a brofodd ef dan y datguddiad a dderbyniodd gan Howell Harris), daethai i ymwybod â Diwinyddiaeth

Gyfundrefnol (*Systematic Theology*). Dyma wedd nodweddiadol ar ddiwinyddiaeth traddodiad Acwin/Calfin. Dyma hefyd ddatguddiad chwyldroadol iddo. Ymdeimlai Saunders Lewis â hyn hefyd. Ond ni ddôi'n barod i ymgodymu ag ef am rai blynyddoedd eto.

Drwy Ddiwinyddiaeth yn bennaf y dôi'r bobl gyffredin yn eu trafodaethau y pryd hynny ar draws Athroniaeth bywyd. Diwinyddiaeth oedd yr hyn a ddysgai iddynt feddwl am bethau heblaw defaid a moch a rhyw. Ger Llanddewi Felffre ceir capel gan y Bedyddwyr yn dwyn yr enw 'Ffynnon-well-na-buwch'. Yn gefndir i Ddiwinyddiaeth o'r fath erbyn y ddeunawfed ganrif, ar ôl llwyth o waith meddyliol gan y Piwritaniaid, yr oedd yna ddatblygiad pur gyffredinol, yn yr astudiaeth ddwys a'r wybodaeth am Gyfundrefnau Deallol ym maes Cyffes, gan bobl fel Griffith Jones, Llanddowror, mentor Howell Harris a Daniel Rowland, a chan lawer o'r praidd dysgedig cynyddol.

Gwelai Pantycelyn drefn ddwyfol yn ymestyn o'r bydysawd enfawr i lawr i drafferthion pitw dyn:

(GWWP I, 26) *Distewch, greaduriaid, bellach, disgwyliwch wrtho ef,*
*'Rhwn 'n ôl y ffordd y marciodd mae'r cwbl tan y nef;*
*Efe yw pen pob trefen, a phob gweithredoedd mae*
*Er clod tragwyddol iddo yn wastad yn cyd-wau.*

Mor glasurol oedd greddf Pantycelyn, ac mor glasurol ddeallol.

Un o bennaf cymwynasau Saunders Lewis fel beirniad llenyddol, mewn poblogaeth sydd bob amser yn gorseddu'r arwynebol os gall, fu dangos bod gan lenyddiaeth Gymraeg draddodiad deallol. Sioc anesmwyth fu i'r un gŵr hwn wedyn yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif ddangos ym *Meistri'r Canrifoedd* fod beirdd yr Oesoedd Canol yng Nghymru gynt, fel Dafydd Nanmor, Tudur Aled, ie hyd yn oed Siôn Cent a Dafydd ap Gwilym, yn gallu 'meddwl' yn Gymraeg. Ond wedyn, hyd yn oed ar ôl y Dadeni Dysg, pryd y dechreuai Prifysgolion dyfu ac ymledu mewn gwledydd mawr imperialaidd, y peth mwyaf annisgwyl yng Nghymru oedd bod mudiad 'poblogaidd' wedi codi ymhlith y werin ddarllengar Gymraeg erbyn y ddeunawfed ganrif a ganiatâi hyd yn oed i bobl gyffredin ddefnyddio'u crebwyll yn gyfundrefnus. Fe'u harweinid gan ddoniau nodedig megis Griffith Jones, Pantycelyn, Thomas Charles, a Lewis Edwards; a blodeuasant.

Roedd hyn hefyd at ddant Saunders Lewis. Fel pob beirniad o bwys, roedd ganddo agenda.

Mewn canrif megis yr ugeinfed, dangosodd fel yr oedd rhuddin deallol y genedl am gyfnod, gynt, wedi dal yn braff drwy fyfyrio'n ddwys am faterion ysbrydol o bethau'r byd. Daethai'r deall yn boblogaidd i'r werin. Ceisid gan rywrai bid siŵr ein perswadio mai hollti blew di-fudd oedd y dadleuon diwinyddol a fu, a bod ystyriaethau metaffusegol ynghylch pwrpas bywyd, gwerthoedd moesol, a'r fframwaith ysbrydol cyfundrefnus yn amherthnasol. Ond ymhlith y werin honno yn y

ddeunawfed ganrif na chawsai gyfle teg ym maes addysg swyddogol, cafwyd lleiafrif galluog (heb fod mor fychan ag y tybia rhai), yn ogystal â chryn nifer o bobl ymddangosiadol gyffredin, a flodeuai o fewn cyd-destun o fyfyrdod difrif. Daethai dyfnderoedd o fewn cyrraedd pawb. Codwyd amgyffrediad o drefn ddeallol. Codwyd ledled y gymdeithas, erbyn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fyfyrio metaffusegol wythnosol, diwylliant aruchel o gorau ac eisteddfodau, cyrddau trafod a chylchgronau dysgedig, a phregethu meddylgar ac ymddygiad moesol yn ogystal â thrafod deallol cyson. Lleisid llawer ohono mewn modd syml iawn; a llawer mewn modd heriol ddeallol, a allai ddigoni'r meddyliwr mwyaf cymhlethog. Ac nid at seciwlariaeth yr arweiniai'r ymenyddau i gyd. Yr oedd llawer o hyn ar ffurf cyfundrefneg ddiwinyddol, yn berthnasol ddigon i bobl seciwlar, a Chariad ffrwydrol yn ei dreiddio. Ond William Williams oedd prif arloeswr y chwyldro ymenyddol hwn. Oherwydd, fe'i canodd oll. Hynny yw, hedodd ei ddiwinyddiaeth gyfundrefnol mewn Gogoneddiad cynganeddus i bennau gwerin a ddeallai mwyach gyda hyfrydwch goludog-dlawd dermau technegol Adnabod Duw. A beth bynnag am gywirdeb arloesol S.L. yn ei ddehongliad o Bantycelyn, bu'n fodd inni'i ailystyried ef hefyd yn athrawiaethol deimladol mewn hierarci o werthoedd.

# ADEILADWAITH MEDDWL PANTYCELYN

*Williams Pantycelyn,* Saunders Lewis, 1927

Bu Saunders Lewis yn diwyd olrhain datblygiad *profiadau* Williams Pantycelyn yn ôl *patrwm cyfriniol.* Cywirwyd pwyslais y drefn honno'n ddiweddarach gan yr efengylydd R. Tudur Jones drwy ddod at brofiad Pantycelyn yn ôl datblygiad *ystyron* gwaelodol hwnnw, a thrwy fabwysiadu ymagwedd gydymdeimladus â thwf athrawiaeth yr emynydd. Cywirodd hefyd y cynllun o safbwynt Protestannaidd 'undeb' ysbrydol.

Mae meddwl Pantycelyn am y byd a'r betws wedi'i adeiladu yn ôl cydlyniad cydweol rhyfeddol. Gwyddai'n sythwelediadol am undod popeth, ac am y gwahanu. Cyfundrefn o gyfundrefnau deallol fu sail ei syniadaeth oll am fywyd, lle y mae pob rhan yn ymuno yn gyfanwaith syfrdanol o undod cymen a hardd. O'r gell leiaf yn y gwaed, ac o'r gyfundrefn leiaf mewn mater, hyd at symudiad y planedau ac ymlaen drwy'r byd ysbrydol canfyddai Pantycelyn ogoniant cynllun anferth. A chanfyddai gyfanwaith wedi'i lunio gan allu Absoliwt Tragwyddol yr Un a esgorodd ar Fodolaeth. A'r cwbl yn ganu. Gwyddai hefyd am undod â Duw.

Ceisiais un tro ddisgrifio 'Cerdd Dafod' y Cymry fel Cyfundrefn o gyfundrefnau rhyfeddol o gydweol. Yr hyn a wnaeth Cerdd Dafod i *seiniau,* gyda phob rhan yn ddiwnïad mewn meicrocosm, hynny a ganfyddai Pantycelyn ym maes *ystyr* mewn macrocosm panoramig. 'Cynllun sy'n Canu' oedd y ddau. Adeiladwaith cytbwys a chain a threfnus oeddent yn dod i uchafbwynt mewn Absoliwt gyda llun o fân gyfundrefnau meddyliol yn uno â'i gilydd yn ystyrlon hierarcaidd, tan gyd-byncio. Pa wahaniaeth a wnaeth hyn i Saunders Lewis?

Canfu Pantycelyn gynllun y Greadigaeth ac ystyr dyn mewn amser a lle yn ôl trefn farddonol Feiblaidd. Yno – ei hunan – canai Duw Fawl. Ac yng ngwaith Pantycelyn gellir ymwybod â mawl i amser Hanes hefyd yn ôl dehongliad Diwinyddiaeth ei hun. Ceir yr hyn a elwir yn Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol y gellir ei holrhain drwy draddodiad y Meddwl Cristnogol o'r Beibl (yng ngwaith Paul yn bennaf) ar hyd yr oesoedd i lawr drwy Awstin ac Acwin a'r diwinyddion canoloesol hyd at y diwygwyr Protestannaidd gan gyrraedd uchafbwynt newydd yng ngwaith Calfin. Fe ddilynwyd y rheini gan y Piwritaniaid, y rhai a gafodd gryn ddylanwad uniongyrchol ar ddatblygiad meddyliol Pantycelyn. Cyneuwyd y serchiadau.

Drwy beidio â chanfod y cytundeb rhwng meddwl a phrofiad Pantycelyn fel hyn y cloffodd Saunders Lewis ychydig (yn gynnar) yn rhagdybiau ei ddadansoddiad o'i brofiad. Yr oedd ganddo'r meddwl i barchu a thrafod cyfundrefnau, ond fe'i hataliwyd gan ei gyflyru 'cyfriniol'. Hynny yw, i raddau boddodd Saunders Lewis yn ymyl y lan.

Yng ngwaith Pantycelyn, cafwyd yr ymgais gyntaf yn y Gymraeg i olrhain cydwead

cynganeddus y Weledigaeth anferth hon, a hynny yn *Golwg ar Deyrnas Crist.* Delwedd o drefn oedd hon lle y caed Cynllun aruthr, a elwid yn Arfaeth, cynllun o ddiriaethau a ddadlenasid o fewn amser a lle. Ond y tu ôl i'r hyn a welid, fe geid hefyd batrwm mawr anweledig a thragywydd cydlynol ym meddwl Duw ei hun, mewn Mawl. Yr oedd y fath weledigaeth yn taro S.L. i'r dim.

*Golwg ar Deyrnas Crist* yn anad unpeth a rydd i ni y Weledigaeth gyfun hon o realiti, lle y mae'r cyfrin a hanes ac ystyr yn cyfarfod â'i gilydd.

Ar ôl sgrifennu'r arwrgerdd hon, sy'n amlinellu prif benawdau'r Arfaeth oll o'r Ethol hyd yr Uniad a'r Gogoniant, fe dry'r bardd i nesáu at ran o'r testun hwnnw yn fwy manwl mewn ail arwrgerdd. Cymer ef un o'r symudiadau canol a godidocaf o fewn y rhediad oll, a'r uchafbwynt i'r Arfaeth. Ac fe'i cyflwyna eto yn ôl hanes un dyn, *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus,* a'i gysylltiad uniongyrchol ddirfodol â Duw. Dyma fywyd a marwolaeth Cristion unigol ar raddfa gawraidd, chi a fi efallai. Nid Pantycelyn ydoedd, medd rhai. Nid y Cristion nodweddiadol, medd eraill, eithr delwedd o bechadur cynddelwaidd enfawr. Ac eto, Pantycelyn, ei brofiadau ef (a'm rhai i a chwi) a gesglir. Pechadur pennaf y pechaduriaid oedd, fel y gwyddai Pantycelyn (fel Paul) amdano'i hun gerbron Duw, ddigon i dynnu Crist i farw drosto, ond un a lwyddodd drwy ras i goncro cynllwynion a dirgel orthrwm ac anniddordeb llipa'r pechod mwyaf, sef ei anghrediniaeth. Ni chanfu Saunders Lewis natur drefnol y panorama hwn mewn diwinyddiaeth yn y cyfnod cynnar.

Delir ati hyd yn oed heddiw i olrhain y rhan arbennig hon o'r Arfaeth gan ddiwinyddion cyfundrefnus. Mae'r meddwl ei hun, mae'n amlwg, yn cael ei batrymu yn ôl dulliau trefn gydlynol a chynhwysfawr, megis Cerdd Dafod ei hun. Dyma ail wedd gwbl gysylltiedig ar sylweddoliad Pantycelyn o feddwl Duw. Dyma gredu Cristnogol. Sef perthynas dreiddgar rhwng Duw a'r bersonoliaeth unigol.

Hyn oedd pensaernïaeth syniadaeth Pantycelyn mewn dwy arwrgerdd. Dyna hefyd y cefndir i'w brofiadaeth emynyddol ffrwydrol, ei ddealltwriaeth o adeiladwaith a chydlyniad bywyd oll, y weledigaeth gyfannol Gristnogol ar gân. Hyn oedd sylfaen a datguddiad ei waith. Lluniwyd ei emynau i gyd ar sylfeini meddyliol cydlynol, heb ddim ar chwâl.

Hyn oll a anwybyddodd Saunders Lewis, mae arnaf ofn wrth gymhwyso cyfriniaeth Gatholig a syniadaeth Freud ato. Ni chanfu fod Pantycelyn wedi dod o hyd i ystyr fframweithiol ei gyfriniaeth Feiblaidd nid yn ôl fframwaith goddrychol rhai cyfrinwyr. *Summa Theologica ar gân,* meddai Saunders Lewis yn gywir am *Golwg ar Deyrnas Crist.* 'Nid yw cynllun Dante yn y *Divina Commedia* yn ehangach.' Ymddengys fod Pantycelyn wedi cydsymud yn gyfriniol yn unol â'r Cynllun a osodwyd yn wrthrychol yn y Beibl. Diwinyddiaeth gyfundrefnol Galfinaidd oedd y ddisgyblaeth a ddaliai'r cwbl wrth ei gilydd: meddwl mewn profiad, dyna'r cefndir. Ond ni ddilynodd SL y trywydd hwnnw i'r pen drwy grynswth gwaith yr Emynydd oherwydd Seirenau

eraill.

Nid deunydd diwinyddol yn ôl y llythyren mohono gan Williams, serch hynny. Ni cheisiai ef yn un man yn uniongyrchol amlinellu Diwinyddiaeth Gyfundrefnol yn daclus ffurfiol academaidd ryddieithol. Nid yw Pantycelyn yn mynd ati i gyflwyno dadleuon (er eu crybwyll) nac i amlinellu'n academaidd y cyfundrefnau hyn a luniai'r Gyfundrefn odidog a'i hysbrydolai ef. Ei chanu a wnâi, a thraethu profiad. Ei dathlu. Ond mae yna destun canol i'w ganu: wedi'i egluro mewn ysgrythur. Mae yna gyswllt patrymol cyflawn i'w themâu. Ond ni fynnai byth ei gyflwyno'n gategorïaidd drefnus, eithr yn brofiadol o ran sylwedd. Yr hyn a wyddai oedd ei drawsffurfio, a phyncio'i wybod gosodiadol neu'i ymateb personol i'r cynllun hwnnw yn ôl miwsig ei enaid moliannus. Fe'i cyfareddwyd gan drefn esthetig y sylweddoliad Cristnogol, neu'i 'phensaernïaeth' ysbrydol fel y dywedai. Hyn, hyd yn oed i Saunders Lewis, oedd y dieithrwch.

Ar ryw olwg, yn y drydedd wedd ar ei waith prydyddol y ceir uchafbwynt ei gyfansoddiadau, sef yr emynau. Ond rhan o undod oeddent.

Yn gyntaf yn *Golwg ar Deyrnas Crist* cyflwynasai amlinelliad llawn o'i Weledigaeth. Closiai wedyn yn *Theomemphus* oddi wrth y cyd-destun panoramig at bortread lleoledig sy'n crynhoi, mewn un enghraifft bersonol o fewn yr Arfaeth, yr hyn a ddigwyddasai o fewn y Greadigaeth. Ond eisoes, yn yr Emynau a hyd y diwedd, yn drydydd, ac mewn detholiad, closiai drachefn at brofiad unigol ar ôl profiad unigol y 'fi' wan i fynegi digwyddiadau personol a sylweddoliadau cyffredinol achlysurol o fewn y Gyfundrefn hon o gyfundrefnau. Mewn cannoedd o Emynau, rhai ohonynt ymhlith telynegion mwyaf trawiadol yr iaith Gymraeg, y mae'r ymennydd cyflawnaf a chraffaf o bosib a sgrifennodd yn yr iaith ers Dafydd ap Gwilym, mewn tafodiaith 'flêr' weithiau, ac mewn ffurfiau sathredig weithiau eraill, ond bob amser mewn modd dadlennol a chydlynol, yn llunio i ni gyfansoddiad unol gan fynegi ei brofiadaeth. Mae'n feddyliol yn gyntaf ac yn deimladol yn ail, ar lun gweledigaeth enfawr yr arfaeth a'r berthynas. Pe cawsai Saunders yn ei ieuenctid gliriach crap ar adeiladwaith Beiblaidd ei hun, buasai'i gyflwyniad i athrylith Pantycelyn yn fwy unplyg. Ond gwelodd gymaint, serch hynny.

Rhyfedd yw ystyried bod Saunders Lewis o gwbl yn adeiladu fframwaith eang a dwfn ei Feirniadaeth Lenyddol ei hun drwy led fyfyrio ar bynciau mawr Rhagluniaeth.

Diau fod angen fwy neu lai yn syth inni geisio diffinio beth yw 'cyfundrefn'. Gellid dweud yn gryno mai undod neu uned yw, lle y ceir y tu mewn iddi yn bwrpasol rannau neu elfennau cydlynol, sy'n perthyn i'w gilydd o ran maes neu o ran cyferbyniad neu olyniad. Ni ddeellir undod gwaith Williams na gwaith Saunders heb hynny. Adeiledir yr undod drwy broses reddfol neu gynhenid yn y deall ac yn y Greadigaeth, drwy sythwelediad, sef 'gwahuno'. Mae 'gwahuno', fel y gŵyr y cyfarwydd, yn golygu bod y plentyn wrth ddysgu iaith, yr oedolyn wrth feddwl, y bardd

wrth lunio englyn, neu'r llenor wrth lunio brawddeg, a'r gwyddonydd wrth gwrs, yn gorfod canfod undodau neu gysondeb o gwmpas y rhannau. Heb y broses ddeuol hon, 'does dim dyfodol ystyrlon mewn gwyddoniaeth na chelfyddyd. Fel arfer, bydd yr elfennau mewnol isymwybodol yn y cyfundrefnau hyn yn ddeublyg, fel y ceir yn Iesu Grist ddwy natur mewn un person; neu'n driol, fel yn y Drindod. 'Sgêm' oedd term Pantycelyn. Peth a fuasai'n ddôs o foddion go hallt i rai o'r 'cyfrinwyr' modern, boed dan gyffuriau neu beidio. Adeiladodd Pantycelyn a Saunders sgêm gyrfa.

I mi, dyma un peth sy'n tanlinellu'r gwahaniaeth rhwng pwyslais yr Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*) a'r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) yn y ddeunawfed ganrif. Pwysleisiai'r Oleuedigaeth, o'r Piwritaniaid ymlaen, resymeg a chyfundrefneg o fewn cyd-destun y Goruwchnaturiol. Drwy ganfod yn gyfundrefnol y byddwn yn sythweled ac yn deall, cyn rheswm, peth sy'n wir i bawb drwy Ras Cyffredinol. Felly yr ydym yn siarad ac yn llenydda. Adlewyrcha cyfundrefneg iaith a llên gyfundrefneg y bydysawd. Gweithred fwy ymwybodol a swyddogaethol yw rheswm. Ni byddai rheswm ar ei ben ei hun wedi darganfod yr atom. Fe'i canfuwyd. Ceir cyfundrefnau mewn Ffurf ac mewn Deunydd ac mewn Cymhelliad. Ac mae pob llenydda yn gorfod cael ei gynhyrchu drwy'r un broses sylfaenol o gyfundrefnu thematig ar y Cynnwys. Hyn sy'n cyflyru pob gosodiad a fynegir. Ond gwyddai'r Oleuedigaeth, a Gras Arbennig, am gydlyniad mewn dimensiwn amgen. Roedd Rhesymeg a Chyfundrefneg y Weledigaeth Feiblaidd wedi'u cyflyru gan ganologrwydd y Groes i bopeth, tra oedd yr Ymoleuo wedi'i gyflyru gan yr Ego a Mater.

Maes o law, *Motiffau* yw'r Cynnwys cyflawn manaf a glywir, sef y gosodiadau atomaidd. Mae'r rhain ar ffurf botensial yn gyntaf, yn gydlyniad cudd cadarn. Tynnant allan o'r Hierarci o egwyddorion cytûn yr hyn sy'n angenrheidiol ar y pryd ar gyfer yr effaith achlysurol, a hynny mewn patrymau clir. Ymhobman y mae yna drefn. Ac mae'n ofynnol i'w sylweddoli os ydym am werthfawrogi Pantycelyn. Mae'n rhannu'r amodau creedig hyn a'r ffurfiau a'r gwneuthuriad corfforol â'i gyd-ddynion. Ond mae'r meddwl o'r gwaelod ganddo ef hyd at yr Absoliwt yn cael ei ddadansoddi a'i ddosbarthu, a'i yrru'n gynhenid gynganeddus, yn ôl trefn gyfriniol Gristnogol. Trefn yn yr Ysbryd.Wrth gwrs, nid mewn Diwinyddiaeth yn unig y ceir cyfundrefnu. Mae ar gael nid yn unig yn y meddwl, ond yn allanol yn y deunyddiau Ffisegol, Cemegol, Biolegol, a Mathemategol, ac yn y byd i gyd, a ddadansoddir hefyd gan gyfundrefnau'r iaith ei hun. Adeiledir felly yn gyntaf drwy wahuno mewn Tafod. Ac felly y'i hadnabyddir neu y'i dadansoddir ym mhopeth drwyddi draw. Credaf fod traddodiad Diwinyddiaeth Gyfundrefnol y Piwritaniaid (rhai o feddylwyr praffaf Lloegr erioed, er gwaethaf eu henw drwg) wedi gadael y fath ôl ar feddwl Pantycelyn nes bod ei holl syniadaeth wedi'i ffurfio gan yr argraff gyfundrefnol a gâi ef ganddynt a chan ei hyfforddiant meddygol a gwyddonol ei hun. Eto, nid yw gwaith Pantycelyn yn gyffredinol yn Ddiwinyddiaeth Gyfundrefnol gonfensiynol fel y cyfryw. Cuddiai ef y cydlyniad hierarcaidd mewn emynyddiaeth

achlysurol yn bennaf; ond pwysai ar ei strwythur cudd cydadeiladol anwel.

Fel arfer, bydd Gramadegydd – pan fydd yn siarad yn normal – yn cuddio'i gyfundrefnau wrth gyflwyno'i brofiadau mewn iaith. Swydd ei ramadeg yw amlygu *ffurfiau* cyffredinol cydlynol ar waith, heb roi sylw penodol i ystyr, ond wrth basio fel petai. Bydd ei Eiriadur mewnol ar y llaw arall fwy neu lai yn rhes o ystyron. Mae i bob gair fath o ystyr *ffurfiol*, a gwaith y Geiriadur yw diffinio'r ystyr yna. Ochr yn ochr â hynny, Diwinyddiaeth Gyfundrefnol oedd Gramadeg a Geiriadur syniadaeth Williams. Caent fynegiant drwy drefn.

Pan ddaeth Pantycelyn i ystyried Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, roedd honno'n ystyr i gyd iddo, ac eto'n ffurf ac yn gyfundrefn gymelledig i gyd hefyd. Ffordd o ddarganfod trefn ystyron ydoedd mewn un sffêr ddeallol benodol: yr un ganol – Ffydd yn achos Pantycelyn. Yn ein bywyd beunyddiol ceir pob math o 'sfferau' ystyrol mawr a mân o'r fath: Bioleg, Coginio, Rygbi, Cerdd Dafod, Mathemateg, Gwleidyddiaeth, Iaith, ac yn y blaen. Bob un â'i ddeddfau ei hun. Perthyn rhai ohonynt i gyflwr Tafod, ac eraill i gyflwr Mynegiant. Ac ymhob un o'r rhain fe geir Cyfundrefn o gyfundrefnau, a rhyw fath o hunanlywodraeth i bob un. Cyfundrefnau o ystyron ydynt oll. Maent bob un yn hunan-awdurdodol fel sffêr; ond gyda'i gilydd fel bywyd, dônt o dan lywodraeth a threfn Undod sy'n teyrnasu ar fodolaeth pob ystyr.

Mae'r cysyniad hwn o 'gyfundrefn' yn ddychryn i bob bardd yn y traddodiad rhamantaidd erbyn hyn, wrth gwrs, yn arbennig os nad yw wedi meddwl yn ddwys am ei gelfyddyd. Ffoir rhag y bygythiad. Hawdd deall y sentiment er na wn am neb a ddefnyddia iaith sy'n llwyddo i ddianc rhag cyfundrefnu. Nid hoff gan ambell fardd synied na all ddianc rhag gramadeg.

Cyfundrefnir iaith, fel y cyfundrefnir pob sffêr mewn bywyd.

Yr hyn a wna Pantycelyn o hyd yw 'dweud stori'. Ie, hyd yn oed mewn emyn. Manylion gweithredol yw'r stori honno, nid athrawiaeth. Y tu ôl i'r ddwy, i'r stori ac i'r athrawiaeth, ceir hanes person ynghyd â rhai digwyddiadau. Mae'n nodedig, mewn gwirionedd, gyn lleied o athrawiaethau uniongyrchol a geir yn ei ryddiaith storïol a hanesyddol. Ymguddia'r egwyddorion 'haniaethol' rhoddedig yn fynych ar gân y tu ôl i enghreifftiau 'diriaethol' a phersonol y thema sydd yn y plot storïol. Eto, fe geir myfyrio dwfn drwy'r gweld. A hynyna – ar ffurf ei resymeg a'i ddeallusrwydd anturus – yw dwy o'r elfennau a wnaeth ohono fardd pwysig.

Yr hyn a wna Saunders Lewis yntau yn ei hwyliau mewn beirniadaeth yw 'dweud drama'. Cydia mewn egwyddor, syniad, neu uchelgais ac fe'u delwedda mewn personau a digwyddiadau. Nid yw Saunders, hyd yn oed yn ei newyddiaduraeth, yn traethu athrawiaeth ffurfiol. Fe drawsnewidia'r thema neu'r plot achlysurol yn ddialectig: ymetyb yn ddirfodol i broblem unigol.

Eto, y mae pawb sy'n defnyddio deall, gair, neu frawddeg, yn gorfod meddwl drwy gyfundrefn, er nad yw'n sylwi ar hynny. Felly, o fewn uniongrededd Cristnogol a llawer o'r

anuniongrededd, gellir sôn am feddwl yn gyfundrefnol bur, a hyd yn oed am hierarci o gyfundrefnau. Mae'r holl bwnc yn denu disgrifiadau gwawdus, wrth gwrs, megis 'marweidd-dra mecanyddol' a 'pheirianwaith oer'. Gwyn eu byd y diniweitiaid digyfundrefn, canys nid ydynt yn bod. Dyna ymateb naïf y Rhamantydd confensiynol afrealaidd neu'r Cristion teimladol. Anghysur i rywrai yw meddwl bod rhaid i bawb feddwl, anadlu, treulio bwyd, ac yn y blaen, drwy ddull cyfundrefnol cynymwybodol, ac nad oes meddwl ar gael heb gyferbynnu, ailadrodd, uno yr amryw o fewn y cyfan, a chyffredinoli/arbenigoli. Ac eto, drwy'r cwbl, mae'r gwaith o sylweddoli trefn ystyr mor eithafol o ddynol. Nid swp o ryddid yw meddwl dyn. Gwyddai Pantycelyn beth na wyddai hyd yn oed Rousseau ei hun, am ryddid 'gwir' ysbrydol o fewn yr Absoliwt personol.

Eto, nid oedd Saunders Lewis yn cymeradwyo Pantycelyn fel 'bardd Cristnogol' yn unig felly, nac fel bardd cyfundrefnol. Eithr fel Bardd. Ceir digonedd yng Nghymru, gormodedd o ran cyfartaledd ar ambell adeg, o 'feirdd Cristnogol'. Ceir llawer o grefftwyr trefnus anfarddonol. Peth amheus fel arfer yw cymeradwyo bardd oherwydd uniongrededd ei gynnwys neu ffurfioldeb ei drefn. Nid cymwynas i Gristnogaeth yw 'pleidio' llenyddiaeth am ei bod yn Gristnogol. Os na saif llenyddiaeth fel llenyddiaeth, gwell iddi beidio â sefyll o gwbl.

Bardd oedd Pantycelyn yn ei ffurf ac yn ei ddeunydd.

Ambell waith, o leiaf ar un adeg, bu rhywrai'n anesmwyth syn fod Saunders Lewis, ac yntau'n Babydd rhonc, yn dangos y fath gydymdeimlad â Methodistiaeth Galfinaidd. Fe'i ceir yn ei nodyn ar Gyffes Ffydd yr hen Gorff, yn ei gyfrol ar Williams Pantycelyn, i raddau yn *Dwy Briodas Ann* a'r ysgrif ar y Cofiant, ac yn anad unlle yn ei nofel *Merch Gwern Hywel* a'r ysgrifau ar Ann Griffiths. Ond cydymdeimlo yr oedd Saunders â'r arwrol a'r barddonol a'r diwylliannol yn ogystal â'r Cristnogol.

Yn y gyfrol ar Williams, roedd gan Saunders ddamcaniaeth sylfaenol ynghylch Rhamantiaeth Williams. Ac o'r herwydd, yr oedd yn ofynnol iddo'i phrofi yn wyneb Clasuraeth Dafydd Nanmor. Gwnâi hynny drwy droi Williams yn belican ysbrydol yn yr anialwch. Nid oedd gan Williams orffennol, meddai yn *Williams Pantycelyn.* Newydd-deb didraddodiad oedd ei dynged. Collwyd gwreiddiau'i feddwl. Dyna farn y Saunders ifanc. Erbyn *Merch Gwern Hywel,* sut bynnag, yr oedd hyn oll wedi newid: (t.64), 'Nid rhoi llafar a chân i deimladau gwresog y diwygiad a wnaeth Williams, welwch chi, nid hynny'n unig, ond rhoi inni ddiwinyddiaeth y diwygiad. Mae'r emynau'n addysg i Gymru gyfan yn athrawiaeth yr Eglwysi. Maen nhw'n dysgu i'r soseiadau gynnwys yr Homilïau a'r Erthyglau a'r Testament Newydd. *Mae holl oesoedd Cred y tu cefn i'w miwsig nhw.'*

Sylwer 'holl' oesoedd Cred. A 'miwsig' athrawiaeth. Pa fath o ddiffyg traddodiad yw hwnnw? Fe gafodd ddatblygiad a thwf yn syniadaeth Saunders.

Yr wyf am feirniadu'r SL ifanc drwy lygaid ifancach yr SL hen, felly. Yn ddiweddar, bu'r athronydd Calfinaidd enwog Alvin Plantinga yntau'n sôn am y 'model' Acwin/Calfin. Hynny yw, rhoddai ef bwyslais ar ganol y ffydd, a gwelai ef gysondeb trawiadol. (Bid siŵr, nid oedd yn trafod na 'thraddodiadaeth' na natur awdurdod yr Eglwys.) Yn wir, y canol ysbrydol cyffredin yw'r model y mae'n ei amddiffyn. Hyn yw'r gred theistig oruwchnaturiol sy'n gyffredin i brif ffrydiau'r ffydd gyffredinol yn ddigyfnewid drwy'r canrifoedd. Nid eciwmeniaeth nambi-pambi yw hyn, sef eciwmeniaeth y 'credu cyn lleied ag y gellir'; eciwmeniaeth y fynwent hiwmanistaidd, lle y try'r enwadau i gael eu cuddio mewn gweinyddiaeth unedig neu dywyrch. Dyna'r 'Amlffydd' na fyn grybwyll 'Gwirionedd'. Ond sôn yr ydys am ddifrifoldeb eciwmeniaeth yr oesoedd parhaol, eciwmeniaeth y gwir anochel yn yr ysgrythurau. Yn y ffrwd yna, ar ryw olwg, y saif Pantycelyn a Saunders Lewis. Heblaw bod yn un ag awduron y Beibl, y mae'r ddau yn un ag Awstin ac Acwin, a diwinyddion pennaf yr eglwys Ddwyreiniol a'r eglwys Brotestannaidd cyn yr ugeinfed ganrif. Dyma ef eto yn unol ag SL, fel y darganfu hwnnw'i hun. Dyma'i wreiddiau 'traddodiadol' – ond nid oherwydd eu bod yn 'draddodiadaeth', eithr am eu bod yn dragwyddol. Ceisio dadlennu 'rwyf nad oedd ef yn 'unig' nac yn 'newydd' o ran *deunydd* ei waith. Diau mai gyda'r Piwritaniaid ac Awstin – ond nid nhw yn unig – y câi ei ragflaenwyr uniongyrchol. Ac wrth gwrs, nid pobl debyg i'r cartŵn newyddiadurol oedd y Piwritaniaid, fel y gŵyr pob Cristion. Cyn yr ymddatod gwerthoedd, dyma farn Macaulay amdanynt, 'y garfan fwyaf nodedig o ddynion, efallai, a gynhyrchodd y byd erioed'. Yn eu trafodaethau ysgolheigaidd y cafodd Pantycelyn ei drwytho (mewn anghytundeb a chytundeb): John Owen Is-ganghellor Rhydychen, Baxter, Milton, Sibbes, Gill, Goodwin. Dyna'i wreiddiau meddyliol mawr. Ni allai S.L. ar y pryd fentro aros gyda hwy.

Yma, bu Catholigiaeth SL yn dramgwydd rhag iddo gyd-ddeall â Williams.

Ond beth am wreiddiau llenyddol Williams mewn traddodiad gwerinol Cymraeg? Ymddengys fod Saunders Lewis yn wir siomedig ynglŷn â hynny. Heblaw'r Beibl a rhai cyfieithiadau, ac efallai Morgan Llwyd ac Ellis Wynne, câi Pantycelyn bron y cwbl o'i lenyddiaeth aruchel yn Saesneg, meddid: ym marddoniaeth Gymraeg, nid etifeddai fawr heblaw baledi a hen benillion. A phrydyddu llafar gwlad wedi hynny. Eto, credaf fod yr SL hŷn wedi sylweddoli eto werth *hynny* fwyfwy tua'r diwedd.

Carwn dynnu sylw at un nodwedd lafar anghyffredin y credaf ei bod yn draddodiadol; ac yn wir, ceisiaf brofi ei bod yn mynd yn ôl i'r Gogynfeirdd cynnar. Dyma'r lle yr oedd Pantycelyn yn frawd i Gynddelw oherwydd o bosib draddodiad llafar gwerinol.

Yn *Aleluia* yr ydym yn hen gyfarwydd â'r cytseinio dan yr acen, fel hyn:

> Fy meiau yn *gryf* fydd o bob *Gradd,*
> Yn fawr eu *llid,* heb gael 'u *lladd,*

Yn dadlau'n *rhwydd* nad oes dim *Rhan,*
Yn Iesu *gwiw* gan f'enaid *gwan.*

Ond gadewch imi fynd gam ymhellach:

Mynd rwyf ar *frys* i'r Ganaan *fry,*
I gynnar *Gôl* fy Iesu *cu...*

Atolwg, *cred* hen eiriau'th *Grist...*

Yn Angau *caf* nefolaidd *gân...*

Rhowd *Gwirion* i ddiodde'r *Cur...*

Caiff Ysbryd, *Barn,* a llosgfan *fod...*

Yn awr mae *Llais* y durtur *lon...*

Beth sy gennym ni? Tybed a allai'r cytseinio Cymraeg afreolaidd dan yr acen fod yn syml yn ddatblygiad didraddodiad neu ynteu'n hytrach yn barhad gan feirdd y werin o ddirywiad cynghanedd yr uchelwyr? Yr wyf yn bur sicr nad Pantycelyn a ddyfeisiodd hyn. Ac os na wnaeth, y mae *cytseinio treigladol* yn codi cwestiwn cwbl arall. Dyma nodwedd draddodiadol yr ymwaredwyd â hi'n o lân yn swyddogol erbyn y cywyddwyr. Eto, mae wedi aros gyda Williams, y bardd gwerin. *Ond bu hi gan y Gogynfeirdd.* Ceisiais ddadlau o'r blaen fod y Gynghanedd yn ôl pob golwg yn defnyddio *Cytseinedd treigladol* a *Chytseinedd generig* yn gynnar. *(Meddwl y Gynghanedd,* 161-164). Tybed a oedd y canu gwerin naill ai wedi benthyca hyn, neu hyd yn oed wedi parhau i wneud peth felly hyd yn oed ers oes y treiglo cyntefig mewn cyflwr hylifol tan gadw ar lafar gwlad rywbeth a hepgorwyd gan y traddodiad uchelwrol?

Dyma'r Gogynfeirdd (treigladol):

*Cad*waladr *ged*awl o gynfedydd
Ergrynai fy *mhwyll* ei *bell* gerdded

Fe'i gwrthodwyd gan feirdd yr uchelwyr. Bardd gwlad oedd Pantycelyn. Ac yr oedd gan hwnnw draddodiad diderfyn unigryw yr oedd ef yn rhan ohono. Ni phetrusai rhag benthyca. Yn Rhamantydd neu beidio, ni wrthryfelai ef ym mhopeth.

Heblaw traddodiadau seiniol dwfn o'r fath ar lafar gwlad, rhan bwysig gyfredol o'r llafar hwnnw hefyd i Bantycelyn oedd arferion meddwl traddodiad Awstin/Calfin. Ac yr oedd trefnusrwydd hwnnw – yn benodol lle yr oedd gwead y meddwl Beiblaidd yn cael ei anrhydeddu – hefyd yn rhan o'r awyr a anadlai yn Sir Gâr, gwlad Rhys Prichard a Rhys Prydderch, yn ddwfn hyd yn oed cyn ei dröedigaeth. Rhan o'i frwydr, yn baradocsaidd, oedd yn erbyn canu ceidwadol crefyddol dieneiniad: canu'r pen.

*                    *                    *

Flwyddyn cyn iddo ddechrau darlithio yn Adran y Gymraeg, Caerdydd, daeth Saunders Lewis i siarad â grŵp llygadfawr o fyfyrwyr ar ryw destun megis 'Cynghorion i Lenorion Ifainc.' Ac agorodd ei sgwrs drwy graffu yn llygaid pawb, 'Meithrinwch feddwl Goethe,' meddai'n fygythiol. Dysgwch AbiEc Ewrob.' Aethom allan ar y diwedd gan rolio'n llygaid a chan grechwenu'n ugain oed o uwchradd, ond gyda rhyfedd barch hefyd.

Yr hyn yr oedd yn ei feddwl oedd pe dymunai oedolion lenydda o ddifri yn hyn o iaith, priodol fyddai iddynt fod yn rhan o wareiddiad Ffawst ac Antigone, a'u trwytho'u hun yn eu Valéry a'u Fyrsil. Ac yng nghyd-destun y gyfrol hon, os oeddech chi'n credu bod Pantycelyn yn rhan o'r un gwareiddiad, yna gwiw fyddai yn fuan i Leopardi a Dostoiefsci fod yn rhan o'r unrhyw fframwaith deall hefyd. Mewn amgylchfyd o'r fath y dysgid rhai o elfennau safon a chwaeth a ffrwythlondeb. Nid priodol yn yr oes hon yw astudio 'Golwg ar Deyrnas Crist' heb fod Gwladwriaeth Plato, sonedau Donne, a phechodau Baudelaire a Chalfin yng nghanol eich addysg wirfoddol. Celfyddyd i'w hanrhydeddu gan lenor ifanc yw gostyngeiddrwydd gwybod. Peidied byth â defnyddio esgus 'traddodiadaeth' er mwyn colli golud 'traddodiad'. Trist yw gweld unrhyw lanc o feirniad yn wylo 'Rhy anodd!' Gwylier israddoldeb y Cymry.

Ac yn y gyfrol *Williams Pantycelyn,* yr oedd Saunders Lewis yn gwybod, bid a fo am gywirdeb manwl ei gasgliadau, fod y dull cymharol yn allwedd i ddiffinio. A hyd yn oed pe nas sylweddolai Williams, yr oedd ef yn yr un cwch â Sant Ioan y Groes. Sicr-agorwyd meddwl Williams Pantycelyn o'r newydd i ni yn y gyfrol hon. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, y farn fwyaf cyffredin am Williams oedd mai emynydd poblogaidd ac 'efengylydd' angerddol ydoedd. Ond ychwanegodd Saunders Lewis at emynau Williams ei ddwy arwrgerdd yn bennaf, ac yn ogystal ei lyfrau rhyddiaith. Cymerodd ei athrawiaeth o ddifri i raddau nad oedd yn gysurus mewn cyd-destun rhyddfrydol henffasiwn seciwlar. Ac o'r diwedd gweddnewidiwyd ganddo ein delwedd o'r prif lenor Cymraeg a gododd rhwng Beirdd yr Uchelwyr a'r Ugeinfed Ganrif.

Erbyn heddiw, gellid cyfiawnhau synied amdano yng nghyd-destun 'Metanaratif yr Oleuedigaeth' (Christian Enlightenment), yng nghwmni Jonathan Edwards. Yr oedd ei amgylchfyd deallol yn wahanol i Rowland a Harris. Yr oedd y ddau hynny yn feddyliol effro a chraff, bid siŵr. Ond yr oedd cwmpas eu diddordebau mewn meddyginiaeth, ffiseg, cymdeithaseg, seryddiaeth, a llenyddiaeth yn bur wahanol i eiddo Williams.

Ac yn ail, fel 'efengylydd' hefyd, yr oedd pwyslais Williams yn ddigon gwahanol i'r ddau arall.

Y mae'n rhaid i mi fod yn ofalus iawn fan yma, oherwydd y tebygrwydd sylweddol hefyd. Ond cyn amodi'r gosodiad hwnnw, yr wyf am hawlio bod Williams yn canoli'n benodol ymwybodol ar Ogoniant Duw yn ei holl briodoleddau, lle yr oedd Rowland a Harris yn canoli yn fwy cyfyngedig ar gyfiawnhad ac iachawdwriaeth dyn a thrwy hynny yn gogoneddu Duw. Mae'r gwahaniaeth yn dreiddgar ac yn gyfoes bwysig.

Bid siŵr, does dim dwywaith nad oedd y tri yn gytûn mai pwrpas syfrdan yr Ymgnawdoliad oedd y Croeshoeliad (ac yna'r Atgyfodiad) ynghyd â Chadwedigaeth dyn drwy'r Iawn a dalwyd. Dyna iddynt hwy oedd canolbwynt rhyfeddol y Greadigaeth ei hun. Tuag at hynny yr oedd meddwl Pantycelyn yn treiglo bob tro. Hynny a roddai fywyd ac ystyr i'r Eglwys, fel y canfuom ni mewn modd pur negyddol yn nirywiad deallol grefyddol yr ugeinfed ganrif. Yr oedd Rowland a hyd yn oed Harris, hwythau hefyd, yn ddynion diwylliedig yn nhermau cyffredinol. Fel y ddau hynny, efengylydd yn yr ystyr arferol oedd Williams yntau, wrth gwrs. Ond canfyddai yntau hefyd y Greadigaeth (Bodolaeth, Trefn, a Bywyd), a'r Arfaeth yn fframwaith lletach a mwy manwl o lawer nag a wnâi Harris a Rowland. Yr oedd ganddo Weledigaeth Gristnogol am Fyd a Bywyd a oedd yn fwy cynhwysfawr na'u heiddo hwy. A dôi hynny i'r golwg yn nadansoddiad Saunders Lewis. Ar ryw olwg, fframwaith ffurfiol yn unig oedd y ffactor didoli hwn rhwng efengylu'r tridyn. Ond yr oedd yn ddyfnach na fframwaith, o ran persbectif ar gynnwys y Gwirionedd.

Meddyliwr catholig (gydag 'ec' fach) oedd Pantycelyn o ran lled ei olwg ar gwmpas perthnasoldeb Cristnogaeth. Canfu Saunders Lewis hynny; ond ymguddiai y tu ôl i'w Ec fawr. Er fy mod yn ochri gyda Tudur Jones yn y feirniadaeth ar ddehongliad Pabyddol Saunders Lewis o Bantycelyn, yr wyf yn cytuno â Saunders pan genfydd Bantycelyn o fewn llinyn cadernid traddodiadol catholig os anwastad Hanes yr Eglwys. Yn wir, yr wyf yn mynd ymhellach, hyd yn oed o safbwynt cynnwys a sylwedd y traddodiad athrawiaethol Cristnogol. Nodais fod yr athronydd Calfinaidd mawr cyfoes, Alvin Plantinga, yn disgrifio'r canol parhaol mewn diwinyddiaeth yn ôl model Acwin/Calfin neu Awstin/Luther. Nid oes a fynno ef yn y fan yna â gwyriadau hanesyddol (ynghylch ystyriaethau digon pwysig) ym meysydd Aelodaeth ac Eglwysyddiaeth ac arferiadaeth neu ddefodaeth, cynnyrch pwyslais sagrafennol yr Eglwys Gatholig. Yn wir, y mae hyd yn oed Efengyleiddwyr hwythau yn dal i fod yn anysgrythurol weinyddol yn fynych o safbwynt mater allweddol 'aelodaeth' ac 'eglwys'. Ond y mae'r Ymgnawdoliad (yn Dduw-ddyn) a'r Aberth Iawnol, y Greadigaeth a'r Farn, y Goruwchnaturiol a'r Duw personol, yr Atgyfodiad corfforol a'r Argyhoeddiad o bechod, hynny yw y rhan fwyaf canolog o ddysgeidiaeth Gristnogol glasurol – er mor allweddol yw'r gwahaniaeth – wedi'i gwneud hi'n bosibl i Saunders Lewis osod Williams o fewn traddodiad sy'n mynd yn ôl ymhellach na'r Piwritaniaid. Ac roedd Diwinyddiaeth 'Gyfundrefnol' yn fwy arwyddocaol i Williams nag y bu i

neb erioed o’i flaen yng Nghymru. Bu ei syniad am gyfundrefn mewn bywyd yn chwyldroadol mewn llenyddiaeth Gymraeg wrth drafod hefyd Ddeunydd llenyddiaeth fel y cyfryw.

Rhan arwyddocaol o’r Model Acwin/Calfin oedd Diwinyddiaeth Gyfundrefnol, sef Cyfundrefneg Paul. Yr oedd y ddisgyblaeth feddyliol honno yn rhywbeth a grybwyllodd Saunders Lewis ond yr aeth o’r tu arall heibio iddi ar y pryd, gan fod ei fryd ef ar arweddau eraill. Ond yr oedd disgyblaeth feddyliol Pantycelyn yn y cyfeiriad hwn yn ganolog yn fy marn i. Ei wreiddiau ef mewn Diwinyddiaeth Gyfundrefnol a ddangosodd iddo sylwedd trefnyddol y meddwl creadigol. Lledai’i serchiadau. Gweddnewidiai’i syniadau am Gariad, cryfder ac ystyr Cariad, a threfn ryfeddol disgyblaeth Cariad. Rhoes iddo olwg newydd ar drefn y Greadigaeth a bywyd yn gyffredinol. A datguddiodd iddo ddolen gydiol rhwng y Goruwchnaturiol a’r Naturiol, y Celfyddydau a’r Gwyddorau, Ffydd a Gweithredoedd, Bywyd Meddyliol a Bywyd Ymarferol. Yr oedd ‘Profiad’ Cristnogol Williams yn dra chatholig yn yr ystyr amhleidiol. ‘Sgêm’ oedd ei derm ef ar gyfer hyd yn oed y ffenomen gatholig hon.

* * *

Wrth ddechrau synied o'r newydd am y ‘Metanaratif’ ym mywyd Saunders ac ym mywyd Pantycelyn, sef y cyd-destun amodol cyffredinol mewn cyfnod o fframwaith meddwl a theimladol, yr ydym yn cymryd llwybr modern. Hynny yw, yr ydym yn ceisio ystyried Pantycelyn a Saunders yn ôl eu cymdeithas ddeallol gydweddol. Ar wahân i’w priodoleddau personol trawiadol, yr oedd eu dealltwriaeth o fywyd yn rhan o gymuned syniadol waelodol.

Bu’r term ‘Metanaratif’ yn boblogaidd gan yr Ôl-fodernwyr, er mai ei ddefnyddio fel arfer a wnaent – yn anffafriol – yng nghyd-destun yr Ymoleuo (*Secular Enlightenment*). O’r herwydd, o synied am feddwl Pantycelyn a Saunders Lewis a’r Metanaratif Cristnogol, fe’i gwnawn o fewn cyd-destun lle yr oedd yr Ymoleuo yn rhemp. Dyma’r math o gysyniad yr oedd Lyotard a’r Ôl-fodernwyr cydymffurfiol yn ei wawdio ac yn ei gael yn faen tramgwydd yn y saithdegau a’r wythdegau. Iddynt hwy, yr hyn a gynigiai’r Ymoleuo (*Secular Enlightenment*) gynt yn y ddeunawfed ganrif oedd Rhesymoliaeth ac Empeiriaeth anhunanfeirniadol dwt. Hyn fu’r esbonfa gyfannol i bethau ym mryd seciwlarwyr y ddeunawfed ganrif. Ac adwaith oedd yr Oleuedigaeth neu Ôl-foderniaeth yn erbyn trefn anhunanfeirniadol o’r fath. Roedd unrhyw awgrym o ‘wirionedd’ difrif ac absoliwt yn naturiol wrthun bellach, yn naïf o ffasiynol wrthun i'r seciwlarwyr. O ganlyniad, yn saithdegau’r ugeinfed ganrif, cyflymai’r adwaith yn erbyn Marcsaeth a Dyneiddiaeth Ryddfrydol, ac wrth gwrs yn erbyn Cristnogaeth, a hynny ar seiliau rhagdybiol. Yr oedd yr hen fyth o Gynnydd Fictoriaidd wedi mynd i’r gwellt. Gwaherddid llyncu’r fath goelion crwn. Drylliadaeth, tameidio dadunol, meicro-naratifau, a relatifrwydd pêr heb gydlyniad cyn belled ag yr oedd yn bosibl, dyna’r dogma a oedd yn yr awyr. Dyna’r metanaratif newydd.

Ar ryw olwg, i Bantycelyn a Saunders Lewis, fel esboniad cyfannol ynghynt, a mwy na hynny fel gwir naratif yn yr ystyr briodol, Arfaeth *per se* oedd y Metanaratif ar ei ffurf gyflawn. Dyna esboniad, drwy gyfundrefn, i mewn i gyfundrefnau  o bob dim a ddigwyddai. Y Gyfundrefn waredigol o gyfundrefnau.

Creadigaeth gynlluniedig drwyddi draw yn ôl rhagdyb absoliwt oedd y Metanaratif, mewn gwirionedd – a hynny i bawb, seciwlar a chredadun, doeth a thwp. Nid ffatri emynau achlysurol mo Williams Pantycelyn, felly. Nid bardd oedd ef a ymatebai i deimlad nac i weledigaeth unigol y funud yn unig. Gweledydd oedd ef (fel Saunders Lewis ar ei ôl) a ganai o ganol cyfanrwydd argyfwng ei amseroedd ac o fewn model meddyliol tragywydd. Cwmpasai ef feddwl Cristnogol ei oes. A dyna gyd-destun ei Ddeunydd. Dod o hyd a wnâi ef i Werth, Trefn, a Diben mewn amgylchfyd Deunyddiol, cymdeithasol, a disgybledig gan dragwyddoldeb. Ac felly y gellid cyfrif Diwinyddiaeth Gyfundrefnol fel elfen o fewn yr Oleuedigaeth ar y pryd, yn brif elfen.

Roedd ganddo Fetanaratif, sef yr Oleuedigaeth (*Christian Enlightenment*). Ac yr oedd i honno ei chyfundrefnau. Roedd a wnelo'i Deunydd meddyliol â mwy na chyfundrefn fewnol bersonol, oherwydd fe synhwyrid fframwaith gwrthrychol yr oedd ef ei hun yn ymwybodol ohono. Trefn yn y Gwirionedd oedd. Ceid cyferbyniad felly rhwng yr Ymoleuo a'r Oleuedigaeth. Iddo ef, cyfundrefnol roddedig oedd pob un smic yn y bydysawd, yn arbennig fywyd pob dydd. Canfod hynny a roddai iddo'i amgylchfyd meddyliol. Naturiolaeth yn unig oedd Cyfundrefn yr Ymoleuo. Mudiad gwrthgyferbyniol a holai hynny ac a weithiai'n 'groes' i hynny, oedd y *Goruwchnaturiol (cyfan)/Naturiolaeth (rhan),* cyfundrefn echelog yr Oleuedigaeth.

I Bantycelyn, y gwrthdrawiad hwn rhwng Metanaratif yr Ymoleuo a Metanaratif yr Oleuedigaeth oedd yr hyn a'i gyrrai pan na fodlonai ar delynegion unigol. Hynny yw, er iddo ef ganu'r themâu diwinyddol i'r Hierarci feddyliol mewn emynau, testun oedd hynny o fewn cyd-destun lletach (a bwysleisiwyd o'r newydd gan Saunders) sef  yr arwrgerddi. Gwrthdrawiad modern yn erbyn yr Ymoleuo oedd y  gogor cadarnhaol i'w gyfansoddiadau. A chyda'i gilydd, *Testun/Cyd-destun,* fe gâi ef amgylchfyd syniadol a oedd yn wrthdaro ysbrydol hefyd i'w oes. Dyna fframwaith meddyliol a oedd yn faich iddo, a hynny a gyfrifai fod 'Golwg ar Deyrnas Crist', 'Theomemphus' a *Pantheologia* (ei gyfrol anferth ar Grefydd Gymharol) mor sylfaenol iddo. Ysgrifennai ef  o'r tu mewn i frwydr syniadol yn ogystal â brwydr ysbrydol. Nid ysgolhaig gwrthrychol mohono, yn unig. Yn wir, fe ddefnyddiai Saunders Lewis ef fel arf yn y frwydr a'i hwynebai ef ei hun. Wrth ddehongli'i Ddeunydd, dyna'r cam rhagdybiol cyntaf sy'n esgor ar Themateg Pantycelyn, ac un o'r camre hanfodol ar astudio Deunydd llenyddiaeth.  O fewn brwydr ac oherwydd gwrthdrawiad y darganfu ef Hierarci yr Oleuedigaeth. A chanai ef y  frwydr honno.  Dyna ran o'i fawredd. Cenid absoliwt wrth gwrs gan y ddwy ochr, ond mai'r Ego Trosgynnol oedd absoliwt y seciwlarwyr.

Caniatéwch imi ddiffinio union strwythur *Goleuedigaeth/Ymoleuo* (a derbyn mai parhad i'r Ymoleuo oedd Ôl-foderniaeth yn y bôn, oherwydd yr *Ym-).* Rhaid gwneud hyn yn gyntaf drwy gymryd y Negyddol. Ceid dau brif gynhwysyn i'r Ymoleuo, sef Meddwl/Corff: *Rhesymoliaeth/Empiriaeth.* Gyda'i gilydd gwnaent Naturiolaeth amddifad. Eto i gyd, yn ôl cyfundrefn Deunydd, gellid eu canfod yn *Anweledig/Gweledig.* Descartes, Spinoza, a Leibniz oedd pencampwyr y cyfnod 1596-1716. Rhesymoliaeth o fewn gofod ac amser oedd eu prif gyfraniad hwy. Locke, Berkeley, a Hume oedd pencampwyr y cyfnod nesaf 1632-1776, sef crud y Methodistiaid cynnar. Empiriaeth oedd eu prif gyfraniad hwythau. Ymddiriedent yn y pum synnwyr, ac mewn prawf cyfyngedig i'r allanolion i raddau helaeth. Y ddau fudiad ynghyd, Naturiolaeth, oedd cefndir seciwlar Pantycelyn. Awgrym syfrdanol ond tra diddorol (a glywais gan Walford Gealy) yw y gallasai Williams fod wedi rhannu ei ddesg yn Llwyn-llwyd, Sir Gaerfyrddin â'r ymoleuwr a'r athronydd mwyaf erioed o Gymru, sef yr Undodwr Richard Price (1723-91).

Nid Rhesymoliaeth nac Empeiriaeth sy'n bennaf pwysig o safbwynt Pantycelyn. Safent braidd ar yr ymylon. Rhesymolwr Cristnogol oedd ef, bid siŵr, a oedd yn ymwybodol odiaeth hefyd o werth a swyddogaeth y pum synnwyr. Nid Rhamantiaeth nac Empiriaeth, serch hynny, a wnâi'r cewri hyn oll yn Naturiolwyr, mewn gwirionedd. Eithr yn hytrach, y *rhagdyb* a'r dogma hysbys – '*Dyna'r cwbl*'. Ni chaniatéid dim arall. Y ffin neu'r terfyn honedig ac anwyddonol anonest, mewn gwirionedd, y llam afresymol negyddol i'r diystyr a'r galon gul, yr Ego Trosgynnol, dyna'r rhagdyb a ddiffiniai galon yr Ymoleuo: y Naturiolaidd anhunanfeirniadol ddogmatig gyfyng.

Roedd gweledigaeth Pantycelyn ar y llaw arall, megis Jonathan Edwards a John Wesley yn cwmpasu'r Naturiol yn gysurus, ond heb y dogma artiffisial a goddrychol a di-sail ychwanegol, 'Dyna'r cwbl.' Roedd yna ddau synnwyr arall (a mwy), sef yn gyntaf, *Sensus Divinitatis* (y gynneddf a barai i'r dyn naturiol ymwybod â bodolaeth Duw – sylwer, nid â 'pherthynas' gadarnhaol); ac yn ail, synnwyr y *Gydwybod* y soniai Morgan Llwyd am weddau arni (y gynneddf a ganiatâi i'r dyn naturiol ymwybod â bodolaeth 'pechod' ynddo ef ei hun – nid â'r 'drwg' yn unig – ac â goleuni mewnol), y ddau yn ras cyffredin. Gwreiddiai hyn mewn dyn er gwaetha'r Cwymp, ac fe ellir cydnabod hyn yn weddol gyffredinol. Yr oedd Piwritaniaid fel Morgan Llwyd drwyddynt yn ymestyn at Fethodistiaeth. Yr hyn a wnâi'r diwygiad i Bantycelyn oedd dihuno'r cyneddfau hyn yn uniongychol ac anadlu i mewn iddynt a'u bywiocâu a'u hadfer; hynny yw eu rhoi'n ddigymrodedd gyson yng nghyd-destun 'perthynas' lawn. Dyna dderbyn yr uwchnaturiolaeth yn ddirfodol yn yr Ysbryd ynghyd â naturiolaeth, sef dau gynhwysyn yr Oleuedigaeth Gristnogol: yr eneidiol a'r corfforol. Hynny yw, nid ildient eu naturiolaeth – na'u rhesymoliaeth na'u pum synnwyr – i fonopoli; ond cwmpasai'r Goleuadwyr Cristnogol *saith* synnwyr a *dau* ras, Cyffredinol ac Arbennig.

Yn fy mhrofiad cyntaf i o waith Saunders Lewis, yr oedd fy syfrdandod cynnar wedi codi oherwydd fod yma ddeallusyn mor alluog a allai draethu themateg a wynebwyd gan y Goruwchnaturiol ragamodedig yn yr ugeinfed ganrif, ac yr wyf yn meddwl bob cam am Saunders Lewis wedi closio at Bantycelyn wrth brofi hynny fwyfwy. Y lle yr oedd Naturiolwyr Allwyddonol wedi ymgyfyngu, ac yn wir wedi ymadael â Gwyddoniaeth, oedd pan hawlient y gallai un dimensiwn (y materol) draethu'n awdurdodol am ddimensiwn arall (yr ysbrydol), y Naturiol am y Goruwchnaturiol. Yn wahanol i Wyddonwyr cyfrifol ac annewyddiadurol, ceisiasid honni, yn ddi-egwyddor ac yn ddi-sail, 'anfodolaeth' rhywbeth a oedd yn gwbl eglur i rywrai y tu allan i'w dimensiwn, gan gymysgu'r tebyg a'r annhebyg. Megis selsig yn traethu am yr Haul. Gwyddai Pantycelyn a Saunders Lewis yn burion amdanynt. Astudient eu safbwynt pŵl yn ddygn, ac adwaenent annigonolrwydd eu rhagdyb absoliwt ynghylch bodolaeth a threfn. Gwyddent am eu harwr ac am eu 'gwirionedd', sef yr Ego Trosgynnol, neu'r Fi Fawr. Poenai'r gair 'fi' dipyn ar Bantycelyn fel y cyfaddefai. Ond myfyriai uwch ei ben. Meddai Thomas Charles am brosiect Pantycelyn i ateb y rhain, sef 'Golwg ar Deyrnas Crist': 'Astudiodd gymaint wrth gyfansoddi y gwaith hwn, yn bennaf, fel yr effeithiodd yn niweidiol ar ei iechyd tra bu byw.' Hyn a roddodd iddo ef gynhysgaeth Naturiolaeth ynghyd â Goruwchnaturiolaeth, gyda'r ail yn cwmpasu'r gyntaf. A dyma'i ragdyb oleuedig.

Cymerer, sut bynnag, y fethodoleg wyddonol ers Newton (o leiaf). Y cam cyntaf oedd casglu data arbennig, arolygu'r defnyddiau sy'n berthnasol i'w gilydd; yn ail, sylwi ar y problemau ynghylch eu cydberthynas neu'u dosbarthiad; yn drydydd, ceisio esboniad neu ateb cyffredinol, damcaniaethu i ddatrys yr holl broblemau o fewn y maes penodol, heb grwydro i'r anghyfaddas, gan fynd er hynny oddi wrth yr arbennig neu'r gweledig at y ddeddf gyffredinol anweledig a ddatrysai'r sefyllfa; wedyn mynd â'r ateb at yr un math o broblemau drachefn ar amseroedd eraill mewn mannau eraill. Ac os oedd yr esboniad yn dal, ac os nad oedd gwell ateb, derbynied yr esboniad. Felly y gweithiai Newton, arwr Pantycelyn, gŵr ffaeledig, mawr. Ond, wrth reswm, fe âi'r naill a'r llall ymhellach.

Yn 'Golwg ar Deyrnas Crist' yr oedd Pantycelyn wedi codi problemau nodweddiadol go grafog i'n dyddiau ni, – megis tarddiad bodolaeth, tarddiad deddfau, tarddiad trefn achos ac effaith, cell fyw allan o ddiffyg bywyd, ymwybod o hunaniaeth, sut y ceir ystyr a phwrpas, undod neu gydlyniad pob rhan, sut y ceir presenoldeb pechod, a *chysondeb* pethau â deddfau, hen ffefrynnau y seciwlarwyr ffo. Ac yna, och â fi, gofynnai iddo'i hun y cwestiwn gwaharddedig i wyddonwyr allwyddonol, y gwyddonwyr dogmatig un-dimensiwn: – a oedd presenoldeb Creawdwr goruwchnaturiol yn esbonio'r cwbl i'r botwm? Ac ai anwyddonol fuasai gwrthod yr ateb hwn? A oedd ateb gwell a gwrth-oruwchnaturiol na Chreawdwr ar gyfer y bylchau empiraidd cudd:

bodolaeth, trefn, bywyd ymwybodol? Ac nid Duw'r bylchau mewn Esblygiad, ond Duw Bodolaeth ymhell cyn Esblygiad. I Bantycelyn, yr union ateb i hyn oedd cyd-destun mwy nag un thema, mwy nag un gwaith unigol, mwy na rhediad yn yr arwrgerdd, na hyd yn oed mewn ambell grŵp o emynau, ond y cwbl o fewn cyd-destun cyd-addas. Dyna'i oruwch-thema cyd-destunol, felly, cyfansoddiad thematig ei fetanaratif oll. Yn 'Golwg ar Deyrnas Crist', câi'r ateb yn y Gallu a'i dadlennai'i hun yn y cyfanrwydd – yn y Greadigaeth, yn yr Ymgnawdoliad, yn yr Arwyddion (y goruwchnaturiol a'r Atgyfodiad yn anad dim), yn y Gair a roddwyd lle y ceid Duw yn llefaru'n uniongyrchol – yn null bardd: 'Myfi a'r Tad, un ydym, yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad'. Ond yn brawf terfynol yn yr Ysbryd Glân, cymhwysai Pantycelyn hyn oll i graidd ei feddwl, ac i'w *sensus divinitatis.* Rhaid i bopeth wrth Absoliwt a esgorodd ar drefn.

Dyma'r Ysbryd a barai iddo ymchwilio o ddifri ac yn gyflawn gyda hyder a gorfoledd, heb adael i broblem 'trosiadau' ysgrythurol fod yn esgus dros anghredu, eithr yn borth i ganfod yr hanesyddol a'r 'llythrennol' drwyddo. Ailanwyd ef yn ysbrydol feddyliol, felly, ac agorwyd sianel newydd rhyngddo ef a'r Gwirionedd led y pen, lle y dôi'r profiad clasurol oesol yn dyst, ac yntau'n rhan ohono. Yn ôl y dull gwyddonol, yr oedd Pantycelyn yr Oleuedigaeth wedi ateb 'rhan' Naturiolwyr yr Ymoleuo â 'chyfan' y Goruwchnaturiol-naturiol. Ac yn ôl dull prydyddol mwy cynhwysfawr, cafodd fodd ieithyddol i'w ganu. Gellir dychmygu Williams yn troi at Saunders, a'i herio: 'Dyna'r union Gynnwys i'w ddisgrifio – Creu, Arfaeth, a Chadw. Beth amdani?'

* * *

Canai ef felly am fwy na themâu unigol. Canai ef am Fodolaeth ac ansawdd Trefn seciwlar a Christnogol ei hun. Rhyfeddod enfawr y Gyfundrefn gosmig oedd ei destun, yn fwy cyffredinol nag a ganfyddai'r Ymoleuwyr. Ffurf wedi dod yn Ddeunydd oedd hyn yn awr. A'r hyn yr wyf am ei bwysleisio yw, yn isymwybodol i raddau ond yn ymwybodol i raddau hefyd, ymdriniai ef â Chyfundrefnu ei hun fel testun; ac yr oedd y gwaith hwnnw yn gwbl newydd yn Gymraeg. Hyn oedd ei newydd-deb, nid Freud na'r Cyfrinwyr Catholig. Gwnâi ef hynny bron yn gyfartal â'r canu am Themateg fwy confensiynol. Roedd Ffurf iddo ef yn bwnc i'w fawrygu, sef un o bynciau mawr Estheteg, un o seiliau gwrthrychol Rheswm, rhan o fframwaith bodolaeth meddwl ei hun. Does dim syndod bod y tipyn ugeinfed ganrif wedi sgrialu ar ôl ei synwyrusrwydd a'i soniarusrwydd telynegol a rhag y sylweddol. Yr oedd yn saffach. A chodwyd o'r herwydd Sefydliad llai bygythiol.

Wedi sôn am Saunders Lewis – yn sgil ei Gatholigiaeth – yn maglu ychydig o bosib wrth drafod fframwaith ysbrydol Williams, diau mai ei Gatholigiaeth Sagrafennaidd a barodd iddo ymateb i'r Gweledig ynghyd â'r Anweledig, yn fwy 'organaidd' na llawer o feirniaid ar y pryd. Er mai ffenomen Naturiol *a* Goruwchnaturiol yw'r 'Anweledig', y mae'r 'dyn cyffredin' yn anesmwytho weithiau, pan fydd yn clywed am y fath beth. 'Beth sydd a wnelom â hyn?' Ond wrth gwrs, ychydig

o feddwl sydd ei angen cyn y sylweddolwn ei fodolaeth a'i anhepgorolrwydd ym maes iaith a gwyddoniaeth. Bu Pantycelyn, fel y tystia un o'i gasgliadau cynharaf o emynau, *Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau,* yn dra ymwybodol ohono. A bu Saunders Lewis nid yn unig yn ymwybodol ohono fel Cristion (a bardd), ond hefyd â'r cyswllt rhyngddo ac ansawdd y berthynas rhwng y wedd ysbrydol o'r anweledig a'r wedd grëedig a chyffredin syrthiedig ohono. Dysg i bob beirniad i beidio â bychanu'r Awen. Ond ni bydd yr Ôl-fodernwyr yn wynebu'r mater hwnnw.

Dyna pam y bydd Saunders Lewis yn gwibio o'r naill i'r llall, o'r gweledig i'r anweledig yn ei ddiddordebau, gan fod ansawdd, gwead, ac uchelgais gwaith meddyliol a phrofiadol yn dwyn effaith y sylweddoliad o drwch creadigol. Fel beirniad, y mae'n syndod efallai i rai fel y bu Saunders Lewis ar dro yn *Williams Pantycelyn* yn trafod enghreifftiau o weithiau gweledig Williams, a hynny ynghyd â'r sylwadau ar egwyddorion neu fudiadau 'anweledig' trefnus. Yn hyn o beth y mae ei fethodoleg yn gywrain debyg i eiddo'r ieithydd Gustave Guillaume. Mae'r hyn a ddywed yr Athro Walter Hirtle yn ei gyfrol *Language in the Mind,* 2007 am yr hyn a wnaeth Guillaume o'i gyferbynnu â bwriad a dull yr Ôl-fodernwyr yn berthnasol i Saunders Lewis. Mae tueddfryd Guillaume yn rhybudd i bawb bellach a fyn beidio â cheisio Beirniadaeth Lenyddol sy'n aeddfed a chyfansawdd: *'Cyflawnodd ef chwyldro gwyddonol drwy adeiladu ar sail cyraeddiadau solet ei ragflaenwyr, drwy fynd y tu hwnt iddynt, yn hytrach na'u distrywio hwy fel sy'n digwydd mewn llawer chwyldro politicaidd. Yn lle troi popeth beniwaered y mae'n troi pethau o gwmpas, gan wahodd ieithyddwyr* [gallwn innau ddweud 'beirniaid'], *y rhai hanesyddol a disgrifiadol, i archwilio tarddiadau meddyliol yr hyn y maent yn sylwi arno, gan fod popeth mewn iaith yn dwyn argraff y meddwl dynol.'* Gramadegol fydd cam nesaf diwinyddiaeth a beirniadaeth lenyddol.

Dangosodd Guillaume yn yr ugeinfed ganrif hefyd reidrwydd sythwelediad yn y defnydd ac yn y ffurfiant o ramadeg. Ac i mi, eto, y mae hyn yn faes sy'n berthnasol i'r Anweledig, ac yn fan cyfarfod i fyfyrdod pellach i feirniaid ac ieithyddwyr gyfarfod â'i gilydd.

Yn *Williams Pantycelyn,* y mae'r hyn sydd gan Saunders Lewis i'w ddweud am Seicoleg Williams, neu am ei Ramantiaeth a'i Gyfriniaeth yn adlewyrchu'r diddordeb anghyffredin mewn Gras Cyffredin, hynny yw, sut y mae doniau seciwlar yn dwyn llawer nas sylweddolir o bresenoldeb grasol y Goruwchnaturiol a'r Anweledig. Erys gwerthfawrusrwydd anghyffredin y greadigaeth yn drugarog ac yn dystiolaethol yn noniau naturiol trefn lenyddol. Dyma duedd sy'n dyfnhau deall yn hytrach na'i ddinistrio. Gwaetha'r modd, bu Saunders Lewis yn gynnar – efallai oherwydd profiadau academaidd Abertawe – braidd yn amharod i ystyried prosesau iaith ymhlith y gwreiddiau anweledig i lenyddiaeth. Ac o'r ochr arall, fe geid ar y mwyaf o ragfarn yn erbyn athroniaeth gan y mwyaf athronyddol ei hoffterau o feirniaid llenyddol ieithyddion Cymru yn yr ugeinfed ganrif, sef

T.J. Morgan. Pe bai Saunders wedi dilyn ei awgrym ei hun ynghylch *Summa Theologica,* a'i ddilyn mewn cyd-destun darllen Piwritanaidd fel Williams, gallasai fod wedi dod o hyd i'r cydlyniad cyfrin mewn iaith. Ar flaen *Theomemphus* yr oedd Williams yn cydnabod hen sylweddoliad angofiedig o darddiad yr Awen, sef yr Ysbryd Glân mewn Hanes. Mi dybiaf i ei bod yn hen bryd i Ddiwinyddion ailystyried hwnnw gyda diddordeb a pharch. Dichon yr adenillwn ymwybod o adnoddau ac ansawdd y gweithgaredd ymarferol iachaf mewn llenyddiaeth.

## RHAMANTIAETH DDISGYBLEDIG

*Williams Pantycelyn,* Saunders Lewis, 1927

Rhamantydd oedd Saunders Lewis yn llanc; plentyn Coleridge. Llwybr o'r fath oedd yr un anochel i lanc. Wedyn, aeth bywyd yn gymhleth. Gwedd leiaf boddhaol Saunders Lewis yn ddeallol fu pan geisiai ramantu'i glasuraeth ei hun. Rhamantai gyflwr yr Oesoedd Canol yng Nghymru, rhamantai hyd yn oed glasuraeth Dafydd Nanmor, a beirdd yr uchelwyr, rhamantai win a sigarau. Rhamantai'i fywyd yn y fyddin Brydeinig yn y Rhyfel Byd Cyntaf ('dyddiau gorau'n bywyd'). Bu'n rhamantaidd yn ei genedlaetholdeb: rhamantai (ar ddwy adeg) weithredu milwrol Cymreig, rhamantai ddramatigrwydd gwleidyddol newyddiadurol, a rhamantai effaith deddfau a gallu llywodraeth Gymreig. Ni wnâi hyn oll fawr o ddrwg i neb, ac eithrio pan roddai ymddiriedaeth ddifrif (*Tynged yr Iaith)* yn bennaf mewn rhywbeth heblaw dyfalbarhad gwirfoddol y Cymry Cymraeg i feithrin eu hewyllys ymarferol drwy adfer yr iaith yn uniongyrchol gyda'r dysgwyr: bob amser yn adnewyddu. Yn y fan yna, pe delid ati i'w ddilyn ef yn ei ddull gwleidyddol, gallai fod wedi llofnodi tystysgrif farwolaeth ei genedl. Does dim a gâr y Cymry fwy na thân siafins heb gyfrifoldeb, heblaw efallai ddweud wrth yr awdurdodau beth i'w wneud. Gwyddom bellach nad drwy ysgolion na deddfau na ffurflenni, ond drwy'n hymdrechion ymarferol uniongyrchol, ni bawb – pethau i fod yn sgeptigaidd ynglŷn â hwy (o adnabod y Cymry) – y medrir dwyn y maen i'r wal. Un o nodweddion rhamantaidd Rousseau ei hun gynt fu trosglwyddo cyfrifoldeb i eraill, fel y bydd y Cymry'n dianc heddiw yn hwyliog i 'wrthdystio' a 'chadw', yn ôl cyfarwyddyd Saunders Lewis. Eto, ni chawsom neb mewn beirniadaeth lenyddol Gymraeg a fu'n barotach na Saunders Lewis i ddweud y drefn wrth Ramantiaeth. Beirniadai ef Bantycelyn am fod hwnnw druan yn ddwfn ei fai am arloesi Rhamantiaeth Ewrob benbaladr. Y fath gyfrifoldeb!

Math o fetanaratif oedd ac yw Rhamantiaeth. Daeth rhai rhagdybiau – y goddrychol unigolyddol (fi), y newydd rhydd, a'r naturiol wyllt – yn fframwaith meddwl i gyfnod cyfan. Roedd y ddwy ragdyb gyntaf yn amlwg yn adeiladwaith deallol ac emosiynol gan Williams Pantycelyn. Ond adwaith fu'i Ramantiaeth ef i raddau yn erbyn Metanaratif arall mwy amddifad, un y buom yn ei drafod ynghynt yn y gyfrol hon. Fel arfer, rhoddai Rhamantiaeth bwyslais ar wrthryfel yn erbyn rheswm a deddfau natur, yn groes i'r 'Ymoleuo Seciwlar'. (*Secular Enlightenment*).

Os bu Ôl-fodernwyr ddiwedd y ganrif ddiwethaf yn dymuno inni gofio (neu anghofio) Ymoleuo'r ddeunawfed ganrif, ni all yr un Cymro diwylliedig ar ôl 1927 synied am Bantycelyn ond fel cynrychiolydd (neu beidio) i Ramantiaeth. Ar ôl i frenin ein beirniaid llenyddol fynnu'n garlamus mai Pantycelyn oedd 'y bardd rhamantus cyntaf yng Nghymru, ac efallai mai ef oedd y bardd rhamantus a'r bardd modern cyntaf yn Ewrob', rhaid o leiaf roi sylw i'r awgrym, yn enwedig

ar ôl iddo geisio cadarnhau'r fath honiadau â theori gyflawn ynghylch Estheteg o ran ei hegwyddorion clasurol *a* rhamantaidd. Ymhellach, hawliai fod 'rhaid cydnabod Pantycelyn a Rousseau, y naill a'r llall, fel sylfaenwyr y mudiad Rhamantus yn llên Ewrop.' A thrachefn '*Theomemphus* yw'r gyntaf o ganeuon mawr y mudiad Rhamantus yn Ewrop'. Dyma gyd-destun meddyliol ac egwyddorol i Williams, fe ymddengys. Fe gyflyrai'r Rhamantiaeth hon berthynas rhwng ei deimladau a'i syniadau. Ac amgylchai'i fywyd personol.

Mae'n wir fod Saunders Lewis yn canfod gwedd gyfredol arall – gellid tybied un 'wrthddywedol' – ar Williams, 'ni bu bardd erioed mewn unrhyw wlad yn berchen athrylith wyddonol lwyrach'. Ac ymhellach, 'yn ei ddiddordeb diderfyn mewn gwyddoniaeth y mae'n rhagflaenu Goethe a holl dueddiadau barddoniaeth ar gyfandir Ewrop heddiw.' Ac eto, mewn eneideg [h.y. Seicoleg] y mae ei gryfder eithriadol'. Hynny yw, ffynnai ochr yn ochr â mudiad yr Oleuedigaeth megis Jonathan Edwards a John Wesley.

A'r un pryd, yr oedd deuoliaeth glasurol-ramantaidd Pantycelyn yn is-destun i ddeuoliaeth Saunders Lewis yntau yn ei gyfrol arno; ac mewn gwaith creadigol arall.

Dau Fetanaratif Cymraeg a grybwyllasom hyd yn hyn, sef 'Rhamantiaeth ddemocrataidd' a'r 'Oleuedigaeth Galfinaidd'. Dwy dreftadaeth oedd y rhain a dderbyniodd Pantycelyn o bosib gan y Piwritaniaid.

Fel arfer, tueddir mewn gwledydd eraill i ddyddio prif wth y Mudiad Rhamantaidd yn ddiweddarach na Williams, y cyfnod cyntaf rhwng 1798-1805, gyda Chateaubriand a Lamartine yn Ffrangeg, Burns a Blake yn yr Alban a Lloegr, a hefyd mewn aeddfedrwydd gydag estheteg ddatblygedig Schlegel a Barddoniaeth Novalis yn yr Almaeneg. A'r ail gyfnod ar ôl 1806. Ond y mae parodrwydd hefyd i gydnabod nifer o lenorion sy'n gyn-ramantwyr neu'n arloeswyr i'r mudiad teimladaidd pwysig hwn, megis Young, Cowper, Gray, Thomson yn Saesneg, ac yn Ffrangeg Rousseau, Laclos, a Sade; ynghyd â Goethe, Lessing a Herder yn yr Almaeneg. Os ydym am ystyried arloeswr cyfredol o Sir Gâr yn y Gymraeg, diau mai gyda'r rhain y byddai'n deg cyfrif rhai gweddau ar waith Pantycelyn.

**Diffinio Rhamantiaeth**

Pa arwyddion o Ramantiaeth y gellid eu nodi, wrth archwilio, o Ramantiaeth gynnar Pantycelyn? Pa arwyddion a oedd yn wrth-Glasurol?

Mae Saunders Lewis ei hun yn amlinellu Estheteg egwyddorol Ramantaidd yng ngwaith Williams, a hefyd yn nodi nifer o faterion arddulliol ac ieithyddol sy'n gogwyddo at Ramantiaeth ddemocrataidd. Tynnaf innau allan o'r drafodaeth dueddiadau lled-ddiffiniol Clasuraeth a Rhamantiaeth Gymraeg fel hyn:

| ***Clasuraeth Uchelwrol*** | ***Rhamantiaeth Werinol*** |
|---|---|
| *Traddodiad* | *Newydd* |
| *Cymdeithasol* | *Unigolyddol* |
| *Unoliaeth y cyffredin* | *Gwahaniaeth yr arbennig* |
| *Ffurfiol gyfundrefnol* | *Llac gyfundrefnol* |
| *(caethiwed)* | *(rhyddid)* |
| *Iaith gaboledig hynafol* | *Iaith werinol fodern* |
| *Cymhleth* | *Syml* |

Meddai Saunders: 'Creu ceinder, symbol o berffeithrwydd, oedd delfryd y beirdd clasurol. Gan hynny, yr oedd eu parch i'r Gymraeg yn ddiderfyn, ac i eiriau unigol a oedd yn elfennau melyster'...'Nid felly Bantycelyn. Ni pharchai ef eiriau o gwbl...*Nid oedd ganddo ychwaith barch at farddoniaeth....'* [gosodiad anghywir]. Mynegi'i brofiad oedd rhan o nod Pantycelyn. 'Peth a dyf o'i fywyd heb iddo ef ei fynnu yw unoliaeth gwaith Williams'.

Cofier yng ngoleuni hynny gyngor thematig Williams ei hun i emynwyr Cymru (1766): 'I mofyn am wir ras eu hunain... i adnabod Prydyddiaeth, pa le mae ei thegwch hi yn gorphwys, at bwy ddiben y mae, a'r amryw reolau sy'n perthyn iddi … troell-ymadroddion, amrywioldeb, esmwythder Iaith a chyffelybiaethau bywiol, ond ag Ysbryd hefyd ag sydd yn ennyn Tân.' Dyma'r crefftwr wrthi. Rhamantai Saunders hyd yn oed ddiffyg parch Pantycelyn at farddoniaeth.

Erbyn 1948 gallodd F.L. Lucas gasglu 11,396 o ddiffiniadau gwahanol o 'Ramantiaeth'. Ymhob gwlad ceid rhamantiaethau gwahanol. Eto, ystyrid o ddifri fod rhyw fath o symudiad safbwyntiol o arddulliol, yn wir symudiad gweledigaethol, wedi ymweld â ni gan roi math o ymdeimlad unol; ar draws Ewrob. A chredid – gan fod term haniaethol bob amser yn ddadleuol – mai hwylus bod yn amyneddgar gyda'r term hwn.

Er mai Rhamantydd oedd Iolo Morganwg, ac er mai ef oedd y beirniad llenyddol mwyaf sylweddol rhwng Simwnt Fychan a J. Morris-Jones, nid ef ond Saunders Lewis oedd y cyntaf i ddiffinio Rhamantiaeth a Chlasuraeth o safbwynt Cymreig. Nid oedd hynny'n anodd. Dichon fod y traddodiad Cymraeg a ymrannai'n weddol daclus yn gaeth a rhydd, yn symlach ei gyferbyniad na'r sefyllfa mewn gwledydd eraill. Ond nid digon hynny. Roedd swyddogaeth hyfforddedig, daledig y bardd Clasurol gynt a ddibynnai ar nawdd y llys, ac a geisiai gyflawni gwasanaeth cymdeithasol yno, yn ddigon gwahanol i'r unigolyn 'di-dâl', unig a goddrychol diweddarach, gymaint felly fel y dylid oedi uwchben helaethrwydd cyfoethog diffiniad Saunders Lewis o'r hyn a olygai Rhamantiaeth yn ein gwlad ni.

Hawdd dewis sawl cant o'r diffiniadau hyn allan o'r 11,396 fel safbwynt 'awdurdodol' i

feirniadu'r safbwynt a gymerodd Saunders Lewis. Ond credaf fod y dadansoddiad a'r diffiniad a wnaeth ef o'r ddau gywair neu'r ddwy weledigaeth o lenyddiaeth – Clasuraeth a Rhamantiaeth – yn dal yn barchus ddigon heddiw. Yn wir, i'm bryd i, teifl oleuni ar draws beirniadaeth yr ugeinfed ganrif hithau benbaladr, nes bod llawer a ddywed ef yn berthnasol hyd at olion o dranc Ôl-foderniaeth (dros dro) yn yr unfed ganrif ar hugain.

Y pwyslais a ddilynai Saunders Lewis oedd tanlinellu priodoleddau megis rhyddid dychymyg, teimladrwydd ymrwymedig, gwrthreswm. Ond pwysicach o lawer na phethau felly oedd y canfyddiad, a nodai (mewn man arall) egwyddor unoliaeth sy'n cynnwys y gwahanu: *'Cymwynas Williams i'r byd modern, yn neilltuol i Gymru fodern, oedd rhoi* raison d'être *i farddoniaeth, rhoi iddi swyddogaeth mewn byd di-drefn, byd o unigolion, byd heb unoliaeth cymdeithas na chredo nac athroniaeth, a byd y cymerth gwyddoniaeth ynddi y flaenoriaeth a fuasai gynt yn rhan rheswm. Condemniodd Goronwy Owen y byd newydd. Derbyniodd Williams ef ynghyd â'i holl unigoliaeth.'*

Yn ystod y dadlau diweddar a gafwyd ynghylch Ôl-foderniaeth, ceisiais honni fod yna led gydsynied ynghylch gogwydd neu agwedd emosiynol ymhlith ei harddelwyr o blaid gwahanu, dryllio, tanseilio; ond mai'r hyn a fynnai iaith realaidd draddodiadol a deall dilys – a llenyddiaeth aeddfed yn y bôn – oedd athrawiaeth gelfyddydol gatholig. Ym mryd Saunders Lewis, caed rhywbeth tebyg yn yr ymateb datblygedig a roddodd Pantcelyn i Ramantiaeth. Er derbyn y sefyllfa gymdeithasol yn realiti, ni fodlonai Pantycelyn ar fynd yn ysglyfaeth i syniadaeth 'newydd' yr oes. Ni chredai fod 'rhannu' yn ddigonol heb yr uno. Heb gyfaddawdu, dewisodd Pantycelyn reitiach llwybr, yn ôl Saunders Lewis: 'nid ym mhrofiad cyfrin yr unigolyn y mae awdurdod, sef yw hynny goleuni a disgyblaeth. Nid ychwaith y tu allan iddo, mewn cymdeithas neu eglwys neu ddatguddiad gwrthrychol. Ond yn hytrach, *yn y ddau ynghyd'.*

Hynny yw, os caf ei ddweud, mewn *gwahuno.*

Erbyn ein dyddiau ni, gwelwn mewn Ôl-foderniaeth anhunanfeirniadol gynffon eithaf Rhamantiaeth. Yr hyn a gyflwynai Saunders Lewis inni oedd y rhamantydd gan Bantycelyn a oedd wedi canfod cryfder a gwendid Rhamantiaeth, wedi derbyn y sefyllfa reidiol, ond wedi codi uwchlaw ei gormes yn feirniadol: 'Dysgeidiaeth bendant y llyfr [*Drws y Society Profiad*] yw na all dyn ar ei ben ei hun fyth mo'i adnabod ei hun. Rhaid iddo wrth gymdeithas, wrth fethod cymdeithasol a chymorth o'r tu allan er mwyn ei ddarganfod ei hun yn iawn.'

Wrth gwrs, siarad ar ei ran ei hun yr oedd Saunders Lewis, gan ddefnyddio Pantycelyn o ran hwylustod. Mae ei sylwadau ynghylch 'unigrwydd' tybiedig Williams (er y dadleuon a gâi yng ngwaith Williams o blaid Cymdeithasu crefyddol o fath newydd) wedi peri iddo ef – ac yntau ar y pryd newydd ddarganfod a dadansoddi'n hyfrydol Glasuraeth Dafydd Nanmor – gael ei dynnu i'r

ddaear gan Bantycelyn. Fe gymhlethai ei olygon ei hun: *'Ni ellir mwyach fynd at ddamcaniaeth yr Oesoedd Canol a sylfaenu'r gwaith ar hynny. Ni ellir ychwaith yn ein hoes ni obeithio am gymdeithas unedig yn sylfaen celfyddyd gytbwys a chymdeithasol... Ond erys drychfeddwl y beirdd clasurol yn ddrychfeddwl i ninnau. Rhaid i ninnau ymdrechu am drefn a chyfanrwydd a synthesis mewn bywyd.'*

Hyn a ddaeth yn genadwri bywyd i Saunders Lewis. Gŵr ifanc oedd o hyd, ac ar ddechrau'i yrfa. Gwelsai fwy nag anaeddfedrwydd a sentimentaliaeth Rhamantiaeth. Gwelsai ei pheryglon. Parod oedd i feirniadu Williams: '*un peth nas darganfu Williams erioed, sef y syniad Cymreig am gymdeithas ac am natur gymdeithasol barddoniaeth.'* – Ond 'un syniad Cymreig am gymdeithas' fuasai'n gywirach. – Yn y fan yna y dechreuodd y gyfrol ar Bantycelyn. Clasurydd newyddeni oedd Saunders Lewis: ceidwadwr ysbrydol chwyldroadol mewn byd ystrydebol 'ryddfrydol'. Ond gan bwyll, dadlennodd ddarganfyddiad arall: '*Peth a dyf o'i waith heb iddo ei fynnu yw unoliaeth gwaith Pantycelyn.'* Defnyddiodd yr emynydd y gwaith melys o lenydda er mwyn nesáu at Dduw, ac er mwyn mynegi'i weledigaeth unplyg. *'Cyfrwng yw hi i feddiannu bywyd yn llwyr.'* Yr oedd y nod oruwchnaturiol yn drech na phob anfantais gymdeithasol – boed yn chwalfa genedlaethol, yn ddiffyg addysg Gymraeg, yn wendid yn ei athrawiaeth ddyneiddiol – trechwyd y cwbl gan undod ei weledigaeth ac unplygrwydd llethol ei werthoedd a'i ysbrydoliaeth, mewn 'eglwys' o rai ailanedig. *'Ymchwil am Dduw a darganfyddiad o olion Duw ar yr enaid yw'r profiadau a ddewisodd ac a geisiodd.' ...* Yr unoliaeth hon, y meddiannu hwn, yr ymchwil hwn a dyfodd o waith S.L. ei hun.

Eisoes, ymhell cyn dechrau ar ei lyfr ar Bantycelyn, yr oedd bryd catholig Saunders Lewis yn rhyfedd solet. Ffurfiasai fowld Clasurol eglur iddo'i hun. Byddai'n mynd ati mwyach i droi'r Seiat Fethodistaidd yn gell gyffes gatholig. Byddai'n troi camre Pantycelyn o'r alwad Effeithiol, yr Edifeirwch, y Credu, y Cyfiawnhau a'r Uno a'r Sancteiddhad a'r Gogoneddu – y camre Beiblaidd mewn Cyfriniaeth Galfinaidd – beniwaered gyda Sancteiddhad o flaen Cyfiawnhad, ac Uno ar y diwedd yn ôl y patrwm Catholig yn hytrach nag ar y dechrau (a'r diwedd) fel Williams. Eto, mynnai dro ar ôl tro gydnabod eglwysyddiaeth efengylaidd Williams a dyfnder ei weledigaeth o'r Eglwys. Nid yn annisgwyl, Dafydd Nanmor a goncrodd Williams. Byth wedyn, ar hyd ei yrfa, wrth i Saunders Lewis drafod y 'Cofiant', ac Ann Griffiths, a Chyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd, a Thomas Jones Dinbych, arhosai rhyw fath o grafu cydwybod. Ceid ymdeimlad, o ddarllen ei fyfyrdodau am Fethodistiaeth, fod rhai pethau nas dysgodd gan na Maritain na Rivière. Dywed am y Deffroad mawr: '*Fe ddaeth eu Ffransis yn Griffith Jones; fe ddaeth eu Dominic yn Hywel Harris.'*

Ond mae gan Saunders Lewis sylw arall am un o nodweddion ei Ramantiaeth: '*Enillodd gyfandir newydd i'r awen, daear wyryfol nas troediodd neb bardd yng Nghymru o'r blaen...*' Gellir

clywed Edmwnd Prys yn amenu. '*Mynegi'n gyflawn y profiadau dirgelaf na cheisiodd neb o'i flaen eu rhoi mewn geiriau... Yn ôl damcaniaeth Williams y mae llenyddiaeth yn ddull o fyw... Byw trwy lenyddiaeth, dyna felly ddirgelwch Pantycelyn.'* Ai diffyg parch at farddoniaeth oedd peth felly?

Ceir tair gwedd bwysig ar feirniadaeth lenyddol Saunders Lewis o ran paramedrau amcanus: yr ymgais i ddehongli bywyd Cymru drwyddi (neu 'gyd-destunoli' fel y dywedir); y sylwadau theoretig achlysurol (cyffredinoli ynghylch llenyddiaeth – a'r fan yma y ceir ei uchafbwyntiau a'i isafbwyntiau); a'r trafodaethau goleulon eglurhaol hapus ar ddarnau unigol o lenyddiaeth. Mae'r tair hyn ar waith yn ei gyfrol ar Bantycelyn.

Y penodau mwyaf theoretig yn y gyfrol honno oedd y rhai ar Estheteg, Arddull, a Rhamantiaeth, a'r rheini oedd y rhai mwyaf treiddgar. Ar ryw olwg, gellid tadogi'r disgrifiad diweddar 'Metanaratif' a 'chyd-destunoli' ar yr ymdriniaeth yma â Rhamantiaeth, er y byddai'n well gennyf gyplysu hefyd y term Goleuedigaeth (o'i chyferbynnu â'r Ymoleuo seciwlar). Cyfuniad o Ramantiaeth a Goleuedigaeth a geid yn amgylchfyd teimladol a syniadol Williams: Goleuedigaeth ymhlith y diwinyddion a'r gwyddonwyr deallus, Rhamantiaeth ymhlith y llenorion; ond cyfuniad cyrhaeddbell o hardd mewn un llenor Cristnogol ac mewn beirniad cyfoes mawr ddwy ganrif ar ôl Pantycelyn. Yn hyn o beth, olynydd i Lewis Edwards fu Saunders Lewis.

Llythrenoldeb prennaidd gwyddonwyr fu un tramgwydd i Williams, er nad oedd ei barch tuag at eu maes yn pallu. Lle yr achwynai gwyddonwyr all-wyddonol diweddar am Gristnogion sy'n ystyried barddoniaeth y Beibl yn wirionedd, achwynai Williams yntau am lythrenoldeb meddyliol rhai gwyddonwyr neu resymolwyr ar y pryd.

*Ŵyr dyn wrth ddysg a rheswm, a'r uwcha' ddyn o radd*
*Un iot o iaith y Beibl, ond hynny all ei ladd;*
*Fe olrhain ddysg lythyren, ond ni chaiff neb i ma's*
*Feddyliau'r Bod anfeidrol ond pur, iachusol ras.*

Arbitrius Liber sy'n lleisio'r safbwynt rhesymol: ef yw gŵr unllygeidiog yr Ymoleuo yn *Theomemphus.* A hoelio y gwendid yw *Atteb Philo-Evangelius:* '*yn eu dealltwriaethau yn unig y mae crefydd, ac nad esgynnodd mohono erioed eto i'w calonnau hwynt.*'

Balchder rheswm amddifad a hwnnw wedi'i gyfyngu i amser-a-lle, yw rhagdybied nad oes dim y tu hwnt i'w ddimensiwn meidrol ei hun. Nid rheswm, ond preneidd-dra naturiol oedd gwir ddiffyg y Rhesymolwr.

Ac y mae'r gwendid hwn yn ymgysylltu â'r hyn y myn y Rhamantydd yntau ei wneud â'i Ego. Gwendid y Rhamantydd yw, wrth iddo ddyrchafu'i brofiad a'i serchiadau'i hun, iddo golli gafael ar y gwrthrych. 'Yr Ego Trosgynnol' ys dywed sgrechair Husserl yw ei absoliwt a'i bren mesur: felly ein seciwlarwyr cyfoes. Er bod Williams yn amau'i orddefnydd ei hunan o'r gair bach

'fi', ac yn sicr yn sôn am ei serchiadau yn helaeth, y cywair a'r safbwynt a gymer ef yn gyson seiliol yw:

*Myfi yn llwm a'r Iesu'n llawn,*
*Myfi yn dlawd heb feddu dim*
*Ac yntau'n rhoddi popeth im.*

Dyma'i 'Ego' Calfinaidd, yr hwn a dderbyniai bob gras gan y Gwrthrych. Er gwaetha'r mawrygu o Wyddoniaeth ganddo, er gwaetha'r hunan-feirniadaeth wrth ystyried dilysrwydd y profi difrif, Rhamantwr cynnar o Gristion yw ef yn ddi-os, a Goleuedigwr o Gyfundrefnwr na pheidiodd â byw am eiliad y tu hwnt i wrthryfel cyson yn erbyn ei wendidau'i hun. Fel y gallasai Saunders Lewis ei ddweud, '*Ni phleidleisiodd ef fel rhai beirdd rhamantus dros fywyd greddfol neu gyngreddfol heb na rhesymu na dadansoddi i beryglu prawf datguddiad uniongyrchol i'w holl bersonoliaeth, ac anodd fuasai iddo gilio'n ôl i faldod amheuon-ysol.'*

Yr hyn felly a wnaeth Pantycelyn i Ramantiaeth Gynnar sy'n ddiddorol. Caed pwyslais ar brofiad ac ar y fi, mae'n wir; ond sianelwyd y teimlad cryf hwnnw *tua'r* Gwrthrychol a *chan* y Gwrthrychol. Yn wir, bychanwyd a chasäwyd y 'fi'. Darostyngwyd y goddrych; hyd yn oed angerdd synhwyrau, eithr gan eu trin fel doniau a rowd o'r tu allan. Dethlid Rhyddid newydd; ond rhyddid oedd a fedrai fawrygu rhwymedigaeth. Lle oedd i unigrwydd y creadur ar ei ben ei hun efallai. Unigolyddiaeth oedd gan bob bod a oedd gyda'i gilydd ym mynwes Duw, ac yn 'berson cyntaf' a dyfasai mor lluosog nes amgylchu pob un a gredasai. Ar ryw olwg, nid yr hyn a wnaeth Rhamantiaeth Gynnar i Bantycelyn sydd o'r pwys mwyaf, eithr yr hyn a wnaeth Pantycelyn i Ramantiaeth Gymreig. Rhoddodd iddi ddisgyblaeth oedolyn a gwrthrychedd hanesyddol, ond nid dideimlad, Robert ab Gwilym Ddu, Ieuan Glan Geirionydd a thelynegion Eben Fardd... a Saunders Lewis.

## DARGANFOD I

*Meistri'r Canrifoedd, 1973, a Williams Pantycelyn, 1927,* Saunders Lewis

Saunders Lewis oedd y lleiaf naïf o ddynion ar dir Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Neu felly yr ymddangosai. Nid radicaliaeth ystrydebol a laddai'r 'draddodiadaeth' yn ei fywyd ef, ond y sylweddoliad o dreiddgarwch y traddodiad. Yr hyn oedd y moesol i'r moeswersol, hynny oedd traddodiad i draddodiadaeth. Disodlid y negyddol gan gadarnhaol iach.

Pam y gallodd Saunders Lewis yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, fwy neu lai ar ei liwt ei hun, droi beirniadaeth Gymraeg yn gelfyddyd? Oherwydd bod Racine a Coleridge, De Sanctis a Goethe – gyda pheth cymorth gan Ddafydd Nanmor – wedi'i fagu ef yn eu breichiau. Yr oedd darganfod y canon iddo megis pwysigrwydd y cyfannu i feddwl plentyn rhwng seiniau arbennig ac ystyr: darganfu drefn yr angenrheidiol.

Oherwydd iddo ddysgu ynganu delfrydaeth Plato, y canfu ef neilltuolrwydd Tudur Aled. Oherwydd iddo ganfod yr undod yn amrywiaeth y traddodiad, y gallodd weld pam yr oedd dychanwr fel Siôn Cent yn fardd mor gadarnhaol.

A gwerthuso a wnaeth hyn oherwydd anadlu traddodiad. Cafwyd hobi, bid siŵr ymhlith rhai academyddion, o holi beth oedd y tyllau yn nhraddodiad Saunders Lewis; ond yr hyn a ddiffiniai'r traddodiad iddo oedd gwerth, trefn, a diben. Dysgai'r rhain iddo ddethol ac uno. Nid y relatif oedd ei obsesiwn ef: nid tanseilio a datod popeth. Cydadeiladu dealltwriaeth o undod bywyd a wnaeth drwy ganfod iechyd ac iachâd Mawl yn ei swyddogaeth egnïo. Gwyddai'n burion am y gwachul, a dysgai hynny iddo flaendiro'r gwych. Egni'r darganfyddiad hwnnw a ganiataodd iddo ef, er gwaethaf sawl damcaniaeth wyllt, ddadlau ynghylch llenyddiaeth y gellid ei hanrhydeddu a'i charu. Hyn a roes iddo'r ddawn i adnabod rhagoriaeth ac a'i gwnaeth ef yn ddychryn ymhlith corachod. Mewn Cymru israddol, dychryn arall oedd sylweddoli'r canlyniad a fynegwyd yn ei fywyd.

Yn wir, drwy ddisgrifio Tri Darganfyddiad ym Meirniadaeth Saunders Lewis cawn yn awr grynhoi'n ddosbarthol y casgliadau yr wyf wedi dod iddynt yn yr ysgrifau hyn ar ei waith.

### Y Darganfyddiad Cyntaf

Tua diwedd ei oes, soniodd Saunders Lewis mewn llythyr am 'ddarganfyddiad fy mywyd.' Roedd gan yr Athro Jarman nodyn pwysig am hyn yn *Ysgrifau Beirniadol XVII.* Cododd ymateb Saunders Lewis oherwydd cyflwyniad gan y ddau olygydd yn ail gyfrol y *Guide to Welsh Literature* i un 'who interpreted the tradition.' Esboniodd yr Athro Jarman 'yn sicr' mai'r hyn a oedd mewn golwg gan Saunders, a chanddo ef ei hun, oedd y dehongliad o waith Dafydd Nanmor ym 1925, a ymledodd ymhellach wedyn yn *Williams Pantycelyn* ym 1927 wrth gyferbynnu Rhamantiaeth a

Chlasuraeth, ac a ddatblygodd i'w roi yng nghyd-destun traddodiad llawnach yn *Braslun* 1932. Dyna brif swmp ei ddarganfod cyntaf.

Rhaid cofio, hyd yn oed yn nhridegau a phedwardegau'r ganrif ddiwethaf, fod chwaeth pobl mewn oed yng Nghymru, a hyd yn oed pobl ifanc, yn dal i ymdroi yn naws a synwyrusrwydd a ffasiwn llethol y rhamantwyr Saesneg rhwng Wordsworth a Tennyson. O'r braidd y gallai'r fath genhedlaeth ymdeimlo'n ddeallus ac yn gyffrous â hyfrydwch Clasuraeth Dryden a Pope, neu â Corneille a Racine, heb sôn am Ddafydd Nanmor a Thudur Aled. Eto, y cyfnod rhwng yr unfed ganrif ar ddeg a thraean cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg, dyna'r pryd y caed prif gyfoeth barddoniaeth Cymru, o leiaf tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. A dyna'r her i feirniad ifanc werthuso ar y pryd. Ni werthfawrogir bellach arbenigrwydd darganfyddiad cyntaf S.L. heb ei osod o fewn cyd-destun rhamantwyr diweddar dechrau'r ugeinfed ganrif. Y traddodiad oedd hanfod a phrif ysgogydd Moderniaeth.

Saunders Lewis a atebodd yr angen. Erbyn hyn, gwelwn nad oes dim dwywaith nad oedd gwaith rhai o'r Gogynfeirdd ac amryw o Feirdd yr Uchelwyr yn uchel iawn eu safon. Lluniodd Saunders Lewis ysgrifau meistraidd i archwilio camp amryw megis Dafydd ap Gwilym, Iolo Goch, Siôn Cent, Dafydd Nanmor, Dafydd ab Edmwnd, Tudur Aled, Guto'r Glyn; *a dweud pam.* Yr her oedd iddo ddangos sut yr oedd eu gorchest yn wahanol i eiddo R. Williams Parry, ac eto'n werth ei hystyried. Caethiw-wyd ein byd yn enbyd gan Ramantwyr diweddar. Ond fe gaed gan glasuron y 14eg a'r 15fed ganrif syniadaeth a theimladaeth a chelfyddyd o fath gwahanol a haeddai barch ac a allai ennill serch a mwynhad. Nid anelent at yr un dibenion 'newydd' a 'synhwyrus', angerddol' a 'mewnddrychol' â'r rhamantwyr Saesneg, mae'n wir. Ond yr oedd yn bosibl datblygu catholigrwydd chwaeth a werthfawrogai brofiadau tawel a chaled eraill, o'r math a ddarparent hwy'n helaeth.

Hyd hynny mowldiwyd a chaledwyd synhwyrau darllenwyr Cymru mewn byd cyfyng, blodeuog a phenilliog. Oni pherthynai'r farddoniaeth ganoloesol i gyd-destun aristocrataidd, gwrthun? Ac yng Nghymru chwenychid mwyach ymddiried yn ddidwyll a sobr mewn radicaliaeth wrthuchelwrol. Anesmwythid peth o halen y pridd ynghylch cywair bywyd y gwledda a'r plasau, y brwydro a'r mawl 'undonog'. Cawsid ganddo bwyslais anffasiynol ar drefn, lle yr oedd Cymry bellach erbyn cyfnod Saunders Lewis yn mynnu'r hyn a alwent yn 'rhyddid' teimladol. Ni cheid rywsut ar y pryd hanner digon o lenyddiaeth werinol o gyfnod yr uchelwyr. A bu'r prinder hwn yn ddigon o rwystr go annifyr i garedigion sensitif ein llên yn nhraean cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Yna'r Gatholigiaeth chwithig. Wele rwystr arall. Aroglau a chlychau a llond cert o ddelwau o'r Forwyn Fair. Roedd awgrymu bod yna'r fath beth ag 'ymennydd' cyfoes gan fardd, o bawb, hyd yn oed yn y fath gyfnod â throad yr ugeinfed ganrif, yn annerbyniol, ac yn sicr nid gan feirdd Cymraeg o'r Oesoedd Canol y caed peth felly. Yn wir, yr oedd beirdd rhamantaidd yn eu cyfnod

diweddar cynnar, T. Gwynn Jones, R. Williams Parry, T.H. Parry-Williams, W.J. Gruffydd a'u cywion, *en bloc* yn 'amheuwyr blinedig' hefyd. Holent rai cwestiynau, ond ni fentrent onid yn betrus ar atebion. Beth oedd trefn ddaearol? O ble y daeth? Beth oedd ei gwerth? Yn ôl at siwgr a sbeis, neu at sgeptigiaeth ystrydebol, rhag meddwl o ddifri am reidrwydd Absoliwt.

Mae'n wir, wrth gwrs, o safbwynt y cyd-destun hanesyddol fod ein gwybodaeth ni am yr Oesoedd Canol wedi newid erbyn hyn. Gwyddom fwy am amrywiaeth meddwl y cyfnod, am yr ansefydlogrwydd, am y ffaeleddau materol. Ymataliwn hefyd rhag rhamantu'r cyfnod a rhag y math o geidwadaeth wleidyddol dybiedig a oedd yn gysylltiedig ym meddwl Saunders Lewis â'r diwylliant hwnnw.

Mae gennym ddwy broblem felly. Yn gyntaf, fel y'i tybir yn fwyfwy cyffredin, y darlun 'dychmygol' a grewyd gan Saunders Lewis o'i bersonoliaeth ef ei hun: y myth o'r clasurwr bohemaidd. Dyma ffuglen hynod ffrwythlon a gyflwynodd ddelwedd a delfryd a bydolwg. Fel pob llenyddiaeth, y mae gan y darlun hwnnw fath o wirionedd y tu hwnt i hanes. Dyma'r hyn sy'n arhosol, efallai.

Ni fu Saunders Lewis mor barchusfawr yn y byd academaidd ag y dylai fod tuag at droednodiadau. Daeth y rhain i mewn i'r celfyddydau mewn cyfnod pryd yr oedd angen argyhoeddi'r awdurdodau y gallai hyd yn oed astudio llenyddiaeth fod yn ddisgyblaeth ysgolheigaidd. Ffordd arall i fod yn barchus academaidd mewn cyfnod felly oedd gwyro ym maes llên tuag at 'ffeithioldeb' tybiedig Hanes. Roedd dadansoddi a gwerthuso, a holl fraw Ffurf yn anesmwytho. Nid cymorth i droednodiadau chwaith oedd gwreiddioldeb meddwl Saunders, gan fod dibynnu'n ganibalaidd ar waith pobl eraill eisoes yn rhan o syberwyd nodyn godre. Digrif weithiau yw sylwi ar ffwdanusrwydd rhai o'r troednodiadau hyn ymysg academyddion cyffredin. Dysgai'r 'beirniad' unigryw ac 'annibynnol' ar y pryd gerdded yn borcyn er mwyn byw.

Beth bynnag a ddywedom mwyach am wreiddioldeb ei fenter y tu allan i'r Ganrif Fawr, dewisodd Saunders Lewis Williams Pantycelyn yn destun i'w gyfrol Gymraeg gyntaf o bwys mewn beirniadaeth werthusol. Hynny yw, dewisodd ef Ramantydd – a gaf fentro'r gair 'Cristion'? Annisgwyl yw sylweddoli'r undod a geir rhwng safbwynt a gweledigaeth y gyfrol honno am ein 'rhamantydd' cyntaf a'r 'darganfyddiad' a wnaeth yr awdur ychydig ynghynt am yr Oesoedd Canol. Yn y gwahaniaeth hwnnw y ceid yr undod. A'r undod a gafodd ef yw'r union beth sy'n dyrchafu pob bardd a phob beirniad o bwys, sef y meddwl ysbrydol. Nid ymbalfalu teimladol annelwig 'ysbrydol' ydoedd hyn, ond meddwl deallol ysbrydol.

Mae undod wrth gwrs yn awch celfyddydol. Pan soniai Saunders Lewis am Draddodiad, diau ei fod yn meddwl hefyd am gymdeithas mewn amser, eciwmeniaeth y berthynas mewn Gwirionedd. Chwiliai am ddolen gytûn. Chwilio yr oedd o hyd am y cyffredinol y tu ôl i'r arbennig.

Dyna un o gyfundrefnau sylfaenol y gair mewn iaith. Chwiliai'r llinyn cydiol mewn themâu dychmyglon. Gwelai ef y cyffredinol hwnnw, yn y traddodiad, yn estyniad, hyd yn oed yn drosiad i'r delfrydu Platonaidd, i'r dadansoddi Aristotelaidd, ac i weledigaeth Acwin o olyniaeth yr Eglwys. Ffitiai sefydlogrwydd delfrydau mawl i'r tywysog a'r uchelwr i mewn i drefn moliant helaethach. Gwreiddid cyffredinoli o'r fath rywsut yn y meddwl a'r ysbryd angerddol. Ac yn y gymdeithas. A bu'r chwarae a gafwyd yn ddiweddarach ynghylch disodli'r cyffredinol gan arbenigoli a gwahaniaethu amddifad yn ddim llai na 'différance' ffug ac arwynebol: bu hyn yn anad dim yn anathema i Saunders Lewis.

Ond cyfyd cwestiwn arall allan o ddarganfyddiad Saunders Lewis o 'Draddodiad' sy'n dra pherthnasol. Hynny yw: darganfod y lle sydd i bwrpas, gwerth, a rheidrwydd Mawl fel ffordd gyffredinol o feddwl ac am hanfod yr hyn sy'n esthetig fyw. Y rhain a unodd y Traddodiad. Dyma un arall o rinweddau'r Ganrif Fawr i Saunders Lewis, nid yn gymaint fel patrwm gwleidyddol eithr fel cyflwr o ddealltwriaeth gyffredinol. Beth bynnag a ddywedom am ddiffygion ei astudiaeth ef o Bantycelyn, yn arbennig yn y cyferbyniad rhwng 'Rhamantiaeth ddrwg' a 'Chalfiniaeth dda', daw'n fwyfwy amlwg erbyn y bennod olaf fod Saunders Lewis yntau yn gweld y naill a'r llall yn gyd-anochel. Dywedai bron yn fuddugoliaethus, '*nid peth gwrthwyneb i ramantiaeth yw clasuraeth, ond peth sy'n ei gynnwys mewn cyfuniad llawnach a dyfnach'*. Rhan o gamp Williams Pantycelyn oedd mynd i'r afael â'r ffaith strwythurol ryfedd honno. Ni allasai S.L. fod wedi'i gweld heb gael y darganfyddiad cyntaf yn gyntaf. Daeth hwnnw iddo yn dân yn ei fol: Clasuraeth Cymru.

O safbwynt strwythurol, y mae'r disgrifiad a luniodd Saunders Lewis i gyfleu'r 'meddwl' canoloesol, ac i'w gyferbynnu â rhamantiaeth, yn hynod debyg i 'feddwl' diwinyddol Pantycelyn: '*yr oedd yr Oesoedd Canol yn sicr bod trefn yn y greadigaeth, mai cyfundrefn ddisiom oedd Bod, a bod cytgord i'w glywed odditan holl sôn amherffaith ffeithiau*.' Dyna oedd *Golwg ar Deyrnas Crist* i Bantycelyn hefyd. Beth arall? Y tebygrwydd hwnnw ynghyd â'r gwahaniaeth oedd ei her wrth ddeall sefydlogrwydd ac ansefydlogrwydd y datblygiad cywrain syniadol yn yr oesoedd canol, a'r gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng y 'cyfnod' Catholig a'r 'cyfnod' Protestannaidd.

Un o'r ffactorau sy'n rhoi iddo 'sefydlogrwydd' o fath mewn iaith a llên yw bodolaeth Cyfundrefn ymhob dim. Ac un o'r ffactorau sy'n diogelu 'ansefydlogrwydd' yw bodolaeth orfodol Mynegiant unigolyddol ymhob dweud. Yn ddiarwybod iddo, y sefydlogrwydd rhyfedd hwnnw y sonia amdano fel 'cytgord' yw perthynas gyson Tafod a Mynegiant mewn cymdeithas amseryddol. A hyn sy'n ffurfio rhywfaint ar ein meddyliau. Ymwybod â moesoldeb y syniadaeth honno a wnâi Saunders Lewis – y cadw a'r newid ysbrydol ynghyd. Roedd hyn hefyd yn ysgogiad clasurol.

Gyda Dafydd Nanmor (1925) a Phantycelyn (1927), cafodd Saunders Lewis ddeuoliaeth unol Acwin/Calfin. Yr edefyn arall yn y cyplysiad hwn oedd ei Gymru fodern ef – sef Barrès,

Emrys ap Iwan, Chesterton a'r Eglwys Gatholig. Tyfai ef yng nghyfnod Dirfodaeth (Dirfodaeth Kierkegaard) ac *Amlyn ac Amig* – ymrwymiad dwys ar y naill law ac Anghrediniaeth deimladol ar y llall. Ond mae ansawdd ei feirniadaeth a'i berthynas â'i destunau wedi golygu cyd-deimlad. Profai ef ebychiadau ac ocheneidiau mewnol y bardd rhamantaidd. Ond camp y bardd-feirniad oedd cyfleu hyn oll drwy gelfyddyd gyd-deimladol â'r darllenydd. Dyma'r angerdd a godai waith Saunders Lewis uwch cyrraedd y llythrenolwyr seciwlar.

Y llythrenolwyr seciwlar oedd y drafferth gyda'r rhai a fu'n beirniadu beirniadaeth Saunders Lewis hyd y blynyddoedd: y dyhead anffodus i beidio â chymryd ei ddelweddau o Ddafydd Nanmor a Guto'r Glyn fel creadigaethau dychmyglon onest o ddifri. Dyma gyfraniad y Dychymyg i Wirionedd. Yn ei hwyl sgrifennu, yr hyn yr anelai Saunders Lewis ato'n gyntaf oedd ail-greu gweithiau a gynhyrchwyd gan gymeriadau diddorol gwir, ac ailfeddwl eu profiadau diddorol. Yr oedd hefyd yn ceisio hudo ger ein bron gyd-destun cymdeithasol a difyr ddilys. Bu'r cywair Catholig, y sagrafennaeth a'r drefn feddyliol Gatholig, yn wreiddyn pwysig iddo yn hyn o dasg. Caniataent iddo ganfod ac amgyffred drwy'i ddychymyg ffordd o fyw celfyddydol dychmygol. Dychymyg i gyd oedd, wrth gwrs.

Sylwer yn gymariaethol ar ei hanesydda ffuglennol yng ngoleuni'r feirniadaeth 'swyddogol'. Defnyddiai wrth gwrs gymeriadau hanesyddol, ac anadlai fywyd iddynt – mewn byd digon llythrennol a hanesyddol; *Merch Gwern Hywel* neu *Dwy Briodas Ann* neu *Siwan.* Yr un yw'r duedd i bwyso a mesur gyda'r bardd, y nofelydd, a'r dramodydd, ag yn achos y beirniad. A yw'n 'wir' ac yn fyw? Yn hyn o beth, y mae beirniadaeth lenyddol mewn twll cyffelyb i haneswyr croniclaidd. Dibynna'r naill ochr a'r llall ar ffeithiau ac ar ddychymyg. Ni ellir byth atgynhyrchu'r hanes. Ni all haneswyr croniclaidd ond dewis yn ôl eu chwaeth a'u rhagdybiau a chulni enbyd eu 'ffeithiau' a'u cyfnod eu hunain. Maent yn dioddef gan glefyd enfawr Diffyg Gwybodaeth. Ac fe'u hwynebid hwy gan y rheidrwydd celfyddydol i ddethol.

Bid siŵr, mae yna wedd groniclaidd a llythrennol bwysig ar hanes, megis ar feirniadaeth, sef lled unioni'r 'ffeithiau' digwyddiadol allanol a erys yn dystiolaeth, ceisio glanhau'r stablau rhagfewnol mwyaf cegagored, dodi trefn olynol daclus ar y manion. Pethau anniddorol i gyd bron, ond angenrheidiol. Ond o ran rhai o'r materion pwysicaf, megis adfywio'r oes-a-fu yn ei holl sawr a syrthni, neu roi bywyd i fanylrwydd a chymhlethdod teimladau'r awdur, neu brofi angerdd y ffurf a dyfnder argyhoeddiad, neu fod yn ddiragfarn: ofer i gyd? Nid wyf am fychanu swyddogaeth hanes llenyddol 'llythrennol'. Cyfrannai adnabyddiaeth o gyd-destun meddyliol. Yn wir, gall croniclo o'r fath gyfateb o fewn Mynegiant i strwythuraeth mewn Tafod. Gwedd deg yw ar feirniadaeth lenyddol. Gellir dod o hyd i gasgliadau digon arhosol i feirniaid. Ond mae beirniadaeth greadigol yn cydio mewn materion o'r fath, ac o bryd i'w gilydd yn codi. Cyffyrdda hi â'r 'anghywir' megis Freud

neu Gyfriniaeth fewnblyg mewn traddodiad dieithr, ac oherwydd gwefr mawl a chynnwrf uniaethu, y mae'r ysgolheictod newydd hwn yn gallu bodoli yn 'wir' ambell waith.

Cafwyd rhuthr ysywaeth am ben Saunders Lewis gan un neu ddau o'r llu llythrenolwyr hanesyddol yn ddiweddar. Fe'u cyflyrid i raddau wrth gwrs gan wleidyddiaeth. Prin bod rhamantu Saunders Lewis bellach yn apelio at y rhelyw ohonom ni'r proletariaid. Cawsom ein cyflyru gan wrth-frenhiniaeth iach a'r rhyfel-dosbarth ffug yn erbyn y bwrgeisi. Gwir nad yw materion pwysfawr megis y tei-bwa a'r sigarau yn rhyw apelgar nac yn epilgar mwyach, er ein bod yn medru ymdopi gyda gwydraid bach o win. Ond gallwn dybied yn rhy barod fod gwrthuni tybiedig ei wleidyddiaeth ynghyd â'i grefydd ecsentrig a'i syniadaeth esthetig yn perthyn yn gyfan i'r un bydysawd ag adfeilwyr snobyddlyd adain-dde ddechrau'r ugeinfed ganrif yn Ffrainc a Lloegr. A chan fod y cwbl yn organaidd yn ei dyb ef, ni allai'r un rhan o'i sylwadaeth o'r herwydd fod yn fuddiol iawn ym mryd rhywrai. Rhaid trawsblannu rhyw Ffasgaeth dybiedig a gwrth-Iddewiaeth dybiedig i mewn i'w waith er mwyn bod yn boliticaidd gywir yn erbyn ei syniadau am Ddafydd Nanmor druan. Hyn a ddaeth yn fyth i genhedlaeth newydd wrth feddwl amdano. Ond yn ôl ei arfer baradocsaidd, caed 'profion' negyddol lawer lle nad oeddent ar gael.

Ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg, un o gymwynasau pennaf Saunders Lewis fu cymryd Einion Offeiriad o ddifri. Rhagflaenodd ef yr Athro Matonis yn hyn o beth. Cymreigiodd feirniadaeth Cymru o'r herwydd, peth sydd bob amser yn angenrheidiol. Hoffter beirniaid brodorol yw mynd yn ysglyfaeth i Frawd Mawr yr allanolion. Ceir cryn anhawster i ddygymod â'r gwreiddiau Cymraeg Cristnogol ac uchelwrol lle y ceid honno yn y feirniadaeth greiddiol rhwng Einion a Simwnt. Caed y pryd hynny bwyslais annifyr ar yr Absoliwt, yr Arfaeth, a'r Drefn. Deallai Saunders beth a olygai hynny i feirniadaeth. Lle yr hoffai eraill daflu dŵr allan drwy'r ffenest, gwelai Saunders yn yr achos hwn fod taflu'r dŵr hwnnw'n golygu colli'r baban hefyd.

Pan drodd Saunders Lewis 'dŷ' Dafydd Nanmor yn symbol o'r traddodiad Cymraeg, a'r weithred o 'gadw' yn ddelwedd o'r hyn a wnâi feirdd yn frenhinoedd, 'beirniad o fardd' oedd ef ei hun. Meddai R.S. Thomas yntau am ei farddoniaeth grefyddol ei hun: 'My work as a poet has to deal with the presentation of 'imaginative truths.' 'How shall we attempt to describe or express ultimate reality except through metaphor or symbol?'

Yn yr ymgyrch i ddifrïo'r Beibl, fe geisiwyd sôn amdano gynt fel 'myth' a 'throsiad' a 'symbol' fel pe bai hyn yn tanseilio neu'n cyfyngu ar ei eirwiredd. Ymgais oedd hyn i wanhau gwirionedd a ffaith hanesyddol hefyd. Diffyg anonest oedd ar y pryd. Diffyg clem y rhai na allent weld yr amlwg – sef y trosiad (neu'r 'analog' neu'r 'symbol') **sy'n cynnwys yr un pryd yr hanes heb ildio modfedd i'r afreal.** Hynny yw, dibynna gwir y Beibl ar farddoni'n hanesyddol. Mae'n ymestyn at y manwl-gywir drwy **estyn iaith o fewn yr hanesyddol 'lythrennol'**, a hynny o gylch

yr 'ysbrydol' brofiadol. Cododd S.L. mewn cyfnod pryd yr oedd beirniaid seciwlar am aros gydag esbonio geirfa yn llythrennol, a glynu wrth ddisgrifiad o fywyd beirdd yn llythrennol gofiannol, gan ogwyddo at ramantiaeth anhunanfeirniadol. Drwy'i weledigaeth feirniadol gyntaf o glasuraeth, **dyrchafodd yr esboniad gwir o natur gwaith beirdd i lefel darganfyddiad**.

LLYTHYR O'R BEDD

**O'r Gyfres ADOLYGIADAU HWYR (35)** yn **Barddas: Yr Ail Ddarganfyddiad**

**gan Monica Maciwan**

(Un o amryfal ferched Saunders Lewis)

*[Mae ein gohebydd arferol ar ei wyliau. Mae ef bob amser ar ei wyliau. Cytunodd un o blant llenyddol amryliw Saunders i lenwi'r bwlch.]*

*Williams Pantycelyn,* Saunders Lewis, 1927; *Monica,* 1930; a M*erch Gwern Hywel,* 1964

Pan luniais fy hunangofiant ym 1930 yn y trydydd person (mewn dull a ddynwaredwyd gan R.S.), gofynnais i'm tad llenyddol fwrw golwg dros yr iaith, hynny yw dros y sillafu. A chan na fuaswn erioed mewn Ysgol Gymraeg, a chan iddo gael cymaint o waith uwchben cynifer o wallau orgraff, a chryn nifer o'm rhegfeydd, bu i'r golygydd dybied fod ganddo hawl i roi'i enw wrth y llyfr diwygiedig. Bodlonodd, er hynny, imi ddodi'r cyflwyniad coeg i'r gyfrol 'I Goffadwriaeth Williams Pantycelyn, unig gychwynnydd y dull hwn o sgrifennu'. Meddwl yr oeddwn i ar y pryd am y dull plwmp a phlaen a fu gennyf yn fy hunangofiant o drafod materion serch a phethau felly, heb flewyn ar dafod, fel *Cyfarwyddwr Priodas.* Ond sylwais wedyn fod fy nhad, wrth iddo lunio rhai o'i ddiwygiadau, yn synied fy mod i'n ddiarwybod wedi sathru ar bwnc llawer pwysicach nag a dybiwn. Nid yr hyn a fu gennyf i yn y cyflwyniad a oedd ganddo ef yn ei feddwl.

Dyna pam y mae'r sylwadaeth hon gennyf i – sydd ar ei helw oherwydd y ddau lyfr arall a enwir ar frig yr adolygiad – bellach yn ymdroi o gwmpas Serch Rhamantaidd. Sensorwyd y sylwadau hyn yn llym gan Wasg y Lolfa. Ac yn awr, rhaid i mi ymddiheuro am yr hyn sy'n weddill, nad yw fel y dylai fod. Dichon mai'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg oedd eu delfryd, sy'n cyfrif am y trwyn startsiedig a'r prinder anadl. Ceisiaf, serch hynny, fynd rhagof yn araf heb eu cyffroi'n ormodol. Bydd fy hen gyfaill Talhaiarn yn cael darllen hyn o ymateb o dan y garthen.

Feddyliais i erioed, wrth roi'r tipyn cyflwyniad enwog hwnnw ar flaen y gyfrol, fod fy nhad yn synied fod a wnelo fy mymryn misdimanners â Serch Rhamantaidd. Ond ar ôl darllen *Merch Gwern Hywel,* es i'n ôl at ei gyfrol ar Bantycelyn. Mae'n amlwg fod ei gyn-Fethodistiaeth weddilliol wedi dylanwadu'n bur egr ar syniadaeth fy nhad am y thema hon. Rhamantydd a Methodist *manqué* fu ef trwy'r cwbl, *agent provocateur* os bu un erioed. A charwn gyfeirio'n ôl at ddeuoliaeth a grybwyllwyd gan y Gohebydd Arferol wrth drafod un Metanaratif amlycach efallai o eiddo Pantycelyn, sef yr Oleuedigaeth (*Gristnogol)* yn gyfredol gyda'r Ymoleuo *(Seciwlar).* Pan awgrymodd Saunders Lewis mai Pantycelyn oedd tad Cariad Rhamantaidd (yn Ewrob siŵr o fod, os wyf yn adnabod fy nhad; ac Asia ac Affrica ddwedwn i), meddwl yr oedd ef am Gariad Rhamantaidd Cristnogol a oedd yn gyfredol gyda Serch Rhamantaidd Seciwlar. Hynny yw, o fewn

Metanaratif Rhamantiaeth Gymraeg y cafodd Saunders Lewis *thema* lenyddol Serch Rhamantaidd. Ond fe'i cafodd o fewn cyd-destun yr Oleuedigaeth hefyd.

Yr oedd hyn yn gwrthdaro â'm Serch Rhamantaidd Seciwlar i. Ac fe ddadleuwn i fod y serch a bleidiais i, y trachwant hwyliog a'r hunanoldeb braf a'r diffyg disgyblaeth, a'r materoliaeth a'r corfforoldeb amddifad, wedi ennill y dydd erbyn yr amser gwâr presennol. Dichon i Serch Rhamantaidd Seciwlar ddod o hyd i'w dad neu'i ffynhonnell yng ngwaith a bywyd Jean Jacques Rousseau – morddwydydd a bronnau a phethau felly – O! A phlant dideulu a hwpwyd i mewn i noddfeydd o'r ffordd.

**Yr Ail Ddarganfyddiad**

Gwelsom felly fod fy nhad, cyn iddo wneud ei 'Ddarganfyddiad Cyntaf', o Glasuraeth Cymru, wedi bod yn ei ieuenctid yn Rhamantwr llancaidd, fel pob crwt ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ond wedi hynny, ar ôl darganfod arbenigrwydd clasurol beirdd yr uchelwyr, fe ddarganfu ef Ramantiaeth Gymraeg Newydd.

Bu'r Gohebydd Arferol yn sôn hyd yn hyn am 'Y Darganfyddiad Cyntaf', sef dehongli naws ac egwyddor y canu mawr clasurol, natur y traddodiad barddonol yn ystod y cyfnod disglair rhwng 1066 a 1536. Dyna'r hyn a gyfrifai fy nhad yn gamp yn ei feirniadaeth. Profodd y myth hwn iddo yn gynhysgaeth yn ei waith creadigol hefyd. Yr oedd yn bwysig i Leu Llaw Gyffes yn *Blodeuwedd,* ac i'r Cadfridogion yng nghyfnod Hitler, megis i ddwy arwres *Gwaed yr Uchelwyr* a '*Gymerwch Chi Sigarét?* Caniataodd iddo orohïan am ddelfrydau 'cadw' a 'threfn', am ddyfnder gwreiddiau a gogoniant mawl, ac am gyfrifoldeb a gwerthoedd, ac erchyllbethau felly.

Ond mae yna Ail Ddarganfyddiad sydd gyn bwysiced bob dim yn ei waith creadigol, ac sydd a wnelo â'i 'gas serch' at Ramantiaeth. Dywedaf 'Serch' o barch at Flodeuwedd. Dadlennwyd y rhagfarn hon yn ei gyfrol ar *Williams Pantycelyn,* er mewn modd anghyson. Dichon fy mod i fy hun wedi'i boeni ef ynglŷn â hyn. Ond ni allaf lai nag amau mai rhamantwr diymod oedd fy nhad yn y man cychwyn. Wedi'r cwbl, Pater (Walter Horatio: 1839-94) oedd ei bater yntau. Bu Gruffydd yn ei led gyfoesi hefyd. Rhamantai yn Wallasey am Fôn a Sir Gaerfyrddin. Rhamantai'r Sistersiaid o gysur y Rhyfel Byd Cyntaf ('dyddiau gorau fy mywyd'). Ac yn ei feirniadaeth, lledai'r rhagosodiadaeth hon o Daliesin hyd at ddiwedd Goruwch-ramantaidd yr ugeinfed ganrif. Dyma'i esgobaeth lenyddol reddfol.

Soniaf, er hynny, am ei gas serch ystumiol at Ramantiaeth gyffredin. Gallwn fod wedi dweud 'ei gas serch at serch'. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, bu Rhyw yn newyddiadurol drafferthus i Gymru, fel y gŵyr pawb: 'Sant' Gwenallt, Prosser Rhys, Caradog Prichard, Kitchener Davies, (W.J. Gruffydd rhwng cromfachau a'r tu ôl i ddrysau caeedig), Kate (dan y cownter) ac yn y

blaen, hyd y dilyw yn niwedd yr ugeinfed ganrif ac i mewn i ddegawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Dilyw mewn rhigol oedd; plant bach Ceredigion a Meirionnydd yn ei mentro hi, yn 'siocio' hyd at ddylyfu gên, edrychwch arna-i'n feiddgar. Ie, a fi, Mrs Monica Maciwan, yn arwres nawdd i'r cwbl. Mewn gwlad blorynnog o lancesi coch, troediodd Saunders Lewis i roi'i sioc ddinesig ei hun a oedd yn bur wahanol (fel y gellid ei ddisgwyl) i'r rhigol arferol. Mae bron y cwbl o'i waith dramatig a storïol creadigol yn ymwneud â'r mater hwn mewn modd hynod o hunanfeirniadol. Yn ei waith beirniadol uniongyrchol ar wahân i *Williams Pantycelyn* ac 'Efa Pantycelyn' (y rheini'n cynnwys hadau), y mae ei ddamcaniaeth unplyg fwyaf diamwys mewn beirniadaeth lenyddol ynghylch Serch Rhamantaidd yn ymguddio mewn cornel arwyddocaol ym *Merch Gwern Hywel.* Dyma'i 'Ail Ddarganfyddiad' mawr beirniadol yn betrus ac yn ddiogel, ond yn dra beiddgar, am Ramantiaeth Gristnogol Gymraeg. Yr wyf i'n ei ystyried mewn gwirionedd yn gyd-bwysig â'r Darganfyddiad Cyntaf. Y mae yr un mor dreiddgar a dylanwadol yn ei waith â'i ddarganfyddiad clasurol. A heb y darganfyddiad hwn, ni byddai'r darganfyddiad cyntaf yn gyflawn.

Roedd y ddau ddarganfyddiad yn ddwy ochr i'r un geiniog. Ond credai ef fod Pantycelyn a'r Methodistiaid yng Nghymru wedi creu neu ddarganfod anghenfil newydd – angerdd serch rhamantaidd Cristnogol. A hynny wrth gwrs yn y Seiat. Cafwyd yr hyn a dybiwyd yn amhosibl: cariad rhwng Mab a Merch, Gŵr a Gwraig, a oedd yn fwy, yn ddyfnach na threfn briodasol ffermwyr masnachol, ac yn bellach na chwantau cnawd. Dyma gariad angerddol a gwmpasai gyfrifoldeb a moliant, cyfeillgarwch a pharch, colli pen a chaffael pen, trachwant ac ysbryd wedi mynd yn un. Nid dyna Ramantiaeth Saesneg. Aberth ydoedd megis cariad Crist at ei Eglwys. Roedd y peth mor sioclyd anhygoel â chael cysgod i'r Arglwydd Iesu yn yr Hen Destament, yn y Creu, yn y Ddeddf, yn y Proffwydoliaethau, yn yr unigolion a oedd yn ei gynrychioli, ac – o bopeth – yng Nghaniad Solomon.

Crynodd seiliau Philistia. Arswydwyd poblogeiddiwch seciwlar. Cafodd awdurdodau'r Sefydliad anghrediniol llenyddol ffit. Tybient fod cadw corneli anghrediniol saff yn llesol i bawb. Ond hyn! Meddai fy nhad am *Theomemphus:* '**ceir … am y tro cyntaf mewn llenyddiaeth nid portread yn unig eithr dadansoddiad a diffiniad o serch rhamantus**'. Ac ym *Merch Gwern Hywel* eto wele bortread o serch rhamantus Cristnogol ar waith yn ddiwyd, ond yn ddiweddarach.

**Ymserchu Cristnogol**

Beth felly oedd Serch Rhamantaidd Cristnogol Cymraeg?

Dyma sut yr esboniodd fy nhad y ffenomen ar ganol *Merch Gwern Hywel (50):*

**'… mae'n rheolau ni'r Methodistiaid, sy'n gwahardd priodi y tu allan i'r soseiad, yn magu'r un math o ymserchu yng Nghymru. Rydan-ni wedi cau allan briodi er mantais fydol a**

**hwylustod ffarmio, ac wedi meithrin parch at berson a rhinweddau personol yn unig sail i briodas yn ein cymdeithas. Ymserchu rhamantus ydy hynny ar un olwg, a'n rheolau ni sy'n mynd â hi fwyfwy yn y byd sydd ohoni. A chan mai o blith y Methodistiaid y cododd o, 'fedra i yn 'y myw mo'i gondemnio fo.'**

Dyna, yn gryno, ddadl fy nhad ynghylch Serch Rhamantaidd go iawn – mai Methodistiaid oedd ei arloeswyr Cristnogol. 'Dw i ddim yn siŵr a oedd wedi rhoi'i holl wyau yn yr un fasged, os caf fod yn berthnasol drosiadol. A dichon ymhlith y tlodion a'r gweithwyr di-eiddo mwyaf ystyriol fod rhamant fawr y penillion telyn ambell waith wedi ffynnu'n gyfochrog â'r peth newydd hwn, hyd yn oed wedi'i ragflaenu. Bid a fo am hynny, credaf fod yna un llinyn yn y thema sy'n hŷn na Methodistiaid, mewn gwledydd eraill. Caed yn y diwylliant Lladin ganu serch 'seciwlar' hynod ramantus. Ac yn niwylliant y Beibl, caed themâu cariadus cyfoethog yn gefndir i'r cwbl. Wedyn, wrth gwrs, cofiwn India ac Arabia. Dyrchafwyd y 'caru' syml hwnnw gan yr ysbrydol a'r foeseg.

Heblaw Methodistiaeth ramantaidd *Merch Gwern Hywel,* y mae gan Saunders Lewis, yn ei wreiddiau Catholig, olwg ar fwriad rhwng Mab a Merch sy'n gyn-fethodistaidd ddigon. Ac wrth i'r athronydd Calfinaidd Alvin Plantinga bwysleisio fwyfwy y llinyn Acwin/Calfin, ni ddylid ysgaru hyn rhag athroniaeth ddi-dor yr Eglwys. Dyma thema amlwg ac amlochrog ym mryd fy nhad hyd yn oed wrth ymhél â'r Oesoedd Canol, oherwydd (fel y dywedodd yr Adolygydd rheolaidd yn y golofn hon yn ei ddull arferol), tueddai Saunders Lewis i ramantu'r Oesoedd Canol a Chlasuraeth fel ei gilydd. Felly hefyd y tueddai i glasuroli rhai yn y cyfnod Rhamantaidd. Fe'i gwnâi yn *Blodeuwedd* a *'Gymerwch Chi Sigarét?,* yn *Siwan* ac yn *Gwaed yr Uchelwyr.*

Darganfod rhinweddoldeb Rhamantaidd fel y cyfryw oedd yr Ail Ddarganfyddiad annisgwyl iddo. Dringodd allan o amrydedd ei ragdybiau cynharaf. Trugarhaodd. Yn wir, edifarhaodd. Fe gafodd hynyna, efallai, yn athrawiaeth hynafol y Briodas Gristnogol. Nid y Methodistiaid yn unig a anogwyd i beidio â phriodi'n anghymharus. Yr hyn a ddigwyddodd oedd dadleniad cadarnhaol iawn, a ddaeth yn wefr iddo, gwefr a bery'n arwyddocaol fwyfwy o fewn ein caddug cyfoes.

O archwilio'r ddwy ddogfen arall a ddynodais ar frig yr adolygiad hwn, gwelir bod yna barhad a chydlyniad yng nghorddiad llenyddol a beirniadol y thema hon. Profodd ef y briodas ramantaidd â'i Neo-glasuraeth ei hun. Dododd Serch rhamantaidd Anghristnogol Blodeuwedd o fewn yr un baddon â Chariad clasurol; cyfrifoldeb, dyletswydd, a gwreiddiau teuluol Lleu Llaw Gyffes. Ac fe'i trawsffurfiwyd, gredaf i, yn greadigaeth Saundersaidd ddifyr. Yn y Briodas Newydd felly, cafwyd Serch Rhamantaidd-Glasurol, a Serch Personol-Gymdeithasol a Chorfforol-Ysbrydol y Gristnogaeth ymarferol; a hynny a ganfu Saunders Lewis yn ysbrydiaeth erioed. A daeth yn fyfyrdod beunyddiol iddo yn ei farddoniaeth, yn ei storïau a'i ddramâu.

Hynny yw, dyma her delwedd i ganu Cristnogol y cyfnod modern: cyfeillgarwch, cyd-

barch, cydymostwng, rhyw, cydwasanaethu, ymserchu, ac yn anad dim cyd-weddïo a chyd-aberthu. Y ddau olaf yw'r allwedd i ddrws y Soseieti a'i Gariad Rhamantaidd Cristnogol neilltuol. Ffeindiais innau (yn Abertawe) erioed mo'r allwedd i'r tŷ hwnnw, rhaid cyfaddef. Ceisiais i aelwyd arall.

Mae'n debyg mai'r gân gyntaf erioed yn hanes serch rhamantaidd Cristnogol (Cymraeg o leiaf) oedd 'Anfon Cwcw (sef ei Nico ef) o bellterau Môn i Sir Gaerfyrddin'. Pantycelyn a'i lluniodd mewn pwl o salwch hiraethus, pryd y tybiai na ddôi'n ddigon da eto i ddychwelyd adref:

*'Nawr rwy'n eitha' Môn yn aros,*
*Ac mae yn fy ysbryd glwy'*
*Am gael gweled Pant-y-celyn,*
*'Chaf ei weled mo'no' mwy!*
*Hed y Gwcw dros y bryniau,*
*Hed aderyn glas ei liw,*
*Dwg im newydd, dwg yn fuan,*
*A yw yno bawb yn fyw?*

*Hed oddi yno i Lanfair-muellt,*
*Dwed wrth Jack am gadw'i le,*
*Os na cha'i weled ar y ddaear,*
*Y caf ei weled yn y ne'.*
*Hed oddi yno, dos at Mali,*
*Dywed wrthi yn ddistaw bach,*
*Os ca'i gennad gan yr Arglwydd,*
*Y dof fi adre eto'n iach.*

Dylid cyfosod gyda'r gân honno bennill ychwanegol crwydr a argraffwyd, yn anghywir dybiaf i, yn allfesurol, gyda'i Farwnad yn y Mesur Penrhydd i'w ferch fechan Maria Sophia:

*Byth mi gara yr enw 'Mari',*
*Boed ar angel, boed ar ddyn,*
*Cânt ryw fendith oddiar y funud*
*Clymwyd Mari a minnau yn un;*
*Os bu Mari fechan farw,*
*Cadw Fari hen yn fyw;*
*Dyma'r pennaf gais daearol*
*Wy'n ei geisio gan fy Nuw.*

Ie, Williams, ein Bardd Serch cyntaf mewn arddull fodern ramantaidd. Honiad 'beiddgar' ond mae'n

werth ei ystyried: yn y delyneg dri-phennill ramantaidd gudd hon.

Rywfodd yr wyf yn synied bod fy nhad ar ôl 1936 wedi dechrau cyfaddawdu neu dyneru ychydig ar Ramantiaeth. Yn ystod dauddegau a thridegau'r ganrif gwnaethai fôr a mynydd o'r gwrthdrawiad rhwng Clasuraeth a Rhamantiaeth. Ar ôl 1936, sut bynnag, wrth drafod y Methodistiaid, newidiwyd y cywair, o leiaf yn ei feirniadaeth lenyddol. Cadwyd yr un gwreiddiau, bid siŵr, ond lledodd y ceinciau, a llanwyd y ffrwythau. Daeth yn gyfoethocach ei fyfyrdod, a chiliodd y sôn am Ramantiaeth negyddol rywfaint. Credaf y gellir dodi'r bys ar natur y newid. Credaf iddo sylweddoli bod yr hen syniad a fu ganddo am Serch Rhamantaidd yn gorfod cael ei ddiwygio. Canfyddai ddau beth: Rhyw amddifad Ramantaidd, a Chariad Rhamantaidd Cristnogol. Yr oedd darganfod iechyd Rhamantiaeth iddo ef yn dröedigaeth ddeallol a theimladol. Methodistiaeth a ddysgodd iddo garu yn ôl Rhamantiaeth aeddfed, Gyffredinol/Arbennig.

Câi Serch Rhamantaidd barhau yn fwgan, yn obsesiwn hyd yn oed, bid siŵr. Ond rhoddwyd adenydd iddo. Felly, mae gennym sefyllfa gymhleth. O fewn symudiad amlochrog Rhamantiaeth caed y peth rhyfedd hwn: Serch Rhamantaidd mwyfwy Cristnogol. Ar yr ochr negyddol yn y broblem, ymddengys fod o leiaf ddau linyn i'w gwrthrych, sef serch rhywiol amddifad ynghyd â serch masnachol dosbarth-canol (neu briodi 'doeth' fel y dywedir; yr ail hwn yn ymddangos yn fwy clasurol). Gyda'r rhain, yn ddiweddar, mae yna drydydd llinyn ymddangosiadol newydd, sef yr hyn a elwir yn Ffeminyddiaeth. Ers tro, bu hawliau menywod, ac urddas, a pharch at fenywod, yn bwnc pwysig i Saunders Lewis. Yn fynych, y mae'i arwresau'n rhagori'n foesol ar ei arwyr, yn ei farddoniaeth yn ogystal ag yn ei ddramâu a'i ryddiaith. Maent yn dod yn bobl real i'w hanrhydeddu yn 'ddi-ffafr'.

Dyma bwnc a ddaeth yn amlycach yng Nghymru yn y saithdegau. Wrth geisio trafod Deunydd llenyddiaeth yn ei gyfrolau ar theori, soniodd Gohebydd Arferol y golofn hon am y tri maes adeileddol naturiol (Fi, Cyd-ddyn, Amgylchfyd), sef y Person Cyntaf, Ail, a Thrydydd naturiol o'u cyferbynnu â'r maes Trosgynnol. Cyfeiriodd at ysgolion theoretig adnabyddus ym maes cyd-ddyn, sef y Farcsaidd, y Ffeminyddol, a'r Ôl-drefedigaethol (neu'n well, y Drefedigaethol). Perthynas gwryw a benyw yw prif faich y Ffeminyddol. Yng ngwaith creadigol fy nhad, ceir, ochr yn ochr ag atyniad eithriadol o arwyddocaol, wrthdrawiad rhwng serch a chariad, yr anaeddfed a'r aeddfed, y rhan a'r cyfan, digonolrwydd ac annigonolrwydd. Ychydig o sylw a roddodd ef i'r clwyf israddol. Câi ymostyngiad sylw teg, bid siŵr, fel rhwng gwryw a gwryw, a'r berthynas drechaf/wannaf. Ond ni chymysgwyd hynny â gogwydd ffeminyddol. Llawer dyfnach yw'r parch dynol a ddangosai fy nhad at anrhydedd ac urddas: yr ysbrydol. Hyn oedd ei ffordd ef o osgoi'r sarhad i fenywod. Gwelai'r trwch ychwanegol ynddynt.

Digon teg yw cofio'r dimensiwn gwleidyddol i hyn oll, megis i holl ysgrifeniadau fy nhad ar

Glasuraeth a Rhamantiaeth. Sagrafen oedd y briodas gynganeddus rhwng gŵr a gwaig, yn ei fryd ef; ond cnewyllyn oedd hefyd, neu feicrocosm i ddelfryd y gymdeithas neu hyd yn oed i'r genedl-wladwriaeth. Pan ddryllir y naill neu'r llall gan wylltineb anghyfrifol godineb neu gan fyrbwylltra nwydau, yna gall fod yn ddistryw. Ceir y tair gwedd ym myfyrdod fy nhad: 'Eros' yn *Blodeuwedd,* 'Philo' yn *Amlyn ac Amig,* 'Agape' ym 'Mair Fadlen'. Cadwodd ei safonau clasurol, ac eto eu priodi â gwerthoedd rhamantaidd ysbrydus. Creodd fy nhad y syniad o Serch Rhamantaidd Cristnogol Cymreig.

**Anghywirdeb Gwleidyddol**

Dichon y buasai llawer o'r cysyniad hwn yn cael ei gyfrif yn anghywirdeb gwleidyddol erbyn hyn. Adolesens yw'r norm hyd yn oed i nofelwyr galluog a deallus. Ni chaniatéir cydbwysedd profiad o fywyd yn ei amlder treiddgar yn gefndir i feddwl a theimlad. Sonnir yn gaeth am 'ryddid'! Pan fyddai fy nhad yn sgrifennu at Kate dweder, yr oedd Gwerth, Trefn, a Phwrpas i oedolion yn nod cymwys. Ond eisoes, daethai'r Sefydliad i gofleidio rhwyddineb sentimentaliaeth a thechnegau meddal i oglais poblogeiddiwch. Dadl fy nhad oedd bod estheteg a moeseg yn gydrannau o gynhysgaeth sylfaenol gwareiddiad.

Iechyd i genedl ddarostyngedig, er hynny, oedd meddwl yn ddeallus hyd yn oed am faterion mor boblogaidd lipa â Serch ysgafn. Nid iach oedd gadael Cymru dan ormes monopoli merfeidd-dra sentimentaliaeth ac amrydedd arwynebol, yn syml oherwydd arwynebolder y Sefydliad. Nid iach yw monopoleiddio gan werthoedd cnawdol. Ni wyddai'r Sefydliad diweddar natur y gwahaniaeth rhwng y poblogaidd rhad a llenyddiaeth wydn. Dadleuai fy nhad fod moeseg ac angerdd yn gyd-angenrheidiol i wneud cenedl yn rhydd. Credai, felly, fod yr hyn a alwn yn Fetanaratif Rhamantiaeth (ac Ysgafnder) wedi ymaflyd fwyfwy bellach yn llenyddiaeth Ewrop mewn modd mor ddirmygus o greulon. Dyna'r rheswm yr oeddwn yn falch i achub y cyfle hwn i sôn am fy maes arbenigol i tra oedd y Gohebydd Arferol yn segura ar ei wyliau rywle yng Ngheredigion.

Rywsut, llwyddodd fy nhad, yn gynamserol, i afael yng ngwar plantos cefn-gwlad Cymru, sydd am fanylu byth a hefyd am gyfathrach rywiol; a rhwbiodd eu trwynau yn nhalcen y Tŷ, ie, tŷ Dafydd Nanmor. Dyma'r gŵr wrban felly yn dyrchafu'r 'Tŷ' yn Gartref hollol chwyldroadol, 'yn arwydd urddasol i'r sagrafen ddi-dor', meddai fe. Heddiw, oes y Cyfrifiadur a'r Teledu, heb y bwrdd teuluol, pryd y mae'r tŷ wedi dod yn lle unig hyd yn oed i'r ifainc, y canol-oed, a miliynau o hen bobl, cenadwri fy nhad oedd sgrifennu *Williams Pantycelyn* i'w gyfeillion er mwyn 'arbed eu maglu hwythau mewn rhamantiaeth ddiffrwyth.' Methodd, wrth gwrs. Methu a wneir o hyd. Ond oni'n gelwir ni oll i fethu'n anrhydeddus? Rhamantu'r tŷ a wnaeth fy nhad.

Felly, cymysglyd oedd ei adnabyddiaeth o ramantiaeth Williams. Sylwed ar y newid a gafwyd yn ei farn. Tybiai nad bardd aeddfed fyddai'r sawl a chwiliai'r goddrychol personol mewn serch, heb bwysleisio'r un pryd y gwrthrychol. 'Daear beryglus yn ddiau, ac fe dyfodd beirdd ar ei ôl lysiau gwenwynig arni, sentimentaleiddiwch ac afiechyd moesol a meddalwch gorsynhwyrus'. Beiai Pantycelyn am beidio ag arddel yn ei gynghori cynnar hunan-ddisgyblaeth Gristnogol ddigonol. Sylweddolai'n burion efallai rai o ganlyniadau i'r cyfryw safbwynt; miliynau o lofruddiaethau o blant yn y groth, mamau sengl rif y gwlith, heb dadau gan eu plant, godinebu milain carlamus. '*Hanfod serch rhamantus yw'r syniad bod gwerth serch ynddo'i hun. Cnawdol yw ... nid yw'n gymdeithasol na moesol. Nid yw'n amodol. Yn hytrach, y mae'n ddiamod, yn wynfyd digonol, annibynnol a'i gyfiawnhad ynddo'i hun.*' Hynny yw, tegan yw i blant o oedolion.

Dyna i raddau oedd ei farn yn y nofel feirniadol syniadol Gymraeg gyntaf yn yr ugeinfed ganrif. Erbyn yr ail, *Merch Gwern Hywel,* ac wedi myfyrio'n ddwysach am Ddwy Briodas Ann a llu o arwresau eraill, newidiodd y dyfarniad hwnnw yn chwyrn am berthynas Methodistiaeth a bywyd. Ac yr oedd yr aeddfedu hwn yn werthfawr: gallai o'r herwydd gyfosod dwy farn arwyddocaol bellach ar gyfer heddiw. Her ydynt sy'n tynnu hyd yn oed y tipyn pornograffwaith cyfoes i mewn i'n myfyrdod am berthynas y Rhamantiaeth gyntaf a'r ail. Yn hanes meddwl Saunders Lewis, gosodir o'r herwydd ddarganfod Clasuraeth Gristnogol Gymraeg ochr yn ochr â Rhamantiaeth Gristnogol Gymraeg.

## MODERNIAETH: DARGANFOD III

*Meistri'r Canrifoedd* (1973); *Meistri a'u Crefft* (1981); *Ati, Wŷr Ifainc* (1986)

Carwn yn gyntaf ddiolch i Mrs Monica Maciwan am ddod i'r bwlch yn ystod fy nghyfnod o wyliau. Yr wyf yn cytuno â'r hyn a draethodd hi i raddau, er y byddwn wedi'i eirio mewn ffordd wahanol, yn fwy gwrywaidd efallai.

Yr hyn sy'n bwysig i'w sylweddoli, – mewn cyfnod pryd y mae cynifer o'n beirniaid llenyddol yn osgoi dull Cymreig gwreiddiol o ymwneud â theori, gan osgoi gwerthuso os gallant, ac yn ymgyfyngu i hanes, – yw gwreiddioldeb Saunders Lewis ledled adeiladwaith ei feirniadaeth. Sylwasom ar unigrywiaeth y Glasuraeth Gymreig a'r Rhamantiaeth Gymreig a ddadlennwyd. Gyda'i ddarganfyddiad cyntaf cafwyd clasuraeth gymdeithasgar Dafydd Nanmor a'i chanfod hi'n ffenomen ddisglair y gellir ei mwynhau'n esthetig a'i pharchu'n feddyliol. Cyflwynodd naws *Clasuraeth* wâr, ddiddorol, a deallol inni, a hynny o fewn cyd-destun anghyffredin o feirdd meddylgar yn amddiffyn hunaniaeth genedlaethol, tan ganu serch a natur, a hynny mewn ffurf ddigon anghyffredin. Darluniodd lenyddiaeth ganoloesol orchestol, yn asgwrn cefn i'n traddodiad oll.

Yr oedd yr ail ddarganfyddiad yr un mor wreiddiol yn ei ffordd ei hun, gyda ffigur cawraidd Williams Pantyelyn (a'i Gywion) yn ymestyn dros y cwbl. Dyma *Ramantiaeth* od a feddiannwyd gan Gristnogaeth i raddau hollol anghyffredin, pryd yr aeth canu seciwlar yn ymylog ac yn bur denau'n ddeallol. Cristnogaeth oedd biau'r ymennydd. Un llenddull annisgwyl, sef yr emyn, a ormesodd ar y llenddulliau oll gan greu diwylliant llenyddol a cherddorol unigryw, Cristnogol, a dwfn. Wedyn cyrhaeddwyd adfeiliad Oes Fictoria gyda'i rhagrith enwog, ei phragmatiaeth, ei balchder, a'i thaeogrwydd ymosodol; dirywiad rhamantaidd y darluniwyd ei fydolrwydd gydag arddeliad gan Hywel Teifi Edwards.

Ond yn yr Oes Ramantaidd yn sgil Pantycelyn yn y ddeunawfed ganrif, pobl Dafydd Jones, Morgan Rhys, a Dafydd William a lewyrchai mwyach. Ac Edward Jones, David Charles (yr hynaf), Robert ab Gwilym Ddu, Pedr Fardd, Ann Griffiths, Ieuan Glan Geirionydd, Eben Fardd, ac Islwyn oedd etifeddion Pantycelyn yn y ganrif wedyn. Gellid cwyno na chawsom gan y rheini fawr o loddest athrawiaeth Rhamantiaeth y gwledydd imperialaidd. Ond bu dyfnder ysbrydol a chymhlethrwydd seicolegol y profiad, llymder y synhwyrau, a threiddgarwch y myfyrdod yn ystod anterth ein Rhamantiaeth yn amheuthun. Dyma fu ail ddarganfyddiad Saunders Lewis. Ac yr oedd yr un mor ecsentrig â'i ddarganfyddiad cyntaf.

**Ei Drydydd Darganfyddiad**

Ond yr wyf am sôn am ei drydydd darganfyddiad a oedd yr un mor anghyffredin eto â'r ddau gyntaf. Sef ei sylweddoliad personol, mewnddrychol o *Foderniaeth* unigryw Gymreig, yn Oes y Ddinas a'r Diwydiannau Enfawr, a'r syniadaeth faterol negyddol.

Credaf mai priodol yw bwrw golwg dros ddau bwyslais (a sôn yr wyf am anterth Moderniaeth Gymraeg yng nghyfnod Parry-Williams, Gwenallt, Waldo, ac Euros – ac ef ei hun – mewn barddoniaeth). Yn gyntaf, canfu Saunders, wrth aeddfedu ymhlith y rheini, nad gelynion i'w gilydd oedd Clasuraeth Gymraeg a Rhamantiaeth Gymraeg. Yr oedd yr ail (ac ef ei hun) yn gynwysedig yn y cyntaf. Meddai, '*Nid peth gwrthwyneb i ramantiaeth yw clasuraeth, ond peth sy'n ei gynnwys mewn cyfuniad llawnach a dyfnach.*' Gallai ef ei hun fod yn enghraifft o'r cyfuniad hwnnw. Mater mwy cymhleth oedd Moderniaeth o'r fath gyda chefndir Cymreig. Yr oedd cenedligrwydd ysbrydol a myfyrdod dioddefus uwchben diwydiannaeth, ac unbenaethdod canoledig o'r tu allan, a chwalfa syniadol yr ugeinfed ganrif yn gallu cydlynu'n Foderniaeth gadarnhaol annisgwyl a chyffrous a berthynai i'r syniadaeth hon. Yn uniad y ddau fudiad cyntaf mewn Moderniaeth berthnasol, ac mewn traddodiad ysbrydol unigryw, cafwyd gwreiddioldeb amheuthun a'i gosodai ar wahân i'r tueddiadau Ewropeaidd llai cadarnhaol. Ond golygai'i Foderniaeth fwy na hynny.

Hoffai Saunders Lewis ei hun yr ymsafiad 'Proffwydol'. Gellid gwneud Gwyddoniadur cyflawn o'i broffwydoliaethau di-rif a aeth o'u lle. Ond golygai'r ymagwedd honno iddo ef yn bersonol ei fod yn tueddu i edrych ar ei oes ei hun ac ar Foderniaeth o hyd (a'i chyw amhenderfyniadol a relatif a ddaethai i'r golwg yn ei gwedd blentynnaidd eisoes yn yr *avant-garde*) fel gŵr a syllai drwyddynt yn syn o aml heb ddirmyg at ddyfodol aeddfetach. Hynny yw, roedd ganddo ddau draddodiad a ganiatâi gynhysgaeth newydd. Hyd yn oed pan sgrifennai am y bymthegfed neu'r ddeunawfed ganrif, meddwl yr oedd am ddiwedd yr ugeinfed ganrif i mewn i'r unfed ar hugain, ac am y rheidrwydd i uno a chydlynu celfyddyd a fygythiai fynd ar chwâl. Meddyliai am botensial mewn ansicrwydd dadrithiedig. Meddyliai am Foderniaeth briod Gymreig.

Rhoddodd ef uchelgais newydd i lenyddiaeth Gymraeg gyfoes. Ond yn gyntaf rhybudd. Os gedwch lonydd i Gymru, fe lithra'n ôl i fod yn genedl glwyfus mewn cornel, tan fodloni ar limrig, tan ddyrchafu caneuon munud, tan fawrygu storïau arwynebol, a chan adael dramâu i'r cŵn. Y genedl fach yn genedl lai. Fe gynhyrcha farddoniaeth berfformiol denau y gellir ymateb iddi â chanfed ran o'r ymennydd. A hyffordda genedl ar ymylon Ewrob i ddygymod â diwylliant â nam meddyliol arno. Mae ystyr myfyrdod ac ymgodymu â phrofiadau dwys, megis llenyddiaethau eraill, yn mynd fwyfwy y tu hwnt i fedr yr iaith. Dyna duedd y Sefydliad diwylliannol Cymreig. Ar y llaw arall, yr oedd yr hyn a awgrymai Saunders Lewis oedd y gallai llenyddiaeth Gymraeg (a'n llenorion

ifainc yn anad neb) greu Moderniaeth amlochrog unigryw, wrth ei thrwytho'i hun yn ei Chymreictod unigryw ei hun. Byddai'n wahanol i Foderniaethau eraill, ond yn gyd-anrhydeddus.

Fel na chaniatâi S.L. inni synied am Glasuraeth Gymreig ond yng ngoleuni Rhamantiaeth, na Rhamantiaeth Gymreig chwaith onid yng ngoleuni Clasuraeth, felly gyda'r Trydydd Darganfyddiad, Moderniaeth Gymreig. Fe'i deallwn innau hi ar ei gorau yng ngoleuni Clasuraeth a Rhamantiaeth ynghyd. Felly Saunders, Gwenallt, Waldo, ac Euros.

Os mentrwn gyfeirio at un o egwyddorion llenyddiaeth, sef yr 'Amryw mewn Undod', gellid diffinio Clasuraeth yn y cyd-destun hwnnw fel yr Olwg oddi wrth yr Amryw tuag at yr Undod, a Rhamantiaeth fel yr Olwg oddi wrth yr Un tuag at yr Amrywiaeth. Y naill a'r llall ynghyd sy'n cyd-lunio egwyddor ddiffiniol Fodernaidd ddelfrydol Saundersaidd, gredaf i. Y Cadarnhad.

Felly, mae'n dilyn, goruno yw'r camgyfeirio meddyliol methiannus mewn Clasuraeth. A gorwahanu yw'r camgyfeirio methiannus mewn Rhamantiaeth. Gellid dadlau mai math o Ramantiaeth, sef y gwahanu sy'n ymestyn ymhellach tuag at chwalfa ac ymddryllio, yw cyw clwc Moderniaeth – Ôl-foderniaeth. Ond y mae'n ddyfnach na hynny, ac y mae'n pwysleisio datblygiad mewn egwyddorion eraill sydd a wnelont â diffinio llenyddiaeth. Yn lle aros yn unplyg gyda Moderniaeth a'i datblygu'n ddeallus, ni wnaeth Modernwyr Ewropeaidd ddal ati yng ngwaith un ffrwd yn ein llenyddiaeth. Drwy wadu'r Absoliwt, buwyd yn gorseddu Relatifrwydd, sy'n agor y drws i ddiffyg nod, gwerth, a threfn. Negyddiad i Undod Amrywiol yw Ôl-foderniaeth yn hytrach na mudiad ffrwythlon llenyddol (ond drwy'i wrthddweud). Anrhydeddu gwahanu mewn undod, sut bynnag, oedd egwyddor ffrwythlon Moderniaeth. Ac felly ym mhedwardegau'r ugeinfed ganrif hyd at y chwedegau, gyda Saunders, Gwenallt, Waldo, ac Euros, gallwn ymwybod â Moderniaeth Gymraeg ar ei hanterth. Perthynai Parry-Williams rywfodd i Ôl-foderniaeth lai datblygedig.

Yn ôl y golwg hwn, felly, wrth ddiffinio'r nodiadau hyn yng Nghymru, gellid cysylltu Clasuraeth â Dafydd Nanmor, Rhamantiaeth â Phantycelyn, a Moderniaeth â Saunders Lewis, gyda Parry-Williams rywfodd yn arloesi Ôl-foderniaeth yr 'Aml-ffydd' luosaidd, amwys, negyddol.

Yn nannedd yr ymosodiad chwâl ac ansefydlog gan Ôl-foderniaeth, gellid cyfrif hefyd Adfywiad Cynganeddol y Saithdegau yn ôl y parhad cymdeithasol i egwyddorion a delfrydau Moderniaeth Gymraeg iach, a hynny gan feddiannu'r un parch at ffurf afieithus ddychmyglon. Ffrwd barhaol i Foderniaeth oedd. Gellid crybwyll Alan Llwyd, y Beirniad-fardd, yn enw campfawr a geisiai yn ei Feirniadaeth a'i Waith creadigol arall arddel yr Amryw mewn Un hwn, a dyrchafu Gwerthoedd Trefn Ramantaidd Ddiweddar gyda gogwydd lled seciwlaraidd. Ond *mudiad* Cerdd Dafod, eithr gyda llu o unigolion dawnus potensial eraill, yw'r hyn a bwysleisiwn ar hyn o bryd. Ym mhob symudiad arwyddocaol o'r fath ceir pryf yn y pren sy'n drysu gwerthusiad. Ac yn hytrach na chydnabod a mawrygu catholigrwydd cywair, ffurf, a chynnwys, dyma gyfnod 'gwleidyddol' go

rymus ac awdurdodol i lenyddiaeth Gymraeg, drwy ddulliau ariannol a grym moddion gweinyddol, a phwyllgorau. Ac anodd, ar hyn o bryd, yw argoeli a phroffwydo dyfodol ac arfaeth Moderniaeth feddylgar Gymraeg o unrhyw fath anrhydeddus i'r dyfodol. A fydd gwerthoedd llenyddiaeth o gwbl yn cael eu cynnal drwy dew a thenau y tu allan i'r gyfundrefn weinyddol ddiweddar? Anodd bob amser yw pwyso a mesur cyfnod cyfoes; a gwaeth dyfarnu'r dyfodol. Parhaodd peth o'r cyfoes aeddfed am ychydig, yn ddiau. Ynghyd ag Alan Llwyd, fe enwn yn bencampwr Modernaidd Cymraeg y bardd encilgar a thanddaearol (a'i ddwy gyfrol ryfeddol) Dewi Stephen Jones.

Pan luniodd Saunders Lewis ei ysgrif bwysig ddychmyglon 'Dafydd Nanmor' gyda chymorth Taliesin, proffwydol oedd y cwbl. Mab darogan oedd. Hynny yw, yr oedd y bardd-feirniad yn creu, yn y meddwl, ansawdd Moderniaeth ar oleddf. Dieithrwch Saunders Lewis yng Nghymru yng nghanol yr ugeinfed ganrif oedd iddo, fel y gwelsom, weld cysylltiad rhwng llenyddiaeth '*a bod trefn yn y greadigaeth, mai cyfundrefn ddisiom oedd Bod, a bod cytgord i'w glywed oddi tan holl sŵn amherffaith ffeithiau'.* Ni allaf orbwysleisio arwyddocâd y datganiad hwn. Dyma asgwrn cefn Moderniaeth Gymraeg. Maniffesto, os mynnir, yn wyneb Ôl-foderniaeth.

Fe ganfu Saunders Lewis mewn clasuraeth egwyddor a safai goruwch y tri mudiad, ac a'u cymhwysai i'r dyfodol. Cymhwysai ragoriaethau Rhamantiaeth – y pwyslais ar ryddid, goddrychedd, gwylltineb ynghyd â rhagoriaethau Moderniaeth – cyfoesedd ymrwymiad iaith a thema mewn newydd-deb. Yn ogystal â beirniadaeth adeiladol ar Ôl-foderniaeth a'i thanseiliad relatif plentynnaidd, a dyfai wedyn, dyma adnodd o egwyddor bwysig. Canfu ef yr hadau adfeiliol mewn Rhamantiaeth a Moderniaeth (unochrog, lle yr oedd yn negyddol) a'u tuedd a oedd yn groes i fodolaeth iaith a llên. Dyma'r elfen Ôl-fodernaidd, neu'n hytrach Ffug-fodernaidd, yn dod i'r golwg, mae'n wir, peth a oedd yn groes i hanfod bywyd. Ond fe ddefnyddiodd Saunders Lewis ei welediad Modernaidd i hyrwyddo'r 'parhaol'. Tynnai drefn allan o'r gwareiddiad a garai drwy gydol ei hanes. Er mai delweddu cartrefi a phobl ddiriaethol a wnâi, crynhôi'r rheina mewn troad neu symbol disgybledig. Wrth greu trosiad estynedig diderfyn o'r fath, yr oedd yn gwneud rhywbeth amgenach na phroselytio llythrennol. Fe godai'r llythrennol i fyw mewn cyd-destun proffwydol trawsffurfiedig a dyrchafedig. Ysgogai'r syniadaeth i ailfeddwl posibiliadau 'cadw' a 'thwf' ac 'amddiffyn' y tu hwnt i ymwneud pitw gwleidyddiaeth. Canu'r drefn ddyfodol oedd bwriad barddol ei ysgrif ar 'Ddafydd Nanmor'. A'r gwrthrychol hwnnw – ar y pryd – oedd ei offeryn i gyflawni'r peth modern yn ymarferol ddelfrydol yn y galon. Megis yn ei gerdd bwysig 'Mair Fadlen'.

Mawr oedd cyfrifoldeb y bardd-feirnaid Saunders Lewis tua 1924 pan sgrifennai *Williams Pantycelyn*. Ef, yng Nghymru (Gymraeg a Saesneg), ar y pryd, oedd yr ysgolhaig, y bardd, a'r dramodydd dyfnaf ei amgyffrediad a'i ddychymyg a'i ddawn a'i ddoethineb i wynebu her a dyfodol Moderniaeth. Dirnadai'r rhagor rhwng y gwir a'r gau, a beth oedd yn digwydd. O'i ddeutu yn y

caeau, pynciai o hyd sentimentalwyr llipa eu deallusrwydd gan gw-hŵian am adar a blodau mewn odlau. Câi llenorion eraill efallai arogli o hyd ddwyster arddull ac arwyddocâd esthetig y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ysictod nihiliaeth a relatifrwydd, eithr – fel Cynan – heb fin na deallolrwydd na chwaeth ar gyfer llenyddiaeth aeddfed. Roedd Parry-Williams yntau yn llawer rhy ofnus i arwain chwyldro. Saunders oedd yr unig Gymro a fedrai ymgodymu'n gelfyddydol ag allanolion mwyaf adolesent Moderniaeth megis dada a'r *avant-garde,* a'r holl allanolion 'arbrofol' blinedig a gymerai flynyddoedd lawer i gyrraedd Porthmadog. I'r sawl na feddai ar angerdd deall a phrofiad perfeddol Saunders Lewis, yr oedd deniadau dirprwyon deall a phrofiad yn arwynebolion a gynrychiolai ddyfodol di-glem. Ond oherwydd ei fyfyrdod disgybledig am anian ysbrydol Cymreictod cadarnhaol mewn Clasuraeth, Rhamantiaeth, a Moderniaeth, gallodd ysgogi'r *Ôl*-foderniaeth Gymraeg wir unigryw, a chreu cyfuniad nad ydym o hyd ond yn dechrau'i amgyffred. Sylwer: nid Moderniaeth y gwledydd unffurf, mawr, a llywodraethol oedd. Ond Moderniaeth gyffrous ymladd-am-ei-heinioes mewn gwlad ddioddefus. Gwlad eithriadol o oludog yn brofiadol – yn gymdeithasol, yn seicolegol, yn ddiwylliannol, ond gwlad glwyfus oedd, eto un a allai, ped ewyllysiai'n wirfoddol unplyg, wynebu'r her gydag adnoddau effro, hydeiml, a ffrwydrol. I Saunders Lewis, gyda'i dri darganfyddiad ar ei gefn, cyfannu oedd ystyr ateb her pob cyfoesedd.

Llenyddiaeth sy'n ymwybodol o feddu ar brofiad amserol yw Llenyddiaeth Fodern. Yn negyddol, gall fod yn ymwybodol o beidio â meddu ar 'ffasiwn' neu ar arddull neu ar gylch o bynciau y byd amaethyddol neu o emosiynau 'deniadol'. Ymwybodol yw hefyd o berthynas effro ag iaith, ffurfiau, a deunyddiau sy'n dymuno bod yn berthnasol i'r sefyllfa gyfoes. Math o Foderniaeth oedd Ôl-foderniaeth, er mai *wedi* Moderniaeth ar ei hanterth yr ymddangosodd y term. Yn y cyfuniad a brofir mewn 'gwahuno', ceir Ôl-foderniaeth neu Foderniaeth ddatodol. Ond gellid profi ynghynt, yr un pryd, ac i raddau wedyn, Ôl-foderniaeth amseryddol gadarnhaol. Ôl-foderniaeth negyddol sydd amlycaf mewn llawer o wledydd eraill ac mewn beirniadaeth lenyddol yn gyffredinol. Ond teg cyfrif bod y wedd ar Foderniaeth neu Ôl-foderniaeth a brofwyd yng Nghymru yn wahanol. Ni raid synied, yn arbennig ymhlith y llenorion galluocaf Cymraeg, fod Cymru wedi canlyn y lliaws arferol o'r tu allan.

Yn ei gyfrolau *Meistri'r Canrifoedd, Meistri a'u Crefft,* ac *Ati Wŷr Ifainc,* ceisiodd Saunders Lewis ddysgu i'w gyfoeswyr a'i ddisgyblion sut i feddwl am lenyddiaeth Fodern a fyddai'n Gymreig. Yr oedd yna rwystrau afrifed. Nid wyf yn meddwl am ddiogi nac anallu addysgol yn unig. Gellir trechu'r rheini weithiau mewn cyfnod byr. Y tri phrif rwystr oedd gwaseidd-dra'r meddwl poblogaidd ac eilradd, y math o ramantiaeth faldodus feddal a erys yn ormodol o hyd, a'r diffyg deallol i wynebu treftadaeth esthetig Gymraeg yn sgil rhywrai a erys ysywaeth yn deyrngar i ganologrwydd Lloegr. Yn nannedd hyn, mynnai Saunders Lewis drafod y Cymry fel pobl mewn

oed a fedrai fod yn feddyliol rydd. Tybiai y gallai hyd yn oed y Marcsydd mwyaf confensiynol, os oedd yn meddu ar chwaeth, a deall, a dychymyg, werthfawrogi Dafydd Nanmor a Williams Pantycelyn. Ceisir weithiau ein perswadio bod Marcsaeth y tu hwnt i hynny. Byth, syniai Saunders, os yw'n meddu ar y tameityn lleiaf o drwyn llenyddol.

Yr oedd Saunders Lewis yn cyfrif rhai pethau'n uwch na'r iaith Gymraeg, ac yn sicr yn uwch na gwleidyddiaeth. Hyd nes y sylwir ar flaenoriaethau strwythur ei feddwl, a'r ffaith seml fod ei obsesiwn chwithig ac 'od' ynghylch Pechod yn ei atal rhag synied am unrhyw Iwtopia, boed yn yr Oesoedd Canol neu rywle arall, ni ddown yn agos at ddeall cymhlethdod ei fyfyrdodau proffwydol am ein llên a'n hiaith. Gwyddai beth oedd gwraidd Anhrefn. Mawl yn yr ystyr Gymraeg (mewn meddwl, gair, a gweithred) oedd ei gwrthwynebydd hi. Ac yn hyn o beth, ni welaf neb yn ei wrthbrofi.

Fel na lwyddwyd i danseilio 'Pa ffurf y moler pob peth', felly nid oes dim yn fwy cyrhaeddbell na'r casgliadau a wneir yn ein canu gwirebol, er enghraifft, maes nas archwiliwyd yn drwyadl erioed. Ond mewn man nid anghyffelyb y ceisiodd Saunders Lewis ei wreiddio'i hun.

Mae perygl inni orsymleiddio'r Darganfyddiadau hyn. Gwirion synied bod y 'pechadur' hwn gan Saunders Lewis – *archbechadur* cenedlaetholdeb 'Ewrob' – yn tybied bod Iwtopia yn bosibl drwy bleidleisio dros Einion Offeiriad; ac mai unffurf ddi-fai oedd undod 'Golwg ar Deyrnas Crist'. Gwylier ei orohïan molus. Bu'n elyn anfolus i lawer arall yr un pryd. Gwir fod naïfeiddio Saunders bellach wedi mynd yn ddiwydiant twf ymhlith naïfwyr Cymru. Sylwer ar yr hyn a wnaeth rhai 'sosialwyr' a seciwlarwyr o orau myth yr ugeinfed ganrif.

Mewn gwirionedd, dosbarth y tlodion yn yr ysbryd oedd ei uchelwyr ef. Snobyddiaeth gwerth, trefn, a phwrpas (ar wahân i'r economi) i *bawb* oedd ei ryfel dosbarth (honedig). A chreodd ef felly feirniadaeth lenyddol fodern yng Nghymru.

Soniai Saunders Lewis am y 'rhaid i ninnau ymdrechu am drefn a chyfanrwydd a synthesis mewn bywyd'; a thybir (ar gam) mai bod yn adweithiol geidwadol oedd hyn yn yr ystyr seml. Ond rhan o reidrwydd cyfundrefnus byw real oedd hyn. Rheidrwydd ffurf o fath yr atom a'r gell a'r organau corfforol (gan gynnwys yr ymennydd) a'r iaith oedd y 'Bod' y soniai amdano gynnau. Yr oedd y drefn a brofid mewn gwyddoniaeth yn unol â rheidrwydd llenyddiaeth ystyrlon ynghyd â rheidrwydd diwinyddiaeth gyfundrefnol bob amser. Hynny yw, rheidrwydd Creadigaeth oedd. Gwyddonydd gwrth-ôl-fodernaidd oedd y Modernydd hwn.

Pan gyflwynwyd Medal y Cymmrodorion yr un diwrnod i Parry-Williams a Saunders Lewis, fe'i rhoddwyd i'r cyntaf fel ein Modernydd mwyaf ofnus ac i'r ail fel ein Modernydd mwyaf beiddgar. Y cyntaf oedd Modernydd y Sefydliad: Modernydd y Gwrth-Sefydliad oedd yr ail.

Yr hyn a osododd ddarganfyddiadau Saunders Lewis ar wahân oedd ei ddelwedd gyntaf o

drefn hyfrydol gynhenid Mawl yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Clasuroldeb tybiedig glasurol a ffurfiol Beirdd yr Uchelwyr oedd yr Ysgogiad iddo. Hyn a'i harweiniai ymlaen drwy Ramantiaeth at Foderniaeth gadarnhaol. Canfu'r anochel. Canfu ef mewn Rhamantiaeth gynyddol negyddol yn y cyfnod diweddar, ac mewn Moderniaeth hithau, gwlwm o werthoedd ac o batrymau syniadol a'i harweiniai ef i gyd-deimlo â hwy hefyd – y ddwy ochr ynghyd. Rywsut, adleisient hyfrydwch a brofasai ef mewn dramodwyr a beirdd clasurol Groeg a Ffrainc. Roedd ei ragflaenwyr hwythau wedi ceisio cydlyniad rhwng y rhinweddau a gyfrifir bellach yn nodweddiadol o Glasuraeth ac o Ramantiaeth. A chanfu mewn cyfnod Modernaidd fod yn y rhain hefyd ateb digonol a threiddgar i 'ryddfrydiaeth' lac a hunan-ganolrwydd emosiynol ffasiynol ar y pryd. Felly hefyd yr agorwyd i Saunders Lewis gorff o fyfyrdod ac o sylwadaeth ddychmygus yn y Gymraeg a fyddai'n ysbrydoliaeth i feirniadaeth y dyfodol. Fel y gwna pob beirniad o bwys, lluniodd ef orffennol er mwyn adeiladu dyfodol. Cafwyd felly Foderniaeth Gymreig gan S.L. wrth iddo osod i'r dyfodol y gwrthwynebiad deallol priodol i Ôl-foderniaeth fygythiol fythol-bresennol fel is-destun. Gellid dadlau ei fod yn ceisio adferiad i'r gyfundrefn 'Cymhelliad-Ymchwil am Drefn-Pwrpas'. Dyna sut y mae beirniadaeth Gyfansawdd hithau yn y bôn yn ymgais i atgyfodi hanfodion beirniadol o'r fath wedi ffiasgo unochrog yr Ôl-foderniaeth negyddol a geisiwyd am gyfnod hyd yn oed yng Nghymru... Dyma Ddarganfyddiad III.

**THOMAS PARRY**


| | |
|---|---|
| **Canon Thomas Parry** | **201** |
| **Y Syniad o Gywirdeb** | **210** |
| **Canon yr Annisgwyl** | **217** |
| **Y Canon ac un Ganrif** | **222** |
| **Y Sgandalau** | **230** |
| **Catholigrwydd** | **236** |
| **Traddodiad a Theori Syr Thomas** | **243** |

## CANON THOMAS PARRY

*Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900,* Thomas Parry, 1944; *Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945,* 1945; *Hanes ei Llên,*1948; *The Oxford Book of Welsh Verse,* 1962.

Wrth drafod J. Morris-Jones, buom yn arolygu'i ymgais i ddod o hyd i'r Iaith Lenyddol Ganonaidd ac i Gerdd Dafod Ganonaidd. Wrth droi at ei ddisgybl Thomas Parry, trown at **Hanes ein Llenyddiaeth Ganonaidd**.

Mae teitl enwog Thomas Parry, felly, yn anghywir. Nid *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* yw'r disgrifiad priodol. Nid yw ef yn ceisio gwneud hynny. Yr hyn a geisiodd yn syml oedd Hanes y Canon. Ac nid hollti blew yw'r gwahaniaeth. Dyma un o'r dadleuon pwysicaf mewn beirniadaeth lenyddol gyfoes, onid y bwysicaf oll. Mae a wnelo hi â safon a gwerth mewn llenyddiaeth, materion sy'n dramgwydd i'r awdurdodau gweinyddol, a phethau sy'n cael eu bygwth yn o arw gan rai o'n Cyrff mwyaf pwerus ym maes llenyddiaeth y dyddiau hyn. Bu ers tro ymgyrch isymwybodol ond tra phwerus yng Nghymru i israddoli'n llenyddiaeth. Yr oedd agenda politicaidd ar waith, a allai ddistrywio gwerthoedd. Nodwedd flaenaf Ôl-foderniaeth yw gwadu gwerth.

Ni cheisiodd Thomas Parry erioed lunio arolwg cytbwys o lenyddiaeth, nid hyd yn oed *crynodeb* cytbwys cyflawn ohoni. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fe anwybyddodd ef y rhan fwyaf drwy drugaredd, er mai'r ganrif honno yw'r un a drafododd ef fwyaf yn y gyfrol hon. Yr hyn a wnaeth ef oedd dethol yn ôl rhyw fath o safonau: dyna a fynnai Canon. Mae'r gwahaniaeth yn dyngedfennol. Pan ddetholir yn ôl safonau, yr ydys yn cyflawni tasg greadigol, esthetig, ddeallol... foesol hyd yn oed; tasg sy'n bwysig i wareiddiad, i feithrin chwaeth, ac i anrhydeddu athrylith a llên. Dyna a wnaeth ef yn fwriadus. Erys yr her yn adrannau'r Gymraeg.

Nid yw beirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddigon ar gyfer Canonwr. Mae'n rhaid i feirniad o'r fath wahaniaethu'n feirniadol ymhlith y campweithiau rhyngwladol a hanesyddol.

Gellir wrth gwrs beidio â cheisio ysblander Canon. Ac yn ystod yr ugeinfed ganrif cafwyd tair carfan o bobl a geisiai wneud yn union hynny, sef gwrthweithio'r Canon drwy'i osgoi, gwadu hyd yn oed fod y fath beth â Chanon yn bod, a mawrygu astudiaethau sy'n tanseilio'r Canon. Dyma'r tair carfan hynny yn gryno:

**1.** *Rhai Haneswyr Llên*

Cafwyd drwy gydol yr amser, ysgolheigion llenyddol a geisiai ogwyddo'r pwyslais oddi wrth fawrygu safon a gwerth tuag at gynnwys popeth yn ddi-wahân am fod cynnwys pynciol yn

allwedd i ddeall ein hanes cymdeithasol. Roedd hyn wrth reswm yn goleuo dosbarth pwysig o'n llenyddiaeth, yn arbennig ein llenyddiaeth boblogaidd ac ysgafn. Felly, ceir rheswm dilys, meddent hwy, o safbwynt cymdeithasol hanesyddol dros anwybyddu'r cysyniad o Ganon mewn celfyddyd er mwyn gogwyddiadau hanes. Mae hefyd yn llai o dreth ar yr ymennydd, lle y bo ymennydd.

Fe ellir, er hynny, gael *Canon mewn llenyddiaeth boblogaidd*. Mae yna safon yn y llenyddiaeth honno, er na chafwyd hynny bob amser. Fe ddwedwn i fod ym maes penillion telyn ac emynyddiaeth, fwy neu lai rhwng 1744 a 1859, beth o'n llenyddiaeth fwyaf. Ychwanegwn ar frys, fod ym myd barddoniaeth boblogaidd heddiw, yn arbennig y canu caeth a'r baledi, ac yn Nhalwrn y Beirdd a'r gynghanedd, safon uchel dros ben o hyd weithiau, oherwydd cefndir diwylliannol cyfoethog, a nod a rydd sylw i geinder a Chymreictod y meysydd hynny. Ond nid wyf yn sôn am ddethol pethau felly wrth anesmwytho ynghylch astudwyr llenyddiaeth sy'n troi'n haneswyr. Sôn yr wyf am Hanes (neu groniclo efallai) sy'n gynhwysfawr annethol, ac am drin llenyddiaeth fel pe baech yn cynnwys mantolen neu filiau sy'n adlewyrchu costau darparu carthffosydd dinas Caerdydd ynghyd â rhestr enwau aelodaeth Undodaidd yn Sblot yn nhrydedd chwarter y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyna faterion arwyddocaol i iechyd a chydbwysedd haneswyr, wrth gwrs; ond heb ormod o arwyddocâd i feirniaid llenyddol sydd heb fod yn relatifaidd. Yn wir, lluniodd Thomas Parry gyfrol arall, un hynod ddarllenadwy a diddorol, sef *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif,* 1935, lle y mae'n trafod, mewn modd 'anfeirniadol' braidd, y baledi y digwyddai iddo'u cael yn llyfrgell Coleg Prifysgol Bangor. Ni ddetholai'r rhain yn ôl gwerth celfyddydol. Yr hyn a oedd ar goll yn y math hwnnw o ysgolheictod damweiniol oedd y gallai droi i *wadu*'r Canon, ac i hawlio nad oedd dim lle i Flodeugerddi wedi'u seilio ar safon llenyddol ac yn y blaen. Y wedd anghatholig honno yn erbyn llenyddiaeth fel sefydliad, dyna sy'n cloffi, yn fynych oherwydd (ar dro) anallu llwyr a diffyg dirnadaeth i wneud y gwaith gwreiddiol o ddethol rhagoriaeth.

*2.Ôl-fodernwyr*

Mae'r ail ddosbarth o wrthwynebwyr i Ganon yn fwy treiddgar o ddylanwadol ymwybodol heddiw er yn y llai treiddgar o ran callineb. Efallai nad yw rhai darllenwyr yn sylwi beth a fu ar waith gan mor drendi oeddent. Cododd 'theori' yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf ymhlith yr hyn a elwid yn Ôl-fodernwyr a oedd yn gwadu *pob gwerth* ar egwyddor. Mawrygid relatifrwydd neu 'relativism' (sydd fel y gwelsom yn gwbl groes i relatifiaeth neu 'relativity') ac amhenderfyniaeth. Myn relatifrwydd nad oes dim gwerth na phwrpas cyson mewn bywyd, gan gynnwys llenyddiaeth: mae popeth yn relatif o ran gwerth. Ac felly 'does dim ots beth a wneir.

Ceisid rhoi mantais i amlygu llenyddiaeth y bobl dduon, nid oherwydd rhagoriaeth o raid, eithr oherwydd camp lliw eu croen.

Yr oedd teidiau Ôl-foderniaeth bid siŵr, fel Nietzsche, o ddifri, ac yn feddylwyr gwreiddiol. Ond fe'u dilynwyd hwy gan y trendïwyr, sef y math o daeogion sydd bob man ar gael ac am ddilyn y ffasiwn beth bynnag yw.

Ceisid dadlau mai edrych o'r newydd ar y traddodiad yr oeddid, ac 'roedd eisiau canmol hynny. Ceisio chwyldroi'r rhigolau oedd y cymhelliad, er mwyn tynnu 'hoywon' a 'merched' neu 'bobl dduon' i mewn i hanes barddoniaeth Gwynedd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Dywedid mai 'theori' oedd hyn. Ond trendïaeth wan-feirniadol oedd, wedi'i gwreiddio mewn relatifrwydd a lluosedd, fel pe bai plaid wleidyddol ecsentrig yn ddigon anghyfrifol i enwebu ymgeiswyr ar sail rhyw, lliw, neu enwad, yn hytrach nag yn ôl gallu gwleidyddol. Llancaidd o adweithiol fu hynny yn y maes hwn i raddau helaeth, heb ruddin deallusrwydd. Gormes Ôl-foderniaeth.

Beth bynnag, fe ddigwyddodd. Yr oedd yn rhan o gynnyrch diwinyddol y cyfnod. A phriodol yw moesymgrymu i'w gyfeiriad. Sut bynnag, aeth beirniadaeth lenyddol yn y Gymraeg yn fwyfwy Anghymreig oherwydd y sylw i theorïau clwc. Ac yn sicr, y mae cyfrolau Thomas Parry yn rhan o'r hyn sydd yn gwbl angenrheidiol o hyd, sef dwyn ein meddwl am ein llenyddiaeth yn ôl i wreiddiau Cymreig.

Yn y ddadl ynghylch beirniadaeth lenyddol, wrth danseilio gwerthuso a safon, nid llenyddiaeth oedd y diddordeb i fod ymhlith myfyrwyr llenyddiaeth mwyach. Dôi rhaid mantoli yn ôl gwleidyddiaeth: neu beidio. Yr oedd hyn, wrth gwrs, (y tu allan i Gymru) eisoes ar gerdded, cyn dadrithiad aruthrol y deng mlynedd ar hugain diwethaf ynghylch gwleidyddiaeth. Daeth llyfrau'n achlysur nid i werthfawrogi llenyddiaeth eithr i bwyso a dadlau yn ôl safbwynt hil, ethnigrwyddd, statws rhywiol, oedran, yr amgylchfyd, a'r ffyrdd i chwalu priodas. Collid y llawenydd a geid o fwynhau celfyddyd, deallusrwydd, dychymyg, gweledigaeth lydan o fywyd, medrusrwydd creadigol ieithyddol, a ffrwythlondeb meddwl. Sefydlwyd fframwaith o ddogmâu 'radicalaidd' mewn modd tra cheidwadol. 'Correct lineism' oedd term Barbara Epstein am y peth, un o dermau'r Blaid Gomiwnyddol. Caeodd meddyliau.

Math o symudiad ymhlith myfyrwyr oedd y Cywirdeb Gwleidyddol hwn i ddechrau. Prifysgol Stanford yn yr UDA oedd un o'r canolfannau allweddol. Yno ymgasglent ar y Campws i siantio 'Hey, hey, ho, ho; Western Culture's got to go.' Chwilid mwyach am weithiau gan awduron oherwydd eu bod yn dweud y pethau 'iawn', am eu bod yn felyn, efallai, neu yn sgil 'damweinioldeb' athrylithgar eu benyweidd-dra.

Yr oedd hyn yn golygu cydymffurfio ag arfarnu yn ôl criteria anllenyddol. Gwaherddid defnyddio o'r herwydd rai geiriau ac ymadroddion na chydymffurfient. Troes hen radicaliaeth a orseddai 'oddefgarwch' a'r 'tocyn benywaidd' yn ystrydebol. Fel y gwnâi rhagfarn wleidyddol o'r fath, gwelai fywyd fel cartŵn gan ragdybied gau safbwyntiau gan unrhyw un na chydymffurfiai â'r

iaith oddefedig.

Cyfyngid ar y diddordeb mewn llu o bynciau llenyddol – ffoid rhag hydeimledd ynghylch perthnasedd personol, hyfrydwch byd natur, y bywyd ysbrydol. Chwynnid y llyfrau mewn Adrannau Saesneg rhag y 'traddodiad' o astudio awduron gwrywaidd, gwyn, marw. A cheisiai rhai 'beirniaid' lywodraethu'n ideolegol yr holl ieithwedd. Dilëwyd y syniad o lenyddiaeth wael; dibynnai 'gwerthuso' ar y gydymffurfiaeth â rhai safbwyntiau a rhyw ieithwedd ddethol. Yr un pryd, cynyddai fwyfwy y dogma pêr nad oedd gwahaniaethau 'gwerth' ond yn relatif. Yn sgil hynny caed math o sensor ideolegol.

Yn fyr, aeth rhyddid yn gaethiwed. Yn ôl Rousseau ym 1762, yn ei *Gytundeb Cymdeithasol,* rhaid oedd troi egwyddorion rhyddid yn wladwriaeth dotalitaraidd. Rhaid oedd i bob unigolyn fforffedu'i hawliau i'r holl gymuned, er mwyn amddiffyn ei ryddid ei hun.

Gwreiddid hyn oll mewn achosion clodwiw a godidog diamau: rhyddid caethweision, gwrth-hiliaeth, tlodion, cyfartaledd i wragedd, gwrth-imperialaeth, rhyng-'genedlaetholdeb', mwy o chwarae teg i bobl â nam arnynt. Braf oedd pleidleisio ar yr ochr iawn. Ond oherwydd diffyg catholigrwydd ac absenoldeb gwerthoedd ysbrydol neu esthetig haelfrydig, troes y delfrydau gwychion ac aruchel hyn yn ormes – oherwydd y meddwl cartŵn a'r awydd i wasanaethu drwy sathru ar werthoedd a chyflawniadau'r ychydig mewn Canon. Mewn gwledydd lle y bu rhyddid ymadrodd yn ddelfryd gynt, gwaherddid llefaru mewn rhai ffyrdd.

Bygythiai hyn bob llenyddiaeth, gan gynnwys llenyddiaeth boblogaidd neu boliticaidd gywir. Gwleidyddiaeth mewn llên.

Nid camp lenyddol unrhyw gyfrol a gyfrifai i feirniaid mwyach. Astudid *Othello*, dyweder, yr unig ddrama gan Shakespeare i rywrai mwyach, neu o leiaf yr un a gâi'r sylw pennaf mewn ambell Adran Saesneg, nid oherwydd ansawdd gwych y farddoniaeth a leferid, na gweledigaeth yr awdur ynghylch cenfigen, na'r darluniad hydeiml o berthnasoedd dynol, na'r bwrlwm dychymyg, na phrydferthed yr iaith, ond oherwydd lliw'r arwr. Dyma yn hytrach bosibilrwydd unswydd i godi dadl ddigon therapiwtig ynghylch pynciau a aeth yn bur flinedig a digrebwyll yn weddol glau. Disgrifiai un Athro Saesneg o Brifysgol Llundain ei ddarlith ar un o ddramâu Shakespeare, 'rhoddais sylw estynedig i ddyfyniad yn cynnwys chwarae geiriol rhwng dwy fenyw a oedd yn cyferbynnu “fair” a “black”. Yr oedd un ohonynt yn llai dyrchafedig ei theulu, yn llai pwysig yn ddynastig, ac yn ffigur ymylog yn y cynllwyn. Fel yr esboniais, dyna pam y cyfeirir ati fel “du”, a pham y mae hi'n isradd o ran diddordeb.' Dyna'r math lluddedig o dameidiau dethol hyrdi-gyrdi, (heb fod yn ganolog nac yn brif werth i'r ddrama), a gâi'r sylw anochel bellach.

Tueddid wrth efrydu Larkin i droi fwyfwy at ei lythyrau at Kingsley Amis (a fynegai anaeddfedrwydd emosiynol y dyn druan a'i anabledd i ymwneud yn oedolyn gyda menywod), yn

hytrach nag i ymateb i'w allu diamheuol fel bardd.

Oherwydd ein lleoliad daearyddol wleidyddol yng Nghymru, achubid Canon llenyddiaeth i ryw raddau rhag rhai o'r trafodaethau confensiynol hyn a geir yn y gwledydd pwerus. Ond wrth gwrs, nid achubwyd merched gan ddaearyddiaeth. A bu'n uniongrededd gwirion ymhlith gwrywod am rai blynyddoedd i flaendiro'r ferch ar draul gwerthoedd llenyddol. Sarhad i ferched, nawddogolrwydd poenus oedd hyn, bid siŵr, ac ni allai lai na chreu'r myth chwithig, heb stwffio merched i leoedd awdurdodol drwy foddion anghyfartal, na chaent byth gyfartaledd dwfn yn ôl eu haeddiant eu hun. Gwnaed o'r herwydd gam difrifol iawn â rhai o'n merched disgleiriaf a deallusaf. Ni wyddai neb ymhle yr oeddent yn sefyll o ran cymhwyster safon.

*3. Ideoleg Dosbarth*

Yn debyg ac yn drydydd, felly, ceid y Marcswyr sentimental gyda theori ddatblygedig boliticaidd. Dyma ni eisoes yn nyddiau llewyrch Thomas Parry. Dyma bobl ddosbarth canol yr oedd rhai o'u sentimentau yn bur agos i'w lle, ond eu theori ymarferol yn wanllyd braidd. Ceisiai'r rhain fabwysiadu'r agwedd ddosbarth, a hynny o gysur eu dosbarth canol: haerent na ddylid troi trwyn ar hyn a'r llall er gwaethaf cyffredinedd. Perthynid i ardaloedd penodol efallai. Nid llenyddol oedd eu diddordeb mewn gwirionedd, eithr gwleidyddol ac economaidd: cymhelliad clodwiw er gwanned yr ymenyddwaith. Mewn modd nawddoglyd tost, sonient am themâu ac unigolion oherwydd eu bod yn cyd-fynd â hwy neu oherwydd cydymdeimlad moesol hollol briodol. Daeth llenor Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif yn *bête noire,* wrth gwrs. Ond unwaith eto, tanseilio'r Canon a chriterion gwerth celfyddydol oedd y canlyniad, peth nad oedd o les i ddosbarth gweithiol, nac i ferched, nac i'r llenorion 'ethnig'. Nid yw o les i'r un llenor beidio â chael ei farnu fel llenor dynol.

* * *

Prif waith bywyd Thomas Parry, a thasg a oedd yn fwy dylanwadol hyd yn oed na golygu *Gwaith Dafydd ap Gwilym,* fu gweithio ar Ganon ein llenyddiaeth. Ef (yn anfwriadol) yn yr ugeinfed ganrif oedd pencampwr y Canon. Pe bawn yn ceisio gwneud pwynt ysgubol (sy'n ymylu ar fod yn wir), fe ddwedwn mai ef oedd prif grëwr ein Canon yn yr ugeinfed ganrif, neu o leiaf yn gyfartal â'r S.L. anturus yn y maes hwn. Rhan o'r gwaith hwnnw oedd *The Oxford Book of Welsh Verse,* blodeugerdd bwysicaf a gorau'r ganrif. Ond rhan arall fwy dylanwadol oedd *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900,* 1944; un arall oedd *Llenyddiaeth 1900-1945,* 1945; ac yn olaf *Hanes ein Llên,* 1948, llyfr a oedd yn aml yn ddigrif am ei fod wedi'i fwriadu i fod yn gryno. Canon clwyfedig oedd y ddwy gyfrol ddiwethaf oherwydd gormes y Wasg. Gadewch i mi roi dwy enghraifft. Y maent yn dod o'r bennod ar yr ugeinfed ganrif.

(a) *Gŵr yr un llyfr yw I.D. Hooson (Cerddi a Baledi), ond y mae ôl dethol a chwynnu ar gynnwys y llyfr hwnnw. Y mae ef yn un o'r beirdd hynny sy'n cael gwir fynegiant i'r awen yn y delyneg*

*gelfyddydol. Nid fformiwla i'w gweithredu'n beiriannol yw'r delyneg iddo, ac nid cyfrwng chwaith i fynegi pob rhyw deimlad a ddaw heibio, ond yn hytrach y dull delfrydol o gofnodi ei brofiadau barddol. Felly y mae i bron bob un o'i gerddi arwyddocâd ac ystyr.*

[Tynnu sylw yr wyf at y frawddeg olaf yna.]

(b) *Ysgrifennwyd yn ddiweddar lawer iawn o storïau hir o bob math, storïau natur, storïau detectif, etc. gan awduron fel E. Morgan Humphreys, R. Lloyd Jones, Joseph Jenkins. G. Wynne Griffith, John Pierce, E.D. Rowlands, William Rowlands, Meuryn, Stephen Tudor, G.E. Breeze, ac eraill. Amrywia'u safon gryn dipyn.*

[Uchafbwynt eto yn y frawddeg olaf.]

Yr esgus am ambell sylw fel hyn yw crynoder gofod. Ond y mae'n ddyfnach na hynny. Wrth lunio Canon y mae'n rhaid i feirniad (er gwaethaf unrhyw wyleidd-dra) 'ganoneiddio'r' math o waith y mae ef ei hun yn ei drafod a mentro crybwyll safonau cyfyngedig hefyd; ac yng nghyfrolau 1945 a 1948 ni lwyddodd Syr Thomas i wneud ysywaeth gymaint â hynny bob amser. Ond yn y canol ganddo o hyd, fe gaed y canon fel egwyddor gudd, ac yr oedd hynny'n amheuthun, gan mor gydymffurfiol uchelwrol oedd naws y prif draddodiad Cymraeg yn sgil rhesymau nawdd.

*Canon Creadigol Parry*

Yr ydym hyd yn hyn wedi sôn am Thomas Parry yn ceisio creu 'Canon'. Ond beth a wnâi'r 'Canon' wrth geisio creu Thomas Parry?

Ochr yn ochr â Saunders Lewis, o ran ymagwedd, nid oedd Thomas Parry yn yr ugeinfed ganrif ond megis math o Ieuan Fardd gynt yn y ddeunawfed ganrif (ochr yn ochr ag Iolo Morganwg); yn sobr, yn geidwadol, yn ddysgedig ofalus, ac yn weddol ryddieithol. Roedd Saunders Lewis ar y llaw arall yn fath o Iolo, yn ddisglair wreichionog. Ni allech ddibynnu ar Saunders i roi darlun cytbwys o Geiriog nac o Bantycelyn; ond yr oedd yn gwbl lachar yr un pryd, megis y gellid cyfrif Iolo ar ryw olwg yn feirniad llenyddol oherwydd ysbrydiaeth ei ddadansoddiad o'r mesurau. Iolo, debygaf i, oedd y beirniad llenyddol mwyaf egnïol a chreadigol, y mwyaf byrlymus ei ddychymyg a gawsom rhwng to Simwnt Fychan a'r ugeinfed ganrif. Roedd ei graffter yn syn, er mor anghywir y gallai fod. Felly Saunders yntau wedyn, ond mewn cyd-destun mwy sobor. Ni fwriadai S.L. fod yn jôc fel Iolo (ar dro). Cadarnhau'r gorffennol a wnâi Thomas Parry ac Ieuan Fardd: dyfnhau'r gorffennol a'i weddnewid a wnâi Iolo a Saunders Lewis, a chynhyrfu'r meddwl amdano. Buddiol oedd y naill gyfeiriad a'r llall. Wrth gwrs, ysgolhaig solet oedd Saunders Lewis hefyd, yn ddiau yn ei ffordd ei hun – y ffordd orau efallai – yn moesymgrymu'n ddidwyll i gyfrifoldeb llythrennol geirwiredd, orau y gallai dramodydd o'i fath ei wneud. Ond pwysig yw

gwerthfawrogi dychymyg hyd yn oed gan ysgolheigion medrus.

Eithr fel y methodd rhai gwleidyddion theatr (ar y chwith) ym maes y ddrama â gwerthfawrogi natur egni a cheinder Saunders Lewis fel dramodydd cryf, felly y mae rhai beirniaid ac ysgolheigion diddychymyg wedi methu â dirnad cryfderau ysgolheigaidd a beirniadol Iolo.

Arall oedd dawn Thomas Parry. A heb y sobrwydd tawel a gaed gan hwnnw rywle o fewn y darlun llawn, ofer pob damcaniaeth a gwreichion. Perthynai Thomas Parry i ganol y ffordd, yn angerddol felly. Roedd yr un ymagwedd at ddirnad patrwm hanesyddol ag a oedd ganddo wrth lunio 'testun' solet dibynnol. Dim tân gwyllt. Dim stormydd. Ond moroedd o ddiogelwch tawel ar gyfer siwrneio defnyddiol. Ond sylwer fel y mae hanesydd pob cenhedlaeth yn cael ei gywiro (meddyliwch am ei haneswyr cyfoes i Bantycelyn, neu haneswyr heddiw yn sôn am gymeriad a buchedd y beirdd a adwaenem hanner can mlynedd yn ôl). Felly, fesul tamaid, y cywirwyd pwysleisiau gyda Syr Thomas; ond er tegwch iddo ef, syndod cyn lleied.

Gan mor anodd yw hi i adnabod a hunaniaethu rhagoriaeth weithiau, ac am fod rhaid dibynnu ar chwaeth ddatblygedig drwy fynych ymarfer â darllen llenyddiaeth, a thrwy brofiad ymarfer ag adnabod gwreiddioldeb a chryfder meddwl er mwyn eu cydnabod, nid yn rhwydd y sefydlir safon. Gellir dysgu chwynnu sentimentaliaeth. Gellir hyfforddi chwaeth sy'n apelio at ramantiaeth ddiog plant sy'n 'gwybod beth maen nhw'n licio', sef rhwyddineb meddal a phert, ac ystrydebaeth ferfaidd arferol. Gellir hefyd bendroni beth yw rhinweddau gwerth llenyddiaeth. Ceir plant o oedolion sy'n dweud i bob pwrpas, 'dwi'n cofio beth ddysgais i yn yr ysgol gynradd; ond dwi ddim wedi tyfu'n fachgen mawr wedyn.' Yr ysgol gynradd yw'r lle y saif 'beirniaid' Cymraeg gwledig yn rhy aml, nad ydynt fel pe baent yn darllen odid byth, ac yn sicr sydd heb eu hyfforddi eu hunain i dyfu allan o rigolau chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif a'r pethau odlog syml a adwaenent hwy – neu eu hathrawon – y pryd hynny yn yr ysgol fach. Ond diffyg oedolion, diffyg catholigrwydd aeddfed, cyfyngder teimladol, arferoldeb sentiment, diffyg meddwl drostynt eu hunain, dyna'r rhwystr cyfarwydd i dwf personol yn y darllen sy'n gwenwyno twf y 'Canon'. Cynorthwyodd Syr Thomas yn ei ganon i Gymru ddatblygu rhai darllenwyr mewn oed.

Drwy ganfod campau'r traddodiad llenyddol, mater o iechyd ac o deimlad catholig oedd cael gwared â llawer o'r sbwriel sentimental a chonfensiynol sy'n llenwi gwythiennau seicolegol llawer o blant a beidiodd â datblygu'u chwaeth ar ôl gorffen yn yr ysgol gynradd. Clywais yn ddiweddar ddau o'n darlledwyr mwyaf adnabyddus Cymraeg yn cyfaddef nad oeddent yn gwerthfawrogi dim o'r farddoniaeth a ddarllensent ar ôl gorffen yr ysgol gynradd. Hynny yw, yr oeddent yn ôl-gynnydd, yn rhwystredig addysgol. Ni ddysgasent fod yn oedolion ym maes llenyddiaeth. Perthynai Syr Thomas i symudiad a dynnai Gymru orau y gellid, tan sgrechian, i mewn i'r Brifysgol.

Gwaeth, dybiaf i, na hynny yw diogi chwaeth a'r llesgedd ymenyddol sy'n methu â dryllio

arferoldeb rhythm a chywair a diffyg ffurf fyw, heblaw gwarchod delweddu Sioraidd cyfyngedig. Dyna sy'n cyfrif pam y mae cynifer o'n beirdd rhydd diweddar yn cyfyngu'u darllen i'r Saesneg ac yn methu ag ymroi i fwy na sgrifennu prydyddiaeth Saesneg yn Gymraeg. A ddown byth yn rhydd? Gwyddai Thomas Parry mai'r ateb araf ac amyneddgar i hynny oll fuasai oedi ychydig gyda'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, yn echelau heb ganfod eu cyfoesedd a gwreiddioldeb eu Cymreictod ar gyfer yr oes ddiweddar. Fel arfer, y meddwl diddatblygiad benthyg yw'r tramgwydd peryglus. Felly, honnid – gwreiddiau amdani, ar gyfer gwreiddioldeb. Gwylier y cyfnodau a esgeulusir oherwydd ffasiwn neu ragfarnau ideolegol.

Yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif, daeth y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r ddwy ganrif ar ei hôl, i fod yn fwy o ysgogiad i ddeffroad ein llên nag odid ddim arall. A gwnaeth Thomas Parry gymaint ag Alan Llwyd i hyrwyddo sylweddoli'r chwyldro arbennig hwnnw.

Ond beth felly yw pwysigrwydd 'Canon' i ddarllenwyr ac i awduron? Dyna'r hyn, â dim llai, sy'n gosod y gyfundrefn werthoedd ar waith i ni. Yn gynnar yn nhwf rhywun, addysg a maes cychwyn hyfryd yw'r Canon ar gyfer anturiaethau diweddarach.

Rhaid bod yn ddigymrodedd ynghylch gwerthoedd. Os bydd Shakespeare yn Saesneg, ar gyfer y Dystysgrif Gyffredinol, yn cyfateb i ryw nofel fach ddiog ac ysgafn yn y Gymraeg yn yr arholiad, beth a wna'r plant deallus Cymraeg yn y pen draw? Beth a ddigwydd i iechyd Cymru? Gwyddom beth a wna'r plant na hoffant ddarllen, beth bynnag. Beth a wna'r llenorion galluocaf maes o law am wreiddiau cyfoes? Fe drônt at y lle sy'n haeddu parch, at y wlad a'r iaith sydd – yn y gorffennol o leiaf – heb fynnu ymddwyn yn israddol; a mabwysiadant urddas meddwl a safon. Mae cyfundrefn arholiadol y cyrff awdurdodol (a'r cyrff sefydliadol cyhoeddus) yn gallu lladd y Gymraeg fel iaith mewn oed ac yn meithrin taeogion. Urddas chwaeth oedd osgo Syr Thomas.

Beth a wna'r awdurdodau monopolïaidd ynglŷn â'r Canon? Os 'cynllunio' ar gyfer y 'lluoedd' tybiedig yn unig a wnânt a synied mai dyna'r ffordd hwylus i 'gadw'r iaith', yna fe feithrinir cymhleth israddoldeb.

'Ond pa fawredd Cymraeg y gellir ei grybwyll yn yr un frawddeg â Shakespeare?' meddwch.

Wel, cyfundrefn ryfeddol y Gynghanedd, a thraddodiad mawreddog a dwfn ac amlochrog Cerdd Dafod, a'i henglynion a'i chywyddau, a'i harbrofion hyd heddiw. Arweiniwyd Thomas Parry i ganoneiddio'r hyn a alwai Gruffudd ap Maredudd gynt yn 'berfeddnod', sef calon pethau, canol treiddiol y mater. Yn yr achos hwn, dyna yw'r traddodiad cynganeddol syfrdanol sydd gan y Gymraeg. Dyma yn wir un o hanfodion sefydlu Canon Cymreig. O gylch cnewyllyn y mawredd hwn yr adeiladwyd detholiad diddiogi, ac felly y ceir ymwybod cyfoes byw o safon. Gyda hynny y dysgir y llawnder, yr arbrofion diwaseidd-dra, yr anturiaethau iaith, y creadigrwydd anrhydeddus. Dyma offer dwfn. Ac yr oedd Thomas Parry yn llygad ei le yn union, o leiaf hyd at yr ugeinfed

ganrif, gyda'r prif hanfod. Wedi'r ugeinfed ganrif, erys ei waith yn her i ailfeddwl y Canon yn y ganrif newydd hon. Ym Mai 2006, anfonwyd neges gywrain gan brif wyddonwyr Cymru at y Cynulliad, 'Meddyliwch yn galetach', meddent. Diau fod angen yr un neges heriol mewn ambell faes arall heblaw gwyddoniaeth.

Mae hyn oll yn berthnasol wrth ystyried arbenigrwydd Thomas Parry. Dyma fi felly wedi dechrau drwy'i ganmol. Tybed a ellir bod yr un mor garedig wrth sylwebu ar y pethau eraill a wnâi ef wrth geisio cyfrinach lawn y Canon?

Y SYNIAD O GYWIRDEB

Ers canrifoedd (ond yn ystod y ddeunawfed ganrif yn arbennig), ceid cyferbyniad rhwng dau fath o feirniad. Yn y naill gornel, ceid y beirniad rheoliadol, y beirniad a rôi ei farn *ymlaen llaw* megis, sut y dylid o hyn ymlaen weithio. Ef oedd biau'r 'rheolau' i'w dilyn. Dyma sut y dylid 'ei gwneud hi'. Beirniadaeth Gyfarwyddiadol a Rhagflaenol neu 'Ddeddfol' oedd hyn ('Prescriptive' a 'Legislative') gan feirniad goruwchawdurdodol.

Yn y gornel gyferbyn yr oedd y beirniad mwy modern a thybiedig wâr yn edrych yn ôl ac yn sylwi'n fanwl sut yr oedd y math hwn o waith creadigol wedi arfer bod cyn hyn er y gallai fod yn wahanol pe gweithredid fel a'r fel. Mater o chwaeth personol oedd, a gallai chwaeth ddatblygu gyda phrofiad a myfyrdod ynghylch celfyddyd. Dyma Feirniadaeth Olynol a Disgrifiol. Nid rheolau yn flaenaf oedd y safonau gan yr ail ddosbarth, ond sylwadaeth feirniadol ar y gorffennol a fu.

Ac yna, yn y canol, yr oedd yna ryw fath o ddyfarnwr yn dawnsio o gylch y paffwyr hyn. A'i enw?

Yr ŷm yn ei nabod. Neb llai na Simwnt Fychan efallai, gŵr a gyhoeddai ar flaenau'i draed, fel y cofiwch: *Ein ffugrs ni yw moddion prydyddiaeth, sef yw hynny, esgusion drwy awdurdod o waith beirdd cadeiriol neu yr athrawon penceirddiaidd a fuant o'r blaen. A phenillion o gerdd y rheini yw ein gwarant a'n harddelw ninnau i ganu yn eu hôl.'*

Hynny yw, mae gan brydyddiaeth ei hun hanfodion y gellid eu darganfod, – gwarant – ac y mae prifeirdd wedi derbyn y rheini fel ffurf batrymol. Dysg y gorffennol a'u gwnâi hwy'n athrawon, nid chwiwiau ac nid damcaniaethau; a'r cerddi eu hunain oedd y ddysg. Penillion y beirdd oedd eu sylfaen i'r dyfodol. Hwy a ddiffiniai. Bernid ystyr termau yn ôl eu defnydd. Eiddo Simwnt Fychan oedd un o frawddegau mawr hanes beirniadaeth Gymraeg. Gwyddai Simwnt fod yn *rhaid* adeiladu'r dyfodol i iaith a meddwl ar y gorffennol. Ond bydd mynegiant a datblygiad a disgrifiad beirniad fel arfer yn tyfu drwy ddadansoddi a chymharu. Hynny yw, gwahuno (cyferbynnu a chyffelybu). Ac felly y darpara ef i lenorion sylwedd i fyfyrio amdano ar gyfer eu celfyddyd. Dyna'r trydydd safbwynt i feirniadaeth, yr un cyfansawdd, sy'n darganfod deddfau a phriodoleddau cynhenid ar sail myfyrdod mewn oed am gelfyddyd, ond sy'n sylweddoli y gall beirdd ddatblygu eu dulliau (a'u rheolau) yn eu Mynegiant eu hunain o fewn yr amodau sylfaenol, a meithrin chwaeth.

Tri safbwynt perthnasol i Thomas Parry: Rhagflaenol, Disgrifiadol, Gwarant Safonol.

Ond ceir pedwerydd dosbarth o feirniaid, sy'n berthnasol i Thomas Parry mewn modd cyfoes nas rhagwelwyd. Rhai Rhagflaenol yw'r rhain eto, ond heb fod yn Rheolaidd onid yn eu rhagdybiau unochrog diwinyddol. Chwalfa negyddol ydyw eu sylfaen. Mynnant y gwahaniaethu

heb y cydlynu, theori sy'n groes i'r ffordd y mae'r meddwl dynol yn gweithio. Dyma'r Ôl-foderniaid. Mae pwysigrwydd hanesyddol y rhain i feirniaid y dyfodol i'w ganfod yn natur a rheswm eu methiant, nid yn gymaint yn eu llwyddiant. Dyma feirniadaeth heb ei seilio, cyn belled ag sy'n bosibl, ar draddodi ymwybodol nac ar nerth y gorffennol. Ond fel y gwyddys (er na ddywedwyd yn ddigon uchel nac yn ddigon aml wrth yr Ôl-foderniaid), nid yw iaith na chelfyddyd yn bosibl, na deall chwaith, heb orffennol a heb fynnu gwahuniaeth. Nid mater o awydd ymwybodol yw hyn, ond o amodau isymwybodol.

Beth oedd *différance* felly? Theori ddiwinyddol oedd, rhagdybiau metaffusegol heb eu seilio ar dystiolaeth gyfansawdd celfyddyd: hynny yw, heb sylwi ar *ddwy* ochr unol ar y broses feddyliol ac ieithyddol. A 'thanseilio' fel atgyrch anochel heb fyfyrdod digonol. Techneg amddifad oedd ym maes Theori, ac ymarfer â rhagdyb a oedd yn anhunanfeirniadol tost.

Gerbron y pedwar safbwynt hyn, ceidwadwr (ychydig yn anghyson) oedd Thomas Parry, yn feirniad rhagsafonol o ran anian. Hynny yw, nid disgrifio'r hyn a ddigwyddai a wnâi, ond yr hyn a ddylai ddigwydd. Credai, er enghraifft, fod yna fath o gystrawen ac o ffurfiau gramadegol 'safonol' ar gael y dylid cydymffurfio â hwy. Ac felly hefyd gyda defodau llenyddol yn weddol gyffredinol.

O ble y deuai'r fath syniad o 'Gywirdeb' ac o 'Anghywirdeb'? 'Y drefn fwyaf cydnabyddedig sydd ar gael' yw ystyr Cywirdeb o'r fath: glynir wrth arferiad y gorffennol delfrydedig yn ddigyfnewid fel arfer. Lle y datblygodd ymwybod o'r iaith fel gwrthrych i'w helaethu a'i defnyddio'n esthetig, datblygid 'arferion' a fernid wedyn, gan rywrai, yn sefydlog.

Beth a gyfrifai, felly, am yr 'Anghywirdeb'?

Ceir dau brif ddylanwad:

1. Y mae pob iaith yn newid yn naturiol: mae'n cysoni ac yn ymsymleiddio gyda phob cenhedlaeth. Neu ynteu mae'n newid drwy geisio datrys problemau. Er enghraifft, mae sefydlu terfyniad lluosog enwau yn y Gymraeg drwy ychwanegu *-au* wedi bod ers canrifoedd yn ennill tir ar y dulliau eraill o luosogi. Felly, fe'i defnyddid yn amlach-amlach, gan ddisodli terfyniadau a gyfrifid yn 'gywir', ond nid yn ddi-eithriad. Cyfrifid newid hen sefydlogrwydd yn anghywir: e.e. *mynyddau* yn teimlo'n anarferol mewn iaith safonol. Cyn sefydlu bannod yn Gymraeg, er enghraifft, ar un adeg yn hanes yr iaith, nid oedd bannod ar gael. Ond o gyfeiriad y rhagenw 'dangosol' (cf. S. *This/that*) fe dyfodd yr arfer o ddefnyddio 'yr, y, 'r' yn y Gymraeg. Ac yna, ymwacaodd y 'dangos'. Bu hynny'n anghywir ar un adeg, heb ei sylweddoli, o bosib. Ond ar hyn o bryd, ers dwy neu dair canrif efallai, mae math o fannod amhendant hefyd wedi bod yn datblygu yn anghyson, sef *'yna':* e.e. 'Mae yna fachgen yn y tîm.' Math o adferf ddangosol yw hon hefyd. Erbyn hyn, yn yr *iaith lafar*, mae'n gwbl 'safonol'. Hynny yw, mae'n dderbyniol i'r siaradwyr mwyaf addysgedig ac ymwybodol. Ond ar hyn

o bryd, ennill ei lle yn fwyfwy cyffredinol yn yr iaith lenyddol safonol y mae, ond yn araf.

Felly hefyd yr atrefnir y gyfundrefn ferfol hithau, fel y bydd 'byddai' a 'buasai' yn ymryson â'i gilydd ar lafar... Trafod 'arferion ymddygiad' yr ydys yma – mewn iaith.

Pwrpas y fannod bendant ac amhendant fu gwahaniaethu rhwng y cyflwyniadol a'r atgyfeiriol (cyfeirio'n ôl neu beidio at wrthrych a grybwyllwyd eisoes, neu wahaniaethu rhwng yr arbennig a'r cyffredinol). Defnyddir y fannod amhendant (sero) i gyfeirio'r meddwl oddi wrth y cyffredinol at yr arbennig, a'r bendant oddi wrth yr arbennig at y cyffredinol. Bathwyd cyfundrefn y Fannod, felly, gan 'anghywirdeb' o fath i feddiannu *lle* strwythur cywir a gawsid ynghynt. Cafwyd cywirdeb newydd, yn isymwybodol. Hynny yw, y mae'r hyn sy'n Anghywir mewn un cyfnod yn dod yn Gywir mewn cyfnod arall. Daw'n gywair arferedig drwy ailadrodd, yn dderbyniol yn y gymdeithas. Caiff y defnydd aml beri iddo gael ei ystyried yn batrwm neu'n safon a chwenychir.

2. Yn achos y Gymraeg, ysywaeth, ceir anghywirdeb o fath arall, un diangen ac 'ansafonol', oherwydd pwysau imperialaidd, a'r gri gan yr iaith orthrechol i bawb gydymffurfio â'i harferion hi. 'Dwi ddim yn gwybod ble mae'n dod o'. 'Dwi ddim yn gwybod os yw'n dod.' Enghraifft eglur arall o'r math hwn o 'anghywirdeb' yn ddiweddar yw 'camdreiglo' cynyddol ar hyd a lled Cymru, a bellach gellir rhagweld y 'collir treigladau' ymhen hir a hwyr bron yn gyfan gwbl, oni wellir addysg. Rhan o'r chwalfa dreigladau yw'r '**camgeseilio**' cyfredol mewn Cerdd Dafod y cafwyd dadl braidd yn bwyllgorol annaturiol yn ei gylch ymhlith cynganeddwyr y ganrif hon. Wedi iaith anghywir, ceid ffurfiau llenyddol anghywir, is-safonol.

Pan ddigwydd 'anghywirdeb' o'r fath, fe'i bernir gan y gymdeithas gydymffurfiol o ran cywair yn annerbyniol am gyfnod. Lle nad oes addysg dda i ddiogelu hen arferiad, na'r lle y bo grymusterau trymaf yr iaith (cyfathrebwyr mewn awdurdod, megis darlledwyr) yn mabwysiadu'r arferiad newydd, gellir plygu i'r drefn newydd hon. Ceir yr hyn a elwir yn 'language shift', fel pan gollodd y Frythoneg ei therfyniadau, ac y ganwyd y Gymraeg. Pan ddigwydd hyn yn naturiol – hynny yw, heb ymyrraeth gan 'ddeddfroddwyr' artiffisial – mae'r 'symudiad ieithyddol' yn digwydd yn gyson ar draws yr iaith. Yn isymybodol felly, fe'i datblygir.

Ysywaeth, gellid disgwyl y buasai'r iaith, pe dilynai'r symudiad ieithyddol presennol yn erbyn treiglo (yn sgil hercian yn llif y llafar), yn gollwng y dull Cymraeg o dreiglo yn gyfan gwbl ac ymhen canrif yn cydymffurfio â'r Saesneg. Mae ceisio ffidlan gyda'r broses honno yn chwiwus bytiog drwy ddeddfu fan yma a fan acw, ynghylch pa 'gamdreiglo' a ddylai ddigwydd, a phryd, a pha 'gamdreiglo' a ddylai beidio â digwydd, yn debyg o fod yn gwbl ffug ac annigonol, ond nid yn ddrwg i gyd. A phe gofynnid pa 'gyfarwyddyd' y dylid ei roi yng nghanol y 'symudiad' cyffredinol hwn, fe dybiwn i – os ydys yn chwilio am safon yn ôl 'y cywair gwâr' – yna y dylid yn ystod y

cyfnod o chwalfa ac o newid (i) 'gogwyddo'n 'geidwadol' yn yr iaith lenyddol yn ogystal ag ymysg y rhai sy'n siarad yr iaith lafar 'safonol' sydd gennym, tra bo'r broses yn parhau, heb ei chwblhau, yn duedd drwy'r iaith;' (ii) 'derbyn y symudiad yn sefydlog ar ôl iddo setlo neu ymsefydlogi'n isymwybodol gyffredinol gadarn. Felly y diogelir yr ymwybod o safon – a chenedl safonol'.

Ceir dau fath o 'anghywirdeb' felly: un sy'n ymgymhwysiad yn yr iaith; a'r llall sy'n faen coffa i'n gwaseidd-dra ac yn borthiant i'n hisraddoldeb – marc y caethwas.

Ar hyn o bryd, dan ddylanwad Ôl-foderniaeth (sy'n theori 'ffug' o ragsafonol yn erbyn pob safon), y mae damcaniaethu hollol artiffisial yn erbyn bodolaeth gwerthoedd o gwbl yn treiddio ym mhob man yn ddiarwybod. O ran natur, y mae Cynghanedd ei hun, fel ffenomen, yn dibynnu ar gydnabod y fath beth â threfn a gwerth. Felly yn unig y diogelir goroesiad bywyd. Eir o drefn i drefn. Mae Ôl-foderniaeth ar y llaw arall, fel ffenomen, yn dibynnu ar danseilio a dadadeiladu – egwyddor sy'n sylfaenol anymarferol mewn bywyd onid fel techneg o dan lywodraeth gwerth. Dyma egwyddor a luniwyd yn artiffisial gan feddylwyr hanner-ffurfiedig (gwahanwyr heb gydlyniaeth). Arwydd o bresenoldeb math o ddirywiad, tebyg ddigon i ffurfiau prydyddiaeth diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, yw hyn, megis y drafodaeth ymwybodol bresennol ynghylch camgeseilio. Digwydd mewn llenyddiaeth hefyd y mathau o ddatblygiadau a gafwyd mewn iaith.

Dweud hyn oll a wnaf, er mwyn gosod rhagdyb J. Morris-Jones a Thomas Parry – a'u hymgyrch o blaid Canoneiddio iaith lenyddol – o fewn cyd-destun dadl eang gyfoes.

Dilyn ymwybod J. Morris-Jones o 'safon' a 'gwerth' ac arferiad esthetig a wnâi Thomas Parry, yn fras ac yn gyffredinol. Yr oedd J. Morris-Jones wedi ymaflyd codwm â'r 'ddelfryd' am oes gyfan greadigol. Ef i raddau helaeth a greodd 'Gywirdeb' Cymru. Ei ddilyn yn weddol anfeirniadol a wnâi Thomas Parry, mae'n ymddangos i mi. Dyma a ddysgwyd iddo. Yr oedd J. Morris-Jones wedi gorfod brwydro ag ef ei hun ac ag eraill, chwilio a chwalu, er mwyn dethol patrwm nad oedd yn bod yn union fel y'i cafodd ef y peth. Oherwydd hynny, i bob pwrpas, J. Morris-Jones yn bennaf a luniodd y greadigaeth ('werthfawr iawn', ddwedwn i) – o iaith lenyddol 'safonol', a hyderus.

Cyflwynwyd hyn i lenorion ac i fyd addysg. Wedi myfyrio'n ddwys (fel arfer) am y ffurfiau cymeradwy, llwyddodd J. Morris-Jones oherwydd ei anianawd gor-awdurdodol i orfodi'r iaith lenyddol safonol hon, a safonau Cerdd Dafod, ar y genedl. Bu honno byth wedyn yn ceisio ac yn llwyddo i'w newid hwy, gan bwyll bach, yn ddigon teg. Eto, drwy Syr John a'i fath i raddau yr oedd yna safon hollol gyd-dafodieithol a chyd-lenyddol yn angor; gwrthrych i anesmwytho yn ei erbyn. A rhoddai hynny hyder gwybodaeth i genedl mewn trybini.

Bu J. Morris-Jones yn myfyrio am hyn oll gyda gofal ieithydd. Nid ieithydd oedd Thomas Parry. Mabwysiadai ef gasgliadau'i feistr, a bwrw ymlaen i'w hyrwyddo ymhlith ei fyfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. A dyna'n wir y drefn byth wedyn hyd heddiw, at ei gilydd, mewn ysgolion,

yn arbennig cyn i'r llacio diweddar ynglŷn ag addysg ieithyddol a manylder safon ymhlith Cymry Cymraeg ddatblygu'n ffasiwn anffodus. Dangosai natur 'safon' mewn llenyddiaeth.

Ar ryw olwg, yr oedd yr 'iaith lenyddol' yn ail iaith i bob Cymro iaith-gyntaf. A'i dysgu drwy gyfrwng y Saesneg a wnâi J. Morris-Jones a'r ysgolion gramadeg yng Nghymru am gyfnod go hir. Drwy Saesneg y'i dysgid mewn gwersi Cymraeg yn Ysgol Ramadeg Llangefni er enghraifft ar un adeg, am gyfnod estynedig.

Roedd sillafu yn enghraifft ddefnyddiol a seml iawn i argyhoeddi'r bobl, er gwaethaf pob gwingo yn erbyn y symbylau, fod Syr John ar y perwyl iawn. Meddai'i ddisgybl Syr Thomas: '*Tua'r amser yr oedd John Morris-Jones yn fyfyriwr yn Rhydychen, nid oedd dim trefn na rheol'... 'O ganlyniad fe welid ffurfiau fel ysgrifenu, penau, tynu, cannol, gwahannol – sydd i gyd, wrth gwrs, yn anghywir.'* Drwy chwilio'r gorffennol, câi J. Morris-Jones 'reolau' i'r iaith. Bellach, yr hyn a ddatganai Syr John ei fod yn 'anghywir', dyna oedd yn anghywir. '*Mewn beirniadaeth eisteddfodol ac mewn erthygl i'r wasg,* [yr oedd] *yn ceisio cael gan ei gydwladwyr weld synnwyr ynglŷn â sut i sillafu'r iaith.'* Ym mryd Syr Thomas, ystyr 'synnwyr' oedd 'y rheolau a ddetholasai Syr John'. Meddai Syr Thomas ymhellach: '*Y mae yma rai pobl yng Nghymru hyd yn oed heddiw sy'n dal yn ffroenuchel nad yw o ddim gwahaniaeth sut y bydd neb yn sillafu. Ond pobl yw'r rheini sy'n rhy ddiog i ddysgu.'* Troes orgraff yn foesoldeb. A gwnaethpwyd ambell anfoes yn y broses.

Yn y gyfrol gan Syr Thomas am Syr John, a gyhoeddwyd ar gyfer plant gan Wasg y Brifysgol, ar ôl trafod sillafu a gramadeg, mae Syr Thomas yn bwrw iddi i sôn am yr hyn a eilw yn 'Rheolau Barddoniaeth'. Dywed am Syr John: '*Fel dyn yn llunio rheolau, yn gosod y ddeddf i lawr megis y gwelsom ef hyd yn hyn.*' Bu Syr John yn beirniadu'r Awdl yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn bron am gyfnod hir. Ac yn hynny o swydd, i raddau llai, felly y bu Syr Thomas yntau wedyn yn etifedd adleisiol iddo. Rhwng tudalen 44 a thudalen 50 yn y gyfrol fechan hon, y mae Syr Thomas yn disgrifio barddoniaeth Syr John gan geisio dylunio egwyddorion personol Syr John, ei ddelfrydiaeth gelfyddydol: '*Nid gweled gweledigaethau yw busnes bardd*,' meddai Syr Thomas, '*ond teimlo'n ddwfn, ac wedyn traethu ei deimladau mewn iaith goeth a glân. Ac y mae'r iaith goeth a glân yn bwysig iawn. Fel gramadegwr, yr oedd ef wedi dod i ddeall beth oedd nodweddion puraf yr iaith Gymraeg, ac fel crefftwr ac artist llenyddol yr oedd ei reddf yn dweud wrtho fod rhaid wrth y nodweddion puraf hynny mewn barddoniaeth.., Nid argyhoeddi yw amcan bardd, ond traethu ei brofiad.'* Ymddengys nad yn y cynnwys y mae'r purdeb, ym mryd Syr Thomas, ond yn y ffurf.

Dichon y byddwn yn ailystyried 'purdeb' a'i leoliad beirniadol erbyn hyn. Ond diau fod yr hyn a ddwedai Syr Thomas am Syr John wedi aros yn wir i Syr Thomas fel safon ei oes. Ac yn ei gyfres o lyfrau am hanes llên, ac yn ei Flodeugerdd Rhydychen, dyma'r criteria a fabwysiadai ar gyfer dethol ac ar gyfer disgrifio rhagoriaethau a diffygion. Dyma hefyd ei ddull o feddwl.

Datblygodd fframwaith chwaeth na fedrai lawn werthfawrygu Islwyn, ac a gâi beth anhawster i ymateb i Bantycelyn ac i Euros Bowen. Arswydai Syr Thomas rhag llenyddiaeth ddidactig. Ond teimlai'n ddiogel lle bynnag y gellid datgan, 'Y mae hyn yn gywir.' Hynny yw, didactegwr ydoedd, o fewn rheswm, ac o fewn chwaeth Ramantaidd sefydliadol.

Seiliwyd yr eisteddfod ddiweddar – a chelfyddyd oll, pe deallem hynny – ar yr egwyddor gadarn hon fod modd honni, yn ffaeledig wrth gwrs, fod un cyfansoddiad yn well na chyfansoddiad arall. Y 'myth' gwir hwn – yn ystyr y rhyddfrydwyr Beiblaidd – sy'n cyfrif bod cystadleuaeth yn bosibl. Hyn hefyd oedd asgwrn cefn beirniadaeth Syr Thomas.

Yn saithdegau'r ugeinfed ganrif, sut bynnag, dilynodd yr Ôl-fodernwyr arweiniad Nietzsche i wadu gwerthoedd. Pam? O ble y daeth dwli'r ystafell wag yn *Chapter* a 'pissoir' Duchamp. Mae'r ateb yn ymwneud â rhagdybiau. Yn ein dyddiau ni, collwyd yr ymwybod o Absoliwt gwrthrychol. Colled wrth-resymol oedd. Dyrchafwyd absoliwt goddrychol Ego Adda. At ei gilydd, cafwyd elfen o fwlio gan y 'deallusion', heb roi ystyriaeth ddwys i ragdybiau'r Absoliwt sydd bob amser yn sicrhau parhad trefn, gwerth, pwrpas, a rheswm, wrth sylwi ar berthnasiad rhwng pethau mewn gofod ac amser, a rhwng yr unigolyn a'r Absoliwt. Ar yr ochr anneallol, sut bynnag, sef yr un arferol, fe arweiniodd y golled at hedoniaeth. Lluchiwyd y capeli i'r cŵn... gan y pwlpudau'u hunain mewn gwirionedd. A gorseddwyd yr hunan a'r teimladau dynol: 'fy nehongliad i'.

I raddau, dyna a gafwyd gan J. Morris-Jones yn ei gyfieithiadau o Omar Khayyâm ac o Heine. Ond yr un mor ddifeddwl, fe gafwyd ganddo yn ei waith academaidd, o raid, deyrngarwch 'di-sail' i'r Absoliwt. Yr oedd 'cywirdeb' yn bosibl o hyd (yn wir yn rheidiol). Mynnodd ef – a Thomas Parry ar ei ôl – gyfuno'r rhain yn y cysyniad o 'chwaeth'. Hyn fu rhamantiaeth ddisgybledig dechrau'r ugeinfed ganrif. A 'Chywirdeb' oedd cyswynair pennaf Syr Thomas amdani.

Y gwendid oedd nad oedd seiliau hunanfeirniadol 'Cywirdeb' yn ddigon sownd i gyfarfod â bygythiad anochel 'Anghywirdeb.' Ac aeth y 'deallusion' ar ffo o flaen pwysau mwy tybiedig soffistigedig y gwahanwyr.

Cyn belled ag yr oedd Syr Thomas yn 'feirniad llenyddol', yn hytrach nag yn 'hanesydd llên' nac yn theorïwr (dwy alwedigaeth bur anrhydeddus), rhagorai ar Syr John. A hynny oherwydd ei fod hefyd yn lletach 'hanesydd llên', er yn waeth 'theorïwr. Ei brofiad (nid ei wybodaeth) am rychwant eang a manwl o arddulliau a delfrydau llenyddol ar draws y canrifoedd a roddai iddo chwaeth, ac ystwythder hyd yn oed, nas ceid gan Syr John. Ond fel beirniad yn benodol, ac yn debyg i Syr John yn hyn o beth, yn sgil y weledigaeth am 'reolau' llenyddiaeth yn hytrach nag am ei 'chyfundrefneg', ni chanfyddai mo'r cyfanrwydd na'r amlochredd a geid mewn beirniadaeth, peth a sylweddolid mor loyw gan ei olynwyr ym Mangor megis, er enghraifft, J. E. Caerwyn Williams a Dafydd Glyn Jones. Eu catholigrwydd hwy, eu hunanfeirniadaeth, a'u penderfyniad i ymwrthod â'r

'rhannau yn unig' ar draul y cyfan, eu 'dewrder' deallol a'u haddysg mewn llenyddiaeth a beirniadaeth Ewropeaidd, a'u gwerthusiadau mwy soffistigedig, a roddai i'r rhain eu rhagoriaeth feirniadol ar Syr Thomas.

Ond yr oedd Thomas Parry, fel Simwnt Fychan, heblaw'i fod yn feirniad rhagflaenol, hefyd yn feirniad disgrifiol, wedi'i orfodi felly gan ei dasg o hanesydda. Ac felly, dyma fi eto, yn ail ran yr ymdriniaeth hon â'i waith, yn gorfod cydnabod yn betrus wedd o werth parhaol arall ymhlith ei rinweddau lawer. Datgelai fod yna'r fath beth â safon yn bosibl, ie hyd yn oed yn yr iaith Gymraeg, ac y gellid – yn hyderus os yn ansicr, – geisio dweud beth oedd.

'Gweddus' oedd yr ateb.

# CANON YR ANNISGWYL

Buom yn ceisio ystyried beth oedd cymwysterau Canonwr. Yn yr ysgrif hon cawn ystyried cymwysterau'r Canonedig. Hynny yw, sut y câi rhai llenorion eu dethol yn arbennig i roi sylw i'w campweithiau; a pham yr oedd rhywrai eraill yn syrthio ymhlith y drain. Nid poblogrwydd oedd.

Mi gredaf fod yr ateb yn wahanol yn y Gymraeg i'r hyn sy'n digwydd i lenyddiaethau eraill. Mae gan y Gymraeg draddodiad eithriadol o gydymffurfiol. Ond nid drwg i gyd yw cydymffurfio: nid dyma'r lle i geisio esbonio pam. Eto'n sicr nid dyma'r lle i amddiffyn y sefyllfa ansicr. Mae'n digwydd heddiw yn y dynwarediad gwasaidd o feirdd Saesneg ac Americanaidd. Mae'n digwydd mewn dynwarediadau alaethus o allanolion anghyfarwydd. Bid a fo am hynny, heb ymwybod â chywair a gwerth canoneiddio traddodiad, anodd fuasai iawnbrisio hyfrydwch cydymffurfiad Guto'r Glyn, Tudur Aled, Dafydd Nanmor, Iolo Goch a Wiliam Llŷn. Eto, hyd yn oed i Thomas Parry, nid yr unpeth o anghenraid oedd canoneiddio a chymeradwyo cymwysterau'r traddodiad byw ceidwadol ac arwyddocaol ar gyfer llenorion cyfoes. Ac yn sicr mewn llenyddiaethau eraill, fe welem **mai'r dieithryn neu'r ar-ei-ben-ei-hunwr, bron fel amod, oedd bòs y Canon.** Gafr ymhlith defaid sy'n lleddfu'r lliw. Nid y traddodiad yn unig sy'n creu'r Canon, hyd yn oed yn Gymraeg.

Nid oedd Dante, Shakespeare, Tolstoi, Cervantes, Proust, na'u cyd-gewri, yn eu cartrefleoedd, yn nodweddiadol, nac yn ymdebygu i'w priffordd bob un yn ôl ei lenyddiaeth ei hun. Felly, hyd yn oed yn y Gymraeg: Aneirin, Gruffudd ab yr Ynad Coch, Dafydd ap Gwilym, Pantycelyn, Saunders Lewis. Disgynasant ar y buarth bob un yn ddieithriaid unwaith am byth. Nid yr un fath, hyd yn oed yng Nghymru, yw cymhwyster Canon â chymhwyster traddodiadwr nodweddiadol. Ni fodolai Canon heb eithriadau 'dieithr' o'r fath.

Felly, i Ddafydd Ap Gwilym, o bawb, ac i nebun arall, y rhydd Thomas Parry bennod arbennig yn ei *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (yn wir, yn y fan yna ni rydd ddigon o sylw iddo). Eithr rhydd fwy o sylw i graidd y traddodiad mewn rhai o'i ysgrifau pwysicaf – 'Twf y Gynghanedd' (1936), 'Datblygiad y Cywydd' (1939), 'Hanes yr Awdl' (1953), a rhagymadrodd *Englynion a Chywyddau* (1958). Ffurfiau yw'r cywydd a'r englyn a'r gynghanedd sy'n ecsentrig yn y Canon rhyngwladol: i ni, hwy yw pinacl ein canon. Ym *Mlodeugerdd Rhydychen* neilltuir englynion i gornel, peth nas gwna'r Canon i ffurf unigol fel arfer. Ac fe wneir hynny oherwydd y gamp unigryw ac anghyffredin greadigol sydd i'r 'ffurf' ei hun, sydd ynddi'i hun yn annibynnol ar bob unigolyn. Dyma wedd wreiddiol werthfawr ar y Canon Cymraeg. Gan gymaint y swmp llenyddol sy'n gysylltiedig â'r un ffurf hon, i mi, ceir bwlch enfawr lle y dylai fod yn amlycach yn *Hanes Llenyddiaeth* Thomas Parry (o'i gymharu â'r Flodeugerdd). Bwlch sydd ar gyfer 'ffurf' greedig frenhinol.

Heblaw *dieithrwch* cynnyrch Canon, pan feddylir amdano o fewn cyd-destun rhyngwladol, y mae *gwreiddioldeb* neu *unigolyddiaeth* yn un o'i gymwysterau mawr rhyfedd, felly. Yn achos Dafydd ap Gwilym, sef prif gynrychiolydd *unigol* y Canon Cymraeg, – yr egni ieithyddol, y bywiogrwydd dychymyg, maint ffrwythlondeb amrywiol ei grefft, dyna rai cymwysterau angenrheidol a hawliai'r fath le iddo ym mryd Thomas Parry. Yn achos y Gynghanedd ei hun, dyma'r lle y cyfrifwn ryfeddod perffeithgoeth cymhlethrwydd clymedig yr adeiladwaith melyster. Adlewyrcha hyn gymeriad y traddodiad Cymraeg wrth iddo roi cytbwysach a synwyrusach pwyslais nag eraill ar sŵn yn y cyfuniad sŵn a synnwyr. Ac arddengys Syr Thomas natur ganonaidd rymus y swmp o ganu caeth rhwng 1340 a 1580 o fewn rhychwant y traddodiad Cymraeg. Eto, o'r tu mewn i hynny, nid yw Thomas Parry yn ceisio dehongli naws nac atyniad cywair clasurol, nid yw'n olrhain y math o rinweddau a fawrygir gan feirniaid Ffrangeg wrth drafod Corneille a Racine, dyweder. Rhamantwr ceidwadol oedd Syr Thomas wedi'i imiwneiddio gan J. Morris-Jones, fel y gellid urddasoli'r 'crefftwyr' yn ddiau, ac eto fynnu gorfoleddu lle y ceid tipyn o natur a serch.

Yn ei feirniadaeth, y safonau a ddyrchefid gan Thomas Parry yn gyson oedd – 'iaith lân a chain', 'dillynder caboledig', 'celfyddyd gain', 'crefftwaith manwl a phersonol', sef ymadroddion y beirniad trefedigaethol, dybiwn i, oherwydd diffyg hyder iaith swyddogol ac addysg lawn yn yr iaith y tu ôl iddynt. Digwyddai'r ymadroddion hyn ym 1945 yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945.* A hawdd y gellid dweud am yr ysgolfeistr Syr Thomas – mai 'ceidwadwr o'r ceidwadwyr' oedd. Ond dyn ei oes oedd ef hefyd. Ac eto, yr oedd yn fwy na hynny o lawer, wrth gwrs. Y mae ei graffter tawel ynghylch y sefyllfa ym 1945, a'i barodrwydd i groesawu datblygiadau newydd, aeddfed, a deallus ar y pryd, yn nodedig yn y cyfnod. Mae'r darlun gwylaidd a roddodd ef am ei gyfoedion ym 1945 yn hydeiml i'r newidiadau yr oedd eu hangen ar Gymru y pryd hynny.

Felly hefyd yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900,* fel y gwelwn, er mor glasurol a chrefftwrol a dianturiaeth yn athronyddol fu priffordd llenyddiaeth Gymraeg, yr unig lenor a gafodd ei dra-chanoneiddio gan Syr Thomas oedd Dafydd ap Gwilym, y dieithryn, y gwreiddiolwr. Ni allai Syr Thomas lai, efallai, na mawrygu Dafydd oherwydd pwysau beirniadaeth sefydledig ar y pryd. Ond, wrth gwrs, fe'i codwyd ef gan Syr Thomas yn uwch ac yn ddeallusach nag a wnaethai neb arall ac eithrio gan Saunders Lewis, a hynny oblegid ei ddealltwriaeth o natur eithriadoldeb Dafydd.

Yr oedd yn ormod i'w ddisgwyl, efallai, iddo ymateb gyda'r un rhwyddineb i Williams Pantycelyn. Yr oedd hwnnw hefyd wedi cael ei synnu gan yr annisgwyl. Gollyngwyd egni deallol ynddo ef. Ac ymdreiglodd yng nghyhyrau'r iaith. Ond fe feddiannwyd Syr Thomas gan dramgwydd meddyliol yr oedd bron yn amhosibl, oherwydd rhagdybiau'r dirywiad cyfoes mewn deallolrwydd ysbrydol, iddo ei drechu. Bu profiad Williams yn rhy annisgwyl iddo.

Dieithrwch profiad, gwreiddioldeb, beth arall felly a ganoneiddia lenorion fel arfer?

Awgrymaf fod hydeimledd ysbrydol, neu o leiaf ymwybod â gwerthoedd gweledigaethus anghyffredin, ac ymwybod o batrwm perthynas adeiladwaith emosiynau a syniadaeth ac iaith o fewn profiadaeth ddofn, ymysg y cymwysterau arferol gan y canonedig. Dyna'r lle y dylai canonwr fod yn chwilota. Ac yn hynny o beth, ym marn Gwenallt, yr oedd Thomas Parry yn brin ei adnoddau. Anodd y pryd hynny, fel y deil hi o hyd, i haneswyr, yn wir i bob academydd Cymreig, yngan dau air – Iesu Grist – heb dagu: dyn a ddylanwadodd yn fwy ar neb arall ar holl hanes Cymru ar ei hyd, a'r Un yn anad neb a ddarparodd y sylfaen i weledigaeth Gymreig. Gellir darllen llu o lyfrau'n trafod beirniadaeth lenyddol Gymraeg ddiweddar heb ddod ar draws y fath enw dychrynus. Ni chanfu Syr Thomas rym nac ystyr sagrafennaeth ym meddylwaith Dafydd ap Gwilym, na grym y goruwchnaturiol iddo, nac arwyddocâd deallol mawl. Nid oedd a wnelo hyn yn benodol â Dafydd wrth gwrs ond â'n llenyddiaeth yn gyffredinol. Cafodd Syr Thomas ei eni a'i fagu i gymdeithas ddeallol pryd yr oedd y sigl *yn erbyn* yr anweledig wedi ymaflyd fwyfwy ymhlith y lliaws. Doent i geisio anghofio 'crefydd'. Cydymffurfiodd ef yn dawel ddigwestiwn bron â'r symudiad dyneiddiol cwbl anghyfrifol a rhagfarnllyd hwnnw. Ac o'r herwydd, cafodd gryn anhawster i gyd-deimlo nid yn unig â'r traddodiad crefyddol ar ei hyd, eithr â'r ganrif yn union o'i flaen yn arbennig.

Perswadiwyd arddelwyr y drefedigaeth Gymraeg nad oedd dim angen defnyddio'r deall i ymgymryd â darllen traddodiad llenyddol Cymru. Ac yr oedd Syr Thomas o'r unfarn. 'Addurn' oedd y Gynghanedd iddo, heb ddyfnder strwythurol. Nid oedd dim athronyddu ym marddoniaeth Gatholig yr Oesoedd Canol. Nid oedd angen ymgodymu â natur chwaeth clasurol. Ac, yn rhyfeddol, am fod yna oes ddirywiol o safbwynt iaith yn union o'i flaen yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cuddiai honno ryfeddodau ysbrydol yr oedd yn ddoethach gwibio heibio iddynt.

I feirniad seciwlar, tipyn o her i'w ddychymyg beirniadol ac i gyd-deimlad gwerthfawrogol oedd yr hanner canrif anhylaw a ragflaenai'r ugeinfed. Ymdebygai'r beirniaid ddechrau'r 20fed ganrif yn rhyfedd o debyg i gŵn Paflof. A diau bod y bedwaredd ganrif ar bymtheg i Thomas Parry yn fyd a barai dramgwydd go anniddig. Eto, mae'n hollol amlwg i Syr Thomas ymgodymu'n well â hi nag odid neb arall ymhlith ei gyfoeswyr. Rhoddai dair pennod gyfan – fwy nag i'r un ganrif arall – i ymdrin â'r ganrif honno. Meddai: 'y cyfnod mwyaf cynhyrchiol yn holl hanes ein llên, a'r cyfnod a welodd gyfnewidiadau mawr iawn ym mhob agwedd ar fywyd y genedl – yn grefyddol, yn addysgol, yn gymdeithasol, yn wleidyddol. Ni bu mewn unrhyw ganrif arall gynifer o wŷr ymroddgar ac o arweinwyr tanbaid.'

Caed, y mae'n amlwg, ddiffygion diwylliannol dwfn. Yr oedd diwylliant diwydiannol wedi cyrraedd Cymru heb fod gan bobl ein gwlad y ddarpariaeth briodol yn eu hiaith eu hunain na'r gyfundrefn addysgol i fod yn atebol iddo. Yn ddiwinyddol hefyd – heblaw'r dyn-ganolrwydd a'r naturiolaeth gynyddol – mae arnaf ofn fod yr athrawiaeth ddiweddar (ar y pryd) am ddiwygiad a

phietistiaeth hefyd wedi amddifadu'r bobl o sylfeini deallol digonol i ddygymod ag anghenion ac ansicrwydd y cyfnod (a'r cyfnod wedyn) yn y celfyddydau. Anodd oedd adeiladu cwmpasiad a ganfyddai berthynas yr ysbryd a'r byd. Tipyn o eithriad fu Ieuan Glan Geirionydd.

Efallai mai'r frwydr mewn chwaeth yw'r un a achosodd y rhwyg mwyaf – rhwng y traddodiad clasurol ynghynt ac aeddfedrwydd rhamantaidd y cyfnod wedyn, a ddechreuai tua 1859 – ac a barodd golli gwerthoedd a fframwaith cymdeithasol dwfn. Aeth y delyneg yn fwyfwy plentynnaidd erbyn Crwys ac Eifion Wyn. Erbyn y cyfnod diweddar, teg y gellid haeru am y rhan fwyaf o awdlau'r Eisteddfod Genedlaethol ers y chwedegau fod eu ffurf yn ffurf oedolyn, a'u cynnwys yn gynnwys plant. Beth bynnag, gwnaeth Syr Thomas ymdrech lew, wrth sgrifennu tair pennod ar y 19eg ganrif, i ddangos peth o ffrwythlondeb diddorol y ganrif egnïol a chymhleth honno. Tybiaf fod y diffygion chwaeth ym maes estheteg wedi bod yn drech na gallu rhai o'n beirniaid i weld cymaint rhagorach oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg na'r cyfnod 1530-1730, dyweder.

Thomas Parry oedd un o'r rhai mwyaf sylweddol i atrefnu'r farn fwyaf pwyllog a chatholig ynghylch canrif lle'r oedd ei ragdybiau ei hun yn bur anghysurus.

Wrth sôn ar ddechrau'r ysgrif hon am yr 'Annisgwyl' fel un o briodoleddau disgwyliedig canon yn y cyd-destun rhyngwladol, meddwl yr oeddwn am unigolion eithriadol. Ond rhan o wasanaeth arbennig Syr Thomas yn ei *Hanes Llenyddiaeth* oedd gosod y bedwaredd ganrif ar bymtheg (o bob peth) yn grwn o fewn y Canon Cymraeg. Hynny yw, canfu barhad a pherthynas y Canon o fewn traddodiad dylanwadol a barchai hyd yn oed y ganrif chwithig-ei-thraddodiad honno. Tyfodd ffasiwn, fel y nodais, nid yn unig i ddifrïo'r ganrif honno ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, eithr hefyd i'w hanwybyddu a'i diarddel pe gellid. Fe ganfyddai Syr Thomas yn rheitiach ei pherthynas gadarn, nid yn unig â Goronwy Owen, eithr hefyd â Phantycelyn, a'r traddodiad gwerinol rhydd. Gwrogai hefyd i unigolion nodedig a fynnai drechu'r goreiriogrwydd trymaidd o'u deutu. Cyffyrddodd â'r gwahanglwyf yn dirion.

Yn ôl y ddelwedd ohoni'i hun a greodd y ganrif, yr hyn a ddisgwylid gan ddarllenydd fyddai mawreddogrwydd gor-urddasol a thrwm. Hyn a bwysleisiai rhai haneswyr. Weithiau, bydd haneswyr – gyda pheth cyfiawnhad newyddiaduraidd – yn tyrchu am ddiflastod. Ond mae'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn hwylio ymlaen er eu gwaethaf. Yr hyn sy'n annisgwyl – ac a'm syfrdanodd i, rhaid cyfaddef, wrth ddethol Blodeugerdd ohoni i Gyhoeddiadau Barddas – oedd symlder ac ysgafnder llawer iawn o ganu'r ganrif. Yn ei gyflwyniad i farddoniaeth y ganrif, nid yn unig yr oedd Thomas Parry'n ymarferol ymwrthod â'r trymder honedig, fe bwysleisiai yntau gyfraniad yr emyn a'r garol, y canu gwerin a'r delyneg ramantaidd, a'u gosod yn rhediad y Canon Cymraeg. Yn ei Chymreictod, yr oedd y ganrif yn unigryw annisgwyl.

Dichon (beth bynnag am ei henw drwg) mai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n darparu'r corff mwyaf o ganu ysgafn canonaidd o bob canrif cyn yr ugeinfed. Tipyn yn annisgwyl yw 'Gorfoledd am gael cynhaeaf adref' gan Daniel Ddu, 'Canmoliaeth y Bardd i'w Gariad', gan Wilym Morganwg, peth o ganu ceidwadol Dewi Wyn (mewn cywyddau) a Chaledfryn, damhegion Nicander, heb sôn am brydyddion gwerinol fel Glaslyn, Glasynys, Talhaiarn, Absalom Roberts, Ellis Owen, Cawrdaf, Dewi Havhesp, Gwydderig, ac eraill lawer. Hi – diolch i Griffith Jones a Phantycelyn – oedd canrif fawr ac unigryw y gwerinwr diwylliedig. Caed dysg – heb addysg ffurfiol drefnedig. Ac fe gafodd honno le nid am resymau hanesyddol bondigrybwyll ond oherwydd rhagoriaethau esthetig a darpariaeth Feiblaidd. Nis cafwyd ynghynt, ac nis ceir eto, i'r un graddau. Hi a greodd fyth 'gwlad beirdd a chantorion'. Haedda'i thaeogrwydd a'i bydolrwydd ein dirmyg a'n gwawd; haedda'i hwyl a'i hyder ein parch. A haedda Ann Griffiths, Eben Fardd, ac Islwyn wrogaeth gan y mwyaf ofnus ohonom.

Nid cymwynas i neb fu'r duedd ddiweddar i beidio â chanfod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn anrhydeddus yn ôl termau Canon ystyrlon. Gwnaeth Syr Thomas beth o'r gwaith angenrheidiol o'i hailsefydlu. Tynnodd ei reddfau at y gamp. Cynneddf cenedl daeog fu ac yw ceisio ymwared â safon, ac ymgyfyngu i sôn am boblogrwydd a ffasiwn, heb arddel gwerthoedd sydd yn y bôn yn rhyngwladol ac uwchgenedlaethol. Ond os na bydd canon Cymru'n diogelu gwerthoedd sy'n gatholig, yn ddeallol gryf, ac yn darparu pegynau chwaeth catholig, bydd yr iaith islaw dirmyg. Caiff fod yn ysgafn. Caiff blesio'r plant. Caiff odli hyd yn oed. Ond ni bydd yn haeddu ein hystyriaeth.

Y CANON AC UN GANRIF

Er mor anghytbwys, haedda'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fwy o sylw oherwydd yr egwyddorion cyffredinol a gyfyd ynghylch chwaeth a syniadaeth Syr Thomas. Beth bynnag am ei ddyddiad geni, yr oedd traed Thomas Parry yn gadarn yn neng mlynedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceisiai fod yn grwn yn ei fydolwg. Perthynai i'r adwaith yn erbyn sychdduwioldeb a rhagrith, yn erbyn culni diddordebau a darddai o gulni addysgol. Yn gymdeithasol yr oedd ganddo gydymdeimlad â 'gweithwyr llaw' ac yn erbyn tlodi anghyfiawn y dosbarth gweithiol. Er na pherthynai i Gymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen (1886), bu'n ddisgybl i un a fu yno. Yn ei addysg, dyma'r ateb swyddogol ar y pryd i broblemau'i fyd agosaf. Credai felly o ran iaith mewn sillafu'n gywir ac mewn bod yn ramadegol. Teimlai bwysau hanesyddiaeth gronolegol heb lawer o syniadaeth. Gŵr canol y ffordd oedd. Roedd disgyblaeth ymddygiad yn wedd ar ddisgyblaeth cymeriad. Ac fe'i haddysgwyd ynghylch cywyddwyr a'r iaith Gymraeg yn daclus drwy Saesneg gorau J. Morris-Jones. Rhaid cyfaddef: ar y pryd, chwiliai'r ysgolheigion ffasiynol cyfoes am ateb pur 'elfennol'. Ni wyddent beth oedd yr ochr arall i geiniog Moderniaeth, mudiad heriol yr oeddent yn ei ganol. Ni wyddent am ddiffyg gwerthoedd (tybiedig) Nietzsche. Ni wyddent wrth gwrs eto am *pissoir* gwag Duchamp nac am *Dada* a'i eiriau siawns: sef eu cyfoeswyr. Nid ymestynnent yn ddeallol i'r prifbethau a oedd yn digwydd yn Ewrob ar y pryd, y tu ôl i Gyfalafiaeth, y tu ôl i Sosialaeth. Ystyr Moderniaeth i'r Cymry oedd rhywbeth 'diniwed' fel peidio â chredu'r Beibl; ac esgymuno Dewi Wyn o Eifion a William Owen Pughe o'r gymuned ddeallol. Rhagdybiau blynyddoedd olaf ofnadwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd cynefin syniadol Thomas Parry. Ac ymhlith y rhagdybiau hynny, fe gaed alltudio'r ganrif honno benbwygilydd fel llwybr tua'r Eldorado. Gwiw i rywrai ei thaflu o'r canon. Symleiddiad o ddatrysiad hylaw oedd hyn. Mewn gwirionedd, gwedd ddiwygiol ar Ramantiaeth oedd Moderniaeth. Dôi ag awra o wyddoniaeth i Gymru – dipyn o awra i genedl o weision.

Dyna a 'olchai' feddwl ei gyfnod. Ac ymatebodd Thomas Parry i'r fath gyflyru mewn modd nodweddiadol – yn deg, yn gytbwys, ac yn bwyllog.Yr wyf yn synied ei fod yn barnu mai Lewis Edwards oedd Cymro mwyaf y ganrif cynt, gŵr tebyg iddo ef ei hun, ar ganol y ffordd: yn ofalus, yn ymroddgar, yn alluog. Hwnnw, yn ddiau, oedd addewid fwyaf y ganrif, yn ddeallol. Ond mewn cymhariaeth athrylithgar rhwng Edmwnd Prys a Lewis Edwards, dywedodd Syr Thomas, 'Y gwahaniaeth amlwg yw bod Prys yn hen gyfarwydd ag arferion llenyddol traddodiadol ei wlad, a Lewis Edwards heb wybod ond am ryw bedwar neu bump o'r prif ddynion.' Dwfn iawn oedd y diffyg hwn yn ei fryd ef. Ac ni all neb ddeall Lewis Edwards heb ei gydnabod. Rwy'n credu y gallai Syr Thomas fod wedi cyfosod trydydd ffigur ochr yn ochr â'r ddau yna: sef John Morris-Jones, y

gŵr a adferodd yr wybodaeth goll ymhlith y genhedlaeth newydd drwy gyfrwng ei gofgolofnau enfawr W*elsh Grammar, Cerdd Dafod, Taliesin.* Y rhain oedd yr adwaith ymddangosiadol ystyrlon, y farn 'wyddonol' a'r adferiad: ac eto, yr awra o hyd. Ac yn y rheng ryfedd honno, yn erbyn canrif elyniaethus yn ei hanwybodaeth a'i diffyg gwreiddiau, y safai, gyda Syr John, Syr Thomas.

Nid oedd yn dda gan Syr Thomas, yn wahanol i Lewis Edwards, synfyfyrio'n hirfaith nac athronyddu'n ddwysbwyll. Y darn pwysicaf a mwyaf arwyddocaol o fyfyrdod ac o gyffredinoli ynghylch ei wreiddiau meddyliol oedd y tudalennau 12-31 'Y Cefndir Agos' yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945.* Dyma'r cefndir a gyffyrddodd ag ef ddyfnaf. Ond ei anianawd sownd ei hun (a'i ddeallusrwydd) a'i harweiniodd ef i ddechrau adfer a gwneud iawn i ganrif yr oedd hi wedi bod yn wiriondeb i ymwrthod â hi, beth bynnag.

Gwaith cyntaf beirniad yw chwilio am ragoriaeth.

Diddorol sylwi fel y bu rhywrai ar y pryd yn ceisio adfer lle yn y Canon hyd yn oed i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oeddent yn ceisio cydnabod ceinder, hyd yn oed fawredd annisgwyl ynghanol y llwydni diarbed. Dau fardd yn arbennig, Robert ab Gwilym Ddu ac Eben Fardd, yw'r ddau y gwnaethpwyd ymdrech i'w cydnabod yn werthfawr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif: cynnyrch gwerin Griffith Jones a Phantycelyn. Meddai W.J. Gruffydd am Robert ab Gwilym Ddu: 'perffeithydd yr englyn'. Hyd yn oed yn ei amser ei hun yr oedd Caledfryn a Nicander yn meddwl yn uchel iawn amdano fel bardd clasurol. Yr hyn a wnaeth Thomas Parry ynglŷn â chanoneiddio oedd gosod beirdd fel Robert ab Gwilym Ddu ac Eben Fardd o fewn cyd-destun yr oesoedd a'r holl draddodiad cydlynol. Ef o'i genhedlaeth oedd y cyntaf i wneud hynny'n bwyllog. Amdanynt hwy yr ymglymai Cerdd Dafod, yr emynyddiaeth, y mawl lleol, y canu gwerin, a hyd yn oed y canu natur newydd Rhamantaidd. Roeddent, er yn llai eu cyraeddiadau mewn dysg draddodiadol efallai, yn gyfysgwydd ar dro â rhai o fawrion yr Oes Aur.

Yn wir, sylwer ar werthusiad Thomas Parry o Eben Fardd, un o feirdd mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg: *Y mae i Eben Fardd y clod o fod wedi ysgrifennu'r awdl eisteddfodol orau o'r cwbl i gyd, sef 'Dinystr Jerusalem' a enillodd yn y Trallwng ym 1824. Y mae i'r gerdd hon amryw rinweddau: cynllun diffiniedig, nerth disgrifiadol, urddas cyson, a mydryddiaeth lân a medrus... Er ennill profiad fel bardd a beirniad, ni chanodd ddim cystal â 'Dinystr Jerusalem', cynnyrch 21 oed.*

Diau fod Thomas Parry yn llygad ei le mai dyna awdl orau'r ganrif, heblaw am waith J. Morris-Jones ei hun o bosib. Mae'r detholiad o rinweddau, a ddewisai i'w canmol, yn graff os yn gonfensiynol. Ond nid yw'r awdlau, namyn o'r braidd, yn cyrraedd y Canon. Nis disgwylid yn fwy. O safbwynt y canon, nid oedd yr Eisteddfod yn bod chwaith, ond ar siawns, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg: maes pori cyfoethog i haneswyr oedd o hyd. Porthiant oedd i amgyffred israddoldeb.

Eto, er dyfarnu Eben yn briodol iawn ymhlith y gorau yn y ganrif honno, nid ei Awdl o bell

ffordd oedd camp ei awen. Cynhwyswyd dwsin o'i gerddi gennyf ym Mlodeugerdd y 19G, a'i Awdl yw'r gerdd leiaf boddhaol o'r cwbl, er gwaethaf ei rhagoriaethau. Fe geid mewn telynegion eraill ganddo wir fardd, a'i hydeimledd i naws geiriau, a'i fedr i gorffori'i brudd-derau mewn iaith deimladol gynnil yn rhagorach o lawer na 'Dinystr Jerusalem'. Llwyddodd i drechu'r rhethreg Oronwyaidd, a ffoi rhag y mawreddog. Carwn dynnu sylw at un nodwedd fechan go esoterig ac od, efallai, ac eto elfen sy'n taflu peth goleuni ar un o'i briodoleddau dyfnaf. Mae a wnelo â'i chwaeth rhythmig ac yn cyd-fynd ag ieithwedd seml uniongyrchol glasurol Eben. Roedd ei hydeimledd rhythmig (megis yn achos Ann Griffiths, ond am resymau eraill) yn amheuthun yn ei gyfnod. Cyfeiriaf at ddwy gerdd grefftus yn unig i enghreifftio'r llinellau o eiriau unsill a geir yn ei waith. Dyma gwirc arddulliol go ddistadl, gellid ei feddwl: nodaf res, er hynny, o linellau gwahân – yn gyntaf mewn cywydd – 'Cywydd Ymweliad â Llangybi'. Er mor ddistadl y pwynt, mae'n dadlennu clust hyfforddedig a meingoeth:

*Yn wir ar dy dir yn dod/ Deil eu llwch, nes y dêl llaw/ I gwr ei llawr a'i gro llwyd/ Ag aidd llon, eu gwedd a'u llais/ Yn y llawr llwch y naill a'r llall/ Hyd yr hen Lan, – hi dry'n wledd/ Duw i fy rhan! Â'i dwfr rhydd/ Y mwyn ŵr, mae yn ei arch/ Am hir dalm gyda'i Salm Sul/ A iach o bryd, uwch ei braidd/ Yr un fath yw yr hen fainc/ Ond, O Dduw ne! P'le mae'r plant/ Fu yn eu cylch ar y fainc hon/ Un i'w le yn yr hen wlad.*

Un wennol ni wna wanwyn; ond y mae deunaw yn ei wneud, er mai annisgwyl yn y ganrif honno oeddent. Clywai nerth ac amrywiaeth y fan yma. Ac yna, mewn telyneg rydd 10 pennill x 4 llinell:

*Fe aeth o'r tŷ dan gau y ddôr/ Do, do, fe aeth o gam i gam/ At fwrdd y llong o dŷ ei fam/ A'r llong yn gwneud ei ffordd yn gynt/ O don i don fe aeth i dir/ Roedd lliw y môr, a'r haul, a'r hin/ Oll wedi 'mroi i'w droi a'i drin/ Nid lliw y byd ond lliw y bedd.*

Credaf fod y nodwedd nid cyffredin hon (yn y Gymraeg) yn ddadlennol, a mentrais amlhau enghreifftiau. Wrth gwrs, y mae'r duedd arddulliol hon yn symptom o rywbeth mwy. Adlewyrcha flingo a thocio meddyliol a seiniol mewn cyfnod a'i cymerai'i hun o ddifrif. Roedd Eben yn greadur seicolegol hunangystwyol. Peth amheuthun a phrin yw hyn yn y Gymraeg (mewn rhai cyfnodau). Mae'r Gymraeg, fel y nodais rywbryd ynghynt, yn felltithiol o amddifad o odlau unsill nes bod hyrdi-gyrdi'r un seiniau olaf mewn llinell yn merwino clust: dyna pam y mae proest, odli generig, ac odli diacen/acennog mor bwysig i Gymry. Rhydd yr unsill gryfder a gloywder, dwy o'r rhagoriaethau yn yr un ar ddeg o gerddi a gynhwyswyd ym *Mlodeugerdd y 19G* ochr y ochr â'r Awdl. Nodwedd Seisnig iawn yw unsillrwydd fel arfer, ond un yw o'r 'benthyciadau' neu'n well y 'tebygrwyddau' gan Eben sy'n effeithiol blaen a chyfoethogol. Ceir ymdeimlad gwydn o wrywaidd ganddo, a'i rythmau'n noeth ac yn gyhyrog. Ceir astudiaeth estynedig ar y nodwedd ryfedd hon gan

Eric Griffiths yn Nhrafodion yr Academi Brydeinig, 1993, lle y dywedir 'George Gascoigne recommends adding monosyllables to compositions as enrichments of ethnic flavour, stock cubes'...'strong lines, plain speech'... Ceir clustfeinio sensitif yn y sylw yna, os cyfarwyddyd braidd yn beirianyddol. Mewn gwirionedd, yn y Gymraeg y mae'r llinellau unsill yn gallu bod yn fwy trawaidd byth, ac yn fwy seiniol ddiddorol nag mewn ieithoedd eraill oherwydd y cefndir cynganeddol. Mae perthynas sŵn ac ystyr yn feinwe unigryw yn y Gymraeg mewn cyd-batrwm anrhydeddus; ac y mae Eben yn mynych anrhydeddu sain fel y dylid ei wneud mewn barddoniaeth.

Trafferth y telynegwyr Sioraidd a fu'n bla yng Nghymru oedd symleiddio'r ymwybod o sain mewn modd mor druenus, fel bod odl a mydr o bob math wedi disgyrchu i lefel gyfyngedig wasaidd. Gwedd oedd ar eu sentimentaliaeth ac ar eu gwendid deallol. Ond yn y fan yma gan Eben Fardd, mae'n gallu syrthio fel bom. Weithiau, gall y distadl fel hyn oleuo hyd y oed Canon.

Dyry Thomas Parry bwyslais craff ar waith Robert ab Gwilym Ddu yntau hefyd, un arall o sêr canrif y mae rhai yn dal i swilio yn ei chylch yn ôl y ffasiwn wedyn. Mae beirniadaeth Thomas Parry arno, er yn gryno, yn deilwng ac yn safadwy. Er bod yr hanesydd ynddo ar achlysuron eraill (megis dechrau'r 20fed G yn y Flodeugerdd) yn ei wthio'n rhy aml i resymu ac i ymdroi'n ormodol gyda sothach, yn achos **llwyddiannau'r** ganrif cynt y mae ei glust yn effro fyw.

Enghraifft o ddiffyg hyder rhai (nid Syr Thomas) yw nad ydym yn pwysleisio o'r hanner werthfawredd yr englyn, yn arbennig yn achos Robert ab Gwilym Ddu. Nid drwy ddamwain y parhaodd hwnnw dros fil o flynyddoedd. Fel yr 'haiku' Siapaneaidd, – yn wir, yn fwy nag ef – y mae i'r englyn swyn a gorchest eithriadol o wych er bod yr haiku ei hun yn gywreiniach o lawer nag a awgrymir gan gyfieithiadau. Ac wrth gwrs, y gynghanedd ei hun yw mwy na chwarter rhyfeddod yr englyn. Mae yna batrymau o ailadrodd amrywiol ynddo'n fynych sydd oherwydd eu bod yn wrthundonog yn goleuo ystyr yn befriol. Drwy gyfateb gwahanol rannau ymadrodd fe blethir ffwythiannau cyferbyniol fel y bo'r perthnasoedd seiniol ac ystyrol yn deffro'i gilydd. Medr gramadeg a'r patrymau cyseiniol ac odlog gyda'i gilydd gyfoethogi meddwl syn yr englyn. Gwir nad oes, i'r seiniau, synnwyr ynddynt eu hunain (o leiaf ar yr wyneb). Eto, wrth ennill ystyr a chyfundrefn mewn Mynegiant, y mae'r cyfuniad yn ennill llawer mwy nag ailadrodd llythrennol moel. Rhan fawr o'r synnwyr seiniol yw ymwybod o drefn dreiddgar. Mae yna broses o ryngweithredu, a'r cyfatebiaethau cymesur yn cael eu hanrhydeddu. A threfn yn cael ei dyrchafu.

Y mae i'r englyn unigol – y gerdd unigol fechan hon – le mawrhydig mirain ym marddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bron mor arbennig ag yn nhrydydd traean yr ugeinfed ganrif. Mae gorffwysfa pob llinell, y goferu achlysurol, y cyferbyniad rhwng y llinell hir (y paladr) a'r ddwy linell fer, ynghyd â'r amrywio cytseiniol o fewn patrwm o ailadrodd 'caeth' yn gallu bod weithiau yn gyfareddol. Dichon mai Robert ab Gwilym Ddu (1766-1850) oedd

pencampwr y ganrif honno, ac ar hyd ein hanes, cyn yr ugeinfed: cymerer y weddi hon –

*Drwy'r hoelion, a'r coroni, – draw, a'i gur,*
*Drwy y gwawd a'r poeri,*
*Drwy y gwinegr, dir gyni,*
*Drwy ei boen fawr, derbyn fi.*

Yn y llinell gyntaf, mae'r gair 'draw' yn codi amheuon. Digon teg: gair llanw ymddangosiadol er mwyn cytseiniaid, neu nam bygythiol, yw. Ac eto, mae ei ynysrwydd yn cyferbynnu â llinell olaf y pennill. Wedi'r ailadrodd 'drwy' hyn a'r llall, a'r sengi rhwystrol 'dir gyni', daw'r gair pwysleisiedig 'fi'. A chawn y cyferbyniad – y pell a'r agos. A datgelu a wna ddyfnder yr iawn ysbrydol personol, a fframwaith ingol yr englyn. Dau begwn mawr bod, a phechod, a pherthynas. Y mae'r arddodiad yna 'drwy' hefyd yn esbonio cymaint o'r athrawiaeth a saif rhwng y 'draw' a'r 'fi', ac mae'r ieithwedd yn arw gnawdol ar hyd y ffordd.

Mae'r gyfres englynion 'Crist ar y Groes' wedyn yn gyffelyb, o ran dwyster a bachogrwydd, bob un: megis '*A'i boen oedd ein beiau ni*.' Dyma linell o'r englyn cyntaf yn y rhediad. Mae cyfuniad y ffactorau a nodais sy'n arwain at y fath linell olaf farmorog yn wir wyrthiol. A'r un fath ym mhob un o'r llinellau clo: *A'i Dduwdod gadd ei wawdio/ Gwaedodd y bendigedig!/ Ni bydd un mewn bedd yn ôl.*

Gwyddai Robert ab Gwilym Ddu beth yr oedd yn ei wneud. Un o'r ychydig rai. Nid oes ond odid yr un o Feirdd yr Uchelwyr a ddaeth yn gyfartal â'r bardd ysbrydol hwn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth lunio englynion mor wefreiddiol ddwys, na llinellau unigol gyda'r fath weledigaeth seiniol a synhwyrol gyrhaeddbell:

*A'i brofi gan wael bryfyn*
*A barnu Duw gerbron dyn.*

Gyda'r ail linell yna'n adlewyrchu holl ddirywiad y 'radicaliaid' modernaidd Edenaidd. Ac yna, y cwpled rhyfeddol, sy'n crynhoi deall un o'r dadleuon 'syrffedus' yna – o leiaf ym marn rhyddfrydwyr dyneiddiol eu diddordeb ddechrau'r ganrif ddiwethaf, y rhai a hiraethai am 'Ymdeimlad' goddrychol yn hytrach na 'Chynnwys' gwrthrychol:

*Dywedwch faint y Duwdod!*
*Yr un faint yw'r Iawn i fod.*

Mae crynoder y pennill panoramig hwn ynghyd â chrynoder y llinellau, ynghyd â'r gorffwysfeydd a'r adleisio cytseiniol ac odlog, yn gwneud yr englyn yn gyfrwng cwbl ddelfrydol ar gyfer diarhebu. Sôn y mae Robert ab Gwilym Ddu yn yr esgyll hyn am y meirwon:

*Fel y niwl o afael nant*
*Y dison ymadawsant.*

Fe dybiwn fod meistr, os gŵyr amseru'r englyn, yn medru, heb ddweud llawer iawn efallai, drawsffurfio grym y llinellau i beri i'r rhaniadau a'r drefn arafu a gafael, yn syml ddeniadol:

*Myned sydd raid i minnau – drwy wendid,*
*I'r undaith â'm tadau,*
*Mae 'mlinion, hirion oriau*
*A'm nos hir yn ymnesáu.*

Dyna ddifrifwch dwys Robert ab Gwilym Ddu. Nid llai effeithiol yw rhai o englynion beirdd fel Tegidon, Dafydd Ddu, Ioan Madog, Emrys, Taliesin o Eifion, ac ambell gawr bach arall. Dyrchefir pobl gan Gerdd Dafod. **Gwiw y neilltuodd Thomas Parry gamp ffurf yr englyn, yn groes i arfer Blodeugerddwyr cyffredin, yn ei Flodeugerdd ef. Gweithred hynod arwyddocaol o'i welediad.**

Mae'r ffurf hon, sydd mor gryno effeithiol mewn epigramau, yn medru cyflenwi hefyd swyddogaeth wrthgyferbyniol debyg i'r 'jôc'. Caed amseru ynddi, ac uchafbwyntio, a bachu yn yr englynion difrif sy'n effeithiol iawn (megis y'i caed o'r newydd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif), gynt yn nwylo amrywiaeth o awduron ffraeth megis Ellis Owen, Ceiriog, Dewi Havhesb, Trebor Mai, a Gwydderig. Gwedd ar wreiddioldeb a gweledigaeth Thomas Parry fel blodeugerddwr oedd tynnu'r tipyn englyn allan o'i gyd-destun cronolegol, a datgan 'Wele ffurf gawraidd!'

Ond un o gamgymeriadau theori a dealltwriaeth Thomas Parry, pan âi ati i drafod gwaith cynganeddol, oedd ei fod yn trafod cynghanedd a throsiadau fel addurniadau yn unig yn hytrach na'u sylweddoli hefyd ac yn bwysicach fel strwythurau (yn wir, cyfundrefnau) yn cynnal ac yn olrhain meddwl, a theimlad a thraddodiad. Ofnai feddwl yn ormodol ynghylch *natur* ffurf.

Nid oedd Syr Thomas chwaith yn ddigon parod i synfyfyrio'n ormodol am ddryswch *cynnwys* y broblem *Ewropeaidd* ynghylch ffurf ar y pryd. Yn hyn o beth, rhannai'r un cornel gydag R. Williams Parry a Gruffydd. Bod yn llenyddiaeth i bobl mewn oed, heb daeogrwydd gor-ddynwared, fu'r gwaith mwyaf heriol i lenyddiaeth Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel y mae o hyd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn rhyddiaith. Gallai amryw bobl, a oedd yn gorfforol aeddfed ar y pryd, ymddwyn yn bur ddatblygedig mewn crefydd. Ond pan ddoent i drafod hwyl bywyd a pherthynas a theimlad bob dydd y greadigaeth mewn nofelau, fel rhai Daniel Owen neu Gwilym Hiraethog neu Llewelyn Williams – nofelwyr diau ddeallus – bodlonent yn fwy aml nag y dylent ar fod yn fachgennaidd ddireidus ac yn ôl-gynnydd. Ni lwyddent i gymathu diwinyddiaeth â diwylliant. Sut bynnag, dyma'r cyfeiriad gwahanol a newydd yr âi Moderniaeth â Saunders Lewis.

Byddai wedi bod yn gymwynas pe bai Syr Thomas wedi dodi'i fys yn benodol ar y mater hwn. Erys y clwyf hwn gyda ni o hyd, ond mewn ffordd wahanol. Arhosai llawer o'n rhyddiaith storïol (a dramatig) gyfoes tan ddegawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain yn gwbl emosiynol anaeddfed. Nid oedd wedi dringo allan o Seisnigrwydd o ran cefndir ieithyddol a meddyliol. Ymgynhyrfai plant bach o'r wlad (Wow!) o hyd wrth 'fentro' beiddgarwch mewn disgrifiadau rhywiol a 'rhegi'. Prin yw unrhyw fyfyrdod bywiol am berthynas gyfannol rhwng pobl mewn oed,

ac yn yr ymateb a geir gan yr hyn a sgrifennir am 'sioc' a roir i ddeallusrwydd gan y fath gynnwrf. Ni bu'r 'cwlt ieuenctid', cwbl wleidyddol ysywaeth, yn gymorth i roi bri aruthr ar aeddfedrwydd. Noddid glesni llencynnaidd gan obsesiwn yr awdurdodau a'r Sefydliad ynghylch ymgyfyngu fwyfwy i'r hyn a elwid yn 'boblogrwydd' elfennaidd. Ac ystyr hynny i lenorion o gefn gwlad oedd trafod pawb hyd eu bedd fel petaent yn gaeedig o fewn rhychwant tair ar ddeg a phedair ar ddeg, yr oedran fwyaf erchyll a ddyfeisiwyd erioed, o leiaf i roi testunau i gwmpas rhyddiaith storïol aeddfed.

Yr un anaeddfedrwydd (a chynddaredd) sy'n atal beirniaid cyfoes nid yn unig rhag ymdeimlo'n gysurus ymhlith beirdd a nofelwyr sydd braidd yn feddylgar, eithr rhag ymgodymu hefyd am y tro ag unrhyw fath o lenyddiaeth ysbrydol. Gymru, wele dy Sefydliad.

Gwedd arall ar anaeddfedrwydd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd yr ysgrifennu gwleidyddol arswydus o naïf a geid gan S.R., R.J. Derfel, ac Emrys ap Iwan (mae'r bwlch rhwng ei ysgrifau gwleidyddol ansoffistigedig a'r rhai crefyddol yn chwerthinllyd). Saunders Lewis (er ei holl elynion) oedd y cyntaf i sgrifennu ysgrifau am wleidyddiaeth greadigol oedolyn – ganddo ef y ceir yr adroddiad newyddiadurol gorau o'r Ail Ryfel Byd a'r cofnod pwysicaf gan oedolyn o genedlaetholdeb ei gyfnod. Un adran arall yn unig o'n rhyddiaith ar y pryd a oedd wedi aeddfedu'n ddeallol ac a allasai fod wedi rhoi sylfaen eisoes i dyfu. A hynny mewn maes lle y bydd deallusion cyfoes yn fynych yn eu cael eu hunain allan o'u dyfnder. Sef defosiwn.

Ni ellid disgrifio llenyddiaeth Ffrangeg ers y ddeunawfed ganrif fel un o lenyddiaethau mwyaf crefyddol y byd hwn. Ond y mae gan Ffrainc draddodiad nodedig iawn mewn llenyddiaeth ddefosiynol. A golyga hynny fod gan rai o'r llenorion mwyaf 'bydol' diweddar, megis Proust a Baudelaire, Sartre a Camus, Valéry a Gide, gefndir o feddwl yn yr iaith mewn modd a barchai ddimensiwn yr Ysbryd. Enillodd eu gwaith yn ddeallol gyffredinol o'r herwydd. Y tu ôl i ryddiaith a barddoniaeth aeddfetaf Ffrainc yn ddiweddar, caed Pascal a Bossuet, La Bruyère a Fénelon, Buffon a Rousseau. Roedd yna syniadaeth ac ymwybod bod yna rywbeth sylweddol y tu ôl i'r wyneb. A rhoddai hyn urddas ymenyddol. Dôi'r iaith yn gartrefol iddynt gyda'r arfer o feddwl ynddi. Ond ble oedd Cymru? Arweiniai diffyg myfyrdod Cymru am ryddiaith ysbrydol i ddiffyg hyder beirniadol.

Gellid disgwyl bod gan Gymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ryddiaith ddefosiynol fyfyriol go ddatblygedig. Rhwng Geiriadur Charles, Thomas Jones o Ddinbych, myfyrdodau Lewis Edwards, Owen Thomas, Pregethau Henry Rees, ac Ysgrifau Emrys ap Iwan, a llu o rai eraill, gellid ystyried fod gennym bobl mewn oed – o leiaf mewn un maes – wrthi'n ddiwyd. Mae gennym ers Morgan Llwyd draddodiad rhyddiaith ddefosiynol gyson ddigon nodedig, o gofio mai gwlad ddibrifysgol a seicolegol orchfygedig fuom, ac ydym o hyd i raddau. Ni ellid o bell ffordd deimlo'r un hyder wrth ddibynnu ar Daniel Owen ysywaeth yng nghyfnod dechrau'r adfeilio ysbrydol

cynyddol, gan na ddatblygwyd diwinyddiaeth *ddiwylliant* yn sgil y cadernid hwnnw a gafwyd ynghynt. Ni weithiwyd ar sail ein cryfderau.

Aeth person Crist yn beryglus wrthun. Fwyfwy wrth niwlio'r Duw-ddyn, amddifadwyd dyn.

Dyna pam y cloffodd Thomas Parry, fel y sylwodd Gwenallt, wrth geisio simio naws cryn dipyn o'r traddodiad ysbrydol Cymraeg. Roedd yna frwydr – gymedrol – ar gerdded yn ei enaid ei hun. Ac nid dyna'r unig frwydr. Cawn sylwi bod yna ymryson deallol ar gerdded yn ei gefndir beirniadol yn gyson. Brwydr oedd ynddo ef a oedd yn cynrychioli penbleth ei gyfnod oll am Foderniaeth ddiwylliannol ac am Fodernrwydd yr ysbrydol.

Beth bynnag, nid cymwynas i neb fu'r duedd ddiweddar i beidio â gweld y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl termau Canon a safon ystyriol. Ceisiodd Seciwlariaeth feirniadol anwybyddu'r gogwydd defosiynol, wrth gwrs. Oni allwn fyw heb hyn yn yr unfed ganrif ar hugain? Gwnaeth Syr Thomas yn ddiarwybod beth o'r gwaith angenrheidiol o'i ailsefydlu. Caed addewidion am lenyddiaeth i bobl mewn oed o fewn calon Lewis Edwards. Cynneddf cenedl daeog fu ac yw ceisio ymwared â safon, ac ymgyfyngu i sôn am boblogrwydd israddol, heb arddel gwerthoedd sydd yn y bôn yn rhyngwladol ac uwchgenedlaethol. Os na bydd Cymru'n diogelu gwerthoedd sy'n gatholig, yn ddeallol gryf, ac yn darparu pegynau chwaeth, bydd yr iaith islaw dirmyg. Gall fod yn boblogaidd. Ond ni bydd yn haeddu ei hystyried. Gofalodd Thomas Parry fod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o leiaf, yn dal i herio hyd yn oed Cymry diffaith.

Y SGANDALAU

*Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900,* Thomas Parry, 1944; *The Oxford Book of Welsh Verse,* 1962; *Gwaith Dafydd ap Gwilym,* 1952

*Y Sgandal Gyntaf*

Unwaith yn ei hynt hynod (un waith am byth am wn i), bu Prifysgol Cymru yn chwilenna fel cath i gythraul am y gŵr mwyaf disgandal erioed yn hanes ein tipyn cenedl afradlon. Nid tasg hollol hawdd.

Y tu ôl i ddrysau caeedig, mewn seleri yn Llundain, ym meudai gogledd Powys, buwyd wrthi fel lladd nadredd, yn codi pob carreg er mwyn cael spesimen dilychwin. Fe'i cafwyd yn ôl yr arfer, megis yn annamweiniol ar drothwy'r drws, yng nghloddfa ddi-sôn-am-sgandal Academia — y Llyfrgell Genedlaethol. Ble'n rheitiach? Y rhaid oedd dod o hyd i ŵr, ar ôl Goronwy Rees, nad oedd angen sensor arno, gŵr a oedd fel pe bai'n sensor corfforedig ynddo ei hun. Ychydig a wyddid ar y pryd fod y gŵr hwnnw ei hun yntau'n cuddio sgandal, gŵr yr oedd sensorwaith ei hun yn sgandal iddo, gŵr a ddewisodd yn waith testunol i'w fywyd y llenor mwyaf sensoradwy a allai fod.

Ond un prynhawn Sul, ymhell cyn hynny, cafodd Syr Thomas achos dirdynnol. Ysgytwad. Aeth allan i'r gegin a gofyn i'r Fonesig 'beth 'ga-i'i wneud'? 'M!' meddai hi, 'bechgyn!' Ac aeth Syr Thomas yn ôl i'w gell i ymddirdynnu (er nad oedd yn Syr ar y pryd: derbyniodd y dyrchafiad hwnnw ar ôl datrys y broblem). Ble'r oedd ei deyrngarwch mwyach? Ai gyda sêt fawr y Tŵr Gwyn, ynteu gyda didueddrwydd difrycheulyd amhersonol Academia? Gwyddai ble y gorweddai synnwyr cyffredin. 'Allan ag o', meddai ef dan ei anadl. Yr oedd wedi gorfod wynebu darn o waith anystywallt gan Ddafydd ap Gwilym. A brysiodd i'w guddio dan y clustog gyda chopi Goronwy Rees o'r *People.* Ond amyneddgar yw Hafod 2 a Thanybwlch 144. Fe ddaliwyd Syr Thomas felly, wrth iddo ei heglu hi allan drwy ddrws y cefn, gan chwilotwyr digydwybod mwy cydwybodol. 'Dieuog', meddai ef: 'amheus', 'annilys'. Eithr fe geid 'trwynau' yn ail hanner yr ugeinfed ganrif (er gwaethaf rhybudd Syr John); ac ambell un yn feinach beth na'i gilydd. Ac o'r herwydd, daethpwyd â'r dychryn oll i'r fei. Dadlennwyd sgandal Syr Thomas. Ac wrth gwrs, roedd y Gal yn hen boen i guro pawb.

Esiampl fechan yw hyn o'r math o bwysau a geid, yn aberthol, i'r sawl a fyn barhau i gynnal sefydliad. Ac eto, mewn Cymru ddihyder, peth amheuthun – ie, i ysgolheictod a statws – fod gennym fath o 'Sefydliad', er nad yn y maes hwn.

Nawr, gallaf i gydymdeimlo â'r oes, er nad â'r ysgolhaig. Yn ôl cyd-destun cymdeithasol llai 'anfonheddig' (o bosib) na'n dwthwn ni, yr oedd ei chwaeth ef yn briodol anghysurus ynghylch trafod materion o fath y cywydd hwn mewn cwmni cymysg. Nid wyf am fod yn feirniadol ynghylch

safonau'i gyfnod ef fel y cyfryw. Ac yn sicr, ni feiddiwn ei wawdio. Ond ef oedd wedi dewis golygu cyfanwaith i gymeriad go arbennig: sef i lenor mwyaf Cymru erioed. A'i hoffi neu beidio, os oedd Syr Thomas yn ymgymryd â'r dasg gyfrifol ddifrifol honno o olygu cyfanwaith hwnnw, yna ei ddyletswydd ddiamheuol oedd rhoi hydeimledd Tŵr Gwyn o'r neilltu, a gwneud y gorchwyl a fabwysiadodd, yn gyflawn wrthrychol.

Nid wyf yn siŵr sut y gellid disgrifio'r maen tramgwydd ei hun. Mae'r Athro Dafydd Johnston yn defnyddio'r geiriau 'maswedd' ac 'erotica'; ac yn ôl Thomas Williams yr oedd yn 'serth brwnt'. Anodd gennyf i ystyried y gwaith yn bornograffwaith o fath yn y byd. Nid yw wedi'i fwriadu i ennyn y nwydau aflan. Mae'r cwbl yn ffrwydrad o ddychymyg afradlon, ffansïol. Yn wir, mae'n hollol groes i atyniad masweddus go iawn. Os rhywbeth, brolio egnïol yw; gwrthuni chwerthinus; ar y gwaethaf, mae'n sbort bachgennaidd; ac yn anad dim, ceir cywasgedd o'r gynghanedd a'r cyfansoddeiriau a'r trosiadau gwyllt yn ddigon i ymenyddu'r crebwyll yn hytrach nag i gynhyrfu'r chwarennau. Ond problem a sgandal ydoedd i Syr Thomas, yn ddiau. Problem 'sensoriaeth' ynteu glendid croyw diniwed ysgolheigaidd a'i hwynebai'n gyntaf. Sgandal fewnblyg wedyn i'w amseroedd dethol ydoedd, megis ei frwydr feirniadol bersonol rhwng addurniadau yn erbyn strwythur, neu grefft yn erbyn celfyddyd.

Problem hefyd yw i ŵr canol-oed a oedd yn ymhel â thestun adolesent. Tua'r deugain oed y mae gwrywod yn arfer dechrau (er nad bob amser) ymwared â diffyg hunanddisgyblaeth adolesens. Yn achos merched, cyn saithdegau'r ugeinfed ganrif, fe ddigwyddai tua'r pymtheg oed; tua'r pymtheg ar hugain yn ein dyddiau ni. Meddai Syr Thomas am ryddiaith dechrau'r ugeinfed ganrif: '*Y pethau gorau ar lun stori oedd y rheini a luniwyd am blant neu o safbwynt plant'*. Gwyddom oll am hyn yn hanes y *psyche* Cymreig. Yn ddiweddarach, tua'r saithdegau, a hyd heddiw dechreuodd y canol-oed amlhau storïau am lanciau a llancesi tua phymtheg oed o ran anaeddfedrwydd emosiynol. A defnyddid yr ansoddair 'beiddgar' amdanynt. Disgrifiwyd rhai nofelau fel 'mentrus' am eu bod yn cynnwys rhegfeydd. Pan sonnid am gyfathrach rywiol, rhaid oedd wrth disgrifiadau mwy 'eithafol' byth — 'gorfentrus, gorfeiddgar'. Roedd pawb yn sgrifennu'r un fath, fel rhai o'r Gogynfeirdd. Ond y gwir oedd bod llanciau bach a llancesi Sir Feirionydd wedi dechrau darganfod llenyddiaeth adolesent Lloegr, ac wedi meddwl am yr hyn y gellid ei wneud â'r fath hwyl ohoni gartref.

Y gwir feiddgarwch chwyldroadol nas cyrhaeddwyd, sut bynnag, fuasai portreadu am y tro cyntaf ers canrifoedd berthynas aeddfed a datblygedig ac oedolyn, rhwng gwryw a menyw, yn Gymraeg! Hyn bellach a sensoriwyd. Y teulu iach, y berthynas ddofn, ie, cyfanrwydd mewn oed, gyda phobl yn ymddwyn yn ddeallus gyda'i gilydd. Efallai mai hyn a aroglai Syr Thomas o bell. Dyna fuasai'n ddiddanwch gwir sioclyd mwyach. Nid yr un siocio â siocio'r ganrif cynt.

Beth a ddigwyddodd i Gymru yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd ddechrau'r ail ryfel byd?

Fe orseddwyd Parchusrwydd wrth gwrs. Disodlwyd mewnolion gan allanolion crefydd. Aeth credu go iawn allan drwy'r ffenest. Ac i bawb a garai'r rhigolau, bod yn bropor oedd delfryd a dedfryd llenyddiaeth, fel yr aeth y rhigolau i'r pegwn cyferbyniol heddiw. Dyma un broblem enghreifftiol a symbolaidd a gafodd Syr Thomas. Dyma hefyd ddryslwybr lle yr aeth yr Athro ar goll. Profodd yn ormod iddo, ac i'w genhedlaeth.

*Yr Ail Sgandal*

Gwnaeth Thomas Parry lawer o bethau sefydliadol. Ac yntau'n etifedd i gadair Syr John ym Mangor, ac yna'n Llyfrgellydd Cenedlaethol, wedyn yn Brifathro ar Brifysgol Aberystwyth, yr oedd yn gyfrifol am gynhyrchu sawl cofgolofn anferth. Ysgrifennai'r Hanes Llenyddiaeth Gymraeg gyntaf safonol ar ei hyd yn y cyfnod modern; golygai waith Dafydd ap Gwilym ein prif fardd mewn argraffiad safonol; golygai *The Oxford Book of Welsh Verse,* y gyfrol gyntaf (ac olaf hyd heddiw) sy'n cynnwys detholiad safonol o'r cwbl o'r traddodiad llenyddol o'r chweched hyd yr ugeinfed ganrif. Cyflawniad mawr – a chyfrifoldeb mawr.

Pan feirniadodd Gwenallt yntau Thomas Parry oherwydd prinder ei sylw i'r elfen grefyddol yn y traddodiad Cymraeg, mae'n bur debyg ei fod yn synied yn bennaf am grefydd fel 'pwnc' neu 'destun'. Ond y mae'r amddifadrwydd crefyddol hwn yn ddyfnach na hynny. Yn achos cenhedlaeth Thomas Parry y mae a wnelo â dealltwriaeth o natur a naws yr ymwybod Cymraeg dwfn o bwrpas barddoniaeth. Gwyddai Gwenallt hyn hefyd. Roedd rhagdybiau Thomas Parry wedi'i amddifadu'i hun o amgyffrediad deallol arbennig. Nid pwnc yw Mawl. Tardda yn y llafur artistig sy'n cyffwrdd ag ymateb i fodolaeth yn ôl y creadigrwydd dwyfol. Heb wybod am Ras Cyffredin, efallai, y mae bodolaeth y ddaear, hyd yn oed i bobl seciwlar, mewn modd sylfaenol iawn yn cael ei dathlu gan artistiaid mor uniongyrchol foliannus eu crefft â beirdd y Tywysogion a beirdd yr Uchelwyr— ac yn y Gymraeg yn cael ei dathlu'n fwy ymwybodol nag mewn llenyddiaethau eraill. Wrth geisio prydferthwch trefnedig Cerdd Dafod, wrth fawrygu harddwch haelioni'r uchelwr, wrth ymhyfrydu yng ngolwg y ferch, y mae celfyddyd yn moesymgrymu i rinweddau mwy cydlynol na 'deunydd' uniongyrchol grefyddol. Dyma'r ysblander ffurf (*splendor formae*) y soniai Aquinas amdano, a Maritain, a Rowan Williams ar eu hôl. Yr oedd y traddodiad Cymraeg yn corffori gwybodaeth fetaffusegol yn ei fawl mewn modd mwy soffistigedig ymwybodol nag odid yr un traddodiad llenyddol Ewropeaidd arall. Canfyddai hyd yn oed Dafydd ap Gwilym ei hun ddelweddau'r uchelwr a'r ferch — er ei waethaf ei hun — o fewn cyd-destun trosgynnol. Yr oedd gwrando'r mawl hwn ar ran y gynulleidfa draddodiadol yn brofiad dwfn o gymundeb â chywair ac â dimensiwn y bywyd mewnol yn y greadigaeth. Dyna'n fframwaith meddyliol beirniadol safonol Cymraeg, ei hoffi neu

beidio: y Sefydliad.

Hyn a sylweddolai Saunders Lewis, wrth iddo symud ymlaen, ac yn ddyfnach i'w ddealltwriaeth o'n traddodiad rhyfedd. Canfyddai rywbeth amgenach na'r 'uniongrededd crefyddol'. Canfyddai'r artistiaid Cymraeg yn trafod metamorffosis o wrthrychau'u myfyrdod, ac yn creu ysbryd cenedl.

Daw hyn yn amlwg wir wrth i Thomas Parry drafod y cyfnod cynnar mwyaf sagrafennol a chlasurol yn ein traddodiad, sef y canrifoedd hyd at y diwygiad Protestannaidd. Ond wrth i'r hanesydd hwn symud yn ei flaen i'r Diwygiad Methodistaidd ac i 'ddeunydd' athrawiaethol mwy ymwybodol gynhwysol, yr oedd amddifadrwydd ei brofiad a'i wybodaeth yn ei flingo'n fwy. Sylwer ar ymateb Thomas Parry i un o bynciau mawr Saunders Lewis, sef 'pechod'. Nid oedd ganddo ef, ddim mwy nag yr oedd gan Gruffydd, yr un clem beth oedd y ffwdan a wnâi Saunders ynghylch anferthedd ffeithiol 'Pechod'.

Daw i'r amlwg mewn modd trawiadol odiaeth wrth iddo geisio ymgodymu â chynnwys gwaith Pantycelyn. Ni allai wneud pen na chynffon o *Theomemphus.* Ac y mae ei ymateb i ddelwedd a gwybodaeth Pantycelyn yn adlewyrchu anwybodaeth ac arwynebolrwydd crefyddol cwbl eithafol cenhedlaeth gyfan. Methiant oedd i ymateb i'r cyfnod modern Cymraeg. I genhedlaeth seciwlar (ac enwadol) hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, mater o ymddygiad amhriodol, rhywiol yn arbennig, neu yn ymwneud â digwyddiadau megis rhyfel, oedd pechod. Ymddygiad pobl eraill ydoedd gan mwyaf: gweithredoedd amhriodol. I hen bobl, clwyf ydoedd a geid ymhlith pobl ifainc yn arbennig. Ac wrth gwrs, fe'i ceid ganddynt yn sicr. Eithr fe'i hamlygid mewn allanolion ac mewn gweithredoedd diriaethol – yn ogystal ac yn y berthynas â Duw gan yr hen hefyd. Yr oedd yn bresennol, yn gyflwr, ymhobman. Dyma un o ffactorau pwysicaf bodolaeth.

Ond nid profiad na bodolaeth felly, yn unig, ydoedd, wrth gwrs, i Bantycelyn, yn y craidd. Dimensiwn strwythurol oedd. Diffyg perthynas oedd. Sarhad. Treiddiai drwy bob meinwe feddyliol deimladol ac ewyllysiol. Sylwer ar naïfder crefyddol Thomas Parry: (*Y Faner,* Meh. 29, 1973) mewn adolygiad ar waith Saunders Lewis:

*Rhoir pedair pennod o'r llyfr i'r cyfansoddiad rhyfedd hwnnw, "Bywyd a Marwolaeth Theomemphus". Y mae Mr Lewis yn disgrifio Theomemphus cyn ei dröedigaeth, a'i alw yn 'wir ddyn a chanddo holl gymhlethdod person byw'. Y mae'n anodd iawn gennyf i fy hun weld sut y gall y fath anferthwch o bechadur fod yn 'wir ddyn', ond gadawer hynny. Yna ceir hanes y 'byd mewnol', sef meddwl Theomemphus, a gormes rhyw yn rhan amlwg ohono, a'r ffordd y llwyddodd Theomemphus i oresgyn yr ormes honno. Ni allaf i yn fy myw weld fod dim yn y gerdd i awgrymu mai ym meddwl Theomemphus y mae'r holl bethau pechadurus hyn yn digwydd. Rhan ydynt yn hytrach o'r pictiwr o bechadur cwbl afreal y mae Pantycelyn yn ei lunio er mwyn dangos fod gras*

*Duw yn ddigon mawr i achub cawr o droseddwr sydd wedi ymdrybaeddu ym mhob aflendid amgyffredadwy. Ond gadawer hynny hefyd ...*

*Nid yw Pantycelyn mo'r dadansoddwr celfydd ar y profiad crefyddol y mae Mr Lewis yn dweud ei fod. Mewn gair, y mae dyn yn teimlo rhag* [Sic] *ei waethaf fod Williams wedi'i dradyrchafu yn ormodol fel sylwedydd ar y bywyd ysbrydol a hefyd fel bardd.*

Mae'n amlwg nad oedd gan Thomas Parry ddim clem am yr hyn a oedd yn digwydd. Nid oedd yn gallu cyd-edrych gyda Williams o gwbl na dychmygu'n dafluniol ddim oll o'r hyn y soniai'r bardd amdano, na dim am yr hyn a ddigwyddodd i berthynas dyn a Duw, nac ystyr y Groes. Ac nid anneallusrwydd wrth gwrs oedd hyn; ond ymwrthodiad dwfn a threiddgar, yr hyn a elwir yn 'synnwyr cyffredin'. Yr oedd ar donfedd arall... Ond gadawer hynny.

Delwedd wedi'i distyllu o brofiad Williams ei hun oedd Theomemphus yn y mater hwn, bid siŵr, er y gellid honni yr un pryd mai ffuglen wrth gwrs oedd Theomemphus, ffigur hollol fytholegol. Ond sôn yr oedd Williams am un o'r profiadau mwyaf yn ei fywyd, profiad a wyddai Paul yntau amdano i'r dim pan soniai amdano'i hun fel y 'pennaf o'r pechaduriaid'. Dyma erioed wybodaeth y Cristion clasurol wrth reswm gerbron y Gwyndra'i hun. Dechreuad taith y pererin. Argyhoeddiad o aruthredd pechod, yr arwahanrwydd enbyd, y pellter a oedd rhyngddo a'i Dduw, ei sarhad i Dduw, yr anwybyddiaeth, yr hunan-falchder, y ffieidd-dra anghredu, y domen sbwriel o fywyd, y mynydd o aflendid ysbrydol. Canu o'r galon a wnâi Williams yn bur llythrennol er yn drosiadol angerddol yr un pryd. A phechod oedd un o'r pethau allweddol a'i gwnaeth ef yn fardd. Darparai'r ffordd i gyrraedd Duw.

* * *

Dyma, gellid meddwl, y pegwn arall i'r sensoriaeth. Dau *faux pas* a geid yn y maes mawr y cyhuddwyd Thomas Parry gan Gwenallt o'u hesgeuluso. Cafflodd ddwy waith oblegid yr un gwendid — math o sentimentaliaeth oedd y ddwy, y gwyrwyd ar eu hôl gan ddiffyg strwythur meddyliol, peth a all fod yn dramgwydd marwol i artist, sef diffyg Absoliwt.

Amddifadwyd Thomas Parry o ddealltwriaeth am iddo gael ei flingo'n ysbrydol gan genhedlaeth wyrgam. Niweidiwyd ei amgyffrediad, a hyd yn oed y llam mewn dychymyg, i synied sut beth mewn gwirionedd oedd bod ar wahân i Dduw. Barnai grefydd megis plentyn yn ymdroi gyda phlant da a phlant drwg, a phechodau'r papur newydd.

Yn yr ysgrif hon, cyfosodais ddwy sgandal eithafbwyntiol o begynol ynghylch problemau Thomas Parry a gawsai wrth ymgodymu â dau lenor pennaf ein llenyddiaeth — y broblem o olygu cyfanwaith Dafydd ap Gwilym yn onest a'r broblem o werthfawrogi argyhoeddiad o bechod Williams Pantycelyn yn graff. Yn ei ymateb naïf i'r ddwy sgandal hyn, yn y methiant deallol dwbl hwn gyda'i gilydd, yr ymglywn â natur drawsffurfiol ysgolheictod Cymreig dechrau'r ugeinfed

ganrif. Gallasai'n burion fod wedi digwydd hefyd yn rhwydd gyda gŵr mor sgandalaidd â Gruffydd fel yn sicr gyda gŵr mor obsesiynol ddisgandal â Parry Williams. Sef y dwylo yn yr awyr ynghylch dychryn Dafydd, a'r annealltwriaeth ebychnodol wyneb yn wyneb â dychryn dwysaf Pantycelyn. Cymysgai Syr Thomas amharchusrwydd â gwir sylweddoliad o'r drwg. Rywfodd felly, yr oedd rhyddfrydiaeth lydan ddi-Absoliwt ond etifeddol allanol dechrau'r ugeinfed ganrif yn cael ei mynegi yng ngwaith Syr Thomas mewn modd diffiniol; ceid poenau-tyfu relatifrwydd ein hoes ni. Mewn gwirionedd, yr oedd safonau beirniadol y cyfnod mewn mwy o gawdel o lawer na *diwedd* y bedwaredd ganrif ar bymtheg ei hun, pryd y cyfunwyd y ddwy sgandal yn hwylus wrth sensorio *Cyfarwyddwr Priodas* Williams Pantycelyn druan.

A! hiraeth am yr hen broblemau!

CATHOLIGRWYDD

Daeth Thomas Parry'n feirniad pan oedd angen ar Feirniadaeth Gymraeg am gadernid megis craig o'r chwarel.

Gallai hanesydd llên yn y dyfodol synied mai ymchwilydd pellweledol oedd Thomas Parry, yn barod i'n gwarchod oll yn yr unfed ganrif ar hugain rhag y taeogrwydd a ddôi ar ein gwarthaf ar ei ôl, i ddynwared llenyddiaeth Saesneg ym mhopeth. Y gwir yw ei fod wedi'i wreiddio'n hyfedr yng ngwaith chwyldroadol J. Morris-Jones yn hanner cynta'r ganrif (a'r ganrif cynt). Cadwedigion anturiaethus oeddent. Ac mewn achos o'r fath roedd y cyfryw osgo yn sicr o godi bwgan ceidwadaeth. I'm bryd i, gyda Syr John a Syr Thomas, eu hymgais sylfaenol a syfrdanol oedd i wreiddio'r dyfodol yn sicr 'wahaniaethus' mewn Cymreictod meddyliol, ac i gysylltu'r gwahaniaeth â'r undod.

Ac felly buont ar ryw olwg yn wrth-geidwadol. Hynny yw, mab llenyddol i arloeswr Cymraeg ystyfnig, a ddarganfyddai'n rhyfeddol y traddodiad, oedd Thomas Parry. Etifeddodd awdurdod John Morris-Jones. A Chymreictod newydd oedd eu Chwyldro ill dau. *Syndod* fel yr oedd adwaith ceidwadol Syr John a Syr Thomas, mor gwbl yn erbyn y gorffennol taeog agos, ac felly'n digwydd bod yn adwaith yn erbyn y dyfodol amwys hefyd.

Credent, ac mi gredaf eu bod yn llygad eu lle yn hyn o osgo, mai drwy wreiddio o'r newydd yn nhraddodiad bythol newydd ac eang Einion Offeiriad a Simwnt Fychan y llwyddid yn feirniadol. Dyna sut y gellid troi Cymru ben i waered yn Gymreig. Felly y dôi iechyd llên o hyd i fywyd a gwreiddioldeb ac i drechu'r gorthrwm anhygoel a oedd ynghynt, ac sydd bellach wedi disgyn yn wlithog arnom o gyfeiriad America. Drwy wreiddio yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed y gall meddwl Cymraeg o hyd gadw'i newydd-deb. Dyna farn Saunders Lewis yntau. Tair magnel y Canon yn yr ugeinfed ganrif oedd y triwyr hyn. Ac Einion a Simwnt a ddilysodd driawd John Morris-Jones, Saunders Lewis, a Thomas Parry: Traddodiad Taliesin a ffrwydrai yn eu gwythiennau. Chwiliasant am egwyddorion beirniadaeth yn nhraddodiad Cerdd Dafod ac am ganon yr iaith lenyddol yn gyntaf. Hyn oedd eu gwreiddioldeb a'u Cymreictod.

Yn ei deyrngarwch i'r 'goddefiadau', hanes y Gynghanedd a'r Awdl a'r Cywydd; ac yn drydydd, yn ei ragymadrodd ar y cynganeddion yn argraffiad Dafydd ap Gwilym, rhaid cyfrif Thomas Parry yn gydymaith amseryddol i'r ddau arall a enwais, o ran ei fyfyrdod a'i weledigaeth, ond yn drydydd pwysig iddynt. Dyma dri ban mynyddig canoniaeth Cymru.

Ond adfywio Cymru felly!

Gwerthuso oedd canolbwynt y sialens. Roedd canon yno ar gyfer saethu gwerthoedd at drendïaeth ystrydebol neu geidwadaeth wasaidd; a gwiw inni o hyd wrando arno. Diau fod y fath

beth â gwerthfawredd sy'n ymarferol anochel. Anwybodaeth fuasai popeth arall.

Bob amser, bydd y medr treiddgar i werthuso neu i ganoneiddio yn gwthio tua Chatholigrwydd cydymdeimlad, gwybodaeth eang, dibyniaeth gwreiddiau, ac annibyniaeth barn; a hyn sy'n porthi'r angen ingol i ymaflyd yng nghanolbwynt disgyrchiant safonau Cymru, i agor ein gorwelion i'r hollfyd heb gael ein chwythu oddi ar ein traed. Catholigrwydd oedd yr unig lwybr call i feirniadaeth lenyddol Cymru ei ddilyn.

Bydd rhai yn synied, os ydych yn hoffi cennin Ceredigion, fod yn rhaid felly ichi gasáu caws Caerffili. Llwyddodd Thomas Parry i wneud pryd o'r ddau gyda'i gilydd. Yr oedd wedi dangos lled ei gydymdeimlad wrth gyhoeddi *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*, a bod y sawl sy'n sicr ei werthoedd (ac yn wybodus) yng Nghymru'r traddodiad mawr yn gallu ymdrin yn werthfawrogol â phresenoldeb angenrheidiol a bywiol yr arwynebolion ysgafn. Cynrychiolai'r canu gwerinol poblogaidd y ffaith fframweithiol o lenyddiaeth ddeuol a allai beidio ag ymwahanu'n wrthwynebus.

Drwyddo fe gadwyd y chwaeth cenedlaethol felly, gan y person mwyaf addas yn ein gwlad. Ceidwadwr o'r ceidwadwyr oedd o ran anianawd nerfus, ond heb fod yn ddigydymdeimlad â'r rheidrwydd i newid ac ymagor i 'werin' a gynhwysai bawb. Dyma hefyd un o'r ychydig rai hyd hynny a oedd wedi efrydu'n systematig destunol *hanes* ein llenyddiaeth yn amlochrog o'r dechreuadau hyd yr oes fodern. Beth, felly, oedd arwyddocâd, nid yn unig y tair cyfrol gyplysedig ar hanes ein llên, 1944, 1945, a 1948, eithr y Flodeugerdd gadarn hefyd ym 1962 a gyhoeddwyd gan Wasg Saesneg, gyda rhagymadrodd Saesneg, a nodiadau Saesneg, na fu yr un gyfrol debyg iddi ynghynt nac wedyn? Ni wnaeth Thomas Parry ddim llai yn y gyfrol honno (ac yn y lleill) na chyflwyno Canon dwfn a newydd i ni, yn ymwybodol unswydd 'gyflawn', ac yn daclus.

Hynny yw, yn y tair cyfrol hyn – yr Hanes, y Flodeugerdd, a'r Baledi – bwriodd olwg awdurdodol (dyna ystyr y gair 'Canon') ar draws cyfangorff ein barddoniaeth, (ac mewn cromfachau, ei ryddiaith), a dewisodd yr hyn a gyfrifai ef yn safonol mewn Hanes. Heriai'r dyfodol. Caed canon answyddogol erioed, wrth gwrs; y ddelwedd draddodiadol; yr ymwybod bod yna fath beth â 'chlasuron' esthetig, y gweithiau a gyfrifid gan 'y bobl orau', sef y rhai 'mewn awdurdod' llenyddol, gan fod rhai llenweithiau eraill uwchlaw amser ac yn gyffredinol o ran gwerth hanesyddol, yn rhan o batrwm cymdeithasol a fawrygid. Daw ffasiwn heibio o bosib yma; a ffasiwn yn sicr acw; ond ceid ymwybod bod yna rai pethau 'mawr' neu 'dda' a barhâi. Amrywiai'r pynciau, gwamalai'r ffurf. Bu hefyd ddau draddodiad hanesyddol – yr uchelwrol a'r gwerinol. Ac o'u mewn ceid yn sicr, megis yn yr emynau a'r penillion telyn, ddogfennau o safon gelfyddydol uchel. Eithr arhosai yr ymwybod neu'r isymwybod nad oedd hanfodion celfyddyd ddim yn anwadal, er mor astrus i rywrai fuasai esbonio pam. Yr oeddent y tu hwnt i reolaeth yr unigolyn. Yr oedd safonau Cymreictod ym mêr esgyrn Thomas Parry i'r cwbl. Dyma oedd delfryd a sylfaen hen ymagwedd a

gafwyd erioed, mewn gwirionedd, yn anochel felly. Ac ar y sail yna y lluniwyd *Blodeugerdd Rhydychen*.

Dim ond mewn pryd, gellid meddwl. Cafodd Syr Thomas gyflawni'i dasg gyda pharchusrwydd academaidd o drwch blewyn. O fewn yr union ddegawd â'r Flodeugerdd, chwalwyd y cysyniad o Ganon mewn rhai gwledydd Ewropeaidd, ym mryd rhai, ac am gyfnod ar ôl hynny, yn gyntaf am resymau diwinyddol, ac yn ail am resymau gwleidyddol. Rhaid cydnabod yr un pryd fod yna awydd deinasoraidd bychan o hyd yn ceisio amddiffyn ystyriaethau megis dychymyg, crefft eiriol, deallusrwydd, teimlad ymrwymedig, gweledigaeth a haelfrydedd ysbrydol, a rhyw lol ganonaidd felly. Lluosrwydd oedd y chwaeth i fod mwyach. Ac yn ddiwinyddol, gorseddwyd relatifrwydd. Hynny yw, doedd dim o'r fath beth â safon a gwerth. Gan bwy yr oedd yr hawl i ddweud beth oedd yn dda? Yr oedd y Tebot Piws gystal, wrth gwrs, â Dafydd ap Gwilym, os nad yn well. Mater o chwaeth oedd y cwbl lot. Dyma un o ddogmâu mawr ôl-foderniaeth. Pam y dylid barnu bod Hitler yn waeth na Gandhi? Gellid beirniadu'r Gogynfeirdd bellach o safbwynt rhywioldeb a gwerthoedd Affricanaidd. A dyna'r Marcsiaid hefyd. Onid oedd yn amlwg na allai gŵr a gredai mewn perchentyaeth fod yn ffit i fod yn ddramodydd? Os ydym yn mynd i danseilio'r Canon, a darganfod dulliau newydd o ddarllen, dulliau anturus, dadadeiladol, cyffrous, dylyfu-gên o newydd, yna y mae yna dechnegau amgen y bydd yn rhaid i feirniaid Cymraeg eu mabwysiadu. Cynnwys y bobl-dduon yn y Canon er enghraifft? Dim ond imperialaeth hiliol yr adain dde, does bosib, a allai gyfrif bod Thomas Parry heb gynnwys dim gan Ddafydd *Ddu* o Hiraethog (na chwaith Ddafydd *Ddu* Eryri heb sôn am Ddaniel *Ddu* o Geredigion). Cafwyd Sefydliad meddyliol newydd.

Wedyn, oni ddarganfu'r awdurdodau y 'poblogaidd' neu'r plentynnaidd, y syml neu'r democrataiddd fel monopoli? Baledwyr i bawb o bobl y byd. Barnwyd mai'r unig ffordd ddiduedd i fawrygu llenyddiaeth oedd dewis yr hyn a oedd o fewn cyrraedd y plentyn cynradd. Cywirdeb gwleidyddol oedd y criterion. Lleder y rhwymau, felly. Onid ydym o blaid pawb? 'I lawr â'r *'élite'.* Pwy sy'n meddwl bod rhai yn well na'i gilydd? Yn yr ysgol hon, mae pawb yn pasio'r arholiad, ond y sawl sy'n pledio'r gwir.

'Dim ond mewn pryd'. Cafodd Thomas Parry ei gyfle, ac fe'i cymerwyd. Yna, disgynnodd gwlith gwenwynllyd didueddrwydd. A dinistr i'r deallol. A hualau poblogrwydd monolithig. Esgorwyd ar ddeng mlynedd ar hugain o ôl-foderniaeth, o leiaf yn isymwybodol ymhlith yr awduron grantiog a gwobrwyog. Bod yn 'rhan o'r gêm' oedd yn bwysig, nid gwerthuso.

Yn yr unfed ganrif ar hugain, sut bynnag, oddi tan yr hatsys, daeth rhagdybiau plant Einion yn eu hôl – plantos J. Morris-Jones, Saunders Lewis a Thomas Parry – at ei gilydd yn feddyliol i dorri llwybr amgen. Bellach, oherwydd *Barddas* (ar lefel 'dorfol' a thros dro), ymddangosai fod y briffordd gatholig honno nas gorchuddiwyd yn gyfan gwbl gan y drysi, unwaith eto yn sbecian

allan. Daeth Einion ei hun yn ei ôl. Manteisiodd y dyfodol ar yr egwyl felly i fwrw golwg dros y gorffennol a champ Thomas Parry; a sylwi ar beth a wnaeth ef ohoni. Ymddengys fod ei fframwaith, o leiaf, yn gadarn safadwy. Yr oeddid eisoes yn y traddodiad mae'n debyg wedi ffurfio Canon yn isymwybod y genedl, a gwaith cyntaf Syr Thomas (gwaith yr oedd ganddo gymwysterau gloyw ar ei gyfer) oedd dadlennu'r hyn a oedd eisoes yn hysbys. Gofynnodd wrth lunio'r Canon am farn gan ambell un arall, mae'n wir, a sicrhaodd Saunders Lewis fod Ioan Siencyn a Thalhaiarn a Llywelyn ap Hwlcyn er enghraifft, yn cael eu priod le. Yr oedd ychydig o'r bachgen drwg yn anianawd Saunders, fel y gŵyr pawb. Yna, roedd rhai merched wedi llithro i mewn drwy ddrws y cefn heb sylwi arnynt, mewn pedwar lle efallai: y Cynfeirdd, y Canu Rhydd Cynnar, yr Emynwyr a'r Penillion Telyn. Ond roedd hynny'n hollol anfwriadol, ac wedi digwydd am resymau llenyddol, yn hytrach nag am resymau 'cywir' cyfle-anghyfartal go iawn. Yr wyf yn credu bod detholiad Thomas Parry o gerddi hyd at John Morris-Jones (1864-1929) wedi bod yn ddoeth, yn ofalus, ac yn graff. Yr oedd ef yn weddol gysurus ym mhob smicyn o'r traddodiadol. Ac eithrio un neu ddau o bosib. Sylwasom ar y rheini eisoes; y tyllau yn y carped. A fyddai Saunders Lewis a Gwenallt yn dylanwadu ar Thomas Parry drwy apelio at ei barch 'traddodiadol'? Nodwyd eisoes fel yr oedd Gwenallt wedi rhoi'i fys mewn man chwithig. Rhoddodd Saunders Lewis ei fys yntau ar yr un lle. Dadleuodd Gwenallt mai 'un o'r barddoniaethau mwyaf Cristnogol yn Ewrob' oedd barddoniaeth Gymraeg, 'ond ni welir hyn yn y Flodeugerdd hon'. Gwan o'r herwydd yw detholiad Syr Thomas o Bantycelyn a'r emynwyr mawr. Unochrog hefyd, os pwysig, oedd ei ddealltwriaeth o feddwl y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a rhoddodd ormod o le i hanner cyntaf yr ugeinfed — i bobl fel Nantlais, Dyfnallt, ac Emyr Davies. Nid wyf yn derbyn pob rhan o feirniadaethau Gwenallt ar Syr Thomas, ond tybiaf iddo gyffwrdd â gogwydd pellgyrhaeddol yn y fan yna. Nid felly pob un o'i sylwadau. Roedd Gwenallt yn credu y dylid cynnwys rhai llenorion neu gerddi am resymau 'hanesyddol' a 'gwleidyddol'. Byddai Gwenallt wedi haneru'r nifer o gerddi a gynhwysid gan Ddafydd ap Gwilym (byddwn innau'n eu dyblu), ac y mae hefyd yn fwy rhagfarnllyd yn erbyn traddodiad *caeth* barddoniaeth Gymraeg nag y dylai fod. Ceir rhai beirniadaethau cymharol unigolyddol neu bersonol eraill ganddo. Ond, chwarae teg i Syr Thomas, onid oes rhywbeth go ryfedd ynglŷn â Christnogaeth yn ein traddodiad sy'n analluogi darllenwyr diweddar i'w hamgyffred? Oes. Ond digwyddodd yn arbennig yng nghyd-destun y starts, a hyder y ddysg anhunanfeirniadol; a chafwyd adwaith anneallol. Wrth holi am rinweddau llenyddiaeth, priodol dechrau gyda'r gair 'catholig', efallai, yn yr ystyr seciwlar. O'r tu mewn i gatholigrwydd seciwlar yn unig y deuir o hyd i farn gyferbyniol am Safon. Gellir bod yn symlaidd dda ac yn gymhlethog dda; yn symlaidd anghelfydd ac yn anghymhlethog anghelfydd. Nid bod yn benagored annethol yw hynny, o anghenraid, nid bod yn gyfyngedig chwaith mewn testun na safbwynt. Dyna'r unig

ddeunydd i'w archwilio.  Mae yr un mor wir, ond mewn ffordd wahanol, am yr Oesoedd Canol ag am y canrifoedd Calfinaidd. Nid hawdd bellach synied yn 'gymdeithasol' yn benodol am yr agwedd sagrafennol ar feddwl yn y cyfnod cyn y Diwygiad Protestannaidd. Sôn yr ŷm am fframwaith ysbrydol, meddyliol ac ymarferol bob dydd. O ganlyniad i'r agwedd sagrafennol, credaf i lawer mwy o elfennau fynd ar goll yn y ddealltwriaeth gyfoes nag a sylweddolwn mwyach. Cyn y Diwygiad Protestannaidd yr oedd holl gyd-destun y Calendr Eglwysig, creiriau, arferion a gwyliau crefyddol mynych, pererindodau, credoau ac ymarferion poblogaidd, delwau, pensaernïaeth, celfyddyd, seremonïau bedydd, priodas, claddu, – ystyr hen eiriau a theimladau – yr holl baraffernalia y daethpwyd i'w hystyried yn allanolion ofergoelus (ac yn 'ychwanegiadau') gan y Diwygwyr Protestannaidd,  yn cyffwrdd â bywyd yn fanwl mewn modd defosiynol dwfn a symbolaidd pan oeddent ar eu gorau, ac yn fwy felly na chynorthwywyr clyweled yn unig. Roedd *ystyr* y cwbl hwn yn tanlinellu'r dimensiwn goruwchnaturiol trosiadol cydnabyddedig ar fywyd mewn modd nerthol ac yn wir ysgubol a meddiannol. Mewnolwyd yr allanolion hyn  yn fwy nag y tybid. Credaf fod y gwahaniad rhwng naws a natur a fframwaith ysbrydol y ddau gyfnod yn dreiddgar o bwysig. Bu tuedd i'w cartwneiddio gan oes ddiddychymyg. Cafwyd yn fynych yr ymdriniaeth orau â hanes y bywyd mewnol yn yr Oesoedd Canol gan gatholigion eglwysig o ddifri, nifer helaethach nag a dybir ambell waith, yn arbennig y rhai agosaf at lenyddiaeth, megis Saunders Lewis, Daniel Huws, A. M. Allchin, Oliver Davies, Iestyn Daniel, Catherine McKenna, Dorian Llywelyn, ac N. G. Costigan. Ond yn y maes Protestannaidd er gwaetha'r gwaith testunol, cronolegol, a disgrifiad allanol a mewnol a gafwyd gan rywrai, ac er gwaethaf sythweliadau a myfyrdod am weddau mwyaf dwys y ffydd gan Gwenallt, R. Tudur Jones, R. Geraint Gruffydd, Derec Llwyd Morgan, Densil Morgan, Goronwy Wyn Owen, Robert Rhys, E. Wyn James, Gwyn Davies, Eifion Evans, D. Ben Rees, a Noel Gibbard, ychydig o haneswyr prin (yn gymharol) a aeth gyda difrifoldeb a chydymdeimlad o dan groen a meddwl a phrofiad y cyfnodau Piwritannaidd Methodistaidd. Mae llawer i'w amgyffred o hyd am y meddwl cyfundrefnol, ysbrydol.

Buasai Thomas Parry wedi gallu cyflwyno y cyferbyniad cyfoethog rhwng cynnwys ac ysbryd y ddau gyfnod pe gallasai'i roi ei hun o fewn dealltwriaeth ddyfnach o'r ddeinameg y tu ôl i'r ddau fyd profiadol. Ond dyneiddiwr unplyg oedd, rhamantydd, traddodiadwr ffurfiol, ysgolhaig o'r radd flaenaf, gŵr deallus goleuedig, – heb bechod. Dyna fframwaith ei safiad. Rhagorai ef wrth sylweddoli'r  traddodiad mawl i ŵr, serch, a natur. Ond oherwydd cynddaredd ei gyfnod collodd un o'r rhannau — y byddai'r beirniaid cynnar Einion Offeiriad a Dafydd Ddu (ynghyd â phenceirddiaid lawer) yn ei hystyried yn rhan ganolog — ar y weledigaeth farddol. Nid un pwnc ymhlith llawer yn unig oedd crefydd, fel y credai Thomas Parry, nid hyd yn oed ei 'grefydd' ei hun. Eto, catholigrwydd chwaeth yn yr ystyr hydeiml oedd ei nod amgen.

Pan fydd beirniaid (neu ddetholwyr blodeugerddi) yn synied am y dasg o ddethol, neu am ganon, mae'n anochel bod y dewis yn amrywio rhwng hwn a'r llall, rhwng gwerth ac arwyddocâd un traddodiad ac arwyddocâd traddodiad arall. Yn y pen draw, bydd y detholydd mwyaf cynhwysfawr yn un â'r detholydd mwyaf cydymdeimladus gatholig. Bydd rhai pobl ddigon diniwed yn gallu darllen rhai cerddi sy'n hollol wahanol i'w gilydd o ran pwnc a safbwynt. Gall ambell un werthfawrogi 'Y Gwcw' Ceiriog a 'Marwnad Syr John Edward Lloyd' Saunders Lewis, y Penillion Telyn a Thudur Aled, Pantycelyn a Chynddelw Brydydd Mawr. Nid ymagweddu hollol angenrheidiol yw un ochr yn methu â dirnad gwerth na phwrpas y ddwy ochr.

Enghraifft yw Ceiriog o rywun a berthynai i'r ddau Ganon, y Canon llenyddol a'r Canon hanesyddol. A diau nad ef yw'r unig un. Fel y Llyfrau Gleision, areithiau Tom Ellis, yr Eisteddfod, *Y Traethodydd,* y baledi gan mwyaf, yr Inglis Côs, cyhoeddiadau Thomas Gee, nofelau rhamantus y cylchgronau, Prifysgol Cymru, – digwyddiad cymdeithasol o ddyn oedd Ceiriog. Perchen clust. Dogfen ddadlennol oedd ei waith, yn arbennig weithiau ei waith salaf (a chaed cynhaeaf go lewyrchus o hynny). Adlewyrchai ef chwaeth (neu ddiffyg chwaeth) a sentimentau heb na gwleidyddiaeth na chrefydd gan oes eithriadol egnïol a ffrwythlon yn ei hanes cymysg. Yr un pryd, yn ddamweiniol megis, ond yn felys ddamweiniol, ceir rhyw hanner dwsin o'i ganeuon, yn ein dannedd fel petai, sy'n llewyrchus drwy drwch blewyn o fewn gwaelod y Canon llenyddol. Yr her o hyd i feirniad o fewn maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg, o'i chyferbynnu â hanesyddiaeth Gymreig (sy'n cynnwys carthffosydd, rheilffyrdd, a chrefydd) yw adnabod y gwahaniaeth a'r undod; adnabod y da, boed yn syml neu'n gymhleth. A'r un modd, gyda 'Daniel Owen' ym mryd S.L. yn Hanes Llenyddiaeth. Nid cymwynas â'r cynddelw o lenor hwn yw methu â didoli'n feddyliol rhwng y gwych a'r gwachul wrth ddarllen ei waith. Heb gadw safon, cyll cenedl ei rhuddin. Os rhydd Cymru'r gorau i sgrifennu deallus a dychmyglon cyfoethog i bobl mewn oed, fe sudda i ddyfnderoedd anllythrennedd a hunan-ddirmyg. Ond sut yr hyfforddir beirniaid canonaidd ar gyfer cyflawni'u gwaith yn wyneb unbenaethdod creulon y *poblogaidd* yn yr Oes Newydd. A ellir adeiladu'r canon poblogaidd yn fedrus o'r newydd heb ddifa'r canon deallol? A yw'n gwbl angenrheidiol creu hollt o gwbl fel y'i gwnaethpwyd? Dafydd Glyn Jones yw'r beirniad craffaf yn ein plith yn gyfoes a lwyddodd i ganfod y cydlyniad hwn. Tybed a ellid dysgu rhywbeth am y ffordd i adeiladu canon ysgafn, hyd yn oed, drwy ystyried y ffordd yr aethpwyd ati i greu'r canon deallol? Oni ellid asio'r naill wrth y llall?

Dangosodd Thomas Parry yn ei gyfrol hyfryd *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif* fod ganddo yntau gryn ddiddordeb proffesiynol mewn llên werinol, ysgafn, boblogaidd. A fu'n rhaid cael drylliadaeth felly o fewn ein gwerthoedd? Nid 'dosbarth' cymdeithasol sy'n dryllio canon, ond safon a diffyg safon. Pa gymwysterau a fu'n angenrheidiol i Thomas Parry wrth ystyried Canon? Profiad,

yn bennaf. Hynny yw, disgwyliem i feirniad bellach fod wedi bwrw'i brentisiaeth drwy ymarfer â gwerthuso yn llydan ac yn rhyngwladol ac o sawl cyfnod. Dylai fod wedi ymarfer â'r grefft o ddadansoddi drwy adolygu neu feirniadu'n helaeth fel y gellir parchu'i feirniadaeth gyhoeddedig. Hynny yw, nid profiad mewn hanesydda nac mewn ysgolheictod sy'n flaenaf er bod cefndir felly'n gaffaeliad, ond profiad a myfyrdod ym maes gwerth a chwaeth lenyddol. Dyna graidd darllen; nid y cwbl, ond y craidd. Gwas yw Hanes i werthuso.

Catholigrwydd amhleidiol o bleidio, felly, a gydnebydd fod yna safon yn bendant yn yr ysgafn megis yn y sylwedd. Mae'n angenrheidiol bod gan y sawl sy'n dyfarnu allu i ymateb i bob math o lenddulliau gwahanol — yn farddoniaeth, yn rhyddiaith ffuglenol ac anffuglenol (a chyda llaw, ni wn pam y dyblir 'n' yn y rhain), ac yn ddrama: yn llyfrau i blant ac i oedolion. Dylai allu cwmpasu'r ysgafn a'r trwm, yr eang ei gynnwys a'r cul, y ceidwadol a'r *avant-garde*, ac yn anad dim bellach ysywaeth y gwaith sy'n unol â'i ideoleg ac yn ei herbyn.

Rhaid myfyrio o'r newydd, ac o hyd, am y grefft o feirniadu ac am ganon. Nid dianc drwy honni mai dim ond chwaeth yw hyn. Ni ellir llai nag ystyried criteria beirniadol, a medru'u hamddiffyn, a medru'u cydlynu. Hynny yw, wrth ystyried materion fel deallusrwydd thematig, grym dychymyg, newydd-deb creadigol, medr ieithyddol bywiol, adeiladwaith esthetig, a gweledigaeth o fywyd, dylai allu gyrru pob rhagfarn anneallus o'r neilltu, a chyd-osod gyda'i gilydd amrywiaeth posibl o ragoriaethau o'r criteria yn ôl eu perthynas â'i gilydd. Wrth ddyfnhau mewn beirniadaeth, y dysgir orau ehangder catholigrwydd.

Wrth fwrw golwg yn ôl dros hanner can mlynedd bellach, dyweder, i gyfnod Thomas Parry, pwy ar y pryd oedd yn ddigonol i'r pethau hyn o ran cefndir, gallu meddyliol ym maes celfyddyd, ac egni gwerthfawrogol? Pwy ymhlith y darllenwyr 'sylweddol'? Roedd yna rywrai, na ddisgynnodd ideoleg negyddol arnynt yn orthrechol. Saunders Lewis, Alun Llywelyn-Williams, Waldo, Gwenallt, Euros, Pennar Davies, J.E. Caerwyn Williams, J. Gwyn Griffiths, Aneirin Talfan, John Gwilym Jones, T.J. Morgan, Hugh Bevan, a D. Myrddin Lloyd yntau hefyd – yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Y cyfnod euraid cyntaf mewn Beirniadaeth Lenyddol. Dwedwn fod dros ddwsin, fel yma, ar y lefel ddeallol. Pwy ar y lefel ysgafn? Cafwyd cryn broblem yn y fan yna. Fe geir o hyd, ac yn fwyfwy oherwydd diffyg hyfforddiant neu ymarfer â beirniadu 'gwerth' yr ysgafn, anallu i sylweddoli bod yr ysgafn da yn gofyn parchu deallusrwydd a charthu sentimentaliaeth lipa. Yr un math o feirniaid fyddai orau yn fy marn i. Gallent bwyso gan godi uwchlaw chwiw'r wythnos. Mae'r criteria heddiw ym mryd rhywrai ar chwâl. Ond gallai S.L. feirniadu Pitar Puw a'i Berthnasau yn ogystal ag Alun Cilie. Felly Aneirin Talfan a T.J. Morgan. Ar hyn o bryd trafodir y criterion ysgafn heb unrhyw fath o fedrusrwydd a difrifwch ac aeddfedrwydd. Gwaith trwm yw bod yn ysgafn gydag arddeliad. Mae angen angerddol isymwybodol ar yr ysgafn am y 'trwm'.

Er gwaethaf sylwedd ei ddysg, ei brofiad eang, a'i ddoniau diamheuol, cynrychioli'r dyn cyffredin oedd camp Syr Thomas. Yr oedd yn erbyn 'theori'. Yn ddiarwybod iddo'i hun, ac yn draddodiadwr wrth reddf, bu Thomas Parry yn tarfu ar rai o egwyddorion mwyaf trendi diwedd yr ugeinfed ganrif. Ac yntau'n amharod i aros ymhlith beirniaid ôl-fodernaidd a ymdrôi gydag unrhyw syniadaeth newydd, yn wir gyda syniadaeth fel y cyfryw, yr oedd yn mynd i dramgwyddo dogmâu syniadol mwyaf ffasiynol y cyfnod ar ei ôl. Eto'n wir, syniaf y bydd llawer o'i safbwynt eithafol o normal ef yn fwyfwy perthnasol wrth i'r dyfodol ddringo allan o'r ffos.

Oherwydd Cymreictod cynhenid rhai o'n theorïwyr ifainc cyfoes hefyd, – sydd ym maes ffurf yn peri iddynt hwythau hyd yn oed sicrhau'u parch bron yn isymwybodol at y Canon ac at Draddodiad (o'i gyferbynnu â thraddodiadaeth), – amlygant greadigrwydd y traddodiad a'r Canon fel ei gilydd, a hynny yn nannedd imperialaeth theoretig yr oes. Yn ei llyfr diweddar ar y Gwrthddiwygwyr, dengys Angharad Price nid yn unig eu hamddiffyniad o'r traddodiad Catholig a'u hawydd i 'gadw gorffennol y Gymraeg, ond yr un pryd i'w rhoi ar seiliau cadarnach yn y presennol, trwy ei diwygio a'i chyfoethogi, er mwyn sicrhau ei hoen yn y dyfodol.' Gwêl hi gyswllt anochel hefyd y Gwrthddiwygwyr â 'diwylliant hynafiaethol y ddeunawfed ganrif.' A dyfynna hi eiriau Thomas Parry i fawrygu eu rhagoriaeth ar eu cyfoeswyr Protestannaidd, ar lawer ystyr. Yn wir, mae angerdd cariad Angharad Price a Thomas Parry at y traddodiad unol yn goleuo'r cysylltiad rhwng theori'r naill a'r llall mewn dau gyfnod go gyferbyniol. Yr un cariad at undod y traddodiad Cymraeg sy'n ffynnu hefyd yng ngwaith Jerry Hunter ar Soffestri'r Saeson a Tudur Hallam yn ei draethawd doethurol bywiog ar y Canon, – yr her fwyaf a gawsom yn y Gymraeg hyd yn hyn i ôl-foderniaeth. Os chwiliwn bac rhai o'n theorïwyr diweddar, nid ydynt bob amser yn ffitio'r cartŵn cyffredin. Hynny yw, ceir pellhau rhag canol ffordd ôl-foderniaeth gan theorïwyr Cymraeg galluog diweddar oherwydd unoliaeth eu Cymreictod diwyro. Diau y bydd beirniadaeth o'r fath ynghylch ambell egwyddor arall mewn ôl-foderniaeth yn ymamlygu fwyfwy, a hyd yn oed yn ailorseddu Thomas Parry (o bawb). Gellir pontio fwyfwy rhwng theorïwyr a'n haneswyr llenyddol a'n testunwyr mwyaf dyfal. Dichon y bydd y 'Traddodiad' bythol ifanc yn ymrithio fel ***y*** Dadadeiladwr gwaredigol y buwyd yn disgwyl amdano. Gellid dweud am rai o'n beirniaid diweddar eu bod yn cadarnhau canon y traddodiad mewn mannau lle y canfyddid bod gwir angen cadarnhad erbyn hyn.

Ond rhaid ystyried canfyddiad Thomas Parry o natur beirniadaeth o fewn crynswth y parch at fyfyrdod llenyddol yn y cyfnod o'i ddeutu. Mae gan bawb theori, fel arfer heb ei sylweddoli.

Wrth gwrs, y mae Theori Llenyddiaeth, medd rhywrai yn hiraethus fel y bydd symleiddiaeth, ar y ffordd allan. Dyna'r prif glebran yn y byd llenyddol ers tro byd. Felly y bu hi yn

y bôn o leiaf er dechrau'r saithdegau. Ond yr hyn a feddylid wrth 'theori', gan rywrai ofnus, oedd ôl-foderniaeth a'i dogmâu. Dyna a oedd ar ddarfod, yn weddol ddyfal. Oherwydd bod gan bawb ragdyb cynresymol a gyflyrai'u safbwynt, nid oedd dim dianc i neb rhag theori o *ryw* fath, na rhag traddodiad. Mae gan bawb yn anochel ei 'safonau' a'i 'syniadau' beth yw llenyddiaeth. Yr hyn a gollfernid, ac a gollfernir yn gywir, yw *nid* theori eithr y diffyg ymholi ôl-fodernaidd. I mi, sut bynnag, ers y saithdegau, ôl-foderniaeth fu'r sefydliad, yn geidwadaeth ddi-glem. A hi a'i rhagdybiau disylwedd oedd yr eilun i'w dorfynyglu yn rhyngwladol. Yr hyn a fu'n anffodus yn wyneb y blip yma oedd y gwirioni a gawsid o blaid 'uniongrededd' anhunanfeirniadol ôl-foderniaeth.

Cymerer er enghraifft yr hen ragfarn theoretig 'ddadadeiladol'. Yn nannedd y fytholeg unochrog honno, ni allai'r gwir ymofynnwr newydd namyn ceisio **cadarnhau yn ogystal â negyddu**. Dyna a gynnail gelfyddyd. Gallai Saunders Lewis, arch-ddadadeiladwr gynt, fod yn syber o foliannus ac yn giaidd o danseiliol yr un pryd. Ym mryd prif arddelwr Cymraeg y Pechod Gwreiddiol yn yr ugeinfed ganrif, 'dadadeiladu' oedd ail nod parchus beirniadaeth adeiladol. Sylwodd ef mai 'dadadeiladu' arwynebol oedd nod adfeiliol y dramodwyr elfennaidd o'i flaen, D. T. Davies ac W. J. Gruffydd. Beirniadent hwythau adfeiliaeth diwedd y 19G drwy dynnu'r ymylon ar wahân, gan dybied eu bod wedi cyffwrdd â'r canol. Hwy oedd y Radicaliaid Ceidwadol ar y pryd a esgorodd ar lif o ddilynwyr diweddar. Daeth Saunders a'u dadadeiladu hwythau, gan weld ynddynt — yn eu hansicrwydd a'u hamheuon cudd — y Naturiolaidd ddiffygiol a dueddai at sentimentaliaeth 'wrthryfelgar'. Ond ni ddeallent hwy ba beth a wnâi ef. Ef oedd 'ceidwadwr' Radicalaidd weledigaethol y canol. Gwiw cyferbynnu amcanion Saunders Lewis a Thomas Parry.

Chwilio am ragoriaeth oedd perlewyg Saunders gan ddarganfod deallusrwydd lle nas gwelid ynghynt. Dadadeiladai 'chwyldroadaeth' sentimental gan ddadlennu dychymyg cynnil a cheinder cudd yr hen. Beirniadai drwy gydio mewn argyhoeddiad gweledigaeth. Ac yna, yn ffin ac yn ddiogelwch ar y cwbl, gallai ddisgyn yn drwm ar ambell lenor braidd yn annisgwyl yn y 'canol' tybiedig, fel Tegla ac Islwyn Ff. Elis, heb ddweud fawr mwy un tro am yr olaf (1944) ond 'Bow! Wow! Wow!'.

Y pechadur Catholig hwn a ddatguddiodd inni Ddafydd Nanmor a holl naws a nwyf a chadernid a newydd-deb y canu clasurol yn y bymthegfed ganrif. Rhoddodd ganrif — a fuasai ar yr ymylon, — ar y canol yn deg. Hwn a ddôi o hyd i sêr mân — drwy ddangos pam — Ioan Siencyn, John Morgan, Talhaiarn, Jeremy Owen, a'r cofiannau. 'Mawl' oedd perlewyg hwn, ond mawl a danseiliai yn ogystal ag a *unai;* mawl hallt unol. Peth ydoedd a aeth ar goll yn negyddiadau anaemig prosiect ôl-foderniaeth.

Meddai'r Athro Gerwyn Wiliams am Saunders Lewis: 'Paratôdd o'i ben a'i bastwn ei hun

draddodiad,' sylw craff sy'n wir ei wala. Y traddodiad nas gwelsid a welwyd, ac a grewyd — weithiau'n gywir. Ond ble y gadawsai hyn Thomas Parry? Onid oedd ganddo yntau hefyd ben a phastwn, ac onid oedd pob beirniad a gyffyrddai â'r canon ac â'r traddodiad yn gwneud peth ffeithiol? Dethol, dychmygu, cadarnhau. Gwahanol ben, gwahanol bastwn. Ie; ond canon heb wreichion cadarnhaol oedd gan Thomas Parry, heb orfoledd, heb orohïan, na siociau. Os ceid dadadeiladu sefydliadol, ymunai ag ef. Eithr ymrwymai yr un fath i sobrwydd cytûn, i sylwadaeth ofalus, ac i 'ffeithiau'. Dyna'i adeiladaeth yntau, a'i gadernid. Yn y diwedd, cyfuniad, cyd-weithrediad, cyd-weld, gwerthuso oedd Canon iddo hefyd. Gelwid arno ef hefyd i danseilio.

Cymerer wedyn ragfarn theoretig arall sydd wedi mynd dan gwmwl, sef 'marwolaeth yr awdur'. Ni thybiai neb, a ddarllenodd *Ceiriog* neu *Daniel Owen,* fod Saunders Lewis dros ei grogi wedi difrïo 'gwybodaeth' academaidd am yr awdur — neu o leiaf nid er mwyn 'dychmygu' hwnnw. Eto, bu ambell un anesmwyth yn pwysleisio nad beirniadaeth lenyddol weithiau oedd hanes llenyddiaeth fel yna, ond pwnc i'r Adran Hanes. Mae gan Hanes, fel Economeg, Seicoleg, Cymdeithaseg, Diwinyddiaeth a llawer '-aeth' arall, gyfraniad i'w wneud i ddeall, ac felly yn y pen draw i werthfawrogi llenyddiaeth. Pan feirniadwn, rhown groeso iddynt bob un yn ôl yr angen, gan gofio o hyd ein bod yn disgwyl iddynt ddod â chapan yn eu llaw at y goddrychedd chwaeth hwn ac at y ffeithiau ffurfiol a deunyddiol acw. Bid siŵr, wrth drafod yr awdur, bydd beirniad — fel erioed — yn wyliadwrus. Gellid holi am y modd y darluniai Saunders Lewis Ddafydd Nanmor, Guto'r Glyn, a Dafydd ab Edmwnd, ychydig yn ffansïol. Eto, onid oeddent yn fyw i ni? Ac y mae rhoi bywyd i awdur wrth ei gysylltu â'i waith yn cynhyrfu rhywbeth pwysig. Teimlwn fwlch yn yr arfogaeth amgyffred wrth ei hepgor. Wedi'r cwbl, er mai braf yw gwybod am y gwareiddiad gwledig a hyd yn oed y clefydau a gynhaliai Robert ab Gwilym Ddu, Eben Fardd, a Dewi Wyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid felly yn unig, eithr wrth syllu ar eu *gwaith* yn agos y down i adnabod y rhan honno o fywyd beirdd sy'n cyfrif i ni mwyach. Peth amherthnasol yn fynych fu eu buchedd feunyddiol allanol. Roedd angen ar Thomas Parry i wneud ymgais i ddiffinio Hanes Llên.

Anogir ni i drin bywgraffiadau yn ofalus fel gwaith creadigol. A gwiw y'i gwneir. Gwiw chwilio cymeriad am 'safon'. Ni raid i bobl farw. Ac nid yw croniclo'n ein hatal rhag cael goleuni hwylus ar dro sy'n ein hannog i amgyffred yn llawnach y testun a ddarllenir, megis y bydd y ffeithiau am ffurf yn gallu ein cynorthwyo i ddeall meddwl y testun yn ogystal â meddwl y llenor, ac fel y gall cyd-destun gwaith arall gan yr awdur ei wneud hefyd. Bydded yn wyliadwrus, felly, rhag synied bod dim oll o'r pethau hyn yn anaemig. Yr oedd Saunders Lewis yn llygad ei le wrth dwrio am 'fywyd'. Dyna i mi yw prif rinwedd beirniadaeth. Ond beth yw'r fath anifail haniaethol o safbwynt llenyddiaeth? Ni ddylid chwaith synied nad oes i le 'Cawr' ymhlith y 'cyffredin mud' bondigrybwyll mewn hanes; eithr mynnai materion mor gynhwysfawr dipyn mwy o le i drafodaeth.

Beth oedd barn Thomas Parry am hyn oll? Clywch ei draethiad am un a adwaenai ef yn dda ac am soned ‘Y Llwynog’ gan hwnnw: (*Taliesin 23*, 53-54): ‘Y mae’r sawl ohonom oedd yn adnabod Williams Parry yn gwybod yn dda am y swyn diderfyn oedd iddo mewn adar ac anifeiliaid gwylltion (nid cŵn a chathod a cheffylau, cofier; pobl wahanol iawn i feirdd sy’n ymddiddori yn y rheini). Tystiodd Mr. J. O. Williams i hyn wrth adrodd am y bardd ac yntau wedi mynd am dro i Lundain (yn ei ysgrif ar y bardd yn *Corlannau*, ysgrif sy’n ddrych rhagorol i’w gymeriad). “Lle gogleisiol inni fyddai Zoo Regent’s Park, lle i synnu a rhyfeddu, yn arbennig felly i Bob. Oni fyddai yno ‘ryfeddodau prin’ i ‘lwybreiddio’ o’n blaen? Ac yntau — safai mor llonydd a difrif o flaen ambell gaets, fel petai wedi ei barlysu gan ‘sefydlog fflam’ llygaid y creadur gwyllt o’r tu mewn.” Nid oes raid pwysleisio’r ymhyfrydu yma mewn adar ac anifeiliaid gwylltion, oherwydd y mae’n frith yn ei waith.’

Adwaith y bardd i Natur oedd rhyfeddu. Dyna sylw anecdotal. Ond a yw hyn yn goleuo’r gerdd? Onid yw sylwadau o'r fath ychydig yn arwynebol o bersonol?

I mi, gellir casglu’r cwbl hwnnw'n gwta gan y gerdd ei hun yn well heb ychwanegion cofiannol o gwbl. Gellir mynd ymhellach. Roedd yr un achlysur hwn a gaed yn ‘Y Llwynog’, yn ddigon unigryw i hoelio'r bardd. Ond, gofaler. '*Dyma gerdd sy’n ddisgrifiad godidog ac yn ddarlun gorffenedig*,’ meddai Syr Thomas; *‘rwy’n gwbl sicr nad fel disgrifiad [o hanfodion gweledigaeth] y bwriadodd y bardd ei gerdd…’ ‘Y mae chwilio am ail ystyr i gerdd fel hyn … yn fy marn i, [yn] beth eilradd ac annhymig.’* Bydd y rhai sy’n gyfarwydd â gwaith Leconte de Lisle, y bardd disgrifiol Ffrangeg, —‘adfeiliol’ medden nhw, — yn adnabod disgrifiad celfydd o’r fath, y paentio lliwgar gwrthrychol, y gorffennedd crefftus. Mae hynny'n ddilys. Gwyddom am englynion o’r fath sy'n ‘ddisgrifiadau pur’. Ond mae’n ymddangos i mi, o’r tu mewn i’r gerdd arbennig hon, fod y bardd hwn yn cynnwys ychydig mwy na hynny. Efallai’i fod yn wir yn hoffi anifeiliaid. Beth yw'r ots? Y mae’r harddwch yn darfod hefyd. Mae’r gweld yn peidio. Diflanna’r rhyfeddod, a hynny sydd yn yr uchafbwynt. Hynny yw, at hynny yr oedd y disgrifiad dethol yn arwain. Gall yr holl sôn am hoffter o anifeiliaid ddifetha pwynt y gerdd. Diau fod yna gariad at yr anifeiliaid ac ymbleseru ynddynt; a rhoir yr edmygedd diniwed hwnnw yn y gerdd, yn ddiau. Cyn belled ag y cyfleuir hynny, purion, gallwn ei adnabod, eto heb fod yr un angen am hoffter at na sw nac anifail anwes i’n perswadio ymhellach. Ond pan fydd Thomas Parry yn negyddu ac yn dweud ‘rwy’n gwbl sicr ***nad*** …’, mae angen holi onid yw’r ‘seren wib’ a’r ‘darfod’ mor ganolog bob dim a’r ‘bod’? Onid oes mwy na 'bod' yma? Ymddengys fod yna ddwy sioc yn y gerdd, sef y gweld yn gyntaf a’r methu gweld wedyn; a dwy ystyr gyfartal ydynt. A than y ddwy, y mae gwerth rhyfeddod ei hun; cyfaredd eu cyfaredd. Pwynt syml yw hyn — ond credaf ei fod yn tanlinellu mor gamarweiniol ac mor ychydig y gall peth gwybodaeth symlaidd am yr awdur ei chyfrannu i'n dealltwriaeth.

Trydedd siboleth a fu gan yr ôl-fodernwyr, oedd ymwared â'r cysyniad o Ganon yn gyfan gwbl, ymdrech a berthynai hefyd i ddogma relatifrwydd a lluosedd. ‘Beth yw’r ots gennyf i am safon?… damwain a hap yw fy mod yn eu libart yn byw.’ Gan bwy y mae’r hawl i ddweud am safon a gwerth, ac i beth?

Cynnyrch profiad, chwaeth a dychymyg rhyw unigolion goddrychol — ac amser — yw Canon, cwyna rhai.

Ymlaciai S.L. yn brofiadol weithiau, mae’n bosib, wrth droi'i bin o gwmpas llenorion y gorffennol. Gwyddai’i fod yn sgrifennu dychymyg drwy’r amser. O safbwynt ‘gwirionedd' academaidd, 'tros-dro' ydoedd peth felly o raid; ond gallai ‘cyfansoddiad’ felly oroesi'n ddiogel yn rhinwedd y dychymyg. Ond Saunders Lewis oedd hwn: cofier ei bortread o Geiriog. Eto, gŵr a ymrôi'n fwriadus i astudio canonau sawl llenyddiaeth yn ddadansoddol werthusol â chwaeth hyfforddedig catholig ac arbrofol. O fewn llenyddiaeth leiafrifol fel eiddo'r Gymraeg, roedd yna broblem gyfyngus ynghylch canon a darddai o'r anghenraid i gymharu llenyddiaeth – o fewn corpws neu ganon rhyngwladol, rhwng cyfnod a chyfnod o fewn yr un traddodiad, a rhwng llenorion â'i gilydd – a hynny mewn amgylchfyd prin ei adnoddau a'i ddoniau. Tarddai hefyd o brinder beirniaid profiadol, yn ogystal ag o gyfyngder y gynulleidfa gatholig ei chwaeth.

Pa gymwysterau, holir, a ddisgwylir gan feirniad yn y fath amgylchiadau Cymreig?

Dylai fod yn arbennig o hyddysg yn llenyddiaeth y cyfnod diweddar, o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd heddiw. A hyd y mae'n bosibl, dylai fod yn gyfarwydd â'r cyfnodau cynt. Ystyr bod yn hyddysg neu'n gyfarwydd yw ei fod wedi'u darllen yn ofalus greadigol ar sail meddwl uwchben gwerthoedd llenyddol. Dylai fod yn gyfarwydd â llenyddiaethau eraill a ffurfiau amryfal mewn gwahanol gyfnodau. Dylai feddu ar ddeallusrwydd, dychymyg, a haelfrydedd ysbryd, a chanddo farn effro ynghylch y symudiadau cyfoes. A dylai hynny roi iddo offer ymdriniol addas, a gwybodaeth i ddadansoddi'n gymharol. Onid dyna gymwysterau Thomas Parry i'r dim?

Yn achos Thomas Parry, sut bynnag, am mai ‘gwirionedd academaidd’ ac 'ysbrydol lythrennol' a geisiai yntau fel arfer, ni adawai hyn iddo fentro traethu'n helaeth ar 'ysbryd y cyfnod'. Cyfyng ddigon oedd ei uchelgais. Ni fwriadai i’r cyfansoddiad ymylu ar fod yn grebwyll. Hanes i’w olrhain mewn ffeithiau oedd llenyddiaeth i Thomas Parry, yn rhy aml. I Saunders Lewis, mynnai ddatgelu, yng nghampweithiau’r cynnyrch llenyddol Cymraeg, y ddelwedd lawnaf a phuraf o’r ysbryd dynol a geid. I Saunders Lewis, cyn belled ag y trafodai ef yr awdur yn hytrach na’i waith, ei ddyletswydd ef oedd delweddu’r ffigur o awdur yna â’i ddychymyg (*Ceiriog, Daniel Owen*), ac amgyffred cywreinrwydd ei syniadaeth â’r teimlad. Dyna’i ‘wirionedd’. Yn hynny o beth yr oedd Saunders yn nhraddodiad Sainte Beuve, ac yr oedd ei *Ysgrifau Dydd Mercher* wedi’u patrymu ar *Lundis* hwnnw (*Y Dyddiau Llun* neu’n well *Y Lluniau).*

Dilynai T.P. draddodiad Taine o osod llenor yn ei gyd-destun lleol ac amserol i raddau. Er bod S.L. yntau wedi gwneud hynny hefyd ar dro, ei nod amgen ef oedd nod Brunetière, sef dyfarnu gwaith drwy gyflwyno'i naws a'i hanfod 'llenyddol'. Yn nhraddodiad Lanson (a J. Morris-Jones ac Ifor Williams), yr oedd T.P. yn *Gwaith Dafydd ap Gwilym* wedi ceisio astudio'n destunol, yn eirfaol, yn arddullegol, ac yn fydryddol. Nid dyna *forte* Saunders, ac eithrio yn 'arddullegol'. Creu Canon yn ôl seiliau rhyngwladol a wnâi ef.

Nid seicoleg ac isymwybod llenor oedd diddordeb T. P., eithr ei ymwybod. A rhaid cydnabod, er gwaethaf dylanwad Freud a hoffai ddefnyddio'r cyfansoddiadau llenyddol i gyflwyno enghreifftiau seico-ddadansoddol ac i archwilio isymwybod awdur, nid dyna a geisiai S.L. yntau. Yr oedd ef yn nes at Baudouin a Bachelard, ac archwiliai seico-ddadansoddiad er mwyn egluro testunau llenyddol.

Holi'r gwaith a wnâi Saunders Lewis; ceisio naws a natur y gwaith, ac ymaddasu yn ôl gofynion gorau'r gwaith hwnnw. Eithr yn ei ysgrif gyffes 'Megis Seren Wib', y mae T.P. yn tueddu i ddweud yn blwmp ac yn blaen wrth gerdd, 'Dyna — *a dyna'n unig* — yr hyn yr wyt ti'n ei olygu'. Mi grynai'r gerdd.

Mae arnaf ofn fod pob un ohonom— o fewn ffiniau — yn meddwl yn wahanol am ein gilydd, yn deall digwyddiadau yn wahanol, yn darllen llyfrau yn unigolyddol, ac o ran anian ddynol yn ymateb i fywyd ac i lenyddiaeth yn ôl ein cefndir a'n gallu. Tyf adnabyddiaeth os sylweddolwn ein ffaeleddau'n hun. Ond nid yw hynny'n golygu nad oes ffiniau i'n hunigolyddiaeth. Nid gwahaniaeth yw'r diwedd. Rhaid cael elfen ganolog o undod. Er bod y geiriau 'anian' a 'hoffter' a 'gobaith' yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb ohonom, oni bai fod rhyw gyfran o gytundeb rhyngom â'n gilydd, ac o undod hefyd hyd at ryw bwynt pwysig iawn, ni pharhâi'r Gymraeg tan yfory. Mae'r Un a'r Amryw ynghyd yn gyd-absoliwt. Felly, ymhlith sibolethau ôl-foderniaeth, cawn gytuno bod amlder deongliadau yn 'wir', ac yn dweud rhywbeth a wyddom oll. Ond heb drafod yr amlder hwn yng nghyd-destun cytundeb hefyd, y mae amrywioldeb yn colli'r pwynt. Yr amlder hwn sy'n arwain at bosibilrwydd y cyfanrwydd.

Ar ryw olwg, yn y 'Llwynog', yr oedd R. Williams Parry yn gweithio o fewn y gyfundrefn *sefydlog/ansefydlog,* ac yn cadarnhau'r gyfundrefn honno yn gyntefig elfennaidd yn y *psyche* dynol. Er darfod, erys y Llwynog hwnnw gyda ni o hyd.

Roedd Thomas Parry yn cywir ffoi rhag dehongliad Cristnogol John Eilian o Williams Parry, fel mewn man arall rhag dehongliad Cristnogol o 'Ymadawiad Arthur' T. Gwynn Jones. Eto, y mae'r dehongliad 'crefyddol' fel y cyfryw yn anodd i'w osgoi er ei waethaf. Trôi'r bardd yn benderfynol oddi wrth '*glych Eglwysi'r llethrau'n gwahodd tua'r llan*' tuag at y naturiolaidd 'iach'. Yn y fan yna y câi yntau ei addoliad paganaidd. Y mae R. W. Parry, fe ymddengys i mi, yn

uniongyrchol wedi ceisio dewis gwyrthiau'r mynydd, (ai dyna'r cwbl?), er mwyn y goruwchnaturiol-naturiolaidd.

I Saunders Lewis, teyrnas gwerthoedd, trefn, a phwrpas oedd llenyddiaeth oll, (gras cyffredinol) heblaw pleser. I Thomas Parry pleser esthetig ac academaidd ydoedd, heb ddim lol. Ond yr oedd y naill a'r llall yn ceisio undod a chwlwm yn yr ymateb i'r gwaith, yn wahanol i'r rhagdyb ôl-fodernaidd o beidio dros eu crogi â bodloni ar lai na chwalfa. Bu rhai llenorion a darllenwyr ar hyd y canrifoedd, – heb ymholi pam ac yn sicr heb sylwi mai rheidrwydd oedd, – wedi dyhefod yn anochel am undod. I'r ôl-fodernwyr, sut bynnag, ceid theori a'u hanogai i osgoi'r hanfod unol yn amrywiaeth llên, ac i beidio â'u holi'n ormodol.

Fe geir llawer o themâu o fath y rhain ym meirniadaeth ôl-fodernwyr ac ôl-strwythurwyr. Crybwyllais rai eisoes yn yr ysgrif hon. A bid siŵr, er eu pleidioldeb eithafol i hyrwyddo drylliadaeth, mae ganddynt yn ymarferol theori unol wahaniaethol hefyd, beth bynnag a wnaent, er eu bod yn hoffi meddwl amdani fel 'theorïau' yn unig. Fe geir gwth go gyffredinol sy'n eu huno. Mae ganddynt ymagwedd sy'n toi dros y cyfan, yr esboniad cyffredinol sy'n undod. Mae ganddynt fath o ymagwedd gynhwysfawr sy'n ddihysbyddol ac yn ceisio treiddio a chwmpasu pob peth. Hynny yw, y mae ganddynt Fetanaratif gan yr amseroedd. [Metanaratif yw a ddiffinnir drwy ddweud 'yr ŷm yn erbyn Metanaratif. Pleidiwn fininaratif. Mininaratif yw'n Metanaratif ni. Mae'r Esboniadau Cyffredinol ideolegol — yr Ymoleuo, Democratiaeth Ryddfrydol, Rhesymoliaeth, Marcsaeth, Cristnogaeth, Empeiriaeth, ac yn y blaen — oll yn *passés.*' Gwaeddant yn obeithiol. 'Os ych chi am berthyn i saithdegau'r ganrif ddiwethaf, yna, drylliadaeth unol amdani, chwalfa, relatifrwydd, amhenderfyniadaeth, dadadeiladu, dyna ni, rych chi wedi dysgu'r dôn. Dyna'r to dros y cwbl, yr Undod yn y tameitiach. Dyna'n Metanaratif mini iawn ni.']

Wrth gwrs, ceir gwrthddywediadau o'r fath rif y gwin ac ambell foesymgrymiad tuag at gyfaddawd. Ond gwyddom yn burion i ba gyfeiriad y mae eu hanadl yn chwythu. Yn y pen draw, rŷm ni i gyd yn dibynnu ar ryw rym: Duw rhai yw eu bol mewn oes hedonistig.

Er gwendid y rhagdybiau, da gan anghydymffurfwyr ein treftadaeth ni yw cydymffurfio ag anghydffurfwyr blinedig y saithdegau. Gall y dogmâu hyn, o'r herwydd, fod yn beryglus braidd. Un thema a welais ac a aeth yn bur boblogaidd (am bythefnos) yn y nawdegau, er enghraifft, oedd nad oedd Cymru (neu Wales) ddim yn bod, dim ond Cymruau neu Waleses. Ac wrth gwrs, nid oes neb a wadai'r amrywiaeth, yr amlweddau sydd yn yr hen Wrach hon. Ond y maent oll yn cael eu cyd-ddiffinio gan y diriogaeth, gan y gorffennol, gan eu perthynas gadarnhaol neu negyddol, neu beth bynnag, â'r iaith, gan eu perthynas drefedigaethol â Lloegr, ac yn y blaen. Y mae'r Gwirionedd yn ein gyrru ni tuag at gydlyniad cyfannol.

Pethau felly sy'n gwir sôn am yr Undod sydd mor bwysig i'r amlweddau. A hynny yw'r

embaras i hyrwyddwyr drylliadaeth. Yr embaras hwn yw un o’r priodoleddau sy’n creu undod Cymru. Cyn belled ag y gwir gollwn Undod ‘Cymru’, bydd diflaniad y ‘Cymruau’ yn ei heglu hi ar ei hôl yn bur fuan. Yr unig Fetanaratif effeithiol ac adeiladol a wna’r tro ar gyfer dyfodol Cymru a’r Cymruau ydyw ‘Adennill’, peth nas dysgwyd gan y Fro Gymraeg ddiymadferth eto, ysywaeth.

Yr un Metanaratifwyr adleisiol sy’n gwadu undod Cymru yw'r rhai sy’n gwadu undod llenyddiaeth Gymraeg. Ac yn hynny o beth y mae Thomas Parry yn pwyso’n amgenach arnom hyd yn oed na Saunders Lewis. Iddo ef, Traddodiad oedd y Metanaratif, yn orffennol-ddyfodol. Eu gwaith creadigol ill dau fu dychmygu a chreu a moli’r undod dihafal cadarn hwnnw. Gwelai Saunders Lewis dipyn o hollt anffodus ond cyfoethog mewn Methodistiaeth, mae'n siŵr, yn arbennig yn gynnar. Gyda Thomas Parry, sut bynnag, caniataodd ei ddiffyg diddordeb mewn Methodistiaeth serchiadol chwyldroadol iddo fod yn fwy bodlon ar ei gweld hi’n rhan ddi-dor o’r Canon anochel llai syniadol a garai. Ac o fewn y cyfanrwydd a greasai ef, yr oedd yn llygad ei le.

Yr oedd rywfodd wedi creu math o grynder cadarn i'w gymeriad a oedd yn tynnu at ei gilydd lawnder ei ddiddordebau. Adlewyrchai T.P. ei genhedlaeth yn well nag a wnâi S.L..

Ond, o ddychwelyd at ddehongliad T.P. o’r ‘Llwynog’, gallwn bellach sylwi ar un nodwedd ystyrol arall sy’n llechu o fewn y gerdd ac y gallwn ei hadnabod mwyach, o bellter cyfnod diweddar. Perthyn un o’r ysgogiadau yn y soned i Fetanaratif y Rhamantiaeth ddihangol i fyd natur. Ystyr gudd arall oedd y tŵr ifori y bu’r llwynog ynghyd â’i fardd yn ei adeiladu ar y mynydd, ac y dalient ati i’w adeiladu oni bai i Lewis, Williams, a Valentine roi England’s Glory wrth seiliau llenyddiaeth Gymraeg a gwneud cymwynas i bob llenor arall yng Nghymru ar y pryd.

Dylwn ychwanegu un nodyn godre wrth gyferbynnu egwyddor y llythrennol gan Syr Thomas ag egwyddor y trosiadol gan Saunders. Ni ddylid difrïo'r naill wrth fawrygu'r llall. O ran egwyddor, mewn iaith a beirniadaeth lenyddol y mae'r naill egwyddor ynghlwm wrth y llall. Yn hyn o beth, y mae'r arwyddocâd i'r llythrennol ac i'r trosiadol yn rhyfedd o ddiwinyddol. Gwyddys fel y bu beirniaid diwinyddol yn rhybudd yn y maes hwn. Gwyddys fel y bu rhai beirniaid diwinyddol anaeddfed ddechrau'r ugeinfed ganrif yn anwesu'r trosiadol er mwyn tagu'r llythrennol. Ond esgus oedd hyn i fychanu'r hanesyddol a'r gwirioneddol. Dihangfa oedd rhag y gwir: dehongli er mwyn camddeall. Rhan o gêm hygoelus y rhyddfrydwyr bwriadol gibddall oedd hyn.

Y gwir yw na all y trosiadol fyw heb y llythrennol. Y llythrennol yw sail a diogelwch a man cychwyn pob trosiad. Anadl einioes yw iddo. Cyferbynnu Thomas Parry a wneuthum â Saunders er mwyn rhybuddio ynghylch darllen un haenen yn unig. A mynd yn ôl at y gymhariaeth ddiwinyddol, fe ellid ystyried y Groes Bren, a'r farwolaeth ffiaidd a chreulon eithafol a gafwyd arni: bu erledigaeth enbyd o gorfforol yno. Ond nid dyna'r prif beth. Roedd yr hyn a ddigwyddai'n ysbrydol yn fwy. Cafwyd 'hanes' allanol, mae'n wir. Ond un o'r camre canolog yn y profiad Cristnogol yw'r

sylweddoliad o'r dioddefaint ysbrydol a'r aberth iawnol hollol oruwchnaturiol. Heb hynny, does dim efengyl.

Ond un o ganolbwyntiau y grefydd Gristnogol, calon y ffydd, yw bod Duw wedi gweithredu, ac yn dal i weithredu mewn hanes yn llythrennol, yn gorfforol, ac yn hanesyddol. Duw a ymgnawdolodd yw. Duw taith yr anialwch yw. Nid anwybyddwn hynny. Nasareth a Golgotha yw. A'r un modd, ym maes llenyddiaeth, cydraniad o'r un cyfunwaith yw'r egwyddorion llythrennol a throsiadol. Soniais am ddychryn arwyddocaol haneswyr Cymru ynghylch y ddau air 'Iesu Grist'.

Ar ryw olwg, y mae'r gwirionedd Cristnogol yn hyfforddi'r darllenydd seciwlar, os yw'n effro i wahaniaethau, yn gyfartal. Mae hefyd yn argraffu ynddo yr eglurhad pam.

* *

Yn y deng mlynedd cyntaf yn y milflwyddiant newydd hwn, trodd y nifer o lyfrau a ymosodai ar ôl-foderniaeth yn Saesneg yn ddylif. Ac y mae hynny'n golygu, mae'n debyg, y caiff y llanw droi'n gyffelyb o fewn y Gymraeg ymhen ychydig. Fel y gellir dychmygu, bydd hynny'n llawenydd go fawr i mi.

Fy mhryder sicr er hynny yw mai trendïaeth negyddol ysywaeth fydd y rheswm am ei thrafod felly yng Nghymru, drachefn, fel mai trendïaeth ysywaeth fu'r rheswm dros ei dyfodiad, yn hytrach na meddwl gwreiddiol Cymraeg. Tybied a wnaf i mai ar ganol y Canon Cymraeg ei hun, yn y Gynghanedd ac yn y pwyslais ysbrydol, traddodiadol y ceir yr ymateb mwyaf ystyrlon i Ôl-foderniaeth. Canys bu rhesymau Cymraeg cryf yn y fan yna dros erthylu'r fath flerwch negyddol o'r dechrau cyntaf, a dichon mai adnabod strwythur yr hen draddodiad Cymraeg fu'r ffordd a bennwyd i ddod o hyd i feirniadaeth go iawn sy'n Gymreig. Tybiaf hefyd mai'r hyn a gollwyd gan y 'Cywirdebwyr' oedd sylweddoli diben 'Cyfanrwydd'. Yr hyn a wnaeth y Gynghanedd yn gymaint o gamp oedd mai un gyfundrefn ryfeddol gydweol gyfrwys ac isymwybodol oedd y cwbl: Cyfundrefn o gyfundrefnwyr oedd. Heb ddeall ffeithiau o'r fath, gall rhywun ddysgu cynganeddu'n wych; ond ni ddeellir y gamp, ac nis gwerthfawrogir, onis clywir yn iawn. Rhan o waith beirniad yw dangos *sut* y mae hynny'n wir.

## HUGH BEVAN


| | |
|---|---|
| Y Gŵr o Gaergrawnt | 253 |
| Tuag at Arddulleg | 260 |
| Delweddu Anweledig | 265 |
| Beirniadaeth yn Gyffredinol | 271 |

Y GŴR O GAERGRAWNT

*Beirniadaeth Lenyddol: erthyglau Hugh Bevan, gol. Brynley F. Roberts, 1982.*

Yr oedd yna frwydr arwyddocaol ar gerdded yn ysbryd Hugh Bevan o ran ei olwg ar ‘Feirniadaeth Lenyddol’. Yn swyddogol, fel petai, ‘Beirniad Mynegiant’ oedd. Hynny yw, esbonio testunau unigol oedd ei ddelfryd. Canolbwyntio ar ‘y darn ei hun’ oedd ei fwriad: ‘talu sylw i gyfraniad sŵn, rhythm a mydr, yna rhaid iddo ystyried cyfraniad delweddau, symbolau a mythau, a’r tu mewn i’r testun hwnnw y mae byd cyfan o ystyron yn ei ddisgwyl.’ 'Dadansoddi patrymau arbennig o ystyron' oedd yr hyn yr oedd yn ei feddwl am y themâu disgwyliedig.

Diau mai chwilio’r Mynegiant patrymol yw’r man cychwyn i bob Beirniad doeth. Y testun gwrthrychol. Dyna’r lle hefyd y dylwn innnau gychwyn wrth ddysgu 'Beirniadaeth Gyfansawdd'. Credaf i mai dyna’r lle y dylai’r pwyslais fod gyda phlant ysgol hefyd hyd at y ‘Chweched Dosbarth’. Ac nid plant ysgol yn unig. I oedolion yn ogystal. Darganfyddir cyfoeth a phwrpas, gwefr a mawredd llenyddiaeth drwy ddechrau efrydu un gwaith, gan ymdroi gyda hwnnw, yn sicr gyda’r ystyron thematig i ddechrau. Peth fel yna yw iaith.

Ac yn y manion ymddangosiadol hynny yr ymguddia’r gyfrinach.

Fe wyddai Hugh Bevan ym mêr ei esgyrn fod a wnelo llenyddiaeth rywfodd â holl brofiadau bywyd. Yr oedd gan y llenorion arwyddocaol weledigaeth am y bydysawd yn gyffredinol. Fe’u gyrrid hwy yn fynych gan amgyffrediad dychmygol enfawr ac eang. Yn feirdd, yn ddramodwyr, yn storïwyr, ymwybyddent â phobl a lleoedd ac amseroedd; â'r mawr a'r mân; a thrwy fedrusrwydd ieithyddol, gallent fynegi tangnefedd llawenydd ac ing bodolaeth.

Bid a fo am hynny, yn holl rychwant Beirniadaeth Lenyddol, sef yn ei hymwneud â Ffurf, Cymhelliad, a Deunydd, a’r ymdriniaeth â’r Cyffredinol a’r Arbennig, does dim dwywaith nad oes i’r astudiaeth fanwl a chlòs o’r ‘Darn ei Hun’ le anrhydedd. O bosib, dyma i’r dyn cyffredin yw’r rhan fwyaf pleserus mewn Beirniadaeth. Dyma’r lle y caiff ambell un mwy sylweddol na’i gilydd gymorth a chanllaw i fwynhau llenyddiaeth fwyfwy. Ac ar hyn, gynt, y canolbwyntiai Hugh Bevan. Eto, wrth wneud hynny oll fe sylweddolai’n burion fod yna lawer iawn mwy mewn Beirniadaeth a Llenyddiaeth na’r ystyriaethau a godai o gwmpas un gwaith unigol, neu o gwmpas un llenor, neu hyd yn oed un cyfnod unigol. Yr oedd a wnelo’r rhain â phrofiadau cudd a galluoedd meddwl heriol ac anferth cyffredin ar hyd yr oesoedd.

Felly, er y bydd Hugh Bevan yn pregethu’n weddol ddygn mai arddull ac oedi uwchben ffigurau ymadrodd ac arfer geiriau yn gyfleadol ('information') neu’n emosiynol y bydd ef fesul llenyddwaith unigol, fe fydd materion eraill yn ei amgylchu. Byw mewn bydysawd oedd llenyddiaeth iddo. Ar ddechrau ei ysgrif ar Ddarllen Nofelau mae ganddo stori am ‘fonheddwr o

Loegr yn ymweld â Wellington yn Sbaen i gael golwg ar ei fyddin. Aeth Wellington gydag ef drwy'r gwersyll. "Ond", meddai'r bonheddwr petrus, "ni welaf ond dynion yn coginio, neu gysgu, neu symud pethau, neu drwsio dillad". "Yna", meddai Wellington, "fe welsoch fyddin".' Rhan o ergyd y stori wrth gwrs oedd y pwysigrwydd sydd i'r dibwys, mor angenrheidiol yw'r manion. Ond gadewir bwlch ym meddwl yr ymwelydd bonheddig oni chesglir bod yno ryfela hefyd, a gwaed, a'r meirwon gerllaw.

Ar ryw olwg, mae yna fath o hiraeth ar Hugh Bevan yntau i fynd i ganol y rhyfel hwnnw yn ei grynswth amlochrog. O'r herwydd, yn ei ddannedd y mae ef wrth ymgodymu â'r nofel yn ei orfodi'i hun i sôn am y 'gwirionedd hanfodol', a'r cyswllt rhwng hynny a'r gallu i wneud cyfiawnder 'â chymeriadau dyfnion'. Mae'n sylweddoli bod yna goedwig gyfan ─ yn ogystal â choed, brwydro yn ogystal â phlisgo tatws. Gweledigaeth fydeang ochr yn ochr â chystrawen brawddeg. Ei her oedd pendroni am gyfanrwydd catholig beirniadaeth.

Y mae beirniadaeth (a llenyddiaeth oll wrth reswm, er yn isymwybodol yn fynych iawn) yn gysylltiedig â ffurfiau meddyliol a ddatblygodd oherwydd bod yr ymwybod dynol yn gorfod dadansoddi a theimlo deunyddiau o bob math, hyd yn oed rhai agweddau ysbrydol mewn cymdeithas arwynebol, ac yn datblygu cymhellion i ymgodymu â bywyd oll yn foesol ac yn esthetig. Etifeddir a datblygir gwerthoedd dwys mewn manion. A dyma ni'n ôl gyda phroblemau 'bara menyn' i'r darllenwyr a'r beirniaid Cymraeg callaf yn y cyfnod diweddar. Dyma'r her i wneud rhywbeth heblaw perfformio, y sialens i godi uwchlaw'r poblogaidd, ac i fod (gwae ni) yn genedl aeddfed megis cenhedloedd oedolyn eraill. Dechreuwyd pendroni ynghylch nod beirniadaeth.

Erbyn y chwedegau, ac yn arbennig y saithdegau, cafwyd peth gwrthryfel yn yr uchel leoedd yn erbyn y darllen clòs a'r darn ei hun. Cafwyd 'theori' (fel pe na bai theori eisoes gan Hugh Bevan). Aethai yr esbonio manwl fesul gwaith yn orffennol. A disgynnodd (gwae ni) cryn dipyn o dywyllwch dros y maes beirniadol. Daeth hwnnw i raddau o du pobl a oedd yn ymwneud ag athroniaeth go arwynebol, yn hytrach nag o du llenorion go iawn. Ond rhinwedd y symudiad hwn oedd wynebu ─ nid calon beirniadaeth fel y ceisiai Hugh Bevan ─ ond arolygu rhychwant rhyw fath o gwmpasiad neu 'batrwm' mwy cyffredinol. Felly'r oedd yn egluro, yn goleuo, ac yn carthu.

* * *

Bu farw Hugh Bevan yn 1979. Ar ôl ei farwolaeth y casglwyd rhai o'i ysgrifau'n gyfrol. Cyn hynny, yn ystod ei oes, ni restrwyd ond dwy gyfrol o'i feirniadaeth, sef *Morgan Llwyd y Llenor* 1954 a *Dychymyg Islwyn* 1965, yn ogystal wrth gwrs â'i glasur o hunan-gofiant *Morwr Cefn Gwlad,* 1971. Roedd ganddo ymhlith ei amryfal astudiaethau gwasgaredig, ysgrif arall ar Islwyn, sef 'Islwyn ─ Bardd y Ffin'. A chynhwyswyd honno yn y gyfrol hon yr ydys yn ei hadolygu yn awr. Yn wir, i'm bryd i, dyna'r ysgrif gyfoethocaf yn y gyfrol, ac mae'n un o'r trafodaethau gorau sydd

ar Islwyn. Mae hefyd yn datblygu'r myfyrdod uwchben tro ymadrodd ─ *y ffin,* neu'r profiad o wahanu a'r rheidrwydd o undod ─ sef yr hyn a elwais yn 'wahuno'. Un o brofiadau mawr bywyd: un o hanfodion mawr meddwl. Mae'n cyffwrdd â therfynau sicrwydd a'r 'byd barddonol sy'n arwyddlun o undod ymhob dim'. Drwy hyn rhoddir ein golwg ar fywyd mewn cyd-destun delweddol o ddaearyddiaeth ffiniol bryniau a thraethau. A daw Atgof lle y cyffyrdda'r gorffennol â'r presennol. Yn y fan hon, cyfyd Hugh Bevan, y beirniad arddulliol, tua'r ysbrydol.

Cawn ddychwelyd at Forgan Llwyd eto, gobeithio. Ond y pwynt yr wyf yn sôn amdano ar hyn o bryd yw'r modd y mae ar y naill law yn gosod gerbron 'Theori Mynegiant' sydd fel petai'n ymwneud ag 'allanolion' megis seiniau, a chysylltiadau geiriol, gan dynnu sylw at ffigurau a throadau ymadrodd, a phatrymau thematig; ac eto ar y llaw arall drwy'r cwbl, mae'n mynnu codi uwchben yr hyn y meddyliwn amdano fel arfer fel tiriogaeth arddulleg. Yn betrus o gyfrinachol fel petai, mae'n trafod egwyddorion cyffredinol. A'r rheswm am hyn oll yw'r Traddodiad Cymraeg diweddar ei hun sydd, o leiaf ers yr unfed ganrif ar bymtheg tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn 'boenus' o ysbrydol. Mae'n draddodiad unigryw ochr yn ochr â thraddodiadau naturiol braf fel Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a.y.b. er gwaethaf campweithiau aruthrol o grefyddol yn yr ieithoedd hynny. Mae llenyddiaeth Gymraeg yn embaras o Gristnogol. O'r braidd y gellir symud o'r herwydd, medd rhai. Mae'n hollol annifyr mai emynydd o bopeth yw'r prif lenor rhwng Tudur Aled a T. Gwynn Jones: sef Pantycelyn. Mae'r Beibl yn llethol o ganolog i'r traddodiad diweddar. Dyw'r math yna o unigrywiaeth ddim yn deg i feirniaid ein hoes ni. I'r to ifanc, y mae'n arswyd. Yn wir, ymesgusodai Hugh Bevan wrth gyfeirio ei gyfrol ar Forgan Llwyd mewn modd braidd yn orgywrain, a honnai'i fod am ddadansoddi rhyddiaith hwnnw 'er mwyn darganfod y gwahaniaeth rhwng yr hyn a gyflawnir gan lenor a'r hyn a gyflawnir gan yr athrawiaethwr neu'r athronydd.' Holltai Gymhelliad a Mynegiant. Mae'r gyfrol honno yn gyfrol gampus yn wir, ond dyna'r un peth na lwyddai i'w wneud. Y mae'r llenor a'r athrawiaethwr yn cael bod yn un, a'u hagweddau a'u celfyddyd yn trawsgyflyru gyda'r naill yn cyfoethogi'r llall yn ein dannedd ni. Fe'u ceir felly o ran themateg o leiaf, a hynny o fewn fframwaith gwerth.

Yn ei gynefin, dichon mai mewn pregethu esboniadol Biwritannaidd am y darn ysgrythurol unigol y tarddodd dull beirniadaeth lenyddol Hugh Bevan ei hun ─ Beirniadaeth Ymarferol. Onid yn nosbarth yr oedolion (peth Cymreig iawn) yn yr Ysgol Sul, y ceid, heblaw dadansoddi manylder, fentro hefyd i archwilio athrawiaethau mawr, megis Cyfiawnhad a Sancteiddhad? Ac fe hyfforddwyd pobl o'r fath i ddarllen fel oedolion.

Mae gan Robert Rhys yn y gyfrol *Sglefrio ar Eiriau* 1992 gyfeiriad datblygedig at ysgol bwerus iawn mewn Beirniadaeth Lenyddol ym Mhrydain ac America yn y ganrif ddiwethaf. Fe'i gelwid yn gyffredinol yn Feirniadaeth Newydd. A bu gan Hugh gysylltiad unigryw â'r ysgol honno.

Gellid dweud bod gan John Gwilym Jones yntau, ac i raddau llai Alun Llywelyn Williams, gysylltiadau meddyliol â rhai beirniaid Saesneg yn y symudiad hwnnw. Meddai Robert Rhys: 'Cynrychiolydd disgleiriaf y symudiad yng Nghymru oedd Hugh Bevan.' A dadlau'r wyf ar hyn o bryd fod Hugh er ei waethaf wedi rhoi peth tro ar natur y feirniadaeth honno: daliai at yr arbennig yn ffyddlon, ond gyda hynny gogwyddai ychydig at gefndir o gyffredinoli a oedd yn gweddu i'r cefndir Cymreig.

Yr oedd ef yn unigryw yng Nghymru, hefyd, mewn ffordd arall. Canolwyd y mudiad ym Mhrydain yng Nghaergrawnt. Ac ar ôl gorffen ei gwrs Anrhydedd yn gyntaf yn y Gymraeg ac wedyn yn Saesneg yn Abertawe, cododd Hugh ei bac yn 1932 a chyrchu parth â Chaergrawnt. Yno, er mai F. L. Lucas henffasiwn oedd ei diwtor personol, Manny Forbes a'i hysbrydolai. 'Y cwrs o ddarlithiau mwyaf gwreiddiol, cwircaidd, anrhagweladwy a chyffrous', meddai un fyfyrwraig am ei berfformiad. Eto, I. A. Richards oedd yr un a adawodd ei ddylanwad yn drymaf arno.

Ond yn y flwyddyn yr aeth Hugh i Gaergrawnt fe gyhoeddwyd llyfr gan awdur arall a wnaeth gryn stŵr ymhlith llenorion a beirniaid Lloegr (a Chaergrawnt) sef *New Beginnings in English Poetry* (1932) gan F.R. Leavis. Dwy flynedd oedd hyn ar ôl cyhoeddi cyfrol gyntaf Leavis, llyfr y buasai Hugh yn siŵr o fod wedi'i ddarllen hefyd, sef *Mass Civilisation and Minority Culture.* Daeth awdur y ddau lyfr hyn, sef Leavis, yn ddylanwad pennaf beirniadaeth lenyddol Saesneg yn yr ugeinfed ganrif. Ar y pryd, safai ychydig o'r neilltu: yn wir, sefyll o'r neilltu fu ei *forte* byth.

Dyma, felly, yr un a gâi'i ystyried yn 'gynrychiolydd disgleiriaf' Beirniadaeth Newydd yng Nghymru, sef Hugh Bevan, yn cyrchu am flwyddyn i Brifysgol a oedd yn enwog ar y pryd (ymhlith llawer arall) oherwydd beirniad arloesol, sef I. A. Richards, a oedd bellach yn llai-lai presennol yno, ond a gyhoeddasai'r gyfrol *Practical Criticism* (1929) a fu'n ddylanwad ar ddarlithiau ac ar erthyglau Hugh Bevan byth wedyn. Yn ei gyfrol *The Principles of Literary Criticism* (1924), trafodai I. A. Richards y seiliau theoretig y datblygwyd techneg dadansoddiad ieithyddol Eingl-Americanaidd ohonynt o hynny ymlaen. A gellid ychwanegu 'beirniadaeth lenyddol' Gymreig hefyd ar y pryd.

Ond ar ei ôl ef (ac ar ôl Eliot hefyd) fe gododd, er mai cymharol ifanc oedd ef a chynnar yn ei yrfa ar y pryd, un a ddôi i fod o bosib yn fwy nerthol na'r un beirniad Saesneg arall yn yr ugeinfed ganrif. Bu F.R. Leavis yn fwy hyderus, trahaus, difrif, moesgarol, a meudwyol ei ddylanwad, gredaf i, na'r un arall, ac yn arbennig o drwm ei ddylanwad ar un y byddai'i bersonoliaeth yn llawer mwy gwylaidd, sef y cyw beirniad o Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman.

Machludodd Leavis ym 1978. Dyma wedyn ddetholiad o drwynau bach petrus ôl-fodernaidd o'r diwedd yn medru ymwthio allan o'u tyllau i weld a oeddent yn saff wedi'r trobwynt. Ac wele'r

cleddyfau strwythurol hwythau yn cael eu hogi mwyach, a holl gyhyrau Ôl-strwythureg ac Ôl-foderniaeth maes o law yn pentyrru gwawd diderfyn ar ludw Leavis yn Amlosgfa Huntingdon Road. Dechreuai enw Leavis gilio o ddifri.

Bu farw Hugh yntau flwyddyn wedyn.

Ei olynydd diwygiedig ef heddiw yng Nghymru, ar ryw olwg, o ran tuedd feirniadol yw Robert Rhys. Mae ef yn fwy cynhyrchiol nag y bu ei gyndad, ac wedi estyn rhai o'r pwysleisiau i wynebu'r oes newydd. Ond y mae'i saith bennod yn *Y Patrwm Amrywiol* I a II, nid yn unig yn uchafbwynt i'r cyfrolau hynny, ond yn datgelu ei fedr craff i lunio enghreifftiau gloyw o ddarllen clòs. Felly hefyd yn ei gyfrol *Chwilio am Nodau'r Gân* wrth chwilio gwreiddiau Waldo, ynghyd ag erthyglau eraill ar waith hwnnw. Yn ei gampwaith, *Daniel Owen,* cawn yr astudiaeth loywaf a mwyaf cytbwys erioed o'n prif nofelydd. Ac mae'r gem o astudiaeth o lenor go ddiarffordd, James Hughes 'Iago Trichrug', yn dadlennu inni fedr storïol y beirniad, a hefyd yn datgelu mewn darlun newydd sylweddoliad llawnach o fywyd llenyddol Cymraeg Llundain, i estyn yn helaeth y darlun go lawn a fu gennym eisoes o'r ddeunawfed ganrif yn y ddinas honno. Ond y mae ei ysgrif yn *Sglefrio ar Eiriau* 1992 yn dadlennu, o leiaf i ni (na fu'n fyfyrwyr iddo), ei sylfeini beirniadol mewn Arddulleg Fodern. Hynny yw, gloywodd a moderneiddiodd fethodoleg Hugh Bevan, ac fe ddaeth â hi yn barchus fel techneg i mewn i fileniwm newydd, yn fodd i gadw beirniadaeth yn gytbwys heb anwybyddu her Ôl-foderniaeth. Y gwir yw bod yna dair gwedd gall a pharhaol a oroesodd anghydbwysedd a dadleuon diwinyddol clwc Ôl-foderniaeth ─ sef Arddulleg, Themateg, a Strwythureg. Disgyblaethau diogel beirniadaeth lenyddol. (A mynnwn wahaniaethu rhwng *athrawiaeth* Ôl-foderniaeth a *thechnegau* llenyddol achlysurol Moderniaeth, pethau gwahanol er cysylltiedig.) A Robert Rhys yw pencampwr Cymraeg Arddulleg. Ond efô fyddai'r cyntaf i fynegi'i barch at esiampl Hugh Bevan.

Yn ail, unwaith eto oherwydd unigrywiaeth y traddodiad Cymraeg, fel Hugh Bevan, y mae Robert Rhys yn barod ddi-ofn i wynebu rhuddin ysbrydol y gweithiau y mae'n eu trafod.

Rhinwedd fawr Beirniadaeth Fynegiant yw ei bod yn hoelio sylw ar y gerdd unigol, ar y ddrama neu'r stori unigol. Yn wir, yn fwy manwl byth, fe hoelia sylw ar y gair a'r frawddeg unigol. Mae Beirniadaeth Dafod ar y llaw arall yn archwilio'r cyffredinol ─ beth yw stori? beth yw trosiad? a pham? beth yw pwrpas a gorfodaeth y ffurfiau hyn? Erys Beirniadaeth Fynegiant 'yn syml' gyda'r darn ei hun, bob un yn wahanol. Wrth gwrs, mae Tafod yntau'i hun bob amser wedi dechrau o raid gyda'r enghraifft unigol. Ond nid yw'n aros yn y fan yna. Chwilia'r undod a'r cyffredinol. Mae Beirniadaeth Fynegiant yn bodloni ar y profiad penodol, ac yn goleuo ansawdd a gwneuthuriad hwnnw.

Yn hyn o beth, y mae cyfraniad Beirniadaeth Fynegiant yn amheuthun ac yn uniongyrchol syml bleserus. Y lle y mae'n cyfeiliorni, a'r lle y gall pob ysgol feirniadol gyfeiliorni yw honni am ei chornel ei hun mai **dyna'r cwbl sydd**. Diffyg y gwahanol ysgolion beirniadol yn gyffredin yw hawlio nad oes dim arall, fel y gwelsom gyda Thomas Parry. Ni chwiliant undod cyfansawdd pob cydlyniad. Mae hyn yn fwy difrif yn achos Ôl-foderniaeth gan fod gan honno ddau naïfder eithafol odiaeth. Yn gyntaf, mae ei safbwynt sylfaenol yn ieithyddol wallus ─ ni all fod yn ddeallus heb gymathu'r rhan a'r cyfan, yr un a'r amryw. Dyna'r diffiniad anochel o adeiladwaith bodolaeth iaith ei hun. Ac yn ail, mae ei safbwynt sylfaenol yn ddiwinyddol wallus: mae'n anymarferol i feddwl yn gyson luosaidd, chwâl, relatifaidd, a sgeptigaidd heb ragdyb eglurach. Dibynnir ar fodolaeth synnwyr ac ar gyfanrwydd ystyr er mwyn amgyffred dim o gwbl: ffug o theoretig yw Ôl-foderniaeth cyn belled ag yr oedd rhai ysgolion beirniadol yn y saithdegau'n meddwl amdani.

Felly, wrth geisio parchu ystyr yn fwyfwy bellach, amheuthun inni gamu'n ôl mewn Mynegiant dros ben y saithdegau at Foderniaeth gynt a Hugh Bevan, neu ynteu (o aros yn yr un traddodiad Mynegiannol) ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain gyda Robert Rhys ac Arddulleg er mwyn ailgydio yn y traddodiad ystyrlon. Aethom yn fwy ymwybodol o'r hyn a wnaem.

Dyma ni ar ddiwedd degawd cyntaf y mileniwm newydd yn gallu gwneud rhywbeth na fyddai odid neb ugain mlynedd yn ôl yn ei daeru a fyddai'n bosibl… Pawb, ddwedais, heblaw Golygyddion *Sglefrio ar Eiriau*, Gwyn Thomas a Robert Rhys. Sef dathlu dull a chyngor Hugh Bevan ar gyfer 'Dysgu Darllen', peth sy'n dra gwerthfawr i oedolion wedi'r blynyddoedd dreng.

Buom yn sôn eisoes yn y gyfrol hon am feirniaid amrywiol eraill (o'r ugeinfed ganrif): J. Morris-Jones, Saunders Lewis, Thomas Parry. A dyma ni wedi cyrraedd un beirniad sy'n bur wahanol i'r lleill. Ac eto, ef, yn anad yr un, sy'n dweud 'Arhoswch'.

Fel y bydd Gwyddonydd yn edrych ar wrthrych ac yn dweud am yr hyn sydd yn y golwg, 'Mae bodolaeth yn fwy na hyn', ac fel y bydd Cristion yn edrych ar drefn y greadigaeth ac yn cyhoeddi, 'Mae yna anweledig yn y fan yma', neu fel y bydd y bardd yn darganfod, 'Mae yna ddirgelwch. Mae yna elfen gudd ar waith fan hyn,' felly y bydd Hugh Bevan yntau wrth gydio yn ei dasg yntau. Datgelu unplyg ymchwilgar yw ei bleser. Dringa uwchben y celwydd naturiolaidd.

Wrth gwrs, fe all fod ambell feirniad o hyd sy'n mynnu ymgyfyngu'n rhamantaidd i argraffiadaeth wlanog deimladol ar yr wyneb. Ond un o ddarganfyddiadau mawr pob un o'r bobl a enwais yw bod yna un wedd ryfeddol ar y peth 'anniffiniol' hwnnw a'r 'dirgelwch cyfrin' hwnnw y mae'n anodd ei mynegi, nid yn unig am ei bod yn amlweddog, ond am mai trefn anweledig yw. Ffurf gudd yw. Perthnasoedd annisgwyl. Ac wrth gwrs, haerllug yw tybied y gellid esbonio popeth.

Dysgu darllen yn well yw rhan o waith y beirniad, a'r 'gwell' hwnnw yw'r hyn sydd rhwng

y geiriau.

Ac felly, pan fo'n ymdrin â llenyddiaeth werthfawr, yna rhagdyb Hugh Bevan yw bod modd datgelu bod pob cerdd o sylwedd 'yn fwy na hyn'. Ac efallai mai dyna yw gwaith bardd hefyd wrth edrych ar berson neu ar olygfa neu wrth ystyried digwyddiad neu wrthrych. Ni sgrifennai gerdd am y distadlaf o'r rhain oni bai ei fod wedi darganfod bod yna 'fwy na hyn'. Felly, y bydd Hugh Bevan yn dweud wrthym ni, 'Dowch gyda mi i'r llenyddwaith hwn. Mae'n fwy na hyn'.

Wrth gwrs, rhaid dechrau ar yr wyneb. A dylid peidio â dirmygu hynny. Dyma un o'r mannau lle y mae'r 'beirniad ymarferol' a'r darllenydd clòs yn arbennig o lwyddiannus. Mae'n tynnu'n sylw at y diriaetholdeb, ac at yr apêl i'r synhwyrau, mewn seiniau, mewn delweddau, yn yr ieithwedd. Ymetyb i'r rhythmau, chwilia'r symudiadau cystrawennol. Yn wir, y perygl yw iddo synied mai dyna'r cwbl. Ond un wers annisgwyl, a dychrynus i rywrai, yw darganfod bod a wnelo'r cudd a'r anweledig bob amser â threfn. Nid dyna ddymuniad y rhamantydd. Mae hwnnw'n saffach ac yn ymddangosiadol gynhesach gyda theimladaeth a hiraeth am yr 'old unhappy far-off things' yr oedd Gruffydd mor daer inni aros gyda hwy… 'Creulondeb yw dadansoddi'. Ond i mi, y mae ymaflyd yn feddyliol emosiynol yng 'nghyfanrwydd cerdd', ac ymateb yn gyflawn iddi, yn golygu mwy na thanlinellu diriaetholdeb, mwy na naws yr eirfa, er ei fod yn dechrau yn y fan yna. Mae yna fyd cudd ystyrlon cyflawn i'w gydnabod. Naturiol yw dadansoddi. Naturiol yw cyfannu. Ac yn y byd hwnnw y mae'r bardd, os yw'n fardd gwerth ei ddarllen, yn cychwyn ar wefr ei daith. Un o bwysleisiau Hugh Bevan oedd archwilio a oedd trefnusrwydd yr arddull mor ddechau â chymhendod ei dei... Wedyn, oedai hefyd megis mynach i ymholi ─ beth yw'r peth mawr sydd yn y fan hon? Beth yw'r cysylltiad rhwng yr ymateb llenyddol i fywyd a'r 'Weledigaeth Fawr'?

Chwilota'r anweledig yw rhan bwysig o'n gwaith, gan ddod i adnabod yr elfennau cudd sy'n cynnal bywyd. Ac os yw'r 'anniffiniol' a'r 'ffurfiau' dirgel a'r deddfau yn mynd i'n harwain i archwilio trefn sylfaenol ryfeddol, yna gan ein bod yn oedolion, torchi llawes ac wynebu'r gwir amdani. Themâu strwythuredig, rheidiau cynganeddol, cyfundrefnau isymwybodol, y cwbl lot! Ond Theori yw hynny. Nac ofner. Yn y cudd, yn y drefn anwel honno y mae Bywyd yn cychwyn, ac yn aros. A'r Gerdd yw hynny. …Un peth y mae Theori wedi'n gorfodi i'w wneud yn y cyfnod diweddar, a hynny yw holi beth yw llawnder swydd y Beirniad. Mae hyd yn oed yn ein procio i chwilio theori y rhai sy'n tybied eu bod yn wrth-theoretig ar egwyddor… megis Hugh Bevan.

*Beirniadaeth Lenyddol: erthyglau Hugh Bevan*, gol. Brynley F. Roberts, 1982.

Rhwng dauddegau'r ugeinfed ganrif a'r saithdegau, datblygwyd a choethwyd yn y Gorllewin fath o feirniadaeth lenyddol a adweinir fel 'Beirniadaeth Ymarferol'. Ymhlith yr ymarferwyr Cymraeg, gellid cyfrif pobl fel John Gwilym Jones, Alun Llywelyn-Williams. D. Tecwyn Lloyd cynnar, Aneirin T. Davies, ac R. Gerallt Jones. A'r 'puraf' neu'r mwyaf 'unplyg' yn y dull hwn o ran egwyddor oedd Hugh Bevan. Dyma'r feirniadaeth – y darllen clòs, yr ymgrynhoi uwchben y 'darn ei hun' – yr hyn a alwaf i yn 'Feirniadaeth Fynegiant'.

Wedyn, drwy'r byd gorllewinol, yn y saithdegau datblygodd 'Theori Lenyddol'. Nid oedd dim o'i le ar y cyfryw ddatblygiad. Ymarfer anochel yw cyffredinoli, neu theori. Ond gwaetha'r modd, meddiannwyd llawer o'r maes gan ragdybiau diwinyddol unllygeidiog nad oeddent nac yn ddigonol nac yn atebol i natur iaith. Dyna Ôl-foderniaeth, theori gyfyngedig pobl fel Derrida, Lyotard, Foucault ac eraill. Trafodent 'Amwysedd heb Undod' mewn llenyddiaeth, peth y mae pawb sy'n efrydu'r mwysair (dyweder) mewn barddoniaeth yn gorfod ei gydnabod fel egwyddor gwbl hunanladdiol. Mynnid bod ystyr yn gynhenid ar chwâl, yn 'unplyg' felly, peth eto sy'n gwbl hunanwrthddywedol. Arddelent, ar egwyddor, ddogmâu di-Wirionedd, peth drachefn sy'n hunandanseiliol. Rhwng y saithdegau a diwedd yr ugeinfed ganrif, cydiwyd yn ffasiwn hen, – 'dadstrwythuro' a damweinioldeb, theori hollol anymarferol. Yr oedd y cwbl yn llwybr caeedig diffaith.

Wrth geisio adeiladu Beirniadaeth Gyfansawdd o'r newydd, hwylus yw olrhain y camre yn ôl i'r union fan lle yr aethpwyd ar gyfeiliorn. Daeth yn bryd ailystyried y math o feirniadaeth Fodernaidd yr ymwrthodwyd â hi. Ac yn hynny o orchwyl, deuwn ar draws gwaith Hugh Bevan. Sylweddolwn, yn y cyferbyniad rhyngddo ef a theori, gynhwysedd a chydlyniad mewn Beirniadaeth. Nid mater oedd hynny o ymwrthod â'r theorïa a'r cyffredinoli er mwyn ailymaflyd yn yr arbennig neu'r unigolyddol (y darn ei hun). Yr oedd Beirniadaeth yn cwmpasu yr 'arbennig' ynghyd â'r 'cyffredinol', y theori a'r archwiliad o'r 'darn ei hun'. Ffenomen gyfansawdd oedd. Dyna o leiaf y pwnc a'i hwynebai ef.

Beth aeth o'i le? Cymhleth oedd y drafferth wrth gwrs. Ond gellid ei chrynhoi'n syml trwy gyfeirio at ddadl a fu rhwng F. R. Leavis (arwr Hugh Bevan) a René Wellek (cydawdur *Theory of Literature* 1949). Y darn unigol ei hun, ei egni a'i gymhlethrwydd, ei ddiriaetholdeb a'r her i'w werthuso oedd dechrau a diwedd y feirniadaeth i Leavis. Ar ôl archwilio, disgrifio, dyfynnu, a gwerthuso mewn cyd-destun un darn (braidd yn oddrychol o raid), yna ymlaen ag ef at y nesaf. Hynny yw, cyfyngder beirniadaeth wasgarog oedd y maen tramgwydd yn y fan yna ym mryd y theoriwyr. Enillodd Wellek y ddadl, er mai ef oedd y lleiaf egnïol ei feddwl o'r ddau. Ym mol Leavis yr oedd y tân. Sut bynnag, rhwng 1970 a 2000, ymwrthodwyd â dull Leavis fwyfwy, megis y cefnwyd ar ddull Hugh Bevan yng Nghymru.

Ond bellach, gyda Theori Ôl-foderniaeth yn mynd fwyfwy o dan gysgod cywilydd, daeth hi'n bryd, nid i gefnu ar Theori, eithr i sylweddoli Ôl-foderniaeth o bersbectif mwy gofalus. Agwedd Ôl-foderniaeth fu ystyried y dylid taflu'r 'feirniadaeth ymarferol' i'r cŵn. Ceisid ailddechrau o'r newydd yn wyryfol.

Yr ydym yn syllu tuag yn ôl tua'r 50au a'r 60au ac ar Hugh Bevan drwy niwl cyfnod ymddangosiadol ymddatodol ar ei ôl. Ceid llu o ysgolion beirniadol a oedd yn yr egwyl rhyngom fel petaent yn ddrylliadol ac yn wasgarog ar egwyddor. Wedi inni edrych yn ôl drwy dwnnel y cyfnod diweddar hwnnw, fe ddown i gyfnod sefydlog Hugh Bevan pryd yr oedd math o feirniadaeth o ran patrwm yn weddol gytûn er gwaethaf llawer o anghytundeb o ran chwaeth. Ym mhen draw'r twnnel, down at un dull beirniadol unigol, felly, sy'n ymwneud â'r hanfod mewn manylion.

Mewn gwirionedd, yr hyn sy'n digwydd yn groes i symlder hynny wrth inni arolygu'r amrywiaeth digyfeiriad yw bod yna hefyd fath o Fetafeirniadaeth luniaidd 'gydlynol' yn ymffurfio ymhlith yr adfeilion – a thueddwn i ddosbarthu'r math cyfansawdd o feirniadaeth a geir yn ôl criteria ieithyddiaeth ac arddulleg, ffigurau a throadau, rhagdybiau diwinyddol neu wleidyddol (themateg), esboniadaeth a gwerthusiad, ffurf ac estheteg, a dadansoddiad unigol a chyffredinol o'r darn ei hun. Hynny yw, yr ydym wedi cyrraedd cyfnod pryd y gofynnir 'beth yn union wedi'r holl wamalu yw natur beirniadaeth lenyddol yn ei hanfod amlochrog a'i chrynswth a'i threfn?' Ymhlith y tameitiach sy'n goroesi, fe geir y cyswllt rhwng Ôl-ôl-foderniaeth a Hugh Bevan. Dangosodd Robert Rhys er enghraifft y math o gyswllt a geir rhwng Arddulleg ddiweddar a Darllen Clòs cynnar. Onid anochel, parhaol, a rhan gynhenid o bob beirniadaeth yw dysgu darllen? Diffyg athronyddol Ôl-foderniaeth fu ei methiant i ddadansoddi *hanfodion egwyddorol a chwmpasog Cyfundrefneg*: yr un diffyg ag a gafwyd i raddau gan Feirniadaeth Ymarferol. Ni chanfuont y gwahaniaeth rhwng nodweddion sefydlog Iaith a Deall a nodweddion cyfnewidiol patrymau ac arferion Iaith, rhwng Tafod a Mynegiant.

Mewn gwirionedd, ceir hadau theori – a theori gref – eisoes yn syniadaeth Hugh Bevan. Er ei fod fel pe bai'n ymrwymedig i fanylion yn y gweithiau gwasgaredig unigol, ac am ei fod yn meddwl am arwyddocâd y nodweddion sy'n eu gwneud yn 'llenyddiaeth', ni allai lai na datblygu'r 'theori'. Clywch ef: 'Fe berthyn i bob darn o lenyddiaeth rai nodweddion sy'n penderfynu ei gymeriad llenyddol.' Dyna yw sylfaen theori. Dyma fynd ymhellach: 'Y mae'n amhosibl i'r beirniad mwyaf ymarferol ddianc rhag dedfrydu ynglŷn â safon ac arwyddocâd ... Ni ddylai'r beirniad anwybyddu damcaniaethu'n llwyr ychwaith.'

Rhydd ef dri chriterion i feirniadaeth, ac awgryma y dylai un o leiaf fod yn bresennol mewn llenyddiaeth o werth: (1) *awgrymusedd geiriau*; (2) *trawsgyflyru yn rhinwedd cyfosodiad*, a (3) *pŵer trosiadau fel gwneuthurwyr ystyron*. Ond roedd ganddo'r rhagdyb ramantaidd arferol yn erbyn 'cyfundrefn': 'ni ellir disgwyl i'r ddisgyblaeth feirniadol hon fod yn gymeradwy gan gefnogwyr

systemau o unrhyw fath.' Tybid ganddo – a thybid yn gywir – na ellid yn wreiddiol ffitio gwaith llenyddol 'i mewn i gyfundrefn'. A chywir oedd nad cofrestru mewn cyfundrefn a wnâi. Ond fel y dôi'r corff dynol allan o gyfundrefn y gell, felly y dôi brawddeg allan o ramadeg, a'r cywydd o Gerdd Dafod, a'r llinell o gywydd o adeiladwaith y sillaf. Felly y defnyddir y meddwl creadigol a'r dychymyg celfyddydol i ddeall. Felly, yn ei gasgliadau y ceid y theori.

Mae gan Gwyn Thomas ysgrif hynod ddefnyddiol yn *Trafodion y Cymmrodorion* 1993 lle y mae ef yn cyferbynnu trafodwyr Mynegiant â'r theorïwyr. Dywed ef am y theorïwyr: 'Y maent yn eu clymu'u hunain mewn jargon, yn defnyddio gair hir lle y byddai tri gair byr yn gwneud y tro'n well, ac yn gorffen eu taith drwy ddiflannu yn niwloedd a mwg eu geiriau tywyll eu hunain.' Gallaf ddychmygu'r gynulleidfa Gymraeg yn cymeradwyo ar y pryd. Ond ofnaf nad yw ymagweddu poblogaidd ddim yn mynd yn ddigon pell gerbron mudiad sy'n haeddu'i feirniadu yn fwy hallt o lawer, yn ddeallol fanwl, ac yn annibynnol ar yr ysfa boblogeiddiol arferol. Annheg yw disgwyl i feirniaid ifainc mwyach feithrin eu hannibyniaeth Gymraeg gerbron y fath ddilyw heb rybuddion eraill hefyd.

Bid a fo, yr wyf am ddefnyddio'r nodweddiadol garcus a thaclus Hugh Bevan i wneud math o arolwg o nadir Beirniadaeth Mynegiant. Beth yw ei maes? Beth y mae'n ceisio'i wneud? Onid yw hyn – megis theori – uwchlaw chwiwgarwch, yn faes gorfodol, bythol angenrheidiol mewn Beirniadaeth Gyfansawdd. Tybed onid rhan gynhenid yw o'r paramedrau cwmpasol cywir?

Credaf mai'r datganiad a wnaeth Hugh Bevan ym 1962 – 'Beirniadaeth Lenyddol' – gerbron yr Academi yn Sain Ffagan, yw'r disgrifiad cryno gorau o Feirniadaeth Fynegiant. Mae ef yn mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau craidd yn ei safbwynt. Ac mewn cyfnod fel y chwalfa ddiweddar, fe dâl ar ei ganfed wrth geisio ymadfer. Er ei waethaf ei hun, hyd yn oed heb eu cydlynu, gwêl rai o weddau hanfodol Beirniadaeth. Tybiaf ei fod yn ceisio gweithio tuag at ddisgrifiad canonaidd. Yn fras, ystyr darganfod gwerth i Hugh Bevan oedd dethol a disgrifio'n gadarnhaol yr hyn a adwaenai ei brofiad yng nghlasuron yr oesoedd yn fannau safonol. Camp y gŵr gwareiddiedig oedd adnabod camp. Ni wastraffai ormod o amser ar wendidau. Gallai unrhyw ffŵl ymbluo gyda sylwi ar namau – sentimentaliaeth, arwyneboldeb, diffyg bywyd. Meithrinasai farn felly drwy dorri'i ddannedd ar orchest amlwg pan brofai'r peth prin hwnnw. Ni cheir beirniad medrus drwy eistedd ar ffens yn ddiduedd.

Yna, ac yntau'n rhan o Foderniaeth ei hun, câi ei gynefin cyfoes naturiol yng ngwaith Waldo, Euros, Proust, a'r J. M. Edwards Ôl-Sioraidd. Gwyddai'n burion am y prif dueddiadau cyfoes mewn Beirniadaeth: yng Nghymru, Saunders Lewis; yn Lloegr, Leavis, Richards ac Empson. Gwyddai am ymdrech ei gyfoeswyr i ymwared â Rhamantiaeth, nid yn gymaint o'r amgylchfyd gwledig ond o'r 'arferiad' caeedig gwledig. Mynnai ef wneud mewn beirniadaeth yr hyn a wnaent hwy mewn barddoniaeth a rhyddiaith storïol – sef llenydda'n effro o fewn cyd-destun cyfoes meddyliol, heb golli'i unigolyddiaeth. Gwyddai fel modernydd am rai o ragdybiau mwyaf amddifad Ôl-foderniaeth a besgai ar

golli undod a chydlyniad – megis sgeptigiaeth, amhenderfyniadaeth, a negyddiaeth chwâl. Ond mawrygai ef hefyd y cyswllt rhwng pethau a'r cyfanrwydd mewn celfyddyd.

Yn y bôn, cyn-theoretig oedd Bevan. Sawrai'r peth o bell. Ond dewisodd ef gan amlaf fath arbennig o theori – yr 'arbenigoli digyffredinol'. Fel arfer, bu adwaith yn erbyn theori ymhlith y beirniaid am eu bod yn wrth-ddeallol ac yn blwyfol. Nid felly Bevan. Ymbleidiodd gyda'r darllen clòs oherwydd ei fod am adeiladu deall.

Yn ei ysgrif 'Dysgu Darllen' (*Sglefrio ar Eiriau*, 1992), yr hyn a wnaeth Robert Rhys oedd cydio yng ngwar beirniadaeth Hugh Bevan, ei hysgwyd yn addfwyn, a'i thynnu i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. Yr hyn a wnaeth oedd ychwanegu at driawd Bevan uchod ei driawd ef ei hun: *blaendir*, *gwyriad*, a *chydlynedd*. Sylwer ar *blaendir* a *blaendiro*, syniadaeth a gafwyd gan Gylch Llenyddol Prâg. 'Credai'r ffurfiolwyr cynnar y gallent ddiffinio llenyddoldeb testun arbennig trwy ddangos ym mha ffyrdd yr oedd y testun yn wahanol i'r iaith feunyddiol arferedig. Credent mai swyddogaeth llenyddiaeth oedd adfywio'r iaith arferedig trwy ei dieithrio neu ei hanghynefino; gwendid sylfaenol y ddamcaniaeth oedd nad oedd yn caniatáu ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y barddonol a'r barddonllyd ... os bydd yn llwyddo i ddieithrio ac adnewyddu'r cyfarwydd, fe wna hynny oherwydd y swyddogaeth arbennig a gyflawna mewn testun arbennig ... mewn cywydd mawl haclyd o'r bymthegfed ganrif neu delyneg eisteddfodol o'r ganrif hon hwyrach mai cefndir fydd y cwbwl – fydd yna ddim byd sy'n ymyrryd â'r confensiynol a'r disgwyliedig ... byddem yn disgwyl gweld patrwm o wrthryfel ac arloesi parhaus.'

Mae'r cysyniad o 'flaendiro' yn werthfawr ym maes arddulleg ers y chwedegau o leiaf, gan rai megis Geoffrey N. Leech. Meddai hwnnw, 'Just as the eye picks out the figure as the important and meaningful element in its field of vision, so the reader of poetry picks out the linguistic deviation in such a phrase as 'a grief ago' as the most arresting and significant part of the message, and interprets it by measuring it against the background of the expected pattern.'

Cymeradwywyd y term celfyddydol 'blaendiro' gan y Bwrdd Celtaidd ers dechrau'r saithdegau. Ond gwelais un o'n harchdderwyddon yn achwyn 'Sut y gwnaeth y Gymraeg lwyddo i fynegi ei meddwl am bymtheg canrif heb air megis ... "blaendiro"?' Clywais gŵyn gyffelyb am 'gyfathrebu', peth y gwyddai ein pobl ychydig amdano efallai ers cyn y bymthegfed ganrif, ond a ddaeth drwy reidrwydd yn bwnc academaidd yn y Gymraeg, yn ddiwydiant, yn ffrwydrad i bob math o gyfeiriadau. Ond diolch fod trefniant syniadaeth newydd yn dod o hyd i dermau newydd, er gwaethaf y poblogeiddgwn adweithiol. Plwyfoldeb meddwl fel arfer yw'r hyn sy'n gwrthwynebu bathiad geirfa. Diolch i fywiogrwydd ac egni yr hen iaith israddol a thaeog hon, cafwyd camre newydd cyson er gwaethaf pawb a phopeth.

Un amod neu un gofal a fu gan Hugh Bevan a Robert Rhys, wrth ddygymod â ffenomen 'Newydd-deb', oedd y gwerthoedd lletach. 'Newydd-deb dawnus' mewn cyd-destun gwerth oedd llenyddiaeth. Maent yn goleddfu'r elfen hon gan nad oes dim sy'n llai buddiol na newydd-deb er ei fwyn ei hun, na

dim rhwyddach. Bu’r *Avant-garde* gynt yn cymysgu geiriau a brawddegau a synnwyr ac atalnodi gyda huodledd di-ddawn. Newydd-deb dawnus yw’r hyn a roddir gan ddawn gwir welediad. Pan geir celfyddyd fyw, bydd delwedd neu gywair safbwynt neu gyferbynnu yn ddawnus yn yr estyniad a roddant i’r greadigaeth gynhenid ei hun. Bydd yn ‘werth ei ddweud’.

Hen yw pob newydd. Mi wn i am ferch fechan bedair oed. Tyfodd ar fferm ym mhellterau cefn-gwlad de-ddwyrain Cymru. Nid oedd ond un fferm arall yn y cyffiniau. Ac yno ceid merch fechan arall tua'r un oed. Daethant yn ffrindiau calon i'w gilydd. Ni welent blant eraill o'u hoedran. Gan yr ail ferch caed llygad tro. Pan aethant ym mhen hir a hwyr i'r Ysgol Gynradd, gwelai'r ferch gyntaf fod llygaid y plant eraill oll yn od.

Pe bawn yn cyferbynnu Robert Rhys â Hugh Bevan, mi dybiwn i fod a wnelo rhagoriaeth llenyddiaeth yn amlycach ym mryd y cyntaf â dethol ac â’r sylweddoliad o fywyd sy’n gudd, ac o ystyr sy’n llawnach na’r golwg. Nid mater o gyfleu ‘neges’ neu o broselytio ystyr uniongyrchol yw hyn. Cais ddadlennu yn hytrach ddimensiwn sy’n dangos bod cyfoeth deall a bywyd yn nod briodol i fyfyrdod beirniadol, ac y gellir dod o hyd i hyn mewn ffurfiau cyfan sy’n fewnol amrywiol ac yn ieithyddol ddychmygus. 'Mae'n werth ei ddweud *fel yna.'*

Ac os caf droi’n ôl at Leavis: math o broffwyd oedd ef; nid felly Hugh Bevan. Soniai Leavis am bethau megis yr ymrwymiad i’r ymwybod o ‘fywyd’. Moesol iddo ef oedd carthu llenyddiaeth o bob merfeidd-dra: gwnâi hyn les i gymdeithas. Mynnai ddarganfod camp ddethol drwy lunio graddfa hierarcaidd o ragoriaeth y gellid ei disgrifio. Ac i Robert Rhys yntau yn ei erthyglau a’i adolygiadau, mae yna genadwri foesol a brwydr egwyddorol nid annhebyg wrth adnabod nerth llenyddol.

Ond mae yna un cyferbyniad pellach byth, er nad i’r un graddau. Fel Modernydd yr oedd gan Hugh Bevan ambell duedd a fyddai’n arwain maes o law at Ôl-foderniaeth. Tueddai i ‘restru’ yn hytrach nag i ‘gydlynu’n’ ystyrlon drefnus. Un peth oedd y gair unigol, un oedd y llinell unigol, y gwaith unigol, y gwasgaredd o dechnegau unigol: amwysedd a chwalai ystyr, coegi a danseiliai bwrpas, a niwtraliaeth a filwriai’n erbyn gwerth. Dyna’r union ragdybiau gwahân a ddôi yn y man i hybu Ôl-foderniaeth. Y mae Robert Rhys yn meddu ar awydd i ddangos cydberthynas anochel ac undod y rhain. Gellid gweld yma’r gwahaniaeth rhwng dau gyfnod. I’r cyfnod Ôl-fodernaidd, amlystyraeth oedd Amwysedd. I’r cyfnod Ôl-ôl-fodernaidd, y pwynt diffiniol ynglŷn â’r Mwysair yw mai amlder ystyron yw o fewn undod gair. Nid amwysair yw heb yr undod. Aeddfedrwydd i’r mudiad Ôl-ôl-fodernaidd yw wynebu ffaith y ffeithiau: nid oes ystyr, nid oes gair, heb Amrywiaeth/Undod. Cyfrifir y cysyniad hwn yn ‘anodd’ gan rywrai. Ond nid yw’n ‘anodd’ i neb heblaw’r diogyn rhamantaidd sy’n dal i gofleidio ‘rhyddid’ syniadol heb ‘drefn’.

# DELWEDDU'R ANWELEDIG

*Morgan Llwyd y Llenor*, 1954; y rhagymadrodd i *Hanes y Ffydd yng Nghymru*, 1978; *Alegorïau Christmas Evans*, 1950; *Dychymyg Islwyn*, 1965: Hugh Bevan

Dyma'r Hugh Bevan nas gwelsom hyd yn hyn, gyda phedwarawd o lyfrau a oedd yn grefyddol o anghyfaddas (i ni heddiw), yn annisgwyl, ac yn ddieithr, efallai; ond yn Gymreig. Mae'r pedair cyfrol a enwir uchod, am eu bod ar briffordd y cyfnod rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn wynebu Protestaniaeth. A chan mai Hugh Bevan sy'n eu cyflwyno, ymwnânt hefyd â delweddu'r llenorion. Bûm yn ceisio darlunio'r beirniad hwn hyd yn hyn fel paragòn y Darllenwyr Clòs. Ac un priodoledd ystyfnig a ddisgwylid yn ofalus, o leiaf gan un ysgol o blith y Darllenwyr Clòs ar eu puraf, a hynny oedd osgoi'r ffŏedigaeth i Hanes Llenyddiaeth. Gwyddid yn burion am duedd Hanes i fudro'r dŵr beirniadol. Oherwydd anallu enwog hanesyddiaeth lenyddol weithiau i wynebu criteria gwerthuso yn blwmp ac yn blaen, ceid fflyd o 'fradwyr', yn arbennig yng Nghymru. Criw oedd a sgytlai ddadansoddi gweithiau llenyddol go iawn (ar ôl egluro'r ystyr arwynebol) ac a sgythrai'n waredol tuag at y cefndir a'r mudiadau cymdeithasol, tuag at fywgraffiad neu ffeithioldeb pêr, sef at yr amgylchiadau cyflyrol hynod bwysig (weithiau) mewn hanes. Anwylent y cyd-destun yn hytrach na'r testun. Ac yn wir, ym *Morgan Llwyd y Llenor*, fe geid cryn nifer o ystyriaethau hanesyddol. Roedd yn barod i hanesydda lle yr helpai i esbonio'r llên. Ac o fewn polisi Hugh Bevan o gofleidio'r darn ei hun, sef yr 'arbennig', gallai hanes hefyd fod yn barod i'w arwain i gyffredinoli diriaethau cyfnod. Gallai ddangos trosiadaeth iaith. Gallai yn ogystal lunio delwedd o'r awdur.

A pheth arall. Oherwydd purdeb unplyg y Beirniad Ymarferol, llwyddai ef fel arfer i beidio â mopio'i ben ar wleidyddiaeth amhersonol, er ei fod yn dal at weddillion y briffordd ysbrydol. Gwleidyddiaeth heddiw yw perygl y rhai nad oes ganddynt wir ddiddordeb ym meinwe na mwynhad nac adeiladwaith na gwneuthuriad celfyddydol llenyddiaeth. Ac y mae'n wir – o leiaf o safbwynt gwleidyddiaeth – fod Hugh Bevan, a oedd yn Sosialydd go solet (dybiwn i), wedi llwyddo yn ei ddyddiau aeddfed i beidio ag ildio (yn Abertawe ar y pryd) i'r swynion yn yr awyr o euogrwydd ynghylch cenedlgarwch Saunders Lewis. Diflannai'i Sosialaeth. Mynnai ymatal (gyda manylder gwyryfol) rhag ymadael â llenyddoldeb llenyddiaeth, a rhag carlamu ar hyd isffyrdd a chwithffyrdd Cymdeithas a Gwleidyddiaeth.

Ni fedrai ef, er hynny, ac yntau'n ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg, a hynny yn y cyfnod Protestannaidd, fod yn onest ac osgoi themateg Crefydd. Ni raid oedd iddo sylweddoli holl berthnasoldeb personol difrifoldeb ofnadwy deunydd syniadol y fath beth. Canfu o leiaf fod

delweddu a throsiadu a diriaethu ystyron ymgnawdoledig y grefydd honno yn fater o gryn bwys i lenorion Cymraeg eisoes, yn neilltuol rhwng yr unfed ganrif ar ddeg a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er gwaethaf bygythion deunydd crefyddol i esgor ar ymrwymiad, canfu hefyd fod gan lenorion crefyddol eu tueddiadau ffurfiol. Ac felly, ni fu efallai mor ddychrynllyd o amhriodol iddo ymdroi gyda dulliau meddwl Cristnogol a hyd yn oed Beiblaidd, ie, hyd yn oed mewn beirniadaeth Gymraeg. Y gwir yw bod trosiadu yng nghanol y ddealltwriaeth Gristnogol.

Pan gyhoeddwyd cyfrol Hugh Bevan ar Forgan Llwyd, fe gafwyd adolygiad anochel arni gan E. Lewis Evans, *Llên Cymru* III (1955). Yr oedd yn ysgrif enbyd o sâl. Mae'n cyfaddef wrth gloi'r erthygl: 'Gwaetha'r modd, aeth y llith ymhell dros y terfynau cyn i mi ddechrau adolygu'. Yna, tawodd. Hynny yw, yr oedd yn Gymro o adolygydd. Ni wnaethai ond amlinellu ei syniadau arferol a pharod ei hun am Böhme yn ail-dwym ddi-bwynt, heb sylwi ar union fater y gyfrol a adolygai. Traethai'i ragdybiau yr aethai rhyddfrydwyr hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif mor gynnes ar eu hôl, sef i rigol lle na allent amgyffred na dygymod â dim deallol y tu hwnt iddynt. Aethai'u rhagdybiau yn drech na'u synnwyr; ac felly amlinellodd Lewis Evans y llyfr truenus nesaf y byddai yntau wedi'i ailsgrifennu pe cawsai'r cyfle. Nis cafwyd.

Iach fu rhybudd Hugh Bevan (fel y nododd Goronwy W. Owen), 'rhag gwneuthur theosoffi Böhme yn unig faes cychwyn ac yn unig esboniad ar feddwl Llwyd'. A'r un pryd, dengosai Dr Owen fod y Llwyd wedi gwneud cyfrodedd o gyfundrefnau dychmygol Böhme â dysg ysgrythurol. Canfyddiad cadarn oedd hyn. Tynnai Dr Owen ein sylw at y ffaith i Hugh Bevan ei hun nodi gwahaniaeth traddodiadol Böhme a Morgan Llwyd; ac yr oedd hyn yn amheuthun, gan ddilyn y ffaith ei fod wedi gweithredu'i ddull delweddol a diriaethol o drafod arddull y Llwyd.

Bu Hugh Bevan yntau yn fodd i ddechrau sylwi ar feddwl annibynnol a gwreiddiol gwaith y Llwyd o'i gymharu â Böhme. Dan ddylanwad obsesiynol unllygeidiog Gruffydd, ac yn arbennig E. Lewis Evans (er mor werthfawr ar y cychwyn), llithrwyd yn gyffredinol oherwydd y gwylltineb gwrth-Galfinaidd yn yr ugeinfed ganrif i ormod o barodrwydd i osgoi ffeithiau am ddyfnder uniongred y Llwyd. Amlwg yw ysbrydoliaeth liwgar Böhme, a buddiol i raddau, wrth gwrs. Ond yr oedd gan y Llwyd feddwl a dychymyg beirniadol hefyd, a chan Hugh Bevan y craffter i ganfod y diriaethu a'r delweddu a gorfforai fframwaith personol baróc y Llwyd yn y Tri Aderyn. Y llyfrau arwyddocaol y bu Hugh Bevan yn eu hefrydu oedd y ddau: *The Age of the Baroque*, Friedrich; ac *Elizabethan and Metaphysical Imagery*, Tuve. A thrwyddynt, gwelai fod llyfrau rhyddiaith y Llwyd yn gymheiriaid teg i gerddi Traherne, Vaughan, Herbert a Crashaw. Yn hyn o beth, gwnaeth Hugh Bevan rywbeth go od.

Darganfu Bevan amlder a dyfnder poblogrwydd dylanwad llyfrau emblem i gyflwyno pethau ysbrydol mewn modd bywiog i ddarllenwyr ar y pryd. A chymerai ef Ffiguraeth cannwyll, ffynnon,

goleuni, gwaelod, gwreiddyn, haul, mwyn aur, pennau y bryniau, Seren Fore, tafodiaith, tân a haearn poeth, o fewn y Llyfrau Emblem, i fod yn fath o asgwrn cefn i'w gyfrol. Hynny yw, canolai ar droadau ysbrydol darluniaidd.

Nid yw Bevan wedi ymadael yn llwyr â'r darllen clòs. Ond y mae wedi cymryd un nodwedd ddiriaethol yn bennaf, a'i chario hi drwy'r cyfrolau a astudiai. Gwelodd y ffenomen gyfoes honno mewn Llyfrau Emblem, a'u hysgogiad tebygol yn treiddio trwy gynneddf weledol y Llwyd.

Mae yna wahaniaeth mân rhwng emblem a symbol a throsiad. Bydd *symbol* yn wrthrych o unrhyw fath a ddefnyddir fel arwydd sy'n cynrychioli rhywun neu rywbeth (delfryd o bosib). Mae pob gair ysgrifenedig neu lafaredig – o leiaf y rhannau ymadrodd traethiadol (enw, berf, ansoddair, adferf) – yn symbol. Mae'n sŵn sy'n sefyll yn lle'r peth, y teimlad, neu'r syniad. Ni raid i'r arwydd fod yn debyg i'r hyn a gynrychiolir (fel y gair 'cynrychioli' ei hun). Mae'n wahanol i *drosiad* sydd fel arfer yn cario drosodd o wrthrych 'A' o leiaf un elfen neu hanfod i fod yn esgus dros ei ddefnyddio yn lle gwrthrych 'B'.

Beth am *emblem*? Trof at y bardd Saesneg hoffusaf gennyf o'r rhai a enwyd gan Hugh Bevan, sef y Cymro George Herbert o Drefaldwyn. Yn ei hargraffiad o waith Saesneg Herbert, tyn Ann Pasternak Slater sylw at un gerdd gan Herbert am ffenestri lliw. Mae'r rheini'n cynrychioli'n drosiadol bregeth gan rywun sydd efallai heb feddiannu'r ysbryd na'r fuchedd a gyflwynir:

*Doctrine and life, colours and light, in one*
*When they combine and mingle bring*
*A strong regard and awe but speech alone*
*Doth vanish like a flaring thing,*
*And in the ear, not conscience ring.*

Dyna symbol a throsiad. Mewn cerdd arall am 'lawr yr eglwys'', medd Herbert:

*Mark you the floor? that square and speckled stone,*
*Which looks so firm and strong,*
*Is **Patience**:*

*And th'other black and grave, wherewith each one*
*Is checker'd all along,*
***Humility.***

Pa debygrwydd sydd rhwng 'Patience' a'r cerrig brith neu rhwng 'Humility' a'r patrymau? Roedd y gwrthrychau yn sylfeini, ac ymdeimlid â'u hargraff esthetig. Cyd-destun a roddwyd, heb drosi.

Sonia Slater am hyn fel 'candidly pedestrian process of emblemization'. 'Emblemau' hefyd yw'r Tri Aderyn hwythau eu hunain i raddau. Mae'r tebygrwydd rhwng y peth a'r symbol ymhellach nag sy'n arfer mewn trosiad. Dywed hyn rywbeth am osgo Hugh Bevan wrth ymdrin â llenor

syniadol, ac yntau'n ei astudio o safbwynt llenyddol ac eto gydag ymwybod hanesyddol. Yr arfer, ysywaeth, ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, fu trafod Morgan Llwyd fel rhyddfrydwr 'cyfriniol' chwâl; ac felly dilynwyd mewn themateg y côd anghywir. Yr hyn a ddarganfu Hugh Bevan yng ngwaith Morgan Llwyd wrth iddo archwilio'r Ffigurau oedd fod yna, yn hytrach, fath o gôd delweddol, gwerinol hyd yn oed, ond crediniol. Ceir tebygrwydd ysbrydol mewn emblem (yn wahanol o ran adeiladwaith i symbol, megis i'r 'gair'), ond ni raid cael tebygrwydd anochel agos. Mae pob côd, wrth gwrs, yn allwedd sy'n cyffredinoli. Cysylltodd Hugh Bevan y codau yng ngwaith y Llwyd â'r Llyfrau Emblem 'poblogaidd', nid yn ôl dull llythrennol wrth gwrs, ond fel *math o gynllun cudd yng ngwaith yr awdur.* Nid mater o ddylanwad arddulliol yn unig oedd hyn, ond ffordd o siarad dirgel – am y dirgel gwir. Dyma gam ymlaen gan Hugh Bevan yn y dehongliad o'r Llwyd.

Yn ei chyfrol *Theory and Theology in George Herbert's Poetry,* 1997, mae Elizabeth Clarke yn cynnig bod Herbert yn ei gerddi fel pe bai wedi mabwysiadu codau sefydlog a oedd yn gyfarwydd i ddarllenwyr yr ail ganrif ar bymtheg, codau a oedd yn cyfleu ysbrydoliaeth ddwyfol. Ac yr oedd symlder arddull Herbert ynglŷn â hyn yn adlewyrchu yn ôl Clarke athrawiaeth *De Simplicitate Christianae Vitae* gan Savonarola (y cofiwn amdano yng ngwaith O. M. Edwards). Felly hefyd y Llwyd. Mewn gwirionedd, wrth ymwybod ag emblemau o'r fath, yr oedd Hugh Bevan yn cyfleu hefyd feddwl y cyfnod y tyfodd y Llwyd allan ohono, a'i gefndir cythryblus arferiadol pryd y buasai rhaid i rywrai, ychydig ynghynt, siarad a sgrifennu'n ddiogel mewn côd er mwyn diogelwch. Daethai côd yn ffordd o feddwl, fel y daethai trosiadu i'r rhamantwyr wedyn.

Bu codio yn fath o gwpwrdd cêl i gredinwyr adeg erledigaeth ymguddio rhag llygaid gelynion, am eu bywyd, – nes i'r argyfwng basio. Ond gan bwyll, fel gyda phethau felly, aethpwyd i ymhoffi yng nghynhesrwydd y cwpwrdd. Dyna ffawd emblemio. Dyna gyd-destun y Llwyd.

Soniais o'r blaen mai un o'r ffyrdd sydd gan rai beirniaid o osgoi mwynhau a deall natur llenyddiaeth yw ymdroi gyda thrafod gwleidyddiaeth neu ryw achos da ar y pryd – yr hanes cymdeithasol, dyweder, lle na raid yn eu tyb hwy wrth werthuso esthetig. Gwiw gan eraill, ar y llaw arall, yw osgoi trafod 'llenyddiaeth fel llenyddiaeth' drwy'i chymryd fel rhywbeth sy'n mynegi syniadau athronyddol. Eto, nid yr hyn a ddwedir yn llythrennol (a dyna ni) yw beirniadaeth iach. Pan ddaw'n farddoniaeth, mae iaith yn gwneud mwy na'r llythrennol ryddieithol. Ceir Themateg amlhaen afaelgar yn ogystal ag Arddulleg dreiddgar gan Hugh Bevan. Un o ragoriaethau'r dull 'darllen agos' o drin cerddi yw'r diddordeb iasol yng nghwlwm y profiad cyfan yn y geiriau. Diau y gall y profiad hwnnw fod yn seicolegol, yn foesegol, neu'n synhwyrus adeileddol werthfawr. Ceir cyfarfod sydyn yn arafwch dyfnder creadigaeth sy'n dod yn fyw drwy sythwelediad byw; a'r sydynrwydd hwnnw sy'n bywiocáu ac yn dwysáu'r iaith.

Geill hyn awgrymu profiad rhamantaidd deimladol, fel pe na bai gwerthfawrogiad ond yn fater

argraffiadol ar wyneb y cnawd. Ac y mae Hugh Bevan yn effro iawn i’r math hwnnw o brofiad. Ond y mae’r sut y’i gwneir, pan wneir hyn, a’r math o ddyfnder sydd y tu ôl i’r dweud gweledigaethus yn golygu llawer mwy na nofio ar yr wyneb. Mae’r difrifoldeb ‘argyfwng’ a rhwymedigaeth mewn ‘achos’ weithiau yn darparu egni dychymyg a theimlad i’r canon, ac felly’n rhan o brofiad pur darllenydd difri.

Aml ei hadrannau yw Beirniadaeth Mynegiant. O’r herwydd, gall osgoi’r darlun cyflawn. Gwn i fod rhai beirniaid yn hoffi bychanu ffurfiolaeth meddwl a chyfundrefneg, gan dybied (yn rhamantaidd braf) fod rhyddid a gwylltineb amrwd ar y pryd, neu bregeth wleidyddol, yn canslo pethau felly. Ond y gwir yw nad oes dim yn fwy dynol gyfoethog na’r ysfa gyson am drefn sydd y tu ôl i bob deall a phob dweud llenyddol gloyw. Mae’r rheidrwydd treiddgar hwn am grynder meddwl a helaethrwydd gorffenedig hynod liwgar ac amrywiol, yn ogystal ag am ddeallusrwydd aeddfed, wedi diogelu’r sylw a roddodd barddas i nerth adeiladwaith dychmygus ar hyd y canrifoedd. Dyna pam yr oedd *Cerdd Dafod* J. Morris-Jones mor awgrymus bwysig i urddas Cymru ac i Gymru Fydd. Fel y mae hanes y presennol yn fynydd iâ ar y pryd ym môr seiliau hynafol, felly y mae sut a pham y presennol beirniadol yn rhannol ddyledus i fawredd seiliau traddodiadol anamlwg bob amser. Ni all beirniadaeth aberthu’r crwn. Heb hyrwyddo gwerth, aflwyddiant yw.

Felly, rhaid sylweddoli gyda Hugh Bevan fod gan y gair ar y pryd synnwyr a seiniau, sylwedd ac arddull â chysylltiadau, – taw pa mor anghysurus Gymreig heddiw yw cydnabod hynny. Cyrchu sy raid.

* * *

Mae’n ddiddorol cymharu Hugh Bevan â Leavis o ddau safbwynt. Yn gyntaf, yr oeddent yn *debyg* ill dau yn eu hymroddiad i’r darn arbennig ei hun, a’u hesgeulustod (cyn belled ag a oedd yn bosib) o oedi gyda’r cyffredinol, boed yn ffurfiant neu'n themateg ddatblygedig. Yn ail, iddynt ill dau, yr oedd beirniadaeth o’r fath yn gyfraniad moesol ac aruchel i addysg ac i adeiladaeth gymdeithasol waraidd. Anodd (i rywrai efallai) yw bod yn angerddol ynghylch arddulleg er bod yna angerdd mewn arddull. Ond i Leavis, ac i raddau llai gan Hugh Bevan, yr oedd gwaed a chnawd llên ganonaidd yn genadwri o blaid iechyd yn bersonol ac i’r gymdeithas.

Gwahaniaethent yn bennaf, dybiaf i, yn y duedd dawel a oedd gan Bevan i archwilio’r cadarnhaol, ac yn null y traddodiadol Cymraeg i foli-drwy-ddethol cyn belled ag y gallai; a gwybod sut. I Bevan, yr oedd trosiadaeth (ac emblemaeth) a'r cysylltiadau Cristnogol hefyd wedi'i ddenu i ymdroi'n fwy gydag iaith fel cyfrwng 'ysbrydol'. Treuliai Leavis ar y llaw arall gryn dipyn o’i egni ffyrnig i negyddu’n angerddol, i chwynnu, ac i ymhyfrydu mewn hela gwendidau. A

gwybod sut. Materion digon angenrheidiol. Ond nid dyna ran oramlwg o osgo Hugh Bevan. Iddo ef, glanhau'r meddwl oedd moli.

Dichon fod Leavis wedi synhwyro beth oedd y tu ôl i'r gorwel. Roedd ganddo anian proffwyd. Mewn Moderniaeth gallai gydnabod, yn ogystal â rhinweddau mawr, yr avant-garde. Yn yr arbennig a'r 'darn ei hun', caed hadau diffygion a chwalfa Ôl-foderniaeth. Mae'n bwysig sylweddoli bod dechreuadau ymddatodiad, tanseiliad, amhenderfyniadaeth a sgeptigiaeth yn treiddio ers y ddeunawfed ganrif fel meddylfryd gosodedig. Rhannau ydynt o wth cyson anghrediniaeth. Ac yng ngwaith Hugh Bevan – megis gyda Frege, Husserl, Sartre a Wittgenstein – gallai Mynegiant ymddangos yn ben draw amddifad, hynny yw, heb Dafod. Er gwaethaf camp y cyfnod gyda'r Darn ei Hun, yr oedd hyd yn oed awgrymu bod cyffredinoli a chyfundrefnu y tu hwnt i arwyddocâd ffiniau Beirniadaeth Fynegiant yn tlodi'r gweithgaredd hwnnw. Wrth efrydu pob beirniad, tueddwn i sylweddoli fwyfwy beth a oedd ar ôl. Eisoes, caed y dull hunanlywodraethol digyswllt – a oedd yn cynnwys peth awgrym o'r cyfnod dros y gorwel. Yn ymarferol, cyfyngedig yw pob beirniad wrth gwrs. Nid oes neb yn cyrraedd y gorwel, diolch i'r drefn. Eto, ar y pryd, drwy ymgyfyngu celfydd, gwasanaethodd Leavis a Hugh Bevan yn ôl angen eu hamseroedd. A gwnaethant eu pwynt, felly, a'u cyfraniad, sy'n arhosol.

## BEIRNIADAETH YN GYFFREDINOL

*Beirniadaeth Lenyddol*, Hugh Bevan, Gwasg Pantycelyn, 1982, gol. Brynley F. Roberts

Cyffredinoli yw gwaith athronydd bob amser.

Hyd yn oed pan fo athronydd disglair fel y diweddar Dewi Z. Phillips yn honni nad da yw cyffredinoli, yr union eiliad yna, y mae'n cyffredinoli. Nid oes yr un gair yn yr iaith nad yw'n cyffredinoli, wrth iddo gael ei gario, fel sy'n rhaid, o un sefyllfa i sefyllfa arall. Hefyd, diffinnir pob gair o'i fewn ei hun gan y symudiad anochel rhwng yr Arbennig a'r Cyffredinol. Felly y mae hi gyda phob tamaid unigol o eirfa wrth ei symud o le i le, ac felly hefyd bob tamaid o ramadeg. Eto, nid da fu gan Hugh Bevan chwaith feddwl ei fod yntau'n cyffredinoli. Mynnai ddal ei lygad yn unplyg ar yr arbennig. Hen air cas, haniaethol oedd 'cyffredinoli'. Roedd pawb am wared hwnnw, yn arbennig yn sgil rhamantiaeth. Ac eto, pan fyddai Hugh Bevan yn gosod 'olrhain patrymau synhwyrol llenyddiaeth' fel unig waith y beirniad, roedd ef yn sefydlu techneg gyffredinol iawn a allai blesio rhai athronwyr 'purach' na'i gilydd.

Carwn yn awr gyferbynnu Beirniadaeth Lenyddol Hugh Bevan, ar y naill law, â'r gŵr arall hwnnw o Brifysgol Abertawe, sef Dewi Z. Phillips. Ymddengys i mi mai methodoleg Dewi Z. Phillips oedd ceisio dod o hyd i *thema* yng ngwaith y sawl yr oedd yn ei feirniadu, ac yna gynnal dadl ag ef pe gallai. Hynny yw, nid oedd ganddo ddiddordeb ynddo yn ôl Beirniadaeth Lenyddol arferol. O'r herwydd, tueddai'r athronydd i beidio â chyfrif y 'safbwynt llenyddol' yn ddigonol. Ni fynnai gynnwys blas synhwyrus geiriau, na choegi ffraeth, na hydeimledd awgrymus, nac amwysedd ymestynnol, na mwynhad chwaith. Nid wyf yn ceisio dweud na ddylai athronydd, na seicolegydd, na diwinydd, na chymdeithasegydd, byth ddefnyddio llenyddiaeth yn eu gwaith hwythau. Pam lai? Onid yw llenyddiaeth yn medru sôn am bob cylch ysbrydol sydd o fewn amgyffred dyn? Eto, mae gan Feirniadaeth Lenyddol a chan Lenyddiaeth eu sffêr arbennig a chynhwysfawr eu hunain sy'n ceisio mwynhau pethau gwahanol i'r sfferau eraill, ac mewn dull gwahanol. Eir ati i fwynhau llyfr fel 'llenyddiaeth', a'i werthfawrogi fel celfyddyd y mae ganddi ei ffurf a'i deunydd priodol. Eto, pan fentra athronydd i diriogaeth Beirniadaeth Lenyddol, a thybied mai ymwneud â dulliau a phwrpas a ffurf athroniaeth y mae am ei wneud, fe all gyfaddef hefyd ei fod ef yn trafod themâu dychmygus sy'n 'dweud' pethau gwahanol i athroniaeth. Fe all fynd ar goll o'r herwydd, ac allan o'i ddyfnder yn thematig. Gall, wrth gwrs, fod wrthi yr un pryd yn ymateb i un o'r gweddau eraill mewn beirniadaeth, sef yr un sydd a wnelo â ffurf gyffredinol neu â chynnwys cyffredinol llenyddiaeth. Ond y mae'r profiad llenyddol yn gallu gweithio mewn ffordd hollol wahanol. Gall fod mor anaddas â'r gwyddonydd llythrennol sydd am drafod tarddiad ffurf a

deunydd a phwrpas bywyd gerbron diwinydd sy'n trafod hanes ysbrydol dyfnaf y greadigaeth.

Y llyfr Cymraeg mwyaf diddorol ym maes damcaniaethu llenyddol a gyhoeddwyd yn 2008 oedd y gyfrol *Ffiniau* gan y diweddar Dewi Z. Phillips, ein hathronydd Cymreig mwyaf diwyd. Yn y gyfrol honno, mae ganddo ymosodiad ar feirniadaeth lenyddol M. Wynn Thomas am iddo ef 'ddamcaniaethu' ynghylch gwaith Gwenallt. Deil Dewi Z., 'Mae beirniadaeth lenyddol yn well heb ddamcaniaethau'. Dyna i chi ddamcaniaeth lenyddol. Ei feirniadaeth ef yw bod yr Athro Thomas yn ymgyfyngu i drafod Themateg a Metanaratif Gwenallt yn lle trafod materion priodol lenyddol. Dywed ef yn ddamcaniaethol, gan anghytuno â'r Athro Thomas, 'Un o'r gwirioneddau cyfarwydd am dröedigaeth Gwenallt yw iddo sylweddoli nad oes rhaid i Gristnogaeth fod yn oddefol yn wyneb dioddefaint dynion. Fe'i hargyhoeddwyd fod "yr undebau yn rhan o deulu Duw" ('Colomennod') a bod "lle i ddwrn Karl Marcs yn Ei Eglwys Ef" ('Sir Forgannwg a Sir Gaerfyrddin'). Hynny yw, gallai Gwenallt hawlio bod yn ymrwymedig mewn symudiad politicaidd neu grefyddol er mai barddoni yr oedd. Nid byd annealladwy, ac nid jyngl cyntefig yw cyflwr dynion, yn ôl Gwenallt. Mae'n gwahaniaethu rhwng y farwolaeth a ragwelir a'r angau diwydiannol a ddaw fel "llewpart sydyn slei" i dorri'n fyr fywydau dynion drwy ddamwain neu afiechyd'.

Ac eto, dyma Dewi Z. ei hun, felly, yn damcaniaethu (yn gywir, dybiaf i) ynghylch y wedd ysbrydol ar waith Gwenallt. Yn wir, ar ei hyd, cyfrol yw *Ffiniau* ynghylch Themateg a Metanaratif ysbrydol ym maes Damcaniaethu Llenyddol; cangen gwbl briodol mewn Beirniadaeth. Gresyna Dewi er hynny am feirniadaeth M. Wynn Thomas, 'Nid oes sôn am yr elfen greadigol sydd mewn cerdd, nac am bwysigrwydd iaith cerdd, nac am y modd mae cerdd yn dweud rhywbeth wrthym'. Ond o'r braidd fod yna yr un sôn gan Dewi Z. yntau'i hun chwaith am bethau felly drwy gydol ei lyfr. Mae ef fel petai'n dadlau mai dyna a ddylai fod yn briod waith i feirniadaeth lenyddol. A damcaniaethu beirniadol digon parchus yw hynny ynddo'i hun hefyd, er na sylweddola le Themateg mewn beirniadaeth. Gwendid cyson gwaith Dewi Z. Phillips yw ei fod yn ddiffygiol yn ei ragdybiau. Nid yw'n archwilio beth y mae ef ei hun yn ei wneud, sydd, yn fynych, onid fel arfer, yn gwbl groes i'w safbwynt tybiedig ef ei hun. Ni sylweddola chwaith ehangder beirniadaeth.

Beth yn union sy'n digwydd yn y fan honno, felly? Onid trafod diddanwch Cynnwys llenyddiaeth?

O fewn paramedrau Beirniadaeth Lenyddol, y mae M. Wynn Thomas (yn gywir, dybiaf i) wedi dewis un wedd bwysig ar waith Gwenallt. Yr hyn a ddewisodd oedd trafod Deunydd neu Gynnwys rhai o gerddi Gwenallt. A'r wedd neu'r gweddau ar Ddeunydd Gwenallt a ddewisodd oedd y Metanaratif a Themateg. Dewisodd, felly, ymdrin â Metanaratif cymunedol '*Materoliaeth Ddiwydiannol*', y meddylfryd (ond nid yr unig feddylfryd) a'r gwerthoedd cyfalafol cynhwysfawr yn y gymdeithas a oedd yn cyflyru'r amseroedd yn ardal magwraeth Gwenallt. Dewisodd gyfleu'i

farn a'i deimladau o fewn fframwaith thematig profiad Gwenallt o wyliau ac o weithio am gyfnod yng nghefn gwlad Sir Gâr er bod ei fagwraeth a'i brofiad mwyaf trawmatig yn ôl yn Sir Forgannwg.

Daw M. Wynn Thomas at hynny mewn un ffordd, a daw Dewi Z Phillips at yr un peth o gyfeiriad arall – peth digon dealladwy, onid anochel. Ond yr hyn a wna'r Athro Phillips, sut bynnag, yw cyhuddo'r Athro Thomas *o beidio â thrafod meysydd eraill mewn Beirniadaeth, sef Ffurf ac Arddulleg*. Mae'r rheini'n briodol hefyd, wrth gwrs, er nad dyna a ddewisodd yr Athro Thomas y tro hwn. Ond dyna'r pwysigrwydd i feirniad proffesiynol o sylweddoli paramedrau a chynllun cyfleus Beirniadaeth yn gyfansawdd; y priodoldeb cyfiawn i feirniadu amlochredd beirniadaeth fesul gwedd *os dewisir*, neu'n fwy cyfansawdd. Felly y canfyddir catholigrwydd a llawnder y maes, ac y sylweddolir mor anodd yw cynnwys pob gwedd yr un pryd, ond bod Cynnwys yn wedd ar feirniadaeth.

Yr wyf wedi sôn o'r blaen fod Dewi Z. (fel ei fentor Wittgenstein) wedi dod at Athroniaeth Iaith heb gefndir catholig o Ieithyddiaeth (cefndir a gynhwysai Ffonoleg, Morffemeg, Arddulleg, ac Ieitheg Gymharol). Ymgyfyngasant i Semanteg, ac o'r herwydd collasant olwg ar adeiladwaith cyflawn hyd yn oed ystyr, *gan fod ystyr ar waith yn y gweddau eraill hefyd*, a anwybyddwyd ganddynt. Yr un modd mewn Beirniadaeth Lenyddol. Deuai Dewi Z. fel athronydd at Feirniadaeth Lenyddol heb y catholigrwydd proffesiynol sy'n cydnabod y gweddau amryfath sy'n gyfreithlon ar gael i'r sawl sy'n arbenigo mewn beirniadaeth arolygol. A cheisiai negyddu gwaith arall drwy ddewis ar y pryd ei safbwynt cyfyngedig gorbersonol ei hun: 'Semanteg' *heb strwythur* Semanteg.

Yr hyn a oedd yn rhyfedd oedd ei fod ef yn delfrydu ac yn neilltuo un arall o feysydd Beirniadaeth nad oedd ef na'r Athro Thomas ar y pryd yn ei drafod, gan awgrymu mai dyna unig neu briod waith swydd beirniadaeth lenyddol. Hynny, i mi, a gyfiawnha ysgrifennu'r fath arolwg â *Beirniadaeth Gyfansawdd* ei hun; a hynny er mwyn amlinellu nid yn unig beth yw'r gweddau oll a drafodir o fewn diffiniad yr astudiaeth honno, ond beth sy'n orfodol wrth barchu paramedrau aml weddau llenyddiaeth yn ei chrynswth. Mae pob coeden unigol yn y gelli yn arwyddocaol o ran perthynas â'r lleill, yn gadarnhaol neu'n negyddol, mewn gofod, amser ac ansawdd. Pan fo beirniad yn mynd ati, ni raid iddo o gwbl, o fewn paramedrau beirniadol, deimlo'i fod yn rhwymedig i sôn am arddull nac am werthuso na ffurf. O fewn *Beirniadaeth Gyfansawdd* ceir llawer o gorlannau. A chyfiawn, onid arferol, i feirniad yw arbenigo a dewis un (neu ragor) o'r rheini i fyw ynddi.

Ond y mae Hugh Bevan yn mynnu inni archwilio o fewn y cyd-destun hwnnw ddamcaniaeth awgrymus y dylai beirniadaeth ymgyfyngu i'r 'elfen greadigol sydd mewn cerdd', 'pwysigrwydd iaith cerdd', ac i'r 'modd mae cerdd yn dweud rhywbeth wrthym'. Ymgyfyngu eto? Mae a wnelo llenyddiaeth â bywyd i gyd, ac y mae'r hyn y mae'n ei ddweud, ansawdd y meddwl sydd mewn

cerdd, ei gwerthoedd moesol ac ysbrydol, hyd yn oed ei chyffredinoli, ei nodweddion esthetig, ac, yn wir, ystyried beth yw priod waith beirniadaeth, oll yn weddau ar lên i'w harchwilio a'u pwyso. Yn ei negyddu dyfal, roedd Dewi Z. Phillips, felly, yn syrthio'n ddi-eithriad. Yn ei gadarnhad, dywed lawer sy'n dal ymholiad ffrwythlon. Ac wrth gwrs, y mae ei bleidgarwch i Ffurf ac Arddulleg, fel materion canolog mewn beirniadaeth, yn fater i'w barchu bob amser.

Ym maes beirniadaeth lenyddol rhwng y dauddegau a diwedd y chwedegau yn y ganrif ddiwethaf, yr arferiad rhyngwladol mwyaf amlwg i feirniad oedd archwilio (fel y dywedid) y 'Darn ei Hun'. Ac i rai beirniaid, erys yr ymgyfyngu yn gysurus yn y fan yna o hyd, – heb holi beth yw llenyddiaeth, na'i hamcan, na'i deunyddiau, na'i gwreiddiau ffurfiol. Darllen clòs oedd yr hoff dechneg ganddynt: ceisid ymatal, cyn belled ag yr oedd yn bosibl, rhag yr hyn a wnâi'r Athro Phillips, sef cyffredinoli. Chwilid iaith arbennig y gerdd unigol, ei hadeiladwaith, amwysedd paradocs, ei champ ddelweddol, a'i gwerth. Ac yr oedd un o gyd-ddarlithwyr yr Athro Phillips ym Mhrifysgol Abertawe ar y pryd yn bencampwr yn y dull hwn, sef Hugh Bevan.

Aeth Beirniadaeth Mynegiant o'r fath, yn ffôl iawn, allan o'r 'ffasiwn' erbyn y saithdegau, o leiaf yn y mannau mwyaf bywiog lle y ceid beirniadaeth, ac nid hanes yn unig. Ac unwaith eto, yn y negyddu hwnnw y ceid y gwendid. Mae hi bron yn ddeddf: os bydd unrhyw faes neu feirniadaeth *lenyddol* yn cael ei negyddu, ei halltudio, neu ei gwahardd – boed yn drafodaeth ar theori, yn drafodaeth ar ddarllen clòs, yn syniadaeth, yn ddadansoddi ar grefft, boed unrhyw gornel felly – y mae hynny'n fan dall enbyd yn y safbwynt a arddelir. Arwydd yw o gulni chwaeth a meddwl, a diffyg profiad a deall llenyddol. Dyna pam y bu rhaid inni geisio adolygu o'r newydd waith Hugh Bevan. Oherwydd, gellid dadlau bod Hugh Bevan yntau'n cyfeiliorni'n groes i weithrediad Dewi Z., ysywaeth, ac yn ymarferol wahardd trafod Metanaratif a Themateg llên yn egwyddorol.

Yr wyf innau'n hoff iawn o'r math o feirniadaeth yr oedd Hugh Bevan yn ei gynrychioli. Awn i mor bell â honni mai dyna i mi yw coron a phen draw pob beirniadaeth iach. Ond ers Aristoteles a thrwy Ramadegau'r Penceirddiaid, y Dadeni Dysg, Iolo Morganwg, Lewis Edwards, John Morris-Jones, Saunders Lewis, hyd heddiw, mynnodd Beirniadaeth Lenyddol gynnwys llawer mwy na hynny. A chredaf na all hyd yn oed beirniadaeth o'r 'darn ei hun' fod yn gyflawn heb fyfyrdod gofalus, angerddol hyd yn oed, ar egwyddorion a phwrpas, ffurf a deunydd llenyddiaeth. A gwaetha'r modd, tueddai Hugh Bevan yntau i ymdroi – yn ei theori – yn yr unfan, nid yn unig o ran chwaeth a dawn, ond o ran dogma beirniadol. Yn sicr, wrth gyffredinoli ynghylch natur Beirniadaeth, gwasgodd y darllen clòs yn rhy glòs. Ni chaiff Athronwyr ddwyn cynnwys oddi ar feirniad.

Robert Rhys yw prif olynydd Hugh Bevan ym mhrifysgolion Cymru heddiw wrth theorïo

ynghylch darllen clòs yn y cyfnod presennol. Ond y mae ganddo olwg ehangach ar y maes yn gyffredinol. Mae ei gofiant meistraidd i Daniel Owen yn dyst o hyn. Gall cofiant fod yn beryg bywyd i feirniad. Gall droi'n hanesydd. Mewn beirniadaeth lenyddol o gofiant, y llenyddiaeth ac nid y gwrthrych sy'n arwain ac nid y cyfnod chwaith, onid yn amodol. Nid yw pob cliw a ffaith ddiarffordd am y gwrthrych mor arwyddocaol â'i gilydd. Gellir ymgolli yn ei fistimanars, gellir gwneud môr a mynydd o fanion difyr. Ond, os nad yw disgyblaeth y cysylltiadau a'r gwerthuso a'r cydlyniad llenyddol ar waith, ac yn tynnu cofiant tuag at ddelwedd lenyddol gydwybodol, gall fradychu ei briod bwrpas. Yn ei sylwadaeth ef, mae'r 'hanes' a rydd Robert Rhys yn cyfoethogi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gynnyrch y llenor. Nid hel manion bywgraffyddol a wna; nid hanes yw er mwyn hanes diganllawiau. A dyna finnau yn hawlio mai paramedrau yw paramedrau.

Buasai Hugh Bevan ar ei ennill pe buasai'n fwy ymwybodol o gyfyngiadau darllen clòs. Un o wendidau 'Dull Mynegiant' o gwmpasu beirniadaeth, – pan gymerai arno'i hun yr hawl i ddisodli pob math arall o Feirniadaeth, – oedd rhestru nodweddion unigol, hela manion diddan, ymgolli mewn pwyntiau arbennig, heb gydio yn ansawdd a phwrpas a champ y cyfanwaith o fewn cyd-destun gorchest llenyddiaeth yn gyffredinol. Nid symud o waith i waith yw unig dasg y beirniad, eithr dathlu arwyddocâd llenyddiaeth i fywyd, y pam a'r sut, a cheisio canon yn ymwybodol. Rhywbeth tebyg i'r dathliad hwnnw oedd nod Saunders Lewis.

Ymhlith ei gyhoeddiadau cynnar ef, fe gafwyd un astudiaeth o waith unigolyn, sef *Williams Pantycelyn,* a *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Cymraeg I* sef llyfr cryno ar hanes llên: dau lenddull o fewn maes beirniadaeth. Bu sawl un ar y pryd yn dra beirniadol ohonynt. Yn yr ymgyrch a gafwyd i roi taw ar Saunders Lewis, llwyddodd Moelwyn ac Ifor Williams i gywiro ffeithiau yn gydwybodol, ffordd gyfarwydd o osgoi problem mewn adolygiad. Ond yr hyn nas cafwyd (ac ymateb nid anghyffredin) oedd gwerthfawrogiad o union ansawdd anghyffredin a champ y cyfrolau hyn. Collwyd y prif bwynt. Yn raddol, dros gyfnod o amser, sut bynnag, daethpwyd i ganfod beth oedd eu harbenigrwydd, a sut y profwyd sifft yn y platiau cyfandirol yn sgil y ddwy gyfrol chwareus greadigol hyn.

Rywfodd, drwy'r cwbl, daeth beirniadaeth lenyddol i oed. Oherwydd y ddwy gyfrol a nodwyd, debygaf, y dechreuodd beirniadaeth Gymraeg feddwl yn fwy ffrwythlon. Mynnai Saunders Lewis ymwneud â'n llenyddiaeth fel pe bai pobl yn gallu myfyrio'n wreiddiol ynddi ac arddangos dychymyg caboledig ynddi. Ac oherwydd y ddwy gyfrol hyn y cafwyd yn y blynyddoedd diweddar gasgliadau neu gyfresi nodedig fel 'Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig', 'Dawn Dweud' a 'Llên y Llenor', ac yn wir *Meistri'r Canrifoedd* a *Meistri a'u Crefft* gan Saunders Lewis ei hunan.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, gyda'i gilydd, gwelwn nifer o feirniaid mewn gwahanol feysydd yn estyn y meddwl beirniadol, nes ein bod yn cael, o'u cymryd gyda'i gilydd, yr hyn a alwn i'n fath o feirniadaeth gyfansawdd, heb fyfyrio am adeiladwaith y fath beth. Ond yn y twf hwnnw, yr oedd presenoldeb Hugh Bevan yn amheuthun werthfawr. Ar flaen ei gyfrol dra chyfoethog a adolygwn yn awr, gosododd y golygydd (Brynley F. Roberts) ddarlith a draddododd yr awdur gerbron rhyw bymtheg o aelodau'r Academi yng Nghastell Sain Ffagan ym 1962. Saif y ddarlith honno fel tipyn o Faniffesto gan yr awdur. Cais ddiffinio beirniadaeth – cais nobl a beiddgar – ac amlinellu'i pharamedrau; a dywed yn blwmp ac yn blaen pa fath o ddeunydd y dylem ei ddisgwyl y tu mewn iddi. Ymhelaethir ychydig am hyn yn y ddwy ysgrif sy'n dilyn, sef 'Astudio Arddull' a 'Darllen Nofelau'. Hynny yw, dyry ger ein bron fath o fethodoleg i feirniadaeth canol yr ugeinfed ganrif (ynghyd â thair ysgrif am Lewis Morris a Daniel Owen), sy'n adlewyrchu ergyd ei faniffesto. Yr oedd yn anghywir, dybiaf i, yn ei gasgliadau fel y byddwn oll yn ein tro. Ond crynhodd ysbryd ei gyfnod yn loyw.

Yn y cyfnod diweddar, rhwng 1936 a 1972 yn arbennig, tueddid i ddatblygu'r union ddull hwn tuag at y trefnol, gan y rhai nas cyfrifent yn hen ffasiwn, er mwyn bod yn llai goddrychol, ac yn llai argraffiadol neu chwiwus. Ceir cangen arbenigol berthynol ond llymach ar Feirniadaeth Ymarferol erbyn hyn ar ffurf 'Arddulleg'. Robert Rhys yw cynrychiolydd gorau 'Arddulleg' yn ein cyfnod ni, a rhoes yntau ger ein bron faniffesto i 'Arddulleg' yn y gyfrol *Sglefrio ar Eiriau*, gol. John Rowlands, 1992, ynghyd â siamplau campus yn *Y Patrwm Amryliw* I a II a chyfrolau unigol megis *Chwilio am Nodau'r Gân* a *Daniel Owen*. Yn ei ysgrif ar Arddulleg, sef 'Dysgu Darllen', dywed Robert Rhys, 'O blith disgynyddion y ffurfiolwyr mae'n debyg mai'r garfan a gysylltir â'r Feirniadaeth Newydd fu'r un fwyaf pwerus yn ystod y ganrif hon, wrth i'w harddelwyr ddal swyddi academaidd dylanwadol ar ddau gyfandir. Cynrychiolydd disgleiriaf y symudiad yng Nghymru oedd Hugh Bevan; "y peth canolog mewn beirniadaeth lenyddol," meddai Hugh Bevan, "yw dadansoddi patrymau arbennig o ystyron".' Ychwanegwn innau 'batrymau o seiniau a ffurfiau' hefyd. Ond mwy na phatrymau: yr hyn a awgrymwn yw mai'r peth canolog o raid mewn beirniadaeth lenyddol yn gyffredinol yw trafod beth yw'r fath beth â beirniadaeth; ac allan o hynny y daw pob cydbwysedd aeddfed, sylweddoliad effro cydlynol a chynnydd disgyblaethol. Ond gellid ychwanegu'n werthfawrogus sicr mai 'dadansoddi patrymau arbennig o ystyron' oedd canol cyfraniad Hugh Bevan yntau. Ac yn y cyfeiriad hwnnw y mae'r beirniad yn dwyn ei gynhysgaeth 'gyflawn' i fwcwl mewn disgrifiad dadansoddol a chymharus lle y gellir mentro wedyn ar werthusiad catholig.

## ALAN LLWYD – Y BARDD-FEIRNIAD


1. Hunaniaeth; ac Absoliwt 278
2. Y Darn ei Hun; Bwrw Prentisiaeth 285
3. Cerdd Dafod/ Cerdd Fynegiant: Y Gŵr a droes yn Gynghanedd 295
4. Cofiant; Dramodydd mewn Drych 308
5. Hanes ei Gyfnod 318
6. Canon 333
7. Theori ac Ymarfer 343
8. Moderniaeth 356
9. Themateg Genedlaethol 364
10. Themateg Rhyfel 375
11. Polisi Golygydd 384
12. Y Beirniad-fardd 395
13. Lleoliad ei feirniadaeth o fewn 'Cyfundrefn Beirniadaeth' 405

## 1. HUNANIAETH; AC ABSOLIWT

*Glaw a Rhosyn Awst,* 1994; *Y Grefft o Greu,* 1997, Alan Llwyd

Dewiswn yn awr, o'r cyfoeth amryfal, feirniad o'n cyfnod ni'n hun. Mewn cyfrol gryno fel hon ar Hanes Beirniadaeth Ddiweddar, gallech gyfiawn ddadlau fod ymdriniaeth hir ar un beirniad braidd yn anghytbwys. Ond mae gennyf reswm am y fath ymestyniad. Pe bawn am ddechrau'r sylwadau hyn mewn modd haerllug, honnwn mai gwaith beirniadol Alan Lwyd yw'r deunydd gorau yn y Gymraeg ar gyfer astudio Beirniadaeth Lenyddol heddiw fel gwyddor. Nid wyf am fentro i'r cyfeiriad dadleuol carlamus hwnnw. Y cwbl a ddywedaf yw bod amrywiaeth yr arweddau ar feirniadaeth a fabwysiadwyd gan Alan, ac a ddatblygwyd ganddo mewn dwyster, yn fwy helaeth lydan na'r un beirniad arall a gawsom. Ble y cawsom feirniad a luniai gofiant fel *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu* ochr yn ochr ag astudiaethau newydd o Gerdd Dafod megis *Anghenion y Gynghanedd, Crefft y Gynghanedd,* a *Sut i Greu Englyn* ochr yn ochr eto â myfyrdodau manwl ar weithiau unigol megis *Y Grefft o Greu,* neu ynteu ar gyfnod hanesyddol megis y Chwedegau? Hynny yw, ceisiaf esbonio pam yr wyf (yn annisgwyl imi o'i astudio) wedi gorfod cydnabod mai Alan Llwyd yw'r beirniad mwyaf crwn o ran arweddau sydd gennym, ac y gellir drwy efrydu'i waith enghreifftio mwy o fathau perthnasol ac allweddol o feirniadaeth nag yng ngwaith yr un beirniad da arall. Ac o'r herwydd gellir cael drwyddo syniad catholig o'r wyddor hon fel cyfanwaith heddiw.

Mae hynny'n golygu y byddaf yn meiddio nodi'n amlweddog beth a dybiaf i yw adeiladwaith Beirniadaeth Lenyddol yn ei chrynswth yn ein hoes ni. Nid oes a wnelwyf yma ag 'ysgolion' o unrhyw fath nac ag unrhyw amcanion na safbwyntiau personol am y tro. Sôn yr wyf am fframwaith a chydberthynas gatholig, yn wir cydlyniad *pob* ysgol. Honnwn fod gennym yn ei waith ef nid barn bersonol yn unig, – er bod hynny yno'n drwch, – ond awgrym o weithredu gwyddor gyffredinol. Mae Beirniadaeth Lenyddol yn *gyfundrefn* wrthrychol iddo, er iddi hi weithredu'n oddrychol ond yn amrywiol o hyd. Yn wir, amrywiaeth Beirniadaeth Lenyddol yw ei nodwedd ryfedd.

Yn ei waith agoriadol wrth lawnsio Cymdeithas Ddysgedig Cymru ym Mai 2010, fe ddywedodd y Llywydd Syr John Cadogan. '*Yn anad dim, rhaid inni sicrhau bod ymchwilwyr yn cael eu galluogi i ddarganfod pethau na wyddem eu bod yno i'w darganfod.'* Dyna nod ardderchog ar gyfer dysg. Rhaid i wyddoniaeth a'r celfyddydau fyw o hyd drwy fod yn barod i'r annisgwyl. A thybed, oni allem hawlio bellach ein bod yn symud y dyddiau hyn tuag at wybod beth yw paramedrau llawn a chydberthynas anochel gydlynol gwyddor Beirniadaeth? Pwy a wyddai erioed fod y fath beth ar gael? Pe llwyddem i lunio'r map cytbwys, gellid gobeithio symud i wastad newydd. Dyna un o rinweddau ymarferol beirniadaeth Alan. Ac wedi mabwysiadu'r dull

enghreifftiol o fapio hanes beirniadaeth yn ôl cyfres o unigolion, nid cwbl wallgof yw penderfynu olrhain cwrs gwaith un unigolyn gweithgar yn weddol estynedig. Yn wir, dylid ei estyn yn hwy.

Ymarferiad canolog hwylus fuasai aros pe bai gennym amser a lle i olrhain yr hierarci strwythurol yn ei feirniadaeth (fel y ceisiais ei wneud gyda meddwl Pantycelyn) lle y ceid cyfundrefn o gyfundrefnau ar waith. Credaf y gellid ei wneud gydag Alan. Ond nid wyf am feiddio hyd yn oed awgrymu'r fath beth mewn ymdriniaeth mor gwta â'r un bresennol. Eto, mae'r cwbl yn wir, bid siŵr. Fe geir paramedrau i undodau ym mhob gwedd ar fywyd. O'u tu mewn, ceir strwythurau unigolyddol. Ond digonol am y tro – ar gyfer ateb y cwestiwn hanfodol ynghylch Ffurf a Deunydd mewn amlinelliad o'r fath, neu weithrediad deinamig Tafod, Cymhelliad, a Mynegiant, – fyddai ymglymu'n *enghreifftiol* wrth ddogfennau beirniadol penodol. Hynny yw, un o'r pethau yr wyf yn eu ceisio yn fy nghyfrol hon ar 'Feirniadaeth' yw ystyried beth yw paramedrau ac yn wir ddiffiniad beirniadaeth fel maes, drwy sylwi ar enghreifftiau. Yn hytrach nag aros gyda chyffredinoli haniaethol – peth digon priodol, – yr wyf am ddilyn fy arfer dewisol o wreiddio bob amser mewn enghreifftiau unigol diriaethol, a symud oddi yno at y casgliadau cyffredinol. Nodaf un enghraifft o gyfrol felly yn eu tro fel arfer o blith y cyfanwaith. Mewn pennod ymhellach ymlaen, er mai'r bwriad yw ymgyfyngu fwy neu lai i drafod yn fras *Deunydd a Ffurf ym Meirniadaeth Lenyddol Alan Llwyd,* defnyddiaf yn unigol gyfrolau ganddo yn glòs (megis *Y Grefft o Greu)*, a chyfeirio'n gynnil aml dros f'ysgwydd at y mathau eraill o feirniadaeth y bu ef yn eu hymarfer mewn llyfrau eraill. Oherwydd, fy amcan yw symud rhagddi tan gydnabod amrywiaeth + undod anturus rhychwant beirniadaeth Alan, a cheisio enghreifftio cydlyniad ei feirniadaeth.

Undod? Wrth fentro gwneud honiadau herfeiddiol gwrth-relatif weithiau, ni ellir osgoi ystyried anocheledd safle'r Absoliwt mewn gwyddor o'r fath, yn arbennig mewn cyfnod pryd y ceir yn gyffredin ryw fath o ddogma (absoliwt wrth gwrs) fod pob peth yn gorfod bod yn berthynol ac nad oes yna absoliwt ar gael. Y gwir yw na cheir *cyfundrefn* heb ymwybod absoliwt – ac y mae hyn yn amlwg wrth archwilio gweithiau unigol. Heddiw, yn anad yr un cyfnod yn y canrifoedd diweddar, mae angen tanlinellu hyn. Mater o absoliwt yw *defnyddio*'r gair absoliwt, neu hyd yn oed ei wadu. Ac oni bai fod rhywun, wrth ddefnyddio'r gair 'dŵr' yn dweud y gwir yn absoliwt am fodolaeth ac unigrywiaeth hwnnw – a phob gair cyfredol arall felly – , ni byddem yn gallu deall ein gilydd. Mae derbyn y cysyniad o wirionedd penodol yn treiddio'n ymarferol absoliwt drwy fywyd, beth bynnag y bo'r goleddfiadau a'r Cwymp a'r ffasiwn sy'n ymyrryd yng ngwaith y gwirionedd hwnnw. Mae'r cysyniad a bodolaeth hefyd o ragdyb gan bawb i bopeth, boed yn Ego Trosgynnol, (dyn yn dibynnu ar ei feddwl ei hun) neu'n Dduw (gyda dyn yn derbyn yn sylfaenol y gwrthrychol oruwchnaturiol), yn gyrru pawb ohonom tuag at anocheledd a gorfodaeth, boed yn negyddol neu beidio. Adnabod yr Absoliwt, a dibynnu arno fel hyn, neu hwyrach beidio, yw cychwyn meddwl.

Does dim ffens, i eistedd arni, er mwyn dianc rhag hyn oll, gan mai math o beidio yw honno hefyd. Rhaid i'r gwir fod yn wir, er mwyn byw.

*Perffeithrwydd*

Gellid ymhelaethu ar arwyddocâd yr Absoliwt mewn iaith. Ond yr wyf, wrth ddilyn y tac yma, am gyfeirio'n sylw at air rhyfedd a chanolog a ddefnyddia Alan Llwyd yng nghyd-destun beirniadaeth lenyddol. Dyma un o'i eiriau ôl-ôl-fodern anghysurus. Sef 'Perffeithrwydd'. Mae defnyddio'r gair hwn yn dramgwydd enbyd yn yr oes lydanfryd lac, haelfrydig chwâl, a ffug ostyngedig hon. Wrth gwrs, gwyddom yn ymarferol fod pawb yn ffaeledig. Ond yn y gyfrol *Y Grefft o Greu*, mae gan Alan Llwyd bennod gron, nodweddiadol onest, wedi'i chysegru i'r egwyddor annifyr hon, sef 'Gweithio tuag at Berffeithrwydd'. Dywed: *'Yn yr ymdrech i gyrraedd perffeithrwydd y crëir pob cerdd o werth'.* Mae'n osodiad dychrynus ond cyrhaeddbell ei wirionedd. Ac eto, y mae ei bresenoldeb yn isymwybodol onest fel cyfeirbwynt ym mhobman. Awn innau at y materion distadlaf. Ystyrier yr achlysur pan fydd plentyn yn gofyn am hufen-iâ. Digwydd y gofyn hwnnw mewn modd mor berffaith ag y gall plentyn ei wneud. Anghenraid pur elfennol yw gwir absoliwt ymarferol, ond eithriadol bwysig yn ei symlder mewn bywyd, megis ag y mae 'deddf' ei hun (disgyrchiant dyweder) yn hanfodol.

Ond dywedwn yn wylaidd braf: 'all neb fod yn berffaith'. Na all. Ond rhaid i bawb ystyried bod delfryd o fath ar gael. Yn y deall y mae'r orfodaeth. Neu fel y dywed Alan Llwyd yn fanylach: *'Llunnir pob cerdd yn rhywle rhwng y cyffro annelwig cychwynnol a'r methiant i gyrraedd perffeithrwydd.'* Nid yw'r methiant yn dileu'r safon. Arddangos bodolaeth y safon a wna. *'Cychwyniad yn unig yw'r cyffro creadigol hwn, mae'n rhaid i'r bardd wedyn weithio ar ei gerdd, yn ofalus ac yn bwyllog, arbrofi â'r gerdd, arbrofi â'r geiriau a llinellau, a symud yn raddol tuag at berffeithrwydd, y perffeithrwydd hwnnw na all yr un ohonom ni fyth ei gyrraedd.'*

Mae Alan yn anghysurus o hoff o'r gair hwn, gan ei fod yn gwybod yn burion fod hyn yn cynhyrfu Ôl-fodernwyr rhyddfrydig dirywiedig. Mae'n ei ddefnyddio yn ei lyfrau mewn sawl man i'w hatgoffa am eu gwreiddiau. Yn y bennod 'Safonau Creu', dywed: '*Y mae safon a pherffeithrwydd yn gorwedd yn rhywle rhwng yr amhosibl a'r ymarferol ... Hynny yw, y mae pob cerdd lwyddiannus a gwerthfawr yn gyfuniad perffaith, cytbwys o ysbrydoliaeth, angerdd, meistrolaeth o iaith, perffeithrwydd mynegiant, rhithm, ac yn y blaen.'* Dyma ef yn esbonio'r 'llwyddiant' hwnnw ymhellach. '*Am fod yna berffeithrwydd ffurf – mynegiant cyfewin – wedi'i asio wrth bwnc arwyddocaol; am fod rhithm a symudiad y gerdd yn cydweddu'n berffaith â'r cynnwys, am fod y dweud yn gaboledig ac yn raenus a grymus, am ei fod yn glòs ei gwead heb ynddi wastraff o gwbl; am ei bod yn mynegi profiad dilys mewn modd argyhoeddiadol'* ac yn y blaen, 'ymgyrraedd' o hyd a

wna. A dyna'r gair angenrheidiol. Mae'r gair yn gyfreithlon am iddo ddweud y gwir am ddelfryd.

Dyma un o'r theorïau mwyaf beiddgar, pwysig, a meddylgar mewn beirniadaeth lenyddol Gymraeg gyfoes. Pwy arall yn y cyfnod llipa amlffydd hwn a fentrai feddwl y fath beth?

Gyda hyn yn ein calon, yn wreiddyn megis, i bob dweud celfyddydol, trown yn fwy penodol bellach, ond yr un mor wrth-olfodernaidd, yn awr at y Deunydd. Beth yw Deunydd llenyddiaeth? Ac y mae'r cysyniad dirgel o Grëwr Absoliwt yn gymorth inni ateb y cwestiwn hwnnw hefyd, eto yn achos Alan.

Popeth yw'r deunydd. Dim llai. Pob un dim. Nid oes dim gwrthrych na syniad dan yr haul – nac uwch yr haul – sy'n waharddedig i lenyddiaeth. Dyma eithafiaeth yr hen Absoliwt llywodraethol, o safbwynt bodolaeth Deunydd. Mae Hwnnw'n bod ymhobman, o'r mân i'r mawr, o'r atom hyd y galaethau; ac y mae Ffurf yr atom neu drefn bodolaeth, neu'r modd y deellir bodolaeth, yn cyfrannu at yr adeiladwaith hwnnw. Beth arall? A oes rhywbeth ar ôl? Hyn sy'n gwneud bodolaeth oll yn gyfundrefn, ac yn caniatáu rhannau yn y cyfan fel y bo gennym Gyfundrefn amrywiol o gyfundrefnau. Gellid sôn am un neu ddwy o'r cyfundrefnau hynny pe mynnid manylu ar natur adeiladwaith Deunydd, megis Gofod/Amser, fel y'i deellir gan ddyn yn synhwyrol. Ond ni ellir osgoi na'r sylwedd na'r syniadaeth na'r cyfundrefnu.

*Hunaniaeth*

Un o bynciau mawr llenyddiaeth fodern yw Hunaniaeth. Ac nid maes dierth i Alan Llwyd mohono. Ystyriwn oll fod pob Cymro yn gorfod meddwl am fywyd yn ôl tri dimensiwn Gofod ynghyd â dimensiwn (neu ddimensiynau) Amser. Mae tri dimensiwn gofod yn hysbys: 1. Fi, mi (finnau a.y.b.); 2. Ti, chwi (tithau a.y.b.); 3. Ef, hi, hwy (yntau a.y.b.). Dyna gyfundrefn gron 'berffaith' deall. Mae'n gyfundrefn sydd hefyd yn arwyddocaol, wrth i Alan feddwl am ei hunaniaeth ei hun mewn dull absoliwt. Helaethir ar yr eithriadau ymddangosiadol ymhellach ymlaen. Ond mae ein hymwybod o ddelweddau wedi'u rheoli gan y fframwaith hwn. Y tu mewn i strwythur o'r fath yr adeiladwn ein hiaith Ac yn llenyddol, mae pob llenor yn edrych allan ar y byd oddi ar safbwynt ei 'fi'. Neb arall. Pan fo ef ym *mhresenoldeb* rhywun neu rywsut, ac yn ymwybod â pherthynas o'r fath, mae'n gallu cydnabod y cyswllt dirfodol hwn fel 'ti, chwi'. Pan fydd yn synied am rywbeth neu rywun fel pe bai'n absennol, neu o leiaf yn absennol i ddiriaeth glwm *fi/ti*, yna mae'r trydydd dimensiwn yn dod i'r isymwybod, yr un y siaredir amdano fel pe bai'n absennol: *ef/hi.* Dyna'r math o rym sy'n rhoi paramedrau i iaith a llên, ac i lenddulliau.

Dechreuwn sut bynnag gyda'r 'fi'. Yn wir, dyna'n gorfodaeth.

Yn Neunydd llenor, yn arbennig y rhamantydd, a'r telynegwr, mae'r person cyntaf yn gallu darparu myfyrdod go bŵerus. Bu'r hunaniaeth hon yn wrthrych myfyrdod cyson ym mhrofiad

llenyddol Alan Llwyd. Mewn cyfweliad gydag M.Wynn Thomas yn *Alan,* 2003, ceir y sylwadau hyn:

M.W.T. *Ai 'llen' neu 'dadleniad' yw llen-yddiaeth yn eich barn chi?*

A.Ll. *Dadleniad yn sicr. Mae hi wastad wedi bod yn ffordd i mi fy narganfod fy hun, i edrych ar y byd, i gofnodi. Y cyfan ydi o yw cofnod ymateb un unigolyn i'w gyfnod, i'w wlad, a'r byd, i bopeth. Dadlennu mae barddoniaeth wastad wedi ei wneud i mi. Yn y pen draw, tydw i ond eisiau fy mhlesio fy hun, a fy safonau i fy hun, gan obeithio fod y rheiny wedyn yn ymgyrraedd at bobl eraill ac yn y blaen.*

Disgwyliwn yn y cyfnod modern, wrth gwrs, wynebu'r goddrychol mewn prydyddiaeth delynegol – profiadau a meddyliau, llawenydd a thristwch, hardd eu llun, y fi. Mae'r Ego Trosgynnol yn dra amlwg i ni sy'n gyfoedion i'r Ôl-fodernwyr. Ond nid y fi yn unig (nid y fi o gwbl weithiau) yw'r mansafbwynt cychwynnol allan, ond y ffaith fod yr hunan ar gael, a beth ydyw. Yn *Ffarwelio â Chanrif,* cawn 'Ddwy Gerdd ynghylch Hunaniaeth'. Teimla'r bardd fod yr hunan dan fygythiad:

*Nid myfi ydwyf i: difenwyd*
*fy mherson; ynof fi y mae arswyd*
*llofruddio pobun;*
*eu hwylofain yw fy wylofain, eu clwyfau*
*yw fy nghlwyfau i.*
*Nid myfi yw myfi fy hun.*

Mae hunan yn cael ei lofruddio gan y byd o'i ddeutu. Ac yn wir, teimla mewn mannau eraill fod y byd gwrth-wyrdd ei hun yn cyflawni hunanladdiad drwy wanc. Mae Cymru'n ei lladd ei hun, er nad yr un peth yw i bawb. (Bydd llawer ohonom yn pryderu'n arswydus am hyn wrth weld y 'diwylliant protestio' mor hwylus drosglwyddol ymhlith Cymry Cymraeg, ac yn ddihangfa yn hytrach na chymryd cyfrifoldeb am adfywio'r hunaniaeth drwy adferiad uniongyrchol sy'n amgen na chadw.) Mae gan Alan ddiddordeb beirniadol cyson mewn hunanladdiad: Sylvia Plath, Hardy, Caradog Prichard, Goronwy Owen, a rhai o'n hymoleuwyr cyfoes. Ceir unigolion eraill sy'n hunan-ladd yn ysbrydol heb sylweddoli hynny. Dichon mai Rimbaud oedd y modernydd cyntaf i ymwybod i'r byw â'r golled o hunaniaeth. 'Je est un autre' ('Un arall yw fi'). Ond profiad llwythol oedd hyn i'r beirdd a'r beirniaid Cymraeg, megis i'n dramodydd cenedlaethol, megis i Alan wrth gofio Hedd Wyn yn colli bro: megis Blodeuwedd yn colli gwreiddiau, a'r amddiffynwyr methedig gwledig gerbron hunaniaeth y mewnfudwyr. Y rheina oll a deimlai Alan Llwyd. Daeth colli hunaniaeth bersonol yn rhan integraidd o'n hunaniaeth genedlaethol.

'Ie, fi yw hyn, dw i yma – ond ar ffurf dilead,' meddai Corbière. Felly y troes colli

hunaniaeth bersonol i Alan yn drosiad cenedlaethol ac yn thema i fyfyrdod beirniadol. Diau fod y sylweddoliad o hunaniaeth y person cyntaf yn ddyfnach i Alan oherwydd dirgelwch ei ach ac oherwydd yr hyn a ŵyr am y bygythiad i fodolaeth unigolyddol ei genedl ac i'r geiriau eu hun a leferir. Yn y gyfrol *Alan*, dywed: *'Rydym ni i gyd dwi'n meddwl yn brwydro am hunaniaeth yn y byd yma. Mae o'n fyd di-hunaniaeth. Mae o'n fyd sy'n prysur ddileu hunaniaeth. Mae Waldo yn gofyn yn "Cwmwl Haf" 'Pwy wyf fi? pwy wyf fi?' Mae'n mynd ar goll yn y niwl. Mae'n colli'i hunaniaeth gan fod y niwl yn dileu'r golygfeydd cyfarwydd nes y daw'n ôl at ei gartref a chael yr hunaniaeth yno. Brwydr fawr pob llenor yn yr ugeinfed ganrif ydi'r ymchwil yma am hunaniaeth.'*

Mae peidio â gwneud dim yn gallu hunan-ladd. Ystyrier y Cymro brwd gwledig yn udo: 'Mae'r iaith yn darfod bob dydd o'm cwmpas. Beth gallaf i'i wneud? Dim oll yn ymarferol.' Hynny yw, cadw, protestio, – heb estyn llais i gynorthwyo adenillwyr neu ddysgwyr. Heb sylweddoli hynny, yr wyf yn hunan-ladd yn ymosodol.

Dyma mewn gwirionedd gyd-destun ar gyfer ei hunan-gofiant a'i obsesiwn ynghylch teulu. Sefydlu, yn ei feddwl ei hun, y safle y caiff wylied bywyd oll oddi arno. 'Y fi' yw man cychwyn pob beirniadaeth. Dyma'r casgliad o adnoddau sydd gennym. Y llygaid hyn yr edrychwn drwyddynt: nid oes dim dewis. Hoffaf synied fod pob llenyddiaeth a ddarllenaf yn fath o 'di' yr ail berson i feirniad. Hynny yw, y mae'r llyfr yn bresennol bersonol, yno o flaen yr awdur ac o'n blaen ni. Ti yw cerdd. Ond 'ti' yw yr ydym yn ymwneud â hi yn uniongyrchol bersonol. Ond y gwir yw, hefyd yn y feirniadaeth a ysgrifennwn, mai math o ysgrif am fywyd neu fodolaeth gan amlaf yw yn y trydydd person (fel pe bai'n absennol i'r gyfathrach flaenorol). Dyna yw 'ymdriniaeth' mewn llyfr. Ond mae yna drefn gron yn y profiad llawn o lenyddiaeth: fi, ti, ef/hi, – y diwedd – oherwydd strwythur trydydd person y meddwl ynghylch cynnwys meddyliol arferol. Fi sy'n darllen, ti a ddarllenir, ef/hi y sonnir amdano. Yr ydym yn cyd-gyfarfod yn gwmni crwn enigmatig yn y weithred. Ond i'r dyneiddiwr, yr hunan crwn unigol a mewnblyg yw'r absoliwt.

Y drindod o safleoedd sy'n pennu hunaniaeth aeddfed. Mewn Mynegiant y mae'r tri safle'n ymuno'n fynych, fel y'i gwna Alan Llwyd yn *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu*. Mae'n ei uniaethu'i hun, fi, â'r prif gymeriad, fel yn *Kate,* ac yn cyd-deimlo'n goeg ac yn fyw â'r prif gymeriad dramatig hwnnw ar y papur o'i flaen – ti o'm blaen – gyda hydeimledd treiddgar; ac yn drydydd saif yn ôl a sôn am un sydd bellach yn absennol, pwnc i sôn amdano. Potensial o safleoedd rhagenwol felly sydd mewn Tafod, debyg. Mae'r beirniad yn cydnabod yn ymarferol ei dairochredd. Dyma'r ddialecteg. Y tri dimensiwn yw un o'r ffactorau sy'n cyfrif am amrywiaeth Beirniadaeth.

Wrth sôn am dri dimensiwn gofod, dechreuir ar y gwaelod o safbwynt fframwaith beirniadol, gyda'r strwythur triol a geir gan y llenfathau o fewn theori llenddull. Ond dibynna Mynegiant ar bendantrwydd gwahân ac anwel Tafod, fel y gwna'r Trosiad ar bellter y gwrthrych a'i

weddnewid, er mwyn i'r gwyro gryfhau. Hynny yw, y mae strwythur tri-pherson y meddwl (er enghraifft) yn dioddef trawsnewid bywhaol 'treisiol' wrth asio'r trydydd person yn y cyntaf, gan roi i iaith ysgytwad trosiadol. Dyna i'r bardd wedyn yw meistroli hunaniaeth. Mae'n ymaflyd codwm o'r herwydd: yr amryw yw ef mewn un. Mae ef o hyd yn ymdroi gyda phroblem a theimladrwydd a deall hunaniaeth. Mewn cyfrol arall gennyf ar y Wefan hon, sef yr un sy'n trafod themateg R.S. Thomas, gwelwn drais rhagenwol a throsiadaeth nid anghyffelyb eto wrth i'r awdur sgrifennu'i *hunan*gofiant yn y trydydd person.

## II Y DARN EI HUN; BWRW PRENTISIAETH

*Barddoniaeth Euros Bowen, Cyfrol 1,* Alan Llwyd, 1977; *Trin Cerddi,* Euros Bowen, 1978

Trown, felly, at yr un, y 'fi' sydd hefyd yn wynebu'r llenor wrth weithio arno; y 'fi' sy'n mynd yn absennol, yn 'ef' i Alan. Euros yw 'ef' iddo yn y gyfrol gyntaf uchod – a'r ail – ynghylch cerddi'r bardd arall. Eto, gwelwn fel y mae 'ef' yn 'fi' hefyd, ac fel y daw 'beirniad' yn 'fardd', wrth gyd-deimlo. Dywedodd Yeats un tro mai'r ddadl a gaiff y bardd ag ef ei hun sy'n cynhyrchu barddoniaeth. Tybed a fentrwn gynnig mai'r ddadl a gaiff beirniad ag ef ei hun sy'n cynhyrchu'i safonau beirniadol yntau? Ond beth am y ddadl rhwng dau berson – bardd a beirniad? Pan ddechreuodd Alan Llwyd ei adolygiad estynedig o *Cerddi* Euros Bowen, dechreuodd fwy na dadl bwysig. Dechreuodd o ddifri ar ei brentisiaeth ei hun fel beirniad o faintioli sylweddol yn y Gymraeg. Ac fe'i gosododd ei hun yn bendant yn Ysgol y Beirniaid Ymarferol sy'n arddel darllen clòs, neu'r astudiaeth o'r 'darn ei hun'. Sylwn ymhellach fel y ceir cyd-daro rhyngddo ef ei hun fel bardd ac fel beirniad. Ni ddechreuodd fel 'hanesydd' llenyddol beirniadol, er y buasai cyn bo hir yn gogwyddo i'r cyfeiriad hwnnw. Nid fel 'theorïwr' yn bendant chwaith, er y buasai eto cyn bo hir yn ddiarwybod yn meddiannu swydd y beirniad strwythurol. Agosáu at y gwaith yn 'feirniad ymarferol' a'i feddiannu wyneb yn wyneb, dyna fyddai sylfaen ei alwedigaeth. Dyma, ym marn llawer, yw cyfrinach ei gryfder ymhlith y dullweddau amryfal wrth ymwneud â beirniadaeth.

Bardd a beirniad oedd Euros Bowen: bardd a beirniad yw Alan. Ac mae'r ail fardd wrth ymgodymu â'r beirniad cyntaf wedi dysgu rhywbeth am fod yn fardd; megis yr ail feirniad wrth ymgodymu â'r bardd cyntaf wedi dysgu am ei grefft o feirniadu. Ni allai fod wedi cael gwell gwrthwynebydd. Ac yn y darn ei hun y ceir y safle strwythurol gorau i ddechrau meddwl am lên.

Eto, 'tydi' i'r beirniad ymarferol, Alan, yw'r 'Darn ei hun' yn y gyfrol hon. Y mae'r beirniad hwn yn eistedd ac yn ymgom ag ef yn ddirfodol: mae o'i flaen yn y presennol. 'Ti' hefyd yw'r darn lle y bu'r awdur ei hun, Euros, yntau'n feirniad cyn i Alan ymaflyd codwm ag ef: bu Euros gyferbyn â'i sialens yn ceisio'i gorchfygu yn gyntaf, ar ryw olwg. Y 'darn' wedyn oedd y cylch paffio i'r ddau 'fi' megis, eu man cyfarfod. Erys y gerdd ar wahân i'r ddau.

Os 'fi' yw Alan Llwyd bob amser, yn fardd ac yn feirniad, bu ganddo drydydd 'ti' yn sylfaenol yn ei swydd gyhoeddi a'i gylchgrawn hefyd. Mae'n feirniadol o'r hunan. Ei hunan a lunnir ganddo, wyneb yn wyneb ag ef ei hun. Tybiai'r awdurdodau cudd a ffilistaidd o'r tu allan mai 'hwy' oedd y rhai goruwch pwysig, ac mai hwy oedd yn llunio polisi llên. Ond 'safonau' goruwch yr 'hwy' oedd y menig paffio cudd a wisgai Alan; ac nid 500 o gopïau i'w gwerthu oedd ei safon ef. Fel beirniad, fe ellid ei gymharu â llawfeddyg, ar hyd ei yrfa. Dichon fod rhyw lywodraeth ddychmygol wedi mynnu'i fod yn perfformio gyda 500 o gleifion targed mewn mis yn yr ysbyty hwn o wlad.

Ond pe câi ef un iachâd sy'n gyffredinol iachaol, o ran safon, neu pe cyflawnai un driniaeth anodd gyda champ lwyddiannus, newidiai hynny natur y listiau targedgar. Gallai polisi llên Alan beidio â chydymffurfio â chwaeth y gynulleidfa anaeddfed hefyd. Os oedd ei gydwybod ef ei hun a'i safonau profiadol yn ei gymeradwyo, yna yr oedd yn barod fel beirniad i geisio egluro i'r gynulleidfa pam y dylid dilyn y nod a'r pwrpas yr oedd ef yn eu dewis. Cyngor llenyddiaeth oedd ef yn wynebu Cyngor llyfrau ynddo ef ei hun.

Yn achos y gyfrol feirniadol *Barddoniaeth Euros Bowen,* nid poblogrwydd llenyddol a geisiai. Nid oedd yn chwenychu hyd yn oed cynyddu gwerthiant Euros na'i 500 ef ei hun. Ei brif 'di' ef oedd ti'r farddoniaeth ei hun, yn ei fryd ei hun. Hi oedd biau'r parch neu'r bai. Ceir math o bellter rhwng y trafodwr a'r 'Darn ei Hun'. Fel arfer, rhyw fath o drydydd person, o bosib, yw'r safon a drafodir (ar wahân megis) mewn ysgrif. Onid tebyg yw'r ef neu'r hi i'r prif ragenw a ddefnyddir mewn naratif arferol, ac eithrio, serch hynny, mewn dialog neu mewn drama? A chyda'r ddwy gyfrol a enwyd uchod ac a drafodir yn y fan yma, dialog neu ddrama sydd ar gerdded, yn ogystal â thrafodaeth. Dialog â'r gair fu llawer o fywyd Alan. Credaf mai both (neu fogail) y 'ti' yw'r canolbwynt safon sy'n cynnal adenydd (neu sbociau) yr olwyn werthfawrogi. I 'ti' Euros, yr oedd ei gerddi ei hun yn 'fi' i'w amddiffyn yn erbyn trais y 'fi' arall. Cyffyrddai'r Safbwynt tan gyffwrdd â phopeth. Felly, un ystyriaeth oedd ymhlith llawer iawn. Gellid dadlau'n deg mai'r prentiswaith yn hanes ei feirniadaeth oedd ei arolwg cynnar hwn o gerddi unigol Euros. Os felly, prentiswaith pwerus oedd, ac un a ddadlennai iddo fwy o'i dueddau mwyaf llywodraethol: megis ei ddawn drawiadol i arwain dadansoddiad o fewn fframwaith safonau tra ymwybodol; ac yna, ei ymwybod fod y byd llenyddol ei hun yn llwyfan dramatig sy'n cynnwys llawer o 'gymeriadau', a bod tuedd yr awdurdodau i 'gyfyngu' ar lefel ddeallol llenyddiaeth yn gwneud drwg beirniadol i genedl.

Beirniadaeth lem oedd yr arf i amddiffyn y genedl rhag hunanladdiad poblogrwydd.

Bu'r ddrama ddeuddyn hon rhwng Alan ac Euros, megis rhwng Alan a'r genedl, yn ddigwyddiad anghyffredin yn llenyddiaeth ail hanner y ganrif ddiwethaf. Rhôi Alan rhwng cloriau ei gyfrol allweddol gyntaf, astudiaeth fanwl fesul cerdd o waith diarhebol 'anodd' i werinwyr rhamantaidd y cyfnod: *Cerddi 1946-57,* Euros Bowen. Yr oedd yn ddigwyddiad annisgwyl a rhyfedd yn y Gymru Gymraeg. Ac wedi i Alan gwpla, dyma'r 'ti' hwnnw yn y cylch paffio, sef Euros, yn ergydio'n ôl. Ac yr oedd ymateb helaeth Euros Bowen yn fwy eithriadol na'r feirniadaeth a'i rhagflaenai. Ni wn am ddim tebyg, i'r graddau hyn, mewn un llenyddiaeth arall. Ceir ymateb cynnil gan rywrai weithiau, wrth gwrs, yn wyneb anneallusrwydd nid anghyffredin. Ond ar y raddfa hirwyntog hon!

Euros oedd Euros. Ac yn Oes Aur yr Academi, oes y cyd-drafod diwyd gan lenorion profiadol, o gylch y 'tân' trosiadol, yr oedd ei bresenoldeb bythol mewn cyfarfodydd yn sicrhau

ffrwydrad hwyliog a hoffus o ddadlennol. Yr oedd bob amser yn barod amdani. Felly yma. Dyfynnai Alan gerdd gan Ddafydd Rowlands a ragwelai'n obeithiol y deuai gwaith Euros yn ddealladwy i bawb yn y man. A dyfynnai Alan yntau gan Euros ei hun:

*Beth bynnag i chi,*
*hwyrach fod na genhedlaeth goleuni*
*yn rhywle-rhywbryd*
*a fydd yn cael cerrig*
*yn fwriad ffrwyth.*

Camgymeriad yw sgrifennu i'r dyfodol. Efallai y bydd y dyfodol yn fwy diog hyd yn oed na'r presennol, ac wedi'i gyflyru gan y llywodraeth i beidio â darllen dim oll sylweddol. Mae'r peth wedi dechrau. Eto, ysgrifennu i ddyfodol pobl *ar y pryd* y bydd bardd. Ar y pryd, fe geir lleiafrif sylweddol (does dim ots faint) a fydd yn barod i ymgodymu â cherddi mewn oed. Hwy yw'r hiraeth am y dyfodol. Ceid darllenwyr dethol a fwynhâi gerddi Euros, weithiau, i'r dyfnderoedd. A dyna ddigon. Na ddisgwylier rhagor. Yr oedd y cerddi yn ddaioni i'r iaith ar y pryd, ac yn iechyd i feirdd eraill. Ni all iaith fforddio hepgor y fath fardd heriol, hyd yn oed pan fethant â'i ddeall. Os oes ansawdd a gwerth para ynddo, fe ddaw o hyd i fwynhawyr. Diau ym maes canu rhydd heddiw, yr ydym yn byw yn oes y tameitiach ysgafn a'r cnoadau sŵn. Ond hyd yn oed heddiw, yn oes y perfformio syml, nid yw Euros yn gwbl angofiedig gan ddarllenwyr araf sy'n barod i fwynhau'n ofalus. Gwaetha'r modd pan symudwn o'r *Cerddi* at y gyfrol *Trin Cerddi*, y ddwy gan yr un awdur, er bod ynddi rai trafodaethau gwerthfawr sy'n wir ddifyr at ei gilydd, ni wnaeth y beirniad-fardd hwn gymwynas ag ef ei hun yn y rhan fwyaf o'r 'esboniadau'. Taw oedd piau hi i'r bardd cyfrwys.

Dadleuaf o hyd nad oes gan fardd hunanamddiffynnol fwy (na llai) o hawl i ddehongli'i gerddi nag sydd gan neb arall. Trafod y gerdd nid y bardd yw gwaith cyntaf y beirniad, yn ôl ei hawl heulog ei hun. A dyw'r hyn sydd gan y bardd-feirniad amddiffynnol yntau i'w ddweud – wedi'r digwydd, a'r bwlch, a'r diffyg cof (neu ddeall) o bosib, a'r annigonolrwydd ar dro, a'r rhagfarn bersonol yn sicr – ddim o anghenraid yn gywirach na'r hyn a ddatguddir gan rywun arall. Y darn ei hun biau'r awdurdod. Diogelir hynny hefyd gan dri dimensiwn y rhagenw.

Rhydd hyn gyfrifoldeb i'r beirniad, a all ymdeimlo â bywyd geiriau weithiau â chlust newydd. Ar y naill law, caiff ef fod y tu allan i gerdd: ar y llaw arall, dylai fod y tu mewn iddi hefyd.

Dechreuodd Alan Llwyd ar ei brentisiaeth yn y lle gorau – y tu allan a'r tu mewn. Da yw bod pob beirniad yn cael ei hyfforddi neu'n ei hyfforddi'i hun, yn gyntaf, wrth fyfyrio'n benodol uwchben testunau penodol diweddar. Maent yn ceisio datrys yr un problemau â'i gilydd, y beirniad a'r bardd. Mae cymryd un llenor heriol, fel y gwnaeth Alan, ac aros efallai gydag un llyfr (y gorau o

bosib) yn ymarferiad priodol. Gall wedyn drafod pob math o lyfrau unigol os myn, themâu cyfredol, trosiadau a'u gwneuthuriad, patrymau mydr neu rythm, cysylltiadau â sefyllfaoedd neu egwyddorion, cymhellion, ac yn y blaen. Ond mae gwreiddio mewn testun o'r fath, gan chwilio am ei rinweddau a chan ddysgu gwerthuso o fewn cyd-destun cymharus, yn fan cychwyn delfrydol. Ni wn am un llyfr Cymraeg *cyn* y gyfrol hon a wnaeth yr union fath yna o waith, sef rhagymadroddi'n gyffredinol, ac yna gyflwyno o gerdd i gerdd ddadansoddiad gofalus a meddylgar o'r gwaith gwrthrychol o safbwynt gwerthusol.

Ni chytunai Euros, mae'n ymddangos. Prociwyd ef gan hyn i gyflwyno'i ddehongliad ef ei hun o'r un cerddi, yn wrthateb manwl. Caffaeliad diddorol a gwerthfawr oedd hyn – os diawdurdod. Eto, i'r rhai darllengar sy'n ymhyfrydu'n amyneddgar mewn myfyrdod uwchben rhagoriaethau llenyddol, deil yn fwynfa wrth ystyried cyfoeth y weithred o ddarllen. Ac i ddarllenwyr cymharol ddibrofiad, o bosib, pobl a all fod yn sylfaenol ddiwylliedig, eithr nad yw llenyddiaeth ond yn hobi iddynt, sydd yr un pryd heb ymgyfarwyddo'n feirniadol â chlasuron o fewn mewn mwy nag un llenyddiaeth, a heb ystyried natur gwerthuso ei hun, gall fod yn gynhorthwy gwirioneddol.

Ni raid synnu wrth gwrs wrth gael mwy nag un farn gan wahanol feirniaid ar yr un testun. Mater personol yw llenyddiaeth, a mater cymdeithasol. Bydd pob un yn ymateb i 'berson' mewn ffyrdd gwahanol (yn fân neu'n fawr). Cefndir gwahanol fydd o'r herwydd yn llunio pob dehongliad, er bod yna 'safonau' treiddgar megis y ceir i raddau sefydlog mewn egwyddorion moesol. Dywedodd Alan rywle mai'r awdur ei hun a wyddai orau beth oedd arwyddocâd cerdd. Anghytunaf.

I'm barn i, y gerdd ei hun a ŵyr orau. Hynny yw, darllen y gerdd yw'r her, nid gwrando ar farn awdur a'i fwriadau, a'i ddehongliad wedi'r digwyddiad, nac ar ei hunan-amddiffyniad, na'i safbwynt. Nodais o'r blaen rywbryd, er enghraifft, fod *amwysedd* i'w gael yn yr heddwch y soniai'r gerdd 'O bridd' gan Waldo amdano. Gwadodd Waldo nad oedd yna fymryn o amwysedd yn y gerdd. Ond y mae yno. Ni *fwriadai* amwysedd, meddai, a chredaf ef. Ac eto, ar unwaith, noda'n gymeradwyol ymateb hollol amwys gan ei gyfeillion: 'hafn o dawelwch a sicrwydd' meddai un, 'gobaith' neu 'ras' gan eraill. Bu un o'n beirniaid gorau yn sôn yn dreiddgar ffrwythlon am ddehongliad 'pelagaidd'. Ond i mi, y mae'r pwyslais ar 'ras' a 'sicrwydd' yn ein llygadu braidd yn wrth-belagaidd o du cyfeillion Waldo. Dadleuaf felly nad yw cyfnewidioldeb dehongliad yn gamgymeriad nac yn anfantais o gwbl. Mae'n anochel ac yn rhan o olud 'person' y gerdd. Mae'r gerdd yn fyw ei phersonoliaeth. Gwrandewch arni, er mor baradocsaidd y bo'r safle.

Nid wyf yn mynd i ymholi'n gyffredinol pa un sy'n 'gywir', ai dadansoddiad Alan o Euros, ynteu Euros o Euros. Yn sicr, ar ôl y cyfansoddi, nid oes o'r tu mewn i rai o'r cerddi hyn ddim oll o'r pendantrwydd arwyddocâd a fynnai Euros wedyn,... fel y nodais innau untro wrth drafod y gerdd 'Swrealaeth'. Ac eto, nid yw hynny o raid yn lleihau yr un gronyn ar ddifyrrwch darllen y naill

ddehongliad na'r llall. A gwaith cyntaf y beirniad, sy'n ymhél bellach â'r ddwy feirniadaeth hynny, yw darllen y testun ei hun, a symud ymlaen o'r fan awdurdodol yna. Dysgu darllen personol-gymdeithasol gan y darn ei hun o hyd yw beirniadaeth.

Rhannwyd ei gyfrol gan Alan yn ddwy: 'yr Adran Theori' sy'n trafod 'anhawster' cymharol barddoniaeth fodern, y wedd gadarnhaol thematig, a materion megis Symbolaeth a Sagrafennaeth; wedyn 'Adran Ddadansoddi'r Cerddi Unigol'. Yn y ddeuoliaeth gychwynnol hon dechreuai osod i lawr sylfeini'i adeiladwaith i'w ddyfodol ei hun. Ac allan o'r stablau hyn y carlamodd, ochr yn ochr â monograffau ar Gwyn Thomas (1984) ac R. Williams Parry (1984) a'r campweithiau *Y Grefft o Greu* (1992) a *Rhyfel a Gwrthryfel* (2003), waith ar y darn y 'Darn ei Hun' yn *Rhyfel a Gwrthryfel,* ysgrifau yn y *Patrwm Amryliw* (1957) a (2006), ac ar gyfnodau gwahanol yn *Llywelyn y Beirdd, 50 o gywyddau Dafydd ap Gwilym,* heblaw *Goronwy Ddiafal, Goronwy Ddu,* a llyfrau Hanes yr Eisteddfod Genedlaethol I, II, a III. Sylwer hefyd ar yr un dull o adrannu yma ag a geir yn *Y Grefft o Greu,* sef A. Theori, B. Ymarfer. Ac eto, y Darn ei Hun yn ei hanfod oedd ei angor yn y cwbl.

Gwiw enghreifftio diffyg 'awdurdod' y bardd gwreiddiol, yn ogystal â'r un dyn yn feirniad wedyn, sef Euros. Gallaf enghreifftio ansicrwydd ymateb Euros i ymdriniaeth Alan drwy efrydu'r gerdd 'Clywais Anadl'. Gwna Euros ddau bwynt, neu ddau fath o bwyntiau ynghylch y gerdd hon.

Arhoswn gydag ef.

Dywed, 'Nid yw'r gair "môr" yn y gerdd. Dyna osodiad go ffeithiol, gallech feddwl. Nid anodd fuasai'i wireddu. Ac wele, yn y ddeunawfed linell, dyma fe'n dod: 'Ac yna'n marw yn nhueddau'r môr.' Digwydd pethau eraill o'r fath pan fydd Euros yn trafod ei weithiau eraill. Mater o 'ffaith' seml.

Yn ail, medd ef, 'does dim yn y gerdd, yn fy meddwl i, i awgrymu'r weithred rywiol.' Ac y mae'n werth oedi gyda'r pwynt hwn gan ei fod ef yn dychwelyd ato fwy nag unwaith, ac yn enghraifft nodweddiadol o'r hyn a welodd y beirniad (Alan) – yn gywir, ddwedwn i, – nas gwelodd y bardd ei hun (Euros). Mater o *farn* oedd. Mater o *ddehongli,* megis gan seiciatrydd.

Nid un o gerddi gorau Euros yw hon, er cystal yw. Ond cerdd yw hi am gylch bywyd – rhythmau diddorol buchedd, o'r geni i'r marw, ac anadl einioes yn mynd a dod. Ymdeimla â thrai a llanw a geir ar hyd cynllun y gerdd, sy'n ymrannu'n ddwy ran, dwy frawddeg yn y naill ran a'r llall. Yn y rhannau cyntaf, mae'r ymchwydd yn codi yn y bore ac yn darfod gyda'r hwyr – un dydd. Yn yr ail hanner mae'r esgyniad yn dod yn y gwanwyn ac yn darfod yn y gwanwyn. Dyw'r rhythmau cyferbyniol lleol hyn ddim yn cael eu gorbwysleisio, am mai cylch ailadroddol yw'r darlun cyfan. Ond mae'r rhediad yn amlwg. Lle y mae gwanwyn yn 'disodli', neu ffrwyth yn disodli ffrwyth, – i rai ohonom, mewn cyd-destun esgor, gwae ni, – y mae 'rhyw' ar waith.

Sonnir am y pedwar gwynt, a chlywn amdanynt drachefn yn y gerdd 'Pan fo'r Gwynt' (t.150)

ac eto 'Yn  y Tir' (*Myfyrion,* 73) a mannau eraill. Mae'r pedwar gwynt yn symboleiddio'r pedwar tymor a'u lliwiau, gwyrdd, melyn, coch, a du. Ond cylch rhythmig bywyd ydynt hefyd. Ac i'r neb sy'n ymwneud â chylch bywyd, sef â chenhedlu hyd farw, mae'n deg ei fod – hyd yn oed yn isymwybodol (os na all wneud yn amgen) –  yn disgwyl mentro awgrymu cenhedlu rhywiol a phresenoldeb baban, hyd yn oed gyda llaeth y fron. Pe bai Freud wedi darllen y llinellau hyn yn y cyd-destun hwnnw, gwn beth a glywai ef yno:

*'gyda'r hwyr o dan* ***dŵr yr ywen****.*

*Codai'n wyn yn* ***ymchwydd*** *eirlysiau'r pant*
*A* ***gostwng ar wely'r*** *rhedyn gwyw ar y ffridd.*
*Deffroes ei genadwri gyda thro'r wawr*
*Yn llawenydd ar* ***laeth y fron,***
***A'i gri*** *ar ganol y nos*
*Yn rhybudd yn y fagl.*
*Gydag* ***esgyniad*** *y Gwanwyn yn y dail*
***Fe drigai ei furmuron at y brig,***
***A suddo wedyn ar ddisgyniad*** *yr Hydref* ***yn y boncyff***
Y*n fudandod trwm dan y pridd.'*

Gyda phob parch, ac mae eisiau parch weithiau yn y cyd-destun hwn, nid oes dim o'i le, yn wir y mae popeth o blaid unrhyw feirniad a all ymateb i'r gerdd hon yn onest neu ganfod yn y gerdd hon haenen *isymwybodol eglur rywiol* o fewn canu sy'n ymwneud â chylch bywyd. Dyma enghraifft o adnabod y bardd, ac eto ystyried y ffordd y mae isymwybod yn dwyn ei ddelweddau y gall darllenydd eu gweld yn well na'r bardd ei hun beth sydd ganddo ar waith. Ni raid eu bod yn fwriadus na chan Freud.

Nid fy ngwaith yn y fan yma yn awr yw ceisio ymateb i hyfrydwch y gerdd (ac y mae llawer ynddi i'w edmygu). Fy nyletswydd yw ymateb i esboniad y bardd gan feirniad ac i rediad thematig ei ddeunydd. Soniaf fel y gall bardd godi delweddau isymwybodol heb sylweddoli pam. Ond mae'r darllenydd cydwybodol yn mynd i fod dan gryn anfantais os derbynia ddarlleniad 'awdurdodol' Euros yn lle darlleniad Alan. Bu angen dadansoddi'r Euros a oedd yn y gerdd.

Trof yn awr at y gerdd gyffelyb 'Dail', cerdd nid annhebyg o ran thema. Ymwna eto â'r parhaol. Cais Euros ateb y rhai sy'n tybied bod dail yn adlewyrchu'r darfodadwy. Ond gwêl obaith yn y 'cylch'. Mae'n gerdd a hoffaf yn fawr, fel y gwnaeth Alan Llwyd yntau. Enwir tri math o ddelweddau gan Alan: 'natur, môr, a rhyw'. A chweryla Euros drachefn â'r dehongliad rhywiol. Pam yr awgryma Alan hyn? Wel, onid o wreiddiau un genhedlaeth o ddail y mae'r un nesaf yn codi? Cyfeddyf Euros, 'cerdd am bren y bywyd yn magu dail, fel y bydd y môr yn magu tonnau'. Mae

Alan Llwyd yn cyfeirio at y llinellau:

'*Lle bu **had** crebachlyd yn ymdwymo*
*Hyd draeth maes yr hwyr,*
*Dringant hyd noddion y nos*
*I **gynnwrf gwmpeini'r** sêr.'*

Dichon nad yw Euros yn meddwl (a'i gwaredo) am gyfathrach rywiol ddynol, ond y mae gan yr adar a'r gwenyn – a'r dail a'r 'had' – eu bywyd rhywiol, er cywilydd iddynt:

'*Ac ymagor ym malchderau*
***Holl waed a llaeth am eu dydd**,'*

medd ef ymhellach gan bellhau ychydig yn beryglus oddi wrth blanhigion

'*A chyda llanw a thrai*
***Rhwng llestr a hwylbren** ...*
***Yna sudda eu blodyn**.'*

Rhwng 'had' Pentyrch â'i gilydd, ond tybiaf y buasai Freud a'r gweddill o ddarllenwyr Cymraeg y ganrif rywiol honno yn ochri gydag Alan yn erbyn Euros a'i honiad: 'Nid oes "delweddau rhywiol" ynddi.' Dyna pam yr hawliaf, ar ôl i fardd lawnsio cerdd, 'taw piau hi' yw'r cyngor gorau. Nid ef piau hi mwyach, yn sicr, o safbwynt dehongli: gan y gerdd y mae'r awdurdod mwyach. Onid e, gellid drysu'r dychymyg awgrymus.

Cafodd Alan Llwyd fedydd tân yn ei gyrch arloesol hwn ym myd beirniadaeth lenyddol. Ymgais ddiddorol oedd bwrw'i rwyd fel hyn yn eang a cheisio dehongli pob cerdd mewn cyfrol sylweddol. Fel gyda phob bardd cynhyrchiol, go anwastad yw gwaith Euros Bowen. Tila oedd ambell gân; di-fflach ac anghelfydd oedd darnau sylweddol mewn rhai eraill. Ond fel y dangosodd Alan yn ei ragymadrodd, dyma fardd celfydd hefyd, bardd a fedrai feddwl a dychmygu, ac adeiladu cerddi gwych o bryd i'w gilydd: diau un o'r llai na hanner dwsin praffaf o feirdd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Roedd ganddo rywbeth i'w ddweud fel bardd. Rhagorai Alan yntau wrth ei werthuso: dyma'i ddawn ddisgleiriaf fel beirniad, yn syml oherwydd ei fod yn medru meddwl ar hyd rhychwant eang o ystyriaethau gwahanol, a hynny gyda deallusrwydd effro mewn cyd-destun cadarnhaol. Ac yn fy marn i, pennaf diddanwch beirniadaeth yw dadlennu'r gwerthfawr.

Mae'r ymdriniaeth â 'Difodiant' gan Alan yn gwneud cyfiawnder â'r gerdd bwysig honno. Ond wrth ymdrin â 'Myth y Gwanwyn' y dengys Alan fel y gall gydadeiladu'i adnoddau dadansoddol er mwyn amlygu pensaernïaeth ddychmyglon y gerdd yn ei chyfanrwydd a'i manylion. Cyflwyna bwyntiau'r egnïo'n ddeheuig ac yn olau.

Pan dry Alan at y blaenaf o ran ansawdd o ugeinedau Euros a'r cerddi llai, dengys fod yna wir fardd ar gyfer pobl sy'n barod i feddwl uwch barddoniaeth a thynnu'i mêr, bardd o bwys mawr

iawn i ddarllenwyr aeddfed o ddifri – 'Gwenallt', 'Brain', 'Danadl ym Mai', 'Yr Alarch', 'Pŵer y Gerdd', 'Hyn sy'n Fawl', 'Y Ddraenen Ddu', 'Y Gair', 'Y Griafolen', 'Pan fo'r Gwynt'. A dyna'r argraff deg a rydd astudiaeth Alan: cyfyd i'r sialens o ymdrin â chyfoeth barddoniaeth a rydd bleser dwfn i ddarllenwyr anghenus Cymru. Ond ysywaeth, yng nghyfrol ateb Euros *Trin Cerddi,* cawn argraff o ddarllenydd cecrus, un sy'n ffidlan am fân lwch, heb yr haelfrydedd dychymyg sy'n graidd i bob beirniad cytbwys. Yn ei farddoniaeth gryfaf y mae ef yn medru cerdded yn hardd ac yn anrhydeddus, ond gyda cherdd fel 'Danadl ym Mai' mae cyflwyniad Alan yn graffach nag eiddo Euros am fod y feirniadaeth yn greadigol gyflawn gan y naill, ac ar chwâl gan y llall. Â Alan at galon y peth; ond bodlona Euros ar bigiadau. Mae arnaf ofn mai cecran diddychymyg yw baich sylwadau cwbl annheilwng Euros. Cymharer sut y mae'r naill ymdriniaeth ag 'Y Griafolen' yn cymharu â'r llall.

A. Ll: '*Pren tosturi yw'r griafolen yn y gerdd hon, ac mae'r bardd yn cymharu'r griafolen, dan gochni ei haeron, i bren y groes; pren y Groes yw'r goeden, gyda thrawsdarn yn yr ail bennill yn cryfhau'r ddelwedd, ac mae 'Canghennau' a brigau'r goeden fel 'breichiau' ac 'asennau' Crist a'r aeron coch arni fel diferion o waed, yntau'r pren yn bren 'tosturi', ac yn symbol ac yn ddelwedd o'r Groesbren.*

E. B: *Nid hollol gywir yw dweud fod y griafolen yma'n 'ddelwedd o'r Groesbren'. Cymharu'r goeden, fel y sylwyd, â phren y Groes a wneir. Mae'r griafolen yn debyg i'r pren hwnnw, a'i harwyddocâd yn gyffelyb: 'yr un gras â phren hwnnw', a'i harwyddocâd yn gyffelyb: 'Yr un gras â phren y Groes'. Mae'r goeden yn delweddu'r ymdeimlad o dosturi Duw heb gyfyngu'r tosturi hwnnw i'r Groesbren.'*

Darllener y darn oll i ganfod iawnder Alan, ac i ba raddau y profodd Euros bwynt Alan.

Pa fath o anghytuno yw peth felly? Beth oedd yn bod arno? Onid oedd croesbren gan y Groes?

Cafodd Euros gryn anrhydedd yn y gyfrol hon gan ei feirniad edmyglon. Mewn cyfnod pryd yr oedd llaweroedd llon yn dirmygu Euros oherwydd bod mymryn o feddwl yn angenrheidiol i'w ddarllen yn y Gymru fach ysgafn a oedd ohoni, mor anffodus oedd bod slant yn ei gymeriad i chwynnu'r mintys o fewn helaethrwydd o ymateb ffrwythlon.

O'm rhan i, tybiaf y buasai Alan a phawb ohonom ar ein hennill yn gyntaf, 'o fewn y dechneg werthusol', o ymgyfyngu i'r cerddi gorau, yn ddewisol yn gyntaf, gan ddatgelu'u camp (a'u diffygion), gyda golwg ar ddatgelu gwerth fel ffocws beirniadol. Y wedd sylfaenol fwyaf gwerthfawr ym meirniadaeth lenyddol Alan yw'r darllen clòs ar y darn ei hun gyda golwg ar 'fawl', sef dathlu'r cadarnhaol yn ein llenyddiaeth. Nid oes neb a ragora arno. Yma, y mae ei ddull a'i ymagwedd at greu ar eu cryfaf, fel pe bai ef ei hun yn lle'r bardd yn cyd-ymlafnio gyda'i destun yn

y weithred bersonol greadigol. Y bardd sy'n arwain ei feirniadaeth o'r tu mewn i Euros. Y 'ti' yn y fan hon yw ei waith 'ef' ei hun.

Dylid cofio mai rhan o'i nod, i Alan, wrth ymgrynhoi uwchben y darn ei hun, oedd creu arferiadau da ymhlith ei gyfoeswyr. Yn y math hwn o feirniadaeth addysgol, po fwyaf yr ymgrynhoir arni, mwyaf y cais y beirniad bwyso a mesur gwerth. Os bardd yw, ni all fodloni ar ddisgrifiad thema neu'r llenddull (genre). Ond ystwytha'r sylwadaeth yn ôl ansawdd a rhinweddau'r cyfansoddiad penodol ei hun yn gyflawn. Oherwydd y twf yn ffasiwn relatifrwydd, bu tipyn o ddirywiad yn y grefft hon yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru.

Gwerthuso yw calon beirniadaeth. Nid oes dewis ond clywed yr hyn a glywir o ddifri, a chanddo sail, yn y gerdd. Dichon ei bod yn dasg anferth o brin ac anodd i'w chyflawni'n graff. Mae'n gofyn catholigrwydd a deallusrwydd, dychymyg a haelfrydedd. Adeiledir y grefft fel y gwnaeth Alan, drwy brofiad darllen 'bannau llên' ar draws rhychwant eang o lenyddiaethau o bob math. Ac wrth ddarllen, dadansoddir a chyfansoddir; tynnir ar wahân a rhoddir at ei gilydd. Mae'n gofyn blynyddoedd maith o ymgydnabod â chorff mawr o lenyddiaeth. Mae'n gofyn myfyrdod synhwyrus parhaus. Ond ofnaf fod y sefydliad sydd ohoni ers tro wedi ymgymryd â'r dasg esthetig hon fel hobi chwareus neu ysgafn i gyflawni agenda anllenyddol, ac wedi dianc i hanes.

Yn ogystal â'i gefndir darllen, mae gan Alan, y bardd, brofiad o ymhél â thrafod prydyddiaeth yn ymarferol. Fel bardd, fe hyfforddwyd y beirniad hwn yn gynnar mewn cyfoeth seiniol a delweddol: meithrinodd ddychymyg mewn rhythm ac mewn ffigurau a throadau ymadrodd. A'i nod feirniadol ar y pryd yn ei farddoniaeth fu ceisio llunio *pob* llinell yn ddiddorol, fel y mae pob bar, ar y lefel uchaf a'r lefel isaf, yng ngherddoriaeth Bach. Nid siarad *am* deimladau a wna, ond eu corffori'n gelfydd yn ei waith. Mae'r gweledigad ar yr amgylchfyd, ar ei gyd-ddynion, ac arno'i hun, yn gatholig feddylgar ac ystyrlon. Estyniad o'i ymgodymu â'i hunaniaeth oedd darllen. Drwy'r cydystyru hwn bydd yn gweld adeiladwaith cyfanweithiau. Hyn yw sylfaen ei Hanes.

Ac un o'r gweddau arwyddocaol a ddysgodd Alan iddo'i hun ac i eraill, ar ôl bwrw'i brentisiaeth – ac a'i tynnodd i'r blaen ymhlith cynganeddwyr – oedd Cyfoesedd teimlad. Dyma'i Foderniaeth. Ymryddhaodd o afael ceidwadaeth gonfensiynol nid drwy gyfoesedd arwynebol – megis cyfeirio'n 'feiddgar' at wrthrychau modern, diddanwch poblogaidd, neu ddefnyddio termau dinesig neu ddiwydiannol fel 'peilon' neu 'archfarchnadoedd' neu 'Americaniaeth' – megis y'i gwnaed yn y tridegau a'r saithdegau. Ond o fewn y fagwraeth honno, dewisai ef frwydro â meddwl ac ysbryd y cyfnod. A thybiaf fod efrydu Euros yn gynnar wedi'i wthio i afaelyd mewn celfyddyd aeddfed a dethol, a fu'n dra pherthnasol o ran ei olwg mwy beirniadol wedyn ar Ôl-foderniaeth. Felly hefyd y bu'n efrydu cyfieithiadau o ddwyrain Ewrob. Fe'i hyfforddodd ei hun fel bardd a

beirniad yr un pryd.

Gallodd felly ymwrthod â chwiw newyddiadurol y funud. Ymrwymodd mewn catholigrwydd, gan ddethol o ragoriaethau'r tri metanaratif llenyddol adnabyddus – y clasurol, y rhamantaidd, a'r modernaidd. Oherwydd argyfwng ei bobl ei hun, a'i wreiddiau gwydn yn nhraddodiad sawl cyfnod, oherwydd ei ddelfrydau yn wyneb israddoldeb yr awdurdodau, fe gyfrannodd yn aruthr i'r dasg anturus o geisio Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg gyfoes. Er gwaethaf yr erledigaeth boblogaidd gyfoes, a'r gwehilion o lyfrau arwynebol sy'n gosod nod o 'safon' i'w genhedlaeth, deil ef – yn rhyfedd iawn – i ymateb i'n barddoniaeth gyfoes gynganeddol yn fwy optimistaidd nag i Gymru ei hun, a'n deffro. Dyna pam y gellid cyfrif Beirniadaeth Lenyddol ochr yn ochr â Barddoniaeth fel ein dau lenddull cryfaf (*genres*) ar ddechrau'r milflwyddiant.

Allan o'r gyfrol ar Euros y tarddodd y trwyadledd nodedig yn ei waith beirniadol. Ac mewn llawer o'i feirniadaeth, o fathau gwahanol ac o gyfnodau gwahanol, a gyhoeddwyd mewn cyfres fawrhydig o gyfrolau, ceir rhediadau gorchestol o ddadansoddi a 'chyfansoddi' clòs. Yn y gyfrol gynnar hon gan Alan, sut bynnag, y sefydlodd rai o'r egwyddorion a fyddai'n profi'n berthnasol yn *Llywelyn y Beirdd, Crefft y Gynghanedd, Rhyfel a Gwrthryfel, Y Patrwm Amryliw, Hanner Cant o Gywyddau Dafydd ap Gwilym,* ac eraill: y ddisgyblaeth o drafod amryfal weddau o gylch diben gwerthusiad; yr argyhoeddiad i fod yn gatholig ei chwaeth, gan barchu pob arddull gelfydd a phob lefel o anhawster a hawster; a'r ymgrynhoi ar safon a wthiai i'r naill ochr unrhyw atyniad i ymdroi'n ormodol gyda methiant.

Ac yn ddiddorol iawn, gydag Euros, fe ddaeth elfen arall i mewn i'r sefyllfa. Fe gawn ei gweld drachefn wrth drafod Goronwy Owen, neu wrth ymdroi ar lwyfan yr Eisteddfod, neu pan ystyriwn Meilir Emrys Owen. Nid gwyliedydd yn yr oriel yw Alan: y mae ef ei hun, er mawr ofid iddo, yn byw yno i lawr ar lwyfan mewn drama, yn bysgodyn aur yn ei bowlen. A rhaid fydd ymgydnabod â'r unigolyddiaeth gyffrous honno cyn sylweddoli mor ddifrif ganolog yw'i feirniadaeth i'n beirniadaeth ddialectig gyfoes.

## III CERDD DAFOD / CERDD FYNEGIANT
## Y GŴR A DROES YN GYNGHANEDD

*Anghenion y Gynghanedd, Fersiwn Newydd,* Alan Llwyd, 2007; *Crefft y Gynghanedd,* 2010; *Sut i Greu Englyn,* 2010

Yr oedd Alan Llwyd yn bur ifanc, tua phedair ar ddeg oed, pryd y peidiodd â bod yn fachgen glas iach, ac y trodd yn Gynghanedd. 'Cei di fod yn fi', meddai honno wrth bob acen ohono. 'Yn lle dy fod di'n fy siarad i, caf fi dy siarad di.' Yn ôl *Glaw ar Rosyn Awst* 46. 'Yn ystod fy mhedwaredd flwyddyn yn yr ysgol, dechreuodd fy athro Cymraeg, T. Emyr Pritchard, sôn am y cynganeddion wrthym.' Defnyddiodd ef felly *Y Cynganeddion Cymreig,* David Thomas, ond buasai Alan ers blynyddoedd – o du ei daid – eisoes wedi bod yn profi'r pwysau i'r cyfeiriad hwn.

A gafwyd ysgol uwchradd erioed mor gynganeddol â Botwnnog? Ar y staff, ceid Charles Jones Mynytho (brawd y prifardd Moses Glyn Jones), Emyr Pritchard, Gruffydd Parry, R.L.Jones (Meistr y Cywydd Digri), a Huw Roberts y Dramodydd. 'Gallai pump ohonom gynganeddu yn y chweched dosbarth.' Yr oedd yr awyr a anadlai ef yn gynganeddol, ac wedi treiddio o un pen yr ysgol i'r llall.

Yr wyf yn ystyried, mewn *oeuvre* anghyffredin o gyfoethog, mai tri champwaith beirniadol Alan yw *Anghenion y Gynghanedd* (Fersiwn Newydd); *Goronwy Ddiafael, Gronwy Ddu;* a *Rhyfel a Gwrthryfel.* Dyna dair o gyfrolau pwysicaf beirniadaeth lenyddol Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Gwn y gallai darllenydd arall, hyd yn oed yr awdur ei hun o bosib, enwi triawd arall, megis *Crefft y Gynghanedd; Cofiant Hedd Wyn;* ac *Y Grefft o Greu.* Ond yr wyf am ddyrchafu'r triawd cyntaf, ac efallai'i bod yn bosibl gwneud math o gyfiawnder bras ag Alan y Beirniad heb sylwi'n benodol ac yn ofalus ar amryw o'i gyfrolau eraill. Mae'r tri champwaith yn cynrychioli i mi y tair prif wedd ar ei ddulliau amrywiol beirniadol – y ffurfiol dechnegol, yr hanesyddol thematig, a'r dadansoddiad cyflawn a chytbwys a gwerthusol o weithiau unigol.

Efallai, o'r tair ffordd yna o synied am lenyddiaeth, mai'r dadansoddiad cynnar a geir ganddo ar Gynghanedd yw'r lle sydd wedi cynhyrfu fy niddordeb pennaf. Bûm innau'n ymdroi gyda'r un maes am rai degawdau fel Alan ond mewn modd gwahanol, a charwn yn gyntaf ddiffinio'n union beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwrthrych ei efrydiaeth ef a'm myfyrdodau i. Pe bawn yn ceisio diffinio hynny'n gryno, fe ddywedwn (at ei gilydd) fy mod i wedi ceisio symud oddi wrth Gerdd Fynegiant at Gerdd Dafod, a'i fod ef wedi cymryd llwybr yr un mor angenrheidiol – er yn wahanol, ac yn fwy ymarferol – oddi wrth Gerdd Dafod at Gerdd Fynegiant.

Sylwer ymhle'r ŷm ein dau yn sefyll bellach, y naill ar un o ysgwyddau llydan J. Morris-Jones, a'r llall ar yr ysgwydd arall. Y mae Syr John yn ei gampwaith wedi *disgrifio'r cynganeddion*

yn ddadansoddol, ac yn ail (ond yn llai llwyddiannus) wedi *dadansoddi'r mesurau*. 'Sut' y mae pethau'n ymwybodol yw'i gwestiwn a'i ateb gorchestol gyda'r ddau. Deuthum i ar ei ôl, a cheisio esbonio natur cyfundrefn isymwybodol *Cerdd Dafod,* o ble y mae hi wedi dod yn feddyliol, a pham y datblygodd hi fel y gwnaeth yn Gyfundrefn gydlynol o Gyfundrefnau (a beth yw cyfundrefn anweledig). Ond daeth Alan ar ein hôl ein dau ac esbonio sut y mae'n gweithio'n ymarferol, beth yw'r technegau mewn Mynegiant. Sylwer nad yw J. Morris-Jones yn trafod cerddi unigol; a phrin ym maes Cerdd Dafod yw pethau felly gennyf i. Ond y mae Alan yn llywio dwy ran o dair o'i astudiaeth yn benderfynol tuag at y cynnyrch diriaethol a chyfan, yn y pen draw. Anela Alan yn bennaf at yr Effeithiau (ac felly, iddo ef, estyniad i'r *Anghenion* yw *Crefft*); Syr John a finnau dan ei gesail yn aros yn fwyaf penodol gyda'r Achosion: drwy'r un trefniant o bennau gwahanol.

Tybiaf mai gwaith beirniad yn y pen draw yw ceisio dangos yr 'arwyddocâd' mewn llenyddiaeth. Oni wna hynny, ni wna ei waith. Nid digon yw disgrifio ac yn sicr nid digon yw croniclo. Nid digon yw hel manion cofiannus. Pan geir cyfrol go arbennig – fel y'i ceir yn achos *Anghenion y Gynghanedd* (arg.2) – y mae'n ofynnol inni oedi a chydnabod y camre ymlaen a gymerwyd gan yr awdur, a beth yn union yw ei gamp.

Cydiodd Alan yn *Cerdd Dafod* J. Morris-Jones a'i throi'n *Gerdd Fynegiant*. Yn adfywiad cynganeddol eithriadol bwysig ddiwedd yr ugeinfed ganrif, Alan (yn fwy nag Euros, ac yn fanylach na Waldo) oedd y meddyliwr cynganeddol. Dangosodd ddyfnder a lled y Gynghanedd, ei rhyfeddod, a'i chyfrinachau celfydd. Gwaith tîm oedd yr adfywiad cynganeddol ar y pryd. Ac i'm bryd i, y digwyddiad torfol hwnnw yw'r datblygiad 'ffurfiol' pwysicaf yn ein llenyddiaeth ers hanner can mlynedd. Yr oedd y cyffro rhyfedd cyfredol yn cynnwys Talwrn y Beirdd, yr adnewyddiad mewn Cynghanedd Eisteddfodol (gan gynnwys ymdriniaethau Donald Evans), a Chymdeithas Cerdd Dafod. Roedd yn cwmpasu ugeiniau o feirdd crefftus a dosbarthiadau niferus. Ffenomen Gymreig oedd. Trodd beirniadaeth ddyfal Alan Llwyd y ffenomen ddiddan hon yn sylwedd aruchel y gellid ei barchu oherwydd myfyrdod. Roedd hyn iddo yn fwy na gêm. Theori oedd a droes yn ymarfer ystyriol mawr, a'i gyflwyno'n egni creadigol cyfoes. Arweinydd oedd ef i hyn oll, er ei waethaf, ac er na fu'r effaith mor llwyddiannus ag y dymunai. Eto, nid Cerdd Dafod 'yn bur' sydd gan Alan; ac nid Cerdd Fynegiant yn unig chwaith; eithr consurio'r naill a'r llall.

Efallai, wrth osod cyfrol 2007 Alan yng nghwmni dwy gyfrol arall yn yr un maes, y gallwn ddiffinio natur a nod cymharol ei waith, ei arbenigrwydd, a'r cwmpas yr anelai ef ato. Yr wyf am fentro'i gosod (o safbwynt gwahaniaethau cynnwys) ochr yn ochr â *Cerdd Dafod* 1925, ac (esgusoder y rhyfyg) *Meddwl y Gynhanedd* 2005: tair cyfrol – yr ymarferol, y disgrifiol, a'r esboniol theoretig.

Yn *Cerdd Dafod* daeth J. Morris-Jones ag ysgolheictod ieithyddol enfawr (hanesyddol,

testunol, dadansoddol, a chymharol) i fyfyrio am lawnder y Cynganeddion. Manteisiodd ar ei wybodaeth weledigaethus o ddeddfau ac egwyddorion. A darganfu bron y cwbl o lawnder a gwerth arwyddocaol yr acen. Darganfu'r ddwy ddeddf dreiddgar (a) ynghylch natur perthynas arbennig y grwpio o'r diacen wrth gyferbynnu â'r acennog; a (b) hanfod y rhagacen. Y rhyfeddod oedd sylweddoli cyn lleied y deallwyd arwyddocâd ei egwyddorion canolog hyn o'r llun a chan y rhai a ddaeth wedyn. Esboniodd hefyd y dosbarthiad o'r mathau o gynghanedd a'u defnydd.

Yn ei fethodoleg, aeth ymhell y tu hwnt i osod rheolau na 'gosod y ddeddf i lawr' megis; a chyflwynodd yr egwyddor a'r ymwybod o 'ddarganfod' esthetig (neu seico-gyfundrefnol), gan gymhwyso'r deddfchwilio a ddysgasai mewn Ieithyddiaeth i ddeddfwriaeth lenyddol. Dysgodd, i ganrif gyfan, mor bwysig oedd parchu holl rychwant cyfnod y cywyddwyr mawr. Ac yn ddiarwybod, ymunodd Saunders Lewis ag ef, gan gyd-gydnabod mai'r un mor bwysig a chywrain i Gymru oedd y Ganrif Fawr, ei beirdd a'i darganfyddiad rhyfedd hi o'r Gynghanedd, ag oedd Shakespeare i'r Saeson.

Ond ffaith ffurfiol oedd y Gynghanedd i J. Morris-Jones. I Alan Llwyd, yn ymroddedig gyson (megis yn *Sut i Greu Englyn*), ffaith esthetig oedd a mwy. Nid sain yn unig mohono, ond sain sy'n cyfeilio synnwyr.

Mentraf yn ymddiheurol yn awr (o ran diffinio) gyferbynnu nod y gyfrol *Meddwl y Gynghanedd.* Ceisiodd honno esbonio natur isymwybodol anochel y Gynghanedd yn y meddwl cyffredin. Eglurodd natur ddeuol a thriol gyferbyniol (a pham) y mydrau Cymraeg (yn arbennig yn y Cywydd a'r Englyn). Dangosodd natur datblygiad 'Cyfundrefneg' rhwng Gogynghanedd a'r Gynghanedd (a pham); gan ddadlennu'i natur gyfunol gymdeithasol. Trafododd yn weddol sicr hefyd enedigaeth y ffenomen hon. O fewn egwyddor Cyfundrefn gwbl arbennig Tafod y Gynghanedd y canfuwyd ei chydlyniad â Chyfundrefneg y greadigaeth hefyd (o bethau'r byd), gan esbonio natur yr uwchcorfan a'r llinell; a chynnig theori go gyflawn o Ffurf lenyddol ei hun.

Ond mynasom ein tri arddel 'annibyniaeth' neu hunan-lywodraeth y Gynghanedd. Credaf fod y tair gwedd a nodais yn darparu fframwaith o feddwl gyda pharch am ddyfnder y Ffurf.

*Ffurf* lenyddol Gymreig mewn cyfundrefn gymdeithasol Gymreig yw Cynghanedd. Ac ar ôl sylweddoli'r Deunydd Mawl, y mae'r Deunydd wedi ymamlygu'n benodol o fewn amgylchfyd cymdeithasol cwbl arbennig fel pe bai'n ei fynegi'i hun mewn Ffurf. Dyna fu rhai o nodweddion pob llenyddiaeth. Ond Ffurf fel y cyfryw sy'n diffinio'r newid hwnnw yn y maes hwn.

Beth pe baem yn awgrymu, cyn i bob llenor ddechrau llenydda, ac yn wir cyn cynganeddu, fod yna drefn eisoes yn ei iaith ei hun, ac yn llenyddol? Cyn i lenor o gynganeddwr gael ei eni na meddwl, na siarad, na dysgu dim o'r mynegi cynganeddol, y mae potensial y Gynghanedd eisoes yno'n orffenedig o'r golwg yn ei isymwybod, yn strwythur 'sefydlog' yn ymguddio yn y Meddwl. Ac

o fewn amodau'r Gynghanedd honno y mae ef yn cael deall mwyach. Yn wir, eisoes yno y mae dull y greadigaeth o ddarparu deddfau, ymhell cyn bodolaeth, cyn esblygu dim, ie, cyn y mowld cymdeithasol, cyn  y syniadaeth bersonol, yno. Lluniwyd iaith ei hun, yn ôl ei hunigolyddiaeth, allan o gymdeithas athrylithgar o ddeddfau meddyliol. Y tu hwnt i'r llinell gynganeddol y mae yna ddyfnder cudd nad ydym yn ymwybodol ohono, ond sy'n rhan gyffrous o'r hyn a'i gwna'n rhyfeddol, ac yn Gyfundrefn o gyfundrefnau cydlynol. Ac wrth gwrs, ceir Gwahuno.

Ceir, felly, Ffurf sy'n rhagosodiadol (Tafod). A Ffurf sy'n gynnyrch (Mynegiant). Yn wir, gellir mewn Mynegiant lunio Ffurf yn fwriadus ymwybodol. A hyn yw prif gnewyllyn beirniadaeth Alan. Mae ganddo bennod yn ei gyfrol arloesol a hynod bwysig *Crefft y Gynghanedd,* 2001, 'Y Gynghanedd fel Iaith a'r Gynghanedd ar Waith': dyna'r hyn sydd gennyf innau hefyd mewn golwg yn awr yn y fan hon o safbwynt arall. Gellir derbyn Cyfundrefn felly yn ôl deddfau sefydlog Gwahuno, sef hanfodion ffurfiol parhaol y meddwl; a gellir wedyn adeiladu Cyfundrefn â'r offer yna, sef Cyfundrefn wneuthuredig, yr hyn a eilw Alan weithiau yn dechneg. Dengys ef unigolyddiaeth eu harddull cynganeddol ymhlith gwahanol gywyddwyr o'r oes aur. Dywed, '*Mae i'r gynghanedd nifer o dechnegau, sef amryfal batrymau y mae hi'n defnyddio dro ar ôl tro.'* Hynny yw, gall bardd fabwysiadu patrwm ac yna ei roi heibio, mewn Mynegiant. Dengys ef hyn yn drawiadol gyda Wiliam Llŷn, Iorwerth Fynglwyd, Tudur Aled, Lewys Glyn Cothi, Siôn Tudur, Gruffudd Hiraethog, ac eraill. A gwelir rhai o'r beirdd yn fwy hoff na'i gilydd o ambell batrwm arddulliol. Yn *Crefft y Gynghanedd* arddengys ef lwybr ymlaen mewn Beirniadaeth Fynegiant i ymdeimlo â lliwiau gwahanol feirdd o fewn gwahanol arferiadau. Yn y gyfrol *Anghenion y Gynghanedd*, Fersiwn Newydd (2007), yr oedd eisoes wedi rhoi enghreifftiau o dri math o gyfochredd cystrawennol; ac yn y gyfrol hon a'i dilynodd yn 2010 y mae'n helaethu ac yn dyfnhau'r holl sylweddoliad hwn: sef cyfochredd cystrawennol ailadroddol:

*Iesu doe a roes dial,*
*A'r Iesu doe a roes dâl.*

Wiliam Llŷn

cyfochredd cystrawennol ystyrol:

*Cawn d'aur byth cyn daear bedd,*
*Cawn d'arian cyn dy orwedd.*

Siôn Tudur

cyfochredd cystrawen wrthgyferbyniol:

*Ni ddêl oedran i anael,*
*Nid â yn hen ond un hael.*

Lewys Clyn Cothi

Dyna'r hyn a alwaf i yn *Gyfundrefn mewn Mynegiant,* i'w chyferbynnu â Chyfundrefn mewn Tafod sy'n orfodol, ac yn elfen adeileddol ymhlith rhai hanfodol 'sefydlog' yn y Gyfundrefn o gyfundrefnau, yn amhersonol, ac yn barhaol. 'Arferiad' yn chwilio am ymsefydlu'n Dafod yw 'Cyfundrefn mewn Mynegiant', ond ymatal a wna. Cyfrinach fawr yw'r gwahaniaeth rhwng Arferiad a Chyfundrefn Tafod. Dadleuai John Morris-Jones mewn ambell lythyr at Gwenogvryn 'fod y fath beth ag arddull gynganeddol sy'n perthyn i wahanol gyfnodau ac yn amrywio o fardd i fardd.' Dyma'r union 'reddf' a arddangoswyd yn wrthrychol gan Alan Llwyd yn *Crefft y Gynghanedd.* Mae'n mynd yn ddyfnach na'r materion arddull a gododd Thomas Parry mor ddeheuig yn y Rhagymadrodd i Waith Dafydd ap Gwilym. Meddai John Morris-Jones wrth Gwenogvryn: 'Now to master the mechanical rules is easy; but to have that subtle knowledge of the kinds of combination in vogue at a particular time or more natural to a particular writer is a thing learnt in many years and those the most receptive of a man's life.' A'r hyn a wnaeth *Crefft y Gynghanedd* oedd agor gwedd newydd gyfoethog a dwfn ar feirniadaeth lenyddol gynganeddol, oherwydd 'subtle knowledge' na fuasai neb ers J. Morris-Jones wedi meddu arni i'r fath raddau ond Alan Llwyd.

Ond sylwer ar yr hyn sydd gan Alan Llwyd mewn golwg. Wrth iddo dynnu sylw at batrymau arddulleg mewn gwahanol feirdd, adeilada ymwybod byw yn y darllenydd fel y bydd hwnnw'n gallu tyfu'n *connoisseur.* Hynny yw, mae'n dysgu i'w gyhoedd ddarllen a gwrando yn fyw yn y maes hwn. Mae a wnelo *Anghenion y Gyghanedd* 2007 felly â sgrifennu Beirniadaeth batrymol ar ddulleg (*e.e* arddulleg y Gynghanedd), gan ei wneud o safbwynt Bardd mewn modd personol iawn. Darn yw o'i fyfyrdod difrif a dwys ei hun ynghylch ei gelfyddyd. Mwy cyfyngedig yw *Crefft y Gynghanedd* ar ryw olwg, gan ganoli'i sylw'n bennaf ar rai o foddau Mynegiant. Ac eto, gall brofi efallai'n fwy llydan wrth ddysgu inni gyferbynnu, cyfrodeddu, ac uno yn y manion ystyr hyn.

Anorffen yw beirniadaeth bob amser. Ond un o rinweddau beirniad gwir greadigol yw bod yr awgrymiadau a gyfyd ef yn esgor ar lwybrau eraill newydd y gellid eu fforio yn sgil y bylchau gofod a agorwyd gan Alan. Er enghraifft: dichon y buasai beirniad mwyach yn gallu estyn drwy olrhain hefyd y 'moddau acennu' amrywiol rheolaidd sydd gan y beirdd. A oedd hoffter amrywiol gan wahanol feirdd yn eu hymagweddu at 'ddeuoliaeth' neu 'drioliaeth' acenion mewn cynganeddion yn arwyddocáu rhythmau penodol gwahanol yn eu cyfnod? A pha effeithiau a gâi hynny? A oedd tueddiadau penodol unigolyddol ym mhresenoldeb ac olyniaeth rhediadau rheolaidd o ddiweddebau *acennog/diacen* neu *diacen/acennog* o fewn safleoedd trefn benodol yn y cerddi? A pha effaith a gâi'r miwsig hwnnw? A oedd tueddau gwahanol eto yn safle'r rhagacen iddynt? Byddaf yn synied fwyfwy mai'r rhagacen (un o ddarganfyddiadau mawr J.Morris-Jones) yw'r allwedd i dynnu llinell unigol at ei gilydd. Yn sicr, mae'r rhagacen yn hanfodol i glywed grym y miwsig. Ac y mae datblygu'r clyw i ymwybod â grym rhagacen (a'i safle) yn ffordd loyw i fywhau'r elfen gerddorol i'r

darllenydd neu'r gwrandawr miniog. Mae mor bwysig bob dim â'r Glec. Oherwydd unigrywiaeth y Gynghanedd, yn arbennig yn ôl y patrymau seiniol, y mae Alan yn ein harwain i ymglywed â hwy, y mae'n caniatáu datblygu 'techneg' (gair Alan) ar gyfer darllen. Dengys Alan yn yr astudiaethau hyn sut i adeiladu Beirniadaeth Lenyddol fwfwy Cymreig, drwy agor drws y peth Cymreiciaf oll sydd gan ein llenyddiaeth, a hynny i gwestiynau crefft ymhellach.

A gaf awgrymu bod *Crefft y Gynghanedd* 2010, heblaw dadansoddi technegau, yn darparu darnau darllen cynganeddol flasus, wedi'u trefnu'n ôl patrymau? Antholeg yw o ddarnau arwyddocaol wedi'u seilio ar egwyddorion clywed. Dyna'r math o hyfforddiant sy'n ysgogi'r hoffter o *glywed* ffurf. [Rwy'n cofio pan own i'n ifanc fy mod yn weddol sydyn wedi dechrau gwrando ar gerddoriaeth glasurol gyda sylw arbennig i rediadau deuol (ailadroddol a chyferbyniol) a thriol crwn, patrymau adleisiol cyd-rwng y bariau, a rhwng y rhannau adeileddol a fyddai'n cydlunio cyfansoddiadau cyflawn, ynghyd â chyfeiliant y llaw chwith. Ac ni bu gwrando byth yr un fath wedyn: gweledigaeth i'r glust.] Felly y gallwn ddychmygu'r effaith gyda'r tair cyfrol hyn gan Alan Llwyd. Gallent newid ein dull o ddarllen a gwrando ar y cywyddwyr neu'r englynwyr, tan newid ymateb yn greadigol effro. Dyma mewn gwirionedd Ysbryd y Gynghanedd yn meddiannu'r geiriau.

Fel y newidiodd gwaith beirniadol Empson (yn Saesneg) y ffordd y darllenai pawb ar ei ôl yn ôl eu hagwedd at ystyr barddoniaeth, a hynny yn y traddodiad ar ei hyd, felly yn ôl egwyddorion eraill y gellid disgwyl i'r cyfrolau hyn ei wneud gan Alan Llwyd os bydd gennym barodrwydd gwylaidd.

Bûm yn cyffredinoli'n o egr. Ond gadewch imi geisio esbonio hyn, gan bellhau ychydig, drwy gyfeirio'n gymariaethol at droad Amwysedd. Gwelais fwy nag unwaith ymgais i esbonio beth yw gair mwys drwy roi *gormod* o bwyslais ar wahanu ac ansefydlogi. Dyma un o wendidau a gwallau Ôl-foderniaeth: heb ganfod y ddwy ochr ynghyd, ymadewir ag Amwysedd. Nid amlder ystyr yw Gair Mwys, ond *amlder ystyr mewn undod.* Felly hefyd bob amser mewn Cynghanedd: estyniad a geir o'r agwedd at y Rhannau a'r Cyfan (un arall o faterion mawr theori lenyddol). Mae yna wahaniaethau yn ogystal â thebygiaethau mewn Cerdd Dafod. Y gwir yw nad yw Amwysedd na'r Gair Mwys yn bodoli heb gyfuniad o wahanu ac uno. Mae'n amhosibl: mae gwadu'r naill neu'r llall yn cefnu ar natur orfodol Amwysedd. Heb sylweddoli hefyd ddwyster perthynas, collwn bwynt cynghanedd megis amwysedd – peth y bydd Ôl-foderniaeth bron bob amser yn ei wneud. Creadur arall yw chwalfa sain neu chwalfa ystyr. Ni all Gair Mwys ymrithio'n gyflwr heb i amlder *deunydd ymglymu wrth undod ffurf,* fel arfer drwy gysylltu sain un gair wrth sawl synnwyr, amlder ystyr o fewn arwydd cyson. *Dyna bwynt canolog pob Ffurf lenyddol.* A pheth tebyg yw'r Gynghanedd.

Ni fyn amlder ystyr dilyffethair ar ei ben ei hun, fel y myn 'Rhamantwyr anarchaidd dogmatig Ôl-foderniaeth', byth gynnig amwysedd dilys ystyrlon. Ond drwy'r naill a'r llall y

gweithia yr arwydd sy'n 'cynrychioli'n' frenhinaidd, ynghyd â'r arwyddedig hollt, sef y gweision sy'n gweithio o'i gylch. Yn y cyfuno hwnnw y ceir y cyfoeth. Heb hynny y cyll Ôl-foderniaeth hanfod iaith a llenyddiaeth fel ei gilydd.

Dysg Alan inni wrando ar drefn o fewn cyd-destun amgylchfyd chwalfa Ôl-foderniaeth.

Ffurf a Chynnwys, eu perthynas a'u cyd-lynu yn ei gilydd sy'n diddori Alan. Yn awr, ysgol weddol boblogaidd ymhlith beirniaid Cymreig yw beirniadaeth gymdeithasol. Ac yn briodol felly. Yn wir, bydd Alan yntau'n gwneud llawer o waith ynglŷn â lleiafrifoedd a chenedligrwydd a materion gwyrdd: darparant Ddeunydd neu Gynnwys pur angerddol i'w fyfyrdodau a'i fywyd. Maent yn gymorth i Hanes. Ond nid hwy sy'n diffinio gwth ei werthusiad. Ceir sawl ffordd gan feirniaid 'cymdeithasol' llenyddiaeth, neu 'radicaliaid' hanesyddol, o ddianc rhag gwerthuso. Ac ym meysydd Themateg a Chymhelliad y Gymru hon yn ei chymhlethdod seicolegol, y mae iddynt le mewn Beirniadaeth Gyfansawdd. Ond heb eu hangori'u hunain mewn trefn ieithyddol, nid yw eu holl 'ystyron' ond odid yn gweld y pwynt. Gweithiant mewn Sffêr arall, fel pe bai. Eu gwaith llenyddol canolog fel beirniaid yw hawlio'r cymhlethiad a dathlu'r amrywiad o fewn undod yn ddiymatal. Dyna'r canol isymwybodol sy'n clymu holl amlochredd Alan y Beirniad wrth ei gilydd.

*Ceseilio*

A'r drefn honno'n fân fân mewn arwyddocâd o fewn *un* o'r meysydd mwyaf gogleisiol, ac o amgyffred y ffordd isymwybodol o adeiladu Cynghanedd, yw Ceseilio. Dyma drawsffurfiad a ddigwyddodd yn gyntaf yn ddiarwybod ac yn anochel ddisylw drwy gydol ein hiaith. Mae'n bwysig, nid oherwydd bod yna ddadl boeth weddol arwynebol sydd bellach yn gostegu, ynglŷn â derbyn, neu beidio â derbyn digwyddiad corfforol d + d = t er enghraifft. Pwysig yw oherwydd ein bod yn y ffenomen hon, yn canfod ar ei symlaf, ac yn anad unlle megis yr union gyffelybiaeth, *sut y daeth Cynghanedd yn orfodol isymwybodol i fod o gwbl,* a beth yw ei hanfod isymwybodol (ac efallai sut y mae'n gallu dirywio dan ddylanwad dwyieithedd). Gwelir hefyd chwalfa gyfredol ar waith ym maes yr Acen hithau, gredaf i, gyda dwy ddeddf fawr John Morris-Jones hwythau ynglŷn â honno yn cael eu herio'n ddiarwybod. Rhaid chwilio'r rhesymau am ddeddfau neu arferiadau.

Yr ŷm yn dystion ar hyn o bryd i gyfundrefn gynghanedd sy'n ymryson rhwng seiniau yn fewnol yng nghwmpas y patrymwaith cyflawn, sy'n ymddatod, neu'n ymffurfio o'r newydd efallai o flaen ein clustiau. Amser a ddengys. Beth yn union fydd? A pham y drafferth? Rhydd Alan gryn sylw i'r cwestiwn.

Lle bynnag y bo Cynghanedd – yn wir, lle bynnag y bo iaith, llenyddiaeth, ie, yn y bydysawd ei hun – fe geir deddf, cyfundrefn, egwyddor, gwyddor, gorfodaeth. Nid da gan sgeptigiaid hyn, ond dyna'r hollfyd a'i wreiddyn. Mewn Ceseilio, pan fo'n bod o gwbl, ceir

'Cyfundrefn' ar waith yn yr isymwybod. Defnyddiaf y gair 'Ceseilio' pan fyddaf am bwysleisio perthynas. A chan Alan Llwyd, yn ail fersiwn *Anghenion y Gynghanedd*, ceir yr ymdriniaeth orau, fwyaf soffistigedig, a mwyaf caboledig ar Geseilio. A chan mai theori Cerdd Dafod yw'r wedd fwyaf datblygedig heddiw ar Feirniadaeth Lenyddol yn y Gymraeg, ac yn y cyd-destun bydeang hefyd y sector mwyaf gwreiddiol erioed yn ein beirniadaeth (a chan fod Gramadegau'r Penceirddiaid wedi chwilio, yn hyn o faes, un o ryfeddodau llên yr Oesoedd Canol yn Ewrob), ni wnâi ddrwg inni ganolbwyntio ar y mater hwn rywfaint. Perygl yw dal ar ychydig o argraffiadau gwasgaredig ysgafn, heb fwyniant egwyddorol y ffonem (nid yr aloffon). Seiniau deddfol yw ffonemau, nid amrywiadau gwamal yn ôl llesgedd llafar mewn clust, ond gwyddor gyfunol ddofn sefydlog sydd dan sylw. Nid dadl ar lefel: 'Mae rhyw fath o *d* fan hyn, sydd bron â bod yn *t* weithiau'. (Aloffonau yw'r rheini). Nid croniclo parchus Ffoneteg anfanwl sydd yma (er pwysiced yw hynny); ond gwyddor wahaniaethol Ffonemeg, gyda safonau cyffredinol. *Ffonemeg yw maes priodol Cynghanedd.* Cofnodi'r seiniau dosbarthedig cyferbyniol. Mae arnaf ofn na bydd modd astudio Ceseilio'n iawn dechnegol heb sylwi ar y gwahaniaeth rhwng aloffon a ffonem. Does o'r braidd fodd modd ailadrodd aloffon yn union: 'rhaid' ailadrodd ffonem (delfryd yw).

Drwy Geseilio ar ryw olwg yr agosáwn at hanfod *Anghenion y Gynghanedd*. Dyma'r awdur felly yn troi Beirniadaeth Lenyddol yn ymryson dramatig. Ond mae'n gwneud llawer mwy na *Cerdd Dafod* J.Morris-Jones mewn amryw fyrdd. Rhydd ef sylw, fel y cawn weld, i wahaniaethu Cerdd Dafod / Cerdd Fynegiant. Dyma Feirniadaeth ar ei Chymreiciaf, peth go ddieithr yn y Gymraeg. A maes anorffen yw sy'n gofyn chwilio'r gwahaniaeth rhwng Deddfau ac Arferiadau 'damweiniol'.

Beth, felly, yw'r Ddeddf sydd y tu ôl i Geseilio?

*Yn gyntaf, yn gyffredinol, lle bynnag mewn celfyddyd (megis mewn Amwysedd) y ceir Amrywiaeth meddwl a sain, yno hefyd y ceir Undod (Gwahuno).* Gyda hynny, ac yn gysylltiedig â'r egwyddor gyntaf honno, *lle bynnag y ceir y Cyfnewidiol yn y rhannau, yno'n ail y ceir myth y Digyfnewid.* Nid wyf yn defnyddio'r gair 'myth' fel y bydd rhai o'n crefyddwyr cymharol neu ryddfrydol yn ei wneud, yn fodd tybiedig academig i wanhau sicrwydd ac i fychanu ychydig ar y ddealltwriaeth o'r Absoliwt. Fe'i defnyddiaf fel modd i gyfleu'r ymdrech ffaeledig i ddeall Absoliwt sy'n gudd. Hynny yw, gwir pwysig yw'r *Cyfnewidiol*: gwedd hanfodol mewn beirniadaeth. Gwedd yw ar ffenomen y Rhannau a'r Amrywiol ynghyd, sy'n absoliwt. Iawn! Ond gwir mwy blaenllaw, er nad mwy o wir, o fewn y Greadigaeth, yw'r *Digyfnewid.*

Bu hyn oll yn rhan o ddiffiniad Ceseilio tan yn ddiweddar.

Ond ochr yn ochr â'r cyffredinol, mae ceseilio yn enghraifft benodol wrthrychol. *Enghraifft seml o dyfiant deddfol yw mewn cyfuno seiniol.* Daw yn anochel yn yr iaith gyffredin, megis y tyf

gramadeg. Gall newid fel y newidia gramadeg. Y mae yno am resymau digon naturiol a dilys gorfforol. Cymerer cyswllt neu ddiffyg cyswllt g, b, d, + h. Anghenraid anorfod y rhannau yw, ac undod y cynnyrch sy'n llunio cyfundrefn seiniol. Er mwyn profi newid seiniol cronolegol yn groes i galedu, byddai'n rhaid profi'i fod 'wedi' newid yn ôl enghreifftiau yn hanesyddol, y mae 'h' *wedi* newid ei sŵn mewn ambell dafodiaith (er enghraifft drwy beidio). Gall llif y llafar eu newid dan bwysau dwyieithedd, ffenomen sylwadwy. Ond byddai'n rhaid arbrofi hefyd drwy brofion manwl gwyddonol (gydag offer pelydr-X fel a geid gan Adran Ffoneteg Québec, neu'r tapiau graff symudol cyflym yno'n taro cofnod sain) ar ddarlleniadau neu ddatganiadau o amryfal gyflymder, gan nifer o ddarllenwyr a hynny yn ôl oedran y rhai sydd wedi gwyro fwyaf mewn cenhedlaeth. Dwli fyddai peth felly, yn ymarferol os nad yn academaidd. Arfer achlysurol os nad oes sefydlogrwydd. Ac yn sicr, ni byddai'n 'Gymreig', fel y'i dywedwn. Nid oes ei angen yn ddeddfol ar feirdd wrth eu crefft.

Esbonnir hyn oll orau drwy gymhariaeth. Yn gyntaf, yn ieithyddol, ac yn ail yn gynganeddol.

*Mae iaith bob dydd yn newid ei gramadeg yn ddiarwybod y peth lleiaf er y gellir sylwi ar hyn ar gerdded rhwng y cenedlaethau, ac y gellir herio hynny i raddau drwy gydnabod 'safon' gyweiriol. Digwydd newidiad i unigolion heb wybod pam, a heb sylwi.* Er enghraifft, mae 'Nid yw'n gwybod *a* yw'n dod neu beidio' wedi datblygu'n achlysurol mewn llên, oherwydd cystrawen Saesneg, tuag at: 'Nid yw'n gwybod os yw'n dod neu beidio.' Yr un modd, cafwyd 'Yr wyf yn teimlo fel hufen iâ,' yn hytrach na 'Hoffwn i gael hufen iâ', lle y mae dau air unsain Saesneg 'like', (=tebyg, 'ar yr un ffurf') yn cymysgu â 'like' (hoffi) wedi'u cyfieithu; ac un ohonynt yn 'anghywir'. Gwn fod pobl ifainc ddigon diwylliedig bellach wedi mabwysiadu 'llyfr fi, tad fi a.y.b., iaith plant wedi'i seilio ar ddull cwbl Gymreig (tan wanychiad gan ddwyieithedd) i ddynodi genidol megis 'llyfr John'. Sylwn fod hyn hefyd yn rhannol ddyledus i'r erydiad ar y treiglad trwynol o dan ymosodiad dwyieithedd ar y treigladu'n gyffredinol. Ond o ran hydeimledd ynghylch cywair, teg cyfrif hyn ar hyn o bryd yn 'is-safonol'.

Mae'r Gymraeg felly'n 'datblygu', os datblygu yw pob ildiad tir. Felly'n naturiol, yn llif y llafar bob dydd yn y Gymru gyfoes, y mae'n bosibl i rywun wrth arafu'r lleferydd *beidio* ag yngan d+h yn t na b+h yn p. Dyna ddiffygio, medd yr archgeidwadwr deinosawraidd John Morris-Jones, oherwydd ymyrraeth dwyieithedd. Yr hyn a wneir yw mesur ffiniau geiriau'n herciog gan golli'r llif a esgorodd ar un adeg ar dreigladau, a'r meddalu ar gytseiniaid mewnol gan gyd-destun llafariaid. Pam lai? Yr ydym yn symud gyda'r oes, does bosib. **Neu a ydym yn is-safonol?**

Mae'r Gynghanedd yn ymgyfnewid yn egwyddorol, heb sylwi, a hynny oherwydd 'ymddatod' mewn amgylchiadau newydd.

Ond cymhwyswn y diffygio hwnnw at graidd y gynghanedd ei hun, sef rheidrwydd patrwm

acennol. Cymerwn un o'r ddau ddarganfyddiad nodedig a wnaeth John Morris-Jones: y rhagacen. Ystyrier yn awr ddwy enghraifft adnabyddus lle y ceir 'ymddatod':

*Craith:*

Lle bu archoll heb orchudd – galwai'r gwaed
geulwyr i gamp gelfydd
O smentio, pontio'r pantydd,
A gwyrth fawr o graith a fydd.

neu hyn –

*Bywyd:*

Mal llong yr ymollyngais – i fôr byd,
dros ei ferw byw hwyliais;
Ni ellir gweld, er llwyr gais,
Fy ôl y ffordd drafaeliais.

Mae'r 'ail linell' gofnodol yn y naill a'r llall o'r rhain yn 'anghywir'. Yn y naill a'r llall ceir dwy ragacen yn lle un. Dyma dorri un o'r ddwy echel hanfodol mewn aceniaeth. Beth a wnawn? Ymlaen â ni yn annibynnol bellach mewn 'camgymeriadau' heb sylwi! Neu beidio: pam lai? Oni welsom linellau cywydd yn datblygu o'r triol i'r deuol dwbl yn eu hacenion gynt heb i neb brotestio a heb i neb sylwi? Ac yn sgil y datblygiad hwnnw, ym mesurau'r cywydd, dyma'r esgyll hefyd yn yr englyn yn medru troi o'r triol i'r deuol. Pam lai felly? Ond os felly, oni fedr y paladr yntau yn ei dro ogwyddo i'r un cyfeiriad?

Yn fy marn ddeinosawraidd innau tueddwn i dderbyn mai dyna sydd ar waith, heb brotest. (Sylwer ar gadarnhad arall i'r awgrym ym *Meddwl y Gynghanedd* 263; ond 371, 413, 424). A gellid dod o hyd i 'egwyddor' arall bellach i gyfiawnhau gwyriad o'r traddodiad megis y ceid gyda cheseilio.

Nid yw'r triawd, J.Morris-Jones, Alan Llwyd, na minnau yn sefyll yn stond gytûn ar bopeth. Ac yn sicr, nid ynglŷn â Cheseilio yn unig. Mae'r ddau cyntaf yn unfryd eu hagwedd at yr hyn a eilw J.M.J. yn 'ogwyddeiriau', Alan yn 'eiriau gwan' (23-24, 41-43). Dw innau'n fwy goddefgar. Ac mewn rhai gweddau ar Geseilio, saif Alan a minnau ynghyd yn erbyn J.M.J..

Pennod Alan 'Effaith Rhai Cytseiniaid ar ei Gilydd' yw'r drafodaeth orau a welais ar y pwnc. Bu'r mater, fel y gŵyr pawb, yn bwnc llosg ymhlith cynganeddwyr, ac yn ddrama a wnaethpwyd yn argyfwng. Ac mae'r cwbl yn dal yn hynod ddiddorol i'r connoisseur. Heblaw'r cyfundrefnau a sefydlwyd yn Gerdd Dafod, ceir (a bu hyn yn rhan o arbenigrwydd Alan) gyfundrefnau dilys wrthi'n ymlunio mewn Mynegiant ar lun arferiadau profadwy. I mi, yr adran fwyaf difyr yn y drafodaeth oll

oedd lle y disgrifiai Alan y ffrwydrolion *c,p* yn meddalu *t*; a'r pump parhaol di-lais *ch, ff; ll, th,* ac *s* yn meddalu *t* (59-71). Dyma drafodaeth newydd a disglair. Ymddengys ein bod yn dystion i gyfundrefn sy'n ymsefydlu mewn Tafod diwygiedig (a hynny *o fewn geiriau,* nid rhwng geiriau â'i gilydd: sylwer ar 'doctor.') Dyma, gredaf i, sefydlogrwydd newydd, a 'rheolau' bondigrybwyll.

Mae'r seithfed bennod 'Ynglŷn â rhai llafariaid' hefyd yn gwbl newydd awdurdodol ac yn agor trafodaeth ar 'gywasgiad' a 'hepgor llafariaid', yr hyn a elwais yn 'llif y llafar'. Tebygaf fod a wnelo hyn eto lawer â'r hyn a geir yn wedd ar athrylith y Gymraeg, ac yn ymgysylltu drwy hanes yr iaith â symudiad sain a threigladau dilys. Tristwch heddiw yw nad oes uwch cyfartaledd o ieithwyr academaidd meddylgar bellach (megis gynt yn amser J.M.J.) o'u cyferbynnu ag ysgolheigion llenyddol. Yn achos Alan, enghraifft wiw a geir o'r bardd na all adael llonydd i unrhyw beth sy'n ymwneud â harmoni geiriau.

Nid wyf am dreulio llawer mwy o ofod i ymdroi gyda dyfnder ceseilio (a materion technegol megis y berthynas rhwng aloffon a ffonem). Ond yr hyn a ddadlenna Alan yw maes mewn cythrwfl (ac arwyneboldeb rhai o'n darllenwyr cyfoes weithiau sy'n chwenychu deddfroddi). Mae hi'n sefyllfa sy'n ferw o ansefydlogrwydd o fewn undod. Gyda'r ansefydlogrwydd a geisir, a fynnir, ac a sylweddolir o bell, mewn Mynegiant, ceir gwendid y mae'r iaith yn anfodlon arni. Digwydd llif y llafar mewn ieithoedd eraill, bid siŵr; ond mewn llenyddiaeth Gymraeg, cafodd le anrhydedd. A rhan ganolog o'r anrhydeddu hwnnw fu canfodiadau ac yn wir ddarganfyddiadau craff Alan Llwyd.

Byseddwch y gair *'spite'* yn Saesneg. Bron yn anochel, er ein gwaethaf, try'n 'sbeit'. Ond i fardd o Sais, nid oes fawr o hydeimledd i'r newid... Beth yw'r ots? ... Dim, i Sais. ... Yn y Gymraeg, sut bynnag, golyga hyn fod *sb* (sbeit) yn ateb s – b (e.e. dros y ban). Dyna fater Tafod. Mae'r yngan hwn yn rhan felly o wydnwch patrymol llif y Gymraeg ac ymwybod o gyfundrefn synnwyr clywed. Rhan o gadernid teimlad yw: sef adnabod.

Cymwynas i ddatblygiad Theori fel maes astudiaeth yng Nghymru yw bod Alan Llwyd wedi llunio pennod gynhwysfawr ddoeth ar Geseilio. Honnai rhywrai fod y cysyniad o Dafod yma yn dal yn 'anodd' neu'n 'annealladwy', ac *felly* heb fod yn werth ei ddeall. Eto, amlwg i bawb yw nad yw meddwl Ceseilio *ddim* wedi datblygu drwy bleidlais, nac o dan reolaeth unigolion na phwyllgor, am fod hynny'n hollol anaddas i naturioldeb a gorfodaeth darganfod y Gynghanedd. Fel Cyfundrefn y Ferf ym maes Morffoleg, datblygodd cyfundrefnu Ceseilio yn 'ddifeddwl' anfwriadus mewn Ffonoleg. Wele rywun yn gwrando ryw ddiwrnod ar y sŵn, ac yr oedd yno. Ond fel y mae Cyfundrefn y Ferf yn datblygu dan ein trwynau y dyddiau hyn ar sail chwe thymp syml morffemig i fod yn gyfyngedig i bump (drwy doddi *byddai/ bysai*), a hynny eto heb ymyrraeth gan na phwyllgor nac unigolyn, gwelwn Gerdd Dafod (y peth 'sefydlog' a 'sefydliadol' hwnnw) yn gallu araf ddatblygu o fewn y Traddodiad Cynganeddol. Ei astudio, ie: a'i bwyllgora? Wel, na.

Mae dosbarthiad thematig yr ail argraffiad hwn o *Anghenion y Gynghanedd* yn gadarnach na'r cyntaf. A llawer iawn o'r enghreifftiau'n newydd. Ceir ambell bennod sy'n gyfan gwbl newydd ac yn adlewyrchu aeddfedu ym myfyrdod y bardd. Eto, fel y gwelwyd yn nisgleirdeb ifanc yr argraffiad cyntaf, felly yn nhwf yr ail, bardd celfydd iawn sydd wrthi'n ymdeimlo â'i grefft ymarferol o'r dechrau hyd y diwedd. Dywed hyn rywbeth yn ddiau am hunan-feirniadaeth gwylaidd a manylder y beirniad.

Ail a thrydedd ran y gyfrol (sef o dud. 193 hyd 349) yw'r rhan ddisgleiriaf. Yn y fan hon yr ymdrinnir â'r mesurau (cyfundrefnau Mynegiant nid Tafod, yn fy marn i). Ac i'm bryd i, heblaw *cyfuno* cynganeddion o fathau gwahanol â'i gilydd, yn y maes hwn yn unig ac yn bennaf y gwelaf wir 'arbrofion' ar waith yn ffurfiol, nid yn y cynganeddion fel y cyfryw. Yma y ceir ymdriniaethau Mynegiant â'r 'Darn ei hun'. Yn Rhan 2, erys yr awdur gyda'r dadansoddiadau confensiynol gan feirdd hen a newydd, ond ymdeimlwn yn y fan hon â grym a dawnusrwydd trawiadol ei dwf yn y cyfnod diweddar. Ceir tair o benodau mwyaf personol a mwyaf awgrymus yr awdur tua'r diwedd: '*Y Vers Libre* Cynganeddol', 'Prifodlau Proest', a 'Chynghanedd mewn Mesurau Rhydd'. I mi, adlewyrcha'r gyfrol ysblennydd hon nid yn unig ddeallusrwydd yr awdur, eithr hefyd ei awydd diymwâd i syniadu drwy'r gynghanedd. Medd ef, 'Mae'r gynghanedd ar ei gorau yn rhoi awdurdod i fynegiant.' ... Byddai'n dda gen i weld mwy o'n beirdd (a'n hysgolheigion) yn dilyn esiampl Alan Llwyd wrth fyfyrio ymhellach am adeiladwaith dyfnaf y Gynghanedd.

Un o'r meysydd cynganeddol mwyaf golau yng ngwaith Alan Llwyd yw ei ymdroi gyda'r mesurau. Gyda llaw, wedi crybwyll mesurau, diddorol yw sylwi mai meistr mwyaf caboledig y 'pennill' (yn ogystal â phroest, odlau generig, gogynghanedd, ac odlau mewnol) yn yr Iaith Saesneg yn yr oes bresennol, yw Geoffrey Hill, yn ei gyfrol â'r teitl dwyieithog *Oraclau/Oracles.* Dyna un rheswm o bosib y soniwyd amdano gan un fel 'The greatest living poet in the English language' a 'The one certain genius now at work in the English language.' Dyma gyfrol gan fardd mawr yn dathlu Cymru. (Ac fe'i hanwybyddwyd yng Nghymru – yn y ddwy iaith – hyd yn hyn. Beth 'wnawn ni, dwedwch?)

Lle y byddai beirdd eraill yn troi bywyd yn Gerdd Dafod, troes Alan Llwyd Gerdd Dafod yn fywyd. Gorffenna'r gyfrol broffwydol *Anghenion Y Gynghanedd* II gyda galwad am iacháu ac am adfer. Dyma 'berffeithrwydd' yn genadwri eto. Mae a wnelo hyn â 'moesoldeb beirniadaeth'. Gair chwithig hoff yw a nodais o'r blaen gan Alan; ond gair anghysurus hefyd yw i bob pechadur go iawn, er i Alan gydnabod yn fodlon braf ei fod yn 'anghyraeddadwy'. Yr hyn sydd ganddo yw'r ymwybod angenrheidiol â'r absoliwt, mewn oes ddogmatig o gyfaddawdus. Bu'n golled enbyd i ysgolheictod beirniadol Cymraeg golli'r rheidrwydd hwn. Ymgyrraedd penderfynol fu at fodolaeth delfryd. Wedi'r cwbl, ymwybod ag Absoliwt yw *raison d'être* yr amddiffyniad Cymreig

cynganeddol. Darganfuwyd yn rhyfedd iawn, mewn cenedl ildiol, enciliol, fythol daeog, sydd am gofleidio'r eilradd a'r ysgafn os gellir, mai'r dyn sy'n cynnal meddwl o hyd, llenyddol (cynganeddol neu beidio) megis deddf, yw ei hun y delfryd a'r gobaith aruchel y gellir pwyso arno. Ac ym maes crefft, golyga hyn i Alan Llwyd grefftwriaeth odidog a chelfyddyd argyhoeddedig yn ei chymhlethrwydd lleol a'i symlder llawen.

## IV COFIANT; A DRAMODYDD MEWN DRYCH

*Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu,* Cofiant Goronwy Owen 1723-1769, Alan Llwyd 1997, tt 464

Dyma gyfrol sy'n fwy o lawer na gwaith ysgolheigaidd o'r radd flaenaf: mae'n waith artistig dramatig penigamp. Fe'i lluniwyd yn ôl rhagdybiaeth seicolegol a chelfyddydol ddofn. Yn syml, cymerai'n ganiataol fod pob profiad a phob meddwl a dderbynnid gan y bersonoliaeth ddynol yn cael eu cymathu a'u cyflwyno ag undod drama. Gwelai fywyd a chymeriad Goronwy Owen yn greadigaeth gron ar-dwf y gallai gyd-deimlo â hi, yn ddelwedd orffenedig. Casglai'r ffeithiau dirifedi mân. Ond nid oes yma yr un pwynt nad yw'n cyfrannu at y cyfanwaith. Gwerthusir pob digwyddiad a chymeriad ym meddwl yr awdur yn ôl ac ymlaen fel y mae'n rhan gynhenid o'r cwbl, y naill yng ngolwg y llall. Ceir pleser esthetig dwfn felly wrth symud yn ofalus o gam i gam, rhai heb gyfrannu yn ôl golwg arwynebol odid ddim i'r gwth cyfannol, fe ymddengys, fel y bydd ffeithiau academaidd yn fynych. Ac yna, fwyfwy wrth fynd rhagom, fe'n goleuir ni, fe'n syfrdenir ni'n wir, gan bob sill a manylyn o fewn cyfanwaith. Mae cam tri yn y plot yn ymddangos yng ngham cant a deg yn y gymeriadaeth. A cham dau a deugain yn ymddangos yng ngham trichant.

Mae'r bennod gyntaf yn allweddol o bwysig. Dyma'r lle y gosodir y llwyfan. Nid yn gymaint yn Gibraltar, cartref tebygol Goronwy ym môr Môn, ond yn baradocsaidd ym Mhentre-eiriannell, cartref y Morrisiaid: '*roedd y teulu wedi'i dynghedu i chwarae rhan allweddol yn hanes bywyd Goronwy Owen.'* Darlunnir hwy'n benodol gynnar; a dyna'r 'prif gymeriadau' gwrthgyferbyniol 'wedi'u sefydlu' a'r amgylchiadau a'u dilynai hwy byth. Yn wir, mae Alan ei hun yn cydio yn nhrosiad y 'ddrama' yn ddiymdroi.

'*Yma mewn cornel fechan ym Môn o fewn cylch o ychydig filltiroedd yn unig, y dechreuodd y cwmni bychan ymgynnull ynghyd er mwyn ymarfer ar gyfer y ddrama fawr a oedd i'w pherfformio yn y dyfodol. Drama gan gwmni lleol oedd honno i ddechrau, ond byddai'r cwmni gyda threigl y blynyddoedd yn mynd â hi ar daith, i Loegr, i theatrau Llundain, a byddai'r prif gymeriad yn croesi'r môr i berfformio'r act olaf ym mhen draw eithaf y byd. Ond yma, mewn ardal ddiarffordd ym Môn, y codwyd cwr y llen.'*

Mae'r ysgolheictod hwn ar waith mewn theatr. Yr ysgolheictod hwnnw a ddarparai'r ffeithiau di-sigl a llythrennol angenrheidiol; ond y gelfyddyd sy'n dethol ac yn dehongli'r arwyddocâd. Hyn sy'n cwblhau'r gwirionedd yn asiol gadarn, a phob rhan yn ystyru'r cyfan.

(Meddai yn ***Glaw ar Rosyn Awst:*** *316, 'Mae Goronwy...yn gymeriad llawer mwy cymhleth na Hedd Wyn, yn hanesyddol ac yn ddramatig, a'i stori yn un llawer mwy cyffrous. Roedd Hedd Wyn yn troi o gylch un digwyddiad dramatig, ond mae Stori Goronwy yn gyfrodedd o ddigwyddiadau dramatig...317, I mi, yn bersonol, dyma fy llyfr pwysicaf y tu allan i farddoniaeth.)*

Wedyn, mae'r awdur ei hun yn codi ger ein bron y gair 'myth': '*Diben y myth oedd portreadu Goronwy fel mab athrylithgar i dad di-hid.'* Pwynt bychan yw yn y fan yma, ond y mae'r cysyniad o fyth yn mynd i gyfrannu ffaith a dehongliad cyson drwy gydol y gyfrol. Ac mae'r 'tad di-hid' yn dechrau tynnu'r llen oddi ar y drych. Bydd mytholeg ei hun yn gymeriad yn y ddrama; ac yn awdur.

Ym mharagraff cyntaf y gyfrol, felly, yn wir yn y drydedd frawddeg, down at yr ail yn y deuawd o gymeriadau sy'n mynd i gynnal adeiladwaith y ddrama oll. Clamp o bersonoliaeth anghyffredin arall sydd yma, un o athrylithau mawr hanes llenyddiaeth Gymraeg, sef Lewis Morris. Ail gymeriad yn y stori yw, i fod, ond dipyn uwch ei gloch na'r cymeriad canolog. A dechreua'r awdur ar y cyferbyniad anochel ac angenrheidiol: *'Blwyddyn o ddyn oedd Goronwy'* [am iddo gael ei eni ar ddydd Calan, yn gorff bychan mewn dosbarth israddol], *'ond canrif o ŵr oedd Lewis, neu o leiaf fel yna y byddai Lewis yn gweld pethau'* [ac yntau'n athro i'r ddau fardd cynganeddol gorau yn y ganrif, Goronwy ac Ieuan, yn hyderus yn ei wybodaeth a'i safle ei hun, ac yn ganolbwynt i brif gymdeithas lenyddol yr oes.] Bron y gellid honni mai 'Seisnig' oedd cymeriad Lewis, ac mai 'Gwyddelig' oedd Goronwy. Ond yma ac acw, Alan yw Goronwy, a Lewis yw'r Sefydliad Cymreig. Ni ddeellir y cofiant heb sylwi ar y cyfrodedd.

I mi, un peth sy'n taro dyn wrth ddarllen am yr amgylchfyd cynnar i fywyd Goronwy oedd nid y tlodi na'r gwerinoldeb lleol na'r tŷ. Ond trwch y diwylliant yn yr ardd o amgylchfyd. Mae'n wir mai 'beirdd gwlad' oedd yno.

Ond 'Beirdd', o bethau'r byd yn y blaendir! Faint o ardaloedd bach anghysbell fel hyn a geid y tu allan i Gymru ac Iwerddon yng Ngorllewin Ewrob benbwygilydd, lle y caed gan ddau o'r trigolion fel y rhain etifeddiaeth mor gyfoethog gan gymaint o'r canrifoedd cynt – yn garolwyr gwerinol ac yn uchelwyr englynol a chywyddol? Ansafonol fyddent ar y pryd ar ryw ystyr, heb flewyn o Brifysgol yn agos atynt; ond rhyfeddol yr un pryd, a hyd yn oed yn meddu ar radd dda o ysgolheictod traddodiadol dwys.

Un o'r 'digwyddiadau' enghreifftiol hwyliog a gysylltir â'r gymdeithas ryfedd honno a ddathlai Alan yma oedd yr hwyl hollol swrealaidd a gwallgof a gafwyd wrth i dad Goronwy, Owen Gronw, yn arddull (ac efallai ym mherson) Lewis gynnull beirdd yr ardal drwy lythyr i ddiolch yn fawreddog mewn englynion i feddyg Llannerch-y-medd 'am gael gwared dafadennau a dyfai ar ei draed':

'*Digwyddodd ar ryw noswaith lasinoer rewoglyd yn nyfnder y gaeaf diwethaf, 1723, pan oedd y lleuad a'r sêr yn ymryson pwy ohonynt a rôi fwy o oleuni, a'r haul wedi mynd i wlad y Gwyddelod i gymryd cyntun.'* Datblygai y cefndir Elis Wynnaidd hwn yn helaeth hurt yn y llythyr a anfonwyd. Y flwyddyn honno, roedd Goronwy yn blentyn un ar ddeg oed, ar gychwyn oddi cartref am y tro cyntaf, a'r tro diwethaf ar ryw ystyr. A hyn o ddiwylliant rhyfedd a chyfoethog a gariai ar ei gefn tua

Phwllheli, ac wedyn i Fangor (o bosib gyda nawdd Lewis a Marged, mam Lewis) er mwyn cyrchu Groeg a Lladin o bethau'r byd, yr hyn a wnaeth ef gydag arddeliad mawr. O 1737-1741 bu ym Mangor, pryd y bu farw'i fam ac yntau'n ddeunaw oed. Ac yn awr, y dechreuodd gasáu ei deulu a'u Môn. Ond yr oedd eisoes yn feistr corn ar y gynghanedd ac wedi cael angor addysgol yn erbyn storm. Heb fawr o arian, bellach wynebai fywyd o golli cyfleoedd. Bywyd llawn cyffro gwag oedd, a thrasiedi rhwystredigaeth, a hynny'n endemig oni bai am y Gynghanedd.

Rhyw Alan Llwyd o fachgen yw, felly, yma ac acw, gellid ei feddwl... Ac eto, nid bob amser.

Cymeriad epigaidd yw Goronwy Owen yng nghofiant Alan. Fe'i portreadir yn gytbwys. Mae Alan yn ceisio gwasgu pob diferyn o normaliaeth ac o gymedroldeb a allai fod siwrnai a siawns yn y fath greadur. Ond y mae hwnnw'n mynnu preswylio er ei waethaf yn yr eithafion – mewn meddwdod, mewn begera, mewn anonestrwydd, ac mewn rhegfeydd – *'What poet ever flew higher? What beggar, tinker, or sowgelder ever groped more in the dirt? His body is borrowd or descended from the dregs of mankind and his spirit from the celestial choir,'* meddai Lewis am y 'Gwyddel' (y dyn gwyllt) hwn. Gŵr arall nad oedd yn ddieithr i'r eithafion oedd Lewis. Nid oedd pall braidd ar helyntion Goronwy. Llwyddodd Alan i wau stori anghyffredin amdano. Pan feddylir am rai o brif lenorion Cymraeg y ddeunawfed ganrif – Goronwy, Iolo, Ieuan Fardd, Lewis Morris, ie Pantycelyn a Howel Harris, actorion ydynt sy'n symud ymhlith yr eithafion: dyma gymeriadau dramatig ac enfawr.

A ddiflannodd y cyfryw hil o'n plith wedyn? Synia rhywrai heddiw mai edrych yn ôl o raid a wnawn o hyd, er mwyn dod o hyd i 'gymeriadau'. Eithr pe chwiliem am 'gymeriadau' yn yr ugeinfed ganrif, byddwn i'n synied y buasai Saunders Lewis, Gwen John, Aneurin Bevan a Waldo yn darparu maintioli nid anghyffelyb i'r rhai gynt. Mae yna rywbeth carismatig iawn a deinamig hyd yn oed mewn cilcyn o 'fethiant' fel Goronwy, megis y bu gan Gwen John. Eto, yn y cofiant hwn iddo, rhoddodd Alan i ni un o glasuron ysgolheictod yr ugeinfed ganrif.

Y gwahaniaeth rhwng gwaith llenor (o safbwynt hanes) a gwaith hanesydd (o safbwynt beirniad o lenor) yw y gall y cyntaf ymdroi ym mwynhad llawer sy'n amherthnasol i bob golwg i'r hanesydd am ei fod yn dweud rhywbeth sy'n llenyddol werthfawr ac yn bersonol ffrwythlon, ond bydd yr hanesydd yn ceisio mor aml ddethol a gwerthuso'r arwyddocaol faterol yn ôl y cyd-destun amseryddol. Sylwn, ar frig pob un o deithiau'r un bennod ar ddeg yng nghofiant Alan i Oronwy, fod yna ddyfyniad o un o gerddi'r arwr o'r ddeunawfed ganrif, gan ddechrau yng nghyfnod 1723-1742 ('Y Lle Bûm yn Gware Gynt'). Mae pob llwybr yn y gyfrol yn arwain at gerdd felly. Barddoniaeth sy'n diffinio buchedd y bardd. Dyma i chwi undod: dyma hefyd fynnu rhoi argyhoeddiad y cofiannwr am y pwyslais a'r strwythur a ddylai fod yn gwlwm dros gofiant i fardd.

Mae'r bennod ar y 'Gware gynt' yn sôn am ddiddanwch mebyd ac am bopeth perthnasol i'r

teulu – crëwyr Goronwy. Clywir am union fan geni Goronwy, a'r *'cysylltiad agos rhwng teulu Goronwy a theulu'r Morrisiaid'.* Ond y darlun o'r taid (Hen Ronw) yw'r un mwyaf anghysurus yn y cyfnod cynnar, a dichon mai ef oedd ysgogydd isymwybodol Goronwy a'r un a dynnai ymwelwyr barddol at y cartref. Eithr nid y lleiaf o'r gymuned gynnar honno oedd Marged Morris, sef mam y Morrisiaid; a cheir portread hyfryd a datblygedig ohoni. Y mae hyn yn ymgysylltu â Phennod Naw lle y ceir dadansoddiad o'i Marwnad o waith Goronwy, ac fe gyflwynir y gerdd gan Alan fel un o'r cywyddau gorau a luniodd y bardd erioed. Hynny yw, mae'n llenyddol werthfawr.

Yn y bennod gyntaf, disgrifir natur y llanc a'i addysg. Manylir, gan hynny, mewn modd gwreiddiol, ynghyd â llu o ddarganfyddiadau. Mae Alan yn cyflenwi inni gyfoeth o gefndir cymdeithasol arwyddocaol a gafodd y bardd. Ond fe geir mwy na ffeithiau yn cael eu hamlygu o'r newydd. Fe geir hefyd fyfyrdod am y dylanwadau emosiynol cynnar, am lanc a goll'sai fam yn gynnar, ym mryd cofiannydd yntau a goll'sai'i fam. Fe glywn am un a ddaeth i ddigalonni am ei gynefin ... a pham, gan un a alarai am ei gynefin. O fewn patrwm yr awch a'r ymdrech i geisio diwylliant y cyflwynir inni y brydyddiaeth gyntaf gan Oronwy. Gwelwn ei ymgais am nawdd a chyfle, er bod Alan yn gallu profi i Oronwy lunio prydyddiaeth ysgafnach cyn hynny. Ac y mae hyn hefyd yn arwyddocaol o safbwynt catholigrwydd ei wreiddiau. Fe'n cyflwynir hefyd i'w drafferthion ariannol, peth a fyddai'n flinder thematig iddo weddill ei oes.

Ceisir dangos yr wyf fan yma nad ysgolhaig yn unig sy'n sgrifennu, ond bardd o ysgolhaig cydymdeimladus. Ymdeimlwn â hogyn galluog, clwyfus, tlawd; gyda thuedd i'w amddiffyn ei hun, gyda chymhleth dihyder. Ac ym mhennod y symud i Bwllheli, cawn fro nad oedd yn ail ond i Fôn am ddyfnder y diwylliant traddodiadol ar y pryd. Dengys Alan ymhle y cafodd Goronwy ei batrymau cynnar. ... Dafydd ap Gwilym yn un cynnar.

Manwl yw dadansoddiad Alan o 'Galendr y Carwr', cywydd dynwaredol o Ddafydd ap Gwilym gan Oronwy y dysgwr galluog. Math o gerdd i ddathlu pen-blwydd oedd. Diddorol sylwi fod Dylan Thomas ac Alan Llwyd, dau fardd a oedd yn hynod ymwybodol o'u hunaniaeth, hwythau wedi sgrifennu cerddi pen-blwydd iddynt eu hunain. Ond nid Dafydd ap Gwilym oedd pennaf athro Goronwy. Dengys Alan (yn newydd am wn i) mai cywyddau ymryson Edmwnd Prys oedd craidd ei ysbrydoliaeth gynnar. Y rhain a'i hysgogodd i fod yn fardd myfyrdod; ac yn ddiau, yn ein dyddiau helbulus ni, myfyrdod o hyd yw'r priod lwybr i ddyfodol adnewyddu'r gynghanedd – ochr yn ochr â jôcs. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, Dafydd, ysywaeth, oedd y delfryd. Erbyn y diwedd, caed y cywyddwyr gorau yn barotach i ymadael â'r hyn a gyfrifid yn 'rhamantaidd' (sef serch a natur) er mwyn bod yn fwy eang berthnasol i'r natur ddynol.

[Gyda llaw, *fe geir trafodaeth ddifyr yn y Cofiant sy'n cellweirus gysylltu 'Hen' Gronw â Robin (Clidro), un o feirdd gwan yr unfed ganrif ar bymtheg. Bardd o Lanelwy oedd hwnnw'n*

*wreiddiol, mae'n debyg. Ond pan oeddwn i'n byw yn Llangefni dros hanner can mlynedd yn ôl, fe ddangosid rhes o dai adfeiledig i mi a elwid yn Glidro; a honnid mai yno am gyfnod y bu'r bardd yn byw, ac wedi codi'i enw o'r lle. Ymddengys fod yna nythaid o feirdd rhydd o'r fath ym Môn yng nghyfnod Clidro, gan gynnwys o bosib y gorau ohonynt – Llywelyn ap Hwlcyn. Ceid gwawd amdanynt, er enghraifft gan Siôn Tudur. Ond dichon fod yr adwaith yn eu herbyn wedi dod yn wreiddyn i'r sbort a gâi'r Morrisiaid am eu pennau. Cyhuddid Clidro o ymweld â Môn yn rhy reolaidd, ac o bosib (yn gellweirus) ymhlith achau Goronwy. Dichon i Glidro ddod yn 'ffugenw' ar swyddogaeth, yn hytrach nag ar fardd unigol yn unig – megis 'Meuryn'.]*

I'm bryd i, yr wyf yn cyfrif mai'r gyfrol hon oedd cofiant Cymraeg mwyaf celfydd yr ugeinfed ganrif, oherwydd dwy ragoriaeth: galluoedd beirniadol a galluoedd storïol ddramatig yr awdur. Fel beirniad o gofiannydd, y mae Alan Llwyd wedi cynllunio'i gofiant fe ymdengys, ar sail unig bwrpas neu gyfeiriad bywyd Goronwy: sef symud o gerdd i gerdd. Ac yr oedd yr hyn a ddigwyddai iddo, neu'r hyn *na* ddigwyddai iddo, yno'n bresennol yn unswydd er mwyn esgor ar gyfres (brin) o gerddi. Hynny a erys i ni o'i fywyd mwyach. Mae pob cerdd yn ei thro yn crynhoi symudiad gweithredol yn y cofiant, – yn arbennig y cerddi gorau, megis Marwnad Marged Morris, Awdl y Gofuned, y gwahoddiad i Parry ei gyfaill puraf, ei Farwnad i'w wraig ei hun, a'u plentyn, ei gerddi i'r Nennawr ac i Ddiawl, a'r Farwnad i'r Diawl ei hun sef Lewis Morris; ynghyd hefyd â'r sothach o awdl i'r Cymmrodorion. Mae fel pe bai'r cofiant yn Esboniad beirniadol ar 'Fynegiant' Goronwy. Beirniadaeth o gofiant yw drwy ymweld ag uchelfannau bychain. Medr y beirniad hwn adnabod natur rhagoriaeth heb ddibynnu ar allwedd gwerthusol neb arall, gan wybod pam. Mae'n darllen ei fardd o'r tu mewn, a'i hanes yn y canu y tu allan. Gwerthuso yw calon yr hanes: gwaith croniclaidd angenrheidiol yw casglu ffeithiau. Dyna yn sicr batrwm o gofiant i fardd.

Nid stribed o fân ddigwyddiadau sydd yma, felly, ond stribed o gerddi a esbonnir gan fywyd. Felly, y mae'r cofiant hwn yn fwy hefyd na beirniadaeth lenyddol dan fwgwd. Mae gan y cofiannydd fel y gwelsom fwgwd ac ymwybod dramodydd hefyd. Fel yng nghofiant Hedd Wyn, y mae'r cofiannydd yn ymwybod â drama'r byd, ond y tro hwn gan gynnwys y Byd Newydd. Drama gyfres sydd yma y tro hwn, yn hytrach na drama unigol. Mae'r fframwaith i gyd yn ei le, hyd at y berthynas echelog ac unol ar ei hyd – sef Lewis Morris a Goronwy Owen – o'u geni hyd at farwolaeth, yn clymu'r holl symudiad cyffrous. Mae'r ddigwyddiadaeth yn llawn gwefr. Ar y pryd y sgrifennai'r cofiannydd yr hanes, tueddai dramodwyr i achub cam y gwir gymeriad yn nannedd popeth. Erbyn hyn, sut bynnag, dim o'r fath beth. Newidiodd ffasiwn. Pan fydd y teledu'n cyflwyno ambell gyfres bellach, ni raid bod mor ymatalgar. Ni raid peidio â dangos y prif gymeriad yn gorffen mewn gwendid. Ac eto, llwydda Alan i weld Goronwy yn edmyglon braf hyd yn oed yn ei fethiannau.

Fel y gwelsom, mae gennym ddau gymeriad canolog gwrthgyferbyniol, ac eto'n gynganeddus yn eu gwrthdrawiad. Mawr, tew, anllad, ac egnïol oedd Lewis. Ond yr oedd yn hunanddisgybledig, yn ffrwythlon, ac yn nerthol hefyd. At ei gilydd, gallai reoli ei ddiod, er nad ei fydolrwydd. Yr oedd felly'n llwyddiannus yn y byd hwn, ac yn y Gymru a oedd mor agos at ei galon. Bach, diog, a diddisgyblaeth oedd Goronwy, heb allu dal ei ddiod. Methiant oedd ef wrth reddf. Ac fel bardd, druan, ni chyflawnodd yr ugeinfed ran o'i botensial. Nid yn unig oherwydd ei fod yn ddiffygiol yn feirniadol: hynny yw, nid oherwydd fod y syniad mawreddog Miltonaidd a Gogynfarddol o farddoniaeth yn atalfa i'w delynegrwydd rheidiol, ond yn syml am ei fod yn wastraffus o fywyd, yn bwdryn hunandosturiol, ac yn rhy agored i wacter gwenieithus. Bodlonai'n rhy barod ar yr ychydig. Ond 'hardd' oedd, yn ei ffordd ei hun. Ac yr oedd y ddau gymeriad yn meddu ar gyd-barch at draddodiad Cymru ac at fywyd yr awen. Byddent yn ymryson mewn cas serch at ei gilydd, cas serch at feirdd eraill, y ddau'n ffraeth ar dro, ac o ddifri dro arall – yn eu bywyd bob dydd a'u lleferydd, y ddau fel ei gilydd yn meddu ar athrylith wyrdröedig wrth ymwneud â 'phobl' yn gyffredinol. Byw bywyd llawn iawn a wnaeth y ddau, hyd yn oed Goronwy, do, a hyd yn oed pan oedd hwnnw'n byw mor wag ag y gallai. Fe'i llanwai â thrychineb a gwacterau gwerthfawr.

Llwyddodd y Cofiannydd i ddramateiddio'r naratif hwn gan lynu yr un pryd wrth ei genadwri aruchel i gyflwyno bardd fel bardd, ac nid fel pwnc academaidd. Ond lluniwyd y cofiant gan fardd o ryddieithwr hydeiml a dychmyglon yn academaidd ddiogel. O'r herwydd, tarddodd llwyddiant Cofiant Goronwy allan o fethiant bendithiol y gwrthrych. Daeth bardd o'r radd flaenaf o'n hoes ni, (tipyn mwy o fardd na Goronwy) i ffroeni ac i dyrchu mewn adnoddau ac ymchwil dyfal i ganfod sut y gellid meddwl am hyn o hanes o fewn fframwaith dramatig. Ceisiai ganolbwyntiau gwrthdrawiad: canfu'r gweddau arwyddocaol mewn cymeriadaeth; sylwi ar y rhwystrau a'r concwestau, y llawenydd a'r galar; a chan ddwyn y cwbl i fwcwl trawiadol, ceisiai'r beirniad hwn sgrifennu â'i lygaid. Yr oedd wedi astudio techneg ffilmio, ac wedi bwrw eisoes brentisiaeth lwyddiannus yn 'Hedd Wyn'. Breuddwydiai'r cofiannydd hwn o'r newydd am ffilm, felly, o fewn hyn o gofiant. Bellach, gwyddom, roedd ganddo well stori na Hedd Wyn: '*Y syniad hwnnw',* meddai ef, *'oedd ffilm am fywyd cythryblus Goronwy Owen, y bardd clasurol o'r ddeunawfed ganrif, stori gryfach na stori Hedd Wyn. Cefais arian a chytundeb i ymchwilio syniad, ac fe gwblhawyd yr ymchwil, a hwnnw'n ymchwil manwl iawn a gymerodd gryn dipyn o amser. Ond 'ddaeth dim byd o'r ymchwil, dim comisiwn, dim cais am weld ffrwyth fy ymchwil, dim trafodaeth ar fy syniadau ynglŷn â'r ffilm, dim byd, a throais yr holl ymchwil yn gofiant i Goronwy.'*

'Ddaeth dim?'

Ail ragoriaeth drawiadol y gyfrol hon ar ryw olwg yw'r darlun dwfn-fewnol o Oronwy a

geir. Myfyrdod a seiliwyd i raddau ym 1997 ar y myfyrdod a'r hunanymholi a esgorodd ar ei hunangofiant personol *Glaw ar Rosyn Awst* 1994, y gyfrol ryddiaith yn union o flaen hon. Olynydd yw gwaith 1997 i waith 1994. Tardd y darlun neu'r drych o Oronwy o gyd-deimlad dwys y cofiannydd, a'i barodrwydd noethlymun i yngan y gwir amdano'i hun. Dyma'r cofiannydd yntau, yn fardd dawnus er yn gynnar, yn sychedu am ddysg, yn benderfynol o lwyddo, ac yn barod i herio'r rhigolau. Ond daeth gŵr yr ugeinfed ganrif o hyd i gymar o fardd yn y ddeunawfed ganrif a gawsai glwyf teuluol, a'i eni mewn amgylchfyd academaidd. Olrheiniai Alan Llwyd ddirywiad mewnol ac allanol ei gymeriad, heb guddio'i rinweddau na'i ddiffygion, ond gan arwain er gwaethaf pob anhawster (efallai o'u herwydd) at bersonoliaeth y byddai *llawer* yn gwneud cocyn hitio ohoni, y pryd hynny fel heddiw. Eithr *nid pawb.*

Oherwydd yr oedd Goronwy yn athrylith; ac eto'n fynych annwyl.

Er lleied o farddoniaeth a sgrifennodd ef, mae rhychwant cerddi Goronwy'n eang. Ac y mae'n tarddu o *ddeuoliaeth* ei gefndir: y cyfoethog a'r tlawd, y dysgedig a'r gwerinol arw; y taid ac Esgob Salisbury, Robin Clidro ac Edmwnd Prys. Mewn *dau gywair hefyd*: maent ar gael yn ei lythyrau – yr iaith lenyddol ffurfiol a'r iaith lafar 'sathredig'. Yn Awdl y Gofuned, y naill gywair: yng nghywydd y Nennawr (neu lofft), y llall. Bardd cain oedd Goronwy, cain iawn yn gynhenid, ac eto'n flêr; cain yn y manion, blêr yn y darlun cyfan. Pe bai wedi dilyn cywair y Nennawr, ac wedi tyfu'n 'feirniad' a sylweddolai fywyd canolog barddoniaeth, buasai wedi datblygu'n fardd mawr. Buasai wedi cael amgenach dylanwad ar ei ddilynwyr yn y ganrif wedyn. Mwgwd mewn theatr oedd y naill gywair a'r llall iddo, wrth gwrs. Ond pan geir dewis cyfartal rhwng llwybrau, fel yn y ddwy gerdd hynny, buasai'r ail yn tueddu i fod yn fwy byw, yn fwy dramatig, gan aros yn rhywiog iach. A dyna'r union elfen yr oedd ar y bedwaredd ganrif ar bymtheg ysfa amdani heb yn wybod iddi'i hun: yr egni syml cyntefig nas cafwyd wedyn ond siwrnai a siawns, ynghyd â'r miniogrwydd deallus. O'r ddau gymeriad, a'r ddau lwybr, dewisodd Goronwy y rhai anghywir.

Agorodd y posibilrwydd. Dywed Alan am y Nennawr, gyda'i graffter cyfarwydd: *'Roedd Goronwy yn ymwybodol iawn o'i dlodi a'i drueni, ond mae'n troi'r trueni hwnnw yn brofiad dyrchafol a gwaredigol, yn brofiad ysbrydol aruchel, mewn gwirionedd ... Mae'r nenlofft yn datblygu i fod yn symbol o natur ddyrchafol barddoniaeth, ac yn symbol hefyd o arwahanrwydd yr artist.'* Credai Lewis yn gyfleus iawn, oddi ar uchelderau'r dosbarth canol, mai mantais a phriodol i fardd fod yn dlawd: '*the proper element of a poet.'* Ochr yn ochr â 'Chysgod y Nennawr', fe ellid gosod 'Cywydd i Ddiawl' (Lewis oedd hwnnw) sydd o bosib yn fwy 'sathredig' byth. Dolen ddeheuig yw yn nrama'r berthynas rhwng Goronwy a Lewis, un o'r croestyniadau mwyaf gafaelgar yn hanes ein llenyddiaeth. Cywydd yw sydd fel pe bai'n ffarwelio â'r hen fywyd – Lloegr a Chymru – , gan alw melltith i lawr ar y cwbl, ac ar y Diafol ei hun yn arbennig.

Dyma Alan Llwyd felly â'i drafod clòs dadansoddol, a chwbl ddisglair, o'r gerdd unigol. Yr ydym yn ein tipyn sylwadau hyn wedi cyrraedd hanner ffordd drwy'r ddrama hon, ac yma y cawn efallai'r bennod fwyaf erchyll a grymus a ddarllenais erioed mewn unrhyw gofiant Cymraeg: hanes y fordaith, a Goronwy'n actio'n feddyg cyffredinol (o bethau'r byd) ac yn ymgymerwr i'w deulu ei hun yr un pryd. Hanner ffordd yw drwy'r cofiant, ond eisoes fel pe baem wedi cyrraedd pen-draw Goronwy'r Bardd. Beth a allai fod ar ôl?

Wel, Byd Newydd, dim llai, a bydolrwydd newydd. A pheth o'i farddoniaeth orau.

Fel offeiriad, ymddangosai fel pe bai wedi hen ymddeol eisoes, onid er y dechrau. Ceir llawer o sôn am Dduw, wrth gwrs, fel Crëwr a Barnwr. Ond Eglwyswr canol y ffordd yw Goronwy. 'Prin-o-eciwmenaidd' yw'i awch am eneidiau, diog y sôn am Iesu Grist, gwantan yw'r ymwybod personol o bechod. Sonnir am foesoldeb, fel y gwna pob dyneiddiwr go iawn. Ceir addoliad 'modern' disylwedd. Eithr, er nad ydynt yn gwbl absennol, y mae'r ymwybod o berthynas â Duw, a phresenoldeb Duw ei hun, yn ddieithr braidd. Offeiriad absennol yw, ar lawer ystyr.

Ac eto, y mae'r dimensiwn goruwchnaturiol yn real ddidwyll iddo. Mae ef yn medru llunio prydyddiaeth fwyn ddefosiynol a'i rhychwant prydyddol yn aeddfetach yn emosiynol nag eiddo Lewis y bydolddyn. Mae'r difrifoldeb ysbrydol ar waith yn gyson mewn ffordd na wyddai Lewis rithyn amdano. Mae ganddo gynhysgaeth gêl.

Sonia Alan Llwyd am ymdrech a hiraeth Goronwy am gael ei gyhoeddi. Mae'r maes hwnnw'n act (onid yn gyfres o actau) arall yn y ddrama, yn debyg i saga Iolo wrth gyhoeddi *Cyfrinach y Beirdd*. Cafodd Goronwy, yntau'n fardd difrif, ryw bigiad o'r clwyf, adnabyddus i Alan – sef diffyg 'poblogrwydd'. Poerai i'r gwynt; a sgrifennai i'r 'dyfodol' bondigrybwyll (peth ffôl). Ond nid yn ofer... Gellid cymharu Dewi Stephen Jones yn ein dyddiau ni.

At ei gilydd, rhaid addef fod Lewis wedi meddu ar ieithwedd finiocach, ar ddychymyg mwy byw, ar brofiad lletach o'r 'byd mawr' amrywiol, ac (mi gredaf) ar agwedd wytnach at feirniadaeth ynghylch ei waith llenyddol ei hun. Roedd ei afael ar ei waith yn fwy egnïol nag eiddo Goronwy gan i hwnnw suddo dan bwysau'r traddodiad difrif. Agorodd Alan Llwyd ei bennod feistrolaidd olaf yn y gyfrol, sef 'Poed im wau emynau mawl', gyda chymhariaeth benigamp rhwng y ddau lenor, dau brif gymeriad y ddrama. Meddai, '*Goronwy oedd yr ochr uchaf lân i'r rhew a oedd wedi ymffurfio dros ddŵr bas y llyn; Lewis oedd yr ochr isaf, fudr, a oedd wedi cydio mewn baw, chwyn, budreddi a hen wreiddiau.'* Wrth drafod agwedd Goronwy at y cyflwr cyferbyniol hwn, dyfynnai W.J. Gruffydd: '*He* (h.y. Goronwy) *failed to see that Lewis Morys, too, belonged to the same class*' (sef dosbarth y beirdd masweddus, rhigymaidd). '*Lewis Morris really being after all, only another Elisha Gooper, but on a much higher level.'* Dangosodd Bedwyr Lewis Jones y gwahaniaeth rhwng y ddau [arwr] drwy sôn am 'sobrwydd synhwyrol' Goronwy a 'digrifwch llawen' Lewis. Ni chredaf

fod Goronwy wedi methu â gweld hyn. O leiaf, fe lwyddai i ganfod gwahaniaeth cwbl amlwg rhwng moeswersoldeb difaol a bod a wnelo Lewis â barn lenyddol graff, â gwybodaeth, a medr prydyddol dychmygus cryf iawn. Dichon mai Lewis oedd piau'r cywydd masweddus gorau yn yr iaith – 'Cywydd y Wialen Ddŵr'. Cablai fel trwper. Ac yn ei gywyddau 'Y Baradwys Ddaearol', 'I Haras o Gaer-ludd wedi iddo heneiddio', 'Marwnad Haras o Gaer-Ludd' a 'Caniad y Bais' fe'i profai'i hun yn bencampwr bonheddig yn y traddodiad amharchus parchus hwn. Ond canfyddai Goronwy hefyd orchest ei gelfyddyd heb ei 'esgusodi'. A gwyddai'n burion am Farwnad Lewis i'w nai, ac am y corneli cudd a geid gan Lewis. 'E gaed moes wiwdda gyda masweddion', meddai Goronwy yn ei awdl am ei elyn o ffrind.

Gwyddai Goronwy ei hun ar yr ochr arall am Dduw uniongred, am ystyr 'annheg' presenoldeb pechod yn y byd, ac am ragluniaeth y tu hwnt i ddeall. Nid ei le ef oedd cwcian Cristnogaeth ddethol, ddyfeisgar, ddyn-ganolog yr Ego Trosgynnol yn ôl anneall yr Ymoleuo Seciwlar o'i ddeutu. A difyr yw sylwi ar gymhariaeth ysgafn â bardd arall a grybwyllir gan Alan, sef Pantycelyn. Wrth gwrs, nid oes dim o ddwyster na gorfoledd na gwreiddioldeb Williams ganddo. Ond yr oedd Pantycelyn a Goronwy Owen ei hun (o bosib drwy gymorth William Morris) yn ôl pob tebyg yn ymwybodol ddigon o'r Oleuedigaeth *(Christian Enlightenment)* ochr yn ochr â'r Ymoleuo *(Secular Enlightenment)*. Ac yng Nghywydd y Gwahodd a Chywydd Bonedd a Chyneddfau'r Awen, ac yng Nghywydd yn Ateb y Bardd Coch o Fôn, y mae Goronwy Ddu yn ymdroi gyda'r gwirioneddau hynny oll. Pan fydd ef yn myfyrio'n dawel (heb wreiddioldeb, wrth gwrs), yn ddidwyll fachog ac yn olau newydd ei fynegiant, mewn mannau felly y ceir Goronwy Owen ar ei gryfaf. Yma, y mae'r cywair tangnefeddus, meddylgar yn gamp ynddo'i hun ac yn batrwm sy'n dal yn ysgogiad heddiw i farddoniaeth gyfoes mewn oed. Dim un syniad annisgwyl wrth gwrs, ond mynegi caled sy'n llawn tyndra. Carai Fôn, ac fe'i casâi; a chredaf fod y naill a'r llall o'r agweddau hyn ar y pryd yn ddiffuant ystyrlon, fel gan ddeuoliaeth Cymru Alan Llwyd heddiw.

Mae yna gyfoeth o awgrymiadau'n goglais materion eraill yn y cofiant hwn – megis cysylltiad Goronwy ag Addysg Thomas Jefferson, arlywydd mawr America; yr honiad mai Goronwy oedd tad yr eisteddfod fodern, ei gysylltiad â beirdd Llŷn; pwysigrwydd Edmwnd Prys iddo; sut y cafodd ef y diddordeb peryglus yng ngwaith John Milton, a natur hynny; pwysigrwydd ac ansawdd y rhuthr creadigol yn Donnington; a Lewis Morris yr Ymerawdwr yn rhannu'r deyrnas farddol rhwng Goronwy ac Ieuan Brydydd Hir: '*I have shared the dominion of Poetry in Wales among you. He shall have the North, and you the South':* dechreuodd yr ohebiaeth faith ac arwyddocaol rhwng Goronwy a'r Morrisiaid (a pherthynas amwys Edward Richard â hyn yn y cefndir); ond nid gweddus yw rhestru mwyach. Mae yna gyfoeth huawdl yn y cyfnod hwn.

Cofiant carlamus unol yw am loywder trempyn, cofiant gewynnog a chaboledig, cofiant gan

ysgolhaig naturiol o'r radd flaenaf am druenusyn gwych. Cofiant – ac i raddau – hunan-gofiant a fendithiwyd yn wiw iawn gan weledigaeth dramodydd hefyd. Dyma gyfraniad hynod o gyfoethog i hanes Cymru mewn un o'r canrifoedd mwyaf lliwgar a gafodd Cymru erioed. A chyda'r gyfrol hon y mae Alan yn sicr wedi camu ymlaen yn un o fawrion rhyddiaith Gymraeg yr ugeinfed ganrif, yn ogystal â bod yn un o'n beirniaid ceinaf. ... Diolch i raddau i ddiffyg mentro a diffyg gweledigaeth S4C.

V HANES EI GYFNOD

*Barddoniaeth y Chwedegau,* 1986, Alan Llwyd; *Cyfres yr Eisteddfod Genedlaethol 1900-1950,* (tair cyfrol)

Pan sonnir am 'gyfnod' mewn llenyddiaeth, meddwl yr ydym am fwy nag ysbaid amseryddol. Deinamig yw. Cyfeiria Alan at araith a roddodd Parry-Williams yn Eisteddfod Bangor ym 1942. Soniodd hwnnw am dri chyfnod ers troad y ganrif ymlaen. Yn gyntaf *Rhamantiaeth Natur.* Yn ail, *Mewnblygrwydd personol emosiynol* (Sef ef ei hun). A rhagwelai yn drydydd y byddai beirdd o hynny ymlaen yn troi'n fwyfwy *Cymdeithasol* – yn achos Cymru, yn fwy cenedlaethol, mae'n debyg. Y symudiad esthetig hwn drwy dri chyfnod oedd deinameg hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Dichon, yn y cyfnod wedyn, y canfyddem fwy o barodrwydd catholig i gwmpasu a hyd yn oed gyfuno'r tair tuedd hyn yn yr un beirdd. Erbyn diwedd hanner cyntaf y ganrif honno, agorwyd fflodiardau gan yr ail hanner, mewn gwirionedd – i Saunders Lewis, Gwenallt a Waldo. Ac ar ryw olwg, Cyfnod o gyfnodau fu'r ugeinfed ganrif o dan ymbarél yr ymchwil eithaf cyson am fath o Foderniaeth a gyflwynodd y tri yna yn olynol inni.

Mae llawer o'r tri chyfnod a nodai Parry-Williams uchod ar gael gyda'i gilydd yn y tair cyfrol gan Alan am yr Eisteddfod, ac fel petaent yn rhagymadrodd i'r gyfrol a'i Moderniaeth a luniwyd o'u blaen hwy am y Chwedegau, yn ail hanner y ganrif, y degawd a luniodd Alan yn fardd.

Wrth ddechrau trafod 'Alan Llwyd fel Hanesydd Llên' mae'n amlwg fod gennym wrth law gryn swmp amrywiol yn natur ei gynnyrch. Yn gymharol gynnar yn ei yrfa y cafwyd ei arolwg anghyffredin *Barddoniaeth y Chwedegau,* sef y degawd a'i rhagflaenai yntau fel bardd mewn gwirionedd. Eto, o ran dull neu arddull, nid yw'r gyfrol honno yn y bôn yn eithriadol wahanol i'r tair cyfrol sy'n olrhain wedyn lenyddiaeth Eisteddfodol hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Ar ryw olwg, mae'r naill yn arwain yn ôl at y llall. Y cyfnod egnïol hwn oedd cefndir y Flodeugerdd i'r Ganrif.

Wedi hynny, ychwanegai gyfres o gofiannau – ei hunan-gofiant, a'i gofiant gorchestol *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu* 1997, sydd hefyd yn darlunio cyfnod, ond cyfnod cwbl gyferbyniol.

Ychydig o'i flaen, cafwyd cyfraniad dramatig arall ar ffurf cofiant cyfnodol i Hedd Wyn, *Gwae Fi fy Myw* a dröwyd yn ffilm, am gyfnod y Rhyfel. Yna, ar y cyd â'r dihafal Elwyn Edwards, cawn *Y Bardd a Gollwyd: cofiant David Ellis,* 1992; eto, am gyfnod y Rhyfel Mawr. A chafwyd wedyn gofiant ysgafnach am Waldo yn 2011. Cawsom yn 2011 gofiant gorchestol i Kate sy'n llawn teimlad, ac eto'n gyd-deimladus hunaniaethol. Ac yn ôl a ddeallaf i, y mae cofiant arall ganddo yn rhedeg atom ar y gwregys tra chynhyrchiol hwnnw, i'w enaid hoff cytûn Williams Parry. Cofiannwr o bwys yw Alan. Er mai yn ôl llenddull 'Hanes' y cyflwynir *Barddoniaeth y Chwedegau,* y mae'n well na hanes cyffredin: a ellid cyfrol sy'n fwy cyfansawdd yn ei 'Feirniadaeth'? Drwy ddogfennau'i

Farddoniaeth y profwn yr Hanes yn y fan yma, a hynny o fewn dadansoddiad arddull, themâu hanesyddol a gwerthoedd beirniadol. Ceir amgylchfyd byw a chwmpasog yma.

Ond sylwer ar y lleoliad i 'Gyfnod' o fewn 'Hanes'. Yn *Glaw ar Rosyn Awst* (1994), dyfynna Alan sylw gan Geraint Jones, Trefor: 'Dywedodd iddo weld yr astudiaeth a'r dadansoddiad gorau o genedlaetholdeb a gwleidyddiaeth y Chwedegau mewn lle annisgwyl iawn – sef mewn llyfr oedd yn trafod barddoniaeth – *Barddoniaeth y Chwedegau'.*

Yn y farddoniaeth honno dyma fynd i graidd ein hatgof am gyfanrwydd cyfnod afreolaidd. Nid darlun na dadansoddiad o 'Gyfnod' yn y modd arferol o ddiffinio 'Hanes' ydoedd. I rywrai, yr oedd yn rhoi Hanes rhy debyg i normalrwydd bywyd i daro chwaeth cartwnog haneswyr newyddiadurol – rhoddai brofiad geni, caru, a chasáu, a marw, byd natur a diwydiant, rhyfel a heddwch, lleoedd ac amser, a phobl. Hanes go od felly a oedd fel pe bai am fod yn fwy gwir na newyddiaduraeth. Eto, tybed onid yw bywyd cyfansawdd ei werthoedd a'i feysydd personol yn rhan hefyd o Hanes? Bydd Beirniadaeth Lenyddol yn cael ei llunio'n gyson yn ôl patrwm cenedl ddaearyddol neu batrwm cyfnod, ac felly ar ddwy wedd. A bydd Alan ar dro yn hoffi llunio Hanes a Beirniadaeth yr un pryd, y naill drwy'r llall. Ailddelwa ac ailddehongla gyfnod mewn dychymyg ffeithiol. Ym 1986 felly ymaflodd Alan yn y dasg o archwilio hanes un degawd crwn. Dyma gynnig cwbl newydd yng Nghymru. Hanes gwahanol braidd i'r syniad prennaidd fel y gwelsom. Dyna sy'n esbonio plant yn chwarae, pobl yn siopa, a rhai'n mwynhau sŵn adar, rhai'n addysgu neu'n darllen hyd yn oed, rhywrai'n ymadael â'r wlad, rhai'n newid eu hiaith, a hyn oll yn cael ei brofi mewn dyfnder personol. Hanes? Dyma ni hanesydd, am ei fod yn feirniad llenyddol o bethau'r byd, yn dweud y gwir am lawenydd ac ing mewn cyfnod byw tra amrywiol yn hanes ei wlad, a hynny drwy ddogfennau barddonol. Ac yn bwysicach byth, yn werthusol gatholig.

Yr oedd hwn hefyd yn llyfr beirniadaeth, felly. Cyfnod oedd hwn pryd yr oedd yna gorddi diwylliannol i eneidiau hydeiml; cyfnod a oedd yn brofiad trawmatig i'r wlad. A chaed y beirdd yn sefyll y tu mewn (a'r tu allan) i'r cyffro hwnnw, nes bod yr awdur yn dewis rhannu'r gyfrol yn ddwy adran, a dechrau drwy ddarlunio'r Cefndir Cymdeithasol abnormal. Yna, yn ail hanner y gyfrol, trafodai 'Farddoniaeth Eisteddfodol', 'Amryw Feirdd', 'Y Beirdd Gwlad', a 'Chwech o Feirdd Unigol'. Ac yn y mannau hynny profwn y ddynoliaeth sy'n gwneud hanes personol go iawn yn ddilys i'r wlad amrywiol hon.

Gellid dadlau mai'r Adran ar y Canu Eisteddfodol yw'r un wannaf. Ond y mae hynny'n adlewyrchu anwastadedd pob cystadlu gwneuthuredig. Yn y bennod hon mae'r awdur yn cael cyfle i ymarfer â'r wedd negyddol sy'n rhan anochel o Feirniadaeth Lenyddol, ac mae rhywrai megis L.Haydn Lewis, R. Bryn Williams, ac eraill yn cael eu rhoi yn dwt yn eu lle. Ond eisoes yn y bennod hon, ac yn sicr yn y bennod wedyn, 'Amryw Feirdd', yr oedd helaethrwydd beirniadol

wrthi'n bwrw'u prentisiaeth gyda mwy o lawer nag addewid – Dic Jones, Gerallt Lloyd Owain, Donald Evans, Dafydd Rowlands, Derec Llwyd Morgan, ac R. Gerallt Jones; yn ogystal â rhywrai mwy profiadol a ddisgynasai o'r degawdau cynt, fel Pennar, Rhydwen, Dyfnallt Morgan, Tom Parri Jones, Jâms Nicholas, Gareth Alban Davies a John Fitzgerald, hwythau yn cyflawni'u haddewid.

Ceid un fenyw unig yn eu plith, sef Nesta Wyn Jones. Pwy arall ymhlith y merched ar y pryd a feddai ar yr un sensitifrwydd neu ddealltwriaeth neu ddychymyg geiriol? Yr hyn a rydd hyn oll yw ymdeimlad o egni mawr, cyfeiriad a grym arbennig. A phan drown at y bennod dawelach ar 'Y Beirdd Gwlad', disgwyliwn wrth-uchafbwynt. Ond nid felly. Sut y gallai fod mewn pennod sy'n cynnwys Dic, Alun Cilie, a Llew? Yma y mae'r englynwyr newydd, ac arloeswyr y 70au. Ac eto, welwn ni ddim llai na chlywed seiniau prudd 'Rŷm ni yma o hyd' yn hidlo atom o'r dyfodol. Ond mewn gwirionedd, rhyw fath o haenen ystyfnig ddethol yn cripian o'r gorffennol a geir yn y fan yna. Diwedd a dechrau yw.

Yn y bennod olaf, y mae'r awdur yn dethol chwech o feirdd i gynrychioli'r cyfnod newydd. Gwyn Thomas oedd y newyddian yn eu plith. Glaniodd ef yn ein mysg gyda lliw ac arddeliad ac iaith ystwyth-afieithus. Yr hyn a wna'r Beirniad yn y bennod hon yn anad dim yw symud o gerdd ddethol i gerdd ddethol drwy'r beirdd yn eu tro. Ac yn y fan yma yr ymdeimlwn fwyfwy â'r ddawn drawiadol anghyffredin honno y bwriodd Alan ei brentisiaeth ynddi ers tro – sef yr archwiliad o apêl werthusol y gerdd unigol, heb esgeuluso'r her arswydus i gyffredinoli'n gall.

Hanes wedi'i wreiddio yn y 'darn ei hun' yw hwn, lle y mae'r beirniad yn ceisio canon.

Dichon mai tua 1956 y dechreuwyd y degawd hwn fel 'cyfnod' seicolegol newydd, a chanddo hunaniaeth awyrgylch, gyda *Dail Pren*. Ond ymddengys ein bod bellach er drwg neu er da (neu'r ddau ynghyd) wedi cyrraedd byd newydd, byd aflonydd a diflas, byd hwylus a pheryglus o led-obeithiol. Ac yn sicr, caiff Alan Llwyd dipyn o hwyl ar arddangos rhinweddau rhai o'r llenorion. Ond yn wahanol i'r rhelyw, mae ef yn barod i ddiffinio ac i ddadansoddi'r diffygion hynny hefyd gyda gofal cyfrifol a chraffter manwl. Rhyfedd ddigon yw perthynas beirniadaeth a mawl; yr ail yw amodwr safonau'r cyntaf, fel y dibynna amheuaeth ar fodolaeth credu. Gwedd ar fawl i fodolaeth llenyddiaeth yw dychan hefyd, yn ogystal â dethol ac adnabod yn araf glòs neu chwynnu gwendidau o bob lliw a maintioli.

Enwog yw Alan am ei barodrwydd anghyffredin i ganmol. Ond ceir ganddo sylwadau negyddol, bachog o gyrhaeddgar hefyd. Â i berfedd gwendid. Sylwer ar dri bardd. '*Cyhoeddodd L.Haydn Lewis dair cyfrol yn y Chwedegau heb ynddynt fawr ddim o werth. Cynnyrch ugain mlynedd o* brentisiaeth *ydynt, gan ŵr a arhosodd yn brentis drwy gydol ei oes.'* Sonia am *Ffenestri a Cherddi Eraill,* W.J. Gruffydd: '*Gellir cytuno, am unwaith, â barn Iorwerth Peate ar y gyfrol. ...ar wahân i'r gerdd "Ffenestri", ychydig iawn a geir yn y gyfrol sy'n ychwanegu at fri'r awdur fel*

*bardd. Yn wir y mae rhai darnau yn llenyddol ddi-chwaeth. Ond hyd yn oed ar ôl cytuno fe'n gorfodir i amau'r clod a roir i "Ffenestri" gan Peate. Gyda phob datganiad o'i eiddo, ei amddiffyn ei hun fel beirniad oedd y bwriad, gan mai ef oedd un o'r beirniaid a roes y goron i W.J. Gruffydd am Ffenestri.'*

Ymddengys bellach fod y chwedegau wedi profi'n ddegawd go nodedig – o bell – yn ystod canrif gymysglyd. Lluniodd Alan gyfrol ganolog sy'n fwy na hanes i'n barddoniaeth: dyma fyfyrdod ynghylch llawer o'r gwerthoedd mwyaf dyrys a gâi eu herio yn y degawd hwnnw. A phan ddôi ef at un o'i hoff feirdd yn y ganrif, megis Caradog Prichard, o fewn cyd-destun y chwedegau gallai ganfod sut a pham yr oedd hwnnw'n methu â chael cartref mewn degawd chwithig. Wrth ddibrisio *Llef Un yn Llefain*, mynnai'i graffter achub yr eithriad. '*Y mae yn y gyfrol un sy'n bwrw'r rhan helaeth o'r cerddi eisteddfodol i'r cysgodion, "Y Fargen" a luniwyd er cof am R. Williams Parry'.*

Yn y tri dyfyniad hynny, clywn hyder a phrofiad dethol Beirniad ynghanol pentyrrau o waith gwamal. Mewn gwirionedd, cyfrol ddewr oedd hon lle'r oedd yn ei hyfforddi'i hun o ddifrif fel Bardd mewn dau gyfeiriad: yn ei ganrif ei hun, ac yng nghanol y traddodiad. (A golyga'r ail, gywyddau a beirniadaeth lenydol o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. Canys darllen y cyfnod mewn cyd-destun cyfoeth llên a wnâi Alan Llwyd.) Nid oes dim syndod yn ei rôl o fardd iddo droi'r ugeinfed ganrif honno wedyn yn gyfrol bersonol o gerddi *Ffarwelio â Chanrif.* Ac yn honno, ceid ganddo lu o gerddi am Feirdd sydd yn y dethol yn feirniadaeth lenyddol arnynt oll: Euros, T.Arfon Williams, Aneirin Talfan Davies, Gwilym R. Jones, Donald Evans, Gwynn ap Gwilym, Gerallt Lloyd Owen, Dic Jones, T. Llew Jones, Saunders Lewis, Alun Llywelyn Williams, Rhydwen, Bryan Martin Davies, ac yn y blaen. Mae ganddo yno hefyd yn ei gasgliad o gerddi Adran (xiii), sef Beirdd yr Ugeinfed Ganrif sy'n cynnwys 'Requiem i Feirdd yr Ugeinfed Ganrif' – un ar ddeg o feirdd eto, a hynny'n feirniadaeth lenyddol drachefn.

Dyma fardd, felly, yn bwrw golwg ar draws ei amgylchfyd barddonol. A'r un pryd, y mae'n ei hyfforddi'i hun fel bardd (a beirniad). Heblaw meddiannu traddodiad, cynhysgaeth ac addysg i bob bardd yw adnabod yn arbennig, a gwerthuso'i gyfnod ei hun yn ogystal â'r cyfnod a fu yn union cyn hynny. Symuda ymlaen o hyd felly i efrydu'n ddwysach ffenomen y Bardd Eisteddfodol: mewn tair cyfrol gyfan ar eisteddfodau 1900-1950, sef *Cyfres Hanes yr Eisteddfod Genedlaethol.* Dyma'r astudiaeth debycaf i *Barddoniaeth y Chwedegau* a luniodd. Tair cyfrol sydd yma sy'n cynnwys trafodaeth ar y cyfnod o hanner can mlynedd a ragflaenai'r degawd y closiodd ef ato.

*          *          *

Cafwyd dau berson hynod o ddawnus a hynod o weledigaethus yng Nghymru a aeth ati i astudio'r Eisteddfod Genedlaethol mewn dyfnder yn y cyfnod diweddar. Buom yn wyn ein byd fel gwlad i gael y fath sylw manwl ar sefydliad mor wreiddiol ac mor unigryw: Hywel Teifi ac Alan

Llwyd, y cyntaf ar Eisteddfod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf, a'r ail ar Eisteddfod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf (ynghyd â dadansoddiad dwys o'r chwedegau); gydag ychwanegiad pwysig ac arwyddocaol iawn gan Donald Evans ar feirniadaeth lenyddol yr Eisteddfod yn ail hanner y ganrif ddiwethaf. Dyma gydnabyddiaeth o unigrywiaeth wreiddiol y sefydliad diwylliannol poblogaidd hwn.

Mae'r cyferbyniad rhwng Hywel Teifi Edwards ac Alan Llwyd yn drawiadol dros ben, ac yn arwyddocaol yn ein hastudiaeth o feirniadaeth fel y cyfryw. I Hywel, sefydliad cymdeithasol a seicolegol gyfareddol oedd yr Eisteddfod Fictoriaidd. Mae ef yn dadansoddi, gydag arddeliad athrylithgar ac angerddol, ryfeddod ei gwaseidd-dra imperialaidd a'i bydolrwydd yn y ganrif honno, y ddelwedd fawreddog a ddatblygai, y sentimentau, a'r egnïon mawr a chreadigol swrealaidd a feddiannodd chwaeth un wedd ar ein diwylliant ynddi. Iddo ef, testun sbort oedd. Symbol hefyd. Dogfen oedd yn adlewyrchu dirywiad y genedl. Nid oes ganddo fawr o ddiddordeb mewn gwerthuso ansoddol llenyddol, o leiaf yn gadarnhaol. Gwaseidd-dra imperialaidd yw craidd yr iwtilitariaeth Seisniglyd a brawf yn afiaith ac yn orfoledd i Hywel. Er bod ganddo rai ysgrifau 'beirniadol' am lenyddiaeth yn yr *Athro* gynt, ac ambell le arall, annheg fyddai ystyried y 'feirniadaeth' a luniodd. Nid oes yno yr un arwydd ei fod yn gallu ymateb  i lenyddiaeth gydag unrhyw fath o wreiddioldeb na phrofiad effro. Ond pan dry at Fictoriaeth berfformiol, imperialaeth iwtilitaraidd, a thaeogrwydd blasus Eisteddfodau ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y mae ef ar ben ei ddigon, ac yn ysgubo popeth o'i faen. Hanesydd cymdeithasol cwbl frwdfrydig oedd.

Dichon yr esgeulusem ei wir fawredd ped arhosem i synied am waith Hywel Teifi yn ôl term a chriteria 'beirniadaeth lenyddol', megis y collem y pwynt pe baem yn troi at gyfrolau Alan a chwilio'i farn gytbwys ar gerddoriaeth neu gelf yr Eisteddfod. Ni chafwyd o'r braidd gan Hywel yr un drafodaeth erioed a adlewyrchai chwaeth ddatblygedig esthetig. Ond fel hanesydd cymdeithasegol, fe wnaeth ddiwrnod mawr iawn a dihafal o waith, a hynny'n weledigaethus a chyda gwir egni meddyliol a gwybodaeth ddifyr. Gellid dadlau mai sothach yn syml fu ansawdd gwrthrych diwylliannol truenus ei efrydiau bron bob amser. Ond buasai aros gyda hynny'n ei isbrisio'n enbyd ac yn  rhoi argraff annheg o'r gwrthrych ac o'r hanesydd.

Rhaid cyfaddef, o safbwynt ansawdd y deunydd a astudiodd y ddau, fod Alan wedi dewis hanner canrif Eisteddfodol fwy cyfoethog o dipyn. Ymroddai Hywel Teifi ar ganol llwyfan arall fel Hanesydd diwylliannol penigamp, ac fel darlithydd eithriadol o wych. Gweithiai Alan Llwyd yntau, yn ei gornel, yn ddiarbed dawel fel Beirniad llenyddol unigryw ac fel Bardd eithriadol o ddawnus. Dau gawr gwahanol. Os nad oeddent o bosibl yn deall ei gilydd,  na pham na sut y gwahaniaethent yn eu swyddogaeth ill dau, gallent yn aml barchu'i gilydd, heb ddirnad y rheswm. Rhannent yr un ymrwymiad, a pheth o'r un dehongliad. Ond arweiniai llenyddiaeth hwy i wahanol

gyfeiriadau. Yr oedd gan y naill megis gan y llall lwybr gwir ddigonol ac angenrheidiol, a dymuniad theoretig, o leiaf, i fod yn gatholig. Eto, yr oedd eu tonfeddi'n drysu'n esthetig awdurdodol yn eu man peidio-â-chyfarfod.

Roedd gan Alan obsesiwn ynghylch gwerthuso. Ducpwyd hyn arno gan wth relatifaidd ei amseroedd. Cenedlaetholwyr diledryw ond gwahanol felly oedd y ddau. Hywel yn llenwi pob ystafell â'i bersonoliaeth heb ddymuno fawr ond ymwared â phietistiaeth hen-ffasiwn a mawreddogrwydd israddol taeogrwydd Fictoriaid Cymru: Alan yntau yn ei elfen o'r neilltu, yn gwbl wahanol, nos a dydd yn ymlafnio hefyd heb berfformio; mewn tawelwch a theimlad fel arfer i geisio llunio harddwch o'r newydd yn ysbryd y Cymry a'u hunan-barch celfyddydol. Deuai'u cenedlaetholdeb ill dau i'r golwg mewn ffyrdd gwahanol. Er bod y naill a'r llall ar dro yn delweddu Cymru fel caethwas a chardotyn a llwfrgi, dim ond ymgreinio'n hwyliog braf a wnâi'r Cymro Fictoriaidd ym mryd Hywel: gan Alan yr aethpwyd ymhellach gyda chenhedlaeth ffrwythlon a ystyrir ganddo ef yn gyfansawdd. Ganddo ef, serch hynny, y caed delwedd frawychus iawn a'i hawntiai'n gyson – sef Hunanladdiad y Genedl, Hunanladdiad ein llenyddiaeth hyd yn oed. Bydd yn rhaid inni ohirio trafodaeth ar y ddelwedd ddiflas honno, sy'n bwhwman yn ôl ac ymlaen drwy'i waith, tan y lle y byddir yn trafod ei Ddeunydd Thematig. Ond gwelai'r ddau eu gwlad â llygaid croyw, a honno mewn cyfnodau nodedig.

O ran ei anian a'i gelfyddyd ei hun, canolbwyntiai Alan ar lwyddiant ieithyddol, addysgol, ac esthetig wrth greu llenyddiaeth aeddfed. Canolbwyntiai Hywel ar seicoleg yr hunan-bwysig; a llenyddiaeth fel dogfen, drwy lygad hanesydd diwylliannol a beirniad cymdeithasegol ffres. Nid wyf yn beirniadu Hywel yn hyn o beth. Gwnâi mewn modd Cymreig wasanaeth hollol amhrisiadwy i ni oll. Yr oedd yn athrylithgar ei ddadansoddiad o awra cyfnod. Defnyddiai sefydliad yr Eisteddfod boblogaidd i fwrw goleuni llachar a threiddgar ar ddigrifwch anfwriadus y Fictoriaid, a'u methiant ysmala mewn rhai cyfeiriadau i fod yn fodau dynol hyderus. Yn eu harwriaeth i gystadlu â'r byd, porthent eu hisraddoldeb. Honnais o'r blaen mai Hywel, i'm bryd i, oedd, mewn llawer dull a modd, ddarlithydd disgleiriaf ei gyfnod. Gyda'i lais a'i bresenoldeb, llanwai bob ystafell yr âi iddi. Ond nid gwerthoedd llenyddol a'i diddorai. Ni chwiliai fawr o lên fel llên. Ond ef a wnâi astudio'r Gymraeg yn hwyl – drwy sylwi ar ei gwerth dynol, er gwaethaf pawb a phopeth.

Yn ei gornel neilltuedig, ar y llaw arall, gwaith gloywaf yr Eisteddfod a chwiliai Alan, orau y gallai, rhwng y chwyn a'r cerrig. Ceisiai ei ddisgrifio'n deg, er iddo orfod cyfaddef er ei waethaf mai prin ydoedd lawer tro. Ymloddestai Hywel yn ei methiannau llenyddol, a'i llwyddiant mawreddog. Wylai Alan am fodlonrwydd awdurdodau'i wlad i geisio'r eilradd yn unig yn enw'r 'poblogaidd'. Canfuont ill dau wlad; gwlad felly, a'i gwenwynai'i hun gydag awch.

* * *

Eto, mesmereiddiwyd yr Alan Llwyd ifanc hefyd gan urddas a dilysrwydd yr Eisteddfod Genedaethol. Roedd presenoldeb torfol y Gymraeg iddo, a llawer o wir gynheiliaid yr iaith yno, fel rhyw fath o Ynys y Barri o Gymreictod am wythnos yn ei hudo i jamborî o agosrwydd. Roedd hon hefyd yn ddi-os yn ysgogwr eiconaidd o fath i bwysigrwydd y celfyddydau ymhlith y Werin. 'Unwaith euthum i Aberystwyth ar gwrs Cymraeg,' meddai Alan yn *Glaw ar Rosyn Awst*, 'tuag un ar bymtheg oed, a dychwelyd gyda llond cês o hen Gyfansoddiadau a Beirniadaethau yr oeddwn wedi'u prynu'n rhad yn y Llyfrgell Genedlaethol.' Flynyddoedd lawer wedyn, ac yntau ei hunan bellach yn un o ffigurau amlwg yr Eisteddfod yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, dyma ef yn mynd ati i lunio astudiaeth safonol yn dair cyfrol o Hanes y sefydliad hwnnw gyda'r prif bwyslais yn gywir ar y ddwy gystadleuaeth ganolog ar y pryd, sef y Goron a'r Gadair.

Dyma ef hefyd ar y pryd yn wynebu *yn yr Eisteddfod* un o 'sefydliadau' mawr ei fywyd personol ei hun. Yn y fan yna, câi fod y Gymraeg yn hwyl iddo, mewn ffordd sobrach na Hywel Teifi. Cymerai'r Eisteddfod i ddarparu rhyw fath o ddeunydd enghreifftiol cymharol adnabyddus o'r cyfnod, ac yn symbol. Chwiliai Alan yn ddiwyd am rywbeth 'arall'... Trown felly at y Gyfres Hanes.

*Cyfrol 1900-1918*

Soniais am Alan yn dysgu'r grefft fel bardd drwy gymdeithasu â chwmni o gynganeddwyr a symud oddi yno i eisteddfodau lleol, ac yna drwy feirniadaeth lenyddol drylwyr a helaeth ymlaen i'w waith aeddfed fel bardd. Gellid rhannu'r adeiladaeth hir a pharhaol honno'n ddwy ran: yn gyntaf, ei gefndir eisteddfodol ei hun yn fath o fardd gwlad, ac yn ail yn ŵr modern dysgedig, yn gyfarwydd â meddwl cyfoes Ewropeaidd ac â'r traddodiad hynafol Cymraeg, ac eto heb gefnu'n llwyr ar y sefydliad rhyfedd hwn. Prentisweithiau anaeddfed, mewn gwirionedd, oedd ei awdlau a'i bryddestau cynharaf. Wedyn, y daeth ei waith gorau o ddigon. Ond buasai ef eisoes mewn dwy Brifysgol. 'Prifysgol y Werin' oedd teitl y gyfrol gyntaf hon; ond dyna fu ei Brifysgol gyntaf i'r tair rhan yn ei astudiaeth ddifyr o ysgolheigaidd o'r Sefydliad. Mae ef, yn briodol iawn, yn cymryd yr Eisteddfod fel gŵyl aruthr o werthfawr i'n gwlad, beth bynnag a ddigwyddodd i'r Werin. Nid yw hynny'n atal y Beirniad rhag sylweddoli mai y tu allan i'r Eisteddfod y bydd beirdd yn gwneud eu gwaith gorau o ddigon. Ac nid yw hynny'n golygu dibrisio ymarferion addysgol. Yn sicr, nid sylw dibris am yr Ŵyl wrth ei hadolygu fel canolfan gymdeithasol o'r radd flaenaf a geir gan Alan.

Dechreua drwy sôn am weinyddwyr, a'r trawsffurfiad ar y cyfnod cynt – cyfnod hwyliog i Hywel Teifi. Ar ryw olwg, noddwyr oedd y rheini, pobl egnïol a rôi o'u hamser a'u pwysigrwydd i wneud y digwyddiad yn bosibl. Yn fuan, datguddir y ddeuoliaeth a'r elyniaeth danddaearol ym 'Mhrifysgol y Werin' yn nheitl ei gyfrol – a hynny rhwng J. Morris-Jones a Hwfa Môn. Gêm gyfartal a gafwyd yn y diwedd, gyda'r Brifysgol yn trechu'r Werin, a'r Werin yn llyncu'r Brifysgol.

Cynrychiolai'r Brifysgol baganiaeth wrth gwrs, a'r Werin oedd y credinwyr llipa a oedd yn dechrau ysigo o dan y Weinidogaeth gapelog i raddau helaeth, eisoes, ym 1900-1918. Ceid cystadleuaeth gefndirol ddeunyddiol y tu allan i gystadlu'r beirdd, yn y pwyllgorau llên, rhwng testun academaidd y paganiaid a'r testunau pietistig gan y credinwyr llipa. Dyma ddechrau Canrif gyntaf Agnosticiaeth.

J. Morris-Jones oedd biau'r testunau 'Ymadawiad Arthur' a 'Trystan ac Esyllt', a beirniadaeth sylfaenol y gadair a'r goron. Roedd y byd wedi newid. Roedd gan y paganiaid eu harf ddirgel yn yr hen iaith, dim llai na 'macwy, pali, eddi, telediw'. A hi a goncrodd am y tro. Ond wrth gwrs, yr oedd yn fwy na hyn. A chanfu Alan yr union beth mewn llythyr yn llaw R. W. Parry am ymgais i lunio llinell sy'n gorffen â 'moroedd':

'*A gem eurog y moroedd.*
*Marian mirain y moroedd.*

*etc. etc. Dyna'r Hen Ysgol.*

Wedyn: *Bro oedd deg fel breuddwyd oedd*
*Miragl dychymyg moroedd.*

*Dyna'r Ysgol Newydd. A raid wrth ragor?'*

Medd Alan: '*Y pwynt yr oedd Williams Parry yn ceisio'i wneud oedd mai cynganeddu'n brennaidd ddifeddwl ac yn rhyddieithol farw, heb fynegi'r dychymyg drwy gyfrwng y gynghanedd, a wnâi'r Hen Ysgol. Rhoent y pwyslais ar ateb cytseiniaid, ac ar lunio cynganeddion cytseiniol gryf; cynghanedd er mwyn cynghanedd a geid ganddynt, nid cynghanedd fel cyfrwng llenyddol, esthetaidd.'*

Mae'r gosodiad hwnnw'n allweddol i'r holl ymdriniaeth ac i'r holl safbwynt a gymer Alan drwy gydol ei waith. Mae'n ddidrugaredd weithiau, am ei fod yn parchu'i bren mesur. Nid yw ef byth yn nawddogol. Nid yw'n llai na thrwyadl. Dyna'r Sefydliad od hwn yn cael ei anrhydeddu gan onestrwydd felly; ond yn fwy na hynny, am ei unigrywiaeth. Cydnebydd y rheswm: '*John Morris-Jones, yn anad neb, a ddaeth â safonau'r Brifysgol, a safonau beirdd mwyaf y gorffennol, cyn i'r Orsedd lwyr lurgunio barddoniaeth, i'r Brifwyl.'* Brawddeg bwysig yw hon, yn arbennig yr ymadrodd 'beirdd mwyaf y gorffennol', oherwydd hyn sy'n mynegi'r rhagoriaeth a ddug Alan yntau'n feirniadaeth yn y man ar wleidyddion neu weinyddwyr llai na gweledigaethus y Sefydliad-Cyhoeddi, yn gyfatebol, yn yr oes bresennol – cyn iddynt hwythau eto lwyr lurgunio llenyddiaeth Gymraeg ei hun. Gwelai Alan yr Eisteddfod o fewn fframwaith dwfn mewn cyd-destun.

Yr hyn a wnaeth Alan yn y cyfrolau hyn (ynghylch Gŵyl a allai fod yn drychinebus o eilbwys o safbwynt gwerth ei chynnyrch) fu ei pharchu ac archwilio'i phac. 'Yr Unig Sefydliad Gwir Genedlaethol' yw teitl ei ail bennod. Dengys fel y bu'r achlysur a'r safle cenedlaethol hwn yn gyfle i hyrwyddo achosion eithriadol bwysig megis Pleidlais Merched. Ysgogai hefyd agweddau a

fuasai'n wanllyd ar ein llên, megis rhyddiaith storïol (yn ei llwyddiant) a dramâu (yn aflwyddiannus). Mewn cyfnod pryd yr oedd addysg Gymraeg ieithyddol yn arwynebol, bu'n gyfle i orseddu J. Morris-Jones – a oedd yn llawer mwy na 'macwy, eddi' ac yn y blaen.

Am fod Alan yn mynnu glynu wrth safon, iachus oedd ei barodrwydd mewn cenedl reddfol israddol, hyd yn oed yn ei phrotestiadau, i gydnabod mai eilradd oedd safle ac arwyddocâd rhai cystadleuwyr fel Pedrog, a sylweddoli nad y peth sy'n cael ei gadeirio a'i ganmol gan 'feirniaid' amheus eu profiad a'u medr gwerthuso yw'r wir farddoniaeth. A'r arwydd o ddawn ddewisol Alan yw ei fod yn gallu mynd at y pam – a'i ddeall. Mae ei ymateb ef i 'Ymadawiad Arthur' nid yn unig yn helaethach, – ond yn dreiddgarach ynghylch hanfodion, – na J. Morris-Jones. Gallai hyd yn oed beirdd o bwys fod yn eilbwys yn eu cyfnod cynnar, megis T.Gwynn Jones, R.Williams Parry, Gruffydd a Parry-Williams; a cheid sawl ymarfer cwirclyd ganddynt megis plastro Croes o Gyswllt dros ein trwynau mewn modd a oedd yn llai na chwaethus.

Rhydd ei fys di-ofn ar ddiffygion penodol, megis '*Cyfnod trychinebus yn hanes y cywydd oedd y cyfnod 1900-1918.'* Ond ni fodlonai ar hynny, megis y gwnâi hanesydd confensiynol, disgrifiol; eithr ymglywai â'r rheswm dwfn. Wedi'r arholi, rhydd ef y canlyniadau a chanoneiddir pryddestau 1907, 1909, 1915, a 1917; gyda 1915 yn drobwynt. Canoneiddir awdlau 1902, 1906, 1909 a 1910; gyda 1902 yn drobwynt. O ran rhyddiaith, cydnebydd gyfraniad Dic Tryfan ym 1915. Ond gwêl yn ddiffiniol arwyddocâd dau dro arddulliol yn ystod y cyfnod hwnnw – sef y tro rhamantaidd (mewn awdl) a'r tro realaidd (mewn pryddest). Bid siŵr, sylwasai eraill ar hynny. Ond sylwa Alan ar rywbeth diddorol mewn unigolion ym 1915: '*Yn yr un Eisteddfod, canodd Parry-Williams awdl orflodeuog o ramantaidd, yr awdl fwyaf rhamantaidd erioed, o bosib, o safbwynt ieithwedd ac arddull, ac ar yr un pryd, lluniodd bryddest hollol fodernaidd ei dull.*' Ar y naill law, yr oedd yn ffarwelio, ac ar y llall yn croesawu. Dyna sefyllfa dra Parry-Williamsaidd, wrth gwrs. Ond erbyn 1917, yr oedd Alan yntau'n cyrraedd deuoliaeth eiconaidd iddo'i hun: Hedd Wyn yn gyntaf yn cipio'r awdl gyda buchedd a feddiannai flynyddoedd o fywyd y beirniad ei hun – nid yn unig oherwydd y cofiant, a'r ffilm, ond oherwydd yn ail thema rhyfel a gafodd le thematig blaenllaw yn ei farddoniaeth a'i flodeugerddi. Claddwyd ganddo mwyach yr eddi yn y rhyfel.

*Cyfnod 1919-1936*

O hyn ymlaen, tyfai'r bryddest Eisteddfodol mewn pwysigrwydd, os nad mewn ansawdd. Ar ôl rhyfel, mae'r dauddegau'n ddegawd rhyfedd, degawd yr Orsedd ac atrefnu Cymdeithas yr Eisteddfod a'r Pwyllgor Lleol; Griffith J. Williams yn gollwng Iolo o'r cwd; degawd sefydlu'r Babell Lên; a sefydlu'r Blaid Genedlaethol yn Eisteddfod 1925. Ond degawd dibwys fu mewn rhyddiaith a

drama. Eto, ym 1925 gwobrwywyd y bryddest *vers libre* gyntaf, flwyddyn ar ôl i Gynan ennill y gadair gyda'r hyn a gyfrifai rhai yn bryddest, sef 'I'r Duw nid Adweinir', ei gerdd leiaf anfoddhaol. Cyfraniad glew i'r Orsedd oedd eiddo Cynan, yn hytrach nag i lenyddiaeth. Ac nid bach o gamp oedd hynny, 'Ffigur llenyddol' fu. Ac yr oedd mor bwysig yn ei ffordd ei hun i'r Eisteddfod ag oedd Syr Hugh Owen a Syr Vincent Evans. Haeddodd ef bob anrhydedd a gafodd. Hefyd mewn llenyddiaeth, cynorthwyodd mewn ffordd ddiniwed drwy boblogeiddio 'moderniaeth' gymedrol a hyd yn oed 'realaeth' a symbolaeth gymedrol ynghanol ei fôr o sentimentaliaeth anghymedrol. Rhoddai Alan lawer mwy o sylw i bryddest Prosser Rhys 1924, pryd y dechreuwyd ystyried pa mor dyngedfennol i ddiweirdeb mytholegol Cymru oedd caniatáu crybwyll materion rhywiol yn y Gymraeg. Dilynwyd hyn gan Kitchener Davies 1932, ac eraill. A dechreuwyd yn y cyfnod hwn, yn wir yn yr Eisteddfod am weddill y ganrif, fath o gythrwbl rhwng llanciau ar y naill law a hen godjers ar y llall. Anodd dweud pa ochr oedd y lleiaf naïf. Pery'r ymgyrch.

Ac wedi i Gwenallt, awdlwr mwyaf credadwy yr hanner canrif, ennill y gadair ym 1926, gyda'i awdl orau o bosib 'Y Mynach', fe luniodd 'Y Sant' ym 1928. Ac o bob cerdd a drafodir yn y tair cyfrol hyn gan Alan, hon yw'r un sy'n derbyn ganddo'r ymdriniaeth fwyaf trwyadl (tt.98-124). A'r ymdriniaeth hon yw un o uchafbwyntiau'r tair cyfrol – unwaith eto, yn ôl dull y 'Darn ei Hun'. Fe'i trafodwyd gan eraill – J. Morris-Jones, Thomas Parry, W.J. Gruffydd, a Saunders Lewis. Ond beirniadaeth Alan yw'r braffaf a'r un sy'n sylwi orau ar y cynllun, y deunydd, y fydryddiaeth, a'r cywair. Fe'i rhoddaf ochr yn ochr â'r ymdriniaethau gwych yn *Crefft y Gynghanedd* ar yr Eira gan Ddafydd ap Gwilym (?) a'r Farwnad gan Lewys Glyn Cothi i'w Fab. Dichon fod y ffwdan a gafwyd ynghylch moeswersoldeb a'r 'Sant' wedi mudferwi o dan ddegawdau o ffwdan ynghylch parchusrwydd startshlyd, gyda Chymru yn sefyll yn wrol, wedi'i harfogi â'r sentimentaliaeth a'r diffyg chwaeth, ar y ddwy ochr i'r ffens yn eu tro.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod Alan, y Bardd-Feirniad, yn dilyn patrwm go gyson. Rhoddodd i ni hierarci wreiddiedig o ddolennau sy'n fframwaith i'r tair cyfrol – yr amgylchfyd i'r Eisteddfod, gan gynnwys strwythur y Gweinyddu datblygol, a'r Cystadleuthau. Ac yna, daw at yr hyn sydd mewn golwg o'r dechrau, yr Awdlau a'r Pryddestau sy'n ganolog. Wedyn y rhyddiaith storïol, drama, cywydd, englyn, traethodau, ac yn y blaen, ac o fewn yr arolwg yna o hyd, y dyfarniad gwerthusol, a pham. At hynny i gyd yr oedd yn dod, o'r naill un i'r llall, gan ddadlennu inni faich meddyliol y cyfnod, a galluoedd esthetig y beirdd. Drwy'r Hanes felly y mae ef yn cyrchu'r Farddoniaeth ei hun, gan mai at hynny y mae'r Eisteddfod hithau'n dod bob amser.

Safle a statws yr iaith o fewn y sefydliad yw cefndir cymdeithasol a 'gwleidyddol' amlycaf yr ail gyfnod hwn, a hynny'n feicrocosm o ddiwylliant y genedl. O fewn llenyddiaeth ei hun, caed y frwydr rhwng Moderniaeth braidd-gyffwrdd a Rhamantiaeth gynyddol farw. Ac amlygid hyn nid yn

unig gan y cythrwbl achlysurol a go ddiniwed ynghylch Rhyw, eithr drwy *Vers Libre* ac Ieithwedd a Delwedd realaidd.

Cafwyd dau fardd eithriadol yno, sef Gwenallt a Charadog Prichard; gyda Waldo a hanes difyr 'Tyddewi' 1936 yn pipian dros yr ymylon. Er mai afrwydd oedd Gwenallt, a'i duedd i gystwyo rhythm yn peri i rywun amau'i feistrolaeth, yr oedd ei hercian achlysurol anghyfforddus yn gweddu i'r trais a ddôi fwyfwy yn ei sgil ac a flodeuodd yn ei waith rhydd byth wedyn. Wedi cipio sylw ym 1926 a 1928 (gyda 'Sant' yn orau yn y gystadleuaeth, ond a wthiwyd o'r neilltu, er mawr gyhoeddusrwydd i'r troseddwr) cafwyd awdl 1931 'Breuddwyd y Bardd' (hon hefyd oedd ei awdl orau ym mryd rhywrai). Ac yna, ymhlith y pryddestwyr, un o ffefrynnau arbennig Alan: sef Caradog Prichard. Alan a adenillodd iddo ei barch fel bardd wedi i *Un Nos Ola Leuad* wthio'i gerddi i'r cefndir. Ar ryw olwg, undod oedd ei ddwy goron 1927 'Y Briodas' (casgliad o gerddi) a 1928 'Penyd' (Pryddest), fel sy'n gweddu yn ei uchafbwynt barddol. Gyda 1929 'Y Gân ni Chanwyd', cafwyd y leiaf boddhaol o'r tair.

Lluniodd Prosser Rhys ym 1924 bryddest 'hanesyddol bwysig', a oedd yn nodedig nid oherwydd y rhywioldeb enwog, ond oherwydd y mynegiant gafaelgar o hunan-gystwyo. Ar ryw olwg, manteision llenyddol fu gwallgofrwydd a hunanladdiad i Caradog Prichard, megis gwrywgydiaeth i Prosser Rhys: yn achos y ddau, bu i'r deimladaeth o iselder ysbryd hefyd ryddhau uchelderau esthetig.

Priodol hefyd oedd cydnabod fel y gwnaeth Alan – hyd yn oed yn yr Eisteddfod – fod presenoldeb Saunders Lewis fel areithiwr neu ddarlithydd, ac fel beirniad, yn ffactor tra amlwg: 'Os John Morris-Jones oedd y ffigwr allweddol ym myd y canu caeth yn ystod traean cyntaf y ganrif, Saunders Lewis oedd y ffigwr allweddol ym myd llenyddiaeth yng nghyfnod y gyfrol hon, 1919-36, ac wedi hynny.' Ond ni chafodd na Saunders na Thomas Parry (praffaf beirniaid y gynghanedd ar y pryd) mo'u gwahodd i feirniadu'r awdl yn y cyfnod hwnnw. Hadau o'r un hen hunanladdiad.

*Cyfnod 1937-1950*

Mae'r olaf o ran dyddiadau cyfnodol o'r tair cyfrol gan Alan Llwyd (er y gyntaf i ymddangos), sef *Y Gaer Fechan Olaf,* yn gyfrol eithriadol o gythryblus. Fe'i rhennir yn ddwy ran. Yn y rhan gyntaf, ceir sôn am dair eisteddfod ar drothwy'r ail Ryfel Byd. Wedyn, cyfyd y rhyfel yn swyddogol, a'i holl arwyddocâd anarchaidd i fodolaeth yr Eisteddfod. Wrth fwrw golwg yn ôl, sylwn mai math o frwydr arwrol fu'r cwbl gan fod y Rhyfel hwn yn cael ei ymladd gartref yn ogystal ag ar y ffryntiau tramor.

Yr wyf eisoes wedi ceisio dadlau fod yr ail Ryfel Byd wedi dechrau yn niwylliant Cymru ym 1936. Dechreua Alan drafod 1937 gydag un o'r brawddegau sy'n codi cryn chwilfrydedd. Gwna

osodiad sydd yn gwbl syml ac eto sydd mewn ffordd yn diasbedain yn ôl (yn boliticaidd) drwy'r cyfrolau i gyd: '*Ar lawer ystyr, y ddwy Brifwyl bwysicaf yn holl hanes yr Eisteddfod Genedlaethol yw Eisteddfod Machynlleth ym 1937 ac Eisteddfod Caerffili ym 1950.'*

Dyna'r ffrâm a rydd ef ger ein bron.

Mae'n cyfrif mai cam gweinyddol nodedig ymlaen oedd uno Cymdeithas yr Eisteddfod a Gorsedd y Beirdd ym 1937. Yr oedd hwn yn weithred bellgyrhaeddol o ran Cymreictod, wrth wneud y Gymraeg yn 'iaith swyddogol' i'r Eisteddfod. Ac yna, ym 1950, cafwyd y rheol uniaith yn nannedd y cerddorion a'u gwrth-ymgyrchu dyfal cyfarwydd. Sylwer: yr iaith *per se* y ddau dro, ar ffurf cyfathrebu cyhoeddus, a enillai sylw'r hanesydd-feirniad a'r Eisteddfod, nid dim byd llenyddol fel y cyfryw. Ac y mae hyn yn tanlinellu mai diwylliannol o gymdeithasol yw pwyslais prif waith yr Eisteddfod, ac mai ymylog i'r briffordd yw cynhyrchu llenyddiaeth.

Anadlai pawb yn rhydd ar ôl marwolaeth Syr Vincent Evans, a dechreuwyd dadebru erbyn 1937. 'Am hanner can mlynedd a rhagor, Syr E.Vincent Evans oedd yr Eisteddfod Genedlaethol'. Ond yn Eisteddfod Machynlleth 1937, cafwyd un dramodig 'gudd' na wyddwn i ddim amdani. Yr wyf eisoes wedi awgrymu nad yng nghofiannau Hedd Wyn a Goronwy Owen yn unig y byddai Alan yn hoffi cyflwyno'i ddadansoddiad o lenorion i'n cymdeithas mewn modd dramatig. Wrth gwrs, caed ganddo gefndir yr Ysgol Fomio y tu ôl i'r flwyddyn 1937; a chyfraniad Arglwydd Londonderry (Plas Machynlleth), Llywydd y Weinyddiaeth Awyr ar y pryd, a symbol o'r union awdurdod honno a esgorodd ar y frawddeg: 'Tra byddai tri o feibion disgleiriaf Cymru yn pydru yng ngharchar Wormwood Scrubs, ac un o'r tri, o ran hynny, yn feirniad yn Eisteddfod 1937, byddai'r Eisteddfod yn anrhydeddu Llywydd y Weinyddiaeth a fu'n gyfrifol, yn anuniongyrchol o leiaf, am eu rhoi yn y carchar.' A chawsom un o'r protestiadau hynny y mae'r Eisteddfod yn hoff iawn ohonynt, ac a ddaeth yn arferiad anniddorol os nad yn ddefod. Ymddiswyddodd Gruffydd, Tom Parry, Prosser Rhys, a George Peate (tad Iorwerth), gŵr llai cymhleth na'i fab. Ar y pryd, bu ymddiswyddo yn un o'n hymarferion politicaidd mwyaf trawiadol fel cenedl, megis 'protestio' ynghylch dyletswyddau pobl eraill am nad ydynt yn adennill yr iaith yn ein dyddiau ni.

Cafwyd ail act i'r ddrama, pan gafwyd damwain anffodus ar Nos Fercher. *'Llosgwyd pwerdy trydan Machynlleth i'r llawr.'* Ymhell oddi yno, efallai fod D.J.Williams yn blasu'r geiriau 'nid fi', ac wedi bod wrthi'n pydru ymlaen wrth feirniadu'r stori fer, yntau yn y carchar; a cheir hanes difyr hefyd ynghylch smyglo newyddion gwleidyddol (anghyfreithlon) a direidus ar gyfer y beirniad dan gochl un o'r storïau yn y gystadleuaeth. O ran y farddoniaeth ei hun yn yr Eisteddfod, llai cyffrous o lawer oedd honno. Ond ymhlith y collwyr, caed awdl weddol arloesol gan T. Rowland Hughes; a rhydd Alan Llwyd ganmoliaeth briodol iddi. Nid anghyffredin i feirniaid yr Eisteddfod fethu â gweld arwyddocâd yr hyn a fyddai dan eu trwynau: yn wir, bu hyn hefyd yn arferiad hoff. Yn

llenyddol, mae'n debyg mai sefydlu'r Fedal Ryddiaith oedd prif ddigwyddiad yr Eisteddfod yn swyddogol. Fe'i henillwyd gan J.O.Williams drwy gyfrol o ysgrifau digon anarbennig. Ond y peth mwyaf arbennig ynglŷn ag Eisteddfod Caerdydd ym 1938 i'r newyddiadurwyr oedd nid ymweliad John F. Kennedy, na nofel *Y Graith* gan Elena Pugh Morgan, ond mater a oedd yn Eisteddfodol iawn o ran cymeriad: sef gwrthod gwobrwyo nofel deilwng nad enillodd oherwydd bod ofn ar y beirniad Tom Parry gael ei 'wneud yn ffŵl'. Tybiai heb dystiolaeth ddigonol fod y nofel yn gyfieithiad. Ond methodd â phrofi'i bwynt... hynny yw, am y nofel.

Yn yr Eisteddfod honno y lawnsiwyd prosiect fawr y Cymmrodorion i gael *Bywgraffiadur.* Cafwyd y ddadl nid anghyfarwydd a ddylid ei gael yn uniaith Saesneg neu beidio. Ond yn y Gymraeg y'i cafwyd – ar y pryd – yn nannedd y prif olygydd; a bu hyn yn gam ymlaen i'r Cymmrodorion. Enillwyd y gadair gan Gwilym R. Jones, gydag awdl go lew, a'r goron daw-piau-hi gan Edgar Thomas. Y tro hwn sut bynnag cafwyd enillydd tra theilwng i'r Fedal Ryddiaith. A dyna roi bri ar y gystadleuaeth honno unwaith am byth. Ar ôl sefydlu'r Fedal Ryddiaith yn ddiogel, canfyddwn un wedd arall yn strwythur yr Eisteddfod Fodern wedi'i sicrhau. Wrth ddodi'r darnau yn y jig-so yn eu lle fesul un, ymdeimlwn â gŵyl amlweddog o arwyddocâd anferth yn cael ei hadeiladu, lawr uwchben llawr ger ein bron.

Yna, yn Eisteddfod Dinbych 1939, cafwyd Seiat y Llenorion, a chafodd rhai a hoffai ollwng stêm gyfle i gyflawni'r dymuniad hwnnw. Oherwydd gwendid y testunau a ddewisodd Pwyllgor Llên Dinbych, symol iawn oedd cynhyrchion Dinbych, ar wahân i un gystadleuaeth. Yr oedd pryddest Caradog Prichard eto ymhell ar y blaen i'r lleill. Gwallgofrwydd a hunanladdiad, hoff bynciau Caradog oedd baich y gerdd; ac yr oedd yn adleisio rywfodd yr hyn a ddigwyddai i ddiwylliant Cymru ar y pryd.

Yna, dyma ddigwyddiad enfawr yn disgyn fel bom: Rhyfel o'r diwedd yn cael ei gyhoeddi'n swyddogol; a ninnau'n symud ymlaen i ail ran cyfrol Alan Llwyd. Ym Mhen-y-bont yr oedd yr Eisteddfod i fod. Ond nis cafwyd. Dechreuai'r Eisteddfod led chwalu. Felly, dyma 'frwydr' gyfredol. Meddai Alan: 'y thema fawr amlwg yn hanes yr Eisteddfod rhwng 1940 a 1950 oedd y frwydr fawr i sefydlu'r Rheol Uniaith.' Ac efallai fod y naill wedi bod yn gymorth i'r llall. Methwyd â chynnal yr Eisteddfod yn y lle a ddaeth yn eilydd i Ben-y-bont, sef Aberpennar. Roedd y ddau le yn rhy beryglus oherwydd bomio strategaidd. Cafwyd Eisteddfod Radio yn lle hynny, a bu cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn llwyddiant drachefn gyda *Sgweiar Hafila* T. Hughes Jones.

Nid anghyffelyb oedd anawsterau Bae Colwyn 1941, Eisteddfod y Llenorion. A Rhyfel o hyd, ond y Sefydliad yn graddol Gymreigio. Bu Seiat y Llenorion yn nodedig am sawl rheswm. Ar y pryd, hen gneuen fu'r pwnc a gymerwyd yn destun i ddadl 'hanner llosg' (a gadawaf i'r darllenydd chwilio'r brif sgandal – yn sgil Syr Ifor Williams). 'Bod ar Gymru heddiw fwy o angen llenyddiaeth

i'r lliaws na llenyddiaeth i'r ychydig'. R.T.Jenkins druan yno a bleidiodd ochr y lliaws. Saunders Lewis a ddadleuodd o blaid 'safon' *i bawb.* Ac felly y bu ef yn pleidio'r hyn a ddaeth yn un o brif gymhellion gwaith llwythog Alan Llwyd ymhellach ymlaen – fel cyhoeddwr, golygydd a beirniad. Meddai Saunders Lewis: *Roedd ysgrifennu'n syml er mwyn denu darllenwyr newydd yn ymostwng ... yn rhyw fath o frad. "Puteinio athrylith" a wnâi hynny, a byddai'n bolisi niweidiol.'* Dyma ragor o hadau'r hunanladdiad llenyddol a ddechreuai hawntio tan heddiw. Fel y soniais o'r blaen, 'catholigrwydd safonol' oedd ac yw nod Alan. Bu ei frwydr hir dros safon, y tu ôl i'r llenni yn aml, yn waedlyd. Mae ei alwad am ymroddiad dwfn a hir a chelfydd yn anogiad taer i'r beirdd beidio ag ildio i'r ysgrifennu bythol ysgafn, cyflyru gormesedig a diofal. A safon yw'r unig bolisi call i genedl a chanddi hunan-barch, hyd yn oed yn y maes ysgafn. Nid mater o osod un math o lenyddiaeth yn erbyn un arall yw hyn. Nid chwaith, mewn gwirionedd, un ynghyd â'r llall. Does dim angen *sôn* am y fath ddeuoliaeth felltigaid o gwbl na'i chaniatáu'n agos i bolisi diwylliannol sefydledig. Dyna pam y detholodd Alan ei holl Flodeugerddi, a dyna un o'r prif resymau dros ei lyfrau Hanes a Beirniadaeth: sef i uno Safon. Bu'n frwydr arwrol i gadw Cymru yn genedl ddiwylliedig a haeddai barch am iddi gadw'i hunaniaeth urddasol a gwerthfawr, nid yn unig wrth sgrifennu'n ysgafn, nac wrth sgrifennu'n drwm, ond ym mhob sgrifennu.

Yn yr Eisteddfod ryfedd hon ym Mae Colwyn, cafwyd nofel fuddugol dda gan Gwilym R. Jones. Ond erbyn hyn, yr oedd yr anarchiaeth weinyddol (amser rhyfel) yn dechrau trechu selogion Eisteddfodol. Ac felly, drachefn y bu hi yn Aberteifi. Yna, ar ôl llawer o anhawster, symudwyd ym 1943 i Fangor, 'yr unig le yng Nghymru i roi cartref i'r Eisteddfod yng nghanol dau ryfel byd.' Ond gwanllyd oedd hon eto. A gellid disgwyl mai dyna fuasai dynged 1944, yn Llandybïe, drachefn. Eithr mae gan Alan ddawn i ganfod arwyddocâd pethau yn ôl eu hansawdd. Cafwyd yno – oherwydd y rhyfel – gyngerdd yn cynnwys y milwyr o Wlad Pwyl, a chantorion o wledydd y cynghreiriaid, Ffrainc ac yn y blaen. Deil Alan mai dyma'r hedyn i'r Eisteddfod Gydwladol ym 1947. Enillwyd y gystadleuaeth ddrama un act gan J. Kitchener Davies am ei waith *Meini Gwagedd*, drama anghyffredin a erys yn destun dadl hyd heddiw ... Braf enwi drama o'r diwedd.

Yn ystod yr Ŵyl ym 1945, yn Rhosllannerchrugog y cyhoeddwyd bod yr Ail Ryfel Byd wedi dirwyn i ben. A beth bynnag am y blerwch a'r dryswch a'r tlodi a'r anawsterau teithio a phob peth, yr oedd yr Eisteddfod rywsut er gwaethaf pawb a phopeth wedi dod drwyddi drwy groen ei dannedd, yn gymysg o ddathlu a marwnadu, yn un o'r clwyfedigion ar ryw olwg a ddaethai yn eu hôl. Glynwyd rywfodd wrth ddiwylliant a gwerthoedd yn wyneb pob ffieidd-dra a difrod a diflastod a wnaethpwyd.

Ceid eisoes deimlad yn Aberpennar 1946 fod urddas a hyder yn dychwelyd yn dawel bach bach. Cafwyd dau o facwyaid ein llenyddiaeth yn y cyfnod hwn, Rhydwen Williams, yn cael ei

goroni, a Geraint Bowen yn ennill y gadair. Gyda dwy gerdd wirioneddol deilwng, goreuon y cyfnod, dyma ni adref yn ddiogel. A rhydd y rhain gyfle i Alan drafod sylwedd, ymagor ac arddangos o'r diwedd ymhle yn union y ceid eu campau, ac ar dro eu gwendidau. Cawn anadlu yn awr.

Medd Alan Llwyd am Fae Colwyn 1947: 'Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng yr awdl a'r bryddest yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif yw tuedd y naill i drafod y presennol drwy gyfrwng y gorffennol tra bo'r llall yn trin cyfoesedd yn uniongyrchol.' Tardd sylw o'r fath o wybodaeth a phrofiad effro, a medr i gyffredinoli. Ond dengys ef gamp annisgwyl yn awdl 'Maelgwn Gwynedd' gan John Eilian, ac y mae'n ei chyfrif gydag 'Amaethwr' 1946 yn un o ddwy awdl orau'r cyfnod, gydag 'Y Graig' Rolant o Fôn yn drydedd. Dyna farn hyderus pencampwr.

Ond os yw Alan yn difrïo cywyddau'r cyfnod, y mae'n nodi sawl englyn gorchestol, gan gynnwys 'Y Gorwel' Dewi Emrys. Tua diwedd y pedwardegau, cafwyd tipyn o oes arian hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, gyda phryddest ail orau Elwyn Evans ym 1945, 'O'r Dwyrain', 'Meirionnydd' 1949 gan John Eilian, 'Difodiant' ym 1950 gan Euros; a chan fynd dros gwt y degawd, 'Adfeilion' T.Glynne Davies 1951, yn coroni'r coronau oll.

Yn yr arolwg hwn mewn dau waith swmpus ynghylch dau 'gyfnod', gwelir yn amlwg wedd arall ar arbenigrwydd Alan fel beirniad cyfoes pwysig – a hynny mewn tri pheth: yn gyntaf, yn rhychwant catholig ei ymdriniaeth ag amryfal fathau o farddoniaeth gyfoes ar y pryd; yn ail yn amrywiaeth disglair ei fedr i ddal ati i werthuso, er gwaethaf pob hiraeth gan rywrai i'r gwrthwyneb; ac yn drydydd yn ei allu i ganfod ac i dreiddio i'r afael ddramatig sydd gan ddigwyddiad mewn cyfnod i estyn ei gysgod dros llenyddiaeth. Am yr hyn a ddywed Alan o blaid arwyddocâd yr Eisteddfod, nid oes amheuaeth nad yr hyn a brofwn yn llawn, yn ei holl arolygu ef o gyfnodau'r ugeinfed ganrif, yw'r egni cymdeithasol enfawr a gafwyd drwyddi.

VI CANON

*Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif, 1987*

Hobnobian gyda'r canon a wna blodeugerddi.

Does yna neb yng Nghymru erioed wedi golygu cynifer o flodeugerddi ag Alan Llwyd. Y fwyaf a'r bwysicaf o'r rheini yw *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* 1987, ar y cyd gyda Gwynn ap Gwilym (a Gwynn a luniodd hefyd y Rhagymadrodd). Alan a luniodd y nodiadau (117 o dudalennau). Clamp arall o Flodeugerdd yw *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg*, 1988. Ond dichon mai'r fwyaf poblogaidd o'r Blodeugerddi oll oedd *Yn Nheyrnas Diniweidrwydd: Blodeugerdd Barddas o gerddi am blant a phlentyndod,* 1992, sy'n dweud rhywbeth am y cyhoedd Cymraeg efallai. Rhaid bod *Y Flodeugerdd Englynion,* 1978 (a'r ail argraffiad) a *Nadolig y Beirdd* 1988 hwythau yn agos ati. Mae'n sicr bod y rheini, ynghyd â llu o Flodeugerddi eraill, wedi bod yn gaffaeliad amhrisiadwy ar gyfer cyhoedd ac athrawon a oedd wedi bod yn sychedu am y cyfryw gyflwyniadau i lenyddiaeth ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Bu'r gwaith hwn oll yn anferth. Dof at Flodeugerddi o fathau eraill wrth drafod ei Themateg.

Ond arhoswn yn benodol gyda'r fwyaf swmpus o'r blodeugerddi gan fod ambell un wedi llwyddo i beidio â chroesawu'r gyfrol honno. Yn wir, dechreuodd y gyfrol hon ar yr Ugeinfed Ganrif ychydig o ddrama ddiddiolch. Drama oedd a lefarai dipyn am israddoldeb y Cymry.

Gellid meddwl y buasai rhywrai'n holi – beth yn y byd y bu pobl eraill ynghynt yn ei wneud yn yr ymgais yna i ddigoni'r fath angen mawr am flodeugerdd? O'r diwedd dyma gymwynaswr unigolyddol. Mentrodd hefyd, ledled ei feirniadaeth, osod ger ein bron y criteria llenyddol (nid newyddiadurol) ar gyfer y gyfrol. Nid anghyfarwydd yng Nghymru oedd negyddu croeso i'r fath ddieithrwch swmpus. Fel hyn y flwyddyn wedyn yr anghroesawyd *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau:* 'Prin iawn yw'r darnau gogleisiol – heb sôn am ddweud amharchus, enllibus a phriddlyd ... Gormod o wŷr llên sy'n flinder go fawr ... Onid oes dim gwerth ei ddyfynnu i'w gael ar dudalennau *Pais*?' Eto, cyfaddefwyd yng nghanol y fath arwyneboldeb penwresog: 'Y mae cynnwys Blodeugerdd fel hon o'r pwys mwya' am ei bod yn llunio delwedd ohonom ni i ni'r Cymry.'

Mae'r frawddeg olaf hon, o leiaf yn fwy treiddgar na'r lleill am ei bod yn awgrymu bod yno mewn Blodeugerdd bob amser ddehongliad. Diau fod y dehongliad hwnnw'n wahanol gan bawb, er nad yw pawb yn hoffi cyfaddef hynny. Ond yn y fan hon, ac yn y cyfrolau blodeugerddol eraill, cawn ddelwedd benodol ddadlennol o gadarn gan Gymro catholig nid diofal, un a fynnai wynebu digrifwch Idwal Jones a difrifwch Emrys ap Iwan, blaenoriaeth y Beibl yn y meddwl dyfyniadol Cymraeg anochel, ac unigrywiaeth athrylithgar y Gynghanedd, heblaw'r hunaniaeth genedlaethol a'r ymwybod o'r frwydr foesol. Gellir cael gwahaniaeth barn wrth gwrs gan y plentyn lleiaf o

adolygydd; ond gan rywun mewn oed, disgwylir archwilio'r ddelwedd yn gyntaf, heb filwrio'n unbenaethol yn erbyn yr hawl elfennol gan y blodeugerddwr i ganfod delwedd wahanol.

Bu ambell un yn achwyn fod Alan Llwyd yn ei gynnwys ei hun mewn rhai o'r Blodeugerddi hyn, megis *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif.* Es i chwilio beth oedd y *decorum* gan nifer o flodeugerddi eraill, megis gan Wasg Rhydychen yn y ddwy Flodeugerdd Saesneg a gyhoeddwyd o farddoniaeth yn yr ugeinfed ganrif, y naill wedi'i golygu gan W.B.Yeats ym 1936 a'r llall gan Philip Larkin ym 1973. Yn y ddwy, yr oedd gan y golygydd ddigon o onestrwydd ac yr oedd yn credu digon yn ei waith ei hun – ac yn gywir felly – i'w gynnwys ei hun mewn modd teilwng. Ni fu sibrwd yn erbyn hynny mewn gwledydd hyderus, megis Lloegr.

Wedi'r cwbl, gwaith creadigol sy'n fynegiant o'r awdur ei hun yw pob Blodeugerdd.

Bu rhywrai yn poeni bod Gwynn ap Gwilym wedi cynnwys, yn ddiymwybod, y golygydd arall o dan ddau enw. A chafwyd Meilir Emrys Owen yn sathru ar gyrn pobl. Ond esbonnir yr 'amryfusedd' hwnnw'n ddigon teg yn yr hunan-gofiant. I'm bryd i, anochel i Gwynn ap Gwilym oedd cynnwys Meilir Emrys Owen ynghyd ag Alan Llwyd yn y gyfrol am fod eu cerddi ar gael dan yr union anhysbysrwydd yna. I mi, cynrychiolant ddwy wedd ar wreiddiau un o'r golygyddion. Yr oedd 'Alan Llwyd' fel y'i gwelir yn y gyfrol hon yn cynrychioli'i gefndir gwledig a'i gwreiddiai mewn Rhamantiaeth a 'Meilir Emrys Owen' yn adlewyrchu'i sylweddoliad cyfoes llawnaf trefol a diwydiannol. Dywedai amryw mai Meilir oedd y gorau o'r ddau fardd, ac yn sicr, beth bynnag oedd ei amheuon, yr oedd Gwynn ap Gwilym yn llygad ei le wrth fynd ymlaen i gyhoeddi'r cyfan.

Ond fe garwn i sôn (yn gymharol) am fardd pwysicaf Portiwgal yn y cyfnod diweddar, sef Fernando Pessoa. Bu ef yn sgrifennu o dan wahanol enwau, (Alvero de Campos, Alberto Caeiro, Ricardo Peis, a Fernando Pisson), fel hefyd y gwnaeth Alan o dan wahanol fygydau arddull a chynnwys. Cynigiodd Hamburger (ac oherwydd yr awgrym hwn yr wyf yn cyfosod Alan) fod y bardd Portiwgalig wedi profi trawsblaniad diwylliannol a chorfforol, a bod a wnelo hyn rywfaint â'i ddatblygiad anghyffredin. Gyda Meilir Emrys Owen yntau cafodd Alan drawsblaniad cyffelyb a chwyldroadol bersonol yn gefndirol, o'r wlad i'r ddinas. Cynnyrch hynny a geir yn y ddeuoliaeth ddifyr ac o bosib isymwybodol (i raddau) hon. Ni wn a allesid trafod y broblem yn well.

Mae'n ddeuoliaeth arwyddocaol. Rwyf am gymharu cerddi annisgwyl 'Meilir Emrys Owen' â cherddi cynnar un o'i gydnabod mwy adnabyddus, os llai grymus ym mryd rhai beirniaid, sef 'Alan Llwyd', a'r un pryd gyda cherddi cynganeddol (a rhydd) beirdd eraill ei genhedlaeth yn gyffredinol. Ni roddir mwy o le i amrywiaeth y ddau fardd gyda'i gilydd nag y dylai fod, yng nghyd-destun y casgliad teilwng i eraill. Yr oedd gan Alan ar y pryd ymwybod byw – ac yn wir y mae gennym o hyd, i raddau llai, gnwd o feirdd (dau gant efallai) sydd yn grefftwrol – yn y traddodiad, yn synhwyrus effro, yn gynnil eu hawgrymusedd: hynny yw, sy'n artistiaid; ac yn fwy na hynny maent

yn ddawnus ddychmyglon. Ond yn achos yr Alan Llwyd ifanc, ceid eisoes sensitifrwydd eithriadol afieithus ac amlwg yn ei driniaeth ei hun o'r iaith. Bu trwch y beirdd cynganeddol (a rhydd) hyn wrth gwrs yn dal i byncio yn rhigol rhamantiaeth. Bu hyn at ddant darllenwyr henffasiwn. Ond fe geid cerddi eraill (er mawr ofid i lawer o ddarllenwyr) a oedd wedi trechu cyffredinedd cywair teimladlyd a rhwydd y llais barddonllyd. Roeddent wedi camu i mewn i berthnasoldeb cyfoesedd. Nid cyfoesedd 'pwnc' neu 'eirfa', ond cyfoesedd llawer prinnach sy'n wynebu'r meddwl a'r teimlad a'n hwyneba heddiw. Weithiau, y mae hyn wedi digwydd oherwydd eu bod wedi dod yn gyfarwydd â'r hyn sy'n digwydd nid yn unig yn allanol eithr hefyd yn fewnol mewn ieithoedd eraill. Yn y gorffennol agos, suddodd ein beirdd o dan ddylanwad Saesneg – yn arbennig y beirdd rhydd. Fel arfer, bu'r dylanwad seicolegol hwnnw yn llestair i annibyniaeth. Drwy drugaredd, y mae'n rhaid meddwl yn ddwysach nag sy'n boblogaidd wrth ymdrin â rhai beirdd cyfoes. Dichon fod rhyw ddwsin o feirdd felly. Ac eto, llwyddo a wnaethant oherwydd eu gwreiddiau mewn Cymreictod ac oherwydd eu hymaflyd â phatrwm beirdd llai taeog canol y ganrif. Felly y bu'r berthynas â Saunders Lewis, Gwenallt ac Euros ac eraill – i raddau yn eu cyfoesedd Cymreig a Chymraeg hwythau. Dyma gam nad oedd yr Alan Llwyd cynnar wedi'i wneud yn llawn. Daethai ef i mewn i farddoniaeth drwy borth rhamantiaeth wledig. Ond dysgodd yn fuan wynebu mewnolion Moderniaeth, heb anghofio'i wledigrwydd gwreiddiol. A blodeuodd Meilir Emrys Owen o'r herwydd. Cam ymlaen mewn creadigrwydd oedd. A symudiad cymdeithasol daearyddol.

Ymhlith y beirdd cynganeddol cyfoesaidd ceid rhywrai a feddai ar adnoddau cyfunol eraill. Yr oedd yna leiafrif ohonynt yn bur gyfarwydd â beirniadaeth lenyddol fydeang. Dysgent am y modd yr oedd caneuon wedi ymffurfio mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Hynny yw, ymwnaent nid yn unig â beirniadaeth Ffurf a Deunydd, eithr hefyd â choron Beirniadaeth Lenyddol, sef yr hen gyfaill Gwerthuso – yr wybodaeth brofiadol o fewn traddodiad y Canon a myfyrdod ynghylch gwaeledd a rhagoriaeth llên yn weddol eang mewn sawl llenddull. Rhoddai hyn i Feilir Emrys Owen fframwaith dethol caled yn ei sgrifennu a modd i'w fesur ei hun yn ei erbyn. Dyfnhaodd ei gelfyddyd. Gwnaeth hyn ei waith yn bur neilltuedig ac ar wastad arall, ac yn wahanol i'r rhelyw. Hynny yw, dysgodd fyfyrio am ei gelfyddyd mewn modd amlochrog a chatholig; nid meddwl am *bethau* cyfoes yn unig, ond meddwl am *gelfyddyd* gyfoes. Hyn a flodeugerddwyd.

Cafwyd hefyd gan Feilir Emrys Owen ysfa feirniadu ar y pryd, obsesiwn dweud yn wir, gyriant yn nyfnder ei enaid a'i meddiannai ac a'i hysgydwodd: dweud rhywbeth ynghylch y byd hwn a oedd wedi cyffwrdd ag ef i'r byw, ac yn fwy na hynny a ymluniodd yn weledigaeth. I rywrai, roedd holl episôd Meilir Emrys Owen yn jôc neu'n chwarae newyddiadurol. Ond i lenyddiaeth Gymraeg ei hun yr oedd yn achlysur o bwys. Llyncesid y Gynghanedd orau yn rhy aml ynghynt gan y mawreddog difrif a'r urddasol cryno, o waith crefftwyr cefn gwlad efallai; a gadawyd

llacrwydd rhythm a chartrefolrwydd llafar fwyfwy i feirdd 'rhydd'. Profai'r newid cyfoes fod bywyd y gynghanedd mwyach wedi mynd i fywiogi fwyfwy ac efallai symud y tu allan i ddyrnaid bach o fesurau gorgryno. I mi, cododd holl episôd 'Meilir Emrys Owen' gwestiwn mawr ym mywyd Alan, sef teyrngarwch i Ganon. Gallai arwain ymlaen at anarferoldeb Dewi Stephen Jones.

Gwiw (bûm bron â dweud Rhaid), mewn llenyddiaeth gyfrifol, ym mhob cenhedlaeth, gael rhai beirdd o ddifri. Hynny yw, beirdd y mae barddoniaeth o'r pwys mwyaf iddynt, rhai sy'n myfyrio'n ddwys am eu galwedigaeth, gan astudio'u celfyddyd, ac yn rhoi amser sylweddol i'r gwaith cyfansoddi. Yn groes i'r graen i Ôl-fodernwyr, mae ganddynt hefyd rywbeth pwrpaslon unigryw i'w ddweud y tu allan i drendïaeth.

Wrth gwrs, digon difyr yw prydyddion newyddiadurol sydd am gael sbort. Nid bychanu llenorion ysgafn ffwrdd-â-hi yw dweud hyn, y rhai nad yw llenyddiaeth ond yn hwyl ac yn sbri neu'n hobi hyfryd iddynt. Y mae'r rhain hefyd yn dra angenrheidiol a gwerthfawr. Ond y mae gennyf reswm arbennig a chyfoes dros gyfeirio at ddifrifwch yr alwedigaeth farddol ym mryd rhywun fel Meilir. Cyraeddasom gyfnod pryd y cafwyd ymosodiad pur blentynnaidd ar ddifrifwch barddoniaeth gyfoes. Ac fe ddaeth 'difrifwch' ac 'absoliwt' o dan lach '*difyrrwch*' confensiynol. Gair yw hwn sy'n cyfeirio at fyrhau amser. Ac un o'r pethau sydd ynghlwm wrth amser ym mryd y celfyddydau yw ffasiwn, chwiw, trendïaeth, arddangosfa dros dro, tynnu sylw rywsut rywsut, a 'bod yn boblogaidd'. Nid oes a wnelo â'r cyfoesedd sy'n gofyn perthnasoldeb, neu'n wynebu'r amgylchfyd a'r sefyllfa sydd ohoni. Mae a wnelo â dianc. Mae a wnelo'i feirniadaeth â phlygu i allanolion arwynebol.

Anodd efallai inni ddeall ein gilydd ar hyn. Nid mater o geidwadaeth onglog yw nac o gilio rhag dylanwadau estron, hyd yn oed rhag dylanwadau Saesneg-Americanaidd hoff. Ond wrth dderbyn mai gormes yw'r cyfryw ddylanwadau, yn aml o fewn cyd-destun hyder cenedlaethol, fe all ddigwydd weithiau yn sgil prinder gallu i ymgodymu â phethau o'r fath mewn modd Cymreig swrealaidd, meddylgar, neu greadigol. Weithiau digwydd oherwydd gwaseidd-dra ac israddoldeb efelychaidd yn sgil Cymreictod taeog. Hynny yw, y mae cyfoesedd Cymreig, ar ei waethaf, yn rhy aml yn gallu golygu adleisio llipa, rhyw dorri cyt dan gysgod y mawrion tramor. Er gwaethaf y cefndir o ddifrifwch rhwymedig brodorol ac o syfrdandod mawl gwydn a llydan yn y cyd-destun brodorol, ymgreinia ein llenorion i fod weithiau yn estroniaid ail-law.

Mae Blodeugerddi'n dethol eu cynnwys er mwyn dweud rhywbeth wrth gyfnod fel hwn; ac adeiladant weledigaeth am oes sy'n gymhlethog. Seilir hwy ar Feirniadaeth.

Paradocs celfyddyd greadigol felly yw'r pennaf peth sydd gennyf i'w ddweud am gerddi Meilir yn y Flodeugerdd. Ar ryw olwg, hyn oedd stori'r gyfrol: hyn hefyd oedd symbol y cyfnod. Pennod oedd mewn saga. Mae'r artist yn cyflwyno'n swil ac yn ofnus, ond yn herfeiddiol, ac yn wir

mae'n gallu corffori drylliadaeth a hyd yn oed ddiffeithwch yn thema, heb iddo'i hun fynd yn ysglyfaeth i'r ddrylliadaeth a'r diffeithwch yna. Wrth wneud hynny, ni raid 'ennill' yn optimistig thematig. Ni raid cael diwedd hapus i'r stori. Neu fel y gellir ei ddweud: does dim cyfleustra 'deus ex machina' iddo, sef yr achubiaeth foeswersol hwylus honno sy'n gallu'n cipio ni o'r sefyllfa fel cafalri. Uffern gynyddol yw'r testun annifyr, o bosib, gan Feilir. Gŵyr y cyfoeswr arwyddocâd trosiadol hwnnw. Mae'n destun canolog i'w fyfyrio. Nid yw'n peidio ag wynebu'r ffaith honno. Er y gall y bardd mewn mannau neu gerddi eraill ymlawenhau mewn cadarnhad, fe'i gwna o fewn crynswth ei gelfyddyd. Ni raid iddo fel mater o 'wirionedd cyflawn' ein gadael ni yn hyfryd braf ar ddiwedd pob cerdd mewn cysur dymunol. Ni raid iddo wanhau colledigaeth ddifrif. Ac eto, nid yw ei gelfyddyd yn cael ei diffeithio. Yn hyn o beth, mae ei farddoniaeth yn esbonio, yn well na dim, ei ddyfalbarhad a'i benderfyniad. Mae'n wynebu y sefyllfa gyfoes farddonol o'r newydd.

Pam hynny? Pe hepgorid y trawma'n llwyr, fe beidiai â bod yn ef ei hun. Yn sylfaenol, fe gollai'n diddordeb. Ni byddai'n ystyrlon. Mae'r ymuno â chelfyddyd yn dwyn, gyda'r weithred ofnadwy ei hun, yr amodau sydd ynghlwm wrth ddeall, wrth iaith. Ac wrth estheteg. Er mwyn meddiannu'r negydd yn gelfyddydol, i'r graddau sy'n ystyrlon ac yn angenrheidiol, a chyd-deimlo â'r cyflwr hwnnw, a denu iaith allan ohoni, yr hyn a ofynnir gan y bardd hwn yw cerdded i mewn i'w thema yn ddifloesgni, yn 'afaelgar', yn ostyngedig, hyd yn oed efallai mewn gwendid a dychryn, heb gael ei ddifetha. Ni wnâi hynny heb golli naill ai'i anhybysrwydd neu'i gyfraniad angenrheidiol.

Gall yr ystyr honno ei hun, hyd yn oed yr ystyr a ddengys ffieidd-dra diffyg ystyr, fod yn fuddugoliaeth gelfyddydol. Mae celfyddyd ei hun yn gorfod trechu'r ddrylliadaeth heb ei hosgoi. Erys yr artist yn fod cyfansawdd. Hynny yw, ambell waith, wrth ymhél â'r pridd a'r hagrwch a'r eithafion creulondeb a gwacter, y mae dyn yn medru mynd yn rhan gadarnhaol ohonynt. Medr ymddangos hefyd fel pe bai'n ymwahanu. Ond am mai llenydda y mae, erys yr undod, yn gêl fel petai, ar yr ymylon hyd yn oed, ond yn ddifföedigaeth yno. Erys ei gymeriad fel y'i cyflwynwyd.

Am y rheswm hwn, cafodd y ddau olygydd, ryw fath o brif thema gudd ond teg sy'n seilio'r Flodeugerdd hon. Blodeugerdd *ymrwymedig* yw mewn anundod; ond mae gan y Flodeugerdd gyfeiriad, a rhywbeth i'w ddweud am y greadigaeth. Ac nid anobaith oedd i gyd.

Beth felly sy'n gosod cerddi Meilir ar wahân, yn arbennig o fewn gwaith cyflawn y bardd? Mae ganddo (o dan ei enw cysefin) rai cerddi eraill cyn gryfed bob dim â'r rhain, yn achlysurol. Ond dyma grŵp, o waith Meilir, awdur a'i waith sy'n greadigaethau fel ei gilydd, ac i mi yn ffurfio uchafbwynt cyfnodol i'w yrfa feirniadol a barddonol. Beth a ddigwyddasai i Alan Lloyd Roberts?

Mae ganddo bob amser gelfyddyd amlwg gaboledig a meistrolgar ym mhob alias yn ei gynnyrch. Bob amser mae'n fwy na chrefftwr: mor gryf yw ei ddychymyg a'i feistrolaeth gelfydd ar iaith ac ar adeiladwaith, a chan gymaint yw egni'i ddelweddau, fel y gall ddibynnu arno'i hun i gadw

safon. Mae ganddo gymaint i'w ddweud am fywyd, gan gynnwys ffurf bywyd. Mae'n sawl person.

Ond dyma ddawn beryglus yn ei hunaniaeth gyfansawdd seicolegol. Mor ddwfn yw ei gefndir mewn llenyddiaeth Gymraeg ac mewn llenyddiaethau eraill, ac mor rhydd ei fynegiant, mor gatholig yw ei hunanfeirniadaeth, fel y gall sgrifennu llawer math o waith gan gynnwys yr hyn y buom oll yn tueddu i'w hoffi yn ifanc – deunydd melys, persain, pert, rhamantus; delweddau cryf a syml mewn ieithwedd loyw. Gall raffu pethau poblogaidd hyd yn oed, heb ymgreinio. Gall sgrifennu'n dda ar unrhyw destun dan yr haul. Mae megis Gogynfardd yn ein plith – yn fardd cwbl broffesiynol, sicr ei gyffyrddiad, hyfforddedig ei gefndir yn llenyddiaeth ein cyfnod a'n diwylliant Ewropeaidd. Gall gynhyrchu cerddi o lawer math gan sicrhau bod y canlyniadau'n ddibynnol wych. Crefftwr acrobatig hefyd yw. I mi, ffurfia'r cerddi hyn fath o bersbectif i'r gyfrol. Ond y mae hyn oll yn beryglus. Seiren gerllaw'r creigiau yw. Beth sy'n peri bod y cerddi neilltuol hyn – o fewn cyd-destun o ysgrifennu cyson loyw o'r tu ôl i un wyneb – yn codi oddi ar yr amgylchfyd heriol boblogaidd hwnnw i lefel anghyffredin ac eithriadol? Mae yma fwy o lawer na hunan-feirniadaeth.

Mae yma ddifrifwch absoliwt. Dyma yn y ddeuoliaeth un ateb plwmp a phlaen a sefydlog i fywyd. Cafodd calon y bardd ei chystwyo, fel y cystwywyd diwedd y ganrif ddiwethaf yn ysbrydol. Sarhawyd yr holl gyd-destun. A thrwy drugaredd, arweiniwyd y weledigaeth a gafwyd i blith profiad celfyddydol o weithred lle y troir y dwyster hwnnw yn ddelweddau o arwyddocâd bydeang. Dyfnhawyd golwg y bardd yn y deunydd. A gallai alw yn awr ar ei grefft i ddod gydag ef drwy'r gwelediad ysbrydoledig hwn. Mae'n fwy na llais gan ei gyfnod: mae'n llais ar gyfer ei gyfnod.

Mae hyn yn fwy na chri am gymorth. Mae'n fwy o lawer na chyffes. Fframwaith yw'r Cyfarfyddiad yn driphlyg rhwng celfyddyd ddyrchafedig, profiad gafaelgar gonest, a deall llym. Ar gyfer hyn y'i paratowyd ef. Ysgrifennodd y bardd awdlau a phryddestau, englynion a thelynegion di-rif, fel y gallai ryw ddiwrnod o bosib pan ddôi'r cyfwng – pe dôi'r cyfwng – gyfarfod â'r tri hyn yn hyderus. Ac fe ddaeth y diwrnod hwnnw gyda Meilir Owen. Dyna pam (yng Nghymru) y bu'n rhaid dyfeisio'r bardd hwnnw. Ond nid drwy ganslo'r bersonoliaeth arall. Bu canu'r pethau bach, distadl, gwylaidd, ysgafn tua'r un pryd hefyd yn ollyngdod celfydd ac yn rhan o'r darlun.

Bydd rhywrai newyddiadurol o bosib yn hoffi troi'n gofiannol o gylch yr amgylchiadau neilltuol hyn ar y pryd a'r cefndir cynnar a'r personol a'r croendeneurwydd. I ddarllenydd llenyddol o ddifri, sut bynnag, rheitiach yw ymaflyd ac ymrwymo yn y cerddi sy'n fynegiant o fywyd ac a all fod yn straen i'r hydeimledd. Mae'n rhy rwydd dianc i hanes a cholli'r sylwedd. Cenedl na all dyfu'n oedolyn sy'n gwneud pethau felly.

Dychymyg yw'r cerddi: creadigaeth dychymyg. Nid hanes syml confensiynol sydd yma. Nid ffotograffau yw'r rhain. Creadigaethau uwchlaw hanes ydynt ym meddwl ac ar dafod bardd archolladwy, drwy'i gyhyrau a'i welediad myfyriol a'i bum synnwyr a'i iaith afaelgar a'i

ddeallusrwydd. Ni ddigwyddodd y rhain yn unman ond yn y fan yna o dan egni ei fysedd prysur. Ond cyfrannwr oedd hanes i hyn, gweinydd hylaw gwasanaethgar. Argraffwyd yr amseroedd arno. A delwedd Cydymaith eidetig oedd y cyfwng. Cynrychiolydd gwych yw i gyfnod.

Efallai fy mod wedi gor-wneud y pwyslais ar arbenigrwydd neilltuedig y cerddi penodol hyn. Dichon i mi or-awgrymu mai yn y gyntaf o'r rhain y dechreuodd y bardd o ddifri, a chyda'r olaf y'i claddwyd. Ddim o gwbwl. Digwyddodd pethau cyffelyb ynghynt yng ngwaith Alan Llwyd y llanc. Ac o bryd i'w gilydd, fe ddigwyddasant wedyn o'r herwydd yn ei aeddfedrwydd. Eto, y symbol mwyaf union gynnil o brif ddatblygiad barddoniaeth yr ugeinfed ganrif yw'r frwydr a gafwyd rhwng Alan Llwyd ifanc â Meilir y beirniad-fardd hen.

Gyda chrynswth y cyferbyniad hwnnw y cafwyd hefyd fath o undod cywair ac ysbrydiaeth eithriadol. Cynrychiolent **un** ymweliad mawr â phen y mynydd. Nid ymweliad dymunol mohono. Ni charai'r bardd, na ninnau chwaith, breswylio'n rhy hir mewn man felly. Ni allem fyw fel yna. Ni allai'r bardd aros fel hyn o hyd ac ymdroi'n dragywydd gyda'r fath destunwaith. Ni all neb ohonom ddal hynny yn rhy estynedig. Mae bywyd yn llawnach na hyn. A llawnach o lawer yw gwaith y bardd. Llawnach yw'r Flodeugerdd ar ei hyd. Ond mae'r ddau olygydd yn siarad o fewn y Flodeugerdd hon hithau tuag at bigyn o'r fath. Cafodd y golygyddion ill dau broblem. Ac fe'i datryswyd yn gywir, meddwn i.

Bu peth o'r helynt o ddiddordeb canolog, gredaf i, yn hynt cyhoedd llenyddiaeth Gymraeg. Ar ryw olwg, adlewyrcha hyn y cyhoedd, a'r cyfryngau ar y pryd, i ryw raddau, yn eu harwyneboldeb tshep yn aml. Mae peth ohono'n destun cywilydd inni o ran diymadferthedd anfedrus. Bu cyfnod Meilir a chyfnod y Flodeugerdd yn gyfnod o galedu yn hanes y bardd. A chan ei fod yn feirniad hefyd, fe ŵyr hynny yn ddiau. Dyna yn wir a'i hachosodd. A fu temtasiwn iddo hiraethu o'r newydd am argyfwng o'r fath, neu o leiaf am ei gynhyrchion? Nis gwnaeth. Ac erys ei argyfwng o hyd gan 'ail-wau sanau' ym mryd pobl eraill, fel y bydd argyfyngau newydd a hen yn yr ail ganrif ar hugain. Mewn gwirionedd, rhyfel erioed i Alan fu bod yn fardd: cynnyrch ei oes.

Dewisais yr adran hon, o gerddi Meilir, yn ofalus i gynrychioli perthynas y bardd a'r beirniad am mai amhosibl oedd trafod y gyfrol ar ei hyd hebddynt, a holi pam hyn a pham y llall, pam nad hyn ac nad y llall. Personol a dehongliadol a rhagdybiol yw pob blodeugerdd.

Ond yr wyf yn gweld y pymtheg cerdd hyn yn ymrannu'n ddwy garfan – y personol a'r cymdeithasol (os derbynnir bod y cymdeithasol hefyd yn hanfodol bersonol, ac yn rhannu'r gyfrol ar ei hyd o leiaf yn ddwy garfan), ac eto'n undod.

Ymddengys y tair cerdd gyntaf yn grŵp goddrychol. Nid dweud yr wyf nad oedd dim o hyn wedi digwydd yn llythrennol i'r bardd ei hun. Eto creadigaeth yw'r awdur. Does dim oll yn digwydd yn llythrennol yn unig i neb; ac eto, y mae popeth yn digwydd yn llythrennol. Gwir nad disgrifio'n

syml y mae'r bardd. Nid 'dim ond storïau' yw'r rhain. Fel hyn y buwyd wrth gwrs, yn ei gelfyddyd, yng ngwirionedd ei weled, yno lle y mae pethau'n fwy gwir. Nid cronicl mohono, ond seremoni sagrafennol.

Nid dweud yr wyf chwaith fod y tair cyntaf hyn heb fod yn gymdeithasol, a bod y dwsin arall heb fod mor bersonol. Ond yn y tair hyn y mae ef yn fwy unplyg yn ei ymgrynhoi uwchben profiad yr unigolyn. Mae'n ymwthio'n fwy elfennaidd bersonol.

Yn y dwsin o gerddi sydd ar ôl, try'r bardd a sylweddoli estyniad presenoldeb hyn oll – y cau drws, yr hunanladdiad, y brofedigaeth o golled erchyll – yn brofiad cymdeithasol sobor. Taflunnir y personol i sefyllfa lle y mae'n adlewyrchu'r byd. Datgenir beth sy'n digwydd i bawb yn y gyntaf o'r cerddi hyn:

*Llefaraf ar ran yr holl feirwon ...*
*yn fy wylo y mae wylo deng miliwn ...*
*Ni ein gilydd yw pob unigolyn.*

Rhagymadrodd yw'r gerdd gyntaf yn y grŵp, neu gyflwyniad, i'r dwsin hwn o gerddi. Dywed wrthym beth sydd ar gerdded yn yr holl garfan hon. Yn y cerddi hyn y mae'r bardd yn ymestyn yn negyddol i'r mewnddrychol unigol:

*Nid myfi yw myfi fy hun.*

Yn rhyfedd iawn, nid siarad amdano'i hun y mae'r bardd, er ei fod yn gwneud hynny hefyd:

*llefaraf ar ran y lleiafrif a'r mwyafrif mud.*

Cerdd yw hon am y Flodeugerdd i gyd:

*llefaraf fy ngeiriau â genau burgynod.*

Beth yw ystyr hyn? Beth sydd a wnelo â'i hunaniaeth?

Drachefn, na adawer i deitl y gerdd hon, a'r adran hon, ein twyllo. Sgrifennu y mae ar ryw olwg 'Awdl yr Ugeinfed Ganrif' yn ôl gwirionedd, ac eto yntau'n Fardd Rhufain adeg ei chwymp cyntefig, ac yn Fardd Ffrainc yn y ddeunawfed ganrif. Amlwg yw hefyd wrth gwrs mai Bardd yr Almaen a Bardd Rwsia yn hanner cyntaf yr ugeinfed yw, yn ogystal â Bardd cysuron imperialaidd America. Ond y mae hefyd yn Fardd Porth Ceiriad. Ymollyngodd y bardd i mewn i draddodiad llydan mewn smotyn. Dyma'i amlder.

Dethol a wnâi'r Blodeugerddwr hwn yn ei brofiadaeth a'i grefft. Ond y mae bardd fel Meilir Owen bob amser yn ceisio safon. Mae'n perthyn i gymdeithas sy'n cynnwys Primo Levi, Lorca, Gertrud Kolmar, ac Acmatofa yn ogystal â Hedd Wyn a Goronwy Owen. Mae'n sychedu am eu cwmni oll. Ni fodlonodd ar y twll-dan-stâr diog. Llosgai ei awydd am egni ac amrywiaeth a grym eu hawen hwy i wynebu bywyd.

Y seiren sy'n crogi uwchben pob bardd Cymraeg o ddifri yw aros yn y twll-dan-stâr gyda

thraddodiad llafar syml sy'n troi sŵn yn ddifyr ysgafn ddiogel gul yn yr unfan ar gyfer criws. O! Am fod yn boblogaidd. Ond oddi yno uchelgeisia'r nefoedd weithiau. Cripiodd Cymreictod i mewn i ddiffyg uchelgais; a chollwyd her Cymreictod. Wrth gwrs, mae'r traddodiad llafar yn eithriadol o werthfawr. Ond daeth y Wasg Argraffu a'r Cyfrifiadur, yr Oleuedigaeth a'r Ymoleuo, y Mudiad Rhamantaidd a Moderniaeth. Ac Ôl-foderniaeth anochel. Ac os yw'r Gymraeg yn mynd i fynegi ymateb cyfoes hunan-lywodraethol lenyddol i'r oes hon, bydd rhaid iddi ddod allan o'r twll.

Un o rinweddau *Blodeugerdd Barddas o Farddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif* yw ein bod wedi arogli cyfoesedd Cymru yn y gyfrol hon. Diolch am ddau fardd. Gwynn a luniodd y rhagymadrodd, ac Alan y nodiadau. Alan a ddewisodd y beirdd rhwng 1900 a 1967, Gwynn ap Gwilym a ddetholodd y saithdegau a'r wythdegau. Yr ydym eisoes wedi awgrymu rhannu'r cwmni oll yn dair carfan. Y rhai henffasiwn odlog efallai, penilliog rheolaidd, efallai'n gynganeddol, hiraethus am yr hen gwm, a'r pridd a fu; ond yn llond eu croen o synnwyr cyffredin, ac yn fynych yn ddawnus awenyddol. Ar y pegwn arall, ceid rhai o'r cwmni a geisiai drafod y dull cyfoes o feddwl a gwrthrychau mwy cyfoes, rhai heb fawr i'w ddweud yn llwyddiannus ysywaeth, efallai yn weddol elfennol eu 'crefft', ac erbyn 2004, yr oedd yn weddol rwydd i ymwared â llawer o'r rheini o'r cyfnod cynharaf, er bod yna amryw hiraethlon gwledig yn dal i byncio. Mae'r naill a'r llall, yn tueddu i suddo o dan ddynwarediad, y naill ddosbarth yn dilyn traed lleidiog hen ŷd y wlad o'r cyfnod rhamantaidd hiraethus; a'r llall yn tueddu i ymbincio'n newyddiadurol dros dro, ac i suddo gan ddilyn llongau gofod Câp Canawarel. Stori Gwlad a Dinas. Cyffes yw pob Blodeugerdd fodern.

Ond yn y canol, ceir rhai sydd heb blygu i'r naill duedd na'r llall, ac eto sy'n gwbl gyfarwydd â'r naill garfan a'r llall. Hynny yw, gallant fod yn wledig heb ymadael â'u cyfoesedd, ac yn awenyddol wrban heb fod yn fflat. Gellid gweld y rhain yn ymrannu eto yn ddwy garfan. Y rhai ysgafn, ffraeth; a'r rhai difrif dwys. Mae'r grŵp cyntaf yn wynebu tasg rwystredig ddwys i wneud gwaith sy'n boddhau'r meddwl beirniadol craff uwchlaw newyddion y dydd. Ond i'r ail grŵp o blith y rhain, y mae Bryan Martin Davies, Gwyneth Lewis, Mererid Hopwood a Dewi Stephen Jones (ac eraill) yn perthyn. Dyma lwyth Meilir Emrys Owen. Mae'n grŵp amheuthun.

Gellid ystyried y gynulleidfa i'r Flodeugerdd hithau o'r herwydd yn bedwar grŵp. Os ydych yn dymuno byw gydag adlais-gynganeddwyr megis Englynion Coffa R.W.Parry, fe geir pethau cadarn, nid annhebyg hyd heddiw (ynghyd ag aroglau dynwaredol yn aml, ysywaeth). Mor gynnil! Os ydych am weld telynegrwydd o waith beirdd dynwaredol cymharol eilradd sydd heb ddim i'w ddweud, ac yn ei ddweud gydag arddeliad mewn modd ail-law clyfar, yna mae yna amryw gerddi o'r math hwnnw hefyd. Os ydych am ddarllen ysgafnder digri brathog a hwyliog yn ymwybod â'r byd cyfoes yn ei liw a'i lygredd, ceir hynny hefyd yma ac y mae'n amheuthun o'i fath. Ond os ydych am ganfod gwaith o ddifri, sydd am ymgodymu ag ysbryd yr oes fel oedolyn cyfrifol solet mewn

seiniau byw, ni cheir llawer o hynny: eithr fe'i ceir. Ac yna y fan yna, y ceir yr hyn sy'n mynd i gyrraedd ac i bara, ac y gellid eisoes brofi'r elfen bara ynddo: ac fe'i ceir ar hyd y ganrif, ei sylweddoli neu beidio. Yma, caiff y poblogeiddwyr gelyniaethus wynebu holl ddychryn Safon.

Un arall o bwyntiau ffrwydrol a phoenus y Flodeugerdd hon oedd achwyniad un neu fwy o Ffeminyddion ynghylch cyfartaledd y presenoldeb benywaidd. Ceisid gan rywrai wahanu gwerthuso syml a'r hawl fythol ddisgwyliedig yn ôl presenoldeb gwleidyddol rhifyddol gywir. Ar y pryd yr oedd Ffeminyddiaeth yn anhunanfeirniadol. Chwarter canrif a mwy wedyn, yn ddiau, tyfodd Ffeminyddiaeth yn aeddfetach oddi ar gyfnod y Flodeugerdd. Cododd parch at gyfnod y syffrajets gynt, ond gostyngodd i raddau barch at gyfnod y 'cywirdeb gwleidyddol', a 'chynrychiolaeth' fenywaidd ar draul ansawdd a gallu. Cawsid y fenyw statudol am dro. 'Dewiswn yn ôl y boblogaeth.' Drwy drugaredd, ni ddifethodd hynny'r angen ffrwythlon am ymfenyweiddio. Fel arfer mwyach, y menywod lleiafrifol 'na allant', hwythau yn eu ffug radicaliaeth, fu'r rhai a waeddai am hawliau rhywioldebol. Deil Ffeminyddiaeth er hynny i gyfrannu'n fywiog at feirniadaeth yn ôl themateg, a blodeuodd Merched yn aruthr arwyddocaol ym maes nofelau cwta, heb angen hawliau statudol. Dechreusant ennill eu plwyf fel bodau dynol. Yr oedd mawr angen diwygiad. Cyfoesedd bid siŵr yw'r newid hirddisgwyliedig hwn, er bod rhy ychydig o'r ystrydebedd wedi cilio yma ac acw dan ormes y gormodedd negyddol ambell waith.

Un arall eto o bwyntiau cynnes y Flodeugerdd hon, megis yn achos y Flodeugerdd o Ddyfyniadau hithau, oedd nad oedd yn 'cynrychioli' yr arddull yma neu'r arddull arall, y testun hwn neu'r testun arall, y llenddull hwn neu'r llenddull arall. Dyma'r math o achwyniad ar Flodeugerdd a ddaw o du 'haneswyr ' llên, fel arfer, (efallai y dylem eu galw'n haneswyr diwylliannol gan nad llên yw eu gwir ddiddordeb na'u dealltwriaeth) y rhai y mae ganddynt anniddordeb ôl-fodernaidd neu ryw egwyddor wleidyddol mewn safon, ac efallai heb ennill neu wedi colli'r medr i werthuso. Cyfoesedd catholig yw hanfod y frwydr hon hefyd. Gwyddai'r Golygyddion beth oeddent yn ei wneud, sut bynnag, hyd yn oed ynglŷn â meysydd Deunydd. Nid hanesydda oedd eu nod union, ond y bythol werthuso, er bod y naill egwyddor yn gallu cynorthwyo'r llall. Meddai Alan yn *Glaw ar Rosyn Haf* (308): 'Rhennais y blodeugerddi yn bedwar math: blodeugerdd mesurau ... blodeugerddi pwnc, blodeugerddi lleoedd a blodeugerddi cyfnodol.' Ceid trefn o'r fath heb aberthu ansawdd. Bwydwyd y genedl yn faethlon, ddwedwn i. A heddiw, efallai, y sylweddolwn brinder digwyddiadau o'r fath. Do: cafwyd hwyl feirniadol ymhlith y Blodeugerddi.

Hoffter mawr adolygwyr Cymraeg fu adolygu'r hyn na fu yno, ac nas bwriadwyd yno; a cholli o'r herwydd yr hyn a oedd yno. Eithr oherwydd yr hyn sydd yno y ceir y cyfraniad, yr her, y diddordeb, sef yr hyn y mae gofyn inni'i wynebu – am flynyddoedd eto – y clwyf afieithus.

*Y Grefft o Greu,* 1993; *Rhyfel a Gwrthryfel* 2003.

Bob hyn a hyn, wrth efrydu gwaith Alan Llwyd byddaf yn dychwelyd yn sydyn i'm hatgoffa fy hun am ei waith ar y 'Darn ei Hun'. Hyn a rydd iddo'i gryfder ac a geidw ei draed ar y ddaear ym mhob gwedd arall ar ei feirniadaeth. Y 'Darn ei Hun' hefyd a rydd iddo'i 'theori'.

Mae *Y Grefft o Greu* yn un o'r casgliadau craffaf a mwyaf defnyddiol o feirniadaeth lenyddol Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif. Ond y *bardd* ymarferol sydd wrthi am drechu problem Moderniaeth iddo'i hun. Byddai ambell un yn codi'r dwylo yn syth bin mewn diymadferthedd gerbron y fath erthyl: 'Rhy anodd! Rhy anodd!' Nid anallu yn unig sy'n peri'r fath ymwrthod anneallus, ond diffyg profiad. Eithr gwyddai Alan fod wynebu Moderniaeth wedi bod yn angenrheidiol i her ymwared â gormes ffasiwn darfodedig adar a blodau, ffurfiau seiniol rhigoledig, a diogi arfer. Aeth ati o ddifri i agor ei feddwl ei hun, a rhoi cynnig ar ei oes ei hun, hyd yn oed ym maes Cynghanedd.

Yr oedd efrydu'r 'Darn ei Hun' wedi peri i Alan sylweddoli bod barddoni'n medru codi darllenydd uwchlaw lefel difyrrwch munud awr. Drwy'r 'Darn', y mae'n symud tuag at gyfannu.

Felly, o bwnc i bwnc, yn amrywiol iawn, y mae'r bardd yn mynd ar bererindod enghreifftiol gan ddechrau yng nghwmni 'Cwmwl Haf' Waldo. Mae'n fan addas. Enghreifftiau yw defnydd crai, a hanfod beirniadaeth ymarferol. Dyma un o'r cerddi modern 'tywyll' bondigrybwyll, er mai eicon yw'r bardd. Mae yna gwmwl wedi disgyn arnom ni oll yn ddirfodol. Ac y mae'r bardd yn ceisio trechu'r cwmwl hwnnw. Fel sydd gyda bywyd, mae'r ateb i'w ystyr yn ddiderfyn agored. Ond nid yw hynny'n rhwystro'r beirniad. Dechreua ar ei waith gyda'r bardd mewn geiriau syml, gan ymdroi gydag enwau lleoedd. Yn yr hen le y mae'r bardd, hyd yn oed yng nghanol ei hiraeth. A thrwy bicio o gam i gam dan y Cwmwl, fe roddir – nid 'ateb terfynol', ond y mwynhad dwfn o symud gyda meddwl ac iaith bardd drwy brofiad pwysig ar y pryd, adref.

Yn y fan hon, chwilio am Foderniaeth Waldo y mae'r beirniad (Alan), os nad y bardd, ond fe'i gwna drwy enghraifft ddamhegol. Ac yn y fan ddiriaethol hon y mae'r bardd-feirniad yn dod o hyd i 'Foderniaeth Gymreig Teimlo a Meddwl', 'Unigrwydd Dyn' a 'Chysur diddarfod Cyd-ddyn'.

Un dull nid anarferol o drafod y 'Darn ei Hun' yw arolygu neu adolygu cyfres o adolygiadau blaenorol gan ddarllenwyr eraill, o leiaf pan fydd gan yr adolygwyr hynny eu *meddwl* eu hun. Un o fanteision hynny yw cyflwyno posibiliadau eraill o ddarllen. Yn lle anelu at ddarlleniad 'terfynol' o raid, gellid rhagdybied bod profiadau amrywiol yn bosibl, hyd yn oed yn anochel, i ddarllenwyr gwahanol. Felly y bu i'r bardd. Gellid adnabod llenyddiaeth o'r herwydd yn 'annibynnol', am fod pob un ohonom yn adnabod ac yn sylweddoli ein gilydd yn wahanol. Llenyddiaeth yw'r 'hi' (y

forwyn ddirgel), felly, a welwn o safbwyntiau gwahanol. Mae ystwythder safbwynt personol yn bosibl ddigon, ac eto gallwn ddod o hyd i 'undod' dichonadwy newydd hyd yn oed os nad yw'n 'derfynol' sefydlog. Mewn amgylchfyd o'r fath, yr agwedd ymarferol ddoethaf yw rhagdybied undod gyda'r gwahanu, am fod hynny air yn air, a brawddeg yn frawddeg, bob cam yn ymrwymedig eisoes mewn ystyr neu bwrpas sylfaenol amrywiol. Cerddwn gydag ef o dan 'Cwmwl Haf'.

Cyfeddyf y beirniad ynglŷn â Moderniaeth mai rhan o'i waith yw chwilio o dan yr wyneb fel hyn: '*trwy ddilyn techneg awgrymusedd y gerdd a dal ar bob awgrym, trwy astudio pob tystiolaeth a geir ynglŷn â hi, a thrwy gymharu'r gwahanol ddehongliadau â'i gilydd. Cyn mentro ar ddehongliad, dyma restru'r prif drafodaethau a gafwyd ar y gerdd hyd yma, gan y byddaf yn cyfeirio'n fynych atynt yng nghwrs yr erthygl hon: (a) John Rowlands ... (b) Bobi Jones ,,, (c) J.E.Caerwyn Williams ... (ch) Dilys Williams ... (d) Dafydd Owen ... (dd) Hugh Bevan ... (e) John Gwilym Jones ...'* Hynny yw, er bod Alan yn gallu torchi llawes i drafod yn llwyddiannus ar ei liwt ei hun – yn wir, ar ei orau – farddoniaeth nas trafodwyd gan neb, os oes trafodaethau eisoes wedi bod – fel sy'n gyffredin, – bydd bob amser yn ymgynghori. Ac yna'n dal pen rheswm â hwy, yn greadigol ac yn graff. Ac nid â hwy yn unig, nac yn bennaf, ond â'i ddarlleniad ei hun.

Yna, fe ddaw allan o'r manylion i gasgliad: '*Wedi'r profiad dirdynnol o ddiddymdra ac o unigrwydd yn y niwl, mae'n cyffwrdd â phost y glwyd rhag ofn nad yw yno mwyach. Yna'r perthyn drachefn, cyrraedd y tŷ, caer cariad, nawdd a diogelwch, cyrraedd wedi'i weddnewid, a sŵn "clocs mam" yn sŵn llawer mwy cadarnhaol a gwaredigol na sŵn y dŵr. Mae'r profiad a gafodd yn y niwl wedi gweddnewid ei fywyd, wedi peri iddo sylweddoli o'r newydd bwysigrwydd bod a pherthyn, ac mae byd newydd yn ymagor o'i flaen, yn "ddaear newydd" a "nefoedd newydd".'*

Hynny yw, mae yna dröedigaeth o fath pwysig yma. 'Perthyn' yw craidd y ffydd Gristnogol (â Duw, â chyd-ddyn). A chymer Waldo y digwyddiad unigol hwn i adlewyrchu un math o berthyn sylfaenol yn ei brofiad ef. Un wedd arall ar berthyn, i ni sy'n ei darllen, yw perthynas â'r gerdd. Deall yw perthyn i'r gerdd. Peth arall sy'n amheuthun wrth i Alan ymdrin â'r gerdd unigol yw mynd â'r darllenydd drwy'r rhannau gan ddyfynnu pob rhan yn ei thro. Yn hyn o beth, cydymaith yw'r beirniad: anrhydeddu'r gerdd, gweini a wna. Ac y mae'r ymagweddu hwnnw at adeiladwaith i ni yn gweddu'n union i fardd-feirniad.

Bûm i'n darllen o bennod i bennod yng nghyfrol Alan, wedi fy nghyfareddu, hyd yn oed pan na chytunwn. Ni waeth am ambell beth felly. Cawn fy ngoleuo mor fynych. Roedd yn cynhyrfu myfyrdod newydd o hyd, ac yn agor drysau ar bob llaw. Dyna pam yr archwiliais yn gyntaf ei bennod ar y Cwmwl. Dyma hefyd lle y mae'r beirniad hwn yn cyffwrdd â'm dealltwriaeth bersonol i o gerddi Waldo. Dowch inni adolygu o'r newydd beth yw'r fframwaith a ganfyddwn i mwyach yn y gerdd 'Cwmwl Haf'.

Tŷ cadarn sy'n dechrau hanner cyntaf y gerdd, a'r tŷ eto sy'n gorffen yr hanner cyntaf:

'Caredigrwydd oedd y tŷ.'

Yna, rhan o'r tŷ drachefn sy'n gorffen yr ail ran:

'Ar lawr y gegin oedd clocs mam i mi.'

Y ddau hyn yw'r sgaffaldwaith solet i'r cwbl.

Peth arall sydd yma yw undod felly, ond bod hwnnw'n fwyfwy amlwg, (wrth fynd ymlaen drwy'r gerdd). Y mae'r bardd yn mynd â ni am dro, o olau i olau, gan ymadael â'r tŷ, yn gweld rhai pethau sy'n torri ar draws yr awyr cyn i'r cwmwl haf ddisgyn ar draws yr wybren, a thywyllu popeth. Ymhen hir a hwyr, y mae hwnnw'n clirio a'i olwg yn ôl i'r diogelwch. Dyma 'ogof sy'n oleuach na'r awyr.' Sef y tŷ drachefn.

Beth a fu'n digwydd yn yr awyr yn y canol?

Dau beth.

Chwalu, yn gyntaf. Gwelwyd llond dwrn o hedyddion yma a thraw yn hedfan ymhobman (fel beirdd, medd rhai beirniaid, am eu bod yn canu, mae'n debyg). Ymhellach ymlaen, mae'r rheini'n syrthio fel petaent yn cael eu taro ac yn cwympo oddi ar eu 'rhaffau cerdd'.

Yn yr un pennill â'r hedyddion, sy'n ymddangos '*yn eu plith*', mae'n cyfarch:

'Henffych i'r march mawr teithiol dan ei fwa rhawn,
A'i gerddediad hardd yn gynnydd balchder bonedd,
Ninnau'n meddwl mai dangos ei bedolau yr oedd.'

Dathlu taith yr haul y mae. Brenin yr awyr, gredaf i, sy'n rhodio yn y goleuni ar draws wybren yr haf, fel y gwnâi Dafydd ap Gwilym ei ddathlu mewn un o'i gywyddau bonedd:

'A llednais wybr ehwybraf
A llawen haul a'i lliw'n haf.'

Gwyddem oll yn ôl mytholeg glasurol, am yr Haul yn teithio yn ei gerbyd, ac am Ruffudd Llwyd yn sôn amdano'n urddasol ymweld â bonedd Morgannwg.

Tua'r un pryd ag yr ysgrifennai Waldo'r gerdd hon, yr oedd Euros yntau'n llunio cerdd 'Wrth Orsedd Arberth' (lle cafodd Waldo'i addysg), ac meddai am yr haul (merch Rhiannon):

'I'r march dan y fferau main
Rhoed ei anian yn ffrwd o ynni,
Ei fol a'i war ef,
Ei flew a'i rawn,
Yn lliw glân yn null goleuni
Ar y cerdded harddaf, rhyfeddaf a fu.

Yn llyfn ei groen fel lli' afon gref,
Ei lygaid ef yn amlygu dydd
A'u natur hwy fel pelydr haul.
Fe âi o fywyd
Yn dân ei garnau i gyd
I dynnu gwŷr heini eu gwedd
I'r mannau a fyn er mwyn y ferch.'

Â Waldo ymlaen ar ei daith, a gwêl, yn codi allan o'r afon, yn urddasol, fuwch ymdrechus ond hardd, golygfa ysblennydd arall:

'Yn plygu'r brwyn â'i chadair
Ac yn cario'r awyr â'i chyrn.'

Eto, profiad egnïol synhwyrus solet oedd hyn drachefn. Fe'm cofiaf fy hun pan eisteddwn yn ystafell ffrynt Rhosaeron gyda Waldo a'm gwraig tua 1949-50 yn gwrando ar Waldo'n adrodd y gerdd hon cyn ei chyhoeddi. Ac wrth sôn am y fuwch, dyma fe'n codi a mynd i ganol y llawr (fel y soniai am ei Brifathro John Morgan yn perfformio yn y dosbarth), gan ddynwared y fuwch yn codi o'r afon dan ei phlyg, ond yn fawreddog hardd yr un pryd. Cwestiwn mawr John Morgan oedd 'Who am I?' Yn ei wersi hanes, arfer y prifathro oedd dynwared cymeriadau'r wers. Ac i Waldo roedd yr hedyddion gyda'r march yn eu plith, a'r fuwch, i gyd mor odidog, ac yn fwy na brenhinoedd hanes. Buont yn gysur drwy'r byd naturiol i Waldo yn ei unigedd, a'i hiraeth am ei wraig, uwchlaw amser.

Dyna'r delweddau, llythrennol i ddechrau – ac ehedyddion, march, a buwch, yn llenwi'r awyrgylch a'r atgof. Yna disgynnodd y cwmwl:

'Unwaith daeth ysbryd cawr mawr i lawr
Trwy'r haul haf, yn yr awr ni thybioch.'

Yr Ysbryd hwn a'i deffrôdd ef ac a'i difrifolodd ac a'i dwysaodd yn enbyd, gan lenwi'r awyr megis presenoldeb gan Un arall. Roedd yr Un hwnnw'n ymyrryd â'i dro mawrhydig a'i wasgu rhag golau'r wybren ond yn ei wasgu hefyd ynddo'i hun yn gyfyngedig. Dyma ef yn sylweddoli'r mewnolion. 'Pwy wyf i?' 'Who am I?'

Bu llawer o holi, pwy yn union oedd yr hedyddion hyn, pwy oedd y march, pwy oedd y fuwch yn arbennig? A phe baem yn dechrau gyda'r fuwch, efallai y byddem yn fwy cydlynol hefyd gyda'r march. 'Buwch yw buwch', meddai Hugh Bevan a Dilys Williams, a chredaf eu bod yn llygad eu lle. A'r dringo o'r afon yn brofiad iawn, ac eto'n fawrhydig hefyd. A hedyddion, yn gyntaf oll, efallai, yw'r hedyddion. Y ffordd gywir i ddeall pob trosiad (ac y mae hyn yn gyngor i feirniad Beiblaidd) yw drwy dderbyn ei fod yn gyntaf oll, bob amser, yn angorol yn llythrennol. Heb y llythrennol, does yna ddim amgyffred am y byd a drosir, boed y troad yn ysbrydol neu beidio. Yna –

gyda gofal, nid yn ffansïol, ond ar sail tystiolaeth cyd-destun, – sylwer i ba gyfeiriadau y gall hyn ein harwain. Yn y gerdd hon, dyma'r cyd-destun: 'cymdeithion y dydd ... teithiol ... bwa rhawn (cyffredin o derm i ni oll yn arbennig yn y De yw "bwa'r haul") ... ei gerddediad hardd ... yr haul haf yng nghwmni dringwyr cerdd eto (sef yr hedyddion) yn datod y cwmwl.' Llythrennol oleuni sydd, yn y golwg; ond disgynnodd y tywyllwch. Llefara'r tro diriaethol ac allanol hwn i Waldo yn awr am ddimensiwn anweledig, fel y gwna pob delwedd i fardd. Er mwyn iddo ymwybod â'r byd anweledig y disgynnodd y cwmwl haf hwn dros yr haul ar Waldo, a pheri iddo fracsan yn ôl tua'r clocs gwir a chlywedig sy'n gwrthrychu hyn o fywyd. Felly yr eir o enwau diddychymyg 'yr hen le' yn awr i 'hen leoedd' yn y dechrau i ddarganfod cysylltiadau ysbrydol cartref sy'n newydd hen lle y mae bywyd yn llawnach ac yn oleuach.

Ar ryw olwg, gwelir fy mod wedi dod i gasgliad tebyg i Alan, ond ar hyd llwybr ychydig yn wahanol. Cytuno â myfyrdod a dehongliad Alan neu beidio, yr hyn a wna ef yn ei gyffes o ddarllen yw dysgu i'r darllenydd sut y mae darllen, sut y mae cyd-gerdded. A 'creu' yw darllen gofalus. Dyna a gawn yn ymdriniaeth Alan. Dyna yw beirniadaeth 'ymarferol', sef astudio'r 'darn ei hun' yn bersonol: nid oes yr un ffordd arall er y gellir – er bod yn rhaid – ddod i gasgliadau gwahanol. Yn y bennod 'Safonau Creu', y mae'r beirniad yn rhagybied 'nod, safon o ryw fath, rhywbeth i gyrraedd ato'. Hynny yw, y mae'n dechrau gyda *gwerthoedd.* Ni all plentyn fyw heb werthuso – a yw rhywbeth yn gysurus, neu'n dderbyniol, neu beidio? Ac er mwyn tyfu mewn gwerthoedd, y mae'n dysgu gwahaniaethu, dadansoddi, dehongli, ar sail tystiolaeth. Dyma'r bardd hefyd wrthi'n *ceisio nod* ei gerdd gan ymbalfalu o gwmwl i gwlwm. Dyna ail dasg y beirniad. Ond wrth wneud hyn, dyma ef yn symud rhagddo – ac yn ôl – at ei nod. A beth yw safon? Cyfanbeth a ganfu Alan o wahanol rannau ydyw, er enghraifft, meistrolaeth lwyr ar bob agwedd ar iaith (cystrawen, geirfa, idiom, treigladau, a.y.b.), meistrolaeth lwyr ar dechneg, ar rythm, ar brofiad, ar emosiwn, ac y mae'n golygu cyfuniad 'perffaith' o'r holl elfennau hyn. Hynny yw, y mae pob cerdd lwyddiannus a gwerthfawr yn gyfuniad 'perffaith', cytbwys – o ysbrydoliaeth, angerdd, meistrolaeth ar iaith, 'perffeithrwydd' mynegiant, rhythm, ac yn y blaen. Fe all un gerdd fawr fod yn gynnyrch oes faith o ymroddiad a disgyblaeth dawn a greddf. Mae'n daith. Fel tröedigaeth, y mae 'safon' yn nod i gerdd, i unigolyn, i genedl: dyma brif genadwri Alan: (*Glaw ar Rosyn Awst* 309) '*Mae hi'n bwysig i iaith leiafrifol warchod safonau, mae hi'n hanfodol fod iaith fechan yn ymddwyn fel iaith fawr.*')

Nid anghyffredin ym mryd bardd neu lenor sylweddol gael mai rhan o swyn ei waith yw nid 'cymhlethdod', ond cymhlethrwydd. Sylweddolodd Alan mai dyma wedd ar Foderniaeth, wyneb yn wyneb ag ysgafnder rhamantaidd noeth y gogoneddu ar dlysni plant ac adar.

Erbyn hyn, wrth ddarllen rhyw bedair neu bump o gerddi mwyaf meddylgar Waldo (yn anad neb o'n beirdd o'r ugeinfed ganrif), fe geir gan y beirniad amryfal ddehongliadau. A'r dull a

fabwysiadodd Alan yma ac yn aml, dull a ddefnyddia mor effeithiol mewn mannau eraill hefyd (er enghraifft yn achos Hardy), yw 'dull y ddadl'. Arolyga wahanol agweddau a drafodir gan feirniaid eraill, ac yna cais ddod i 'gasgliad terfynol heb derfyn'. Dyma ddull defnyddiol iawn o gyflwyno eglurhad, o safbwynt ymdroi gydag awgrymusedd cerdd. Cred fod gan Waldo'i hun syniad fod yna'r fath beth â'r 'darlleniad terfynol', ac mai dyna ystyr y gosodiad a wna am 'O Bridd' nad oes ynddi ddim 'amwysedd' – gair a gymerais i olygu fod y tri ymateb gwahanol a gafodd ef gan eraill i awyrgylch yr hyn a oedd y tu hwnt i Kerguelen yn  groes i'r hyn a olygai Waldo'i hun. I mi, un rhan o ddiddordeb beirniadaeth yw profi barn gwahanol brofiadau ar y daith drwy'r gerdd. A ŷm yn adnabod unrhyw berson 'yn derfynol'? ... Y mae Waldo'n siarad â'r galon yn uniongyrchol.

Yr un pryd, ni ellir llai na synied fod yna raddau o 'gywirdeb' mewn dehongli, a bod yna fan cyfarfod o fath rhwng pennau a'i gilydd. Mae gan Alan ddawn amheuthun i dreiddio i'r man cyfarfod mewn dadl o'r fath. A thybiaf mai rhan o'i gyfrinach yw ei fod yn anelu'n gyntaf at ymateb sylfaenol o chwilio'r cyfanrwydd. Hynny yw, y mae'n ymholi beth yw ergyd y cyfan. Os oes peth anhawster yn y rhannau, ceir yr ateb i'r dirgelwch fel arfer yn y cyfandod.

Felly, wrth ystyried dehongliad Alan Llwyd o 'Cwmwl Haf' er enghraifft, ymddengys i mi fod yna adeiladwaith hanfodol go syml i'r gerdd ar ei hyd, a bod yna un neu ddwy ffordd o synied am rediad neu adeiladwaith y thema. Hynny yw, mae yna un adeiladwaith unol yn y ddelwedd sylfaenol, delwedd y mynd am dro, hen gynddelwedd y 'daith' pryd y profir is-ddelweddau *en route* yn y rhannau, sef cyfres o is-ddelweddau a ganfyddir neu a brofir gan y teithiwr, a chan y cyd-deithiwr drwy unigrwydd y gerdd.

Cafwyd wedyn weithiau broblem neu ergyd hunaniaeth mewn rhai neu'r cwbl o'r is-ddelweddau hyn. I ba raddau y mae'r rhain yn drosiadol ac i ba raddau'n llythrennol? Ac os ydynt yn drosiadol, i ba raddau y gall y trosiadu fod yn amlweddog. I mi, rhinwedd y bardd-feirniad Alan yw ei fod yn mynd gyda ni drwy gerdd a chwilio i ba raddau y mae'r bardd yn rhoi cliwiau (switsys) ac i ba raddau yn ymatal. Yn hynny o dasg, unwaith eto, y mae'r apêl at y cyfandod yn dod i'r fei yn null Alan. Ac y mae ei grybwylliad o farnau gwahanol yn helpfawr, oherwydd y mae'n rhoi gwahoddiad i'r darllenydd ymuno yn y gwaith o brofi. Ac yntau'n gofyn 'Pwy wyf i'?

Gyda rhai cerddi neu feirdd sydd heb gael eu gordrafod y mae'r cyflwyno'n fwy unplyg. Mae'r symudiad yn fwy brwd efallai. Ac weithiau, ymetyl y bardd rhag rhoi switš, yn arbennig yn y ddau gyfeiriad a enwais – sef perthynas rhan a chyfan, ac amlder ystyr trosiad. Y mae'r rhan yn gallu hongian heb gydio yn y rhediad gyda'r 'sicrwydd'. Un o'r cyfryw gwestiynau yn 'Cwmwl Haf' yw i ba raddau y glŷn yr hedyddion, y march, a'r fuwch wrth drosiadau? Fy marn i yw mai llythrennol yw pob gair yn gyntaf, a bod rhaid wrth garn i hawlio naws y trosiadu. A dichon yn wir y gall perthynas rhwng y thema, y cyfanwaith, a'r rhannau, ein harwain i gracio'r broblem unigol.

Yr wyf am godi'r gair anffasiynol 'uchelgais' wrth ystyried bod Alan mewn amryw o'i gerddi yn gosod, gerbron darpar feirdd 'safon' i anelu ati. Nid rhywbeth i'w amau, o raid, yw 'uchelgais' oherwydd gwyleidd-dra neu ffug wyleidd-dra. Mae'r rhan fwyaf o feirdd da wedi ceisio gwneud eu gorau yn eu gwaith beth bynnag. Uchel-gais yw hynny. Beth sy'n 'uwch'?

Ond peth arall: soniais mor werthfawr oedd yr ymwybod o 'Absoliwt'. Ceisiais ddadlau, yn gyntaf, fod 'perffeithrwydd' ystyr yn gysyniad na ellid ei osgoi'n ymarferol. Ac yn fwy na hynny, i Alan Llwyd, yr oedd rheidrwydd anochel Absoliwt yn tanseilio ffug ymhoniadau relatifrwydd anymarferol, ac o'r herwydd yn milwrio'n erbyn twyll Ôl-foderniaeth. Meithrin crefft ac ymwybod o sialens celfyddyd yw meithrin uchelgais iach. Preswyliodd Alan gyda hynny.

Symuda Alan o fardd i fardd, felly, o gerdd i gerdd, rhai da, rhai gwael, er mwyn dygymod â phroblemau'i grefft ei hun. Ymgodymu â'i broblemau'i hun y mae pob myfyrdod ganddo. Beirniad-fardd yw ef. A thrwy wneud hynny, y mae pob problem yn fyw i ni. Mae archwilio cerddi, y pwyso ieithwedd, beth sy'n llafar, beth sy'n llenyddol, a pham lai, yn peri iddo wneud penderfyniadau iddo'i hun: '*Penderfynais bum mlynedd yn ôl y byddwn yn  llwyr ymwrthod â'r arferiad o roi'r ansoddair o flaen yr enw, gan mai arferiad barddonol ydyw, nes bod peidio â dilyn yr arferiad hwn yn ail-natur, yn reddf,'* meddai ef amdano'i hun.

Ceisiai rhai Gogynfeirdd hepgor berfau yn achlysurol, ac aros gyda delweddau enwol.

Yn ei bennod 'Barddoniaeth Gynganeddol Gyfoes', y mae Alan yn ymgodymu â phroblem moderneiddio Cynghanedd. Try'n arbennig o gylch arbrofion Donald Evans, Gwynne Williams a Moses Glyn Jones ac archwilio  beth yn union y maent yn ei wneud wrth addasu'r gynghanedd ar gyfer pynciau newydd.

Un o'r egwyddorion a afaelodd yn Alan, ac yr ymdrôdd â hi dro ar ôl tro ac y mae'n rhaid i ni droi'n ôl ato – y mae mor nodweddiadol ohono ac eto'n dragywydd mor ddraenogllyd i feirniad diweddar – yw 'perffeithrwydd', fel y gwelsom bellach. Gair dychrynus yw. Anodd credu gymaint y gall unrhyw air, hyd yn oed y geiriau sydd mor hynaflyd o startslyd neu'r rhai mwyaf sathredig o lafar, fod yn anathema o'r fath i neb. Bid a fo am hynny, y mae'r syniad o 'berffeithrwydd' yn llosgfynydd o dramgwydd. Ac felly, fel y sylwyd, y cyflwyna ef yn y gyfrol hon ysgrif gyfan i'w drafod 'yn eu hwynebau' fel petai: '*Gweithio tuag at berffeithrwydd fe'i rhydd yn nod iddo'i hun, megis 'safon'. Gwaith y beirniad yw archwilio "perffeithrwydd".*'

Hynny yw, perffeithrwydd yn y testun, a pherffeithrwydd yw yn ei waith fel beirniad.

Ac wrth gwrs, o ran synnwyr cyffredin, heb sôn am synnwyr celfyddydol, ceir y nod iawn gyda'r pethau distadl fel gyda rhai mawr. Os ydych chi'n mynd i roi llwyaid o siwgr, dyweder, i mewn i gwpanaid o goffi, yna dych chi am wneud hynny'n hollol lwyddiannus. Dych chi ddim am anelu at fethu. Os ydych chi am ddweud bod drws yn ddrws, ac nid yn sosban, yna dych chi'n ceisio

datrys y broblem fach honno'n *berffaith.* Ac medd Alan: '*Yn yr ymdrech i gyrraedd perffeithrwydd y crëir pob cerdd o werth.*' Y drafferth yn y brotest yn erbyn 'perffeithrwydd' fel term oedd – nid y pechod gwreiddiol a realiti methiant a marwolaeth, – ond y ffasiwn a'r dogma o danseilio, a datod a sgeptigrwydd a negyddiaeth. A ffug ostyngeiddrwydd saff. Rhyw fath o amheuaeth a geir ynghylch popeth ond amau'i hun. Sylwer mai'r llwybr *tuag at* berffeithrwydd, nid cyflawni perffeithrwydd yn derfynol sicr, sydd mewn golwg ac yn bresennol gan Alan: yr ymdrech botensial. Ac yna, fe â ati i archwilio'r hyn a wna ef dro ar ôl tro yn ei waith ei hun, sef symud o ddrafft i ddrafft, gan archwilio beth a wna beirdd eraill yn eu drafftio cynyddol, beth yw eu problemau a'u hystyriaethau, beth y gall ef ddysgu ganddynt. Dyma ymarfer Alan sy'n adlewyrchu asgwrn cefn ei theori.

Derbyniodd ef untro ym 1978 englyn i *Barddas* gan Gerallt Lloyd Owen, englyn campus. Erbyn 1991, yr oedd Gerallt wedi'i newid o'r brig i'r ... wel nid i'r bôn... ond dros y tair llinell gyntaf. Ni fodlonodd y bardd a'i hanfonasai. Olrheiniai Alan yr holl newid a pham. Nid englyn un llinell oedd hwn yn bennaf, ond englyn heb undod cyflawn y ffurf derfynol yn y drafft cynnar. Meddai Alan: '*Tîm sy'n dibynnu'n ormodol ar ddisgleirdeb un unigolyn yw'r englyn gwreiddiol, ond yn yr englyn gorffenedig, mae'r tîm yn chwarae fel undod, a'r pedwar unigolyn cydradd-ddisglair yn toddi i mewn i'w gilydd i greu tîm perffaith.*'

Mae yna raniad diddorol yn y gyfrol *Y Grefft o Greu;* ac y mae'n adlewyrchu math o raniad cyson ym Meirniadaeth Alan yn gyffredinol: I. Ysgrifau ar Farddoniaeth a Chelfyddyd, II. Ysgrifau ar Feirdd a Cherddi Unigol. Hynny yw, Theori Gyffredinol a Mynegiant Unigol. Gwir mai Theori Mynegiant sydd ar waith yma rhwng y ddau, ac nid yw'n bell byth, o'r herwydd, oddi wrth enghreifftio penodol. Ond theori ydyw o hyd, ac yn arwain bob amser at gasgliadau egwyddorol: clymiadau mewn myfyrdod.

Hynny yw, y tu ôl i'r feirniadaeth ymarferol ceir cefndir o egwyddorion neu o gasgliadau am grefft sy'n cydadeiladu ei agwedd at lenyddiaeth. Ac mewn gwirionedd, os caf (oherwydd brawychiad) sibrwd mai '*theori'* yw peth felly, man a man yw'i wynebu'n onest. Ym mryd rhai, protestiwr pennaf Cymru yn erbyn yr hyn a elwir yn 'theori' yw Alan Llwyd. Mae'n gas ganddo'r stwff. Ac eto, mae ef ei hun yn rhagori fel theorïwr. Nid oes yr un ohonom yn gallu cyffredinoli am natur ein llenyddiaeth gyda mwy o hyder nac o graffter nag ef: theori yw hynny.

Ac i mi, mae yna ddwy nodwedd sy'n ei benodoli ef fel theorïwr athrylithgar. Yn gyntaf, ei Gymreictod, sef yn yr achos hwn, ei amharodrwydd i ddilyn yn daeogaidd y shibolethau arferol ynghylch Ôl-foderniaid a fu mor boblogaidd yn Lloegr – ac sydd wrth gwrs ('wrth gwrs' yn y cyfnod diweddar, gan mai ychydig o newydd-deb beirniadol cyffredinol sy'n dod o Loegr y dyddiau hyn o'i chymharu â Ffrainc, America, a Dwyrain Ewrob) yn dilyn gwledydd eraill yn anfeirniadol. Nid yw'r ffaith fod cynifer o'r beirniaid Saesneg wedi derbyn pethau fel 'marwolaeth yr awdur', neu

'différance' fel dogmâu wedi mennu dim oll ar Alan Llwyd. Ni phlyg i drendïaeth ddidreuliad. Mae ganddo barch at fenywyddiaeth, bid siŵr, ond fawr o amynedd gyda ffeminyddiaeth ymneilltuedig, annheg, a gwyrdröedig. Mae'n parchu hawliau'r gymdeithas lenyddol fel Marcsydd da, ond nid ar draul yr unigolyn llenyddol.

Ac yn ail, dychmyga'r cwbl drwy'i wybodaeth; dyma'i fedr i weld pethau drosto'i hun o fewn fframwaith creadigol ffres ac ar sail cefndir o'i drwytho'i hun yn yr holl draddodiad, a'i ddawn i gyflwyno'r ffeithiau esboniol hyn yn loyw.

Gwrth-theorïwr yw, felly, yn wyneb y theori ddogmatig wrth-undod, wrth-bwrpas a oedd yn rhemp yn y cyfnod 1970-2010. Ac eto, carwn enghreifftio rhai darnau i amlygu dawn Alan Llwyd yn y maes theoretig cadarnhaol.

Dyma ef yn arddangos y modd y cyflwynodd J.Morris-Jones graidd y canon (o leiaf yn ei fryd ef) i'r Cymry:

'*Defnyddiodd John Morris Jones brif gyfrwng y beirdd caeth eisteddfodol, yr awdl aml-fesurol, i ailgyflwyno'r traddodiad coll i'r Cymry yn ei awdl 'Cymru Fu: Cymru Fydd', a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn* ***Cymru*** *O.M. Edwards ym 1892. Dyma gyflwyno cewri'r traddodiad barddol i'r Cymry am y tro cyntaf, a ffurfio canon llenyddol ar yr un pryd ... Ac mae'n enwi cewri'r traddodiad fesul un, gan ddechrau yn y dechreuad' ...* [ac yn y blaen].

Yn awr, mae miloedd ohonom yn gyfarwydd ag awdl J.Morris-Jones. Ond pwy a ganfu beth oedd arwyddocâd yr awdl yn hanes y canon? Does dim dwywaith gennyf i mai'r hyn a ddywed Alan oedd yr union gymhelliad a oedd gan Syr John. Gwybu Syr John angen safon ar y Cymry. Fel heddiw, dan ormes poblogeiddiwch, felly hefyd yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg dan ormes diffyg addysg yr oedd y Cymry'n ymgreinio ar wyneb tenau ein gorffennol. Eu hyfforddi'u hunain, a heb fyfyrio personol dyfal. Yn nannedd gormes y sefydliad, mynnodd Syr John – o ran moesoldeb a chenedligrwydd ysol – amddiffyn meddwl y Cymry er gwaethaf presenoldeb bythol gelyn y lliaws: gollwng enwau.

Cymerer ail enghraifft. Dyma Alan yn awr yn cymharu canfodiad J. Morris-Jones o'r Canon â gweledigaeth Saunders Lewis: '*Y gwahaniaeth mawr rhwng John Morris-Jones a Saunders Lewis oedd bod yn naill o'r farn fod y Traddodiad Barddol wedi dod i ben gyda Goronwy Owen, a'r llall yn edrych ar y Traddodiad fel rhywbeth nad oedd wedi dod i ben, gan weld Robert ap Gwilym Ddu (bardd aneisteddfodol, ac felly, bardd yng ngwir olyniaeth y Traddodiad) fel y ddolen gyswllt rhwng y ddeunawfed ganrif a'r ugeinfed.'*

Yn y darnau hyn, *theorïwr hanesyddol* yw Alan Llwyd. Ond nid dianc i hanes a wna er mwyn osgoi'r weledigaeth feirniadol. Gwêl ef hanes fel llawforwyn i oleuo'n dealltwriaeth o'r llenyddiaeth ei hun. Cadarnhau'r anrhydedd sydd gan lenyddiaeth a wna. I Alan Llwyd, pwrpas y

canon yw, yn gyntaf, sicrhau'r ymwybod o safon a didoli gwerthoedd, ac yn ail, cynorthwyo darllenwyr i wybod beth i'w fwynhau. Clywch y frawddeg gyrhaeddgar hon:

'*Mae pob darn safonol, campweithiol o lenyddiaeth yn hyrwyddo'r iaith y crewyd y darn hwnnw ynddi.'* Brawddeg *theorïwr ieithyddol* pur yw honno.

Mae angen ymaros ychydig gyda'r theorïwr, yn sicr, oherwydd nid mater arwynebol yw. Y mae'n arwyddocaol oherwydd ei sylwadaeth a'i werth yn erbyn theorïau cyfoes aliwn a diraddiol.

Beth, felly, fu ei wrthwynebiad tybiedig i 'theori' gonfensiynol? Meddai: '*Os bu imi anwybyddu Theori, fe wneuthum hynny oherwydd fy mod o'r farn mai rhywbeth ffasiynol, trendi, byrhoedlog a thros dro yn unig ydoedd.*' Yr hyn sydd ganddo mewn golwg yw theori ôl-fodernaidd ar y pryd (sef yr hyn a aeth yn drech drwy'r saithdegau a'r wythdegau), tueddfryd heb seiliau deallol catholig a chytbwys, y theorïaeth boblogaidd yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Apeliai'r peth at y meddwl newyddiadurol weithiau, fel y gwna arlunio ôl-fodernaidd. Sugnai rywrai a geisiai ymddangos fel petaent yn hyddysg yn yr hyn a oedd 'yn ddiweddar', a diau fod llawer sy'n gynhyrfus i'r meddwl yma ac acw gan Derrida, Lyotard, Barthes, ac eraill. Ond mantais Alan Llwyd, wrth sylwi ar yr hyn a ddigwyddai ar y pryd, oedd dyfnder hyddysg ei wreiddiau yn fframwaith Cerdd Dafod a'i theori yn yr ymrwymedigaeth Gymreig. Cyfunai theori â gwreiddiau. Ac aeddfedrwydd catholig chwaeth a haelfrydedd deallus yw'r canlyniad. Yr oedd wedi dod adref drwy'r Cwmwl Haf.

Mewn theori gyfoes, ceir – yn arbennig wrth ymdrin â Ffurf – lawer sy'n camu ymlaen yn fras ac yn fuddiol. Ceir sylwadaeth hanesyddol sy'n ffres ac yn gynhyrfus. Ac yn yr adwaith yn erbyn yr ôl-fodernaidd, ceir bellach ddoethineb ystyriol. Dechreuwyd cyffredinoli o'r newydd yn y galon yn fwy gofalus ynghylch priodoleddau celfyddyd yn y golwg. Mae'n ddiau gennyf, wrth ymwared â gorthrwm ffasiynoldeb newyddiadurol, y down – drwy ymdrech – i ymwneud yn burion ddethol â chwiwusrwydd *dilettante* wrth fynnu 'annibyniaeth' amlochrog ein traddodiad.

Do: fe gafwyd tuedd anffodus felly gan rywrai i gymysgu 'Theori' ag 'Ôl-foderniaeth'. Mewn gwirionedd, lle bynnag y ceir Cyffredinoli, fe geir Theori. O'r herwydd, Alan Llwyd yw un o'n theorïwyr mwyaf cyrhaeddbell. Ysgol neu glwstwr o ysgolion, braidd yn ddiwinyddol ei gwreiddiau, fu Ôl-foderniaeth, a bleidiai at ei gilydd rai safbwyntiau go unochrog a negyddol yn unig: gwahanu heb uno, gohirio heb gwlwm, abswrdiaeth heb synnwyr, chwalfa heb gydlyniad, amhenderfyniadaeth heb arddel na gwerth na phwrpas, nac Absoliwt, – a'r 'egwyddor' relatif fythol bondigrybwyll. Methodd llawer un â dod o hyd i lwybr rhesymedig drwy'r drysgoed.

Bid siŵr, gellir ateb hyn oll drwy ddangos gorfodaeth hollbresennol cyfundrefneg. Ond ni ellir deall na defnyddio iaith heb gysoni yn ogystal â gwahaniaethu, na heb amgyffred yn ogystal â dirnad. Nid oes anhawster i danseilio 'dadleuon' ôl-foderniaeth. Ond nid ydynt yn ymofyn dadl. Ac

fel gydag anghredadun, taw piau hi ynghylch achos/effaith, bodolaeth cyfundrefnau a deunydd ei hun. Nid y goleuni yw'r hyn a geisir: rhaid sylweddoli nad y dadleuon yw'r broblem, ond y rhagdybiau. Mae yna gymhellion a seiliau eraill sy'n atal beirniadaeth ynghylch rhagosodiadau.

Ond fe geid yn yr ugeinfed ganrif ysgolion theoretig megis Ffurfiolaeth lewyrchus (i) Mosco/Prag a (ii) adeileddeg Paris am gyfnodau yn agor rhai gweddau hynod ffrwythlon ar theori dilys gan fod ysgolion Ffurfiolaeth/Adeileddeg wedi'u gwreiddio mewn methodoleg wyddonol. Eu diffyg hwy yn fy marn i oedd i'r ail yn benodol (gan mai gwleidyddiaeth oedd lladdwr y gyntaf) ildio'n rhy rwydd o flaen newyddiaduraeth y cyfnod (e.e. Barthes), iddynt ogwyddo'n ormodol i gyfyngiadau gwleidyddiaeth, ac iddynt fynnu peidio ag wynebu'r her gyfansawdd. Gwelwyd eisiau ein hadeileddeg ein hun yng Nghymru o'r iawn ryw oherwydd ein diogi meddyliol. Nis datblygwyd.

Roedd holl reddfau Alan Llwyd yn galw'n uchel yn erbyn negyddiaeth Ôl-foderniaeth. Yr wyf i'n ei chael hi'n anodd deall sut y bu i feirniaid mewn oed ar y pryd, pobl addysgedig yn agos i'w llawn dwf, ddal i daeru'n ddogmatig fod angen sgrifennu'n 'groes i'r graen' ar egwyddor fel petai wrth feirniadu. Trendïaeth oedd y drwg. A'n gwaredo rhag llencyndod diddatblygiad, a rhag y ffug dybiaeth nad oes safon. Mae dyn yn canfod wrth reswm sut y gallodd sgrechair o fath 'tanseilio' ddod yn ddeniadol iachus i lanc ifanc, a hynny hyd yn oed dros gyfnod hir. Ond fe âi hyn o negyddiaeth yn gyfeiliant i'r di-foes, hyd yn oed mewn oed. Hyn oedd yr amgylchfyd ar y pryd. Roedd machlud oes Fictoria gynt, gyda chefndir tra gwledig a chysgodol, hefyd, wedi gallu camu i mewn i ddinas dosbarth canol yn betrus a phrofi'r hyn a ystyrid yn ysgytwad glas. Ond ... heddiw?

Ceir oedolion go iawn, rhai dros eu hugain oed hyd yn oed, yn sôn am feiddgarwch 'gonest' Rhyw a phethau dychrynus felly. Hen draddodiad (ers yr oesoedd canol) oedd bod yn fyfyriwr afradlon ac yn botiwr o ferchetwr. Dyna'r ystrydeb anochel. Roedd yn hen hen bryd wrth gwrs erbyn ymadael â'r Brifysgol yn yr unfed ganrif ar hugain, fod oedolion yn gallu sefyll y tu allan iddynt hwy eu hun rywfaint weithiau a gweld mor anfeirniadol bitw yw'r 'herfeiddiol' hwnnw, ac mor ddiddeall fas yw llwyddo i oedi gydag ymloddesta mor gul dreuliedig lancaidd. Ble mae'u meddyliau wedi bod? gofynnir. Neu'n hytrach, ble maent wedi aros? Yn sicr, nid ceisio peri i lanciau newydd wrido oherwydd rheg neu gyfeiriad rhywiol y bydd neb mewn oed bellach, ond gwrido o gydymdeimlad ag 'eithafrwydd' y diniweityn canol-oed yn ei iaith 'fentrus'.

Anelai *Barddas* yng nghyfnod Alan Llwyd o ran egwyddor at bob oedran, – ie i blant ymhlith eraill, gyda pharch; ond gan annog yr un pryd rinweddau aeddfedrwydd. Dadlennai'r gwendidau negyddol hefyd. Efallai mai'r negyddu dogmatig hwnnw oedd yr arddangosiad cliriaf o ffuantrwydd ôl-feirniadaeth, pan aethpwyd ati i lunio'r theori o gylch yr egwyddor amddifad o 'danseilio'. A gafwyd erioed (cyn ôl-foderniaeth) gyfnod mor warthus o ddiddeall negyddol yn *hanes syniadaeth* y gorllewin? Dyma'n ddiau ein cyfnod mwyaf affwysol yn y maes hwnnw.

A'r ffaith oedd fod pobl – efallai mai annheg dweud iddynt fethu â chanfod y twpdra llwyr yng nghanol y peth, – wedi methu ag ymryddhau rhag gormes ffasiwn. Rhaid i rywrai diddeall gydymffurfio â'r sefydliad, bid siŵr, er mwyn iddo fod yn sefydliad o gwbl. Ond collwyd gwerthuso fel sefydliad difrif. Gyda hynny, y deallusrwydd a anelai mor rheidiol at 'berffeithrwydd'.

Efallai, wedi'r cwbl, mai'r peth cyntaf oll i sylwi arno ynglŷn â beirniadaeth lenyddol Alan Llwyd yw ei theori. Na adawed i neb wrando ar sillaf o'i brotestiadau ei hun na all oddef theori. Mae'n wir ei wala ei fod wedi'r cwbl yn cael arddeliad eithriadol ar drafod manylder a hanfod gwerthusiad y cerddi unigol. Ganddo ef y mae'r pâr o ddwylo mwyaf diogel sydd gennym yn y dasg honno. Mae dyfnder ei dreiddiad i ehangder o lenyddiaeth a'i fyfyrdod am ei grefft wedi caniatáu iddo adnabod camp. Ond na chamarweinier neb. 'Theori' sy'n gyrru'r angerdd mwyaf a'r argyhoeddiadau dyfnaf yn ei waith. Mae'r drafodaeth ar gerddi unigol yn ddi-ail yn y Gymraeg. Ond gwrandawer ar beth o'i theori hollol ddiamau: (*Rhyfel a Gwrthryfel,* 2003) t. 14-15: '*Mae rhai damcaniaethwyr modern wedi ceisio dadlau o blaid 'rhyddhau' darn o waith llenyddol o afael ei awdur. Roland Barthes, er enghraifft, a ddadleuodd y dylid lladd yr awdur er mwyn geni'r darllenydd; y dylid dinistrio llais yr awdur a dileu pob pwynt dechreuol, anwybyddu pob ffynhonnell gychwynnol, diystyru pob cyfeiriadaeth a phob pwynt o wybodaeth. Er mwyn caniatáu rhyddid i ddarllenydd i ddehongli unrhyw ddarn o lenyddiaeth, a'i ddehongli fel y myn, mae'n rhaid ei ddatgysylltu oddi wrth yr awdur. Felly, yn ôl Barthes, 'does y fath beth â dehongliad terfynol, awdurdodol yn bod. Mae ganddo bwynt, wrth gwrs. Pwy a all ddweud mai 'fy nehongliad i' ydi'r gwir ddehongliad? Ac eto, mae gwahodd darllenwyr i ddehongli cerddi fel y mynnant, yn ôl chwiw neu fympwy, a heb barchu safbwynt yr awdur na gwybod odid ddim amdano ef nac am ei waith, yn mynd i'n harwain ni ar gyfeiliorn yn llwyr, a datod pob cywirdeb ac ysgolheictod. O fewn holl waith yr awdur, o fewn ei athroniaeth a'i weledigaeth o fywyd, o fewn ei gyfnod a'i gefndir, ac o fewn ei fywyd, a gwybodaeth am ei fywyd, y mae dehongli gwaith unrhyw awdur, er nad oes angen gwybodaeth am y bywyd bob tro; yn aml iawn, ond nid bob tro: ond mae angen gwybodaeth am weddill ei waith. Mae'n rhaid mai at theorïwyr fel Roland Barthes yr oedd Hywel Teifi Edwards yn cyfeirio pan felltithiodd 'y damcaniaethwyr ehud a fyn nad eiddo'r ysgrifennwr mo 'ystyr' yr hyn y brwydrodd i'w ysgrifennu' yn rhifyn Mehefin/Gorffennaf 2001 o* ***Barddas.*** *Nid Barthes mo'r cyntaf i ddadlau bod angen dileu'r awdur er mwyn rhoi pob rhyddid i'r darllenydd i ddehongli'r testun fel y myn, ac mae hi'n athroniaeth beryglus, gyfeiliornus.'*

Dyma ddarn estynedig ar thema theoretig arall: t. 131: '*Mae'n rhaid oedi am eiliad gyda'r syniad o Realaeth. Dyna oedd gair mawr beirdd Cymru am y canu newydd a fyddai, yn y pen draw, yn disodli Rhamantiaeth. O Ffrainc, y deilliodd llenyddiaeth Realistig, fel mudiad ymwybodol o leiaf, a defnyddid y term i ddisgrifio nofelau a oedd yn ymwneud â bywydau pobl gyffredin, yn*

*cofnodi bywyd fel ag yr oedd yn hytrach na'i ddelfrydu (gwendid a berthynai i'r Rhamantwyr). Ceisiai nofelwyr 'realistig' fel Champfleury (awdur maniffesto'r mudiad,* ***Le Réalisme,*** *1857) osgoi geirfa farddonol, gormodiaith, gorliwio a melodrama. Cofnodi bywyd yn ei noethni plaen, ac yn ei noethni hagr yn aml, oedd y nod. Gellid honni fod nofelau Daniel Defoe, Fielding a Smollett yn y ddeunawfed ganrif hefyd yn nofelau realistig, ac yn gerrig sylfaen y mudiad i raddau, ac i nofelwyr fel Henry James ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg barhau'r traddodiad, ond o droad yr ugeinfed ganrif ymlaen hyd at y cyfnod Edwardaidd y dechreuodd yr egwyddor ymsefydlu o ddifrif mewn llenyddiaeth.*

*Er nad Moderniaeth yn yr ystyr a roddwyd i'r term yn ddiweddarach oedd Realaeth, yr oedd y ddau fudiad yn agos iawn at ei gilydd, ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Bu Realaeth yn hwb i Foderniaeth, ac yn rhan o dwf a datblygiad y mudiad. Gellid ystyried Realaeth fel rhyw fath o is-Foderniaeth neu wedd gynnar ar Foderniaeth.'*

Beth y mae'n ei wneud yn ei theori? *Ymarfer* â chelfyddyd yn ôl profiad ac egwyddor; a thry'r ymarfer drwy argyhoedddiad yn Theori i Fynegiant. Mae ef eisoes wedi myfyrio beth yw ansawdd y profiad llenyddol. Mae e'n gofyn: Ymhle felly y ceir rhagoriaeth? Sut y mae hyn oll yn dyfnhau bywyd? Sut y mae hyn yn estyn y dychymyg a'r synnwyr ieithyddol? Mae wedi pwyso yn ôl yn ei gadair, neu oedi wrth fynd am dro meddyliol, ac ymholi'n araf – pam a sut? Anodd i lenor dyfu'n fwy na'r cyffredin heb sylweddoli'n bur anturus beth yw hyd a lled yr ystyr y tu ôl i'w waith. Peth arall sy'n dyfnhau'r theori a gloywi'i ymarfer yw'r trwytho yn ei wreiddiau. Prin iawn yw'r sawl fel Alan sydd wedi mynnu – yn ystod bywyd pryd nad oedd munud i'w sbario – iddo'i lenwi'i hun hyd yr ymylon â maeth yr uchelwyr a fitaminau'r holl ganrifoedd gwerinol.

Felly, pan fo Alan yn ymorol i ddadansoddi cywydd gan Ddafydd ap Gwilym dyweder, beth mae'n ei wneud o ran theori ac ymarfer? Ydy e'n pendroni am hunaniaeth Cymru? Dim o'r fath beth. Ydy hyn yn act genedlaethol? Ydy e'n ymwybod ag ystyried perthynas Mynegiant a Thafod? Ar y pryd, dim o gwbl yn y golwg. Ond Alan Llwyd yw ef, ac y mae ei hunaniaeth gyfan ddyrys ei hun, a hunaniaeth fwy dyrys byth Cymru, a'i egwyddorion llenyddol, yn ei wneud ef yr hyn yw. Mae'r awen wrthi'n corddi. Heb y cynnwrf hunaniaethol hwn ym mhob twll a chornel o'i brofiad unol o'r amlochredd cyfoethog, ni byddai'i feirniadaeth mor organaidd lydan. Lled y dulliau hyn o feirniadu sy'n adlewyrchu'i brofiad hydeiml o Gymru ac o lên.

## VIII MODERNIAETH

*Rhyfel a Gwrthryfel,* 2003

Er gwaethaf misdimaners Euros, ymddengys i mi mai'r bardd hwnnw, yn anad neb, a gyflwynodd yr ymwybod Cymreig 'unplyg' o Foderniaeth i Alan. Yn gynghanedd-fopiedig gan Fotwnnog, dylai Alan fod wedi cymryd llwybr union Williams Parryaidd mewn englynion coffa; llwybr tebyg i Gerallt Lloyd Owen yntau, gan lunio epigramau bachog gwladgarol a gwledig gwych, a fyddai wedi'n hysbrydoli oll i amddiffyn yr oes a fu. Ac i raddau, fe'i gwnaeth.

Ond Euros a dynnodd Alan 'ar gyfeiliorn'. Ac eisoes, yn ei gyfrol gyntaf, ac yntau rhwng 19 a 22 oed, mae ganddo amryw gerddi fel 'Y March Hud', 'Fe Wyliaf Alarch', 'Eira yn Syrthio', 'Bore o Aeaf', 'Eira ar Goed', ac eraill, oll wedi carlamu allan o stabl Euros. Gyda'r rheini mor Euros-drwythedig, ceir pedair cerdd (wedi'u cyfieithu) o waith Rilke, ynghyd â chyfieithiadau o waith Pasternack a Baudelaire, ynghyd ag englynion hiraeth. Cadarnhawyd felly nad oedd am deithio'r ffordd ddisgwyliedig yn Llŷn. Eto, mae'r cwbl yn dangos ei feistrolaeth gain gynnar ar ei gyfrwng. Drwy ddrws cefn Cerdd Dafod y daethai *vers libre* i'w fywyd, yn syml am fod Euros wedi tynnu cynghanedd tan sgrechian i'r oes bresennol gerfydd ei gwallt.

Bu Moderniaeth yn allweddol hefyd wrth adeiladu unigrywiaeth ifanc cyfraniad Alan yn yr Adfywiad Cynganeddol. Ac yn ôl ei arfer, o weld arwyddocâd i hyn, os oedd Cymru'n mynd i godi allan o'i cheidwadaeth israddol, fe ymgyflwynai Alan i astudio'r ffenomen 'Anghymreig' gyda difrifwch a gallu mawr; a symudai'r gynghanedd ei hun ymlaen. Dôi arwyddocâd cadarnhaol Moderniaeth mewn Traddodiad felly yn ddyletswydd wladgarol iddo mewn cenedl blwyfol ddiog.

Diddorol iddo felly ddechrau gyda Hardy yn y gyfrol hon o feirniadaeth. Gwladwr oedd Hardy, fel Alan. Buasai'n gysurus ddigon yn Eifionydd. Medd y beirniad: '*Roedd themâu Hardy, a'i holl fyd-olwg, yn ôl Leavis, yn hollol groes i ddeunydd a themâu barddoniaeth fodern ... Ond nid bardd y rhythmau tawel a defodau oesol y bywyd gwledig oedd Hardy, ond bardd, yn hytrach, a gofnododd y modd yr oedd amser yn gweddnewid ac yn dinistrio popeth: unigolion, defodau, credoau, arferion, popeth.'* Hynny yw, nid bod yn ddinesig sy'n gwneud rhywun fel Alan yn fodern. Ffordd berthnasol yw, yn hytrach, o feddwl. Ac yn hyn o beth, mentra herio barn Leavis am Hardy; ac, fel Waldo yntau, gwelai Hardy'n berthnasol iddo ef a'i gyfnod ei hun, a hyd yn oed i'w wlad.

Ychwanegai at hynny y llinyn Realaidd a oedd wedi dod o Ffrainc ac wedi diriaethu'n fwy caled y meddwl Modernaidd – fel y'i henghreifftid ym marddoniaeth 'Y Ddinas' Parry-Williams, yng ngwaith Gwenallt, yn ogystal ag yn Prosser Rhys, a hyd yn oed Cynan.

Yn nhrafodaeth Alan yn y gyfrol hon *Rhyfel a Gwrthryfel*, y mae ei ddiffiniad o'r math o foderniaeth a geid gan Caradog Prichard yn ysbrydoledig. Llwyddwyd i fawrygu *Un Nos Olau*

*Leuad* wrth gwrs. Ond sylwodd ef fel y ciliodd gwaith Caradog fel bardd ym mryd y cyhoedd yn ddiweddar, yn bennaf efallai oherwydd methiant awenyddol ei gyfrol ddiwethaf, a hefyd am nad oedd beirniaid wedi manylu digon ar ei gamp brydyddol gynnar. Eto, cyfoethogir dealltwriaeth o arwyddocâd y nofel hithau drwy sylwadau Alan ar 'Y Gân ni Chanwyd' a 'Terfysgoedd Duw'. Dangosir: '*Nid gwallgofrwydd unigolyn ydi thema Un Nos Olau Leuad* wedi'r cyfan, ond gwallgofrwydd cymuned gyfan a byd cyfan'. Dyma i Gymru olwg fodernaidd. Mae dadansoddiad gweledigaethus Alan Llwyd o'r pryddestau yn bwrw goleuni treiddgar ar y cywaith rhyfedd a fu ym meddwl modern Caradog Prichard.

Ymhellach, fel y bu i Euros lwyddo i ddod â Moderniaeth mewn mwy nag un ffordd i faes y Gynghanedd, felly y dengys Alan fel y mae Gwenallt yntau yn y 'Sant' 1928 a 'Breuddwyd y Bardd' 1931 yn dod â Moderniaeth inni dan ffurf hynafol yr Awdl. Dengys mai aroglau Hedd Wyn sydd ar awel 1931, ac mai dyna'r cyd-destun i'w ddeall. Roedd yn gerdd drobwynt bwysig i Gwenallt, yr awdlwr rhamantaidd a modernaidd. Ac y mae'r dyfarniad 'terfynol' deheuig yn tynnu sylw pob darllenydd Cymraeg cyfoes at un o drysorau'n hetifeddiaeth ddiweddar: '*Mae 'Breuddwyd y Bardd' yn awdl allweddol yn hanes y Blaid Genedlaethol, yn hanes Gwenallt fel bardd, ac yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol, oherwydd iddi dynnu cystadleuaeth y Gadair yn gyffredinol o fyd yr awdlau canol-oesol i'r byd cyfoes, er mai fframwaith canol-oesol, chwedlonol sydd i'r awdl hon hithau. Camp Gwenallt oedd troi ei ddeunydd yn alegori, a defnyddio ysbrydoliaeth o'r gorffennol i ysbrydoli'r dyfodol.'*

Gwna Alan yma yr hyn a wna droeon yn y gyfrol: fe â at yr 'ymylon', a thrwy'i graffter athrylithgar, hyd yn oed yn achos cawr mor adnabyddus â Hardy, fe ddyd y gerdd a esgeuluswyd yn y canol lle y mae'n perthyn. Ac o ganlyniad, nid yn unig y mae'n ychwanegu at gynhysgaeth ein darllen difrif ail-ddychwelol, ond fe arddengys y dulliau ffrwythlon o ddarllen a dehongli barddoniaeth.

Y 'darn ei hun' yn gyson yw sail ei archwiliad bid siŵr, ond na thybier (oherwydd y negyddiad a leisiai ef ynghynt) nad yw'n gwbl gyfarwydd â syniadau theoretig, fel y prawf cyfeiriadau at Roland Barthes (14-15), a'r damcaniaethau ynghylch perthynas realaeth a moderniaeth (130-131), a'r drafodaeth ar amwysedd (694-695). Ond y lle y rhagora yw wrth amlygu mewnolion cerdd (y rhannau sy'n gwneud y cyfan) a'i chyd-destun (y cyfan sy'n gwneud y rhannau). Nid oes yn Gymraeg hafal iddo.

Pan drown maes o law i drafod Themateg ym Meirniadaeth Alan Llwyd, cawn weld fod ganddo ef – fel gan Gerwyn Williams yntau – ddiddordeb abnormal mewn Rhyfel. Ond y peth a gewch yn y gyfrol *Rhyfel a Gwrthryfel* (nid yn y cyfeirio at Edward Thomas a Chynan) yw 'Rhyfel' fel ffenomen ysbrydol; heb fod yn llythrennol. Cyfrol yw hon yn hytrach sy'n trafod brwydr

Moderniaeth Gymraeg o fewn llenyddiaeth ymrwymedig realaidd yr ugeinfed ganrif. Ac fel gyda holl feirniadaeth Alan, wynebu a wna'r broblem hon fel bardd ymarferol, bardd a deimlai i'r byw fod efrydu Moderniaeth yn blwmp ac yn blaen yn gyfrifoldeb aeddfed ac angenrheidiol ddiriaethol i fardd o ddifri yn yr oes hon ac yn amgylchfyd Ewrob gyson ryfelgar.

Yr wyf yn ceisio bwrw golwg dros dair ffrwd yn bennaf ym meddwl beirniadol Alan – sef Cerdd Dafod (gan gynnwys priffordd Beirniadaeth Ffurfiol Cymru), Hanes Esthetig Cymreig (ar lun cofiannau, gan gynnwys rhai o gynhyrchwyr mwyaf diddorol ein barddoniaeth), a Beirniadaeth Ymarferol (y dadansoddiad, dehongliad, a gwerthusiad o'r cynnyrch). Yn y bennod hon, sylwn yn benodol ar bwysigrwydd y drydedd o'r rhain, sef yr ymdriniaeth ymarferol o weithiau unigol, a'r rheini'n ymgyrraedd at Foderniaeth fel egwyddor a hinsawdd. Yr wyf hefyd wedi ceisio canolbwyntio ar dri math o feirniadaeth, ac ar dri gwaith unigol a gynrychiola, yn fy marn i, anterth ei lwyddiant beirniadol, gan fwrw golwg pellach, wrth fynd heibio, ar amryfal agweddau eraill.

Gan fod Moderniaeth mewn gwirionedd yn gyfres o Foderniaethau, y mae Alan yn ymwybodol o'r hyn a wna wrth benodoli'r symudiad fel y'i diriaethir mewn llenorion unigol. Ac fel y mae'r teitl *Rhyfel a Gwrthryfel* yn ei awgrymu, ni ellir llai na chanfod Moderniaeth yn ddwy wedd, un yn adwaith yn erbyn Rhamantiaeth Geidwadol a'r llall yn hunanfeirniadol ac yn wrthryfel yn erbyn rhai arweddau ar yr adwaith negyddol a gafwyd ynddi. Fe'i cyflwynir felly drwy hen dyndra. Yng nghalon y Beirniad ei hun ceir tyndra arall. Gwêl rhai hen geidwadwyr ef fel pe bai'n cynrychioli cyfoesedd rhy benderfynol, a gwêl rhai pobl iau fod y fath ffydd ag sydd ganddo yn y Gynghanedd, boed yn arbrofol neu beidio, yn arwydd tost o Geidwadaeth ronc. Nid yw pawb yn siŵr a yw'n gyn-ôl-fodernydd neu a yw'n fodernydd *tout simple*. Beth bynnag, rhyfelwr yw ef, neu wrthryfelwr, yn erbyn *ôl*-foderniaeth.

A Moderniaeth Gymraeg yw peth fel yna. Nid yw'n barod i ddilyn dull Seisnig o feirniadu. Yr hyn a gefais i yn *Rhyfel a Gwrthryfel* oedd profiad o ryfela drwy ymserchu, a hefyd ymwybod o genadwri gymdeithasol ddynol a mawl a oedd yn 'adeiladu', lle y buasai'r traddodiad Saesneg gorthrechol yn teimlo dyletswydd i dynnu i lawr.

Soniais am uchelgais Alan Llwyd a'i fyfyrdod yn arbennig am grefft ac adeiladwaith trefnus ei ddeunyddiau. Ond carwn ystyried hefyd, o fewn adeiladwaith ei feirniadaeth, arwyddocâd ei 'Gymhelliad'. Roedd a wnelo â'i Gymreictod.

Un peth go amlwg yn ail hanner yr ugeinfed ganrif a oedd wedi digwydd yn llenyddiaeth Lloegr (a hyd yn oed mewn llenyddiaeth Eingl-Gymraeg gyda chryn nifer): hynny oedd magu *ysgafnder 'uchelgais'* rhai beirdd, a gwamalu ynghylch ymrwymiad yng ngwaith cynifer o'i llenorion blaenaf, fel Betjeman a Larkin ac Abse. Teneuwyd gwerth difrifoldeb, onid ym marwnadau'r trydydd, y bardd Eingl-Gymreig. Trawma fu colli'r ymerodraeth i Loegr, ac efallai

oherwydd hynny, llithrodd awydd beirdd yn ôl byth a hefyd at y cyffredin a'r dibwys megis i garchar. Aethpwyd ar egwyddor i orseddu hynny. A diau fod lle i sylweddoli hynny, i werthfawrogi'r distadl ac yn y blaen. Ond dichon, pan fydd bywyd cymdeithas oll fel pe bai'n cael ei ormesu gan y dibwys, a phan nad oes ymrwymiad ymholi mewn materion tyngedfennol gan y prifeirdd, y bydd hi neu ran ohoni fel pe bai relatifrwydd pob dim yn meddiannu gwerthoedd bywyd.

Ffaith chwithig yw bod nerfau, a chydwybod, a thân ar groen Alan Llwyd wedi corddi blithdraphlith ag annibyniaeth ymagwedd, a hunanladdiad ei genedl, a'u galar tost, ynghyd â'i fywyd personol cynnar, oll wedi dwyn awel iach a miniog gwrthryfel i lenyddiaeth. Gwelai ef, o'r herwydd, yn y fan yna, fod colli gwerthuso gan rai o'i gyfoedion wedi golygu isbrisio a thrasiedi.

Wrth ystyried yr hyn a alwaf yn 'uchel-gais', yr hyn sydd gennyf mewn golwg yw ei gymhelliad i anrhydeddu'r 'awen', i fawrygu safon llenyddiaeth mewn cenedl fechan. Nid wyf yn meddwl yn unig am ei agwedd bersonol 'broffesiynol' at ei gelfyddyd ei hun, ond am ei waith mwy cymdeithasol yn hybu llenyddiaeth yn gyffredinol, a hynny'n gynhwysol ac yn amryfal. Er enghraifft, wrth hyrwyddo gwaith plant yn *Barddas,* neu waith gan bobl sydd yn llunio gwaith ysgafn a 'phoblogaidd' yn yr un lle, bu'n disgwyl gwaith 'da' gan bawb beth bynnag oedd y cywair. Fel y bydd y sawl sy'n sgrifennu barddoniaeth neu ryddiaith i oedolion tra beirniadol eu disgwyliadau yn gallu cymryd dyddiau ar eu hyd i ddod o hyd i frawddeg neu i un gair union, oherwydd iddynt barchu'n aruchel yr hyn a gyfrifir yn farddoniaeth ddifrif ofalus, felly hefyd, yn genedl fechan neu beidio, i'r sawl sy'n sgrifennu ar gyfer cynulleidfa lai beirniadol, rhaid cyfrif y dasg yn un gynhenid haeddiannol: y genedl fach yn Genedl Fawr. Nid gwaith ffwrdd â hi, na dibwys chwaith, yw gwaith ysgafn 'poblogaidd' graenus ei hun. Mae a wnelom â Llenyddiaeth *per se* – i bwy bynnag, ac ar ba lefel bynnag y gweithiwn. Mowldiwyd moderniaeth Cymru gan fath o uchelgais.

Mae dyn yn cael yr argraff fod yr awdurdodau gwleidyddol, sy'n ffidlan gyda threfn llenyddiaeth, am ennill pleidlais gan hwn a'r llall, taw pa mor ffwrdd â hi y mae'r agwedd a'r parodrwydd i ymroi o ddifrif a gwneud eu gorau porffor. Ond os gall rhywun ymbaratoi i'r dasg dros flynyddoedd gan astudio yn rhyngwladol yn y maes ar y lefel orau, fel y gwnaeth Alan, a myfyrio ynghylch holl agweddau'r grefft, yna fe all gymhwyso'i chwaeth yn ôl galwad aruchel y llenddull (*genre*), boed i blant neu beidio. Cafwyd hynny ar draws sbectrwm llawn llenyddiaeth iach. Yn ogystal, y mae rhywbeth yn debyg yn angenrheidiol i'r sawl sy'n ceisio llunio rhywbeth o safon ym maes digrifwch neu hwyl hamddenol. Yr unig ffafraeth yw safon. Yr hyn yr wyf yn sôn amdano yn hyn oll yw nid un gynulleidfa *yn erbyn* cynulleidfa arall, ond haeddiant *pob* cynulleidfa yn y sbectrwm i gael y gorau gorffenedig. Bu gormod o wleidydda diwylliannol gan yr anghatholig. Ond yr hyn a fu'n weledigaeth gan Alan Llwyd yw'r 'gorau posibl', beth bynnag bo'r llenddull, yr

oedran, y cefndir addysgol. Nid cynhyrchu rhywbeth rywbeth, ar frys, dros dro, bant â hi, heb barch hyfforddedig at ansawdd. Cafwyd gormod o bolisïo blêr o'r fath gan swyddogion, gwleidyddion, a'r Sefydliad. Mae mawr angen myfyrdod a thrafodaeth drylwyr gan feirniaid difrif ar y meysydd symlaf oll. Beth yw safon pob llenyddiaeth? Y gorffennol sy'n dysgu pethau felly.

Dyna a fu ac yw un o gyraeddiadau pwysicaf Alan Llwyd fel lluniwr 'polisi' ar gyfer llenyddiaeth Gymraeg 'yn ei chrynswth'. Hyfforddwr gwerthoedd yw.

Gŵyr pawb sydd wedi gwylied twf Alan Llwyd dros y blynyddoedd, nid yn unig am y ffordd y meithrinodd dechneg unigol wrth lunio englyn mewn cyfres, ei bwyso a'i fesur nes ei fod yn ymddangos yn ddelfrydol i wyliedydd cyffredinol, fel na allai hwnnw wneud mwy na thwtio yma ac acw. Ac yna, fe eir y filltir arall. Os oes angen lluchio'r cwbl oll, gall ailsgrifennu o'r brig i'r bôn. Yn yr un modd yn y gyfrol *Rhyfel a Gwrthryfel* y mae'n ei ail-wneud ei hun wrth ddarllen gyda manylder bob llenor sydd eisoes yn greadigol ynddo ei hun. Mae hyn yn hysbys i bob bardd a llenor sy'n ymhoffi yn ei grefft. Ond y mae'n gwbl groes i ddogma relatifrwydd anghrediniol yr Ôl-fodernydd. Yn ôl theori ymateb-darllenydd, y mae un darlleniad yn gyfartal â darlleniad arall, bawb drosto'i hun, pwy sydd i ddweud pa un sydd orau, does dim safonau sefydlog gwrthrychol, ac yn y blaen. Gwyddom oll ffolineb y dadleuon negyddol hyn i gyd. Ceir ymroddiad go ddogmatig i'r syniad nad oes y fath beth â safonau. Ni allaf lai na chredu fod cenhedlaeth gyfan bron rhwng 1970 a 2000 wedi'i thwyllo a'i suo i gysgu yn nogma relatifrwydd. Aethpwyd yn ofnus ynghylch hunanfeirniadaeth ffasiwn. Felly hefyd, yn anad neb, 'beirniaid' anfeirniadol ym maes arlunio 'ôl-fodernaidd'. Ond ychydig o fywyd ymarferol effro go iawn sy'n angenrheidiol i ganfod fod rhai pethau'n well na'i gilydd, a'n  bod yn gorfod dewis rhwng un peth a'r llall ddegau o weithiau bob dydd, bob eiliad. Rhaid gwneud penderfyniad newydd o hyd. Ni all ein hamhenderfyniadaeth fod mor ddwfn gynhenid â'r rheidrwydd mewn bywyd i benderfynu. Theori yw amhenderfyniadaeth sydd mor ffug â relatifrwydd ei hun. A ffug fu llawer o 1970-2000. Bu angen gwrthryfel.

Mae dwy wedd ar feirniadaeth lenyddol Alan sy'n atebol i'r gwamalu hwnnw. Yn gyntaf, y drafodaeth greadigol-ffrwythlon o weddau mawl deallus a thechnegol ar y gelfyddyd hynafol Gymreig, sy'n gorfodi gwerthuso manwl 'gywir'. Gwelir hyn yn ei hunanfeirniadaeth ymarferol yn ailfeddwl yn drwyadl y ddau argraffiad o *Anghenion y Gynghanedd* o'r brig i'r bôn. Ac yn  ail, y dadansoddiad cyson, agos, a manwl o gampweithiau cydnabyddedig rhyngwladol. Fel  gyda'r wedd gyntaf felly, y mae'r ymdroi diwyro i geisio plygu'i gelfyddyd Gymreig ei hun i'r safonau hyn yn dangos sut y mae'i negyddu personol yn gadarnhaol ei effaith wrth wasanaethu llenyddiaeth gwlad benodol. Rhaid wrth ddewrder i farnu trendïaeth, boed mewn polisi cyhoeddi neu mewn arddull.

Dywed y cynnwys dethol yn y *Grefft o Greu* a *Rhyfel a Gwrthryfel* lawer eto am ddiddordebau personol Alan Llwyd rhwng 1980 a 2003. Mae'r Eisteddfod yn dal i'w gyfareddu am

resymau Cymreig: 'Cerddi Eisteddfodol Cymru', 'Pryddestau Prosser Rhys a Wil Ifan', 'Awdlau Gwenallt', a *Cwm Glo* Kitchener Davies, yn ogystal â 'Chanrif y Brifwyl'. Dyma ymbaratoi o ran fframwaith gwerthuso ar gyfer y tair cyfrol ar yr 'Eisteddfod yn hanner cyntaf y ganrif'. Ac er ei waethaf, mae ef yn benderfynol o ddangos i'r sgeptigiaid y gellir rhyw ddaioni hyd yn oed allan o'r Sefydliad poblogaidd hwn. Yna, mae yna gnewyllyn o feirdd Saesneg hefyd sy'n ei atynnu o hyd. Un grŵp o ddechrau'r ugeinfed ganrif: rhamantwyr realaidd sy'n ceisio wynebu oerwynt Moderniaeth, yn negyddol ac yn gadarnhaol, gan ymgodymu ag iaith a drechai feddalwch. Felly Hardy, Edward Thomas, Edwin Arlington Robinson, Robert Frost a Wilfred Owen; beirdd a ddiogelai delynegrwydd meddylgar, ac a oedd yn nodedig nid yn unig am haelfrydedd eu cynnwys dyneiddiol eithr hefyd am loywder dyfeisgar ddethol eu crefft. Ac yna, grŵp arall, carfan 'gyffesol' Plath a Hughes ar y naill law, a Larkin ar y llall – gyda ffyrnigrwydd gyferbyn â syrffed y byd modern yn eu llethu. Bu'r her i gymathu yr amrywiaeth rhyfedd hwn, ynghyd â'r ymgais od o du Saunders Lewis, Gwenallt, Euros a Waldo i ganfod perthnasoldeb newydd-deb chwyldroadol Cristnogaeth ynghanol y blinder Cymreig cyfoes, yn rhan o greadigrwydd ymchwiliol Alan ei hun.

Hyn o Foderniaeth yn nannedd y corwynt Ôl-fodernaidd.

Perthyn Alan i ddau fyd. Fel Waldo, yr oedd Alan yng nghanol cymdeithas; ac eto fel Waldo, arhosai'n aruthr o breifat. A cheir dwy ran eglur i'w farddoniaeth. Ar un wedd, barddoniaeth gyhoeddus yw; ac ar wedd arall, mae ambell fyfyrdod yn ddirdynnol o neilltuedig. Mae'r ddwy farddoniaeth yn dweud yr un gwir, yn arbennig yr ail.

Ceisid cyhuddo Alan Llwyd o geidwadaeth hen-ffasiwn. Hoffwn oedi gyda'r cyhuddiad hwnnw. Tybir weithiau mai gwrthryfel newydd a ddylai fod bob amser yn hanfodol i bob egni creadigol newydd. Cytunwn yn barod fod Traddodiad wedi'i lunio gan gyfuniad o sefydlogrwydd ac ansefydlogrwydd, gwahanu ac uno. Ergyd yw yn erbyn ergyd yn ôl. Ond mae natur y 'newydd' a hanfod y gwrthryfel hwn yn ystyrlon os yw o werth. Drwy gyfeirio at wacter delfrydu'r *avant-garde* ar ddechrau'r ugeinfed ganrif y ceisiwyd diffinio ffynhonnell a tharddiad gwendid Ôl-foderniaeth a'i diffyg safonau. Nid gwrthryfel *per se* na newydd-deb diystyr sy'n diffinio creu. Eithr gwrthryfela penodol yn erbyn marwolaeth a gwacter. Nid maint nac eithafrwydd gwrthryfela sy'n rhoi arddeliad i greadigaeth lenyddol. Gall yr adwaith o blaid bywyd fod yn dirion ysgafn ac yn gynnil dawel, yn gudd ac yn anwel bron. Ond yn y llais tawel hwnnw gellid cronni ysbryd y newydd-deb dirgel. Y mae pob cyfraniad byw – beth bynnag y bo hynafiaeth ei wreiddiau – yn newydd. Dichon mai bychander rhyfeddol yr englyn, lle y darganfyddir gweledigaeth celfyddyd syndod yn y mân cyflawn, yw'r symbol Cymraeg gorau o'r 'geidwadaeth' fyw bondigrybwyll hon. A'r tu mewn i hynafiaeth ddofn y sefydlogi yn hwnnw, gellir ansefydlogi hydeimledd a dwyn syfrdandod y newydd gwanwynol i aeaf hen o egni celfydd. Bu 'ffasiwn' a 'threndïaeth' yn rhy aml yn fath

arbennig o farwolaeth. Gormes y dihyder fu o blaid ambell lenyddwaith. Rhoddai ddiogelwch i'r sawl na allai ddod o hyd i'r unigolyddol arhosol yn y parhaol. Felly, y parhaol hwn yn y diwedd yw rhuddin celfyddyd, a hynny'n sefydlog amrywiol.

Wrth inni drafod fel hyn feirniadaeth lenyddol a'r sefyllfa farddol yng Nghymru, ac Alan Llwyd (a Barddas) yn arbennig, mae angen inni geisio deall ystyr berthnasol y geiriau 'Radicaliaeth' a 'Cheidwadaeth'. Ystyr 'Radicaliaeth' ar ei mwyaf cyffredin heddiw, mae arnaf ofn, yw syniadau blinedig a threuliadwy am 'Ffeminyddiaeth' a 'Marcsaeth' sy'n adlais o'r cyfryw gywirdeb gwleidyddol ymhlith dyngarwyr gynt yn Lloegr. Dyna ni ynghanol diogi ymenyddwaith Gwleidyddiaeth Cymru. Adlais gwywedig yw o syniadaeth debyg ganrif yn ôl yng Nghymru.

Beth yw 'Ceidwadaeth' fodern, felly, dwedwch, yn achos Alan? Er mawr ddychryn i lawer, ffurf ddeddfol a pharhaol fyw – Disgyrchiant, a'r Atom, a'r DNA o genhedlaeth i genhedlaeth, yn ymddangosiadol ddigyfnewid o ran hanfod a sylwedd – dyna yw Ceidwadaeth iach. Amddiffyniad yw i'r cynhenid fyw yn y traddodiad.

Yng ngoleuni hynny dowch inni ystyried sut y mae Alan Llwyd yn gyntaf yn sefyll o fewn y pegynau Chwith a De ar gyfer ein beirniaid cymdeithasol, Radicalaidd a Cheidwadol – a hynny o fewn yr hen ffrindiau – 'Traddodiad' â'r 'Cyfoes'. Yn gyd-dynwyr i'w gilydd. Yr hyn y mae'n rhaid inni'n gyntaf ei gofio yw bod a wnelom yr un pryd â'r cymharol ddigyfnewid o fewn cyd-destun Cymraeg, sef Cerdd Dafod, a'r hyn sy'n Gerdd Fynegiant a'i thraddodiad 'chwyldroadol' bythol gyfnewidiol. Gall yr hyn sy'n gyfnewidiol fod yn gudd gyfrwys, yn lleddf anamlwg, ond yn ddwfn wrth barhau. Dichon y gallwn ddod o hyd i ryw fath o ateb deuol drwy archwilio'n gyntaf yr ail argraffiad o'i *Flodeugerdd o Englynion*. Enwaf yr ail argraffiad oherwydd ei fod yn cynnwys helaethrwydd o englynion ychwanegol ar ôl chwyldro *Barddas,* ac yng ngwaith cymrodyr Alan a'i waith ei hun. Yn wir, tua'r un pryd, cafwyd argraffiad newydd o *Anghenion y Gynghanedd.* Dwbl-ddwbl fel petai. Dwy gyfrol echelaidd yn y ganrif ddiwethaf fu'r *Flodeugerdd o Englynion* a'r *Anghenion*: canrif a ailwampiwyd ynddynt drosodd a thro. Yn y ddwy gyfrol hyn hefyd gyda'i gilydd, sy'n ddwy ran ar un gyfrol, ceir yn symbolaidd yr angen i newid o fewn y cadw, i dyfu gan fwrw gwreiddiau a gweddnewid y mêr sy'n ganolog. Dyma hefyd natur Alan Llwyd yntau fel bardd a beirniad.

Un o'r disgrifiadau, sy'n gyfaill i Geidwadaeth, ac un y clywid ei ddywedyd ar ffurf beirniadaeth am yr adfywiad mewn Cerdd Dafod oedd 'adweithiol'. Fe'i clywais am Alan Llwyd, nid yn unig oherwydd ei barch edmygus at y traddodiad, eithr oherwydd ei fod yn y dyddiau ôl-fodernaidd gynt wedi dal ati i fawrygu Gwaith, Trefn, a Diben. Galw enwau gan y meddwl cartwnaidd fu hyn. Ac fe hawliai ddiffyg amynedd gan ddarllenydd effro. Gan bwyll, gwawriai efallai ar y dogmatwyr ôl-fodernaidd, na ellir dweud dim oll heb werth, trefn, a phwrpas. A

dychwelir, nid fel 'adwaith' syml ond fel 'rheidrwydd' cadarnhaol bywydol – at yr hyn a wyddai beirniaid llenyddol ers y Groegwyr cyn Crist. Sef bod gwerth, trefn, a phwrpas yn sylfaen anochel goruwch amser  i Fod a Bywyd a Llên. Diffyg myfyrdod digonol ynghylch yr union fater hwn, ysywaeth, a danseiliai'r Rhyddfrydwyr bondigrybwyll yn eu pwlpudau neu yn eu darlithleoedd, a'r holl ddefaid dof a'u canlynai ynghyd â mwyafrif hil anhapus y Celfyddydau ym mydoedd Gweld a Chlywed.

Ond i Alan Llwyd, ystyr Moderniaeth oedd ac yw popeth sy'n fyw yn awr.

*50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym,* 1980; *Llywelyn y Beirdd,* 1984; *Crefft y Gynghanedd,* 2010.

Gwreiddiwyd Alan Llwyd ei hun yn ddwfn yn oesau aur Cynghanedd y Gymraeg, o'r ddeuddegfed ganrif hyd yr unfed ar bymtheg, yn ogystal ag mewn oes arall, sef yr ugeinfed ganrif. Yr oedd Alan yn un o'r tri chyfrannydd i gyfrol (1984) a arolygai'r farddoniaeth a gyflwynwyd er cof am Lywelyn. Alan, yn y gyfrol honno, oedd yr un a ddangosodd beth oedd arwyddocâd llenyddol Llywelyn i'r ugeinfed ganrif wedi bwlch o esgeulustod dros dair canrif (ac eithrio'r sylw a gafodd gan rai amheus fel Llew Llwyfo ac Elfed). Roedd Alan Llwyd yn un o chwe chyfrannydd i'r gyfrol *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym,* hwnnw wrth gwrs eto yn un o feirdd yr uchelwyr. Wedyn, bron megis estyniad i'r 'blodeugerddi' beirniadol hynny, cafwyd drachefn *Crefft y Gynghanedd* yn ymagor yn fwy 'beirniadol' wlatgar am feirdd yr uchelwyr (yn bennaf). Mae hyn oll yn dweud rhywbeth go bwysig am genedlaetholdeb ac am farddoniaeth Alan. Cafodd ef gyfoesedd arddull ac ymwybod er eu gwaethaf gan yr hen gywyddwyr. Cafodd falchder gwlatgar ganddynt hefyd. Mewn gwirionedd, yr oedd yr adfywiad yn y 70au i'r Gynghanedd, y Cywydd, a'r Englyn wedi'i arloesi eisoes gan Fois uchelwrol y Cilie yng Ngheredigion (ac eraill) yn y 50au a'r 60au. Teyrnged i'r ffaith honno oedd i T. Llew Jones gael ei orseddu'n Llywydd cyntaf i Gymdeithas Cerdd Dafod ac yn Llywydd hefyd i'r Academi Gymreig. Ac yr oedd Llew ac Alun Cilie, Isfoel a Dic wedi'u gwreiddio'n solet annisgwyl ym marddoniaeth yr uchelwyr. Bu hyn yn fwy ymarferol wir am feirdd y 70au, diolch yn bennaf i Alan. Canys o'r holl gynganeddwyr cynhyrchiol yn y 70au, Alan oedd y pennaf ysgolhaig. Ac yr oedd yr ysgolheictod hwnnw wedi'i feithrin gan argyhoeddiad cudd Alan mai beirdd yr uchelwyr ydoedd Cymdeithas Cerdd Dafod eu cyfnod. Allan o'r gwreiddiau hyn y daeth thema'r genedl. Yr oedd ei genedlaetholdeb yn meddiannu Amser.

Beirdd yr Uchelwyr, fel y gwyddys, oedd copa'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Ar ryw ystyr, oherwydd eu camp a'u delfryd, hwy yw craidd Cymreictod yr oesoedd i bob Cymro diwylliedig (pe na bai ond am *gyfrwng* William Morgan a John Davies), gwybod hynny neu beidio. Gweithred genedlaethol, gweithred wleidyddol medd rhai, yw rhoi'r rhain oll yn ôl ar fap bodolaeth Cymru. Ond i'r Cymro effro, y maent yn rhan hefyd o'r hyn a wnaeth Gymru gyfoes.

Gall hyn fod yn ddirgelwch i rywrai anghyfarwydd. Mae rhai o'r Cymry mwyaf effro ysywaeth mewn penbleth am y diwylliant hwn. Dyma broblem o hunaniaeth. Y penbleth hwn sy'n rhoi eu harbenigrwydd iddynt, heb yn wybod weithiau. I'r rhai mwyaf ohonynt, bu'n wewyr i'w barddoniaeth. Yn y flwyddyn 2010, wrth ddethol Llyfr y Flwyddyn yn Saesneg yng Nghymru, cafwyd bod y tri cyntaf a wobrwywyd yn brin braidd o 'Gymreictod', ac ar lawer ystyr yn Saeson rhonc. Mae'r Cymry di-Gymraeg o lenorion (a does dim dwywaith gennyf i am Gymreictod y term)

yn mynd yn ansicrach o flwyddyn i flwyddyn ynghylch yr hunaniaeth honno. Gellid meddwl y buasai hunaniaeth yn bwnc o bwys iddynt. Hyd yn oed, pan glywir ambell hanesydd diwylliannol, fel y'i gelwir, yn cyffredinoli ynghylch yr hunaniaeth Gymreig, mae'r diffinio'n broblem enbyd iddo – 'cyfrifwn yn Gymro pwy bynnag sy'n ei gyfrif ei hun yn Gymro'. Cymharer y fuwch sy'n synied ei bod yn darw, neu'r gath sy'n teimlo'n debyg i deigr. Gwiw yw pob ymdrech i groesawu pawb. Ond dibynna gwerth geiriau, i lenor, ar ystyr y berthynas.

Yn y Gymraeg, fe geir yn flynyddol ers tro byd dan gochl Cyngor y Celfyddydau (neu eraill) gystadleuaeth genedlaethol am lyfr y Flwyddyn. Bu dadlau diniwed ond pur arwyddocaol ynghylch ansawdd a gallu a gwybodaeth a phrofiad y beirniaid yn y dasg honno. Gall fod yn jôc. Ond nid oes yr un amheuaeth ai llyfr Cymreig sydd o'n blaen ai peidio, pan fydd yn Gymraeg.

Beth sy'n 'Gymreig', felly? Tuedd ambell hanesydd diwylliannol yw ei gyfyngu'i hun o ran diffinio dinasyddiaeth neu hunaniaeth y 'Cymro' i'r rhanbarthau daearyddol penodol o fewn Cymru ffiniedig, neu eraill yn ôl eu man geni (buasai hyn yn anhwylus i Saunders Lewis, Lloyd George, Ffransis Payne, a llawer o Gymry diamheuol eraill), neu eraill yn ôl thema. Ond fel arfer, os yw'r cyfryw hanesydd diwylliannol yn ddi-Gymraeg ei hun, yn fynych cyfyngir y diwylliant a ddiffinnir ganddo, i'r ugeinfed ganrif a'r amser presennol. Nid ydys fel arfer yn ymwybodol o wreiddiau mor dreiddgar â chyd-destun meddyliol sy'n cwmpasu'r holl wlad ar draws pymtheg canrif. Hunaniaeth brin yw eiddo haneswyr sydd eu hunain wedi'u dallu i raddau i'n Hanes cydlynol seicolegol go iawn am resymau personol. Mae gan hunaniaeth ymerodraeth o gysylltiadau. Ni all fod ei phresennol heb orffennol. Ond nis cyfyngir gan iaith, er mor bwysig yw presenoldeb honno.

Eto, y gwir yw, er cymaint a sgrifennodd Alan Llwyd am grynswth ein llenyddiaeth, ac er pwyslais Gwasg 'Barddas' (mewn blodeugerddi, a llyfrau eraill) ar gyfanrwydd y traddodiad, mai un ganrif, yr ugeinfed ganrif o ddigon, a gafodd y sylw pennaf naturiol ganddo ef dros y blynyddoedd. Hawdd deall pam. Adeiladwyd ef ynddi gan genedl fyw. Dyna'i gyrchfan. Ac eto, gŵr o'r ddeunawfed ganrif biau'r cofiant gorau a luniodd Alan, er gwaethaf rhagoriaethau'r *Kate.* Un o'r goreuon o'r blodeugerddi a olygodd ef ei hun yw *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*. A dengys llyfrau eraill ei hoffter o'r Englynion cynharaf. Bu'r fil a hanner (bron) o flynyddoedd a roddwyd i Alan yn draddodiad byw a chynhyrchiol gydlynol iddo o hyd, ac mae'n rhodd bellach i Gymry heddiw. Un o'i gyfrolau mwyaf gwreiddiol yw *Crefft y Gynghanedd* sy'n canoli ar y cyfnod rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r unfed ar bymtheg. Mae ef yn Gymro fertigol ac yn Gymro llorwedd. Y Cymro, iddo ef, yw'r un sy'n meddu ar Gymru amseryddol. Hyn yw hunaniaeth Cymreictod.

Syniad penigamp ganddo oedd casglu 48 o gywyddau Dafydd ap Gwilym, a darparu cyflwyniad (ac aralleiriad) gan ddarllenwyr hyddysg. Tua dechrau'r gyfrol honno, myn yr Athro John Rowlands y dylid chwilio yn y farddoniaeth am yr 'ynni bywydol sy'n goroesi'i Chrëwr', a

dilyn cyngor John Gwilym Jones gan efrydu cywydd 'fel petai ddoe y'i cyfansoddwyd'. Myn chwilenna am y weledigaeth a'r teimlad a'r modd y mae geiriau'n dod yn bwyntiau o drydan byw. Nid oes gwell taith lenyddol na chael cydymaith profiadol o fardd-feirniad sydd wedi treulio dyddiau, efallai wythnosau lawer, uwchben cerdd, ac ar sail ei ymateb hyddysg iddi yn gallu cyfleu'i 'drama deimladol' a thrwch ei chelfyddyd. Dafydd, wrth gwrs, yw'r mwyaf o'n beirdd. Dyma'r darllen mwyaf ffrwythlon. A gwnaeth Alan y gwaith hwn o gyhoeddi'r fath gyfrol ar gyfer darllenwyr creadigol yn genadwri ac yn angen. Ystyr traddodiad iddo yw nid rhywbeth sy'n aros yn y gorffennol, ac felly drosodd; ond rhywbeth a draddodir fel DNA, tan symud y gorffennol i'r presennol. Cymreictod amser yn y llenyddiaeth yw ei hunaniaeth ystyrlon.

Eto, os yw hynny'n fodolaeth ac yn 'ddyletswydd' (dyled-swydd) Gymreig, nid ymddengys y brif themateg a geir yng ngwaith Dafydd yn eithriadol Gymreig heddiw er yn themateg ryngwladol ac yn ôl modd sy'n hysbys ac yn dderbyniol i ddarllenwyr estron. Ymdeimlir weithiau â Chymreictod Dafydd sy'n fodernach yn y ffurf nag yn y deunydd. Eithr pan drown at Flodeugerdd sydd hithau'n ymwneud â gwreiddiau'r darllenwyr Cymraeg, nid yw'r mwyafrif o ddarllenwyr estron *Llywelyn y Beirdd* yn debyg o fod mor gysurus eu clustiau os ydynt wedi'u meithrin o fewn cefndir mwy imperialaidd ei gyfyngderau. Dichon y buasai cryn nifer o ieuenctid gwlatgar ail ddegawd y ganrif hon, pe gwelent y math o ddathlu a gaed gynt ar gyfer saith gan mlwyddiant 1282, yn teimlo bod y byd yn ddieithr. Y gwir yw, addysg ryngwladol a gaent yn y Cymreictod amddiffynnol hwnnw gynt. Rhyngwladol oedd ac yw sefyllfa Llywelyn. A hyn yw hunaniaeth Alan.

I Alan, y mae'r arwyddocâd hunaniaethol yn drysorfa i fyfyrdod sydd yn y bôn o ddiddordeb bydeang. Eto, ni raid i lenorion Eingl-Gymreig addysgedig ofni llawnder eu hunaniaeth hwythau: rhan ydynt o'r un cydlyniad, mewn ffordd wahanol. Ac erbyn hyn, oherwydd ehangder ac amrywiaeth Cymru, ymhlith hen resymau eraill, oherwydd agosrwydd llethol pob rhan arall o'r byd, nid oes neb Cymro y gellid cyfrif ei fod yn perchnogi Cymru i gyd yn feddyliol: mae bod yn 'rhannol' hefyd yn wedd ers tro ar fod yn Gymro Cymraeg neu'n Gymro Di-Gymraeg.

Beth sy'n gwneud cenedlaetholwr Cymreig felly? Dathlu ardderchowgrwydd yng Nghymru.

Tuedd gwleidyddion yw gwleidydda'r term yn ormodol. Dyna'n culni newyddiadurol. Ond yn y bôn, mae yna duedd ormodol ganddynt hefyd i ymgolli mewn gweinyddu ac economeg. Ac un o'r pethau amgen a gais llenyddiaeth yw unioni'r fantol. Cyflwr seicolegol a diwylliannol gymdeithasol yw cenedligrwydd. Ewyllys yw ar waith yn y cyfwng amseryddol.

Tuedda Llenyddiaeth i drafod ei chenedl yn fwy crwn. Fe wêl llenyddiaeth ei theuluoedd a'r plant, gyda chwarae a charu a marwolaeth; a chaiff hi genedl. Fe wêl leoedd hardd a hyll. Fe wêl wyliau, a gwawrio a machlud. A'r pethau hyn oll yn plethu drwy'i gilydd. Fe wêl lan y môr a mwynhau bywyd. Fe wêl rai pobl ryfedd ar eu gliniau. Fe wêl iaith a gorffennol mewn perygl, a

ffiniau sy'n dynodi amrywiaeth yn ffrwythlondeb eu gwahaniaethau. Fe wêl siopa, a darganfod meddyginiaethau newydd. Fe wêl athrawon yn dysgu cyfrifiaduraeth. Fe wêl groesawu pobl a ffarwelio â hwy. Fe wêl werthfawrogiad ac uchelgais. Fe wêl gyfathrebu mewn cymdeithasau, mewn lle penodol. Fe wêl ryfel, gormod o ryfel, a'r arfer o ddechrau rhyfel, a hynny yn y traddodiad imperialaidd, heb bwyso a mesur yn ddigonol ... Fe wêl, yn fyr, Gymru isradd seicolegol mewn cyd-destun adeileddol diriaethol real yn dymuno ymddwyn fel cenedl werthfawr.

Yng Nghymru, ni chafwyd erioed fudiad cenedlaethol gwleidyddol 'pur', yn yr ystyr ystrydebol. Fe gafwyd yn hytrach genedlaetholdeb o dan gawod o werthoedd hunan-gysylltiol, diwylliannol a seicolegol, ac ymgais i beidio â meithrin polisi amddifad. Beth bynnag oedd ystyfnigrwydd materolwyr – a beiid rhai gwleidyddion Cymreigaidd am hyn – ceisid er ein gwaethaf gan lenorion feithrin golwg arall ar y fodolaeth foesol genedlaethol.

Mae yna fath o ganon felly o genedligrwydd yn ymwybodol iawn i'r llenor Cymraeg cyfoes. A bydd y Cymry sylwgar yn llunio sawl cenedl o fewn Cymru. Hynny yw, mae yna ddelfryd yn cael ei fagu ym meddyliau nifer go helaeth o'n pobl sy'n dymuno iddi fod yn llwyddiant yn y maes rygbi, ac un arall sy'n llawn o ganu 'hen-ffasiwn' yn hytrach nag yn ddynwarediad o Texas. Mae ambell un fel Alan yn magu cenedl fach yng nghornel gudd ei fodolaeth ei hun am mai dyna'r Gymru realistig a edwyn orau. Teimla fod yng Nghymru gyfrinach, na ŵyr Cymry fawr amdani'n ymwybodol, a'i gwna hi'n unigryw ac yn unigolyddol. Mae yna lawer o bethau na all hi'i gwneud yn well na'r un genedl arall, mae'n wir. Ond erys un peth diwyro o hyd: fe all hi fod yn Gymru yn well na neb arall.

* * *

Yn y themâu cenedlaethol, yn y panorama o Gymreictod, bu'r elfen gynganeddol (o bethau'r byd) yn arwyddocaol iawn ac yn unigryw wedi'r chwedegau. Ac y mae Alan Llwyd yn fyfyriol ymwybodol o hyn. Yn hyn o beth, Cymru fel uned, fel diriaeth, sydd dan sylw, nid y Cymry Cymraeg yn unig. Byddai rhai beirdd Eingl-Gymreig (o'u cyferbynnu â'r beirdd Seisnig yng Nghymru), beirdd fel R.S.Thomas a Harri Webb, hwythau'n enghreifftiau prin o'r undod Cymreig fel profiad byw – boed yn negyddol neu'n gadarnhaol. I'r beirdd Seisnig, ardaloedd lleol yw Cymru, hyd yn oed gymunedau diwydiannol. Bodau dynol effro ydynt. Ond ychydig yr ymwybyddir â threiddgarwch a hydeimledd y thema Gymreig drefedigaethol gyflawn ganddynt.

Eto, i Alan, baner, bathodyn, arf, amddiffynfa, a mynegiant o'r gorffennol, yn ymosodol bresennol, oedd y gynghanedd. Trysor i'r holl genedl, anghyffredinedd athrylithgar, dyna oedd y Gynghanedd, yn plethu, wrth gwrs, drwy thema a ffurf Cymreictod, ond yn cario hynny drwy ddigrifwch a marwnadau, drwy gymdeithas ac unigolion, drwy egwyddorion a lleoedd. Cymdeithas o ffurf yw'r Gynghanedd. Dyna sy'n ei gwneud. Nid yw hi'n bod heb y gymuned. Isymwybodol yw yn ei hanfod, ac isymwybodol genedlaethol yw drwy bob ardal, ond wedi'i ffinio gan arbenigrwydd

y wlad mewn amser a lle. Gwrthrych balchder. Diddorol sylwi bod Angharad Price wrth sôn mewn cyfweliad am ei nofel Caersaint wedi dweud: '*Mae'r dre yn gymeriad yn y nofel. Un peth ro'n i eisiau'i wneud oedd gweld ydi hi'n dal yn bosib sgwennu nofel Gymraeg realaidd am gymdeithas drefol?'* Mewn modd tebyg, gallwn hawlio mai 'milwr' yw'r Gynghanedd hithau, a chanddi gymeriad cymunedol amddiffynnol o fewn y sefyllfa hon. Mae ganddi gyfundrefnau'n rhedeg drwyddi fel gwythiennau a nerfau a chyhyrau ac ymennydd a gramadeg. Arfau i gyd.

Mae unrhyw undod o gymuned, megis ardal sy'n canoli ar dref, neu genedl ar iaith, yn debyg i gymeriad o unigolyn. Diddorol yn hyn o beth yw sylweddoli arwyddocâd y Flodeugerdd *Cadwn y Mur*. Roedd y golygydd, Elwyn Edwards, yn brifardd ei hun ac un a fu'n rhan hanfodol ac arweiniol o gymdeithas *Barddas*. Un yw hefyd a fu'n gyfrifol am Flodeugerdd Genedlaethol gwbl ragorol y gymdeithas. Doedd neb yn fwy addas. Mae ef yn anadlu gwladgarwch. Felly wrth lunio cyfrol hollol wahanol *Y Flodeugerdd Englynion Newydd,* teimlai Alan yntau'r rheidrwydd i gynnwys 'Ein Hiaith, ein Cenedl, ein Hil' yn Adran; cynhwysai hefyd 'Hen Gwlwm ein Gwehelyth' a 'Bro, Cartref a Chynefin'. Ni ellid barddoni mwyach yn Gymraeg heb y sylweddoliad hwn yn gefndir hyd yn oed yn negyddol. Alan sydd wedi bod yn un o brif ddehonglwyr y thema. Dau lanc yn lleisiau gwlad.

Tua dechrau'r chwedegau, felly, fe gafwyd llanc. Fe wnaeth dri darganfyddiad Cymreig personol. Yn gyntaf, darganfu Gerdd Dafod, a darganfod beth oedd honno'n gallu ei wneud i'w hiaith a'i meddwl. A thrwy hynny, yn ail, fe'i darganfu ei hun a'r cymhlethdod mawr a fyddai rhyngddo a'r gerdd, rhyngddo ac argyfwng Cymru, a'i deulu. Ac yna'n drydydd, darganfu Feirniadaeth a chyfoeth ein llenyddiaeth yn gyffredinol. Pe bai wedi aros gyda'i ddarganfyddiad cyntaf, buasai wedi gallu ymdroi gyda'r hiraeth, a'r galaru, a'r adar, a'r serch. Ond yng Nghymru ac yn y Feirniadaeth, darganfu lydanrwydd gwerth Ewrob gyfoes. A rhedodd: rhedodd a rhedodd o gwmpas y cyfandir hwnnw. Ni allai gael digon. Llyncai feirdd ym mhob erw. Neidiodd i mewn iddynt a'u gwneud yn Gymry. Darllenai Feirniaid yn ddiddiwedd, sef y cyd-fyfyrdod ffrwythlon. Daeth llenyddiaeth iddo'n fwyd ac yn ddiod, yn arbennig yn ddiod. Meddwodd ar sillafau a chyneddfau a dyfeisiau prydyddol. Ni allai gael digon ar ymdroi gyda'r gwahaniaethau a'r uniadau. Fe'i meddiannwyd gan lenyddiaeth greadigol yn feirniadol. Ac mewn llenyddiaeth, fe'i meddiannwyd gan angen ac angerdd Cymru, a oedd beth yn ddyfnach na darllen llyfrau ysgafn.

A throdd yn ysgolhaig er ei waethaf ei hun.

Ni throdd yn ysgolhaig testunol a hanesyddol, casglwr ffeithiau, trafodwr troednodiadau yn unig er bod y rheini'n ei boeni rywfaint. A'i gwaredo. Bu'n ysgolhaig angerddol, mwyngloddiwr perfeddion. Rholiai yn amlder aruthr safonau llenyddol. Gwelai ysgolheictod, gwelai farddoniaeth mwyach drwy sbectol mwynhad catholig, darganfyddai feirdd o sawl cenedl, a'i rhyddhâi ef nid yn unig rhag gormes diruddin ysgolheictod ystrydebol, y llafurwyr academaidd defnyddiol, ac a'i

gollyngai'n rhydd nid yn unig rhag y 'delyneg' a'r ymryson a'r arferol gymedrol. Na! Camodd i ganol y farddoniaeth gyfoes drwy feirniadaeth a wyddai ddirnadaeth y bardd mewn eraill. Fe'i pwysai'i hun; pwysai eraill. Bob dydd, cyn brecwast pawb arall, roedd y gloddesta'n digwydd. Meddiannai awch y dydd i ysu'r goreuon, ac ar ôl swper mynnai chwilio i wybod pam, pa beth a'u gwnaeth hwy'n orchestol, pa rannau oedd orau, a sut y'i cafwyd, hyd yr hwyr iawn. Etifeddodd gyfanrwydd defnydd llenyddiaeth Gymraeg. Un o offer undod cenedlaethol yw'r Gynghanedd.

A gwnaeth ef hyn oll drwy gario llenyddiaeth Gymraeg oll ar ei gefn.

Tua dechrau'r chwedegau, felly bu gennym Gymro croendenau. Ac yr oedd yna ddwy rodd a gyflwynodd Cymru i hwn. Yn gyntaf, marwolaeth ei wlad ei hun. Ac yn ail, oherwydd hynny, gwelodd farwolaeth gwledydd eraill a'r byd oll. Ac oherwydd y ddwy rodd hyn, cafodd gynnwrf adfywiol a bywyd i'w ddweud, a'r un mor bwysig, rhywbeth i beidio â'i lyncu – gormes newyddiaduraeth yr *avant-garde*, chwarae'r diletantiaid ymrwbiol lenyddol, yr arwyneb o foderniaeth wneud, diogi'r poblogeiddwyr, masnacheg yr hunanddangos gwag a'r pwyslais ar dderbynioldeb. Hynny yw, cafodd wraidd i'r cwbl mewn dau le, yn adfyd y Gymru cyfoes, ac yn y byd cyfoes. Ac yng ngwynfyd calon y cadw adenillol hwnnw, trodd y ddwy rodd yn adfywiad.

Ceisiodd ef fynd i graidd ystyrlon y Traddodiad a'r gyfundrefn farddol. Ceisiodd ddiffinio unigrywiaeth y meddwl Cymraeg byw. Ceisiodd drafod isymwybod arswydus y genedl. Ceisiodd archwilio estheteg a seicoleg ein pobl heb flewyn ar ei dafod. Trafododd arddulleg gyda meddwl ffres. A blinodd heb ddiffygio. Mentrodd ymgodymu â phroblemau anodd y berthynas rhwng iaith a mynegiant. Ac felly y gwelodd Gymru o fewn cyd-destun rhyngwladol.

Canfu mor ddynwaredol drist oedd radicaliaeth ystrydebol Cymru. Gwelodd egnïon weithiau yn cael eu buddsoddi i'r eithaf mewn efelychiad, a gwir radicaliaeth mewn meddwl a theimlad heb roi'r diddanwch hyfryd i'r ymennydd sy'n bosibl mewn cyd-destun cyflawn mewn oed.

Hyn yw cenedlaetholdeb Cymreig. Ymgais yw i borthi anghenion, yr ewyllyswyr crin.

Honna llawer ohonom fod angen i'r iaith fod yn gyfrwng meddwl yn gyffredinol, ac nid i sinc y gegin yn unig. Oherwydd y cyd-destun ehangach mewn meysydd eraill, gall hynny fod yn broses fwyfwy anghyfarwydd hyd yn oed mewn llenyddiaeth. Ac oherwydd diffyg hyder, fe ellid tybied fod yn rhaid i lenyddiaeth Gymraeg fod yn llai datblygedig ac aeddfed, yn ysgafn ac yn fwy arwynebol na llenyddiaethau eraill. Rhaid iddi fod yn 'rhydd' bob amser er mwyn iddi fyw. Y fath fyw a fygythir! A'n gwaredo! Heb fod llenorion, a darllenwyr, yn glustdenau i'r broblem, ac yn eu hyfforddi'u hunain i goncro'r cyfyngderau amlochrog a'u disgyblu'u hunain yr un pryd i ymgodymu â myfyrdod difrif a hwyl iach, mae'n debyg mai llithro tuag i lawr fyddai ein tynged.

Rhaid i 'genedl' gwmpasu yn ei hystyr bopeth sy'n botensial o'r tu fewn i'w gofod a'i hamser.

Yn hyn o beth, yr wyf yn synied bod cyfangorff amrywiol Alan Llwyd yn ei feirniadaeth

lenyddol yn olynydd teilwng i feirniadaeth Saunders Lewis. Yn y naill fel y llall, ceir y mynegiant llawnaf o hunaniaeth adenillol yn yr iaith Gymraeg. Hyn yw bod yn genedlaetholwr o Gymro.

Peth hollol ddierth fyddai meddwl am y fath beth gan feirniad Saesneg – boed yn Lloegr, ac yn wir hyd yn oed yn America. Ond wrth fynd â'r genedl gyda hwy, i feirniadu, bu Saunders Lewis ac Alan Llwyd yn adeiladu'r ymwybod delfrydol o hunaniaeth. Mae'r naill a'r llall yn mynd i'r hwyl. Cynhyrfir eu hangerddau gan gerddi coffa i Lywelyn, cerddi gwrthbietistig gorfoleddus Dafydd ap Gwilym, cerddi tangnefedd Waldo; a chawn gyfle i fyfyrio amdanynt drwy Gymreictod obsesiynol.

Blaendirir y cysyniad o genedl i'r Cymro diwylliedig cyfoes. A chrëwyd beirniadaeth Gymreig, gyfoethog.

Hiraethai S.L. a'i ddilynwyr am Gymru wahanol. Llwyddent, er boddhad iddynt eu hunain i'w perswadio'u hun fod gan ei thraddodiad gyfran uchel o feirdd gwych, a hyd yn oed rhai beirdd mawr. Ond hiraethent am gynulleidfa fyw, ddeallus, pobl a ddylai ymateb i hyn. Nid llu, ond rhai. A oedd cyffredinedd llipa a dinodedd gwastad a diegni yn haeddu cael awdl gyflawn? Nid oedd yr un ohonynt yn gwbl 'gyflawn', wrth gwrs. Ond dangosent yr arwyddbyst i'w dilyn i gyfanrwydd.

Dyma osodiad gan Saunders Lewis am werth beirniadaeth lenyddol: '*Heb ddwfn werthfawrogi'r pethau hyn, sef traddodiad mewn meddwl a chelfyddyd, Cristnogaeth Gatholig, a chymdeithas aristocrataidd, a phethau eraill, ni ellir caru llenyddiaeth Gymraeg y cyfnodau Cymreig yn ddigon llwyr i fyw arni a'i derbyn yn dref-tad ac yn faeth i'r ysbryd.'* Ni byddai Alan Llwyd yn rhoi'r un pwyslais yn union o bell ffordd. Sylwer sut yr oedd Saunders Lewis yn dysgu'r Cymro i fod yn Gymro: dywed yng nghornel ei geg: 'Dysgwch Ladin yn bennaf.' Mae'n rhaid deall pam hynny hefyd. Credai Alan, yn ddigon tebyg i'w ragflaenydd, fod beirniadaeth drwy weledigaethau am lenyddiaeth Gymraeg yn medru cyflwyno meddwl iach a theimlad cywir ac egni ffyniannus i wefreiddio pobl ifainc Cymru. Gweithred genedlgarol felly oedd beirniadaeth lenyddol iddo. Wrth iddo ganfod Dafydd ap Gwilym ynghyd â Llywelyn ynghyd â'r englynwyr drwy'r canrifoedd ynghyd â'r can mlynedd diwethaf, cawn gipolwg ar gornel o'r gwirionedd real cyfun ac amlochrog od hwn, ac mai yn ein beirniadaeth lenyddol y cawn y datganiad cyfansawdd gorau o lawnder ein cenedligrwydd. Dyma hi'r wlad ddychmygol yn ei chymhlethrwydd lliwgar.

Ac ni fu'n ddigonol wrth gwrs o bell ffordd. Yn ei fyfyrdod am Gymru, gogwyddir Alan i ddelweddu cenedl sydd – o leiaf mewn rhan – yn cyflawni hunanladdiad: cynnyrch y tlodion, ffrwyth tosturi oedd –

*y genedl nad yw'n amgenach*
*na chynrhon bach yn rhannu bedd;*
*burgynod briw o genedl.*

Cân y Cymry gydag arddeliad rhyfedd am gydorwedd gyda'r hen bethau bach yna:

*Aeth y Cymry'n gyn-genedl:*
*teirw gwyllt lle trig alltud*
*yn bugunad – heb genedl...*
*bedd tranc yw Canaan cenedl...*
*Angau'i* ***hun*** *yw fy nghenedl.*

Darparai hunanladdiad (o bethau'r byd) ganolbwynt i weledigaeth Alan am y byd cyfoes. Yn *Rhyfel a Gwrthryfel,* y fwyaf meddylgar, gwreiddiol ac aeddfed o'i gyfrolau beirniadol-glòs, ceir tair ysgrif yn canoli i raddau ar hunanladdiad – ar Hardy, Caradog Prichard, a Plath. Yn wir, ymddengys fod Alan wedi gogwyddo ar un adeg o ran cydymdeimlad at yr Ysgol Gyffesol yn America – Robert Lowell, Sylvia Plath, a Berryman. Dichon fod blinderau Alvarez yn gefndir iddo, nid efallai yn ei lyfr ar hunanladdiad, ond yn ei ragymadrodd pwysig i *The New Poetry* lle y mae'n cymryd safiad dylanwadol yn y cyferbyniad a geid yn Saesneg yn y 60au rhwng Ted Hughes a Larkin, y naill yn arw, yn gyntefig, yn wledig, a'r llall yn llyfn, yn soffistigedig ac yn ddinesig ffraeth. Amgylchid bywyd Hughes gan hunanladdiad. Ac ni allai Alan, yn ei obsesiwn Cymreig, lai na chanfod presenoldeb y bwystfil yn rhodio strydoedd ei wlad a'i llên. Felly cerddi Meilir Emrys Owen.

Soniai Goronwy Owen yntau yn Northolt (meddai Alan) ei fod '*wedi dechrau syrffedu ar y mawl a gâi ei farddoniaeth, ac yntau ei hun yn gorfod ymlafnio i gadw'i ben uwch y dŵr. "Cerais fy ngwlad, geinwlad gu, / Cerais ond ofer caru" meddai yn y cywydd. Cynhaliaeth, ac nid canmoliaeth, a fynnai bellach.*' A chasgliad Alan oedd yn ei gofiant iddo (175). '*Roedd Goronwy'r bardd ar fin cyflawni hunan-laddiad yn ei siom a'i ddadrith.*' Diogi oedd ei Gymreictod, fel heddiw.

Erbyn cyrraedd cyfnod Alan Llwyd, y profiad beunyddiol iddo ef oedd hunanladdiad Cymru. Ceid y diagnosis mewn diogi ewyllysiol a meddyliol. Un o blant yr encilio difeddwl ac anymarferol oedd Alan Llwyd. Bu'n byw drwy ffolineb *Tynged yr Iaith* a'i phlant tân-siafins. Rhan o'r arwynebolrwydd protestiol hwnnw oedd darlith awdurdodol Saunders Lewis, gŵr – fel y gweddill o'r Sefydliad – nad oedd wedi astudio amlochredd y maes na meddwl am strwythur adenillol ymarferol a chyfansawdd. Mynnai ef fodloni uchelgais y datrysiad ar-blât: trosglwyddo awdurdod i 'gadw'r' iaith i'r awdurdodau, troi'r iaith yn gyfrifoldeb i wleidyddiaeth, gorbwysleisio'r ddeddf, a ffurflen, a swyddogion, rhannu'r genedl o ran amddiffyn yr iaith heb gyfeirio perthynas o fewn yr adfywiad i gyfeiriad yr holl boblogaeth. 'Dyna hwnnw drosodd.' Anghyfrifoldeb Ewyllysiol a Meddyliol. Gwelir hyn ym mhob cornel o'n cymdeithas, yn arbennig ymhlith caredigion y tân siafins. Beiai bobl eraill a sôn am ddefnydd allanol i'r iaith gyda phopeth ar yr wyneb. Gellir synhwyro hyn ym mhob man. Yn arbennig yn y Fro Gymraeg. Cefnwyd ar unrhyw bolisi o gynllun strwythuredig amlochrog a chyfansawdd cyfeiriedig gyda blaenoriaethau angenrheidiol i'r *holl* boblogaeth. Nid adeiladwyd cydlyniad amlochrog. Sôn yr wyf nid am restr o weithredoedd unigol.

Nid clytio, fel yn awr, sy'n angenrheidiol, ond uchelgais i symudiad parhaol ac aruthr raddedig. Ni thanlinellwyd canolbwynt adennill o gwbl. Cyfeirio yr wyf yn awr at un wedd unol, yr un ganolog ar gyfer adennill iaith. Ond y mae'n holl bresennol, yn amgylchfyd gweithredol cyfansawdd.

Amgylchwyd bywyd Alan gan amaturiaid yn chwarae trafod yr iaith, gyda'r cwbl heb ddifrifoldeb adfer uniongyrchol. Gall gwleidyddion a phwyllgorwyr ddistrywio iaith; ond ni allant ond cynorthwyo'r adennill proffesiynol caboledig o ddifrif pan fyddant hwy eu hunain yn wirfoddol yng nghanol y cydweithio uniongyrchol wythnosol. Cefnogaeth amgylchfydol ydynt ar yr wyneb, pwysig ddigon a chanddynt ran gefndirol. Ond *ewyllysio a gweithredu'r* bobl yn unig a all wneud yr ***adennill***. A'r unig beth a adeilada ewyllys y bobl yn ddwfn barhaol yw mudiad o weithredu uniongyrchol fel rhan o'u hadennill wythnosol gan bobl â'u calon yn y busnes. Mae angen meddwl am bolisi plethog beth y gall *Pawb* ei wneud, gan gynnwys gwirfoddolwyr cynorthwyol o'r Senedd.

Roedd angen *meddwl* yn fwy gwirfoddol ac yn drylwyr hyfforddedig ynghylch adeiladu'r defnyddiau. Dibynnwyd yn rhy hir ar awyrgylch o amaturiaeth chwareus. Ac wrth sôn am gyfrifoldeb y bobl, dyma sylweddoli'r prif wrthwynebydd. Nid Lloegr, nid addysg, nid y Teledu, nid hawliau – ond diogi meddyliol ac ewyllysiol y Cymry brwd cyffredin. Gwelid hyn, nid yn unig wrth gynllunio polisi adenillol cydlynol a chyfansawdd, ond yng ngwaith ymarferol yr arweinwyr ym maes 'adfer' ail iaith. Roedd yna amaturiaeth enbyd ac anwybodaeth o du'r cwrs-lunwyr – ar grwydr yn ddall heb hyfforddiant eu hunain mewn ieithyddiaeth gymwysedig na didacteg raddedig na dulleg ddatblygedig. Ble mae'r astudiaeth Gymraeg ar gyfer cynllunio strwythurau iaith? Syrffed yw'r absen. Beth sy'n esbonio ymroddiad Alan Llwyd y bardd-feirniad gwirfoddol yn ei gornel ddiwyd ei hun o'r adferiad? Fe'i hamgylchid ef gan arwyneboldeb o'r fath. Pobl yn chwarae â llenyddiaeth. Nid dyma'r lle yn awr i fanylu ar fethiant technegolion mewn polisi nac mewn defnyddiau adfer. Digon ar hyn o bryd yw  diagnosio mai hyn oll – diogi meddyliol ac ewyllysiol – sy'n adeiladu hunanladdiad y cynefin a synhwyrai bardd-feirniad fel Alan Llwyd. Iddo ef, hyn yn gyfunol ymarferol oedd cysgod mawr ei gyfnod. Un o offer undod cenedlaethol oedd Hunanladdiad.

Roedd yna fewnlifiad sylweddol yn y Fro Gymraeg, wrth gwrs, a'r pwysigion a'r bobl leol heb wybod dim oll beth i'w wneud. Chwaraeid â'r argyfwng. Nid amser i lanciau weiddi yw hyn. Ond amser i dreiddio i galon y cyfrifoldeb.  Seiren dwyllodrus yw gwleidyddiaeth na chanfyddai ddirywiad.  Y Fro Gymraeg yn anad unlle a'i 'chadw' enciliol, yr hon y mae Alan yn dal i'w uniaethu'i hun â hi, honno yn amlycaf sy'n hunan-ladd: sonia ef am yr iaith Gymraeg –

*Alltud o fewn ei milltir – ei hunan*
*Yw hon, a gyfyngir*
*I un darn bychan o dir*

*Yn ei thud fe'i gwrthodir.*

ac *Mae ein Cof fel ogof laith, – ond di-sŵn*

*Yw'r atseinio hirfaith*

*O'i mewn, lle clywem unwaith*

*Lenwi'r hollt gan lanw'r iaith.* (Tranc y Cof)

Eithr gwêl ef, ymhlith y rhai sydd â'u bryd ar adennill, a chymryd cyfrifoldeb personol dros ychwanegu unplyg, un gobaith a phatrwm pes dilynid hwy i'r dyfodol (*Dysgwyr y Gymraeg*):

*A gladdwn a goleddir – gennych chwi,*

*Gan iacháu a nychir;*

*Hyrwyddwch a* ***lofruddir***

***Gennym ni****, drwy'n hedwi hir.*

*Deisyf a wrthodasom – a wnaethoch,*

*Yr iaith a wadasom:*

*Ei cheisio hi yn eich siom,*

*A cheisio a luchiasom.*

Dyma diriogaeth y potensial lle y mae safle allweddol yn ddiarwybod i'r Cymry Cymraeg.

Hiraeth sydd am wybod y ffordd i adfer iaith, oes, ond am wybod hefyd y ffordd i adeiladu ewyllys y Gymru Gymraeg ar y cyd. Ond edrych y ffordd arall a wna'r Cymry Cymraeg.

Gwelais innau'n ysbeidiol dros gyfnod o dros ddeugain mlynedd yn Neuadd Gymraeg y Myfyrwyr yn Aberystwyth duedd ymwybodol gan leiafrif o'r 'puraf o'r pur' ymhlith y Cymry Cymraeg i anwybyddu neu hyd yn oed i wrthwynebu'r Dysgwyr. Credent eu bod felly'n pleidio'n gadarnhaol ffordd o fynnu trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb i wleidyddion – a gwyddom oll am eu diymadferthedd hwy. Wele'r Fro Gymraeg heddiw yn Eingl-Gymreig. Wele genedligrwydd ar waith.

*Chwi yw'r rhai a'i dechreuodd – hi eilwaith,*

*Chwi yw'r hil a'i creodd,*

*Ninnau'r hil a'i cawsai'n rhodd*

*Ydyw'r rhai a'i distrywiodd.*

Doedd dim clem gan y 'puraf o'r pur' mai drwy adfywio gan oedolion gwirfoddol gyda'i gilydd, a thrwy gydweithredu *pawb* mewn atgyfodi cenedl y'i hiachéir. Mae Alan – llais yr ewyllys adnewyddol – yn cyffwrdd nid yn unig â chywair byw, ond hefyd ag amgylchfyd deallol, yr union beth sy'n llesteirio'r Cymry Cymraeg. Meddwasant ar y brotest allanol anghywir.

Dyma angerdd bardd pwysig, a gyffyrddodd â chanol y briw. Rhaid oedd dweud.

Troes ei farddoniaeth a'i feirniadaeth i wasanaethu'r adferiad. Ond adferiad oedd a ddibynnai

ar lawer o ffactorau. Ac wrth weithio tuag at anrhydeddu'r genedl fe gaed un ffactor 'ymylog' a rôi ddeallusrwydd a statws gwirfoddol gyfrifol seicolegol, balchder ac ystyr i ddarllenwyr. Yn fyr, rhoddai Alan *ganon* llenyddol a hunan-barch iddynt. Roedd gan J. Morris-Jones, Saunders Lewis, Thomas Parry, ac Alan Llwyd, mewn olyniaeth gadarn, ymwybod cryf â bodolaeth ac anghenraid *canon*, peth a gafodd dipyn o her ffôl gan yr ôl-fodernwyr, fel y gwelsom. (Gellid cyfeirio at ymwybod o *ganoniaeth* Saunders Lewis ym *Meistri a'u Crefft,* 14, 16, 17, 26, 37, 40, 270; *Annwyl Kate ac Annwyl Saunders,* 14, 186, 202, 203. Ond y mae ym mhobman.) Ac felly gydag Alan Llwyd. Dyna a ysgogodd y gyfres orchestol o Flodeugerddi hanesyddol a gomisiynodd ef gan dîm. Gwneud hyn oedd ymladd y frwydr. Y parhad oedd y Canon. Nid gêm. Ond un o offer undod.

Ac o fewn y Cynllun cyfansawdd, yr oedd yr adnodd hwn yn rhan eithriadol.

Mi lwyddodd Alan Llwyd, fel Saunders Lewis, i ymhoffi mewn Moderniaeth ac i ymhoffi ynddi'n feirniadol, heb ildio i swynion y gwacter a gaed (ymhlith y rhinweddau) gan y gwareiddiad diwydiannol a'r diwylliant dinesig (gan gofio cynhesrwydd Saunders at y gymdeithas gosmopolitaidd mewn rhai dinasoedd – ac at bentrefi Lloegr). Ond at ei gilydd, yr oedd safonau dad-ddiwydiannol Saunders Lewis wedi tarddu o gyd-destun Ruskin, nid o'r Gymru real. Gogwyddai tuag at yr hen grefftau yn wleidyddol. Ac yr oedd uchelwriaeth Barrès yn ei wthio i gyfeiriad 'gwerinwyr' uchelwrol eu darllen ac i bwysleisio'r Eglwys fel sefydliad offeiriadol uchelwrol allanol, fwy neu lai yn ôl breuddwyd ganoloesol, – lle yr oedd Alan Llwyd ar yr ochr arall, er yr holl wrthryfel yn erbyn colli crefftwyr a gwareiddiad darllengar cefn gwlad, yn realydd anwleidyddol cyfoes. Ni ddilynodd Alan yr ymroddiad politicaidd Saundersaidd er ei barchu. Cydsyniai'r naill a'r llall fod hyn oll yn broblem ysbrydol. A cheisient wneud peth rhyfedd gyda Beirniadaeth Lenyddol ei hun, sef ei gwneud, heb bregethu na moesoli'n naïf, yn ffactor o bwys yn rhyddhad seicolegol ac ysbrydol y genedl. Bob amser yn broffesiynol werthusol.

Gwerthuso oedd gwleidyddiaeth Alan. Bu rhaid i'w ateb a'i bolisi cyfansawdd fod yn gatholig ac yn amlochrog. Cyhoeddodd Alan, yn nannedd poblogeiddwyr, y gyfrol gyntaf o waith Dewi Stephen Jones, ond ymddeolodd cyn i'r ail ddod i'r fei. Papur Litmus oedd y ddwy i Gymru.

Chwyldro gwneud yw chwyldro araf neu chwyldro sydyn mewn celfyddyd. Ond chwyldro yw o hyd. Gall hefyd feddu ar symudiad afon iâ; eto dwg ganlyniadau diamau. Rhy hir ymhlith taeogion Cymru y cafwyd yr awydd gan rywrai i ddad-wneud 'traddodiad' cymhleth ei bywyd beth bynnag y bo. Tybid gan rywrai fod y label 'traddodiadol' a 'cheidwadol' yn ffitio'n dwt Saunders Lewis ac Alan Llwyd; gosodwyd labeli o'r fath gan rywrai a goleddai unochredd ar egwyddor. A methwyd â sylweddoli beth yn union oedd yn digwydd o fewn eu cyd-destun: dim llai na safiad chwyldroadol dwfn os chwithig: radicaliaeth bywyd. Yno, rywfodd, yr oedd Barddoniaeth a Beirniadaeth yn cyd-ganu 'cyfrifoldeb': un arall o'r offer i'r dyfodol. Gymru, wele dy arfau.

# X THEMATEG RHYFEL

*Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918; Gwaedd y Bechgyn, g*ol. Alan Llwyd ac Elwyn Edwards, 1989 (Rhagymadrodd A.Ll.)
*Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939-1945; Gwaedd y Lleiddiad,* gol. Alan Llwyd ac Elwyn Edwards, 1995 (Rhagymadrodd A.Ll.)
*Gwae mi fy myw; cofiant Hedd Wyn,* Alan Llwyd 1991; a'r byrfoddiad ohono.

Wrth ymdroi gyda Themateg ym meirniadaeth Alan Llwyd fe ganfyddwn fod yna rai pynciau neu feysydd y mae'n dychwelyd atynt yn gyson – sef ato ef ei hun a'i gymhlethdod, ei deulu, a'i gyd-ddynion (boed yn wladwyr neu'n drefwyr), ei wlad a gwychder ei llên a'i hiaith (tan gynnwys hunanladdiad) ... a rhyfel.

Megis yn Lloegr, mi gymerodd y Ddau Ryfel Byd le canolog enbyd yn ymwybod ein llenorion Cymraeg. Difrifolwyd y byd mewn ffordd ddramatig, ac nid yn gorfforol yn unig. Ond bu'n rhaid aros tan y nawdegau cyn i feirniaid neu i haneswyr llên sylweddoli'u harwyddocâd esthetig a'u hastudio'n deilwng. Daeth y sylw o ddau gyfeiriad. Yn gyntaf, ar y naill law cafwyd arolwg yng nghyhoeddiadau *Barddas;* sef *Gwaedd y Bechgyn* gol. Alan Llwyd ac Elwyn Edwards, a *Gwaedd y Lleiddiad,* ynghyd a nifer o gofiannau am Hedd Wyn a David Ellis. Ac yn ail, ar y llaw arall, cafwyd arolwg o du'r Brifysgol yn *Rhwyg*, (1993), *Tir Neb* (1997), a *Tir Newydd* (2005) gan bin dyfal Gerwyn Wiliams. Cyfrifaf y symudiad beirniadol deuol hwn yn ffenomen nodedig iawn yn ein beirniadaeth. Mae'r naill ymdriniaeth, a'r llall ynghyd, yn cynrychioli astudiaeth unigryw. Mae'n corfforI garwder ysbryd a difrifwch arddull. Dyma'r thema a gafodd yr ymdriniaeth lenyddol fwyaf gofalus o unrhyw ddigwyddiad unigol (er yn ddeublyg) a ddioddefodd Cymru. Mae'n brofiad crwn 'a thwt', trawmatig a chymdeithasol ysigol. Mi newidiwyd ein golwg ar ddiwylliant Cymru ganddo o'r brig i'r bôn. Gwiw dechrau gyda golwg bersonol, a sylweddoli dyfned yr erys y profiad.

Yr oedd fy nghenhedlaeth i yn ddigon hen i gofio, ar y pryd, lais Neville Chamberlain yn cyhoeddi dechrau'r ail ryfel. A heb golli un diwrnod, yn blant dilynasom y rhyfel ar y radio ac ar y stryd o ddydd i ddydd tan y diwedd gyda syfrdandod a syrffed, wrth suddo a suddo'n gyson yn ei awyrgylch. Crynem lawer noson wrth i fomiau ddisgyn yn agos i'r tŷ ac wrth i ni golli ffenestri a llechi o'r to droeon, ac wrth i ni weld eisiau athrawon o'r ysgol a pherthnasau o'u cartrefi.

Yn chwilfrydedd i gyd ar y pryd archwiliem y ddinas o un pen i'r llall i gasglu shrapnel ac i olrhain y dylanwad ar ein hamgylchfyd. Ar ryw olwg, yr oeddem yn dod yn amseryddol yn union *cyn* y genhedlaeth honno nad oedd y Rhyfel yn brofiad byw iddynt, ond a ymddiddorai'n egnïol yn y sefyllfa (fel Gwyn Thomas, Alan Llwyd a Siôn Eirian), a'r rhai o'n blaen a oedd yn ymrwymedig

yn y Rhyfel neu wedi'i gynffon (megis Alun Llywelyn-Williams – bardd pwysicaf y gyflafan, a T.Glynne Davies). Ymhlith yr ychydig gerddi a luniais innau mwy neu lai yn uniongyrchol yn sgil y Rhyfel y mae 'Tiger Bay', 'Lloches Anderson 1941', '1941 Dwy Soned', a'r stori 'Y Bradwr Da', sy'n rhan o'r gyfres ynghylch y ffenomen ofnadwy a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf i ac eraill sef yr Holocawst – 'Carcharor Iddewig', 'Cân Wrthsemitig', 'Palesteina Acw 1988', 'Gollyngdod Chelmno', 'Marwnad i Iddew', 'Nelly Sachs', 'Amgueddfa Goffa'r Holocawst Washington D.C.', ac eto yn y gyfrol *Bratiau Budron* y gerdd 'Cerbyd Gwartheg i Genedl', ynghyd â storïau byrion megis 'Yno yr Eisteddasom ac Wylasom', 'Buddugoliaeth', 'Rhyfel Cartref' ac 'Yr Ymholydd Didwyll', heblaw darnau hunangofiant. Yr wyf yn synnu wrth edrych yn ôl gymaint o graith a adawyd ar bobl yr ymylon fel fi. Plentyn effro i'r rhyfel oeddwn i wrth gwrs, yn ymdroi'n hunllefus gydag ambell 'argyfwng bach' personol – megis bod ar wahân i'm mam (yn yr ysbyty) yn ystod cyrch awyr ar yr ysbyty hwnnw, wynebu'r her o fynd yn ffoadur i Ganada, dioddef cyrchoedd bomio fel pawb arall yng Nghaerdydd, ac yn y blaen; yn blentyn yn y gynulleidfa fel petai, ac eto nid yn hollol. Ond fel yr awgrymir uchod, delwedd yr Holocawst oedd y prif ddigwyddiad i lawer a arhosai gartref.

Sonia'r Athro Gerwyn Wiliams am rai gweddau eraill ar thema rhyfel na chafodd ef gyfle o fewn undod penodol *Tir Neb* i'w rowndio: 'Heblaw am y sylw i Waldo Williams a T.E. Nicholas, ni thrafodwyd profiad gwrthwynebwyr cydwybodol a heddychwyr o'r rhyfel gan feirniaid llenyddol fel Cylch Cadwgan. Dichon fod profiadau penodol merched o'r rhyfel yn haeddu trafodaeth fanylach ynghyd â'r modd yr ymatebwyd i arhosiad yr ifaciwis. Ac ni roddwyd fawr o sylw *cymharol* i ymatebion dwy lenyddiaeth Cymru i'r rhyfel'. Dyma bwyslais aruthrol o bwysig. Gobeithio'n fawr iawn y bydd modd i'r Athro Wiliams, ynghanol ei brysurdeb, feddiannu'r maes yn llawnach ac ymhellach drwy drafod y materion a grybwyllwyd ganddo. Yn y mannau hyn efallai y ceir unigrywiaeth Cymreictod, sef gwreiddioldeb, newydd-deb, ac annibyniaeth meddwl Cymru. Y negyddiaeth gadarnhaol hon, ar ryw olwg, yw cyfraniad dieithr ein gwlad i'r cyfnod: dwyster ysbrydol a chyfartaledd anghyffredin ymhlith ein llenorion o wrthwynebiad i ryfel – o du heddychiaeth a chenedlaetholdeb; a chymysgedd amwys ohonynt gan nad oedd cenedlaetholwyr bob amser yn heddychwyr crefyddol. Peth a olygai ddewrder yn aml oedd gwrthwynebu fel yn achos Dyfnallt Morgan. I grwt, fel yr oeddwn i, yr oedd hyn yn un o ryfeddodau'r Meddwl Cymreig, ac yn un o effeithiau cyrhaeddbell y rhyfel ar fy nhwf (gw. *Tir Newydd,* 5 a llyfr D. Eurig Davies, *Protest neu Dystiolaeth,* 1993). Roedd y rhaniad hwn yn enwadol i raddau.

Yn yr ugeinfed ganrif, cafwyd nifer go gryno o rediadau thematig neu o ddigwyddiadau a effeithiodd ar unigolion a chymdeithas. Ac ni ellid gwadu nad oedd Rhyfela yn un ohonynt. Mae llywodraeth Westminster fel pe bai'n ceisio cynnal rhyw un rhyfel cadwynog yn barhaol, efallai'n fwy na'r un llywodraeth yn y byd. Mae'n rhaid dechrau un arall cyn bod yr un ar y pryd yn gorffen,

rhag bod heb olynydd. Cedwir celc wrth law ar gyfer y posibilrwydd bythol. Ac y mae gwerthu arfau yn un o brif ddiwydiannau bydeang Prydain erbyn hyn. Porthir llu o ryfeloedd yn ffyddlon.

Am fod a wnelo rhyfel ag un o ddigwyddiadau pwysicaf bywyd, sef marwolaeth, mae iddo gysylltiadau teimladol, meddyliol, ac ysbrydol sylfaenol. Mae hefyd yn darparu newyddiaduraeth seml, fywiog. Ac ym mryd rhai, hyd yn oed haneswyr, yr hyn sy'n bwysig mewn newyddiaduraeth, dyna sy'n ennill cyfartal pwysigrwydd mewn bywyd. Yn y gymdeithas, bu cynnydd meddygol, cyfathrebol, amaethyddol, diwydiannol yn anhraethol bwysig. Ond ychydig o sylw a enillai'r wedd gadarnhaol honno gan na beirdd na newyddiadurwyr.

Yng Nghymru bu cenedligrwydd yn dra arwyddocaol. A gellir disgwyl y byddai myfyrdod beirniadol ar yr elfen imperialaidd fythwyrdd – mewn barddoniaeth o leiaf – yn ennill cryn sylw yn ôl fel y llwyddai beirniadaeth i ennill ymreolaeth rhag y tueddiadau Saesneg. Ond nid felly.

Un o'r digwyddiadau mwyaf chwyldroadol eraill, a mwyaf pellgyrhaeddol ar lefel foesol neu gymdeithasol a meddyliol, oedd y dirywiad mewn 'credu'. Tywyllwyd y goruwchnaturiol uniongred. Cafwyd tipyn o chwarae 'modernaidd', a dyrchefid Ego Trosgynnol yn gynyddol mewn pwlpudau rhyddfrydol. 'Cymdeithaswyd.' Hynny yw, ni thrafodwyd gwreiddyn y broblem. Distrywiwyd felly y rhan fwyaf o achosion enwadol. Ond nid ydym eto'n gallu sefyll yn ôl yn ddigon pell oddi wrth y drychineb, iddi ennill lle arwyddocaol eithafol yng nghalonnau beirdd a rhyddieithwyr. O'r herwydd, prin yw'r sylw beirniadol am yr hyn a ddigwyddodd yn ysbrydol, a dyfnder y chwyldro hwnnw a gafwyd. Cafodd y rhyfel beth bai am enciliad crefydda. Ond cyd-symptomau oedd y rhain o'r un adfeiliad ysbrydol mwy cyffredinol. Ym maes thematig rhyfel, sut bynnag, cafwyd gwaith gorchestol ond cwbl wahanol gan y ddau feirniad nodedig a grybwyllais, Alan a Gerwyn. Ceir gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt o ran dull dadansoddi; ac felly, profwn ffresni amlwg yn y naill ymdriniaeth helaeth a'r llall. Adeiladwyd astudiaeth unol a chyson 'hanesyddol' gan Gerwyn Wiliams. Trafodwyd pob llenyddwaith arwyddocaol, a llawer o bethau llai amlwg. Ac o'r herwydd, ceir arolwg cynhwysfawr, manwl, – un o'r astudiaethau mwyaf trylwyr thematig a chyfnodol erioed mewn beirniadaeth Gymraeg. Ond medrodd hefyd sylfaenu'i waith ar werthuso gofalus; ac nid yw'n ymatal rhag sylwi ar fethiant llenyddol, er mai hiraethu y bydd yn y bôn i ddod o hyd i lwyddiannau prin, fel y dylai pob beirniad ei wneud mae'n siŵr. Enghraifft gydwybodol yw'r dadansoddiad medrus a gwerthfawr o *Amser i Ryfel,* T. Hughes Jones. Gwasgai bob mymryn lleiaf o rinwedd allan ohono. Ond y casgliad anochel ysgubol oedd: 'Diolch byth amdani, ond damia'i hannigonolrwydd!'

Dengys Gerwyn Wiliams mai'r milwr-fardd pwysicaf o ddigon a gododd allan o'r ddau ryfel byd oedd Alun Llywelyn-Williams, – a pham. Ac y mae ei bennod ar hwnnw yn *Tir Newydd* yn eithriadol o ddawnus. Dengys ef hefyd mor angenrheidiol yng Nghymru yw rhoi dyledus barch i le heddychiaeth yn y darlun cyfan. Bardd arall y dylid ei anrhydeddu yw R. Meirion Roberts. Dyma

ffenomen Gymreig iawn yn ei dylanwad ar lenyddiaeth ac ar wleidyddiaeth. Mae'n dda bod bardd mor unigryw â Waldo gennym i ymateb mewn dull gwreiddiol i brofiad mor enfawr.

Bid a fo am y safon eithaf cyffredin ond mor werthfawr a diddorol a gafwyd yn rhyddiaith y Rhyfel Byd Cyntaf, nid oes dwywaith nad yr Ail Ryfel Byd a adawodd ei ôl ar ddau fardd o'r radd flaenaf – sef Alun Llywelyn-Williams a Waldo Williams. Ac i mi, ymdriniaeth yr Athro Wiliams â'r ddau hyn yw uchafbwynt ei dair cyfrol.

Yr hyn sy'n taro dyn ynglŷn â gwaith Alan Llwyd yn benodol ar y Ddau Ryfel Byd yw'r amrywiaeth llenddull – blodeugerddi, cofiannau, astudiaethau, ffilm. Ond barddoniaeth hefyd. Bardd-feirniad yw bob amser. Cefndir i'w farddoniaeth ei hun, bwyd a maeth iddi, yw beirniadaeth. Braidd yn obsesiynol yw ei ddiddordeb hollol anghyffredin, a'i ymrwymiad meddyliol ac emosiynol, yn y rhyfeloedd hyn. Ond dichon mai llawforwyn neu hyd yn oed bydwraig i farddoniaeth oedd y cwbl i Alan, megis ei fywyd ei hun. Yn sicr, drwy'r farddoniaeth y dylid symud i mewn i'r feirniadaeth bob amser. Mae ei farddoniaeth fel pe bai'n dyrchafu'r feirniadaeth.

Ac eto ni phrofodd y naill na'r llall o'r ddau feirniad hyn ddim o ran profiad uniongyrchol ar y pryd. Corddiadau yn y dychymyg a gawsant ar ryw olwg. Ond does dim dwywaith na fuwyd yn ymdroi ac yn ymdroi'n ddyfal ac yn ymroddgar ryfeddol gyda'r delweddau a'r egwyddorion hefyd.

Efrydai Alan y beirdd yn bennaf: Wilfred Owen, Ivor Gurney, ac Edward Thomas; Alun Llywelyn-Williams, Primo Levi, Keith Douglas, a Hedd Wyn wrth gwrs, ynghyd â chnwd diweddarach yn *Ffarwelio â Chanrif.* A dygai olau newydd ar y rhain gan ei fod yn Gymro yn ogystal â bod yn fardd ac yn ymwybodol o ffurfiau Wilfred Owen (rhyw fath o Gymro) a chefndir Cymreig Edward Thomas. Lledodd y rhyfeloedd drwy'r economi a'r gymdeithas gartref (yn arbennig yn Abertawe). Bu gennyf i fy hun un ewythr a oedd yn gefnder i Edward Thomas, ewythr arall a fu ynghanol y brwydro yn Nhwrci, ac ewythr arall yn Libya. Ac yn ystod fy mhlentyndod cynnar ni allwn ymweld â chanol tref Caerdydd heb weld dynion ar y strydoedd y torrwyd eu breichiau neu eu coesau i ffwrdd neu a ddallwyd oherwydd y rhyfel cynt. Ond ni chefais erioed fy nenu i ymdroi mewn Beirniadaeth ar y thema. Ar ôl ymostyngiad *pietas*, difrifoldeb cofebu mewn cerddi oedd prif ysgogiad Alan, fel y gwelir yn ei 'Wrth Gofeb Aberystwyth', 'Yr Ysgwrn', 'Ystyriwch', 'Geiriau drwy'r Garreg'. Wrth gwrs, un o'r dylanwadau tyngedfennol arno, yn englynwr ifanc, oedd Englynion Coffa R.W. Parry i Hedd Wyn.

Bu thema'r Rhyfel yn ddeunydd a'i hawntiai, ac a ledai'n bell iawn ei ddylanwad ar y cwbl o farddoniaeth 'ganol' gyrfa Alan. Bu yn hynod o bwysig –

(i) o ran arddull; gan erlid yr hen feddalwch a natur idylig i ffwrdd, a'r rhamantiaeth dylwyth degaidd yn cael ei disodli (neu ar y gorau, ei chymhwyso) gan arwder plaendra, a sgeptigiaeth; weithiau hyd at ddogmatigrwydd ym meddylwaith beirniaid eraill,

(ii) wrth ganfod rhigolau testunol gwledig yn cael eu disodli gan yr wrban a'r diwydiannol a'r foderniaeth yn bynciol (eto ar y gorau heb eu dileu o anghenraid);

a (iii) dadrithiad ysbryd yn ymosod ar gysur hunanfodlon.

Wrth ddadansoddi ac olrhain **adeiladwaith** Themateg, mae'n arfer gennyf sylwi ar dair gwedd neu dri phegwn.

Enw Berf Adferf

– – – – > Gweithredu

<– – – – Rhwystro

Mae'r tri phrop yn cynrychioli **Cymeriadaeth, Digwydd, ac Amgylchfyd** Thema – sy'n cyfansoddi'n hadeileddeg. Sylwer ar un o'r cyfrolau, *Script Writing* 1988, a ddarllenodd Alan wrth baratoi sgript Hedd Wyn, pryd yr oedd yn ymwybodol o adeiladwaith bras a manwl o gylch y tair gwedd hyn. A derbyn mai thematig yw cyfanwaith y ddwy flodeugerdd a luniwyd am y ddau Ryfel Byd, diddorol i mi oedd sylwi fel yr adeiladwyd yr adrannau yn y rhain hefyd yn ôl strwythur cyffelyb. Gwahaniaethid yn ôl natur a phwyslais y ddau Ryfel. O fewn yr ail Ryfel Byd yr oedd y cartrefi eu hunain, bid siŵr, yn y rheng flaen i raddau, ac yr oedd natur y brwydro yn fwy mecanaidd ac amhersonol. Caed hefyd ymladd o'r awyr yn gyffredin. Ond yr oedd y ffordd y dewisodd ac y gorfodwyd Alan i gynllunio'r ddwy Flodeugerdd yn drawiadol o gyfredol o fewn amser. Nodaf yr adrannau cyferbyn yn y ddwy restr ganlynol, a gwelir gogwydd oddi wrth ffieidd-dra cras y digwyddiadau tuag at fwy o deimladaeth bersonol.

| **A. Gwaedd y Bechgyn 1914-18** | **B. Gwaedd y Lleiddiad 1939-1945** |
|---|---|
| a. Dechreuadau 1988 | a. 'O Ingoedd Sbaen'<br>b. Ar Drothwy'r Rhyfel |
| b. Cadau<br>c. Lladdiadau | c.'Cartrefi'n Fflam a Dynion yn eu Pangau.' |
| d. Ymadawiadau | d. 'Ble'r ei di, lanc o Filwr?'<br>i. 'O'r Dwyrain' |
| e. Profiadau ac Argraffiadau | e. Cysur yn Amser Rhyfel |

| | |
|---|---|
| f. Dyheadau ac Ymbiliadau | |
| | f. 'Y Cyrch Disymwth o'r Awyr' |
| g. Protestiadau | g. 'Chwerw yw Bywyd Carchar' |
| h. Daliadau | j. 'Bydd Huawdl, Wleidydd' |
| i. Meibion, Mamau a Thadau | h. 'Llaith yw eich Llygaid Mamau'r Byd' |
| j. Marwnadau | k. 'Du Alar yw'r Nadolig' |
| | l. 'O Egni Byw mor Llonydd dan y Lloer' |
| l. Dathliadau | m. 'Wedi'r Drin' |
| | n. 'Dachau, Sobibor, Auschwitz' |
| l. Dadrithiadau | |
| m.Y Cof am y Rhyfel Mawr | o. 'Ar ôl yr Ail Ryfel Byd |

Sylwer ar yr hyn sy'n gyffredin i'r ddwy golofn ac ar yr hyn sy'n wahanol. Mae'r dechreuadau neu'r rhagarweiniad i'r rhyfeloedd yn fater o chwilfrydedd, poen, a phwysigrwydd er mwyn dod o hyd i ystyr (Aa, Ba, b). Mae natur flaenllaw y brwydro i wŷr-ar-droed wrth gwrs a'r nifer o laddiadau sydyn a lluosog yn nodweddu'r Rhyfel Byd Cyntaf; a'r profiad dieithr o bobl gartref yn cael eu lladd fel rhan o'r rhyfel yn beth a effeithiai ar filiynau yn yr Ail (Ab, c; Bc). Mae Dieithrwch Lleoedd, a Phellter oddi cartref mewn mannau hollol estron, yn brofiadau personol trawmatig a dwfn yn y Ddau Ryfel (Ad; Bd, h). Ond ceir profiadau newydd yn y brwydro yn yr Awyr er enghraifft a ddaeth yn brofiad trawiadol a go newydd yn yr Ail Ryfel Byd (Bf). Mae'r gwrthdystio a'r gwrthryfel mewnol a'r cosbi am hynny yn rhan fwy nodweddiadol anghydffurfiol Cymreig yn y Ddau Ryfel nag a gaed – i'r un graddau – mewn gwledydd eraill. Fe'i cysylltid â chenedligrwydd a gwleidyddiaeth mewn cyd-destun crefyddol (Af, g, h; Bg, j). Hiraeth gartref, yn arbennig wedi'i gysylltu â'r Mamau yw un o'r pethau sy'n tynnu pawb i mewn i'r Rhyfel, hyd yn oed

yn y parthau gwledig mwyaf heddychlon (Ag, Bh). Marwolaeth oedd yr ergydio mwyaf wrth reswm; a chydnabyddid y colledion (Aj, Bk, l). Cafwyd Rhyddhad wedi cyfnod mor hir ac mor eithafol yn arwain at ddathlu. Dichon fod rhai gwledydd Comiwnyddol yn gallu cystadlu yn nwyster y lladdedigaethau; ond mae'r ffaith mai hiliol oedd y cymhelliad, ac mai ymwneud â gwlad a ddioddefodd ganrifoedd o erledigaeth yr oeddid, yn cymhlethu'r sefyllfa. Roedd y dystiolaeth echrydus am yr Iddewon ar y pryd mor gudd, ac eto mor agos i ni, ac roedd y delweddau a'r storïau a gofnodwyd mor fanwl, oll wedi peri mai dyma brofiad dieflig mwyaf cofiadwy hanes y byd yn y canrifoedd diwethaf (Bo). Mae'r Cof yn aros ac yn cael ei drosglwyddo am ddegawdau wedyn (Al, m; Bo). Cofiaf mai dyna'r wedd a'm hysigodd i fwyaf. Fel y gwelir gyda rhai eithriadau, mae'r patrwm ar gyfer pwysleisio gweddau penodol ar y Ddau Ryfel Byd yn hynod o debyg gyda pheth gwyriad mewn teimladaeth. Ond yr hyn sy'n cael ei danlinellu yw lled, dyfnder, a maint y trawma a gwmpasodd fywyd mewn modd mor enfawr. Dyma'r Themâu yn esgor ar Fotiffau.

Tybiaf fod ffynhonnell cerddi Meilir Emrys Owen, a hynny ar ganol aeddfed gyrfa Alan, yn berthnasol o ran eu cignoethni a'u garwder, ac yn cymhlethu y math o effaith berthynol a gaed wrth fwrw golwg ar ryfela. Math o blentyn i'r rhyfel yn drosiadol oedd. Ceir sawl llinyn yn y cefndir yn tynhau yng Nghymru – ei symudiad o wledigrwydd y Gogledd i Drefoldeb y de yn ddiau; erledigaeth newyddiadurol bersonol arno hefyd; myfyrdod mwy cynyddol gyfannol ganddo nag a geid gan y bardd gwlad am Foderniaeth ac am sefyllfa foesol byd yr ugeinfed ganrif. Ond ymhlith y rhain, fel gyda beirdd gwledig eraill bu'r sylweddoliad o bresenolodeb lladd rhyfelgar ar raddfa fasnachol enfawr yn llethol yn ei ddychymyg. Fe'i gyrrwyd yn fwy nag y gwn i am unrhyw fardd arall i gydio mewn amrywiaeth o lenddulliau er mwyn ymdrin â'r pwnc ofnadwy hwn. O'r herwydd y mae ei feirniadaeth a'i farddoniaeth yn undod diwnïaeth. Fe'i hysigwyd gan ryfel i ddilyn beirdd eraill ar y pryd yn farddonol, yn ddramatig, ac yn gofiannol i archwilio y sefyllfa. Gwelodd eu harddull hwy yn garwhau ac o fewn cyd-destun felly yr oedd ei arddull a'i lenddulliau yn gwydnhau mewn amlochredd: **Cerddi:** *Casgliad o Gerddi, Ffarwelio â Chanrif,* 2000; **Blodeugerddi**: *Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914 – 1918, Gwaedd y Bechgyn,* gol. gydag Elwyn Edwards (1988), rhagymadrodd Alan Llwyd; *Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939 – 1945, Gwaedd y Lleiddiad,* gol. gydag Elwyn Edwards (1995), rhagymadrodd Alan Llwyd. **Cofiannau**: *Gwae fi fy myw*: cofiant Hedd Wyn, 1991; a'r byrfoddiad; *Y Bardd a Gollwyd*: cofiant David Ellis, 1991, gydag Elwyn Edwards: **Golygu**: *Cerddi'r Bugail,* gol. 1994; ac wrth gwrs, golygu llyfrau gan awduron eraill *Barddas;* **Ffilm***: Hedd Wyn, sgript ffilm,* 1992.

Un o'r priodoleddau pwysig yn y Flodeugerdd wych *Gwaedd y Lleiddiad* (1995), a olygodd Alan ar y cyd gydag Elwyn Edwards, yw ei bod yn agor gydag Adran I. ; 'O Ingoedd Sbaen'. Hynny yw, mae'n cymryd yr agwedd, gywir gredaf i, fod rhyfel Franco wedi bod yn rhagarweiniad pendant

(megis rhyfel Abysinia) i'r Rhyfel Byd. Clywais un o'r llenorion Eingl-Gymreig (di-Gymraeg) yn honni nad oedd llenyddiaeth yn y Gymraeg wedi rhoi sylw o gwbl i ryfel Sbaen. Y gwir yw bod yna bump o feirdd o leiaf wedi canu ar y pryd am y rhyfel hwnnw, sef T.E. Nicholas, W.H. Reese, Aneirin Talfan Davies, Alun Llywelyn-Wiliams a Gwyndaf. Detholiad sydd yng nghyfrol 1995, wrth reswm, a gallesid ychwanegu cerddi megis 'Gweriniaeth (I goffáu John Cornford)' gan W. H. Reese, a 'Sbaen (I ddewrion Madrid)', gan Aneirin Talfan Davies. Blynyddoedd John Cornford oedd 1915-36. Nid anghofiwyd Sbaen gan Alan ei hun chwaith pan ganodd ef 'Requiem i feirdd o'r ugeinfed ganrif' (gan gynnwys Federico García Lorca o Sbaen), a 'Galarnad Cenhedlaeth' (1982).

Testun chwilfrydedd a pheth syndod, i mi am gyfnod oedd y diddordeb anghyffredin hwn gan genhedlaeth Alan Llwyd a Gerwyn Wiliams yn yr Ail Ryfel Byd. Er gwaetha'r cofgolofnau a'r Neuaddau Coffa a godwyd gan rieni'r colledigion, ni fu gan y plant fawr o awydd i ymdroi gyda'r rhyfel byd cyntaf ar y pryd. Beth a barai i'r fath ddiddordeb difrif wedyn ffynnu ymhlith yr wyrion a'r gor-wyrion? Erbyn hyn, credaf fod a wnelo'r rheswm â'r ail wedd a gafwyd ar y rhyfel. Ym mryd y Natsïaid, yr oedd y rheswm dros y rhyfel yn ddeublyg. Yn gyntaf, y rheswm arferol amlwg, yr hen reswm cyntefig a oedd hyd yn oed yn blentynnaidd: imperialaeth, eisiau eiddo rhywun arall, eisiau bod yn ben, cyffro lladd, rheoli masnach. Dyna'r plentyneiddiwch sy'n goferu drosodd i heddwch diruddin wedyn: i gael mwy o dŷ neu o gar nag sydd ei angen, mwy o gyflog, mwy o bethau, mwy o sylw (yn y byd). Y chwennych cyntefig hwnnw. Yr hen ysfa gyfalafol yw sy'n fyd-eang. Ond yn ail, fe gaed rheswm rhyfedd pwysig arall. Ym mryd y Natsïaid, (heblaw dial am delerau heddwch y Rhyfel Byd Cyntaf), rhyfel yn erbyn yr Iddewon oedd hwn. Ac mae'r rhyfel hwnnw'n para o Indonesia i Bacistân, o Irác i Dwrci, o Lundain i Efrog Newydd, yn rhyfel byd sy'n cwmpasu'r holl Foslemiaid. Bu Iran ei hun yn adleisio yr Almaen yn fynych: 'Nid oes yn y dyfodol le i Iddewon'. Ac y mae'r math hwn o agwedd yn ymestyn yn ddwfn ac yn ysbrydol i *psyche'r* oes. Y mae dyfnder y rhyfel hwnnw fel y'i canfuwyd yn yr Holocawst (peth sy'n parhau yng nghalonnau pobl o hyd ysywaeth) wedi cadw Hitler a Goebbels ac eraill yn eiconau byw cyfoes. Mae'r Ail Ryfel Byd felly yn berthnasol fel profiad effro. Pwy byth a ddealla'r teimladau am Israel? Ym maes Themateg, felly, does dim dwywaith ynghylch y ffordd y codwyd y ddau ryfel hyn ymhell uwchlaw arwyneboldeb newyddiaduraeth. Bu'n brofiad bywyd-newidiol. Fe'n caledwyd, ac fe'n meddalwyd.

Soniai Hugh Bevan am natur gymysg llenyddiaeth, ac fel y ceir 'syniadau gwleidyddol, moesol, crefyddol, neu athronyddol' ynddi. Mae hyn yn gallu bod yn dipyn o dramgwydd i rai yn y Gymru ddiweddar oherwydd ofn propaganda; a'r gamp i feirniad yw bod yn 'ddi-ragfarn' yng ngŵydd y fath lenydiaeth, meddai ef. Sôn yr oedd Bevan am yr 'ideoleg' sy'n mynd yn 'themateg'. A cheir disgyblaeth gyfan ynglŷn â themateg o'r fath bellach sy'n trafod arwyddocâd ac adeiladwaith a phatrymau materion felly mewn llenyddiaeth fyd-eang. Ofnai Hugh Bevan y rhain braidd. Ond yr

hyn a geisiai ef oedd y gwerthoedd 'llenyddol', pethau archolladwy, llawer mwy parhaol na syniadau cymdeithasol, ac eto'n rhan o fewn y rhyfel. O ganlyniad i'r rhain, yr hyn sy'n ddiddorol ac yn arswydus yw'r modd y gellir felly anghytuno'n llwyr â chynnwys y mwgwd 'llenyddol' ymddangosiadol a'r hyn a drosir yn ddeunydd i'r tudalen gan awdur, ac eto edmygu presenoldeb dyfnach y modd llachar mynegiannol y cyfleuir y gwaith.

Dyrchafwyd y ddelwedd o Ryfel gan Alan Llwyd i fod yn symbol aruthr ac yn anghenfil mewnol ffyddlon a ddilynodd ei galon wrth iddi gripian ar ôl y ganrif mewn gofid o gylch y byd. Soniais am ddwy thema yn ei waith – Cenedl a Rhyfel. Math o brosiect, ac o ddewis ymwybodol oedd thema Rhyfel. Anymwybodol, gwedd ar yr awyr a anadlai, a greddfol anochel oedd thema Cenedl. Nid thema arall fel Rhyfel oedd hyn.

Digwyddiad achlysurol oedd Rhyfel i ddechrau. Cyflwr oedd Cenedl. Nid wyf yn ceisio dadlau bod Cenedl yn bwysicach, fel y cyfryw. Ond anfwriadus oedd. Datblygodd Rhyfel mewn modd gwahanol. A thyfodd yn fyfyrgar yn y pen draw yn weledigaeth erlyniol gyfansawdd, yn fwgan a'i dilynodd i bob cornel o'i fywyd, yn egwyddor, yn rhan o'i gyflwr hefyd, ac yn gyd-ran o'i ymwybod o fywyd. Rhan o'i berson oedd, fel Meilir Owen.

# XI POLISI GOLYGYDD

*Barddas,* 1. (Hydref 1976) – 76 (Mawrth 1983) ar y cyd â Gerallt Lloyd Owen (sef saith mlynedd); ac yna, 77 (Medi 1983 – Mawrth 2011) Alan Llwyd ei hun a pholisi gwasg 'Barddas'.

O bryd i'w gilydd yn ystod y cyfnod maith o olygyddiaeth *Barddas,* byddai Alan Llwyd yn llunio – fel arfer yn y golofn olygyddol, ond mewn mannau eraill hefyd, – rai sylwadau ynghylch polisi *Barddas*. Nid ynghylch *Barddas* y cylchgrawn yn unig, ond ynghylch 'Barddas' y cyhoeddwr cyd-berthynol hefyd. Ac yn y mannau hynny, byddem yn cael awgrym o bolisi cyhoeddi i'r genedl. Ceid lle unigryw i feddwl beirniadol ganddo ba fath o raglen cyhoeddi a ddylai fod gan genedl fel Cymru.

Mae gan Elwyn Edwards yn y gyfrol *Alan* osodiad tra awgrymus: 'Ymhen pedwar mis ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun, ar yr unfed ar ddeg o Ragfyr 1973, ymddangosodd colofn farddol newydd yn *Y Cymro* dan y pennawd 'Colofn Alan Llwyd', *a'r golofn hon oedd dechreuad taith Alan fel beirniad llenyddol cenedlaethol'.* Ychydig fisoedd ynghynt yr oedd wedi ennill cadair a choron yr Eisteddfod, y tro cyntaf ers 58 o flynyddoedd i neb wneud hyn ers camp T. H. Parry-Williams. Cawsai eisoes lwyddiant fel bardd yn yr Eisteddfod Ryng-golegol ac Eisteddfod Pantyfedwen. Ond o'r braidd ei fod wedi cyhoeddi ond dyrnaid o gerddi, mewn cylchgronau myfyrwyr gan mwyaf, ac ychydig o adolygiadau. Dyma ef yn awr mewn colofn reolaidd, yn meddu ar yr hyder, y medr, a'r bri, – y weledigaeth yn wir a'r argyhoeddiad – i'w ddarganfod a'i sefydlu ei hun fel Athro. A'r neges seml a digymrodedd braf ganddo ar y pryd oedd mai'r Gynghanedd (yn yr ystyr letaf) oedd canol bywyd.

Cafodd wedyn yrfa enigmatig ar lawer cyfrif fel Athro o Olygydd ac o Gyhoeddwr. Llwyddodd yn ei golofn i gyflwyno dysg am y Gynghanedd mewn modd hygyrch a difyr, gan ddadlennu ac esbonio ac anrhydeddu dawn ambell un a fuasai'n anhysbys ynghynt braidd, megis T. Arfon Williams. Atgyfodwyd wrth gwrs – o ran hyfforddiant – hen hen ddadl rhwng y beirdd golau a'r beirdd tywyll, y ceidwadwyr a'r radicaliaid, y beirdd rhyddieithol a'r beirdd dychmygus. Hen gneuen ddibynnol. Cafwyd cystadleuthau ac ymrysonfeydd. Esgorwyd ar ddiddordeb newydd a chymdeithasol mewn Cerdd Dafod. Man cyfarfod trosiadol oedd ei ysgrifau cynnar. Colofn oedd a esgorodd ar fannau cyfarfod mwy diriaethol eraill yn y gymdeithas y tu allan, a hynny lle'r oedd pobl wyneb-yn-wyneb, ym Methesda, Caerdydd, Dinbych, Llangernyw a llawer llan arall. Lledodd y sylwadau a wnâi Alan yn ei golofn i gynnwys trafodaethau cryno mwy sylweddol am natur barddoniaeth. A mentrid gwyntyllu'r syniad o sefydlu Cymdeithas Genedlaethol fwy pellgyrhaeddol.

Meddai Elwyn Edwards ymhellach, 'Mae'r Gymdeithas Gerdd Dafod wedi tarddu yn uniongyrchol o'r Golofn Farddol yn *Y Cymro'.* Roedd yna bocedi cynganeddol eisoes ynghynt yng Ngheredigion, yn Llŷn, ac ym Mhenllyn. Bellach, yr oedd gan y milwyr cynganeddus hynny gadfridog ar lefel genedlaethol; a chyfeiriad; pencadlys i fwrlwm, canolfan a chanolbwynt i genadwri. Yr oedd ceidwadwyr mwyaf ffurfiol ac adweithwyr modernaidd lleiaf cynganeddus y bydysawd yn gorfod dygymod bellach ag Athro penderfynol a chanddo bolisi ynghylch arfogaeth.

Cryfder beirniadaeth lenyddol Alan oedd ei bod hi'n ail beth i'w farddoniaeth. Ar y pedestal, yn gyfforddus awdurdodol, eisteddai Brenhines yr Awen, heb ddim amheuaeth. A gwreiddiai'r symudiad hwn, yn ddiarwybod o bosib (i rywrai) yn y Traddodiad Mawl. Mae yna duedd ambell dro gan ambell un i gamddeall ac i fychanu 'Mawl'. Tybiant mae 'dweud pethau neis' yw Mawl. A cherbron gwawd a thanseilio, relatifrwydd dogmatig a diffyg pwrpas confensiynol bywyd, – onid naïfder ac erthyl gwanllyd yw peth fel hyn? Blodyn bach tila. Ond fel nad oes modd defnyddio geiriau ag ystyr, na chydnabod achos/effaith fel patrwm gwyddoniaeth, heb fod yna Absoliwt meddyliol yn ei 'le', ni ellir chwaith gael ffrwythlondeb bywyd na symudiad egnïol creadigol heb y cadarnhad a dadogwyd arno gan y Cymry yn y term technegol 'Mawl'. Buwyd o flaen hyn lawer tro yng Nghymru wyneb yn wyneb ag ymgais i gofleidio'r eilradd a'r arwynebol, y negyddol a'r gwrthgreadigol. A dim ond y syml a'r plentynnaidd a weddai i'r Cymry bach isradd. Ni ddylid ynganu sylwadau sylweddol yn uchel yng ngŵydd taeogion sydd ar frys i orffen eu Mills a Boon. Bu'r tyndra bythwyrdd rhwng hyn a pharch at botensial cenedl yn ysgogiad dibynnol bob amser i ffyniant beirniadaeth ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Ond roedd ymwybod Alan yn gadarn yn ei ganol: 'Os ydw i'n feirniad llenyddol o gwbl, 'rydw i'n gwneud hyn yn sgil y ffaith fy mod yn fardd.'

Awgrymaf nad oedd llawer o arwydd gan Alan (pan oedd yn y Brifysgol) o'r calibr ysgolheigaidd pendant iawn a ymddangosai'n ddiweddarach. Nid y Brifysgol a roddodd hynny iddo, er iddo gael ynddi awgrym o ddisgyblaeth ymchwilio. Yr hyn a'i gyrrodd ef oedd dirgelwch y traddodiad.

Mewn cyfnod o grantiau fe fethodd y cyrff, at ei gilydd, a oedd yn gyfrifol yng Nghymru am drefnu nawdd cyhoeddi, â thrafod yn gyhoeddus bolisi cyfrifol. Ni chaed er pob ewyllys da gatholigrwydd agored ac aeddfed. Methodd yr Academi, y corff naturiol a ddylsai fod wedi agor trafodaeth ynghylch y criteria dyfarnu, ag wynebu'r broblem. Methodd Cyngor y Celfyddydau, y corff a oedd yn atebol i'r gwleidyddion yn benodol fel grŵp o 'arbenigwyr' ymgynghorol, â chynghori mewn modd ystyrlon. Methasant oll â chodi uwchlaw 'Llyfrau' i drafod 'Llenyddiaeth' o bob math, na chyflwyno trafodaeth feirniadol gyda'r awduron a'r cyhoedd ynghylch beth yn union oedd eu 'criteria ar gyfer cyhoeddi noddedig' mewn cenedl wâr.

Yr agosaf i drafod ymarfer chwaeth, barn, gweledigaeth genedlaethol, a phatrwm ystyriol yn

y cyfnod 1980-2010 oedd colofnau golygyddol Alan Llwyd. Y tu ôl i'r rhain ceid ei waith yn gyfarwyddwr pwyllgor, yn gyhoeddwr llyfrau, ac yn olygydd cylchgrawn, gyda'r cwbl yn agored i ymdriniaeth ystyrlon a chyfrifol gerbron y cyhoedd. Cadwodd ef y drws yn agored i drafodaeth ac i dderbyn datblygiad naturiol llenyddiaeth a gynigid gan awduron. A'r un pryd llywiodd a chomisiynodd lyfrau newydd er mwyn darparu'r hyn a esboniai ac a drefnai yn llenyddiaeth gytbwys ei hanghenion. Trafodai'n gyson ei safonau teilwng yn ôl polisi a oedd yn weddus. Ond y tu ôl i hynny yr oedd brwydr a darganfyddiad Alan o fawrhydi enfawr y traddodiad barddol, fel cynhysgaeth bersonol a chymdeithasol.

Sefydlwyd felly *Barddas*, y cylchgrawn, ym 1976. Honnwyd gan rywrai ar y pryd ei fod yn chwyldro. Ond beth oedd y chwyldro, gan nad ymddangosai dim oll a oedd yn gwbl newydd? Ceid cynganeddu a chymdeithasu rhwng beirdd ers canrifoedd, trafodid crefft cynganeddu ers tro byd a phopeth arall a oedd ynglŷn â hi. Y catholigrwydd a'r sefydlogrwydd oedd y chwyldro. Meddai Huw M. Edwards, 'Gogoniant pennaf *Barddas* i lawer yw fod yno groeso i feirdd mawr a mân ddwyn eu cerddi i olau dydd'.

Rwyf yn cofio un tro gael cinio yng Ngregynog ar achlysur ymweliad gan rai beirdd Ewropeaidd a oedd yn westeion crwydr ledled Prydain. Rhywbeth a drefnwyd gan Gyngor y Celfyddydau, mi dybiaf. Cefais fy mod yn eistedd yn nesaf at fardd o'r bloc Sofiet. Ac fel y digwyddai, roedd rhifyn o *Barddas* newydd ei gyhoeddi, a hwnnw gennyf mewn ffeil wrth fy ochr. Ni chofiaf y dyddiad, ond yr oedd Stephen Jones yn y rhifyn ychydig ynghynt wedi trafod gwaith Mandelstan. Bwriais olwg dros y cylchgrawn ac arddangos i'r ymwelydd gatholigrwydd gwerinol y cyhoeddiad. Esboniais iddo rywbeth am y gynghanedd, a bod y dosbarthiadau cynghanedd a'r cyfranwyr yn gallu cynnwys deintydd a cheidwad garetsh, gweithiwr cyngor ar yr heol a gweinidog, garddwr a darlithydd Prifysgol, siopwr a gwraig tŷ. Crybwyllwn Ymrysonfeydd y beirdd a'r Eisteddfodau. Yr oedd yr un cylchgrawn hwn yn cwmpasu'r uchel-ael a'r isel-ael mewn cyd-barch gwerinol. Soniwn am sbectrwm neu rychwant y llyfrau y dechreuid eu cyhoeddi tua'r pryd yna. Ac es ymlaen ar oleddf i sôn am ysgolion Griffith Jones gynt. I Alan yr oedd y rhychwant hwn yn perthyn i'r hyn a ystyriai yn Gymreictod diwylliedig balch traddodiadol.

Pryd bynnag y gwneir rhywbeth yn egnïol yng Nghymru, fe geir gelyniaeth o du'r rhai di-glem, ac sydd heb wybod eu bod yn gwneud yn llai nag y gallent. Oherwydd fod 'beirniaid' o'r fath ar y dechrau yn lleisio'u gwrthwynebiad i Alan mewn termau 'lled-lenyddol', câi ef ei siomi'n fynych; ac o'r herwydd âi'r gwaith yn feichus iddo droeon. Ond credaf iddo sylweddoli fwyfwy nad oedd a wnelo hyn ddim oll o gwbl â safonau llenyddol na hyd yn oed â natur yr amrediad neu'r amrywiaeth; a diosgodd ef y siom honno fwyfwy yn ystod y blynyddoedd diweddar. Gwleidyddiaeth yn syml oedd, a Philistiaeth. Math o genfigen oedd, bwgan mawr y cyhoedd

llenyddol Cymraeg. A phwyllgorwyr a noddwyr diddychymyg bythol-gyda-ni, chwaraewyr polisi, oedd yr unig siom mwyach, heblaw newyddiadurwyr.

Estyniad anochel oedd cyhoeddiadau *Barddas* ym 1982. Cyfle catholig pellach a geid wedyn i faethu a gwreiddio a dysgu drwy'r Blodeugerddi a chyfryngau eraill. Dyfnhâi a lledai chwaeth a mwynhad – 'amlder' y mwynhad; a chyflwynai syniadau a phorfeydd newydd i'r darllenwyr. Yr oedd hyn oll wedi ei sylfaenu ar egwyddorion ystyriol (gw. Golygyddol Gorffennaf/Awst 1989 – sef Sylwadau ar ddiben blodeugerddi a chasgliadau o farddoniaeth). Roedd yna gynllunio a rhaglennu, ond cadwai ef gatholigrwydd bob amser ar y blaen.

'*Cymdeithas* yw Barddas nid *Mudiad* ... Mae hi'n gymdeithas ac yn ddrws agored i *bawb,*ac 'rydw i wedi cyhoeddi cerddi amrywiol iawn yma. Mae o'n llwyfan i rywun ddysgu, yn enwedig i feirdd ifanc.' Cymdeithas amrywiol addysgol oedd y cylchgrawn ei hun.

'Yr hyn oedd yn wych oedd fod 'na gymdeithas a thŷ cyhoeddi oedd yn canolbwyntio ar farddoniaeth, ar flodeugerddi, ar feirniadaeth lenyddol, ar feirdd.' Man cyfarfod oedd.

'Rydw i fy hun yn ceisio parchu pawb, a cheisio rhoi llwyfan i bawb yn *Barddas,'* meddai'r Golygydd drachefn. Bydd rhywrai yn synied mai sarhau'r ysgafn a'r poblogaidd yr oedd. Ond yr hyn sy'n digwydd yw cyfannu cenedl orchfygedig, nid yn unig yn wleidyddol, nac yn seicolegol, nac yn ieithyddol hyd yn oed. Ceisio cyfannu cenedl fawr o ran potensial bodolaeth y mae, fel y gall hi feddwl yn fwy cyflawn, gan gynnwys y dimensiwn deallol.

Bydd pob Golygydd glew yn gosod ei argraff ar bapur newydd neu ar gylchgrawn. Yn anfwriadus, neu'n well wrth gwrs yn fwriadus, y mae'n dod o hyd i gyfeiriad, ac mae ganddo/ganddi rywbeth i'w ddweud. Pan sylfaenwyd *Y Llenor*, dyna oedd cri Saunders Lewis am lais unigryw, fel y byddai yna arddull ac amcanion a gwerthoedd penodol yng nghymeriad y cyfnodolyn ei hun. Digwyddodd yn *Y Llenor* i raddau, ond yn wahanol i'r hyn a fwriadasai S.L. Cafwyd golygydd Fictoriaidd ar y pryd na fedrai edrych yn ei flaen, ond a lwyddodd i wneud llawer tan edrych yn ôl. Ond digwyddodd peth go ryfedd yn hanes *Barddas*. Efallai fod hyn yn beth tramgwyddus i'w ddweud; eithr credaf fod yna ddeuoliaeth gydlynol i'w chael rhwng y brydyddiaeth gyffredinol a gyhoeddid yn y cylchgrawn a'r feirniadaeth lenyddol a gynigid gan Alan ei hun. O ran y feirniadaeth lenyddol, y mae'n ddi-sigl yn ei safonau. Nid felly'n union, mae'n ymddangos, bob amser gyda'r farddoniaeth. Er mor agored yw ef i gatholigrwydd a rhychwant dosbarth a llenddull o fewn ysgafnder/trymder y brydyddiaeth, erys y nod i bawb oll sy'n llenydda arddel pwysigrwydd y canon yn y cefndir fel patrwm a gwreiddyn. Ond yn y farddoniaeth a gyhoedda yn yr un lle ar y llaw arall, ac yn y farn (nid bob amser amheuthun) gan bobl eraill a draethir mewn llythyrau, mae'r golygydd yn caniatáu rôl lawer mwy newyddiadurol. Gall y brydyddiaeth fod yn weddol dila weithiau, a chredaf ei fod yn llygad ei le yn hyn o bolisi goddefgar, er bod y dacteg yn ddifyr

beryglus. 'Disgwylid' y safonau aruchelaf a difrifoldeb ymrwymiad; dyna osgo'r feirniadaeth olygyddol. Mae yn ddyhead. Ond yn yr Eisteddfod Genedlaethol er enghraifft, beth bynnag y bo ansawdd yr ail neu hyd yn oed y drydedd ar gyfer y goron a'r gadair, mae gan y cyhoedd ddiddordeb i weld a yw'r pethau amheus a draetha'r beirniaid amdanynt yn meddu ar unrhyw gyfiawnhad yn ochr yr hyn a gyhoedda'r cystadleuwyr eu hunain. Weithiau hefyd, bydd plant ysgol wedyn yn anfon ffrwythau'u hymdrechion i mewn, neu hen ŵr dibrofiad efallai'n rhoi cynnig ar hen bennill am y tro cyntaf yn ei oes. Os felly, ymddengys fod Alan yn hynod oddefgar ac yn cyfrif mai porthi diddordeb, cynnal cais, a hyrwyddo prentiswaith yw rhan o'i swydd hefyd. Yr oedd y realiti a gynhyrchid felly, yn gorfod cwmpasu llawer o wendidau. Dyma ni yn y byd ymarferol. Gallai hyn beri problem i rywrai, ond nid i Alan; dyna yw cymdeithas – pobl sydd oll ar yr un ochr pa mor gyfyng bynnag y bo'u doniau. Ond deuoliaeth yn wir yw *Barddas* mewn gobaith. Dyheu yw'r unoliaeth. Os oes bwlch yn y dyhead neu yn y safon, y nod yw cyfannu.

Nod Barddas, mi dybiaf i, oedd trin rhychwant chwaeth a gallu darllenwyr Cymraeg yn hyn o beth yn gyflawn ddiwnïad o fewn delfryd ddi-sigl o obaith. Mewn gwirionedd, ceisiai ystyried mai undod cywir oedd holl ystod ei waith. Nid ildiai ar ganon na delfryd. Ond oherwydd hen ddeuoliaeth a oedd yn mynd yn ôl, yn ôl pob tebyg i gyfnod cyn dechreuadau llenyddiaeth Gymraeg, ceid hefyd ddau draddodiad y mae'n rhaid eu trafod gyda pharch yn ôl unigolyddiaeth a chymeriad y naill a'r llall. Noddi heb fod yn nawddogol. Mae angen hefyd weld eu cysylltiad, a dibyniaeth y naill ar y llall: y caeth a'r rhydd, yr uchelwrol a'r gwerinol, y llwyddiannus a'r aflwyddiannus, yr hwyl a'r uchelgeisiol. Nid gêm oedd *Barddas* i Alan Llwyd er hynny, ond crwsâd i oedolion; nid *sesh* neu griws ond anrhydedd. Gweler felly ei fod wedi'i mentro hi.

Un peth a oedd yn anhyfryd yn ei fryd ef, a pheth yw na pherthyn yn gyfyngedig i ddiwedd yr ugeinfed ganrif, sef y dymuniad dynol i godi ysbryd cynnen gan y naill draddodiad yn erbyn y llall, nes bod safonau'n cael eu bygwth. Gwedir y delfryd o ddeuoliaeth adfywiol iach. Mae hyn yn gallu bod yn fwy na pharchu diffyg ymroddiad dygn i lenyddiaeth. Gall fod a wnelo â'r *psyche* Cymreig, ac y mae hwnnw'n daten boeth y mae'n rhaid ei dal yn y dwrn yn garcus. Ceir cynulleidfa Gymraeg yn hysbys sy'n barod yn Saesneg i ddarllen Eliot neu Dylan Thomas, ond yr un bobl a wêl rywbeth cymharol syml yn y Gymraeg megis gan Dewi Stephen Jones (dyweder) neu Rhydwen Williams ac a ebycha: 'O! Mae'n anodd. Ydy hi'n werth y drafferth?' Cafwyd ymgyrch yn y Gymraeg i berfformeiddio diwylliant i ymgyrchu ymhlith plant, ond tueddai polisi *Barddas* ers tro i beidio â gorbwysleisio unrhyw israddoldeb endemig. Mae Alan Llwyd yn gosod – ar bwys Hardy neu Sylvia Plath – Garadog Prichard a Gwyn Thomas. Proses o urddasoli gwlad daeogaidd yw lledu golygon heb golli hunaniaeth. Wele'r sain nodweddiadol Gymreig o'r bryniau – a ydy hi'n werth y drafferth! Wele Gymru dy blant!

Brwydr oedd arddel safon mewn gwlad a fodlonai ar ddiffyg uchelgais. Yng nghanol materoliaeth a diwylliant o fewn sgrin deledu a photio englynion, ceir weithiau gyfyngder ar ddeall ac ar brofiad. Trôi ysgafnder ar dro yn sefydliad. Ers 1850 petheiddiwyd bywyd fwyfwy yng Nghymru. Fe'i hanifeileiddiwyd. Hawdd y gellid synied ym maes cerdd mai oedran a gwahaniaeth cenhedlaeth sy'n cyfrif mwyach am y gwahanu sefydliadol. Dim ond ychydig a fydd mwyach yn darllen mewn unrhyw iaith. Eto, yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, cafwyd yn weddol sydyn *O! Tyn y Gorchudd, O Ran, Y Trydydd Peth* a *Bydoedd.* A baratowyd y cyhoedd i feddwl fel hyn mewn rhyddiaith? Neu a rwystrwyd pawb rhag yr hen ynni? Yr hyn a ddaliai'n siom nodedig yn fy mhrofiad i oedd cyfarfod â mwy nag un darllenydd Cymraeg a fwynhâi bethau solet yn Saesneg, ond a fethai ag ymwybod â'r helaethrwydd cyfoethog o gliwiau dan eu trwynau ynghylch y plethiadau ymwybodol neu isymwybodol (yn ôl a dybiaf i) yn *O Ran,* dyweder. Clwyf yw peth fel hyn. Ac mae angen moddion deuol i wella, ac i ddwyn yn ôl yr hyn a gyfrifai Alan yn gyd-barch.

Pa fath o anifail oedd ei 'ddelfryd' deublyg felly? Ni cheir hynny mewn un o'i feysydd llafur, ar ei ben ei hun. Rhaid ystyried ei bolisi o fewn amlochredd ei weithgarwch.

Ni ddisgwylir cyhoeddi'r 'Canon' yn grwn gyson mewn cylchgrawn. Gellir datgan y fath beth, ei arddangos, enghreifftio, ac esbonio pam y mae'n fater o fywyd ac einioes i'w gynnal yn gyfoes. A hynny a wnaed. Pan gyhoeddid *Y Llenor* gynt, nid yr un â *Barddas* Alan Llwyd oedd ei swyddogaeth. Byddai golygydd *Y Llenor* ar y pryd wedi 'diarddel' ymdrechion 'rhwydd' cyntaf yr hen bobl a geid wedyn yn *Barddas* weithiau, a holl gynigion y plant ar y pryd. Ac yn y farddoniaeth a geid yn *Y Llenor* anelid at y detholedigion yn unig cyn belled ag yr oedd yn bosibl. Er mai'r un, dybiaf i, fu edmygedd Alan o safonau ag a oedd gan Gruffydd a Saunders Lewis, dôi yntau o hyd i bolisi gwahanol. A dichon y byddai'n ddifyr ystyried beth oedd natur y tebygrwydd a'r gwahaniaeth, gan fy mod eisoes wedi disgrifio ychydig ar safbwyntiau Saunders Lewis yn y gyfrol hon. Ai cynnal *Llenor* arall oedd nod Alan? A ellir diogelu teyrngarwch detholaidd i *Safon y Canon* a *Bod yn Gatholig* tuag at gyhoedd darllengar os ydynt yn llai na chyson o ddegawd i ddegawd? Gellir: trwy gatholigrwydd chwaeth y rhuddin, – ceisio undod cymdeithasol, ac adeiladu traddodiad a chefndir cydwladol yn fframwaith greddfol. Rhaid disgwyl cyd-drawiadau, dadleuon, a deuoliaethau o lawer math, wrth gwrs. Ond addysg felys yw adnabod traddodiad byw safonau'r canol.

Dewis Saunders Lewis gynt, sut bynnag, fu anrhydeddu deuoliaeth real a ffrwythlon y Brifysgol a'r Werin fel ei gilydd. Ymladdai ef o fewn tyndra yr un pryd gan ddisgwyl i'r cyhoedd ei ddilyn fel y mynnent. Ymddygai fel pe bai *Pawb* o'r Cymry yn uchelwyr, yn Brifysgol ac yn Werin. Synhwyrai eu bod yn cyd-fynd â rhaniad teimladol hefyd. Ond ni symleiddiai ef y ddeuoliaeth rhwng y sylweddol a'r ysgafn... Caniatäer cymhariaeth. Yn 19 oed, dechreuodd Jane Austen sgrifennu ei nofel gyntaf, sef *Elinor and Marianne* dair blynedd ar ôl marwolaeth Pantycelyn. Fel y

gŵyr y cyfarwydd, yr oedd Elinor yn cynrychioli 'Synnwyr' a Marianne yn cynrychioli 'Synwyrusrwydd' neu'n hytrach *Sense and Sensibility.* Yr oedd y cyferbyniad pwysig yn y fan yna wedi ymsefydlu eisoes yn y *psyche* cyfoes, onid erioed, rhwng Clasuraeth a Rhamantiaeth, rheswm a rhyddid, cariad aeddfed a'r serchiadau gwyllt, y difrif a'r ysgafn. Dau begwn difyr a threiddgar. Dyma un o'r themâu mawr cyffrous hefyd i Williams Pantycelyn (1717-91): meddwl a phrofiad. A phan ddaeth Saunders Lewis yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif i ysgrifennu, yn gyntaf, ei erthygl bwysicaf ar 'Ddafydd Nanmor', ac yna'i astudiaeth feirniadol unigol bwysicaf ar lun llyfr, sef *Williams Pantycelyn,* – un o'r pynciau yr ymdrôi gydag ef yn y ddau waith oedd y gwrthdrawiad pegynol hwn yn y *psyche* dynol. Fe'i ceid yn yr ymagweddu cymdeithasol rhwng y ddau rym – disgyblaeth neu aeddfedrwydd y meddwl cyfrifol a chythrwbl dwfn llencyndod.

Parhâi'r rhaniad hwn o fewn patrwm telynega yn Gymraeg, yn arbennig ar lefel Eisteddfodol. Y gwaith a fwyhâi fywyd a'r gwaith a rôi ddiddanwch ysgafn.

Wrth geisio roi trefn ar ei lencyndod ei hun, mynnai Saunders Lewis ddehongli brwydr fewnol Pope a Wordsworth, Goronwy Owen a Phantycelyn, gan adnabod digon o 'werin ddeallus' i ddygymod â'r cwbl. Profwyd y gwrthdrawiad hwn felly yn ffrwythlon iawn yn hanes Saunders Lewis ei hunan. A dyma fu yn ei ddramâu, yn ogystal ag yn ei feirniadaeth lenyddol, ei brif ystyriaeth thematig. Cyflwynai ef ddramâu i gynulleidfaoedd a allai ymdopi â themâu Shakespeare eisoes. Beth bynnag am Ddafydd Nanmor a Phantycelyn, yr oedd y ddadl hon wedi datblygu drwy'r ddeunawfed ganrif rhwng Neo-glasuraeth Awstinaidd yn Goronwy Owen a Lewis Morris (sef y Ceidwadwyr) tuag at Ramantiaeth Ddemocrataidd Pantycelyn (sef y Radicaliaid); a bu'n fater o bwys mawr i feddwl Saunders Lewis. Yn y cyfuniad ohonynt hwy y daeth Saunders, fel Jane Austen a llawer un arall o'i blaen, i ddygymod ag un o wrthdrawiadau mwyaf ffrwythlon bywyd.

Dyma ddeuoliaeth ddeallol i bobl sy'n darllen heddiw, ac sy'n cuddio o fewn deuoliaethau cyfoes Cymreig eraill. Hyd yn oed, ymhlith darllenwyr *Barddas*, ceid cydbwyso nid annhebyg sy'n werth ei ystyried. Ym magwraeth lenyddol Alan Llwyd ei hun ceid cyfuniad unol o'r fath. Yn gyntaf oll, R.W. Parry, T. Gwynn Jones, I. D. Hooson, a'r rhamantiaeth synhwyrus seml berseiniol: y delyneg felys, 'telyneg' yr Eisteddfod a'r Talwrn. A dyma weddillion mudiad elfennaidd y penillion telyn hefyd. Yna, fe gaed 'Dafydd Nanmor' o fewn cyrraedd i'r Cynganeddwyr fel Alan, beirdd Clasurol y bedwaredd ganrif ar ddeg a'u hysbryd deallol, yn arwain at 1536 ynghyd ag ymenyddwaith politicaidd Saunders Lewis. Roedd y drefn feddyliol, a'i myfyrdod mwyach, yn sialens arall.

Caed llawer mwy hefyd wrth gwrs; ond ceisiais ddadlau ynghynt yn f'ymdriniaeth â Saunders Lewis y Beirniad fod ganddo ef drydydd Metanaratif. Sef Moderniaeth. Ac i raddau yr oedd y ddeuoliaeth ysgafn/sylweddol yn ymestyn i adlewyrchu deuoliaeth

Rhamantiaeth/Moderniaeth. Ac y mae hyn yn wir hefyd am Alan Llwyd, er bod ei dri Metanaratif yntau yn gwbl wahanol o ran adeiladwaith i Saunders Lewis. Fe'u bwriadwyd hwy ganddo ef i *bawb* o'r darllenwyr. Dôi Catholigrwydd ei hun yn bolisi golygyddol iddo megis drwy reddf, a hwnnw'n lletach darllenyddiaeth na Saunders mewn rhai cyfeiriadau.

Gyda Moderniaeth, pwysig sylwi ar ei harwyddocâd ym mholisi golygyddol Alan. Cymerai fod ei gyhoedd difrif yn atebol i rychwant llydan.

Mae'n hanfodol inni sylweddoli dylanwad un o briodoleddau personol Saunders Lewis (a disgynyddion eraill dosbarthiadau Griffith Jones) hyd y dydd heddiw, ar waith, yn ymwybod Alan. Un o angenrheidiau mwyaf pob beirniad yw haelfrydedd. Oni fydd beirniad yn meddu ar galon agored a chydymdeimladol, ynghlwm wrth feddwl craff, anodd yw iddo gwmpasu traddodiad gwydn fel y gwnaeth Saunders Lewis ac Alan. Gyda llenyddiaeth 1859 hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif, fe gaed math o draddodiad y gellid ei ddynodi – oherwydd llacrwydd y termau – yn 'rhamantaidd' ac wedyn 'modernaidd'. Yr oedd perthynas Saunders Lewis â'r symudiadau hynny'n gymysg, hyd yn oed yn amwys. Ond gallai werthfawrogi i'r dim, efallai'n rhy hael, ragoriaethau'r cyfnod, ac ni fu ei 'wrth-ramantiaeth' ramantaidd ynghylch Catholigiaeth yn rhwystr o gwbl, ddwedwn i, rhag gwrogi i'r prif gampau a gafwyd yn y cyfnod diweddar, yn arbennig yn yr ugeinfed ganrif. Mae haelfrydedd Alan yntau yn hysbys, fel Saunders Lewis. Ond i Alan, daliai'n ffyddlon wrth y gred fod addysg i werinwyr o oedolion yn para ar ôl dyddiau ysgol i rywrai, yn arwydd o barch. Nid anwybyddai'r ysgol feithrin chwaith. Rhaid oedd symud rhwng y rhengoedd yn hydeiml. Ond roedd ei wrthwynebwyr am gofleidio ac aros gyda'r ysgol feithrin: ceisient ailfowldio cenedl felly i'r dyfodol. Bu *Barddas* i Alan yn gyfrwng i Foderniaeth unigryw Cymru.

Mewn gwirionedd yn ei arolwg o hynt llenyddiaeth Gymraeg, wedi iddo gyrraedd llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif, gallai Saunders Lewis yntau fod yn haelfrydig hyd at fod yn feius. Diau fod hyn yn naturiol ac yn anochel yng Nghymru. Yn achos trafod gwaith W. J. Gruffydd, er enghraifft, tyner y disgynnai traed Saunders Lewis yn y gors achlysurol honno, ond yn ddieithriad y digwyddai, fel y gŵyr pawb: sylwer ar yr hyn a ddatguddid mewn llythyrau. Meddai Kate yn gyntaf: 'Byddaf bob amser yn cofio eich ateb chi i Brosser Rhys, pan ofynnodd ef i chwi adolygu llyfr o farddoniaeth i'r *Faner* – nid wyf yn siŵr pa un ai barddoniaeth Crwys ai I. D. Hooson ydoedd. “Na wnaf, mi fydd yn rhaid i mi ei ddarllen”.' Yn ail, yn ei sylwadau at D. J. am Islwyn Ffowc Elis, 'Ni fedrwn i oddef ei ddwy nofel gyntaf ef, er fy mod yn meddwl mai da iawn ei fod ef, a da iawn yw cael nofelydd poblogaidd a mynd arno; yr wyf yn dymuno ei lwyddiant a'i ffyniant, – ond gwell gennyf beidio â'i darllen (rhyngom ni yn unig mae hynny).' Ar y pryd, buasai naw-deg -wyth y cant o'r darllenwyr wedi codi eu dwylo mewn annealltwriaeth.

Gresyn na chawsom y pryd hynny y manylu mwy technegol ynghylch maes Mynegiant, bid

siŵr. Ond bydd yn rhaid inni ddychwelyd at y pam eto. Un o'r arweddau mwyaf gwerthfawr ym meirniadaeth Alan ar Fynegiant, yw'r swyddogaeth a ymgymer beirniad wrth ddysgu i bobl mewn oed i ddarllen. Fel y gwyddom oll, ceir dau gyfnod mewn darllen. Hyd at bymtheg oed fwy neu lai, mae yna fecaneg allanol ar waith, heb fod yn fawr mwy na meistroli'r cysylltiad rhwng llythrennau ar y tudalen â'r ynganiad. Wedi'r pymtheg oed, os pery, rhaid i'r oedolyn ddysgu darllen o'r newydd â'i feddwl, onid yw'n mynd i aros yn ôl-gynnydd weddill ei oes. Rhaid iddo feithrin a miniogi'i synnwyr gwahaniaethu. Gwaetha'r modd, yn y Gymru ddiweddar, erys cryn nifer o'n darllenwyr yn bymtheg oed. A dechreuodd yr ysgafn, y plentynnaidd, a'r anneallus orthrechu llawer.

Dyletswydd Saunders ac Alan, yn achos darllenwyr y beirdd a'r rhyddieithwyr y traethent ar eu cyfer, oedd dysgu iddynt ddarllen. Gwnaethant hyn i raddau yn orchestol. Pe baent wedi gwneud hynny'n gyhoeddus ac yn gyson yn achos Crwys, I. D. Hooson, ac Islwyn Ffowc Elis, buasai wedi bod yn gymwynas garedig os caled. Ni ddywedwyd 'pam' ar ei ben. Bid siŵr fe'i gwnaethant mewn ffyrdd eraill caredicach. Ond nis darllenwyd hwy â chlustiau agored.

Ni ddisgwylir gorau ein llên mewn cylchgrawn i bawb. A thasg flin Alan oedd arddel Canon, a pharchu pob darllenydd ymhob rhifyn. Ond arddel Canon yn y bôn ydyw parchu pawb. Disgwylir bob amser mewn Canon fod beirniad yn medru sefyll yn ôl a chanfod arwyddocâd gwerthusol o fewn patrwm y traddodiad cydlynol. Sylwer mor eithafol o brin fu hyn, hyd yn oed ymhlith rhai o'n hysgolheigion Cymraeg, gydag ambell eithriad nodedig.

Mae hyn yn gysylltiedig ag un diffyg perthynol arall – un cenedlaethol. Os yw beirniad yn meddu ar fedr ymatebol hael ac yn meddu hefyd ar ddychymyg gwerthusol, hynny yw heb ei lethu'n ormodol gan ogwydd hanesyddiaeth a thestunolrwydd, yna, drwy ymwybod â dethol traddodiad byw, erys y gallu i ganfod safonau o fewn cyd-destun rhyngwladol. Oherwydd ei ddiddordeb ysol mewn llenyddiaeth fel ffenomen, ac oherwydd profiad gorfoleddus o'r clasuron Ewropeaidd, yr oedd Alan yn gallu cymhwyso hynny wedyn i'r cyd-destun brodorol. Dyna fydd un wedd bwysig ar garn Alan wrth farnu gwaith newydd. I Thomas Parry, roedd gwendid ei fedr i ymwybod â fframwaith profiad o'r fath mewn llenyddiaeth gymharol fodern wedi bod yn llestair i raddau iddo ymgodymu â newydd-deb.

Ond dyma brawf cywrain y Canon, y prawf a wynebodd Alan.

Dyma'r lle y gwnâi Saunders iawn am ddiffyg hyder Thomas Parry. Ochr yn ochr â chatholigrwydd profiadol gweithredol a miniogrwydd beirniadol mewn llenyddiaethau Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, a Lladin y tu ôl iddo, roedd gan Saunders Lewis gynhysgaeth bersonol arall yn gynhaliaeth i'w 'awdurdod'. Fe ganfu ef, a deall, gwacter modern deallol. Canfu hyd yn oed amhosibilrwydd rheidiol relatifrwydd ei gyfnod. Canfu nad oedd dim o'r fath beth â damweinioldeb nac absenoldeb yr Absoliwt. Hynny a ganiatâi Werth iddo. Hynny yw, yr oedd Saunders eisoes

wedi myfyrio'n ddwys am y dogmâu chwiwus goddrychol a lethai'r ugeinfed ganrif. Gwelai eu bod yn ddiffygiol yn ddeallol am eu bod yn hunan-wrthddywedol ac yn gadael gormod o fylchau heb eu hateb yn ddigonol. Gwybu Saunders ac Alan fel ei gilydd fod traethu barn bendant a rhesymedig bob amser yn dwyn am eu pennau adwaith y ffilistiaid.

Ond bu rhagdybiau deallol gwan yn gryn rwystr yn gynnar ymhlith rhai beirniaid Cymraeg eraill, a thrwy gydol yr ugeinfed ganrif. Ataliwyd holl genhedlaeth 1902-36, ar wahân i Saunders Lewis (ddywedwn i), rhag sylweddoli gwir fawredd anferth meddyliol Pantycelyn er enghraifft, a rhag gwerthfawrogi deallolrwydd a sylfeini esthetig clasurol beirdd yr uchelwyr. Fe'i hataliwyd gan ramantiaeth baganaidd, boed yn Farcsaidd neu beidio. Clawstroffobia naturiolaidd oedd eu maen tramgwydd. Y peth cyntaf a wnaeth Saunders Lewis pan ddechreuodd yn broffesiynol ar ei yrfa fel beirniad ym 1922 oedd mynd i'r afael â dau berson yn benodol sef Dafydd Nanmor a Williams Pantycelyn. Aeth i galon y Canon, felly. Aeth am y wythïen wddf. Ac o ganlyniad, gwnaeth feirniadaeth lenyddol, ddeallol fyw a threiddgar ysbrydol, yn bosibl yn y Gymraeg.

Yn hyn o beth yr oedd dylanwad Saunders Lewis yn drwm ar lawer, gan gynnwys Alan. Gwyddai na wnâi ymgyfyngu poblogeiddiol, nac anelu at safon ysgafn byth a hefyd, mo'r tro fel polisi cylchgrawn llenyddol cynhwysfawr i genedl aeddfed. Nid rhwydd i bawb yw darllen 'poblogaidd'. Peth sy'n gofyn dyfal-barhad yn wir, fel arfer, yw llyfr cyfoes 'poblogaidd' i'r sawl a garodd Fyrsil a Dostoieffsci, Dafydd ap Gwilym a Shakespeare. Rhaid wrth lawer iawn o amynedd, goddefgarwch, ac ymroddiad i efrydu'r hyn a all fod ynddo'i hun yn bur wrthun. Rhaid wrth aberth. (Methodd Saunders ambell waith). Nid mater o ddosbarth na dysg yn unig yw hyn. Ceir lefel boblogaidd arall, megis penillion telyn ac emynau, sy'n medru codi uwchlaw'r oes. Ond am y poblogaidd arferol, derfydd yn gyflym. 'Sefydliad cenedlaethol' yw ar y pryd, mae'n wir, ond gwibiog o ran parhad. Newidia'r diffiniad o'r 'poblogaidd' o gyd-destun i gyd-destun, yn fwy eithafol na dim, o oes i oes. Yn y ddadl enwog rhwng R. T. Jenkins a Saunders Lewis, pan oedd y cyntaf (druan) yn pleidio ac yn amddiffyn rhyddiaith boblogaidd, meddwl yr oedd yn rhannol am ei waith ei hun megis *Ffrainc a'i Phobl.* Dyma ddarllen ysgafn am y tro yn ei fryd ef: pethau diwylliedig hyfryd ond heb fod yn eithafol academaidd. Y gŵr gwâr yn sgyrsio'n hwyliog am ei hoff ddiddanwch oedd yno.

Tybid yn y ddadl hon gan y naill ochr a'r llall eu bod yn ceisio adennill yr iaith. Dyna pam y mae'n bwysig sôn am Strwythur i fudiad adennill. Y gwir yw fod yna arian yn y fantol yn y dyddiau diweddar, grantiau a gwobrau. Yn bwysicach ceir ewyllys gefnogol. Gwaetha'r modd, ni chafwyd digon o feddwl ac o drafod dwys i finiogi ystyr yr hyn a oedd ar gerdded. Fel y gwelsom, o fewn cyd-destun llethol o'r math yna y cafodd Alan yr athrawiaeth feirniadol a ystyriai ef yn anochel. Bu'n amyneddgar, yn oddefgar, ac yn meddu ar barch. Ei uchelgais oedd i *Barddas* fod yn athro i

bawb: i'r blaswyr gwerth ac i'r blysiau cynnwrf, i'r snob a'r sneiben, i gywion o ddarllenwyr ac i'r hen godjers, i ddod o hyd i'r porth i mewn i ragoriaeth lenyddol.

Gweithiodd ei bolisi haelfrydig yng nghanol y realiti hwn. Eto, o'n holl academyddion llenyddol, diau mai Alan Llwyd ei hun yw'r mwyaf 'poblogaidd'. Sonnir yn *Glaw ar Rosyn Awst* am werthiant *Blodeugerdd o Farddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif* o dros 2,500 o gopïau, *Nadolig y Beirdd* dros 2,300, a rhywbeth tebyg i'r *Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg.* Rhifer y cyfanswm o ddarllenwyr Cymraeg yn y byd ochr yn ochr â rhif y darllenwyr Saesneg, a'u cymharu, yna byddai cymhariaeth o werthiant y llyfrau Cymraeg yn bur nodedig. Erbyn Mehefin 1989, gallai *Barddas* frolio fod yna fil o werthiant i'r cylchgrawn: 'Yn nechrau'r nawdegau y datgelir y ffaith ryfeddol mai *Barddas* yw'r Cylchgrawn barddoniaeth â'r gwerthiant ail uchaf ym Mhrydain, yn ail yn unig i gylchgrawn swyddogol y Gymdeithas Farddoniaeth yn Llundain, ac ambell rifyn yn gwerthu oddeutu 1,050 o gopïau' (Huw M. Edwards). Byddai'n ddiddorol gennyf wybod a oes *per capita* iaith yn y byd a werthai gylchgrawn barddoniaeth yn well nag ef. Bu'n ddelfryd i'r cyhoedd. Ac erbyn hyn, mae'n ddedfryd ar y cyhoedd. Ond dyna reswm arall pam y mae'n rhaid cymeradwyo Alan fel ein beirniad mwyaf amlochrog.

# XII Y BEIRNIAD-FARDD

*Cerddi Alan Llwyd 1968-1990*

Bûm yn sôn o bryd i'w gilydd am Alan Lwyd fel Beirniad-fardd. Beth sydd a wnelo ei bentyrrau o feirniadaeth â'i Gerdd? Y gwir yw: yr oedd y feirniadaeth oll yn arwain at gerddi, yn baratoad, yn hyfforddiant, ac yn fyfyrdod. Dyna a fwriadwyd. Dyna ffrwyth coethaf beirniadaeth. Mewn trafodaeth ar ei feirniadaeth, gall ymddangos yn chwithig ymdrin â barddoniaeth Alan. Ond bardd annatod o feirniad yw. Dywed ef ei hun yn *Gweledigaethau,* cyfrol deyrnged Gwyn Thomas, 2007, 'Y mae'r broses greadigol yn ei hanfod yn broses feirniadol, a bydd y bardd, wrth fynd ati i lunio ei gerddi, yn ymarfer crefft y beirniad llenyddol yn ddiarwybod iddo'i hun, yn reddfol. Bydd ei holl ddarllen a blynyddoedd lawer o feithrin gwaith ac ymarfer y grefft o farddoni yn llywio'i waith ... Fe ddylai beirdd astudio beirdd, gyda chwilfrydedd yr ysgolhaig ... Maen nhw'n rhan o'r hyn a aeth o'u blaenau – y traddodiad – a byddant yn rhan o'r hyn sydd i ddyfod ar eu holau – parhad y traddodiad.' Archwilio'r brawddegau yna a wnawn ni yn yr ysgrif hon.

Meddai eto, mewn man arall, yn *Alan*, 2003, mewn cyfweliad gydag M. Wynn Thomas: 'Mi fûm i'n gyndyn iawn i'm galw fy hun yn feirniad llenyddol. Pobl eraill oedd yn fy ngalw i'n feirniad llenyddol. Bardd yn trafod beirdd oeddwn i yn y pen draw.'

Ceisiais ddadlau eisoes, yn yr ymdriniaeth â themateg Rhyfel, fod cerddi lluosog Alan ar y Rhyfeloedd yn ymhlyg yn ei feirniadaeth: mae'r naill yn gwau drwy'r llall. Maent yn helpu ac yn goleddfu'i gilydd. Ar ryw olwg, y mae'r naill yn ansoddeiriol i'r llall. O safbwynt adeileddol, un o'r cyfundrefnau sy'n adeiladu thema bob amser yw Goddrych (Enw), Gweithredu/Disgrifio (Berf/Ansoddair) a'r Amgylchfyd (Adferf lle/ amser/ modd). Dibyniant yw eu perthynas. A dyna'n union y penawdau sy'n dod i'r fei yn achos Alan, gyda'r pwyslais ar berson ar y blaen (mewn cof a chofiant): ynghyd â gweithrediadau (brawychus mewn rhai o'i gerddi storïol, er enghraifft mewn cerddi rhyfel), a'r rheini mewn amgylchfyd emosiynol gwaedlyd, swnllyd ac angheuol, yn ogystal â'r tangnefeddus. Dyna adeiladwaith ei fynegiant.

Fe'i hyfforddodd ei hun yn ddiymatal ddisgybledig i fod yn feirniad o fardd. Meddylier am yr holl waith a oedd yn angenrheidiol er mwyn dethol y 6357 o ddyfyniadau a gadwyd yn *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg,* er bod y cwbl wedi'i daflu yn ei ddannedd am nad oedd yna ddigon o jôcs. Hyfforddiant oedd. Sylwch arno eto yn meistroli'r traddodiad wrth lunio'i gyfran o *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* neu o *Lywelyn y Beirdd.* Ysodd ef Gerdd Dafod fel y dengys ysblander *Anghenion y Gynghanedd* a *Trafod Cerdd Dafod y Dydd,* a *Crefft y Gynghanedd.* Ei waith ef ar *Euros Bowen, Goronwy Owen, Gwyn Thomas, Kate,* a *Hedd Wyn* yw'r astudiaethau praffaf o hyd sydd gennym o'r llenorion hynny. Ac yna, wynebodd ei gyfnod ei hun, yr ugeinfed ganrif –

mewn dyfnder – y Chwedegau, yr Eisteddfodau, *Rhyfel a Gwrthryfel*, *Y Grefft o Greu,* a llawer llawer arall. Bu'r cwbl yn baratoad. Golygu a golygu, yn ddi-ben-draw. Hynny yw, dethol. Sylwaf ar rai beirdd bellach o'i ddeutu ymhlith mwy nag un genhedlaeth yn brysio dros eu pethau yn ddeallol ddiog wrth farddoni, fel petaent wedi'u cyflyru gan yr amseroedd didraddodiad a digyfeiriad. Mae arwyneboldeb cynnwys wedi priodi'n ffyddlon arwyneboldeb celfyddyd (er gwaethaf ambell glyfrwch sŵn), fel pe bai delfrydau'r gyfundrefn gyhoeddi bellach wedi ymaflyd ynddynt.

Soniais am ei hir ddisgyblaeth fel math o hogi arfau i Alan, oherwydd nid oes gennyf rithyn o amheuaeth mai'r hyn a wnâi drwy gydol yr amser oedd ei hyfforddi'i hun fel nas hyfforddwyd neb bardd o'r blaen ers Cynddelw Brydydd Mawr. Ac nid yn glandrus y gwnâi hyn, nid yn hollol, er ei fod yn gwybod beth yr oedd yn ei wneud; profai'r ysgogiad hwn yn orfodol fewnol.

Arfau? Ie. Gwnaeth lawer o hyn yn wyneb gwawd a chenfigen fel sy'n sefydliad mewn gwlad fechan sy'n dioddef o israddoldeb, a'i phobl yn rhy aml yn methu â chuddio trefedigaethrwydd taeog.

Bardd a beirniad cydlynol yw Alan Llwyd, a gwyddom oll fod ei gyfraniad yn y ddau faes yn hynod arwyddocaol i lenyddiaeth Gymraeg gyfoes. Ond beth yw'r berthynas rhwng y ddau? Mae'n wir yn theoretig fod rhywun yn cael syniad neu ddelfryd o gerdd cyn mynegi'r gerdd. Hynny yw, mae'r beirniad yn rhagflaenu, yn dethol, ac yn dweud wrth fardd beth yw barddoniaeth. Y beirniad sy'n dewis yn y bardd rythm ac ieithwedd a delwedd. Mae'n adeiladu ymlaen llaw. Ac eto yn achos Alan, mi dybiaf mai allan o'i farddoniaeth y tyfodd ei ddiddordeb mewn beirniadaeth, ac yn wir y blodeuodd ei ysgolheictod: er mwyn dychwelyd wedyn wedi'i ailarfogi. Hynny yw, i Alan, ei farddoniaeth a ddôi yn gyntaf, yn yriant ac yn hiraeth, a bu'i feirniadaeth yn llawforwyn a'i hyfforddai ar gyfer ei dyfiant a'i ffrwythlondeb fel bardd.

Bu tair rhan, weddol glir, i'w feirniadaeth. Bu'n hanesydd helaeth, a bwysai ar gof aruthr. Casglai adnabyddiaeth o'i wreiddiau. Dyma'r wedd ar ei waith sydd wedi'i gynorthwyo i ymdeimlo â'i amseroedd hefyd, a'r amgylchfyd, a'r berthynas rhyngddynt. Yn ail, bu'n theorïwr ac yn ddadansoddwr ffurfiol hyddysg wedyn, yn palu i drefn a fframwaith celfydd megis yn *Anghenion y Gynghanedd*; ac mae'r ddau argraffiad o'r gyfrol honno yn arddangos y twf dethol yn ei hunan-hyfforddiant parhaol. Yn drydydd, cafwyd ganddo archwiliad dawnus o gerddi (a beirdd) unigol. Dyma'i waith pennaf, a'i ragoriaeth ar bawb o'i gyfoedion. Byw drwy ddiriaethau artistig a adwaenir. Anodd curo o ran ansawdd ei archwiliad o farddoniaeth Thomas Hardy. Ond y mae yna enghreifftiau niferus eraill. Mae'r medr amrywiol hwn i fyfyrio'n fywiol greadigol uwchben barddoniaeth wedi cyrraedd lefel o aeddfedrwydd nas cyrhaeddwyd yn Gymraeg gan neb ar y raddfa hon, ond gan Saunders Lewis. Swydd ymarferol fu i'r cwbl: i'w ddyfnhau'i hun fel bardd. 'Bwrw prentisiaeth' fu'r cwbl hwn. Bu ef bob amser yn dysgu.

Mae ganddo'r gostyngeiddrwydd tuag at ddysg sy'n hanfodol i bob bardd aflonydd nad yw'n fodlon marw eto. Beirniad i feirdd yw, yn bythol hel adnabyddiaeth o amlochredd i'w gelfyddyd, ac i Dywysoges fawr hydeiml, ei Awen. Mae ei feirniadaeth yn tarddu o ddarllen eang, catholig, ynghyd â datod darlleniad clòs manwl. Mae ef wedi meithrin felly fedr sy'n bur ddieithr ymhlith beirniaid academaidd confensiynol: sef cyd-ysgrifennu â'r awdur a astudia, ynghyd â'r medr i werthuso o fewn cyd-destun rhyngwladol a brodorol mewnol. Nid gwerthuso yn ôl chwiw a wna felly, eithr yn ôl profiad ymarferol a gweledigaeth sydd wedi treiddio i mewn i'w ymarfer.

O'r herwydd, ni byddai ef yn debyg o gael ei chwythu o gwmpas gan ffasiynau trendi. Gallai gael sbort, ond ni fu byth yn ymadael â difrifwch anrhydedd. Pe gofynnid iddo beth oedd ei farn am y ddelfryd o baentio mwstàs ar y Mona Lisa, y tebyg yw (ped ymdrafferthai i ateb y fath gwestiwn) y'i hystyriai'n annheilwng yng ngoleuni'r parch trydanol a brofai at Dante a'r *Brenin Llŷr,* at Valéry, Rilke, a Tudur Aled; ac yna oherwydd hwyl aeddfed Waldo a Dafydd ap Gwilym am eu pennau hwy eu hunain. Ond o'i ddeutu, gorweddai celanedd lawer y beirdd a'r llenorion a syrthiodd dan gleddyf poblogrwydd, ac ar yr ochr arall gelanedd yr ysgolheigion a syrthiodd dan rym a chwiwiau hanesydda cymdeithasol gweddol amherthnasol. Pa chwarae arwynebol oedd hyn mor aml? Nid sôn yr wyf am y bardd yn bychanu'r ysgolhaig ac yn israddoli'r alwedigaeth honno, ond am undod, ac am gyfeiriad a deinameg i'r undod yna. Ac y mae yna gynneddf neu agwedd gyffelyb mewn ffordd fwy gweithredol a phragmatig.

Yn y *Casgliad o'i Gerddi 1968-1990* rhennir y detholiad yn 15 o adrannau. 'Bardd yr Ugeinfed Ganrif ' yw teitl y drydedd adran ar ddeg. Dyma'r canolbwynt i'r gyfrol fel y bydd cyfoesedd yn fynych. A dyma'i ymrwymiad a'i ddyletswydd gyfrifol i'w amseroedd a'r berthynas ddirfodol rhyngddo a'i gelfyddyd yn y byd real. Mae'i nerfau a'i organau fel petaent yn astudio fframwaith ei fodolaeth ei hun. Dyma deitlau'r pedair cerdd gyntaf yn yr adran honno: 'Bardd yr Ugeinfed Ganrif', 'Yng Nghanrif yr Anifail', 'Galarnad Cenhedlaeth', 'Hanes Canrif: Dwy Gerdd'. Fe fu ei draed, – na – yr oedd hyd at ei wddf yn amgylchfyd y Gair cyfoes. Ymhellach ymlaen yn y rhediad hwn ceir deg o gerddi o dan y teitl 'Requiem i Feirdd o'r Ugeinfed Ganrif'. A dyma deitl y gyfrol a ddilynodd y casgliad hwnnw: *Ffarwelio â Chanrif.* Ni chafwyd neb o blith beirdd Cymru a gymerodd yr ugeinfed ganrif yn destun ymwybodol ddifrif mor benodol i'w ganu ar yr un raddfa ag Alan Llwyd. O'r tair cerdd ar ddeg gan Meilir Emrys Owen a gynhwyswyd yn y *Casgliad* hwn o gerddi, detholwyd deg i sefyll yn Adran 'Bardd yr Ugeinfed Ganrif'. Yn hyn o beth y mae'r bardd (a'r beirniad) yn drawiadol wahanol i'w gyd-gynganeddwyr. Ond yn rhychwant amlochrog ei olwg ar yr ugeinfed ganrif ac yn nyfnder helaeth ei fyfyrdod amdani, nid oes neb bardd arall yn y ganrif honno a arolygodd ysbryd yr oes gyda'r fath arddeliad ymwybodol. Yr oedd ei reddfau yn efrydu'i amseroedd.

Yr is-deitl i'w lyfr gorau o feirniadaeth 'ymarferol' – *Rhyfel a Gwrthryfel* – yw *Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern.* Myfyrdod yw hwn am ddulliau, problemau, a themâu barddoniaeth yn yr un ganrif. Ymddengys i mi fod gan Alan Llwyd fath o obsesiwn bron ynghylch natur a chymeriad y ganrif y ganwyd ef iddi. Mynnai i'w deimladau fod yn ei chanol hi. Os oes 'dyletswyddau' gan feirdd, dyna un. Mae pawb yn ymwybodol ynghylch rhai gweddau a chymeriad yn yr amgylchfyd cyfan. Bydd rhywrai'n sefyll yn ôl neu ar yr ymylon ac yn sylwi ar batrwm a phwyslais unol o fewn y cyfnod. Ond ychydig sy'n ymdrwytho gyda'r fath ddwyster o fewn profiadau canrif nes archwilio mewn barddoniaeth a rhyddiaith, sefyllfaoedd a chyflyrau, digwyddiadau a chymeriadau dibwys a phwysig gan gyd-deimlo'n gelfyddydol a chyd-fyfyrio â naws yr un oes honno, oes y bu Stalin a Hitler efallai'n ei chynrychioli'n well na neb. Cerddai Alan gyda'i gynganeddion a'i odlau drwy'r llaid a'r llaca i'w dilyn.

Drwy ddelweddau y bydd y bardd yn gweithio at ei gilydd yn ei gerddi. A hyn yw ei her. Y mae'i nerfau'n astudio'r gelyn dynol. Nid areithio na phregethu na rhegi na melltithio yw'r hyn y gelwir arno i'w wneud yn gyntaf, ond delweddu mewn geiriau bobl neu sefyllfa neu weithredoedd a fydd yn adlewyrchu'r profiad gweledigaethus mewn iaith a bod yn rhan lem destunol o'r bywyd. Ac eto, am fod a wnelo ef â geiriau, gogwydda'r cerddi oddi wrth y gwrthrych tuag at y goddrych, a'r darlun tuag at y meddwl. Myn ef y 'gwir'.

Tair delwedd a feddiannodd fryd Alan Llwyd yn bennaf i grynhoi ffieidd-dra'r ugeinfed ganrif, sef y Rhyfeloedd byd, Holocawst yr Iddewon, a Chymru'n ei lladd ei hun. Bu'r rheini ill tair mor eithriadol o erchyll a dirfodol bersonol nes bod darllenydd yn cael cryn dasg i ymgodymu â llawnder trychinebus y cyfwng. Nid llai celfydd ddwys oedd y delweddu ar lefel fwy cyfyngedig a phersonol. Er mai llai o lawer, o ran graddfa oedd, nid llai o ran cywreinrwydd fu'r profiad na'r gwerth esthetig. Ceid hynny yn y cysyniadau delweddol a gyfleid drwy 'Bwth Ffôn wedi'i Fandaleiddio', portread 'Gyrrwr Ambiwlans', a 'Llofruddiaeth'; ac yna dair cerdd yn adran XII 'Bywyd a Marwolaeth': – 'Gŵr Gweddw', 'Hunanladdiad mewn Tŷ Cyfagos', ac 'Y Sgrech'. Cyfrifaf fod y rhain oll yn ddiogel ymhlith y degau o gerddi gorau gan Alan Llwyd, onid yn uwch.

Mae yna 'adrannau' eraill ar ei waith, heblaw'r rhai yr wyf yn eu crybwyll yn awr, sydd yn gyfraniad o'r radd flaenaf i'n llenyddiaeth ac ymhlith y rhai uchaf eu hargraff yng nghyfanswm barddoniaeth Alan Lwyd. Mae'r ddelwedd gyflawn o 'Deulu' hefyd yn orchestol. Mae myfyrdod am lawenydd a phrydferthwch teuluol, hyd yn oed yn yr ugeinfed ganrif a'i helbulon gwaethaf, yn gallu bod yn dreiddgar berthnasol gyfoes ac yn ddwfn arwyddocaol, tan ennill cydbwysedd emosiynol. Felly hefyd, y mae'r ymdroi gyda Llŷn a Phenllyn a bröydd eraill yn ganolog bwysig hefyd, eto o fewn cyd-destun chwalfa'r ganrif. Cafodd cerddi am anifeiliaid gryn le hefyd yng nghynnyrch barddonol cyrhaeddbell y ganrif honno. Eithr ni chafodd neb hwyl ar amgylchfyd gwyllt yn

finiocach nag Alan Llwyd mewn cerddi megis 'Yr Hebog uwch Felindre', 'Meirch Llangyfelach', a 'Merlod mewn Storm'. Y mae'i gerddi crefyddol yn hynod o drawiadol ac yn Gymreig unigolyddol. Yr un mor Gymreig yw'r cerddi teyrnged a marwnadol gorchestol. Ond i mi, difrifwch a dwyster llydan Alan Llwyd yw'r hyn sy'n ei osod ar wahân braidd, yn sicr yn ei gyfnod. 'Gor-ddifrifoldeb' oedd ei air ei hun un tro, a hynny yw'r dinc a brofir yng ngherddi Meilir Owen. Mae yna angerdd dirdynnol ynddynt megis mewn cerddi cyffes. Dyma hefyd ei gerddi o'r gwaelodion.

Sylwer ar 'Bwth Ffôn wedi'i Fandaleiddio'. Yr ydym oll yn gyfarwydd â fandaliaeth mewn mannau cyhoedddus: meinciau, goleuadau, giatiau, hysbysfyrddau, ac yn y blaen. Tybir weithiau mai gwrthryfel yn erbyn awdurdod yw. Ond sylwais o bryd i'w gilydd ar ddifrod o'r fath i eiddo neu gyfarpar cyhoeddus a roddasid yno'n wreiddiol ar gyfer difyrrwch y bobl ifainc eu hunain, wedi'u difetha ganddynt eu hunain. Difrod er mwyn difrod oedd, negyddiaeth heb na diben na chyfeiriad. Hyn a llawer mwy a ddelir gan y bardd yn y gerdd hon: mae'r holl fyd yn defnyddio iaith i gyfathrebu yn y bwth hwn –

*robot ein hanghyfathrebu.*
*Dryllwyd y ffenestri oll*
*nes dallu'r llygadu gwydr,*
*gweithred ysgithrog*
*wedi gadael*
*stympiau o wydr, fel dannedd yn ystumio'u pydredd*
*eu hunain mewn ceg fregus:*
*agennau yn yr ochrau rhwth*
*fel genau a'u cystrawennau yn un strach,*
*fel cegau tawdd, difrawddeg,*
*a ninnau yn safndrwm ein mwmian*
*gan fod rhwng dyn a'i gyd-ddyn bellach gaead-ddor.*

Dyma'i feirniadaeth ar foderniaeth. Yr hyn a geir yma yw angerddoli'r deallol. Ceir llawer o sôn am gampau seiniol Alan Llwyd ac am ei rymuster synhwyrus, fel pe bai'n deimladol gyfyngedig. Ond yn fynych yn ei gywyddau, a'i *vers libre* cynganeddol, yn ogystal ag yn ei englynion hefyd, ymdeimlir â'r min llym ar ddeallusrwydd delwedd. Ym mryd rhywrai, ystyrir bod defnyddio'r deall mewn prydyddiaeth yn wrthun, yn 'academaidd', yn elitaidd, yn gofyn am drwbl. Ond ni fu'r deall yn gyfan gwbl ar goll yn yr Hen Benillion gynt, nac yn sicr mewn Emynyddiaeth na'r hen Gywyddwyr. Dichon fod yr ymgais i ladd ar ddeallolrwydd mewn prydyddiaeth yn wedd ar yr un fandaliaeth yn erbyn cyfathrebu ag a geid yn y bwth hwnnw gynt:

*Lle bu siarad cariadon,*

*lle bu geirio yn cyweirio cweryl,*
*lle bu cartrefu trafod,*
*lle bu gair yn cydio am air ac yn chwalu'r muriau,*
*lle bu lliniaru hiraeth,*
*lle bu cydanadlu'n y nos,*
*lle bu iaith ein holl obeithion*
*yn ein hasio cyn dydd ein hynysu ...*

Tagwyd geiriau, a barddonwyd beirniadaeth.

Nodais mai dwy brif ddelwedd yr ugeinfed ganrif i Alan Llwyd yw'r Rhyfeloedd Byd a'r Holocawst. Gwelir y naill a'r llall, yn arbennig yr ail, ar eu mwyaf effeithiol weithiau'n anuniongyrchol. Droeon, bydd y bardd yn dechrau sôn am ryw berson neu ryw ddigwyddiad cyfoes arall, ac yn ddisyfyd bydd yn ôl gyda'r Holocawst. Ymrithio ger ei fron ar ffurf trosiad ysbrydol a wna, ond yn fwy na hynny megis bwgan sydd yn celu yng nghefn y meddwl o hyd, fel aderyn ysglyfaethus sy'n barod i bowndio. Un foment, y mae'n syllu yn Nhirdeunaw dyweder ar gorff gwylan esgeulus yn hongian ar wifren; ac yn sydyn, y mae'n cael ei gario i Auschwitz. Neu'n hytrach, y mae Auschwitz wedi bod yno drwy'r amser.

Neu, y mae'n llunio portread o Yrrwr Ambiwlans:

*Sgrech las yn gwasgar ei chleisiau*
*dros awyr y nos ddinesig,*
*weiren y seiren yn hollti'r nerfau yn siwrwd,*
*a'r sgrech yn sgrialu*
*ceir a fforddolion, yn chwalu*
*plant ac oedolion, yn malu*
*trafnidiaeth; torf yn oedi,*
*ac yna'n ymgynnull*
*wrth fan y ddamwain, cyn i'r seiren oerfain ei nâd*
*eu sgrialu ar wasgar eilwaith.*

*Gŵyr am bryder a gwewyr eraill*
*heb wybod, heb dosturio dim,*
*gŵyr, ond ni ŵyr drugaredd,*
*ac eto, hwn yw angel trugaredd, yn gyrru, gyrru*
*ag anafusion o dan gynfasau*
*gwelw i dai'r ymgeledd*

*a'u bywydau yn crogi ar bader,*
*ond gŵyr beth yw grym. Grym wrth sgrialu â'i sgrech*
*y cerddetwyr a'r ceir o'i ddeutu.*

*Yr un hen stori nos a dydd:*
*cryndod a phanic ar y ffôn,*
*rhywun ar gwr rhyw heol*
*wedi'i olwyno'n un â'r lôn,*
*ond yn ei swydd y mae'n hen gyfarwydd â gwaed,*
*yn gyfarwydd â'r olygfa oeraf*
*ei harswyd, gweld corff heb y torso,*
*a phen yn y ffos,*
*ond iddo nid yw dioddef*
*eraill yn ddim ond swydd, effeithiolrwydd a thâl.*

*Gall ddeall sut y gwthid Iddewon*
*yn Auschwitz gan swyddogion trahausfalch*
*y Reich i'r poptai brawychus*
*heb arswydo, heb deimlo un dim,*
*sut y bu i'r arch-genedl ddiddymu cenhedlig*
*eilradd â'r fath effeithiolrwydd.*

*Mae'n gynefin â damweiniau ac anafau,*
*heb bang i'w gydwybod, heb angenrheidiau*
*cyffur i liniaru'r nerf*
*ar ôl sgrialu*
*ceir a fforddolion, chwalu*
*plant ac oedolion, malu,*
*malu chwe miliwn.*

Dim ond 'gwneud ei jòb' y mae'r Gyrrwr Ambiwlans. Llithra ymlaen mewn rhigol. Doeth yw bod yn ddideimlad. Ni byddai'n effeithiol ped âi yn ddynol. Nid ef mewn gwirionedd yw'r testun, eithr yr hunllef nad ymedy. Mewn gwirionedd y mae holl bresenoldeb diymollwng yr hunllef honno, ym mhob man yn ffordd fwy cyrhaeddgar o sgrifennu amdani nag y buasai ceisio ei chofnodi'n llythrennol. Sylwer ar fwysair yr 'arch-genedl'. Israel y ganrif.

Dim ond 'gwneud ei jòb' yr oedd yntau, Alan. Ac yn y sefyllfa hon o'r herwydd, ymrithia'r holl ugeinfed ganrif yn symbolaidd yno – y diffyg parch at fywyd, yr amharodrwydd i gyd-ddeall a chyd-deimlo, y caledrwydd ynghylch yr ysbrydol, y diffyg cariad aeddfed rhwng pobl, ac yn anad dim y negyddiaeth grediniol a'r chwalfa ar werth Absoliwt. Aeth yr ugeinfed ganrif yn anghenfil.

Yn hyn oll, nid yw'r Beirniad byth yn ymadael.

Trwythodd Alan ei hun mewn barddoniaeth gyfoes o lawer gwlad. Pan fydd darllenydd arferol yn darllen cerdd, 'darllen yn unig' a wna ambell waith, os yn feirniadol ddigon. Pan fydd Alan Llwyd yn darllen cerdd, ysgrifennu y mae hefyd *gyda'r* awdur, yr un pryd. Calon arbenigrwydd beirniadaeth Alan Llwyd yw ei fod yn darllen cerddi o'r tu mewn. Ni all lai na phwyso pob gwedd ymarferol ynddynt, oherwydd – ei gerddi ef ei hun ydynt. Er darllen cerdd fel beirniad, sgrifenna feirniadaeth fel bardd. Onid dyna swyddogaeth y Brifysgol?

Wrth ei gymharu â'r rhan fwyaf yng Nghymru a fu'n sgrifennu am lenyddiaeth yn yr ugeinfed ganrif, y nodwedd amlwg ar ei waith fu ac yw'r osgo gwerthfawrogol. Nid dianc a wna i hanes ymylog a chefndir, nac i destun a disgrifiad moel o'r cynnwys. Mae bob amser yn gwerthuso'r testun hwnnw gan ddweud pam. A dyna a wna'r hyn a ystyriaf yn feirniad 'ymarferol' hyddysg i'r darn ei hun. Dyna i ni hefyd yw gwaith gwir hanesydd, a'i gof yn fyw. Ond yn achos Alan Llwyd, yr hyn sy'n eithriadol yw ei fod yn mynd ymhellach ac yn ailysgrifennu'r gwrthrych yn ei feddwl ei hun. Mae'n cyd-deimlo ac yn ei uniaethu ei hun â'r bardd gymaint drwy ail-fynd drwy'r un broses â'r bardd o wrthrych. Ef yn ystod y munudau hynny yw'r bardd. Ac yn fy marn i, dyma'i unigrywiaeth. Mae hyn yn *dipyn* o ddawn. Dawn yw a ddibynna ar fedr anghyffredin i gyd-symud â mathau gwahanol o ffurfiau, o arddull ac o syniadaeth ddychmyglon. Dibynna hefyd ar brofiad haelfrydig ymarferol. Sgrifennu hanes, nid i ddianc rhag gwerthuso, ond er mwyn i hanes werthuso'r gerdd.

Culni profiad yw cynhysgaeth cynifer o'n beirdd Cymraeg. Prin yw eu darllen. Prinnach fyth eu profiad o feirniadaeth – sef myfyrdod cyfrifol am ddarllen amryfal. Bodlonant ar dynnu ar linynnau dyrnaid o bwyntiau yn y traddodiad cyfoes, ac mae eu llais a'u dychymyg yn hynny o beth yn dlawd ac yn denau. Dywedodd bardd mwyaf Portiwgal yn y cyfnod modern, Pessoa (bardd a sgrifennai o dan sawl enw), mewn un o'i lythyrau: 'Y mae Ricardo Reis yn sgrifennu yn well nag a wnaf i'. Gallasai un o feirdd Cymru, 'Meilir Emrys Llwyd', fentro dweud rhywbeth cyffelyb, a diolch ei fod wedi bod yn feirniad yr un pryd. Credaf yn y diwedd mai Meilir oedd biau'r beirniad llym (yn rhannol) a dynnodd yr Alan cynnar drwy gywair y ganrif y bu'n byw ynddi ac yr ymwrthododd ag aros ynddi. Cafwyd pymtheg o gerddi gan Alan Llwyd, o dan gochl Meilir Emrys Owen, yn *oeuvre;* ac enw newydd yn yr wybren lenyddol Gymreig o bosib; wyneb golygus, hydeiml, fel yr ymddangosodd yn *Barddas;* un sy'n addo dyfodol anhysbys. Ond byddai'r gwir ddyfodol yn rhyfedd o falch i'w weld.

Gwyn ei fyd y gŵr sy'n gwneud yn well nag y mae'n ei fwriadu. Beth a fwriadodd y bardd hwn yn y cerddi hyn? Wel, yr wyf yn tybied ei fod ef wedi ymadael â'i **bersona** arferol er mwyn traethu'i dristwch beirniadol cymdeithasol, gan ddefnyddio delweddau a sefyllfaoedd o'r byd cyfoes, a hynny gan ymarfer â'r gynhysgaeth anghyffredin o gyfoethog o gelfyddydol a oedd yn eiddo iddo mewn ffordd analogaidd. Ond yr oedd ganddo gwmni. Gwyn ei fyd hefyd y bardd sydd wrthi, yn gweithio ar ei orchwyl arferol bersonol, neu sydd wedi'i gorddi ynghylch rhyw fater arbennig, ac yn gorfod dweud y drefn am hynny (gan ddefnyddio'r grefft a ddysgodd drwy gydol ei brentisiaeth) wrth gerddi eraill o'i eiddo. Mae'n siarad rhyngddo ef ei hun â'i awen arferol. Daw ef gan honno efallai, megis y tro hwn yn sydyn, ar draws rhywbeth mawr. Rhywbeth nas disgwyliodd, rhywbeth anghyffredin sy'n goron ar ei oes o lafurwaith. Bu'r gŵr beirniadol hwnnw, efallai ynghynt, wrthi'n gwneud pethau gwych, ac yn awr ymhellach ymlaen, efallai, fe ddychwel i sgrifennu mewn modd dieithr. Eithr am un cyfnod rhyfedd, fe wnaeth rywbeth na ellid na'i glandro na'i gynllwynio, na'i ddisgwyl. Felly y digwyddodd i Thomas Hardy, yn ei euogrwydd tost a'i edifeirwch dirdynnol mewn cyfres o gerddi, wedi colli'i wraig gyntaf. Felly y digwyddodd i Gerard Manley Hopkins, yn ei unigrwydd arswydus a'i iselder yn Nulyn, ar wahân i bobl ac mewn gwaith a chyflwr a'i hynysodd ef gyda'i awen. Felly Waldo Williams gyda'r Anobeithlu o gerddi yng nghyfnod ei ymwybod mwyaf byw o'r rhyfel oer, ac yntau mewn gwae ynghylch parhad y Brydain imperialaidd yr oedd ef ei hun yn rhan anochel ynddi. Felly hefyd R. W. Parry beirniadol yntau yn y cyd-daro rhwng gwrthodedigaeth J.S.L. a'i wrthodedigaeth bersonol yntau ei hun, 'heb hanfod o'r un cynefin yng nghwr yr un cae' (cyfnod 'Brynfab' gyda llaw, ffugenw a fu'n gysgod i'r bardd hwnnw mewn cyfwng trwm). Felly yn ddiau, Meilir Emrys Owen. Fe gawsant oll gwmni.

Ysgrifennodd y bardd hwn bymtheg o gerddi. Er prinned ei gynnyrch, un o feirdd mwyaf yr ugeinfed ganrif oedd oherwydd y rhain. Cafodd ei eni ym 1984 a bu farw'n ifanc. Fel y dywedai Saunders Lewis, 'Ni allai lai'.

Beirniad cymdeithasol llym ei sylwebaeth fu. Mae pob bardd yn ffigur dychmygol. Daw pob un ger ein bron, dros amser; a chyflawna wasanaeth, ac yna derfydd. Weithiau, y mae'n chwarae rôl arbennig yn ei waith. Nid yw'n berchen ar ei gymeriad 'bob dydd'. Cymeriad ydyw mewn cyfansoddiad chwedlonol. Wrth archwilio a myfyrio uwchben y gwaith cyfansawdd hwnnw, rhan o'r hyn a wnawn fydd myfyrio uwchben ei hunan-gofiant ynddo. Mae pob cerdd gan fardd yn ddogfen mewn hunan-gofiant, hunan-gofiant prydyddol a beirniadol. Chwaraeodd Meilir rôl mwy trawiadol nag arfer yn y pymtheg hyn. Adlewyrchent gyfnod mewn hanes a phrofiad dwys mewn buchedd. Yn y sylwadau hyn, ni fûm ond yn ceisio archwilio'r cerddi eu hunain. Fe allaswn ddamcaniaethu ac ymdroi ynghylch materion eraill Meilir – ei amgylchfyd achlysurol, hanesion, dadansoddiad personol 'clecs'; ond y mae gennym ddogfen wrthrychol ddieithr ger ein bron. I mi, yr

hyn sy'n arhosol yw beth sydd ar gerdded yn brydyddol yn y ddogfen hon. Ni ddisgwyliai Alan hi. I raddau, crewyd **persona** Meilir gan natur fewnblyg, genfigennus, drefedigaethol y gymdeithas Gymreig; eto erys yn 'fod' beirniadol y tu mewn i gerddi mwyach. Gwn fod ganddo berthnasau neu deulu go agos. Ond y mae ef ei hun yn ffenomen unigryw, sy'n bodoli i ddiben prydyddol arbennig. Cyflyrir ei naws a'i arddull a'i gelfyddyd yn y diben hwnnw. O'i gymharu â beirdd cynganeddol eraill o'i genhedlaeth, – dyweder â rhywun fel Alan Llwyd er enghraifft – ymddengys yn fwy dinesig ac yn llai rhamantus ei gywair. Y rheswm am hynny yw iddo yntau gael ei wneud yn Feirniad o Fardd. Ef yn y bôn efallai oedd y 'gwir' Lwyd.

Moderneiddio gwreiddiau hwnnw oedd gogwydd Meilir fel bardd ac fel beirniad, ac yn wir fel iaith iach. Gan ddechrau gydag ysgogiad Hedd Wyn, a heb ei ollwng, symudodd ei fagwraeth ymlaen drwy'r Ddau Ryfel Byd a holl chwalfa Ôl-foderniaeth hyd yr Oes bresennol. Plymiodd drwyddynt fel bardd o feirniad. Derbyniai: gwrthodai. Mewn rhai cyfeiriadau yr oedd Cerdd Dafod wedi'i annog tuag at rai o briodoleddau Moderniaeth: megis wrth ddelwedd-lunio'r englyn (fel yr haicyw), 'Des Imagistes' (1914); crynoder mydr y llinell yn ddeuol neu'n driol yn yr uwch-corfan, rhythmau llawer mwy ystwyth na'r 'Canu Rhydd' rheolaidd. Ac eto, rhyddid llawn mewn testun a gâi, a pherthnasoldeb cyfoes y pwnc, a hynny'n esgyn ar ieithwedd fwy cyfoes naturiol nag o'r blaen. Ymddiofrydai ym mhob sobrwydd i ddiarddel o'i waith osod ansoddeiriau o flaen enwau mewn modd mawreddog annaturiol. Caniatâi i'w wreiddiau ei glymu mewn dyfnder o brofiad prydyddol heb adael iddynt gael eu tagu gan fyd. Ai'r beirniad a fu wrthi yn bennaf yn ei waith y pryd hynny ynteu'r bardd? Cariodd Botwnnog ar drot i Fangor i Efrog Newydd, i Warsaw, i Baris. Cwmpasai ffyniant Rhamantaidd a dadansoddrwydd rhesymol yr Oes Gyfrifiadurol. Yr oedd ganddo hawl yn ei draddodiad i roi rhwnc cyfwng angau'r *avant-garde* yn eu lle, a hawl yn ei gyfoesedd i gydio yn ffrwythlondeb Dafydd ap Gwilym a'r lleill. Beth oedd y traddodiad iddo? – Cyfoeth ei orffennol byw mawr a'i amgylchfyd egnïol presennol yn ymddwyn fel beirniad yn ei wythiennau. Ond bob amser, beth bynnag ei 'ddisgrifiad gwaith', bardd oedd. A cherddai drwy'r byd yn barddoni â'i lygad beirniadol.

## XIII LLEOLIAD EI FEIRNIADAETH O FEWN 'CYFUNDREFN BEIRNIADAETH'

Mae'r arolwg hwn o feirniadaeth Alan Llwyd yn dangos bod ei feddwl beirniadol yn symud ar hyd a lled mathau gwahanol o brofiadau ffurfiol. Bu'n rhaid iddo o'r herwydd ddatblygu adeileddeg bur wahanol, fwy amlochrog a chydberthynol nag sy'n arfer i unigolion yng Nghymru. Wrth lunio clo i'r ymdriniaeth hon, yr wyf yn awyddus i sôn am y strwythur yn ei fyfyrdod llenyddol, gan obeithio y bydd hyn yn amlinellu natur fframwaith beirniadaeth yn fwy cyffredinol.

Teulu yw Beirniadaeth Lenyddol sy'n cynnwys llawer o berthnasau, rhai o'r golwg yn y groth, rhai y tu allan; ambell un yn cael ei erthylu'n wyllt. Gellid dosbarthu'r mathau gwahanol o feirniadaethau fel y gellid dosbarthu'r mathau o anifeiliaid neu blanhigion. Mae gan bob un briodoleddau a phatrymau tyfiannol gwahanol. Amrywiant yn ôl yr ecoleg a'r etifeddiaeth. Meddant ar liwiau a meintiau gwahanol. Ond at ei gilydd, mae yna undod o ddeddfau sylfaenol ac undod yn y moddau patrymog y maent yn eu gweithredu neu'n ffynnu ynddynt.

Mae'r arolwg cryno hwn o waith beirniadol Alan Llwyd yn cwpla'r arolwg bras a chynrychioliadol hwn o 'Feirniadaeth Lenyddol Tair Canrif yng Nghymru'. Byddai dewis ehangach a mwy niferus o feirniaid wedi trwchuso'r panorama efallai, ac wedi ychwanegu llawer o enwau eraill at gynnwys yr amlinelliad, ond ni byddai wedi newid fawr ar gynllun agweddol sylfaenol yr astudiaeth fechan hon. Nid hel enwau llyfrau a llenorion oedd fy mhwrpas, eithr eu canfod yng ngoleuni gwyddor gelfyddydol. Gadewch i ni fwrw golwg yn ôl er mwyn gweld ble y cyraeddasom. Yr wyf nawr am ail-ymweld â dechrau'r ymdriniaeth hon ar Alan, ac ailddatgan fy nod o'r cychwyn: dangos pam yr ystyriaf fod y bardd hwn yn ei feirniadaeth lenyddol yn ein cyflwyno i amlochredd y maes hwnnw yn lletach na neb arall yng Nghymru, ac eto'n unol mewn traddodiad a chanon.

Y rheswm yw ei *amlochredd llenddulliol,* ei amlder o ffyrdd o weithredu beirniadaeth, a'i allu yn y maes. 'Gwyddor' ddilys yw Beirniadaeth Lenyddol. 'Celfyddyd' yw hi yn ogystal. Ei swyddogaeth yw dweud beth, sut, a pham y ceir llenyddiaeth, ac yna ei gwerthuso. Gall feithrin mwynhad: gall beidio. Nid asiantaeth hysbysrwydd mohoni. Mwy priodol wrth ddisgrifio beirniadaeth yw disgrifio'i Pharamedrau. Medd Alan: 'Rydw i'n mynd at gerddi gyda thesis “Sut mae hon yn gweithio? Beth sydd yn y gerdd yma?” ' Rhan o ryfeddod beirniadaeth Alan yw amlder y 'sutiau' a'r 'bethau' y mae wedi'u gweithredu. Yn yr Adran hon yn awr ceisir ail-olrhain y rhannau angenrheidiol sydd o fewn cyfanrwydd Beirniadaeth. Ac yna enghreifftir yn ddiriaethol, wrth gyfeirio at Feirniadaeth Lenyddol Alan Llwyd, gan egluro map o leoedd meddyliol ac o fewn pa baramedrau y mae amrywiaeth ei waith ef yn cael ei leoli. Wrth fapio beirniadaeth fel pwnc academaidd, ceisiwn gadw mewn golwg ymwybod o'r angen i barchu bywyd oll. Honnais mai 'Mynegiant' a 'Chymhelliad' yw'r ddau o'r tri maes *Tafod/ Cymhelliad/ Mynegiant* a gymerodd Alan

yn flaenaf. Nid yw hynny'n golygu nad oes dim – yn wir, ceir llawer – o ddiddordeb i'r sawl sy'n ymchwilio am *Dafod* strwythurol yn unig. Ond ar ei *Fynegiant* ei hun yr oedd pwyslais Alan, hyd yn oed wrth drafod Cerdd Dafod. Cynhorthwy hefyd oedd Beirniadaeth pan efrydai Alan yr Oesoedd Canol hyd yn oed, yn ysgogol i'w waith ymarferol presennol ef ei hun. Roedd yn ddarllen unplyg greadigol. Felly, rhôi Fynegiant ymhobman yn flaenaf mewn proses gyflawn o 'ddarllen/sgrifennu' yn ei waith cyfansawdd, fel y mae *teach/learn* yn un broses mewn 'dysgu'.

Wrth geisio nawr, yn ddigon haerllug, 'leoli' siâp llafur anferth Alan o fewn yr amlinelliad bras hwn o adeiladwaith cyflawn Beirniadaeth ei hun, fel y'i gwelaf i hi, gwell yn gyntaf yn ddiau nodi'r paramedrau sydd gennyf innau mewn golwg. O ble y daeth y paramedrau hyn neu fel y dywedai Jerry Hunter: 'Sut mae ef yn gallu gweld y goedwig gyfan? Beth yw'r hofrennydd beirniadol sy'n ei alluogi i godi uwchlaw'r ddaear ddamcaniaethol y mae beirniadaethau eraill wedi eu cyfyngu iddi?' Cwestiynau cwbl allweddol a theg i bob Theori, yn arbennig un gyfansawdd.

Atebwyd hyn yn syml eisoes yn *Tafod y Llenor, Seiliau Beirniadaeth,* a *Beirniadaeth Gyfansawdd*, gan ddyfynnu Newton ac Einstein. Nid hofrennydd personol sydd gennyf, ond un sy'n agored i'r cyhoedd oll: dewch i mewn. Nid yw'n ddim llai na'r Method Gwyddonol cydnabyddedig a phrofedig cyffredin ers canrifoedd. Mae sylwebu'r Mynegiant yn gyhoeddus i bawb i'w weld. Y ffeithiau empiraidd sydd yno. A chanfyddir y drefn drwy anwytho a diddwytho, sydd eto'n dechnegau gan bawb. Sylwer, os nad oes eithriadau, fod yna drefn gymen, ac na all neb ei hosgoi. A defnyddir yr offeryn gorfodol bythol-bresennol hwnnw ym mhob deall, sef gwahanu ac uno (gwahuno) i ddadansoddi ac i gyffredinoli; ac o'r fan yna olrheinir o lefel i lefel y mathau gwahanol o uno sy'n dilyn. Hynny yw, undod yw'r canlyniad anochel, os chwilir yn onest. Dyna'r ymchwil.

Rhaid i theori beirniadaeth gyfansawdd, er ei bod yn gyfyng, hefyd fod yn ddigon eang i fod yn gynhwysfawr. Nid mewn *un* cornel y cafwyd beirniadaeth Alan Llwyd: mae'r paramedrau yn arwain i gorneli annisgwyl o fewn y map cyflawn. Dywedwn fod gan 'hunangofiant', hyd yn oed, ei le anrhydeddus a pharchus o fewn bwriadwaith Tafod. Mae'n dadlennu cefndir o ddiddordebau. Mae'r farddoniaeth hefyd sy'n ymamlygu mewn Mynegiant, wedi'i hamodi gan feirniadaeth thematig. O fewn myfyrdod strwythurol ar y llaw arall y mae Mynegiant mewn bywyd ymarferol yn cael y rhyddid i lunio arferion, ac yn wir i'w gyfundrefnu'i hun, neu beidio; ond ceisio ffurfio cyfundrefnau deinamig o fewn gofod ac amser a wna, o fewn ffurf a deunydd. Tafod (fel hunan-gofiant) yw'r gynhysgaeth y tu ôl i'r canlyniadau oll. Patrymau cyfun yw'r cwbl.

Os wyf yn beirniadu rhai safbwyntiau, ac fel yn achos ôl-foderniaeth yn eu beirniadu'n hallt, digwydd hyn am resymau ieithyddol, megis *rheidrwydd* Gwahuno: Un/Llawer, Absenoldeb/Presenoldeb, Gweledig/Anweledig, ac yn y blaen. Nid anghytuno yn unig o ran barn yw anghytuno â'r anhrefnwyr fel hyn, ond anghytuno'n wyddonol â'r geidwadaeth sy'n eu cwmpasu.

Y negyddol a wrthodir. Croesawodd Alan Llwyd ei draddodiad llawn drwy Ddrws Soseieti Cerdd Dafod. Er nad yw Alan yn ymddiddori'n fwriadus mewn Tafod, gan ei fod yn unplyg yn ymroi'n ymwybodol i Fynegiant, eto, i raddau helaeth yr hyn a wnaeth yntau hefyd oedd ceisio adeiladu Beirniadaeth Lenyddol Gymraeg gynhwysfawr drwy ragdybiau Cerdd Dafod a chyffredinoli safonau a nod yr etifeddiaeth hanesyddol. Bu Cerdd Dafod yn ddisgyblaeth feddyliol ac yn ganllaw iddo erioed. Lluniodd hi gymeriad i'w feirniadaeth i raddau. Ond mewn Mynegiant y ceir ei ymdrech i briodi Cyfoesedd a'i Gynghanedd; a chyflyrai hyn bopeth a wnâi.

* * *

Proses o ymagor fu Beirniadaeth Gymraeg. Bûm yn sôn am ymgais Saunders Lewis i ddatblygu cyfoesedd cyfansawdd i Feirniadaeth Lenyddol Gymraeg drwy gyplysu Gramadegau'r Penceirddiaid â phenderfyniad yr Oesoedd Canol i lunio athroniaeth gymdeithasol, heddiw. Dyma a gaed gynt yn ei gyfnod ei hun gan Simwnt Fychan yntau drwy glymu iaith, llên, a diwinyddiaeth yn ei gilydd. Rhwng Simwnt a J. Morris-Jones, y beirniad Cymraeg pwysicaf a gafwyd (ei hoffi neu beidio) fu Iolo Morganwg. Ac unwaith eto, ceisiai ef drwy Gymreictod sefydlu cyfundrefnwaith beirniadol mewn dull dadansoddol rhamantaidd. Cymreictod clasurol a ddisgyblai feirniadaeth Syr John er gwaethaf ei ramantiaeth farddonol seciwlaraidd. Dyma gefndir beirniadol unigryw y meddwl llenyddol Cymraeg y sicrhawyd ei barhad o dan ei anian ef.

Bu amlochredd llenddulliol Alan yn wahanol i waith y ddau, J. Morris-Jones a Saunders, wrth gwrs. Ond caed tebygrwydd ganddynt ill tri yn eu parch at Ffurf Diwylliant. Yn y ffurf dyfiannol ar ein diwylliant Cymraeg, a hwnnw dan fygythiad cynyddol, y dôi'r tri, – Alan yntau a'r ddau arall, – o hyd i un wedd ar eu hunigrywiaeth feirniadol fodern. Cenedlaetholwyr amlwg o feirniaid oeddent. A mynnent fod yn gadarnhaol drwy fynd at bwll y pwnc yng ngherddi'r uchelwyr.

Ar y llaw arall, gyda Hugh Bevan, John Gwilym Jones ac Alun Llywelyn-Williams, ymadawyd â phrosiect Saunders, er mwyn iddynt sicrhau lle i'w beirniadaeth 'ymarferol' hwy, ochr yn ochr â beirniadaeth ffasiynol Lloegr ac America (ac i raddau Ffrainc – *Explication des Textes*). Ac wrth gwrs gyda'r beirniaid Cymraeg a'u dilynodd, a'u hymwybod cynyddol ag ôl-foderniaeth, cododd rhywrai i ymateb i hynny, fel Simon Brooks, Angharad Price, Tudur Hallam, Eleri Hedd James, ac eraill wrth gyfoesi ymhellach, ac felly ym mryd rhai ceidwadwyr, bu rhaid eu cyfrif yn 'anodd i'w deall'. Hyd at Ôl-foderniaeth, ymledai beirniadaeth Gymraeg yn gynyddol.

Gan fy mod yn awyddus yn awr i 'ddosbarthu' Beirniadaeth Lenyddol Alan ac i ddangos ymhle, sef ym mha arweddau, ac yn ôl pa gydlyniant, y mae wedi crynhoi asgwrn cefn ei Feirniadaeth Fynegiant, y mae'n amlwg fod rhaid i mi er mwyn cwmpasu'r undod amlinellu Paramedrau Tafod – sef y cyflyrwr, y cynt, sy'n amodwr iddo. Ond anelu yr wyf yn awr nid at Dafod ieithyddol, mewn ystyr gul. Ni wnaf ond ei ddefnyddio'n drosiadol. Tafod (a theori er ei

waethaf) sy'n diffinio trefn feddyliol Mynegiant Alan, fel pawb arall. Gogwyddai Alan, o ran gweledigaeth ac anian, at luosrwydd llenddull. Ond ceir yn ei ganlyniadau mewn Mynegiant fod yna ymdrefnu'n grwpiau sylfaenol, a chan bob un o'r grwpiau hyn ei leoliad o fewn Cyfundrefn o gyfundrefnau sy'n cyd-adeiladu'i Feirniadaeth Lenyddol. Pwysleisiaf rai patrymau.

* * *

O fewn *Tafod,* felly ffurfia'r canlynol ei Gyfundrefnau mathol mewn Beirniadaeth:

1. **Tafod /Cymhelliad/Mynegiant.**

   Lle bynnag y bo Theori, hyd yn oed Theori Mynegiant, mae yna, i ryw raddau, berthynas glwm rhwng yr 'enghreifftiau' (Mynegiant) a'r egwyddorion ymguddiol (Tafod). Felly y bu hi yn achos Alan. Ceir cyfeiriadau go bendant at Theori yn *Y Grefft o Greu* (1997) a *Rhyfel a Gwrthryfel* (2003). Lle bynnag y bo'r Gynghanedd nid yw Cerdd Dafod yn bell, ac wrthi'n darparu egwyddorion treiddgar: *Anghenion y Gynghanedd* (2007) a *Crefft y Gynghanedd* (2010). Dyna'r grwpiau disgybledig mwyaf perthnasol o fewn Theori Alan (Tafod). O ran Cymhelliad, sut bynnag, gan fod Alan yn fyw iawn i'w nod a'i ysgogiad, fe'u ceir yn adlewyrchu'i ddelweddiad yn amlwg yn y cyfrolau Thematig megis Blodeugerddi'r Ddau Rhyfel Byd a'r cyfrolau megis Barddoniaeth y Chwedegau. Mewn mannau felly, lle y mae'n trafod yn bur helaeth gymhelliad cenedligrwydd a chymdeithas, a hefyd yn *Trin Cerddi* (1978) lle y cyfeiria at gymhellion crefyddol hefyd, teg yw honni, ochr yn ochr â Theori Thematig fod Cymhelliad yn rym diymatal y tu ôl i'r cwbl o'i Feirniadaeth.

2. **Ffurf/Cynnwys**

   Mae'r ddau begwn cyfarwydd hyn, wrth gwrs, yn hysbys ymwybodol i feirniaid ers canrifoedd, gyda lleiafrif eithaf dygn sy'n ceisio'u gwadu. Mae'r pegynau ar waith lle bynnag y ceir iaith. Ac y maent yn amlwg mewn llenyddiaeth, fel mewn iaith. Annatod ydynt. Eto, fe ellir yn gysyniadol eu trafod ar wahân fel ffenomenau, a chan y naill a'r llall ei briodoleddau'i hun. O'r herwydd felly, y mae Alan yn eu trafod yn grefftwrol yn fynych, yn ogystal â nodi'u cyswllt cydlynol. Sonia er enghraifft wrth ddadansoddi cywydd Dafydd 'Cystudd Cariad' am ddwy ran: 'y mae **symudiad** y naill ran yn rhugl ac yn hoyw **heb** ryw lawer o **sangiadau**, hyn yn cyfleu nwyf a **bywiogrwydd ei ieuenctid**, ond y mae'r ail ran yn fwy herciog a phetrusgar ei symudiad a'r arddull yn **fwy sangiadol**, hyn yn cyfleu'r **heneiddio a'r arafu** ar hoywder y corff'. Yn *Y Grefft o Greu* (1997) a *Crefft y Gynghanedd* (2010), arddengys berthynas annatod o fath Ffurf a Chynnwys dro ar ôl tro.

3. **Gofod/Amser**

Mae a wnelo'r ymwybod o Ofod â thri dimensiwn rhagenwol ofodol – mewn llenddull, thema, a motiff. Ac y mae'r profiad o ddosbarthu'r dimensiynau hyn yn y meddwl yn dechrau gyda hunaniaeth. Ceisiais o'r blaen (TyLl 159-183; SB 471-509; BG 21, 68, 76, 78, 84) gysylltu'r rhain â'r dosbarthiad rhyngwladol o lenfath (*genre*):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fi | Ti | Ef, Hi (arbennig) | Trydydd Person Cyffredinol e.e. *Dysgir.* |
| Telyneg | Drama | Naratif/Storïol | Trafodaeth |

Nid oes beirniad Cymraeg a weithiodd o'r tu mewn i'r tri (yn farddol greadigol ac yn feirniadol) yn fwy nag Alan. Dadleuwn fod yna safbwynt delweddol ar fywyd, y tu ôl iddo, sy'n amrywio'n ddwfn gyffredinol yn y prif ddulliau meddyliol o edrych ar fywyd. Yn gyntaf, oddi ar y person cyntaf sef y llenor (neu ei fwgwd) yn deimladol weithiau. Fe'i ceir nid yn unig yn y person cyntaf *fi* mewn telyneg yng ngŵydd natur neu gariadferch neu uchelwr, ond mewn ysgrif bersonol neu hunan-gofiant ac yn y blaen. Fe geir y safbwyntio yn ail gan yr un y siaredir ag ef/hi, sef y *ti* (*chwi*). Mae hwnnw'n ateb y *fi* neu'r prif gymeriad mewn drama, ymryson, neu ddialog. Ac yna'n drydydd (*ef, hi*), yr un y siaredir amdano fel pe bai'n absennol i'r ymrwymiad rhwng *fi* a *thi,* fel sy'n arferol yn fynychach na pheidio mewn stori. Gellir hefyd geisio bellhau rhag y personol, mewn traethawd neu erthygl neu drafodaeth; a dyna'r estyniad yn y trydydd person cyffredinol. Fframwaith gofodol yw sy'n cyfuno'r ail berson a'r trydydd wrth gyfeirio at wrthrych sy'n cyfrif am y bai 'gŵydd ac absen'. Sonia Sims-Williams am y ffigur yng nghywydd Guto'r Glyn i Hywel o Foelyrch:

*Y gŵr ar war y garreg*
*A ran y da â'r wên deg.*
*Hywel wyd yn Nhâl y Lan,*
*Hiroedl yn hau arian.*
*(SB 497-499, 507-509; Tafod y Llenor 177-179)*

Soniais hefyd am amrywio technegol o'r fath ar lefel Mynegiant rhwng Stori a ddefnyddia berson cyntaf; eto, ar dro Stori yn yr ail berson; ond fel arfer, Stori yn y trydydd person. Soniais hefyd am ogwydd cyson dirfodol Alan i'w uniaethu'i hun â'i gymeriadau, Hedd Wyn, Goronwy Owen, Kate, ac R.W.Parry (Sylwai'r Athro Derec Llwyd Morgan ar yr uniaethu hwn yn ei adolygiad ar gofiant 'Kate' yn *Golwg.*) Ymwybod Alan â hunaniaeth a'i tanlinella. Mae pob unigolyn yn cynnwys y tri pherson rhagenwol ynddo'i hun. O fewn y gyfundrefn hon, gellir nodi bod Alan yn ei drafod ei hun a'i waith ei hun fel person cyntaf nid yn unig megis 'Beichiau'r Bardd – holi Alan Llwyd', *Golwg* 13 Rhag. 1990, ond yn y ddau gyfweliad yn *Alan,* ac mewn sawl cyfweliad arall; ac wrth gwrs yn ei hunan-gofiant. Bydd yn mynd ar

hyd ac ar led wrth ymdroi yn ei empathi manwl â'i wrthrychau. [Soniais am ei fyfyrdod ynghylch hunan-laddiad wrth gyfeirio at amryfal feirdd: cofier yn y cyd-destun hwnnw 'Hunanladdiad Mewn Tŷ Cyfagos', cerdd sydd yng ngrŵp pwysig Meilir Emrys Owen]. Dyna duedd ddisgwyliedig mewn beirniad ymrwymedig. Ond daw'r *ti* yn y gwrth-olwg neu'r cyfarwyneb i'r fei hefyd pan fydd ef ei hun yn cyfweld pobl eraill; a chymerodd lwybr y llenddull hwnnw gyda llu o bobl megis R.Gerallt Jones, Bryan Martin Davies, Gerallt Lloyd Owen, Einion Evans, John Roderick Rees, Gwynn ap Gwilym, William Owen Roberts, Gwyn Thomas, Donald Evans. T. Glynne Davies, Aled Rhys Wiliam, Gwyneth Lewis, Eluned Phillips, Einir Jones, ac eraill. Dyma wedd arall ar ei feirniadaeth. Ac y mae ganddo gofiant ar ffurf ddramatig ac ar ffurf trydydd person (a ffilm yn ôl patrwm cofiant) sef Hedd Wyn, yn ogystal â rhaglenni dogfen dramatig. Ac yna yn y trydydd person (*ef, hi*) a'r person cyffredinol (ymdriniaeth, neu hyd yn oed theori) ceir llu o drafodaethau, rhai yn ymdrin ag egwyddorion cyffredinol megis yn rhan gyntaf *Y Grefft o Greu.* Beirniad dramatig yw. Dyma un wedd braidd yn ramadegol ar fframwaith meddyliol y llenor. Strwythur gofodol yw.

Wrth i feirniaid ystyried beth oedd strwythurau'r meddwl, heblaw rhai gofodol ar gyfer ffurfio adeiladwaith llenyddiaeth, buwyd (ers amser Aristotlys o leiaf) yn barod i gydnabod bod gan 'Amser' hefyd, a natur ei ddelwedd, lais ac arweiniad yn y casgliadau adeileddol rhyfedd hyn.

Nodai Aristolys arwyddocâd y dechrau, y canol, a'r diwedd mewn llenyddwaith. Mae hyn hefyd yn gyffredinol yn ein delwedd o fywyd. Gorwedda Amser yn gudd bresennol beunydd yn isymwybod pawb. Mae'n ymwthiol mewn trefn feirniadol. Ceisiais nodi yn TyLl, SB, a BG fod amser yn cael ei ddelweddu ym meddwl dyn fel llinell un dimensiwn sy'n symudol. Os yw'r triawd personol yn safbwyntiol mewn gofod, y mae pob llenyddiaeth yn ymestyn yn gynlluniol mewn amser. Gellir dychmygu gosod gorsafoedd mewn safleoedd canfodiad ar hyd yr echel yma sy'n ymddangos fel petai'n symud ymlaen o'r gorffennol i'r dyfodol ar hyd un ffordd. Mae echel o'r fath yn sylfaen i ddatblygiad llenyddwaith. Ond gellir synied amdano hefyd fel pe bai'n symud tuag yn ôl, yn dod atom o'r dyfodol ac yn diflannu y tu ôl i'n cefn, byth i'w weld mwy. Rhoddodd nifer o feirniaid yn ddiweddar sylw arbennig i natur 'diweddbwynt' mewn llenyddiaeth. Felly y myn Alan gwlwm: nid yn unig wrth adrodd hanes pobl, eithr hefyd hanes ffurfiau. Un o rannau mwyaf dadlennol *Anghenion y Gynghanedd* (2007) fu'r dadansoddiad o fesurau: eu hyd a.y.b.. Byddir yn synied hefyd yn fynych yng ngwaith Alan, am Draddodiad a'i siâp yn ogystal ag am Gynllun llenyddwaith megis Telyneg, Drama, Stori neu Erthygl yn nhermau olyniaeth ddosbarthedig neu ddadansoddedig, gydag Enwau (neu bobl) yn cael eu gosod ar hyd y llinell; a Berfau'n symud o fewn amgylchfyd sy'n ei lleddfu o ran modd a natur yn Adferfol. Ufuddha'r cwbl i drefn amser.

Mae amser yn ogystal â gofod yn cael lle yn y dasg o ddosbarthu llenddulliau. Lle y bo gofod, fel y gwelsom, fe ddatblygai cyfundrefnau *math* (megis telyneg, drama, stori, erthygl): lle y mae amser, esgorir o ran cyfeiriad deinamig a *modd* ar esgyn/disgyn, ymlaen/yn ôl, (mawl/dychan; comedi/trasiedi; traddodiad a nod). Eto, o safbwynt bwrw golwg dros y materion *amseryddol* blaenllaw ym meirniadaeth Alan Llwyd, hanes llenyddiaeth a thraddodiad yw dau o'r materion creadigol na edy ef lonydd iddynt (SB). Ac wrth gwrs, ar hyd echel traddodiad y gwêl ef gryfder: rhwystrau ac ailadrodd, parhad a darfod, gwahanu ac uno, cyfnewid a sefydlogi. Mae Alan yn cyfrif mai offeryn esboniadol iddo ef yw'r traddodiad, ffenomen gywrain sy'n ymestyn yn bentyrrol o hyd, ond nad oes modd i'w osgoi. Dyma ffyrdd amrywiol o ganfod bywyd drwy lenfathau a llenfoddau.

Fe'i rhydd ei hun yn gyflwyniadol felly o fewn fframwaith cadarn amser a lle. A phanorama, o echel amser, sy'n pwyso ar ei ymwybod – mewn canrif, mewn marwnadau, mewn mydrau, ac o fewn cynllun llenweithiau. Mae ganddo feddwl adeileddol. Yn hyn o beth, y mae wrth gwrs yn debyg i bob un ohonom ni; ond y mae ef ei hun yn fwy effro i'r siâp, a'i bwyslais yn fwy gafaelgar. Cydnebydd rai elfennau yn ganolog ac yn ddiffiniol drwy lenddulliau ac arferion Mynegiant.

Dyma'r modd y mae'r meddwl yn trafod cyfuniad neu gyfansoddiad iaith yn ffrwythlon o ran deunydd a ffurf. Gallai godi bwganod i rai hefyd. Diddorol iawn sylwi ar ymateb Alan Llwyd i'r gefeilliaid dylanwadol, Traddodiadaeth (nid Traddodiad) a Sefydliadaeth (nid Sefydliad): cyfrifa ef y ddwy ohonynt yn efeilliaid drygionus. Saif yn bell ar wahân iddynt ill dwy o ran ymwybod yn ei waith barddonol. Ond yn ei waith beirniadol myn eu cynnwys yn ei arolwg unol dro ar ôl tro. Soniais eisoes am ei barodrwydd beirniadol i fod yn gatholig ei werthfawrogiad (e.e. *Barddas,* Rhifau 147-148): '*Dim o'r ots pa mor arbrofol yw bardd, pa mor draddodiadol, pa mor newyddiadurol-gyfoes neu 'arhosol-foesol' yw ei gerddi, safon ei waith sy'n cyfri yn y pen draw, a dim byd arall.'* Mae hyn i mi yn egwyddor ddifrif. Mae'n darostwng pob dim – newid, cadw, ffurf, deunydd, pob dim – i Safon fel criterion undod. I'r Ôl-fodernydd, peth i'w chwalu neu i'w danseilio'n hwyliog braf yw traddodiad heb na safon na gwerthoedd i'w gweld yn un man. I Alan, cymhelliad a gwerth yw'r fframwaith neilltuedig sy'n cyfrif: dyma'i ffon fesur. Cyfaill yw i draddodiad, a gwrthwynebydd i draddodiadaeth. Tardd mewn Absoliwt strwythurol, a Phwrpas. Safon sy'n cyflyru Amser. Treiddir cyfuniadau ffurfiol gan Werth.

Beth yw'r 'Sefydliadaeth' felly? Peth a adeiledir yw er mwyn grym. Heddiw, ysywaeth – ffasiwn beirdd yn perfformio; neu sgrifennu 'croes-graen' yw'r fformiwla i ddynwaredwyr ystrydebol lled ôl-fodernaidd; ymfilwrio yn erbyn unrhyw draddodiad Cymraeg sy'n gofyn ychydig o feddwl; sgrifennu canu rhydd a beirniadaeth lenyddol Saesneg yn Gymraeg; llacrwydd moesol fel difyrrwch; ac anghrediniaeth ymarferol, gyda'r Ego Trosgynnol yn llywio pob un dim. Chwiwiau, a symudiadau meddyliol a theimladol ysgafn. Erbyn hyn, mae gennym yng Nghymru nid yn unig

unigolion, ond bwrdd neu gyngor neu senedd sy'n 'Sefydliadaeth' bwerus ac i raddau yn 'sensorio' polisi neu'n monopoleiddio cyfeiriad meddyliol llenyddiaeth ar bapur. Rheolir y llenyddiaeth honno heb fyfyrdod catholig gwâr. Yfory, bid siŵr, chwelir hyn o wrogaeth gan wefannau rhydd. Pan soniwn am y Traddodiad, rhaid i ni felly wahaniaethu rhyngddo a Thraddodiadaeth. Peth isymwybodol yw Traddodiad. Ffurf lenyddol fawr yw mewn amser. Hyn sy'n darparu'r dyfodol. Mae yno: hynny yw, mae'n bod oherwydd iddo gael ei draddodi. Gellir gwrthryfela'n erbyn ei fodolaeth. Mae hynny ynddo'i hun yn beth traddodiadol ac yn cyfoethogi'r traddodiad. Gellir cogio nad yw yno. Ond y peth na ellir dianc rhagddo, os sgrifennir yn Gymraeg, yw strwythur a chyfundrefneg yr iaith mewn amser – ein traddodiad perygledig pennaf. Yn wir, ceir traddodiadau syniadol a chymdeithasol nid annhebyg. Oherwydd na allwn symud Lloegr o'i safle daearyddol anghyfleus, mae gennym fath o berthynas gas-gariadus sefydlog â hi yn ein traddodiad. Ni ddylid cywilyddio ynglŷn â hynny, oni chywilyddiwn amdanom ni ein hun. Nid yw Alan yn osgoi cysylltiad Cymru a Lloegr bid siŵr: mae'n rhan dreiddgar o adeiladwaith ei feddwl ac o draddodiad ein llên. Ac y mae a wnelo hynny â strwythur perthynas y ddwy lenyddiaeth.

A chyfoesedd. Beth a wneir â'r bondigrybwyll 'herfeiddiol' a'r 'beiddgar' cyfoes yn ôl y golwg poblogaidd? Tipyn o ddylyfu-gên newyddiadurol yw hynny hefyd yng Nghymru, mae arnaf ofn: y sioc ddisgwyliedig, y rhyddfrydiaeth ddof ddynwaredol, y radicaliaeth gysglyd fenthyg. Mae yna her yn nyfnder llên, cyfaddefaf, a beiddgarwch myfyrdod; ond nid yw'n sefyll – ar ei gorau – ar gledrau'r hen 'wrthryfela confensiynol'. O fewn y fframwaith negyddol hwnnw, y mae Alan yn anadlu, fel pawb o fewn llygredd ein dinas. Mae'n rhan werthusol hefyd o ddiffiniad ei genedl sy'n mabwysiadu sbwriel yn ddiwylliant.

## 4. Nod mewn Cymhelliad

Lle bynnag y bo bywyd, boed yn gell fyw, yn gyfundrefn ieithyddol, neu mewn Mynegiant ar ffurf gweithredoedd ymarferol, fe geir, y tu ôl, amodau megis gofod ac amser. Fe geir hefyd Dafod/Mynegiant, Deunydd/Ffurf a math o ddeinameg faterol neu syniadol sy'n cysylltu'r rhannau'n gyfan cenhedlol. Cymhelliad neu Nod yw'r term a ddefnyddir ar gyfer hyn mewn iaith a llên. Mae'r Nod yn angenrheidiol wrth roi brawddeg at ei gilydd, ac yn sicr lenyddwaith. Er enghraifft: yng ngolygyddol *Barddas,* 147-148, Gorff./Awst 1989, 4-5 bu Alan yn trafod beth oedd diben Blodeugerddi; a gallaf grynhoi ei gasgliadau deinamig fel y'u traethwyd hwy yn ôl pump neu chwech o osodiadau. Cyflyrir llên gan Bwrpas.

(a) *Y rheswm pwysicaf yw'r un gwladgarol: sef er mwyn i Gymry werthfawrogi eu hetifeddiaeth ieithyddol a llenyddol.* Mor Gymreig os annisgwyl yw'r fath gymhelliad anllenyddol cychwynnol.

(b) *Cynnig safonau i ni i gyd anelu atynt.* Y cymhelliad pedagogaidd.

(c) *Sicrhau bod y Gymraeg o ran egwyddor ar yr un lefel ag ieithoedd eraill o safbwynt y byd cyhoeddi.* Y cymhelliad seicolegol.

(ch) *Cynnig 'gwybodaeth' am gyfnod llenyddol neu ar themâu arbennig, neu wybodaeth hefyd am feirdd.* Y cymhelliad deallol.

(d) *Y blodeugerddi sy'n gwerthu orau. Ond nid dyma'r rheswm blaenaf dros eu cyhoeddi. Ni ellir ond diolch am hynny yn nannedd barbariaeth ryngwladol.* Eto, mae yna gymhelliad economaidd neu fasnachol.

(dd) *Ychwanega ef sylw gan Helen Gardner, yn crybwyll un o swyddogaethau blodeugerdd, sef ysgogi pobl i archwilio ymhellach waith beirdd unigol.* Y cymhelliad llenyddol pleserus.

Sylwer mai'r Cymhelliad gwladgarol, a hynny uwchlaw y materol, yw'r Cymhelliad cyntaf, a'r un y ceisiais wneud arolwg bras iawn ohono yn *Ysbryd y Cwlwm.*

Mewn man arall (*Barn,* Hyd.1978), mae ef yn trafod 'Diben ac Adolygu'; ac yn fynych yn ei drafodaethau ar gerddi mae yn ymdrin â'r hyn a ysgogodd y bardd, gan gyfrif fod hyn yn rhan ganolog o'r weithred lenyddol. Gwedd yw sy'n sylfaen i ysbrydoliaeth, awyrgylch, thema a ffurf. Mae ei ddiben ef ei hun yn amrywio rywfaint o gerdd i gerdd, o ymdriniaeth i ymdriniaeth. Nid er mwyn Cymru yn bynciol y bydd ef yn barddoni, diolch i'r drefn, ond er mwyn cyrraedd 'Perffeithrwydd' er yn ffaeledig, – er mwyn 'moli', ac er mwyn 'bodloni'i safonau'i hun'. A thybiaf mae ei ail gymhelliad cymdeithasol ef yn y fan yna – fel yn achos beirdd eraill, ac yn achos pob bardd-feirniad efallai, – yw hyfforddiant personol i ddysgu'r grefft farddol, ac yna i hyrwyddo beirdd eraill. Mewn rhyfel hefyd y mae o hyd, nid er mwyn 'Cymru' o ran methodoleg, ond er mwyn 'Cymry' unigol, ac er mwyn y ffrwythau ynddynt eu hunain.

### 5. Dysgu Dethol: a 'Chyfundrefnu Mynegiant' yn ôl Gwerth

Dethol yw pob defnydd o iaith a llenyddiaeth. Ni ellir dweud y cwbl. Mae yna *bosibiliadau* damcaniaethol gan ddyn i ddweud y cwbl sydd o fewn ei amgyffrediad; ond nid yw'n *gallu* dweud y cwbl hwnnw. Felly y mae, wrth feirniadu. Bydd pob un yn dethol neu'n gwahanu o hyd. Ond er mwyn cysoni'r meddwl, a chysylltu profiad *â* phrofiad, mewn gofod ac amser â'i gilydd, rhaid cael ymwybod o uno sy'n trefnu'r iaith. Rhoi ffiniau i'w cysylltu a wna dethol: gwahuno. Archddethol yw beirniadu: dethol gan feirniad wedi'i ddethol gan fardd.

Ceir hyn ar ddwy lefel. Ceir yn y meddwl cyffredin strwythurau neu gyfundrefnau sy'n ein huno fel Cymry o fewn iaith a llên. Bydd hyn yn ein meddwl Cymreig oll yn botensial yr un pryd; a hyn a ganiatâ i ni ddeall ein gilydd y funud yma, fel doe, a gobeithio

fel yfory. Ond wrth gwrs, ceir meddyliau neu frawddegau unigolyddol dros dro yn ymffurfio yn y meddwl, yn wir ar y tudalen hwn dan fy nhrwyn y funud yma. Ac unigolion amlochrog ydynt, nid yn y meddwl yn unig. A pheth felly yw beirniadaeth lenyddol ar bapur, yn 'orffenedig' am y tro.

Yr wyf am ystyried yn awr un o'r cyfrolau cynnar a olygwyd gan Alan Llwyd, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym.* Mae'n trafod Mynegiant Dafydd ap Gwilym. Mynegiant yw'r testun, a Mynegiant yw'r Feirniadaeth Lenyddol ei hun. Un o'r cyfrolau o feirniadaeth lenyddol fwyaf difyr yw a gyhoeddwyd yn y ganrif ddiwethaf. Dychwelaf i ddarllen y gyfrol hon ryw ben bron bob blwyddyn. Wrth gwrs, mae'n fuddiol i fardd o Gymro ddarllen Dafydd yn rheolaidd, ac yn uchel, – er mwyn ei ddychymyg, er mwyn ei gynghanedd ac er mwyn ei fywyd. Math o adolygiad yw'r detholiad hwn o waith Dafydd. Mae'r llyfr dan sylw yn batrwm o feirniadaeth ymarferol, a does dim cymorth gwell wrth ddarllen na chwmni da sy'n cyd-ryfeddu. Mae Alan yn ei feirniadaeth yn enghraifft loyw o beth felly.

Yr wyf am ddisgrifio'r fethodoleg a chynllun y feirniadaeth a gafwyd yn y gyfrol hon drwy amlinellu'r cyfraniad unigol gan Alan Llwyd ei hun iddi. Mae ganddo ei gyfraniad ar gerddi unigol, ond heblaw hynny ef sy'n golygu'r gyfrol, ac yn clytio sawl twll ynddi na fydd pob darllenydd efallai'n sylwi arnynt. Celwydd yw'r teitl i ddechrau. Medd y golygydd: '*Er mai 48 o gywyddau gwahanol a drafodir yma, ceir 50 o wahanol aralleiriadau'.* Ond nid 'cywyddau' yw pob un o'r 48. Mae pob cyfrannydd – ac fe geir pump o bencampwyr dehongliadol ein llên wrthi – wedi'u gwahodd i ddiweddaru deg o gywyddau yr un, o waith ein bardd Cymraeg mwyaf, sgrifennu pwt o ragymadrodd i'w adran ef o'r llyfr, ynghyd â diweddariad ar bob cerdd unigol, ynghyd hefyd â sylwadau beirniadol. Ond oherwydd anawsterau, bu'n rhaid i'r golygydd penderfynol lenwi ambell fwlch beirniadol ei hun. Bid a fo am hynny, gorffennwyd y gyfrol 'er gwaethaf pawb a phopeth' – dywediad y gwn i sydd yng nghefn meddwl Alan ymhob amgylchiad. A chefais i felly gyfrol na allaf adael llonydd iddi. Mae '*safon*' y gwaith os caf fenthyca hoff derm Alan, yn aruchel.

Yn ei Adran ef o'r gyfrol y mae Alan yn agor drwy ddisgrifio gwaith y bardd yn ei grynswth, a dechreua drwy gyffredinoli ynghylch statws a phwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol Dafydd. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei wneud gyda beirdd cyfoes fel arfer, yn arbennig yn y cyfnod diweddaraf oherwydd rhagfarnau, rhagdybiau, a materion newyddiadurol dros dro, dinodedd llawer o'r gwaith, ac yn bennaf am fod cymharu'n eang a phrisio cymhlethrwydd llenorion yn gofyn cryn adnoddau a chyd-destun amseryddol gorffenedig. Â Alan ati i nodi, yn wir i restru, y nodweddion y mae'n rhaid eu hystyried cyn dyfarnu camp Dafydd: newydd-deb, gwreiddioldeb; mynegiant gorffenedig, meistrolaeth ar

iaith a thechneg (mydr a chynghanedd er enghraifft); ffresni thema a delweddau. Mae'n ei gymharu yn hyn o beth â'i gyd-feirdd, gan fod cymharu'n diffinio. A sonia am ei gefndir bonheddig a roddai nid yn unig ryddid amser iddo, ond rhyddid dyletswyddol, hynny yw rhyddid i beidio â bod yn 'was' i uchelwr fel beirdd eraill.

Casglai y gellid canfod craidd ei gamp yn ei ddelweddu (fel y bu'n wir i'r ugeinfed ganrif eto) ac yn ei goegi, peth hefyd a gafodd eto le anrhydedd yn y ganrif ddiwethaf, ynghyd â difrifoldeb ynghylch teimladau tristwch a gorfoledd, cariad ac angau. O ran themateg, ystyrir pa wedd ar ei waith sydd flaenaf, ai serch ynteu natur. A noda farn Thomas Parry a Gwyn Williams ar hyn. Codai Thomas Parry gwestiwn – a oedd Dafydd yn canu i ferched go iawn ynteu ai dychymyg oedd y rhain? Hynny yw, i ba raddau y dibynnai ar ei ddychymyg? Mi dybiwn i mai gyda'r naill a'r llall yw'r ateb. Y dychymyg oedd yn cyfrif yn realistig o safbwynt dweud y gwir. Yr oedd yn ddychmyglon lythrennol. Trafodai ei gefndir yn ôl *amour courtois* yr Oesoedd Canol, a fformiwlâu y cyfryw ganu – e.e. serch yn salwch a achoswyd gan saethau Ciwpid, gyda'r fun ei hun yn gallu'i hiacháu. Enwir cywyddau o'r math hwn – 'Y Gwayw' a 'Saethu'r Ferch'. Cyfeirir yn benodol at fyfyrion a chanu Ofydd, *Ars Amatoria*. Ac esbonia fel yr oedd hyn oll yn ddiddanwch yn y plastai. Cyflwynai Ofydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i Ddafydd, ffigurau 'trydydd person' megis 'Eiddig' a serch godinebus (a wrthdrawai â defodau cymdeithas), llythyrau (llatai) 'ail berson', gweini i'r ferch, ac yn arbennig y dirgelwch cudd gweithredol ac ysbrydol mewn serch. Olrheiniai ddylanwad Ofydd trwy fudiad y Trwbadwriaid yn dod drosodd o Ffrainc, gan nodi ffurfiau arbennig megis yr *Aubade* (gwawrgan) – fel yn 'Y Wawr' a 'Dan y Bargod' gan Ddafydd. Yno, soniai Alan am waith Rachel Bromwich yn olrhain pwysigrwydd y gerdd *Roman de la Rose* a thraethawd Capellanus, sylfeini meddyliol rhyngwladol Dafydd, ac fel y soniai amdano'i hun fel 'dyn Ofydd' ac am 'Ofyddiaeth'.

Hynny yw, yr hyn a wnâi Alan oedd adeiladu'r amgylchfyd y tarddodd Dafydd ohono, a chredai ef mai dylanwad uniongyrchol oedd gwaith Ofydd. Yn y cyd-destun meddyliol hwnnw y gesyd ef ymagweddu at odineb, a'r ddyletswydd ar wŷr i fynd i ryfel oddi cartref a'r diffyg difrifoldeb gan ambell ffigur megis '*arch-noddwraig serch cwrtais Elinor o Aquitaine'* ynghylch ymrwymiad priodasol. Dyma hanes felly yn egluro'r themâu. Wedi'r rhagymadroddi, try Alan i lunio sylwebaeth ar bump o gywyddau unigol. Yr hyn a wna ar bob cywydd yw cydio mewn un neu ddwy nodwedd bob tro, rhywbeth difyr, rhyw nodwedd a ddywed rywbeth am lawer o'r gwaith yn gyffredinol. Dyma'r 'dethol' arwyddocaol. Yn 'Lluniau Crist a'i Apostolion' sonia am gelfyddyd weledol a diddordeb tebygol Dafydd yng nghrefft arlunwyr ei gyfnod. Drwy drafod 'trychiad' un gair:

*Martho –, ni wnaeth ymwrthod,*
*– Lamëus glaer weddus glod.*

crybwylla awgrym fod y 'trychiad' ieithyddol yn adlewyrchu'r modd y merthyrwyd Bartholomëus. A dyna mewn un gair awgrymu menter, dychymyg ieithyddol, a chraffter meddyliol Dafydd. Oddi wrth gelf weledol try at sôn am ddiddordeb y cantwr Dafydd mewn cerddoriaeth ym 'Marwnad Gruffudd ab Adda'. Ac fe ymdeimlwn â'r gymdeithas o feirdd cyfoes, gan fod Gruffudd yn canu'n debyg iawn i Ddafydd, yn arbennig gyda delwedd 'serch yn lladrata'. Fe'n cyflwynir yn nesaf yn 'Y Seren' i'r lle sydd i Natur wrth hwyluso neu wrth rwystro rhyddid serch.

Beth bynnag y bo barn darllenwyr am grefyddolder Dafydd, dengys y cywydd hwn y meddwl cyson sydd gan y bardd yn y dimensiwn hwnnw yn ei fywyd. Medd Alan, 'Gan mai Duw a wnaeth saeronïaeth y sêr', a thrwy hynny ennill parch a hawlio bendith Dafydd, naturiol ddigon yw i Ddafydd ei ddyfalu drwy gymharu sêr â gwrthrychau eglwysig â rhyw arlliw o grefyddolder yn perthyn iddynt. Y mae'r seren yn 'Gannwyll ehwybrbwyll', delwedd eglwysig ar un ystyr, y mae'n 'Afrlladen', yn 'ddysg saig y saint', yn 'waelod cawg y Drindod', yn 'faen mererid Mair' ac yn grwn fel 'torth', delwedd y gellir ei chysylltu â'r cymun eglwysig. Gan fod y delweddau hyn i gyd yn perthyn i'r un byd, rhydd hynny unoliaeth a chyfanrwydd i'r cywydd mewn cefndir.

Mae cynnal 'dosbarth' o ddelweddau yn debyg ei effaith i gynnal delwedd estynedig. A hynny a wna yn '*Y Serch Lledrad',* lle y mae Dafydd yn dod o hyd i undod yn nelwedd y lleidr ac undod y Cymeriad 'C'. Ond wrth gwrs, yr undod mwyaf a'r thema-ddelwedd bennaf a geir yng ngwaith Dafydd ap Gwilym (a fi sy'n honni hyn) yw *Cyd* sef cyfathrach rywiol, a ailadroddir yn Rabelaisaidd dros ben llestri o awgrymus ac erotig o gerdd i gerdd.
Ceir pentwr o 'Cyd' (gyda mwy nag amwysedd cyfathrach rywiol weithiau) ynddo – gyda geiriau fel 'Cyd-lwynach... Cyd-blannu bedw ...' ac yn y blaen yn herio dychymyg y gynulleidfa hyd yn oed am y coed mewn cerddi eraill. (Disgwylia'r cyhoedd y jôc hon.)

*Cydlwynach, difyrrach fu,*
*Coed olochwyd, cydlechu,*
*Cydfyhwman marian môr,*
*Cydaros mewn coed oror,*
*Cydblannu bedw, gwaith dedwydd,*
*Cydblethu gweddeiddblu gwŷdd.*
*Cydadrodd serch â'r ferch fain,*
*Cydedrych caeau didrain.*
*Crefft ddigerydd fydd i ferch –*
*Cydgerdded coed â gordderch,*
*Cadw wyneb, cydowenu,*

*Cydchwerthin finfin a fu,*
*Cyd-ddigwyddaw garllaw'r llwyn,*
*Cydochel pobl, cydachwyn,*
*Cydfod mwyn, cydyfed medd,*
*Cydarwain serch, cydorwedd,*
*Cyd-ddaly cariad celadwy*
*Cywir, ni menegir mwy.*

Gyda 'Thri Phorthor Eiddig', cawn un o'r cywyddau mwyaf eiconig o fewn thema'r rhwystrau. Tyn y golygydd sylw at y chwarae ar y gair 'cyd':

*Cyd gallai'r gŵr, cyd golli,*
*A'i wrych gawr a'i wrach a'i gi.*

Mae'r un gair heriol hwn yn aros gyda ni yn y cywydd nesaf 'Llychwino Pryd y Ferch' dan anadl ddrewllyd ei gŵr. Achwynir bod anadl y gŵr mor fudr nes hagru wyneb y ferch. A dichon yn y 'cyd-destun', fod eisiau crybwyll difrifoldeb hynny gan fod hyn yn amddiffyniad i ferch wrth gyfiawnhau ysgariad yng nghyfreithiau Cymru: LlB 64, 1: '*O tri achaws ny chyll gwreic y hegwedi kyt adawho y gwr: o glafri* (gwahanglwyf), *ac eisseu kyt, a dryc anadyl.'*

Un arall o'r cywyddau ynghylch 'salwch serch' yw'r cywydd byr 'Cystudd Cariad', megis 'Y Gwayw'. A chywydd 'llatai' yw 'Y Gwynt'. Yn wir, y mae'n nodedig fel y mae llawer o gywyddau Dafydd yn ddosbarthadwy yn ôl mathau go bendant. Yn wir er bod y cywydd 'Angof' yn ymddangos yn ynysig, yr hyn sydd yma eto yw 'rhwystr' gan mai Angof ynghylch 'caru tanbaid' yw'r hyn sy'n llesteirio'r serch.

Hynny yw, yr hyn y mae'r Beirniad-Fardd Alan yn ei wneud gyda ni mewn Beirniadaeth Fynegiant yw cerdded yn gwmni neu'n gydymaith gan grwydro o gwlwm i gwlwm, o thema i thema, o lenddull i lenddull, o ddelwedd i ddelwedd. Mantais i feirniad o'r fath yw bod ganddo wrth law amlinell yn ei feddwl o'r prif adnoddau. Yn achos Alan Llwyd, sylwadau am Fynegiant sydd yn y blaendir. Ond yng nghefn ei feddwl ef, ac yng nghefn ein meddyliau ninnau, codir 'arferion' gan y llenorion. Mae yna drefn amlochrog ac amrywiol iawn. Beth bynnag a dybiwn, Tafod anweledig (neu Gyn-Fynegiant) yw hyn iddo os cymerwn y term i olygu cynhysgaeth gadarn gudd. Mae yna werthoedd. Ac oherwydd ein bod yn gyfarwydd â hyn, yr ymwybyddwn â threfn yn yr hyn a ddarllenwn, ac undod cysondeb, a'r anweledig. Hyn sy'n cadarnhau effaith unol yr amrywiaeth. Mynegiant cyfnewidiol yw, wrth gwrs. Ond cyfoethogir y darllenydd neu'r beirniad gan ei fod eisoes wedi dysgu Tafod llenyddiaeth i ryw raddau. Cynghanedd yw.

**6. Hierarci'r Weithred Ddeunyddiol**

Pwnc mawr yw olrhain rhan 'Deunydd' o fewn Paramedrau Cyfundrefn o gyfundrefnau Beirniadaeth. Ac mae'r cwbl yn berthnasol i Alan Llwyd. Bûm yn cyfeirio at y mater yma ac acw o'r blaen sawl tro. Taro cis fel petai o fewn teyrnas Tafod. Mewn astudiaeth ddiweddar o waith Pantycelyn, sef *Y Cynllun Sy'n Canu*, ceisiais olrhain trefn camre anochel ei feddwl wrth iddo drin Deunydd o fewn y Weithred Lenyddol. Hynny yw ceisiwyd ystyried yn drefnus y gwahanol arweddau i'w cyfrif yn nhrefn olynol feddyliol y weithred ddeunyddiol ieithyddol. Hawdd fyddai camddeall cymhlethiad y gwaith hwnnw, pe dymunid. Peth cymhleth yw llenyddiaeth, megis bywyd. A thybiais mai priodol fyddai pwysleisio mai'r un gyfundrefn, yr un gydberthynas a chydlyniad hierarcaidd a geir gan Gristion ag a geir yng Ngweithred Lenyddol pob llenor seciwlar wrth ymwneud â'i ffrwythlondeb meddyliol yntau. Cyn i mi olrhain y modd y mae Alan yn ufuddhau i'r gofynion hyn gwell i mi *grynhoi'n* gynnil beth yw'r camre a'u trefn yn gyffredinol. (Trafodir hyn yn helaethach o lawer yn *Y Cynllun sy'n Canu*). Mae'r meddwl dynol ei hun, drwy Ras Cyffredin, yn undod fel hyn:

**(i) Yr Absoliwt**

|

**(ii) Deunydd**

|

**(iii) Cyfundrefn o Gyfundrefnau**

|

**(iv) Metanaratif a Themateg**

|

**(v) Llythrennol/Troadol**

|

**(vi) Motiff**

Dyna'r camre olynol gwahanol ar gyfer meddwl ynghylch Deunydd llenyddol. Soniais yn y bennod gyntaf mai'r gair *'Perffeithrwydd'* oedd y gair esthetig a ddefnyddiai Alan am y diben anochel a gonest sydd gan bob llenor yn y pen draw. Dyma'r **Absoliwt** cyflyrol, bid siŵr. Erbyn *Glaw ar Rosyn Awst* 1994, yr oedd yn edifarhau iddo erioed ddefnyddio'r fath air. Ond yr oedd y gath wedi llamu o'r cwd. Yn wir, yr oedd wedi dod i'w hawntio fel y bydd yn llercian yn anhysbys yn isymwybod pob llenor difrif. Onid e, nid yw'n gwybod ei fusnes. Da i bawb sy'n ymwneud ag iaith sylwi nad oes a'i hosgoa.

Rhagdybia Alan fod yna ddelfryd sy'n ddichonadwy, fod yna Nod bob amser; a golygir i'r nod yna fod yn ddi-fai, yn eithafbwynt Cymhelliad, yn safon nad oes ei hosgoi. Hyn hefyd sy'n cyflyru ac yn amodi. Hyn yw safle meddyliol ac angenrheidiol yr Absoliwt.

Wedyn, y **Deunydd** – sef popeth; ac felly Absoliwt yw eto. Nid oes iddo ffiniau. Ond y mae'n dal yn real hyd yn oed pan gyfyd gerbron mewn egwyddorion neu mewn pynciau. Ac yr oedd gan Alan hefyd (ar ffurf unigryw), ei deulu, ei gyfnod, a'i Gymru. A'r hyn sy'n anochel iddo, yn fwy felly nag i'r un o'i gyfoeswyr o bosib, yw'r fframwaith ffrwythlon o Drefn: y ffurfiau cyfareddol; y ddisgyblaeth hyfryd; y weledigaeth o ystyr luniaidd sydd y tu hwnt i'r chwalfa gyson a brofir mor aml mewn Serch, Natur, ac adeiladwaith Cymdeithas. Creadigaeth yw pob ffurf iddo yn y pen draw. Ymffurfia hyn oll yn stori, yn achlysur wrth gwrs a oleddfir gan bob dim a'i rhagflaenodd yn yr hierarci. Bob amser mae yna 'rywun' ymwybodol; bob amser y mae yna 'ddigwydd' ymwybodol mewn 'amgylchfyd' ymwybodol, boed mewn serch, mewn taith, mewn brwydr, mewn brad, mewn gwlad. A dwg y digwydd hwn ei fodd, a'i amser a'i leoliad. Hynny yw, y mae iddo seiliau a threfn esthetig, gwerthusol, a sylweddus. Digwydd hyn oll mewn iaith hefyd; ac y mae'r iaith honno hefyd yn her ac yn llythrennol; ac yn fwy o her ystyrol pan fo yn ei throadau a'i ffigurau. Gwelir cysylltiadau a gwyriadau trwyddi; a'r iaith yn ymwthio'n lliw seiniol i gyd.

I lawr, bellach, hyd at y gair unigol (a'r ymadrodd a'r frawddeg), y pwynt lleiaf ac eithaf mewn thema – ceir y **Motiff**. Dyna'r olyniaeth i gyd a ddechreuwyd ac a amodwyd yn y gair 'perffeithrwydd'. Fel gyda cherddi Alan, felly yn ei feirniadaeth: gellir olrhain hierarci'i weithred lenyddol, yn wir fel gyda phobun ym myd llên – gyda'r Cristion Pantycelyn megis gyda'r Dyneiddiwr Materol Talhaiarn. Mae yna anocheledd ffurfiol hierarcaidd yn y ffordd y trafodant oll eu deunydd yng ngoleuni math o wirionedd dychmygol ond absoliwt. Fframwaith sefydlog sydd o ddefnyddio iaith. Ac mae yna berffeithrwydd ac anocheledd yn gynhenid yn yr Hierarci yma, fel y mae perffeithrwydd ar ryw olwg mewn Cynghanedd hefyd: perthynant i'r Absoliwt yn y gwraidd. Yr Absoliwt am y pegwn â'r Motiff.

Sylwer ymhellach ar **(1),** wedi arolygu'n rhestrol y chwe cham uchod. Mae Alan yntau'n derbyn bod Perffeithrwydd yn bod ar wahân i'r unigolyn, yn Absoliwt. Cyn i fardd ymdrechu i'w gyrraedd, y mae yno i ymestyn ato o'r dechrau. Nid ein dealltwriaeth ni o'r Absoliwt yn unig a olygir, felly, gan fod hynny'n ffaeledig, ond ei fodolaeth a'i ddatguddiad annibynnol mewn patrwm o greu llenyddiaeth. Nid mater o farn yw a oes Absoliwt neu beidio (neu'n bwysicach a oes yna berthynas rhwng y gwaith a'r Absoliwt), ond mater o brawf dirfodol (sef profiad beirniadol diosgoi). Mae'n achos, mae'n rhagdyb. Ar ryw olwg, dyma'r hen syniad am yr Awen. Llunnir perthynas rhwng yr Absoliwt a

pherson dynol, nid trwy ymdrech gyntaf ar ran yr isod i gyrraedd yr uchod, ond gan ymestyniad o'r uchod tuag at yr isod. Nid drwy'r deall yn unig, ac nid heb y deall chwaith, y mae'r Awen a dyn yn perthyn. Perthynas yw rhwng y cwbl o ddyn a'r cwbl o'r Awen, rhwng yr Hollbresennol a byd natur. I bob Cymro, cefndir Cristnogol sydd i'r fath gred. A gwyddom oll fod y cyrch yn ffaeledig.

Rhyddid i holi goddrychol bythol oedd caethiwed Socrates: caethiwed i ateb pendant gwrthrychol yw rhyddid y Cristion. Wrth gofio moeseg a diarhebion a phriod-ddulliau, a hyd yn oed wrth fentro darllen y Beibl, nid ceisio cytuno â Duw a wnâi beirdd y traddodiad Cymraeg, ond ceisio adnabod ac addoli Duw. Felly y bydd celfyddyd hithau er ei gwaethaf. Nid â'r deall yn unig yr ydym yn deall. Proses bersonol yw: nid gwybod y gwirionedd ond adnabod y Gwirionedd. I artist, tlawd fydd rheswm heb y corff, a thlawd yw'r corff heb yr ysbryd. Cydlyniad yw llenyddiaeth i feirniad bob amser.

Sylwer yn awr hefyd ar **(3)** yn arbennig.

Mae'r ymdriniaeth hon ar Alan wedi bod yn ymwybodol iawn o **Gyfundrefnau** (boed yn gyffredinol mewn Tafod neu'n fwy cynwysedig ac unigolyddol mewn Tafod). Soniais yn Rhan (1) am dri pherson y rhagenw, a'r tri dimensiwn sy'n llunio safbwynt bob llenor. I fodernwyr (fel Proust), bu archwilio'r hunan yn waith oes. Ac felly y bu hi gydag Alan: (*Glaw ar Rosyn Awst,* 27): '*" Beth sydd mewn enw?" gofynnodd Shakespeare. Llawer iawn: arwahanrwydd, poen.'* (ibid. 311) '*Dysgais mai brwydr i sefydlu'r hunan oedd bywyd o'r dechrau.'*

Mae hyn yn ymgysylltu â hunaniaeth person Alan, ac â'r hyn y mae'n ei drafod: **Thema**. Hyd yn oed wrth ymddal o fewn safbwynt y trydydd person, y mae Alan yn gwneud hynny'n llwyddiannus ac yn fyw am ei fod yn ei uniaethu'i hun yn gyd-deimladol â'r gwrthrych absennol. Cymerer un enghraifft 'Hedd Wyn'. '*Gan fy nhaid y clywais i enw Hedd Wyn gyntaf. Roedd yn adnabod Ellis Yr Ysgwrn ... Ganddo fo y clywais stori'r Gadair Ddu am y tro cyntaf erioed, a byddwn yn gofyn iddo adrodd yr hanes wrthyf yn fynych'.*

Roedd Alan hyd yn oed wedi cyfarfod yn bersonol â Jini Owen, cariad Hedd Wyn; daeth hi i mewn i'r siop i longyfarch Alan ar ennill y gadair. Ac yr oedd Hedd Wyn, er mawr falchder i Alan, wedi llunio hir-a-thoddaid coffa i un o dylwyth Alan, Cadwaladr Roberts. '*Hedd Wyn oedd y bardd cyntaf i mi glywed amdano,'* meddai. Yn y dechrau yr oedd y diwedd. Astudiodd englynion R. W. Parry i Hedd Wyn ar gyfer Lefel O. Enwyd ei blentyn hynaf yn Ioan Hedd. Awdl i Hedd Wyn oedd yr awdl gyntaf iddo erioed ei llunio. Wrth droi at gyfrol megis *Gwaedd y Bechgyn,* yr un yw'r ysgogiad personol. Heddychwr rhonc oedd taid Alan, yr un a adroddasai'n gyntaf am y bardd, '*Mi ydw i'n dal hyd heddiw mai fy nhaid a*

*blannodd fy niddordeb yn y Rhyfel Mawr ynof, a hefyd fy atgasedd cyhenid at ryfel.'* Felly y ffurfiwyd Alan Llwyd drwy drugaredd yn fardd ac yn feirniad i weithio mewn cyd-deimlad celfyddydol â galar, er gwaethaf pawb a phopeth, yn bur obsesiynol er mwyn, o fewn, ac er lles i'r hunaniaeth Gymraeg. Ei natur ef yw'i ddawn.

Ar ddechrau'r bennod hon, awgrymais fod Alan Llwyd, yn sgil ei ymgais i lunio llenfathau gwahanol, wedi symud tuag at olwg unol ar feirniadaeth. Dilynai'i ddiddordebau gwahanol – cofiant, Cerdd Dafod, disgrifiadau ymarferol, hanes cyfnod, ac yn y blaen. Roedd ganddo bid siŵr ragdyb ynghylch undod Bywyd. Ond dechreuodd ar ei yrfa heb theori gyfansawdd. Symudai o waith i waith felly. A chan bwyll synhwyrai gydlyniad. Yn raddol, datblygai olwg crwn a gweledigaethus: cafwyd theori drwy gyfansoddrwydd llenfathau.

Rhoddodd at ei gilydd fframwaith beirniadol i fardd ailfeddwl y ffordd yr wynebai'r ugeinfed ganrif a'i hawydd cyndyn hi ei hun am hunanladdiad. Drwy amlochredd, sianelodd Alan ei ateb yn erbyn y cyfeiriad ingol ac anneallus hwnnw o **Fetanaratif Ôl-fodernaidd** nihilistiaeth, coegi sefydliadol, sgeptigiaeth, realaeth negyddol-yn-unig, amwysedd diddirwyn-i-ben, chwalfa cyfeiriad, distryw gwallgof, anobaith anferth, israddoldeb caeedig. Archwiliodd ef y tywyllwch hwnnw oll, a'i gael yn brin. Ond drwy'i apêl gadarn ef am ffurf fel anghenraid di- ddewis, fe roddodd ef ei dewis mawr yn ôl i Gymru.

[*Bydd y darllenydd yn sylweddoli bod yr arolwg dethol hwn o Feirniadaeth Lenyddol o Iolo hyd Alan Llwyd wedi'i ysgrifennu yn ôl fframwaith ymwybodol theoretig o Feirniadaeth Gyfansawdd. Gwnaethpwyd hynny oherwydd argyhoeddiad, beth bynnag am y rhyddid a'r ysbrydoliaeth a'r crebwyll rhyfedd a gysylltir â llenyddiaeth, ei bod hithau yn rhannu hanfodion dyluniad cyflawn a chysylltiol, yr un fath â phopeth arall yn y greadigaeth. Ni raid addef nad theori '*gyflawn*' a addewid. Peth amhosibl. Ond mynnai'r theori hon arolygu prif baramedrau tybiedig Beirniadaeth Lenyddol Gyfansawdd. Amlinellwyd o'r blaen y strwythurau pennaf sy'n cynnal y theori hon, yn syml ac yn elfennol yn* Beirniadaeth Gyfansawdd, 2003. *Tarddodd y theori yn yr ymwybod byw o arwyddocâd anochel yr Absoliwt, rheidrwydd y deall a'r profiad i 'wahuno' er mwyn ffurfio ystyr, a'r arwyddocâd modern o 'fawl', sy'n gorfod gweithio drwy werth, trefn, a diben. Ni all nac iaith na llenyddiaeth symud heb y priodoleddau hyn. Rhoddwyd cryn flaenoriaeth, felly, i ffeithioldeb 'cyfundrefn' fel ffactor hanfodol ym mhob gwedd ar adeiladwaith y bydysawd. Esgorodd y rhagdybiau hyn oll ar yr hyn a ystyriaf yn ateb cyfansawdd i Ôl-foderniaeth. A gosodwyd y theori hon gerbron fel ateb Cymreig cyfansawdd i herio dogmâu sgeptig yr amseroedd. Hynny felly yw'r rhagosodiad meddyliol sy'n rhoi undod i'r holl arolwg hwn o Feirniadaeth Lenyddol Ddiweddar.*]